# Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

## Papurau i'w nodi: pecyn llawn

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**2.1 39ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

(Tudalennau 1 - 2)

Dogfennau atodol:

- Ymateb gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Jersey - 19 Gorffennaf 2023
- Ymateb gan y Prif Weinidog: 39ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig - 28 Gorffennaf 2023

**2.2 Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol**

(Tudalennau 3 - 20)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan y Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol - 18 Gorffennaf 2023
    - Atodiad 1: Gronfa Sgiliau Cymru Greadigol - Cyllid prosiectau

**2.3 Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Diogelwch Eiddo a Diogelwch Personol a Gwasanaeth Integredig mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill**

(Tudalennau 21 - 31)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Diogelwch Eiddo a Diogelwch

Personol a Gwasanaeth Integredig mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill - 12 Gorffennaf 2023

    - Atodiad 1: Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - Cytundebau rhyngwladol: Cytundebau a ystyriwyd ar 10 Gorffennaf 2023 - Gorffennaf 2023

- Llythyr at y Prif Weinidog: Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Diogelwch Eiddo a Diogelwch Personol a Gwasanaeth Integredig mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill - 14 Gorffennaf 2023
- Ymateb gan y Prif Weinidog: Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Diogelwch Eiddo a Diogelwch Personol a Gwasanaeth Integredig mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill - 25 Gorffennaf 2023

## 2.4 Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol

(Tudalennau 32 - 118)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol - 17 Gorffennaf 2023
    - Atodiad 1: Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai - Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol - Gorffennaf 2023

## 2.5 Craffu ar Ddarlledu

(Tudalennau 119 - 238)

Dogfennau atodol:

- Adroddiad Blynyddol 2022-23 S4C: Craffu ar Ddarlledu

**2.6 Lleoli Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol Amenedigol Gogledd Cymru**

(Tudalennau 239 - 240)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan Cymdeithas yr Iaith: Lleoli Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol Amenedigol Gogledd Cymru - 10 Gorffennaf 2023

**2.7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

(Tudalennau 241 - 250)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Amserlen Cyllideb Ddrafft 2024-25 - 17 Gorffennaf 2023
- Ymateb gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Amserlen Cyllideb Ddrafft 2024-25 - 21 Gorffennaf 2023
- Ymateb gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid: Newidiadau Arfaethedig i Brotocol Proses y Gyllideb - 20 Gorffennaf 2023

**2.8 Cyhuddiadau yn ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru**

(Tudalennau 251 - 258)

Dogfennau atodol:

- Ymateb Chwaraeon Cymru: Adroddiad ar yr Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru - 20 Gorffennaf 2023
- Llythyr gan y Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Adroddiad ar yr Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru - 28 Gorffennaf 2023 (Saesneg yn unig)
- mateb Llywodraeth Cymru: Adroddiad ar yr Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru
- Sport Resolutions: Diweddariad ar Adolygiad Annibynnol Undeb Rygbi Cymru - 31 Gorffennaf 2023 (Saesneg yn unig)

## 2.9 Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru

(Tudalennau 259 - 371)

Dogfennau atodol:

- Adroddiad y Panel Arbenigol ar yr Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru: Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru - 2 Awst 2023
- Adroddiad i'r Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru: Adolygiad o gyfrifoldebau a phwerau darlledu mewn gwledydd penodol - Ionawr 2023
- Tueddiadau darlledu: dadansoddiad ar gyfer y Panel Arbenigwyr Darlledu Cysgodol: Sut y bydd datblygiadau technoleg yn y dyfodol yn effeithio ar wylio cynulleidfaoedd a'r defnydd clywedol - 2 Awst 2023
- Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru: cyfryngau plant yn 2023: Asesiad o sut mae'r argymhellion yn effeithio ar gyfryngau plant - 2 Awst 2023

## 2.10 Craffu ar Gomisiynydd y Gymraeg

(Tudalen 372)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg: Adroddiad Sicrwydd 2022-2023 - 19 Gorffennaf 2023

## 2.11 Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru

(Tudalennau 373 - 374)

Dogfennau atodol:

- Ymweliadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru - Gorffennaf 2023 (Saesneg yn unig)
- Ymweliadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru - Awst 2023 (Saesneg yn unig)

**2.12 Achub Cylchgronau a Gwefannau Cymraeg**

(Tudalennau 375 - 386)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at Lywodraeth Cymru, Cymru Greadigol a Chyngor Llyfrau Cymru: Achub Cylchgronau a Gwefannau Cymraeg - 11 Awst 2023
- Gohebiaeth gan Achub Cylchgronau a Gwefannau Cymraeg - 7 Medi 2023 (Saesneg yn unig)

**2.13 Newyddiaduraeth er budd y cyhoedd**

(Tudalennau 387 - 412)

Dogfennau atodol:

- Adroddiad Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru: O Gymru ac i Gymru: tuag at ddyfodol cynaliadwy ar gyfer newyddiaduraeth er budd y cyhoedd - 21 Gorffennaf 2023

**2.14 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)**

(Tudalennau 413 - 417)

Dogfennau atodol:

- Ymateb gan Llywodraeth Cymru: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 1 a Rhif 2 ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

19 Gorffennaf 2023

Annwyl Huw,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Jersey**

Ymhellach at fy llythyr ar 12 Mehefin ynghylch y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Jersey a'r drafodaeth ynghylch polisi tai ac ynni, hoffwn dynnu eich sylw at fy natganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd heddiw, ac at hysbysiad y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig sy'n crynhoi canlyniadau'r Uwchgynhadledd.

Tra oeddwn yn yr Uwchgynhadledd, manteisiais ar y cyfle i gael cyfarfodydd anffurfiol, dwyochrog â Phrif Weinidog Jersey, y Cynrychiolydd Kristina Moore; y Taoiseach Leo Varadkar TD; y Tánaiste Micheál Martin TD; Prif Weinidog yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Humza Yousaf ASA; a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

28 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth,

**Parthed: Y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol: 39ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf, yn gofyn a fyddai modd i ohebiaeth yn y dyfodol ynghylch Cyngor Prydain Iwerddon, a anfonir yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru, gael ei rhannu â'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Rwy'n cadarnhau y byddwn yn hapus i wneud hynny.

Mae dolen i'r cyd-hysbysiad ar gyfer yr Uwchgynhadledd ddiwethaf ar gael drwy'r datganiad ysgrifenedig a roddais ar ôl yr uwchgynhadledd, sydd ar gael yma: [Datganiad Ysgrifenedig: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Jersey (19 Gorffennaf 2023) | LLYW.CYMRU]

Dymuniadau gorau

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Dawn Bowden AS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth,

**Ymchwiliad i'r heriau a wynebir gan weithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Mehefin yn gofyn am wybodaeth ychwanegol yn dilyn fy mhresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 25 Mai 2023. Nodir isod yr wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani.

***Amcanion ar gyfer y sector diwydiannau creadigol***

Mae amcanion allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiannau creadigol wedi'u nodi yn ein dogfen blaenoriaethau Blaenoriaethau ar gyfer Sector y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru (Cymraeg).pdf. Mae ein hamcanion hefyd yn gyson ag ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu sy'n gysylltiedig â datblygu sgiliau ac ymchwil ar gyfer y diwydiannau creadigol.

***Data arolwg o'r diwydiannau creadigol***

Gellir gweld canfyddiadau Arolwg Diwydiant cyntaf Cymru Greadigol yma. Y bwriad yw cynnal yr arolwg hwn yn flynyddol, a bydd arolwg y flwyddyn hon yn mynd yn fyw ym mis Gorffennaf 2023. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2023 a bydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Ar eich cais, bydd dolen i'r adroddiad yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor pan fydd ar gael.

***Cymorth ar gyfer yr is-sectorau Celfyddydau a Cherddoriaeth***

*Y Celfyddydau*
Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1m o gyllid ychwanegol i gefnogi pwysau costau byw yn sector y celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, gyda £500k ar gyfer 2022-23 a £500k ar gyfer 2023-24. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi darparu dadansoddiad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NS

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

o'r Dyfarniadau Costau Byw a wnaed i'w bortffolio presennol, sy'n cynnwys nifer o sefydliadau y mae cerddoriaeth yn ffocws allweddol iddynt a llawer o sefydliadau eraill y gellir dosbarthu elfen sylweddol o'u gwaith i'r categori 'cerddoriaeth'. Ar 19 Mehefin, lansiodd Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd daliad costau byw atodol ar gyfer grantiau presennol. Bydd pedwar cylch ymgeisio a fydd yn rhedeg tan fis Ionawr 2024.

*Cerddoriaeth*
Ers ei lansio, mae Cymru Greadigol wedi darparu cymorth i amrywiaeth o fusnesau sy'n creu seilwaith amlweddog y sector cerddoriaeth fyw. Wrth wraidd y diwydiant y mae'r lleoliadau cerddoriaeth fyw a ystyrir yn aml yn adran Ymchwil a Datblygu lle y mae artistiaid yn dysgu eu crefft. Nodir isod wybodaeth am y cynlluniau a gyflawnwyd hyd yma i gefnogi'r sector cerddoriaeth:

| | | |
|---|---|---|
| Cynllun peilot lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad 2020 | Cynllun buddsoddi cyfalaf ar gyfer lleoliadau a gyflwynwyd cyn y brigiad o achosion o COVID-19, a ddatblygodd y gyflym yn gronfa adferiad | £19,500 i bedwar lleoliad |
| Cronfa adferiad cerddoriaeth llawr gwlad 2020 | Y gronfa gymorth gyntaf yn y DU a grëwyd i gefnogi lleoliadau cerddoriaeth ar ddechrau'r brigiad o achosion o COVID-19 | £401,551 i bedwar lleoliad |
| Cronfa Cyfalaf Cerddoriaeth 2021/22 | Drwy'r grant o hyd at £10k, bu modd i'r diwydiant cerddoriaeth fuddsoddi yn ei adferiad a'i dwf ei hun yn dilyn y pandemig drwy annog newid sylweddol i gyfleusterau'r diwydiant, er budd artistiaid a chynulleidfaoedd. | £511,703.44 i 56 o leoliadau cerddoriaeth fwy, stiwdios recordio a mannau ymarfer |
| Cronfa Refeniw Cerddoriaeth 2022/23 | Cyllid refeniw o hyd at £10,000 ar gyfer busnesau rheoli cerddoriaeth a labeli cerddoriaeth i ddarparu cymorth ychwanegol ac ymgyrchoedd cryfach ar gyfer digwyddiadau rhyddhau arfaethedig er mwyn gwella eu cynaliadwyedd a'u rhagolygon masnachol. | £129,000 i 13 o fusnesau |
| Cronfa Cyfalaf Cerddoriaeth 2023/24 | Cronfa Gyfalaf gystadleuol wedi'i hanelu at gefnogi lleoliadau cerddoriaeth fyw â phrosiectau cyfalaf mwy | Dyraniad o £200,000 - Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 14 Gorffennaf 2023. |

Mae'r prosiectau hyn yn ategu'r cyllid a ddyfarnwyd i'r sector cerddoriaeth drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol (CAD), a ddarparodd:

- CAD1: £4.2m i 72 o leoliadau
- CAD2: £2.56m i 60 o leoliadau a chyflenwyr
- CAD3: £1.24m i 59 o leoliadau a chyflenwyr

*Trosiant ym mhob is-sector a gefnogwyd gan Cymru Greadigol dros y tair blwyddyn ariannol diwethaf*

Trosiant ar gyfer 2019-2021 yn ôl is-sector

| Sector | 2019 | 2020 | % y newid | 2021 | % y newid |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Diwydiannau Creadigol | £1,643m | £1,640m | -0.2% | £1,705m | 4.0% |
| Sgrin | £531m | £424m | -20.2% | £575m | 35.6% |
| Cerddoriaeth | £194m | £321m | 65.5% | £349m | 8.7% |
| Digidol | £289m | £269m | -6.9% | £270m | 0.4% |
| Cyhoeddi | £612m | £614m | 0.3% | £503m | -18.1% |
| Newydd | £257m | £245m | -4.7% | £239m | -2.4% |

***Presenoldeb cynulleidfaoedd***

*Y Celfyddydau*
Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi casglu gwybodaeth am ffigurau cynulleidfaoedd drwy Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru 2022/23. Mae dolen i uchafbwyntiau'r arolwg wedi'i darparu - [Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru 2021-2022.]() Mae'r canlyniadau hyn yn dangos cynnydd bach yn y ffigurau ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn diwethaf, ond nid yw'r ffigurau hyn wedi cyrraedd y lefelau a welwyd cyn y pandemig eto. Drwy gymharu'r ffigurau hyn â data'r Asiantaeth Cynulleidfaoedd a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022, gellir gweld bod cynulleidfaoedd yng Nghymru a'r Alban yn dychwelyd yn arafach i weithgareddau diwylliannol wyneb yn wyneb na chynulleidfaoedd yn Lloegr.

*Cerddoriaeth*
Ni chaiff gwybodaeth am ffigurau cynulleidfaoedd yng Nghymru yn unig ei chasglu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae cynnwys rheolaidd a chydberthynas agos Cymru Greadigol â lleoliadau drwy ei grŵp rhanddeiliaid cerddoriaeth yn ein galluogi i gasglu gwybodaeth ddibynadwy am faterion fel lefelau cynulleidfaoedd a thueddiadau prynu tocynnau. At hynny, defnyddir tystiolaeth a gesglir gan gyrff cynrychioliadol fel yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth hefyd fel ffynhonnell tystiolaeth i ddeall tueddiadau cyffredinol. Gellir gweld adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth am leoliadau a phresenoldeb ar lefel y DU drwy ddilyn y ddolen hon - [MVT_Annual-Report_FINAL_web-enabled_Single-Page-version.pdf.pagespeed.ce.9aZNccFsbl.pdf (musicvenuetrust.com)]().

***Hwyluswyr Llesiant***

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i nodi cyfleoedd i ddysgu o arferion da mewn mannau eraill i gefnogi gwelliannau i ddiwylliant cyflogeion, rheolwyr a gweithleoedd yng Nghymru. Mae Cymru Greadigol yn gweithio'n agos gydag Elusen Ffilm a Theledu y DU gyda'r nod o argymell *The Whole Picture Toolkit* yn nodiadau canllaw Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol er mwyn annog rheolwyr ac arweinwyr creadigol yn y sector sgrin yng Nghymru i ofalu am iechyd meddwl eu tîm.

Mae'r sector cerddoriaeth fyw a meysydd creadigol eraill yn awyddus i ddilyn arweiniad y prosiect Hwyluswyr Llesiant yn y sector sgrin. O ganlyniad, ffocws ail flwyddyn y cynllun

peilot Hwyluswyr Llesiant, sy'n cael ei arwain gan undebau a'i ariannu gan Cymru Greadigol, fydd adolygu a nodi sut y gallai'r model hwn weithio mewn sectorau eraill.

Yn ddiweddar, mae Cymru Greadigol wedi darparu cyllid, drwy'r Gronfa Sgiliau Creadigol, tuag at Gynllun Peilot Grymuso Gweithwyr Creadigol Llawrydd, sydd wedi hyfforddi 15 o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar draws y pedwar undeb creadigol sy'n gweithio yn y sector Sgrin, Digidol a Cherddoriaeth.

Rydym yn parhau i gyfrannu at adolygiad Canolfan Polisi a Thystiolaeth y Diwydiannau Creadigol o arferion gweithio yn y diwydiannau creadigol. Cyfarfu fy swyddogion â'r Ganolfan yn ddiweddar i drafod opsiynau i gefnogi gwaith teg ymhellach yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Ganolfan. Mae hyn yn cynnwys defnyddio rhwydwaith y DU gyfan a ddatblygwyd i gefnogi'r adolygiad i ystyried y mapiau trywydd sy'n cael eu datblygu gan weinyddiaethau eraill mewn ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad i nodi cyfleoedd i ddysgu.

***Gweithgarwch a gefnogir gan Cymru Greadigol***

Ceir manylion am y 17 o brosiectau a ariennir drwy Gronfa Sgiliau Cymru Greadigol, gan gynnwys y symiau a ddyfarnwyd i bob prosiect, ar gael yn **Nogfen 1.**

***Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant***

*Prosiectau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant*

Mae'r tri phrosiect canlynol a ariennir drwy'r Gronfa Sgiliau Creadigol wedi'u dylunio i gefnogi a gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector sgrin:

- Prosiect Re-Focus a gynhelir gan Hijinx - Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd Dysgu ar gyfer y diwydiant sgrin yw Re-Focus, sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r diffyg cynrychiolaeth cronig i bobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth ar y sgrin a'r tu ôl i'r camera. Mae dwy ran i'r prosiect hwn: bydd y rhan gyntaf yn darparu hyfforddiant undydd wyneb yn wyneb ar ffurf sesiynau theatr a chwarae rôl anffurfiol, wedi'u harwain gan actorion Hijinx sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth. Bydd y sesiynau'n adlewyrchu senarios pob dydd, gan roi enghreifftiau bywyd go iawn o sefyllfaoedd ar set, y broses ôl-gynhyrchu, a'r broses o ddatblygu prosiect sgrin. Bydd ail ran y prosiect yn cynnwys sefydlu Asiantaeth Hwyluswyr Creadigol, gan ddarparu Hwyluswyr Creadigol wedi'u hyfforddi ar gyfer y sector er mwyn helpu pobl ag anableddau dysgu/awtistiaeth i gael gwaith. Bydd y cyllid yn helpu i hyfforddi cronfa o Hwyluswyr Creadigol a allai wedyn gael eu cyflogi gan gynyrchiadau.
- rad Cymru - prosiect a gynhelir gan ddarparwr hyfforddiant TRC. Cymru Greadigol sy'n ariannu ail flwyddyn y prosiect hwn, mewn partneriaeth â BBC Cymru Wales a Channel 4. Mae'r cynllun hwn yn cynnig hyfforddeiaeth wyth mis â thâl i wyth hyfforddai mewn wyth cwmni cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru. Mae'r fenter hon yn helpu i ddileu'r rhwystrau a galluogi pobl o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol i fanteisio ar leoliadau â thâl, hyfforddiant ac arweiniad.
- Cyswllt Diwylliant Cymru - prosiect sy'n cael ei gynnal gan Watch Africa CIC, a'i ariannu gan Cymru Greadigol mewn partneriaeth â phedwar darlledydd; BBC Cymru Wales, ITV Cymru Wales, S4C a Channel 4. Mae Cyswllt Diwylliant Cymru, sydd bellach ar drothwy ei thrydedd blwyddyn, yn helpu talent amrywiol i ddod o hyd i gyfleoedd yn y sector ffilm a theledu yng Nghymru. Wedi'i gynnal gan y gymuned a throsti, mae Cyswllt Diwylliant Cymru yn hyrwyddo swyddi a chyfleoedd ac yn cynnig cyngor a chymorth i bobl sy'n awyddus i ymuno â'r sector.

Mae prosiect Beacons, a ariennir hefyd gan y Gronfa Sgiliau Creadigol, yn datblygu nifer o feysydd cymorth newydd a fydd yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau i ddatblygu gweithlu newydd amrywiol ac iach yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru, gan gynnwys:

- Resonant - prosiect sydd â'r nod o rymuso pobl ifanc (18-25 oed) sy'n ystyried eu bod o rywedd wedi'i ymyleiddio, i weithio y tu ôl i'r llenni yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.
- SUMMIT 2024 - cynhadledd arloesol ar gyfer y diwydiant cerddoriaeth, sydd wedi'i dylunio ac sy'n cael ei chynnal gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. (Cynhaliwyd y bedwaredd uwchgynhadledd)
- Bŵts - cyfres ddwyieithog newydd o fideos codi ymwybyddiaeth sy'n dangos llwybrau pwysig i weithlu'r diwydiant cerddoriaeth. Bydd y gyfres hon yn rhoi cipolwg ar brofiadau gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru ac yn helpu pobl ifanc i gynllunio eu dyfodol yn hyderus
- TransForm Music - i ddatblygu pecyn hyfforddiant ochr yn ochr â darparwyr Umbrella Cymru, arbenigwyr ym maes cymorth Rhywedd ac Amrywiaeth Rywiol. Bydd y bartneriaeth hon yn canolbwyntio ar wneud y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru yn lle mwy diogel a chynhwysol i bobl drawsrywiol ac anneuaidd. Pan fydd wedi'i ddylunio, bydd y pecyn hyfforddiant hwn yn cael ei gynnig i chwe randdeiliad yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.

Yn y sector digidol, mae Cymru Greadigol yn cefnogi dau brosiect drwy'r Gronfa Sgiliau Creadigol:

- Ffowndri Gemau Cymru - rhaglen naw mis o hyd a gynhelir gan Iungo Solutions i gynnig nifer o bwyntiau mynediad a gadael i amrywiaeth o rolau technegol yn y diwydiant gemau cyfrifiadurol. Bydd y Ffowndri yn targedu unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n awyddus i newid gyrfa ac unigolion sydd wedi'u tangyflogi, gan helpu i'w huwchsgilio ar gyfer rolau ym maes dylunio a datblygu gemau cyfrifiadurol.
- Gêm - Hyb Gemau Cyfrifiadurol lefel mynediad annibynnol er mwyn helpu i fynd ati'n strategol i ddatblygu darpariaeth hyfforddiant sy'n cwmpasu gofynion lefel mynediad ar lefel 1, 2 a 3 fframwaith BTEC, gyda'r nod o ddatblygu gweithlu creadigol sy'n adlewyrchu pob cymuned.  Caiff Gêm ei gynnal gan Academi Cyfryngau Cymru, sydd â phrofiad helaeth o weithio gyda phobl ifanc sydd wedi'u hymyleiddio.

At hynny, yn y sector cyhoeddi, mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi cael cyllid gan Cymru Greadigol i gynnal dau gylch o'i Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd. Datblygwyd y Gronfa i gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector. Mae'n canolbwyntio ar gefnogi cynnwys sy'n adlewyrchu pobl o bob oed a chefndir a chynrychiolaeth deg yn y sector.

*Data ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant*

Mae ystadegau blynyddol Cymru Greadigol yn cynnwys dadansoddiadau mewn perthynas â data ar amrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys oedran, rhyw, ethnigrwydd a gweithwyr anabl. Mae'r setiau data ar amrywiaeth ar gael yn gyhoeddus a gellir eu gweld yma. Disgwylir i'r rhain gael eu diweddaru â data 2022 a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru erbyn diwedd haf 2023.

Mae'r setiau data cyfredol ar gyfer Cymru yn dangos y canlynol:

- Ar gyfartaledd, yn ystod 2019-2021, roedd ychydig yn llai na chwarter (24%) y rhai a oedd yn cael eu cyflogi yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru rhwng 40 a 49 oed, sef y grŵp oedran a gynrychiolwyd fwyaf yn y sector.

- Yn 2021, roedd mwy o ddynion na menywod yn gweithio yn y sector creadigol, sef tua 53% a 47%, yn y drefn honno.
- Yn 2021, roedd 97% o'r rhai a oedd yn cael eu cyflogi yn y diwydiannau creadigol yn Wyn.
- Yn 2021, roedd 4,000 o'r bobl a oedd yn cael eu cyflogi yn y diwydiannau creadigol yn anabl, gan gyfrif am 11% o gyfanswm y rhai a oedd yn cael eu cyflogi yn y sector.
- Yn ystod 2019-2021, ar gyfartaledd roedd 21,500 (tua 60%) o'r rhai a oedd yn cael eu cyflogi yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn meddu ar addysg hyd at lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol bob blwyddyn. Mae hyn yn cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer yr holl ddiwydiannau, sef 39%.
- Yn ystod 2019-2021, nid oedd tua 4% o'r rhai a oedd yn cael eu cyflogi yn y diwydiannau creadigol yn meddu ar unrhyw gymwysterau. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer yr holl ddiwydiannau yng Nghymru, sef 8%.

Mae Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol hefyd yn casglu data ar ethnigrwydd, er bod hyn yn gyfyngedig i ymatebwyr sy'n berchenogion busnes, yn gyfarwyddwyr neu'n bartneriaid. Dangosodd canfyddiadau arolwg 2022 fod 94% o'r perchenogion, cyfarwyddwyr a phartneriaid a gymerodd ran yn yr arolwg yn Wyn, bod 1% yn perthyn i grwpiau ethnig cymysg/aml-ethnig a bod 1% yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig. Wrth gymharu'r data yn ôl rhanbarth, gogledd Cymru oedd â'r gyfran uchaf o berchenogion, cyfarwyddwyr a phartneriaid Gwyn a gymerodd ran yn yr arolwg (99%), a chanolbarth Cymru oedd â'r gyfran isaf (87%). Wrth gymharu'r data yn ôl sector, perchenogion, cyfarwyddwyr a phartneriaid a gymerodd ran yn yr arolwg yn y sector sgrin a ddangosodd yr amrywiaeth fwyaf o ran ethnigrwydd (94% Gwyn, 3% grwpiau ethnig cymysg/aml-ethnig a 2% Asiaidd/Asiaidd Prydeinig). Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r ffigurau hyn nad oedd cynrychiolaeth ethnig yn adlewyrchu cyfartaleddau'r boblogaeth o hyd. Y sector digidol oedd y sector lleiaf amrywiol, gyda 100% o'r perchenogion, cyfarwyddwyr a phartneriaid a gymerodd ran yn yr arolwg yn Wyn. Mae dolen i'r adroddiad llawn ac amlinelliad o'r canfyddiadau ar gael yma.

***Meithrin sgiliau***

*Mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau y gall pob dysgwr ifanc ystyried dilyn cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol*

Mae Gwarant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ac mae'n cynnig cymorth penodol i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru i sicrhau lle ar gwrs addysg (gan gynnwys Addysg Bellach ac Addysg Uwch) neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwnnw, rydym wedi darparu £2m fel bod gan bob coleg AB yng Nghymru bellach Fiwro Cyflogaeth a Menter. Mae'r colegau wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau gyrfaoedd yn cynnwys cyn-fyfyrwyr, cyflogwyr, entrepreneuriaid, darparwyr cymorth ôl-addysg bellach amgen a phrifysgolion, ymhlith eraill - gan roi'r cyfle i ddysgwyr ddod ynghyd ac ystyried llwybrau gyrfa ac opsiynau mewn amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys y diwydiannau creadigol. Mae'r Biwros yn cynnig amrywiaeth o ddosbarthiadau meistr un i un eraill a chymorth ar raddfa fwy, gan weithio gyda phartneriaid allweddol, fel cyflogwyr, partneriaethau sgiliau rhanbarthol, Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio. Mae canlyniadau ymweliadau cyflogwyr â'r Biwros wedi cynnwys lleoliadau profiad gwaith wedi'u trefnu mewn cwmnïau.

At hynny, mae prosiect Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru yn helpu pobl ifanc i gyflawni rhagoriaeth sgiliau. Mae'r prosiect yn darparu'r seilwaith ar gyfer Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, sy'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc herio, meincnodi a gwella eu sgiliau drwy gymryd rhan mewn cystadlaethau mewn amrywiaeth o sectorau. Caiff nifer o gystadlaethau eu

cynnal ar gyfer y diwydiannau creadigol, gan gynnwys cystadleuaeth Celf Gêm Ddigidol 3D, Dylunio a Thechnoleg Ffasiwn, Dylunio Graffeg, Cynhyrchu Cyfryngau Digidol a Sgiliau Cynhwysol: y Cyfryngau.

Mae Twf Swyddi Cymru+, sef ein rhaglen hyfforddi a datblygu flaenllaw i bobl ifanc 16-19 oed, yn helpu'r rhai y mae angen y sgiliau, y cymwysterau a'r profiad arnynt i gamu ymlaen i ddilyn prentisiaeth, sefydlu eu busnes eu hunain neu gael eu swydd ddelfrydol. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau ar TG a'r Cyfryngau Digidol sy'n targedu gyrfaoedd yn y sectorau TG, Cyfrifiadura a'r Cyfryngau Creadigol.

Bydd Gyrfa Cymru yn gweithio gyda phob ysgol uwchradd, ysgol arbennig, Uned Cyfeirio Disgyblion a choleg er mwyn helpu pobl ifanc i gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd yn fwy effeithlon mewn marchnad swyddi gystadleuol sy'n newid yn barhaus. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys y canlynol:

- Dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 yn deall sut y gall y pynciau y byddant yn eu dewis effeithio ar eu syniadau ar gyfer gyrfa yn y dyfodol.
- Dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dysgu mwy am eu hopsiynau o ran gyrfa a sut i gymryd y camau nesaf. Byddai hyn yn cynnwys cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol.
- Myfyrwyr chweched dosbarth ac addysg bellach yn meithrin eu dealltwriaeth o gyfnodau pontio ôl-18 a'u hopsiynau ar gyfer y dyfodol. Byddai hyn yn cynnwys cyrsiau addysg uwch sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol.

Mae adnoddau digidol Gyrfa Cymru yn helpu dysgwyr i ystyried llwybrau gyrfa posibl, gan gynnwys llwybrau sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol a manylion am gyrsiau addysg bellach ac addysg uwch sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol.

Mae Cymru Greadigol wrthi'n gweithio gydag arweinwyr Rhaglen Seren i ystyried sut y gellir cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr mwyaf addawol ysgolion y wladwriaeth ymgysylltu â'r diwydiant er mwyn eu hannog i ystyried addysg bellach o fewn pynciau creadigol.

Mae £3m ychwanegol o Gyllid Pontio wedi'i ddyrannu i sefydliadau addysg bellach a chweched dosbarth awdurdodau lleol ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23. Diben y cyllid hwn yw galluogi sefydliadau, mewn cydweithrediad ag ysgolion, i roi cyngor ar lwybrau ôl-16 i ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11.

Mae ein rhaglen cymorth prentisiaethau i fusnesau yn cynnwys Fframwaith Diwylliant, y Cyfryngau a Dylunio.

Oherwydd natur y contractau “llawrydd” byrdymor sy'n gysylltiedig â'r sector creadigol, mae nifer y prentisiaid newydd wedi'u cyfyngu. Yn 2019, treialwyd cynllun prentisiaethau a rennir ar y cyd â Choleg Caerdydd a'r Fro a Sgil Cymru. Cafodd y prentisiaid eu cyflogi gan y coleg a threfnodd Sgil Cymru leoliadau byrdymor â thâl ar brosiectau ffilm a theledu yng Nghymru. Mae cynllun prentisiaethau a rennir CRIW bellach yn recriwtio hyd at 30 o brentisiaid yn ne a gogledd Cymru ac mae'n bwriadu ehangu brand gwerthfawr CRIW i gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr sy'n gadael darpariaeth greadigol AB/AU.

*Gwaith sy'n cael ei wneud i hwyluso'r ymgysylltu rhwng ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch*

Mae darpariaeth Gyrfa Cymru yn cynnwys y canlynol:

- Dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dysgu mwy am eu hopsiynau o ran gyrfa a sut i gymryd y camau nesaf. Byddai hyn yn cynnwys yr holl opsiynau mewn ysgolion a cholegau, opsiynau galwedigaethol, prentisiaethau ac opsiynau o ran cyflogaeth

- Myfyrwyr chweched dosbarth ac addysg bellach yn meithrin eu dealltwriaeth o gyfnodau pontio ôl-18 a'u hopsiynau ar gyfer y dyfodol. Byddai hyn yn cynnwys cyrsiau addysg uwch sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol.

Mae adnoddau digidol Gyrfa Cymru yn helpu dysgwyr i ystyried llwybrau gyrfa posibl, gan gynnwys llwybrau sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol a manylion am gyrsiau sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch.

Mae Cymru Greadigol yn aelod o fwrdd y Gymuned Lleoliadau Annibynnol, sy'n cefnogi Soundcheck Sessions, menter sy'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc (14+ oed) fynd i leoliad cyn i'r drysau agor i'r cyhoedd, er mwyn gwylio'r artist, a fydd yn perfformio y noson honno, yn ystod y sesiwn gwirio sain, cyn cymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb gyda'r artist ynghyd â rhai o'r criw a thîm y lleoliad. Anelir y fenter at ysgolion, colegau a grwpiau lleol, ac yn aml, dyma fydd profiad cyntaf y bobl ifanc mewn lleoliad cerddoriaeth llawr gwlad. www.youtube.com/watch?v=ebSRvqPuIeU

Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn weithredol o fis Ebrill 2024. Bydd cynnwys pob agwedd ar addysg drydyddol ac ymchwil o dan un corff yn meithrin ac yn cefnogi mwy o gydweithio a chydlyniant ac yn osgoi rhannu'r sector a chystadleuaeth ddiangen. Mae gan y Comisiwn y grym i sicrhau bod ein sector addysg drydyddol ac ymchwil wedi'i drefnu i ddiwallu anghenion dysgwyr, ein darparwyr addysg a hyfforddiant, cyflogwyr ac economi Cymru, ac mae'n hanfodol i wireddu ein gweledigaeth strategol ar gyfer y sector ôl-addysg orfodol a hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn disgwyl y bydd y Comisiwn mewn sefyllfa dda i weithio'n effeithiol ac yn gyson ar draws y system addysg drydyddol, a gyda'n partneriaid addysg, i ddarparu dull cydlynol o ymdrin â darpariaeth addysg ôl-16 ar bob lefel ledled Cymru.

Rydym wedi nodi nifer o fesurau y gallwn gydweithio arnynt i fynd i'r afael â'r materion a godwyd a chyflwyno cwricwla 16-19 i gefnogi ein diwygiadau addysg ehangach, gan achub ar y cyfle i gysoni egwyddorion a diben ein Cwricwlwm i Gymru ac ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i gynnig amrywiaeth eang o gymwysterau a llwybrau at gymhwyster sydd o'r un gwerth ac ansawdd i ddysgwyr cyn ac ôl-16. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith diweddar i ddiwygio cymwysterau TGAU i gysoni â'r cwricwlwm newydd, a bydd yn cynnwys ehangu'r amrywiaeth o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru sy'n diwallu anghenion ein heconomi.

*Gwybodaeth am fesur allbynnau ac effaith elfen greadigol y cwricwlwm newydd*

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gwerthuso Cwricwlwm i Gymru yn ddiweddar. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso i ba raddau y mae ein diwygiadau yn cyflawni'r nodau rydym wedi'u pennu ar draws y cwricwlwm, ac yn ymgysylltu â dysgwyr, ymarferwyr a rhieni.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn un o chwe maes y Cwricwlwm i Gymru sydd yr un mor bwysig â'i gilydd, i bob dysgwr rhwng 3 a 16 oed. At hynny, mae creadigrwydd wedi'i nodi'n sgil hanfodol y mae angen i ddysgwyr ei meithrin er mwyn cyflawni pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, a dylai gael ei ymgorffori ar draws y cwricwlwm.

Un o'r prif fentrau i gefnogi creadigrwydd a'r celfyddydau mewn addysg yw rhaglen ar y cyd Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* Mae'r rhaglen sefydledig hon (sydd ar waith ers 2015) yn destun proses werthuso annibynnol fanwl. Disgwylir i adroddiad arall gael ei gyhoeddi yn yr hydref, ac mae'r adroddiadau hyd yma wedi nodi effaith gadarnhaol y rhaglen, yn enwedig drwy ei helfen

Ysgolion Creadigol Arweiniol, ar gefnogi athrawon a'u haddysgu ac ar newid agweddau a diwylliant ysgolion mewn perthynas â chreadigrwydd a'r celfyddydau, ac, yn bwysicaf oll, ei heffaith ar ddysgwyr. Mae'r adroddiadau'n nodi'n glir dystiolaeth gan ysgolion sy'n dangos yn gyson hyder cynyddol ymhlith y dysgwyr hynny sy'n cymryd rhan yn y prosiectau creadigol, mwy o frwdfrydedd ymhlith dysgwyr i ddod i'r ysgol, gyda chyfraddau presenoldeb gwell, a chyflawniad gwell o ganlyniad i ymgysylltu gwell.

*Cyllid a ddyrannwyd i brosiect Academïau Sgrin Cymru, a gwybodaeth am y rhyngweithio rhwng y prosiectau ac ysgolion a cholegau*

Dyfarnwyd £192,500 i'r Rhwydwaith Academïau Sgrin drwy'r Gronfa Sgiliau Creadigol. Arweinir y prosiect hwn gan Brifysgol De Cymru mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor a Chynghrair Sgrin Cymru. Mae gan Gynghrair Sgrin Cymru hanes gwych o weithio'n helaeth gydag ysgolion a cholegau, gan ddarparu gwaith allgymorth, dosbarthiadau meistr a lleoliadau profiad gwaith. Bydd yr Academïau newydd yn darparu mannau hyfforddi integredig i gefnogi myfyrwyr, cymunedau a chyflogeion yn y sector sgrin sydd ar ddechrau eu gyrfa ledled Cymru. Bydd gosod y cyfleusterau hyfforddi newydd hyn wrth wraidd y diwydiant a chyflogi arbenigwyr addysgol sydd â chysylltiadau uniongyrchol ag ysgolion a cholegau, yn cysylltu anghenion datblygu'r diwydiant â dyheadau darpar dalent yn y cymunedau hyn. Bydd amrywiaeth o weithgareddau ar y safle am ddim, fel teithiau, digwyddiadau sgrinio, ymweliadau â setiau a dosbarthiadau meistr yn cael eu hategu gan raglen allgymorth a fydd yn cynnwys ymweliadau ag ysgolion a digwyddiadau cymunedol, gan ehangu mynediad ym mhob pwynt sydd ar gael.

*Y newidiadau sydd angen eu gwneud i wasanaethau cyngor gyrfaoedd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn ystyried y diwydiannau creadigol yn ddewis gyrfa hyfyw*

Mae Gyrfa Cymru yn aelod o Grŵp Rhanddeiliaid Sgiliau Ffilm a Theledu Cymru Greadigol, sydd â'r nod o annog dull partneriaeth o ddatblygu gweithlu presennol y sector sgrin yng Nghymru, a'r gweithlu yn y dyfodol. Ymhlith yr aelodau mae darparwyr addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant, darlledwyr a'r diwydiant. Mae Cynghrair Sgrin Cymru ac Into Film yn gweithio ochr yn ochr â Gyrfa Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o yrfaoedd yn y sector.

*Gwaith a wnaed i sicrhau bod amrywiaeth o bynciau galwedigaethol ar gael i alluogi dysgwyr i weithio yn y diwydiannau creadigol*

Dyluniwyd y Cwricwlwm i Gymru i fod yn fframwaith cenedlaethol ar gyfer dysgwyr rhwng 3 a 16 oed er mwyn helpu ymarferwyr i ddatblygu cwricwlwm eu hysgol, gan roi'r hyblygrwydd iddynt ddiwallu anghenion penodol eu dysgwyr yn eu cyd-destunau a'u cymunedau. Bydd yr hyblygrwydd hwn sydd wedi'i ymgorffori yn y cwricwlwm i ddysgwyr o 3 oed yn galluogi mathau gwahanol o ddysgu yn dibynnu ar ddewisiadau a diddordebau'r dysgwr, a ddylai arwain at gwricwlwm sy'n fwy diddorol i bobl ifanc. At hynny, mae'r cwricwlwm newydd yn cynnwys mwy o bwyslais ar iechyd a lles dysgwyr, ac mae'r un statws wedi'i roi i'r agwedd honno â meysydd o'r cwricwlwm fel mathemateg, neu wyddoniaeth a thechnoleg. Mae hyn yn newid penodol i Gwricwlwm Cenedlaethol 2008 ac mae bodolaeth cwricwlwm mwy integredig a diddorol yn rhoi'r cyfle i gefnogi dysgwyr mewn ffyrdd gwahanol yn unol â'u diddordebau.

Ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y Cwricwlwm i Gymru, mae Cymwysterau Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ei Gynnig Llawn o Gymwysterau 14-16 arfaethedig, sy'n cynnwys rhai cymwysterau cyn-alwedigaethol sydd wedi'u dylunio i roi cipolwg ar faes galwedigaethol eang a chyfle i gael profiad ymarferol. Mae'r rhain yn cynnwys y Celfyddydau Perfformio a Chynhyrchu a Thechnoleg y Cyfryngau Creadigol. Ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol 2008, mae Mesur Dysgu a Sgiliau

(Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynnig o leiaf 25 o gyrsiau i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4, y mae o leiaf 3 ohonynt yn rhai galwedigaethol, fel rhan o gynnig eu cwricwlwm lleol. Anogir ysgolion i gyflwyno cyrsiau ar y cyd er mwyn sicrhau y caiff yr amrywiaeth a'r nifer mwyaf posibl o gymwysterau eu cynnig, gan alluogi pobl ifanc i ddewis o gwricwlwm eang a chytbwys.

Mae Profiadau sy'n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith yn un o themâu trawsbynciol y Cwricwlwm i Gymru i bob dysgwr rhwng 3 a 16 oed. Mae'n flaenoriaeth bwysig i ysgolion gefnogi dysgwyr i symud ymlaen yn hyderus i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg ar ôl iddynt gwblhau eu haddysg orfodol, gan feddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau perthnasol. Dylai dysgwyr gael profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith a gyrfaoedd a meithrin dealltwriaeth o'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddynt drwy eu hoes.

Dylai cwricwla ysgolion alluogi dysgwyr i gael profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith a gyrfaoedd, ac i feithrin dealltwriaeth o'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddynt drwy eu hoes. Bydd y dysgu hwn yn eu helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu llwybrau gyrfa. Dylai'r profiadau anelu at agor llygaid dysgwyr i'r hyn sy'n bosibl, a rhoi cyngor o ansawdd uchel ar sgiliau a llwybrau gyrfa, gan godi dyheadau dysgwyr nad ydynt o bosibl yn credu bod rhai cyfleoedd ar gael iddynt mewn gwirionedd.

Bydd cydweithio ag unigolion a chyflogwyr hefyd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu am waith, cyflogaeth a'r sgiliau sy'n cael eu gwerthfawrogi yn y gweithle. Gall dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau y byddant yn eu dysgu drwy gymryd rhan mewn profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith i ddatblygu gweithgareddau menter llwyddiannus. Gall y rhain gynnig profiad dysgu gwirioneddol iddynt, sy'n eu helpu i ddatblygu fel cyfranwyr mentrus a chreadigol, gan feithrin cysylltiadau â'r byd gwaith a chodi eu dyheadau.

***Y diwydiant gemau cyfrifiadurol***

Mae gan Cymru Greadigol amcan strategol i dyfu'r diwydiant gemau cyfrifiadurol yng Nghymru. Ar lefel talent ar lawr gwlad, rydym yn cefnogi Talent Gemau Cymru, sef rhaglen flynyddol sy'n rhoi cymorth cofleidiol ac ariantal i raddedigion diweddar a'r rhai sydd ar fin graddio i ddatblygu cysyniad ar gyfer gêm. Cyflwynir y cysyniad hwn wedi i gynhadledd flynyddol EGX ym mis Hydref. Drwy'r rhaglen hon, rydym yn sbarduno cwmnïau datblygu gemau newydd yn ogystal â'r broses o greu sypiau o eiddo deallusol.

Mae ein cyllid datblygu rheolaidd yn rhoi hyd at £25,000 i stiwdios gemau er mwyn datblygu teitl, gyda'r nod o sicrhau cyllid masnachol pellach. Yn ystod cylch 2022, gwnaethom gefnogi 14 o gemau drwy gyfanswm o £330,320 o gyllid.

Yn 2012, gwnaethom lansio cyllid cynhyrchu ar gyfer gemau, gan alluogi stiwdios i wneud cais am gyllid atodol i gynhyrchu gêm, yn seiliedig ar wariant yng Nghymru yn hytrach na chreu swyddi. Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau ein prosiect cyntaf gan ddefnyddio'r cyllid hwn, sydd wrthi'n aros am gymeradwyaeth weinidogol derfynol.

Bob blwyddyn, rydym yn annog stiwdios gemau yng Nghymru i feithrin eu hymwybyddiaeth o'r farchnad ryngwladol drwy fynd â dirprwyaeth i'r Gynhadledd Datblygu Gemau yn San Francisco. Mae hyn wedi tyfu o flwyddyn i flwyddyn ac yn 2023, arweiniodd Cymru Greadigol ddirprwyaeth o 18 o gwmnïau ochr yn ochr â Gweinidog yr Economi. Bydd dirprwyaeth fach hefyd yn mynd i Gamescom yn Cologne ym mis Awst eleni.

Rydym hefyd wedi cynnal rhaglen hybu beilot ar gyfer cwmnïau gemau ar y cyd ag Indielab. Roedd y rhaglen hon ar gyfer y DU gyfan yn cynnwys chwe datblygwr gemau o Gymru, a gafodd gyfres o sesiynau wedi'u dylunio i wella eu galluoedd buses a hybu eu twf yn y sector. Bydd y cwmnïau bellach yn mynd ati i baratoi cynnig ar gyfer buddsoddwr, i'w gyflwyno ym mis Hydref y eleni.

***Cynllunio ar gyfer y dyfodol***

Mae'r newidiadau cyflym ym maes Deallusrwydd Artiffisial yn arbennig o berthnasol i'r diwydiannau creadigol,, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod manteision technolegau sy'n seiliedig ar ddata fel deallusrwydd artiffisial a chyfleoedd i arloesi yn y farchnad yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae pryder cynyddol ynghylch diogelu hawliau eiddo deallusol ym mhob maes creadigol, wrth i waith a gyhoeddwyd gael ei grynhoi a'i ailddefnyddio gan ddeallusrwydd artiffisial, ac wrth i ddelweddau, llais a chynnwys arall gael eu creu'n awtomatig gan adnoddau wedi'u hawtomeiddio. Mae hyn yn cynnwys creu cynnwys ym maes newyddiaduraeth. Mae ffactorau eraill i'w hystyried hefyd mewn perthynas ag awtomeiddio tasgau sydd wedi cael eu gwneud gan arbenigwyr ar gyflogau da, yn enwedig yn y meysydd sy'n seiliedig ar dechnegol fel ôl-gynhyrchu, dylunio, cynhyrchu delweddau, ac ati. Mae cwestiynau'n cael eu gofyn ynglŷn â sut mae fframwaith hawlfraint y DU yn cydnabod hawliau deiliaid eiddo deallusol y caiff eu gwaith ei ddefnyddio i ddatblygu/bwydo deallusrwydd artiffisial, a pha drefniadau trwyddedu ymarferol y gellid eu rhoi ar waith i gydnabod deiliaid hawliau. At hynny, mae pryderon yn cael eu codi ynglŷn â'r potensial am ragfarn yn y data a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau deallusrwydd artiffisial, y tarfu a'r effaith ar y farchnad lafur, camwybodaeth, a'r diddordeb cynyddol mewn gwasanaethau fel ChatGPT.

Mae anodd amcangyfrif union effaith deallusrwydd artiffisial ar swyddi, ond mae ymchwil yn UDA yn awgrymu y bydd yn cael effaith anghymesur ar swyddi sy'n cael eu gwneud yn draddodiadol gan fenywod, a'i bod bron yn anochel y byddant yn colli swyddi. Mae streic diweddar Urdd Ysgrifenwyr America ym mis Mai eleni yn enghraifft o'r effaith ar gyflogaeth, lle y codwyd pryderon ynglŷn â'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial i ysgrifennu sgriptiau ffilm a theledu.

Mae Cymru Greadigol yn parhau i weithio gyda chydweithwyr a phartneriaid ym maes technoleg a pholisi, gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru, er mwyn ein helpu i ddeall y risgiau hyn yn well, a'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn helpu i'w lliniaru. Rydym yn cefnogi'r angen am reoliadau priodol ochr yn ochr â safonau, llywodraethu a systemau sicrwydd perthnasol – er mwyn sicrhau bod technolegau deallusrwydd artiffisial yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd cyfrifol, moesegol, cynhwysol a diogel.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

**Dogfen 1**

| **Enw'r Prosiect** | **Enw'r Cwmni sy'n Gwneud Cais** | **Cyllid a Ddyfarnwyd** | **Crynodeb o'r Prosiect** |
|---|---|---|---|
| | | **Cerddoriaeth** | |
| Datblygu Rheolwyr Cerddoriaeth Cymru | Y Fforwm Rheolwyr Cerddoriaeth (MMF) | £60,504 | Bydd y prosiect hwn yn rhoi hyfforddiant rhagarweiniol a hyfforddiant ar yr hanfodion er mwyn meithrin sgiliau rheoli cerddoriaeth yn gyflym ledled Cymru mewn meysydd fel hawlfraint, breindaliadau, a phrosesau dosbarthu cerddoriaeth digidol.<br><br>Bydd MMF yn ceisio sefydlu Llwythau MMF Cymru, sef cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio misol yng Nghymru. Bydd hefyd yn darparu dau fwrsari ar gyfer rheolwyr cerddoriaeth newydd neu sydd yng nghanol eu gyrfa, drwy raglen Sbarduno Rheolwyr Cerddoriaeth, rhaglen busnes ac arweinyddiaeth flwyddyn o hyd a gefnogir gan YouTube Music, Arts Council England a Creative Scotland. Bydd hyn yn darparu gwerth £12,000 o gyllid gan YouTube er mwyn helpu i sefydlu dau fusnes rheoli cerddoriaeth newydd yng Nghymru. |
| Sesiynau Sgiliau ar gyfer Lleoliadau Cerddoriaeth Llawr Gwlad | Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth | £35,430 | Nod y prosiect yw darparu hyfforddiant DPP (datblygiad proffesiynol parhaus) / uwchsgilio i reolwyr lleoliadau ar sut i reoli a datblygu rhaglen mewn Lleoliad Cerddoriaeth Llawr Gwlad. Bydd y sesiynau hyfforddi yn cynnwys meithrin cydberthnasau â hyrwyddwyr allanol, dulliau hyrwyddo mewnol effeithiol, taliadau, y wasg a chysylltiadau cyhoeddus, a setliadau gweinyddol ac ariannol. Mae manteision hyfforddiant o'r fath yn fesuradwy, ac mae rhesymeg wedi'i darparu dros effaith ddisgwyliedig hyfforddiant DPP o'r fath ar y lleoliadau eu hunain ac ar yr economi leol ehangach.<br><br>Caiff y rhaglen hyfforddi ei darparu drwy gyfres undydd o weithdai wyneb yn wyneb, a gynhelir mewn pedwar rhanbarth ledled Cymru; Caerdydd, Abertawe, Wrecsam ac Aberystwyth. Bydd hefyd ar gael ar-lein fel bod modd cyfeirio ati'n ehangach, a bydd cyfranogwyr yn cael cyfres o adnoddau dwyieithog sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant. |

**Dogfen 1**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Beacons Cymru | Beacons | £90,694 | Bydd yn datblygu meysydd cymorth newydd a fydd yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau i ddatblygu gweithlu newydd amrywiol ac iach yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.<br><br>Resonant - prosiect sydd â'r nod o rymuso pobl ifanc (18-25 oed) sy'n ystyried eu bod o rywedd wedi'i ymyleiddio, i weithio y tu ôl i'r llenni yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.<br><br>SUMMIT 2024 - cynhadledd arloesol ar gyfer y diwydiant cerddoriaeth, sydd wedi'i dylunio ac sy'n cael ei chynnal gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. (Cynhaliwyd y bedwaredd uwchgynhadledd)<br><br>Bŵts - cyfres ddwyieithog newydd o fideos codi ymwybyddiaeth sy'n dangos llwybrau pwysig i weithlu'r diwydiant cerddoriaeth. Bydd y gyfres hon yn rhoi cipolwg ar brofiadau gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru ac yn helpu pobl ifanc i gynllunio eu dyfodol yn hyderus.<br><br>TransForm Music - i ddatblygu pecyn hyfforddiant ochr yn ochr â darparwyr Umbrella Cymru, arbenigwyr ym maes cymorth Rhywedd ac Amrywiaeth Rywiol. Bydd y bartneriaeth hon yn canolbwyntio ar wneud y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru yn lle mwy diogel a chynhwysol i bobl drawsrywiol ac anneuaidd. Pan fydd wedi'i ddylunio, bydd y pecyn hyfforddiant hwn yn cael ei gynnig i chwe rhanddeiliad yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.<br><br>Future Disrupter - cyfres o sesiynau gwybodaeth a sgyrsiau wedi'u cynnal gan arbenigwyr proffesiynol a phersonél yn y diwydiant. Y meysydd ffocws fydd rheoli prosiect, cyllid, cynllunio, ariannu a sgiliau cyfathrebu. |
| | | **Sgrin** | |
| Rhaglen Beilot Busnes ac Arweinyddiaeth | NFTS Cymru | £39,315 | Bydd y prosiect hwn yn darparu hyfforddiant pwrpasol i arweinwyr, rheolwyr a chynhyrchwyr sy'n gweithio yn y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru er mwyn meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i redeg busnes creadigol |

**Dogfen 1**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | llwyddiannus, gan ganolbwyntio'n bennaf ar fasnacheiddio a galluogi pobl i dyfu eu busnes drwy sicrha cyllid, manteisio ar eiddo deallusol, datblygu'n fyd-eang, recriwtio mewn modd cynhwysol a chynllunio ar gyfer olyniaeth.<br><br>Caiff dosbarthiadau meistr eu harwain gan unigolion blaenllaw yn y diwydiannau creadigol, yng Nghymru a thu hwnt, a fydd yn rhannu eu harbenigedd proffesiynol eu hunain. |
| Academïau Sgrin Cymru | Prifysgol De Cymru | £192,500 | Nod y prosiect hwn yw creu tair Academi Sgrin newydd o fewn stiwdios i ddarparu'r sgiliau, yr addysg a'r hyfforddiant a all helpu'r genhedlaeth nesaf o dalent yng Nghymru ffynnu yn y diwydiant hwn. Bydd gan bob un o'r Academïau hyn ei phroffil ei hun a bydd yn gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant pwrpasol ar gyfer ei leoliad:<br><br>Bydd Academi Stiwdios Greatpoint yn canolbwyntio ar y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi gofod Cynhyrchu Rhithwir newydd y stiwdio;<br><br>Bydd Academi Stiwdios Wolf yn cefnogi hyfforddiant i arloesi ym maes technoleg Animeiddio a Gemau Cyfrifiadurol, a'i rôl gynyddol ym maes cynhyrchu ar gyfer y sgrin;<br><br>Bydd Academi Stiwdios Aria yn darparu'r sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi a datblygu cynyrchiadau drama cyfrwng Cymraeg a rhyngwladol. |
| Re-Focus | Hijinx | £74,846.10 | Hyfforddiant ar gynnwys anableddau dysgu ar gyfer y diwydiant sgrin yw Re-Focus, sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r diffyg cynrychiolaeth cronig i bobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth ar y sgrin a'r tu ôl i'r camera.<br><br>Mae dwy ran i'r prosiect hwn: bydd y rhan gyntaf yn darparu hyfforddiant undydd wyneb yn wyneb ar ffurf sesiynau theatr a chwarae rôl anffurfiol, wedi'u harwain gan actorion Hijinx sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth. Bydd y sesiynau'n adlewyrchu senarios pob dydd, gan roi enghreifftiau bywyd go iawn o sefyllfaoedd ar set, y broses ôl-gynhyrchu, a'r broses o ddatblygu prosiect sgrin. |

**Dogfen 1**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd ail ran y prosiect yn cynnwys sefydlu Asiantaeth Hwyluswyr Creadigol, gan ddarparu Hwyluswyr Creadigol wedi'u hyfforddi ar gyfer y sector er mwyn helpu pobl ag anableddau dysgu/awtistiaeth i gael gwaith. Bydd y cyllid yn helpu i hyfforddi cronfa o Hwyluswyr Creadigol a allai wedyn gael eu cyflogi gan gynyrchiadau. |
| Hyfforddiant ar gyfer y Dyfodol | Sgil Cymru | £124,000 | Bydd y cynnig hwn yn rhoi buddiannau mesuradwy i 130 o fuddiolwyr yn y sector sgrin yng Nghymru drwy nifer o gynlluniau yn cynnwys Cyrsiau Dwys i Newydd-ddyfodiaid, rhaglen Camu Ymlaen ar gyfer unigolion y nodir eu bod yn barod i gamu ymlaen yn eu gyrfa, Bwrsarïau Dysgu Gyrru a Bwrsarïau Caledi i brentisiaid. |
| Rhaglen Datblygu Penaethiaid Adran yng Nghymru | ScreenSkills | £32,000 | Cefnogi darpar Benaethiaid Adran i gysgodi/gweithio ochr yn ochr â Phenaethiaid Adran presennol ar gynyrchiadau teledu lefel uchel, gan eu galluogi i ennill profiad/cael cydnabyddiaeth. |
| **Digidol** | | | |
| Ffowndri Datblygwyr Gemau Cyfrifiadurol Cymru | Iungo Solutions | £133,000 | Rhaglen naw mis o hyd i gynnig nifer o bwyntiau mynediad a gadael i amrywiaeth o rolau technegol yn y diwydiant gemau cyfrifiadurol.<br><br>Bydd y Ffowndri yn targedu unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n awyddus i newid gyrfa ac unigolion sydd wedi'u tangyflogi, gan helpu i'w huwchsgilio ar gyfer rolau ym maes dylunio a datblygu gemau cyfrifiadurol. |
| Gêm | Academi Cyfryngau Cymru | £142,343 | Hyb Gemau Cyfrifiadurol lefel mynediad annibynnol er mwyn helpu i fynd ati'n strategol i ddatblygu darpariaeth hyfforddiant sy'n cwmpasu gofynion lefel mynediad ar lefel 1, 2 a 3 fframwaith BTEC, gyda'r nod o ddatblygu gweithlu creadigol sy'n adlewyrchu pob cymuned. |
| Academi Hollow Pixel | United Filmdom Ltd | £145,798 | Rhaglen brentisiaeth animeiddio (Cyfryngau Rhyngweithiol Lefel 4) sy'n cynnwys ffocws ar Blender, sy'n prysur ddod yn feddalwedd safonol ar gyfer animeiddio 3D yn y diwydiant. |

**Dogfen 1**

| Traws-sector | | | |
|---|---|---|---|
| Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru / Cerdd y Dyfodol / Llwybrau Proffesiynol | Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru | £46,582 | Prosiect cerddoriaeth gyfoes i 20 o bobl ifanc 15-19 oed yw **Cerdd y Dyfodol**, sy'n rhoi cipolwg ar y diwydiant cerddoriaeth fasnachol yng Nghymru. Mae'n cynnig profiad gwirioneddol i'r diwydiant, a chipolwg ar yrfa cerddor sy'n gweithio, gan dywys cyfranogwyr drwy'r broses o gyfansoddi cân - o gyfansoddi a recordio, i berfformio, teithio, a hyrwyddo.<br><br>Bydd **Llwybrau Proffesiynol** yn recriwtio 45 o berfformwyr theatr ifanc mwyaf talentog Cymru - rhwng 16 a 22 oed - ar gyfer rhaglen hyfforddi breswyl ddwys a fydd yn rhoi cipolwg ymarferol iddynt ar yr amrywiaeth o yrfaoedd sydd ar gael iddynt yn y sector sgrin a'r sector digidol, a chyfle i ddysgu oddi wrth fodelau rôl a siaradwyr gwadd ysbrydoledig sy'n gweithio yn y diwydiant ffilm a theledu. |
| Cynaliadwyedd Digidol Creadigol, Pobl, Llwybrau, Rhagolygon | M-SParc | £181,356 | Rhaglen i 250 o ddisgyblion Blwyddyn 7 yw SParc Creadigol, sy'n gweithio gyda 10 ysgol uwchradd ledled Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, gan ganolbwyntio ar y rhai mewn cymunedau economaidd-gymdeithasol isel, ac yn helpu i gynnig profiad gwaith i ddau ddisgybl o Flwyddyn 10 a Blwyddyn 11 o bob ysgol sy'n cymryd rhan.  Yn gyson â'r cwricwlwm newydd, mae'r rhaglen yn meithrin sgiliau meddal drwy weithgareddau trawsgwricwlaidd, ac yn ymateb i anghenion gyrfa a swydd lefel mynediad.  Bydd y prosiect yn ymgorffori STEM, gan ganolbwyntio ar sain ar gyfer ffilm, teledu a digwyddiadau byw, gydag arbenigwyr a lansiad 'carped coch' o ffilm y cyfranogwyr eu hunain.<br><br>Drwy'r Academi Sgiliau, bydd dwy garfan o bum unigolyn yr un, sy'n raddedigion diweddar neu'n awyddus i uwchsgilio, yn cael lleoliadau gwaith mewn busnesau sgrin, cynnwys digidol neu gerddoriaeth yng Nghonwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Byddant yn cael eu cyflogi gan M-SParc, a bydd y cwmnïau lle y byddant yn cael eu lleoli yn cael eu cefnogi i'w helpu i feithrin eu sgiliau, gyda'r bwriad iddynt fynd ymlaen i gael eu cyflogi.<br><br>Bydd y Llwybr Sero Net yn darparu adolygiad digidol llawn i 12 busnes yn y sector Digidol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Creadigol, gan roi mesur ôl troed carbon iddynt ynghyd â mapiau trywydd clir i leihau eu hallyriadau carbon.  Bydd y gwaith hwn yn gysylltiedig ag ALBERT a bydd y Llwybr Sero Net yn uwchsgilio busnesau mewn perthynas ag olion troed er mwyn iddynt ddeall yn llawn yr hyn y mae eu hôl troed yn ei olygu, a sut y gallant leihau eu hallyriadau gydag ymwybyddiaeth glir o'r effaith ariannol ac ecolegol y bydd hyn yn ei chael ar eu busnes a'r amgylchedd. |
| Cynllun Peilot Grymuso Gweithwyr Creadigol Llawrydd. | Prospect (Bectu) | £77,800 | Hyfforddiant ar gyfer 12 o Gynrychiolwyr Dysgu Undebau llawrydd a hyfforddiant ar gyfer 15 o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar draws y pedwar undeb creadigol sy'n gweithio yn y sector Sgrin, Digidol a Cherddoriaeth. |
| **Cyllid Partneriaeth** | | | |
| **Mae'r holl brosiectau canlynol wedi cael cyllid gan nifer o bartneriaid, gan gynnwys darlledwyr, cyrff cyllido cenedlaethol a sefydliadau eraill yn y diwydiant** | | | |
| Cyflymydd Teledu y DU | IndieLab | £29,370 | Mae'r rhaglen hon ar gyfer y DU gyfan yn gweithio gyda chwmnïau cynhyrchu annibynnol addawol er mwyn eu helpu i sicrhau mwy o gomisiynau a thwf refeniw, dod o hyd i gyllid a buddsoddiad ac ehangu eu rhwydwaith o gysylltiadau yn y diwydiant. Bydd cyllid bwrsari yn galluogi dau gwmni teledu yng Nghymru i gymryd rhan, er mwyn cyfrannu eu harbenigedd at y garfan a'r gwersi a ddysgwyd ganddynt at economi greadigol Cymru.<br><br>At hynny, bydd dosbarth meistr gyda siaradwyr blaenllaw o'r diwydiant yn cael eu cynnig i garfan ehangach o gwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru ar bynciau fel datblygu fformat llwyddiannus. |
| Cyflymydd Gemau y DU | IndieLab | £60,000 | Bydd Cyflymydd Gemau Celtaidd Indielab yn helpu stiwdios newydd ledled Cymru a'r Alban i ddod o hyd i'r wybodaeth, y rhwydweithiau a'r buddsoddiad sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Bydd y rhaglen hon yn cynnig cymorth dros gyfnod o dri mis, a bydd yn cynnwys dosbarthiadau meistr dwys penodol, a sesiynau briffio ag arweinwyr y diwydiant, |

**Dogfen 1**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | stiwdios mawr, buddsoddwyd, cyhoeddwyr a phenderfynwyr o bob rhan o'r sector. |
| rad Cymru | TRC | £35,558 | Hyfforddeiaeth wyth mis â thâl yw rad Cymru, ar gyfer wyth hyfforddai mewn cwmnïau cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru. Mae'r fenter hon yn helpu i ddileu'r rhwystrau a galluogi pobl o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol i fanteisio ar leoliadau â thâl, hyfforddiant ac arweiniad. |

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565



Delyth Jewell AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

12 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth,

Byddwch yn gwybod mai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 10 Gorffennaf 2023, gwnaethom ystyried Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Integredig o ran Diogeledd, Diogelwch a Gwasanaethau mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill. Mae'r Confensiwn hwn yn gosod dyletswyddau ar Bartïon i baratoi a darparu agwedd integredig a chytbwys at ddiogelwch, diogeledd a gwasanaeth mewn perthynas â gemau pêl-droed a digwyddiadau chwaraeon eraill, gyda'r nod o ddarparu amgylchedd diogel, sicr a chroesawgar yn y digwyddiadau hyn.

Yn ystod ein trafodaeth am y cytundeb, cytunwyd i dynnu sylw eich Pwyllgor ato, rhag ofn y byddwch yn dymuno ceisio rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru.

Atodir ein hadroddiad diweddaraf er gwybodaeth i chi.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

Cytundebau a ystyriwyd ar 10 Gorffennaf 2023

Gorffennaf 2023



senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr effaith ar Gymru yn sgil cytundebau rhyngwladol a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* ("Deddf 2010"). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Mae ein trafodaethau ynghylch cytundeb rhyngwladol yn ystyried y canlynol:

- a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 10 Gorffennaf 2023[1], gwnaethom ystyried dau gytundeb rhyngwladol a oedd wedi'u gosod yn ddiweddar yn Senedd y DU:

- Y DU/Y Swistir: Cytundeb ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol
- Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Integredig o ran Diogelwch, Diogeledd a Gwasanaethau mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill

**6.** Gwnaethom gytuno i gymryd camau pellach mewn perthynas â'r ddau gytundeb; mae manylion pellach wedi'u nodi isod.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Gorffennaf 2023

# 2. Y cytundebau y mae angen gweithredu pellach yn eu cylch

**Y DU/Y Swistir: Cytundeb ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol**

**7.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 20 Mehefin 2023, ar ôl cael ei lofnodi ar 14 Mehefin. Ei derfyn amser ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 6 Medi 2023.

**8.** Mae gan y DU a'r Swistir safonau proffesiynol uchel a threfn debyg ar gyfer cydnabod systemau cymwysterau proffesiynol. Mae'r cytundeb hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol yn y DU a'r Swistir.

**9.** Diben y cytundeb yw sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau a enillwyd yn y DU sy'n ceisio ymarfer proffesiwn a reoleiddir yn y Swistir (ac i'r gwrthwyneb) yn gallu cael mynediad at system effeithlon a thryloyw i gael cydnabyddiaeth ar gyfer eu cymwysterau proffesiynol.[2]

**10.** Mae'r trefniadau ar gyfer symudiad rhydd personau i gyflenwi gwasanaethau yn cael eu llywodraethu dros dro gan gytundeb arall rhwng y DU a'r Swistir hyd at ddiwedd 2025. Yn dilyn trafodaethau a gynhaliwyd gan weithgor a sefydlwyd o dan y cytundeb hwnnw ar gydnabod cymwysterau proffesiynol, cytunwyd y bydd y DU a'r Swistir yn symud o'r trefniadau sydd ar waith o dan eu cytundeb symudedd gwasanaethau i system cydnabyddiaeth gilyddol.

**11.** Mae'r cytundeb hwn hefyd yn parhau â threfniadau sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024 o ddeddfwriaeth yr UE sy'n gymwys i ddinasyddion y DU a'r Swistir, gan roi sicrwydd hirdymor i weithwyr proffesiynol, busnesau, defnyddwyr a buddsoddwyr yn y ddwy wlad.[3]

**12.** Mae'r cytundeb yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol sy'n fater a gadwyd yn ôl at ddibenion Atodlen 7A i *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am bolisïau'r DU mewn

[2] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Y Swistir: Cytundeb ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol, Mehefin 2023, paragraff 2.2
[3] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.3

perthynas â chysylltiadau masnach rhwng y DU â'r Swistir ac am y cytundeb hwn, tra bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu gyfrifoldeb cyffredinol dros y bolisi'r DU o ran y berthynas rhwng y DU â'r Swistir.[4]

**13.** Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod y cytundeb yn ymwneud â gofynion rheoleiddio ar gyfer cymwysterau proffesiynol, ac mae rhai agweddau arnynt wedi'u datganoli i Gymru (a'r Alban a Gogledd Iwerddon). Ar y sail honno, mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ynghylch drafftio'r cytundeb a'r testun drafft perthnasol cyn ei lofnodi.[5]

**14.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro y bydd angen rhoi'r Cytundeb ar waith ledled y DU i roi effaith i'r darpariaethau mewn cyfraith ddomestig. Mae Llywodraeth y DU yn dechrau gweithio ar y broses o'i weithredu ac mae Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 yn cynnwys pwerau y gall Gweinidogion y DU neu Weinidogion datganoledig eu defnyddio i roi cytundebau cydnabyddiaeth ryngwladol ar waith.[6]

**15.** Gwrthododd y Senedd gydsyniad i *Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022* ar ôl ystyried Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.[7]

**16.** Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol (fel yr oedd ym mis Mehefin 2021) gwnaeth Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, fynegi pryderon ynghylch cysylltu cymwysterau proffesiynol â pholisïau masnach. Mynegodd bryderon y:

> *"…gallai penderfyniadau gael eu categoreddio'n benderfyniadau ynghylch 'masnach' yn hytrach na phenderfyniadau ynghylch 'cymwysterau proffesiynol' a chael eu gosod ar Gymru yn groes i Gonfensiwn Sewel. Er bod sicrwydd gan Weinidogion Llywodraeth y DU a chanllawiau cyhoeddedig yn nodi nad dyma'r bwriad, mae'n amlwg bod hon yn risg oherwydd y ffordd y mae'r Bil hwn wedi'i ddrafftio."*[8]

**17.** Gwnaethom gytuno i'r canlynol:

---

[4] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 11.1 a 11.2
[5] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.1
[6] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 5.1
[7] Cyfarfod Llawn, 15 Chwefror 2023 a Cyfarfod Llawn, 5 Hydref 2021
[8] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol, paragraff 38

- Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ei barn ar y berthynas rhwng gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol a Chonfensiwn Sewel, yng ngoleuni'r ffaith bod y Senedd wedi gwrthod cydsyniad ar gyfer y rhiant-ddeddfwriaeth sy'n cael ei hystyried ar gyfer gweithredu'r Cytundeb hwn.

- Ysgrifennu at Bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi yn dweud ein bod yn ceisio gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ac y byddwn yn rhannu ein canfyddiadau maes o law.

- Tynnu sylw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y cytundeb er gwybodaeth, ac anfon copi o'r ohebiaeth a ddisgrifir uchod at y ddau bwyllgor.

### Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Integredig o ran Diogelwch, Diogeledd a Gwasanaethau mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill

**18.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 21 Mehefin 2023, ar ôl cael ei lofnodi ar 15 Mai 2019. Ei derfyn amser ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 7 Medi 2023.

**19.** Mae'r Confensiwn hwn, a gaiff ei adnabod hefyd fel "Confensiwn Saint-Denis", yn gonfensiwn Cyngor Ewrop, y mae'r DU yn un o'r aelodau a'i sefydlodd. Mae'r Confensiwn yn gosod dyletswyddau ar Bartïon i baratoi a defnyddio dull integredig a chytbwys at faterion diogelwch, diogeledd a gwasanaethau mewn perthynas â gemau pêl-droed a digwyddiadau chwaraeon eraill, gyda'r nod o ddarparu amgylchedd diogel a chroesawgar yn y digwyddiadau hyn.[9]

**20.** Cafodd y Confensiwn ei fabwysiadu yn 2016 ac mae'n ymdrin ag agweddau megis cydlynu trefniadau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys ar gyfer asiantaethau preifat a chyhoeddus, cynlluniau argyfwng amlasiantaethol, ac ar gyfer ymgorffori polisïau a gweithdrefnau clir ar ddefnydd o eitemau pyrotechnegol, ymddygiad treisgar neu ymddygiad gwaharddedig arall ac ymddygiad hiliol neu wahaniaethol arall mewn stadia.

**21.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth newydd er mwyn rhoi gofynion y Confensiwn ar waith, gan fod

[9] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Integredig o ran Diogelwch, Diogeledd a Gwasanaethau mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill, Mehefin 2023, paragraffau 2.1 a 2.2, tudalen 1

deddfwriaeth bresennol[10] yn bodloni gofynion y Confensiwn, ac yn rhestru deddfwriaeth berthnasol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae 15 o gyfreithiau sy'n gymwys i Gymru.[11]

**22.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Confensiwn yn ymwneud â materion datganoledig a materion a gadwyd yn ôl ac yr ymgynghorwyd â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ynghylch drafftio'r Confensiwn a pharatoi'r Memorandwm Esboniadol.[12]

**23.** Mae Strategaeth Digwyddiadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru 2022-2030 yn nodi ei phrif amcanion ar gyfer denu a chefnogi digwyddiadau mawr, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon, a sut mae'r llywodraeth yn bwriadu cyflawni'r rhain. Mae'r strategaeth yn rhestru nifer o ddigwyddiadau mawr a gynhelir yng Nghymru sy'n helpu i gyflawni ei huchelgais i "serennu ar lwyfan y byd".[13]

**24.** Cytunwyd i dynnu sylw'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at y cytundeb pe bai'n dymuno ceisio rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru.

[10] Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cynnwys Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Deddf Plismona a Throseddu 2009 a Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.
[11] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 2.1, tudalen 3
[12] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.1
[13] Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol Cymru 2022 i 2030, Mehefin 2022

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

14 Gorffennaf 2023

**Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Integredig o ran Diogeledd, Diogelwch a Gwasanaethau mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill**

Annwyl Mark,

Yn ein cyfarfod ar 29 Mehefin 2023, trafododd y Pwyllgor Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Integredig o ran Diogelwch, Diogeledd a Gwasanaethau mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU yn cadarnhau bod y Confensiwn yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl a materion datganoledig fel ei gilydd, ac yr ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig ar ddrafftio'r Confensiwn a pharatoi'r Memorandwm Esboniadol.

Mae Strategaeth Digwyddiadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru 2022 i 2030 yn nodi ei phrif amcanion ar gyfer denu a chefnogi digwyddiadau mawr, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon, a sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflawni'r rhain. Mae'r strategaeth yn rhestru nifer o ddigwyddiadau mawr a gynhelir yng Nghymru sy'n helpu i gyflawni ei huchelgais i "serennu ar lwyfan y byd".

O ganlyniad i hyn, hoffai'r Pwyllgor ofyn i Lywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth am y canlynol:

- Ei barn am y Confensiwn, gan gynnwys ei effaith yng Nghymru a'r modd y mae'n ymwneud â strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Strategaeth Digwyddiadau Cenedlaethol Cymru 2022 i 2030;
- Ei rhan yn natblygiad y Confensiwn, gan gynnwys a yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn nogfennau'r Confensiwn;
- Natur trafodaethau rhynglywodraethol yn ymwneud â'r Confensiwn;
- I ba raddau y mae gofynion y Confensiwn eisoes ar waith ar gyfer gemau pêl-droed a digwyddiadau chwaraeon eraill yng Nghymru;
- A oes angen camau pellach i weithredu gofynion y Confensiwn yn llawn; a

- Rôl a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ac eraill wrth roi'r Confensiwn ar waith mewn meysydd datganoledig.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 14 Awst 2023.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

SeneddCulture@senedd.wales

25 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth,

**Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddiogelwch a Gwasanaethau Integredig mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf ynghylch y confensiwn uchod. Mewn perthynas â'ch cais am ragor o wybodaeth, gallaf gadarnhau:

• Fy mod yn croesawu cadarnhad Confensiwn Cyngor Ewrop o ddiogelwch a gwasanaethau integredig mewn gemau pêl-droed a digwyddiadau chwaraeon eraill. Mae'n seiliedig ar ddull o gydweithio rhwng yr holl randdeiliaid cyhoeddus a phreifat sy'n ymwneud â gwneud digwyddiadau chwaraeon yn ddiogel ac yn groesawgar, gan gynnwys cymunedau a chefnogwyr lleol ac mae'n ddull sydd eisoes yn cael ei ddilyn yng Nghymru, nid yn unig ar gyfer digwyddiadau chwaraeon, ond ar gyfer unrhyw ddigwyddiad mawr. Rydym yn cymryd ymagwedd gynhwysol ar gynllunio a rheoli digwyddiadau ac yn annog cydweithredu a chydlynu rhwng yr holl asiantaethau perthnasol.

• Nid oedd Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn uniongyrchol â datblygu'r confensiwn, a lofnodwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mai 2019, ond rydym yn cefnogi ei egwyddorion.

• Mae swyddogion wedi trafod cadarnhau'r confensiwn gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU gan gynnwys y Swyddfa Gartref, yn enwedig yng nghyd-destun y cais ar y cyd rhwng y DU ac Iwerddon i gynnal yr Ewros.

• Mae gofynion y Confensiwn eisoes ar waith ac felly nid oes angen unrhyw gamau pellach i'w gweithredu. Mae deddfwriaeth bresennol y DU yn bodloni gofynion y Confensiwn, ac mae'n seiliedig i raddau helaeth ar fethodoleg plismona yng Nghymru, sydd eisoes yn destun cyflwyno parhaus sy'n seiliedig ar risg, ymyrraeth gymesur a chamau gweithredu i atal a chanfod gweithgarwch troseddol y tu mewn a'r tu allan i'r stadia a'r cyffiniau lleol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

• Mae'r cyfrifoldebau dros weithredu'r confensiwn i’w hysgwyddo ar draws yr holl bartneriaid sy'n ymwneud â chynnal digwyddiad gan gynnwys yr heddlu ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn ogystal â diogelwch, mae hyn yn ymestyn i'r rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau i sicrhau bod pêl-droed a digwyddiadau chwaraeon eraill yn bleserus ac yn groesawgar i bawb, mewn stadia yn ogystal â mannau cyhoeddus lle mae gwylwyr a chefnogwyr yn ymgynnull cyn, yn ystod ac ar ôl y gemau. Mae hyn yn cynnwys agweddau fel arlwyo da a chyfleusterau toiledau a'r modd y caiff pobl eu cyfarch a'u trin drwy gydol y digwyddiad. Dyna pam mae'r dull cynhwysol a ddefnyddir yng Nghymru o gynllunio a rheoli digwyddiad yn hanfodol.

Rwy'n croesawu diddordeb y pwyllgor yn y confensiwn hwn.

Dymuniadau gorau,



**MARK DRAKEFORD**

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

17 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth

Ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol

Er gwybodaeth i chi, amgaeaf gopi dan embargo o'n hadroddiad ar Wasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol. Mae'r adroddiad dan embargo tan 00.01 ddydd Iau 20 Gorffennaf, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ei drin fel dogfen gyfrinachol tan hynny.

Efallai y bydd y materion a drafodwyd gennym fel rhan o'r ymchwiliad a'r argymhellion a wneir gennym yn yr adroddiad o ddiddordeb i'ch Pwyllgor. Yn arbennig, hoffwn dynnu eich sylw at argymhelliad 13:

> *Argymhelliad 13. Rydym yn cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid ychwanegol wedi'i dargedu i'r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol.*

Yn ystod yr ymchwiliad, roedd yn amlwg bod angen i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd gael cymorth ar frys i'w helpu i lywio'r argyfwng presennol. Rydym felly wedi cymeradwyo'r argymhelliad yn eich adroddiad chi ar gostau cynyddol a'r effaith ar ddiwylliant a chwaraeon, ac wedi argymell hefyd bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar ba gymorth ariannol ychwanegol y bydd yn ei ddarparu i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd i ddelio â'r argyfyngau ynni a chostau byw presennol.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Nodwn yn ein hadroddiad fod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad yn eich adroddiad chi, Sicrhau chwarae teg: Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig, bod:

> *"… Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dull cenedlaethol newydd o ymwneud â chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig. Dylai'r dull hwn ddwyn ynghyd y gwaith presennol ac arfer da sydd eisoes yn digwydd yn ogystal â chyflwyno syniadau newydd i gyfrannu at y dull hwn. Dylai hyn gynnwys targedau mesuradwy, a fyddai'n cael eu gosod ar gyfer cyfnod penodol o bum mlynedd, i sicrhau bod cydraddoldeb o ran mynediad at gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol."*

Pan wnaethom holi Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth am ei rhesymau am wrthod eich argymhelliad yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar ar 24 Mai, dywedodd:

> *"…we didn't want to waste time and resource developing a new strategy when we were already working to a strategy that was engaging with the sector and with stakeholders across local authority, across the third sector, with the general public and across Government."*

Fodd bynnag, byddai cael fframwaith polisi ar gyfer darpariaeth hamdden gyhoeddus yn creu manteision yn ein barn ni. Er bod gan Lywodraeth Cymru sawl strategaeth i annog mwy o gyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden egnïol yn fwy cyffredinol, mae'n debyg nad oes gweledigaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau hamdden cyhoeddus, yn enwedig un sy'n cysylltu gwasanaethau iechyd a hamdden cyhoeddus. Felly, gwneir yr argymhellion a ganlyn yn ein hadroddiad sy'n gysylltiedig â'ch casgliadau chi o ran cael dull cenedlaethol newydd ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol:

> ***Argymhelliad 5:*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn arwain adolygiad cyflym o'r sefyllfa bresennol o ran darpariaeth gwasanaethau hamdden cyhoeddus yng Nghymru ac yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol fel CLlLC, Un Llais Cymru, Chwaraeon Cymru a CCGC i ystyried gwelliannau ar gyfer dyfodol gwasanaethau hamdden.*

> ***Argymhelliad 6.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gymryd pob cam rhesymol i ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau hamdden cyhoeddus a gwasanaethau iechyd. Dylai hyn gynnwys datblygu fframwaith polisi newydd ar gyfer gwasanaethau hamdden cyhoeddus, sy'n cysylltu'n agos â gwasanaethau iechyd a lles. Fel rhan o'r broses, dylid adolygu rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth wella cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau hamdden cyhoeddus.*

Rydym yn bwriadu gofyn i'r Pwyllgor Busnes drefnu dadl ar ein hadroddiad yn yr hydref. Cyn y ddadl honno, byddaf yn gofyn i'r tîm clercio rannu ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad gyda chi.

Yn gywir,



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.


We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol

Gorffennaf 2023







Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddTai**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddTai@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddLlywLTai**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol

Gorffennaf 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddTai**

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**John Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Jayne Bryant AS**
Llafur Cymru



**Joel James AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Sam Rowlands AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Mabon ap Gwynfor AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **7**

**1. Cyflwyniad** .......... **10**

Y cefndir .......... 10

Ein hymchwiliad .......... 10

Ymgynghoriad .......... 11

Ymgysylltu .......... 11

Casglu tystiolaeth yn ffurfiol .......... 13

**2. Fframwaith statudol a pholisi - Llyfrgelloedd** .......... **14**

Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd .......... 14

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru .......... 16

Ein barn ni .......... 21

**3. Fframwaith statudol a pholisi – Hamdden** .......... **24**

Deddfwriaeth .......... 24

Fframwaith polisi .......... 28

Ein barn ni .......... 33

**4. Modelau darparu** .......... **35**

Darparu darpariaeth hamdden .......... 42

Cyflwyno darpariaeth llyfrgell .......... 46

Ein barn ni .......... 50

**5. Gwerth cymdeithasol** .......... **52**

Ein barn ni .......... 59

**6. Cydleoli** .......... **61**

Ein barn ni ..... 65

**7. Cymorth Ariannol ..... 67**

Ein barn ni ..... 73

**8. Cyllid cyfalaf a datgarboneiddio ..... 76**

Ein barn ni ..... 80

**Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ..... 82**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 84**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae canolfannau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn cyfoethogi bywydau cymunedau ledled Cymru. Maent yn darparu lle i bobl yn y cymunedau sydd o'u cwmpas gwrdd, cymryd amser allan, ehangu eu gwybodaeth a chefnogi eu hiechyd a'u llesiant. Maent hefyd yn gyswllt gweladwy rhwng yr hyn y mae trigolion yn ei gyfrannu drwy eu treth cyngor a'r gwasanaethau maent yn eu cael. Mae gwir werth cyfleusterau o'r fath i gymunedau yn aml yn dod yn fwy amlwg pan fydd gwasanaethau dan fygythiad.

Yn ystod y degawd diwethaf, mae cynghorau wedi ei chael hi'n anodd cynnal eu gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd lleol presennol. Mae cyfnod hir o gyni cyllidol, cyllidebau'n crebachu, pandemig byd-eang ac yn fwy diweddar, chwyddiant cyflym a chynnydd digynsail mewn costau ynni, wedi gorfodi cynghorau i ailasesu'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Yn aml, gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd sydd wedi gweld rhai o'r toriadau mwyaf i gyllidebau a newidiadau i'r arlwy, yn enwedig gan fod gwasanaethau hamdden cyhoeddus yn cael eu darparu yn ôl disgresiwn. Gwnaethom ystyried a oes angen cryfhau fframweithiau statudol a fframweithiau polisi i ddiogelu'r gwasanaethau hanfodol hyn, gan gynnwys datblygu cysylltiadau cryfach â gwasanaethau iechyd a llesiant.

Mewn ymgais i gynnal eu gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd tra'n lleihau gwariant ar yr un pryd, mae nifer o gynghorau wedi ceisio darparu'r gwasanaethau hyn mewn ffordd wahanol. Rhai enghreifftiau o hyn yw sefydlu cwmnïau masnachu awdurdodau lleol, contractio trefniadau rheoli i sefydliadau di-elw, neu drosglwyddo asedau i grwpiau cymunedol. Roedd ein ymchwiliad yn archwilio'r modelau darparu amrywiol sy'n cael eu defnyddio, a'u manteision a'u hanfanteision. Datblygiad pellach a archwiliwyd gennym yw cydleoli cynyddol rhai gwasanaethau i 'hybiau' cymunedol, yn rhannol i arbed ar gostau, ond hefyd i wella hygyrchedd i'r ystod eang o wasanaethau a gynigir.

Clywsom am yr heriau ariannol a gweithredol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu ar hyn o bryd wrth gynnal gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd. Mae costau ynni cynyddol wedi cael effaith sylweddol ar gyfleusterau hamdden yn benodol, yn enwedig y rhai sydd â phyllau nofio. Mae angen cymorth ychwanegol ar unwaith i'w helpu i lywio'r argyfwng presennol, ond mae angen buddsoddiad sylweddol hefyd mewn datgarboneiddio a moderneiddio cyfleusterau hamdden a llyfrgell. Mae gennym adeiladau sy'n heneiddio ledled Cymru sy'n anodd eu datgarboneiddio, a diffyg buddsoddiad cyfalaf. Mae angen i'n gwasanaethau

hamdden a llyfrgell fod yn addas ar gyfer y dyfodol, fel y gellir cyflawni'r manteision cymdeithasol ehangach hynny a godwyd yn ystod ein ymchwiliad.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein hadroddiad.

**John Griffiths AS**

Cadeirydd,
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio a ddylai gryfhau Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i ddiogelu llyfrgelloedd rhag cau............ Tudalen 22

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i gwaith ar fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru fel mater o frys a'i bod yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar yr amserlenni ar gyfer cyflwyno'r fframwaith............ Tudalen 23

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd wrth ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru ac yn egluro sut y bydd y strategaeth yn plethu â'r fframwaith safonau llyfrgell. Dylai hefyd egluro trefniadau ar gyfer cydweithio a symleiddio cyfrifoldebau Gweinidogol mewn perthynas â gwasanaethau llyfrgell a diwylliant. ............ Tudalen 23

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth sicrhau bod gwasanaethau hamdden cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru. Dylai rannu ei chanfyddiadau gyda'r Pwyllgor. ............ Tudalen 33

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn arwain adolygiad cyflym o'r sefyllfa bresennol o ran darpariaeth gwasanaethau hamdden cyhoeddus yng Nghymru ac yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol fel CLlLC, Un Llais Cymru, Chwaraeon Cymru a CCGC i ystyried gwelliannau ar gyfer dyfodol gwasanaethau hamdden. ............ Tudalen 34

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd pob cam rhesymol i ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau hamdden cyhoeddus a gwasanaethau iechyd. Dylai hyn gynnwys datblygu fframwaith polisi newydd ar gyfer gwasanaethau hamdden cyhoeddus, sy'n cysylltu'n agos â gwasanaethau iechyd a lles. Fel rhan o'r broses, dylid adolygu rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth wella cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau hamdden cyhoeddus. ............ Tudalen 34

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol drwy CLlLC i ddarparu cymorth, arweiniad a rhannu arferion gorau sy'n ymwneud â gwahanol fodelau o ddarparu gwasanaethau. ............ Tudalen 51

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â phartneriaid llywodraeth leol, yn mynd ati'n rheolaidd i ddadansoddi a chyhoeddi data penodol i Gymru ar yr enillion gwerth cymdeithasol ar fuddsoddiad wrth ddarparu gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd. .......... Tudalen 60

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r opsiynau ar gyfer sefydlu Tasglu Llyfrgelloedd i hyrwyddo gwerth llyfrgelloedd a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i'w cymunedau a manteision cymdeithasol ehangach. .......... Tudalen 60

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, gyda phartneriaid llywodraeth leol, yn monitro ac yn gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cydleoli yng Nghymru hyd yma ac yn rhannu eu canfyddiadau ag awdurdodau lleol. .......... Tudalen 66

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol drwy CLlLC i sicrhau bod trafnidiaeth, gan gynnwys gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol, yn ystyriaeth allweddol wrth wneud penderfyniadau ar gydleoli gwasanaethau. .......... Tudalen 66

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dyrannu £3.5 miliwn mewn cyllid canlyniadol i byllau nofio, yn enwedig y rhai a allai fod yn anhyfyw heb gymorth ychwanegol. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r Pwyllgor pan fydd penderfyniad ynghylch dyrannu'r £3.5 miliwn ychwanegol wedi'i wneud. .......... Tudalen 74

**Argymhelliad 13.** Rydym yn cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid ychwanegol wedi'i dargedu i'r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol. .......... Tudalen 74

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Pwyllgor ar ba gymorth ariannol ychwanegol y bydd yn ei ddarparu i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd i ddelio â'r argyfyngau ynni a chostau byw presennol. .......... Tudalen 74

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd i ddatblygu strategaeth i annog ysgolion cynradd i ddarparu gwersi nofio am ddim, a sut y mae'n gweithio gyda darparwyr hamdden ar y strategaeth hon. .......... Tudalen 75

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio sut y gall godi ymwybyddiaeth o'r cymorth i ddatgarboneiddio cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd........ Tudalen 80

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn cefnogi datgarboneiddio ac adnewyddu cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd ledled Cymru. Dylai hyn gynnwys atebion tymor byr, yn ogystal â strategaeth hirdymor, i helpu awdurdodau lleol a darparwyr cyflenwi i wella effeithlonrwydd ynni eu cyfleusterau ar frys........ Tudalen 81

# 1. Cyflwyniad

## Y cefndir

**1.** Mae llyfrgelloedd cyhoeddus a chanolfannau hamdden yn cynnig lle i bobl gyfarfod, gweithio, dysgu a chynnal eu hiechyd corfforol a meddyliol. Dros y degawd diwethaf, fodd bynnag, mae gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd wedi lleihau yn sylweddol. Mewn ymgais i gynnal y gwasanaethau hyn a lleihau gwariant ar yr un pryd, mae sawl awdurdod wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal rhai o'u gwasanaethau i gynghorau cymuned, grwpiau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae rhai cyfleusterau wedi cau, tra bod eraill wedi cael eu cydgrynhoi i ffurfio siopau un stop mwy o faint, sy'n darparu gwasanaethau ychwanegol fel cymorth tai neu gyngor ariannol.

**2.** Mae awdurdodau lleol yn defnyddio nifer o fodelau i ddarparu eu gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: darparu gwasanaethau yn fewnol yn unig, darparu gwasanaethau drwy drefniadau partneriaeth, darparu gwasanaethau drwy gwmnïau masnachu awdurdodau lleol, contractio trefniadau rheoli i sefydliadau di-elw, neu drosglwyddo asedau i grwpiau cymunedol.

## Ein hymchwiliad

**3.** Yn ein sesiwn cynllunio strategol ar 20 Hydref 2022, gwnaethom nodi bod y gallu i gyflenwi gwasanaethau llywodraeth leol a'u cynaliadwyedd yn faes blaenoriaeth i'r Pwyllgor. Ym mis Rhagfyr 2023, gwnaethom benderfynu lansio ymchwiliad yn edrych yn benodol ar wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol, ac ym mis Ionawr 2023 cytunwyd ar y cylch gorchwyl canlynol:

- Cyflwr presennol y gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd a ddarperir gan awdurdodau lleol;
- Yr heriau ariannol a gweithredol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gynnal y gwasanaethau cymunedol hanfodol hyn;
- Trefniadau a strategaethau ymadael awdurdodau lleol ar gyfer achosion lle nad yw'r modelau darparu amgen a ddefnyddir yn llwyddiannus;
- Sut mae'r broses o ddarparu gwasanaethau eraill a ddarperir gan awdurdodau lleol yn rhyngweithio â gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd;

- Sut mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau, a'r manteision canfyddedig sy'n gysylltiedig â'r modelau hynny;
- Arfer da o ran sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau lleol hamdden a llyfrgelloedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Ymgynghoriad

**4.** Lansiwyd cais am dystiolaeth ysgrifenedig gennym ar 3 Chwefror. Cafodd yr ymgynghoriad 12 o ymatebion a daeth i ben ar 13 Mawrth 2023. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi eu cyhoeddi.

## Ymgysylltu

**5.** Gwnaethom ymweld â nifer o ganolfannau hamdden a llyfrgelloedd fel rhan o'n hymchwiliad. Ar 16 Mawrth, ymwelodd yr Aelodau â'r gwasanaethau a ganlyn:

### Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy

**6.** Ers mis Medi 2017, mae Aura Cymru, Cymdeithas Budd Cymunedol (sy'n eiddo i gyflogeion y Cyngor), wedi bod yn gyfrifol am reoli'r rhan fwyaf o wasanaethau hamdden, llyfrgelloedd a threftadaeth Cyngor Sir y Fflint. Mae Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn un o bedair canolfan hamdden yn Sir y Fflint sy'n cael eu rhedeg gan Aura, ond dyma'r unig ganolfan hamdden heb bwll nofio. Serch hynny, mae gan y ganolfan hamdden amrywiaeth o gyfleusterau, gan gynnwys llawr sglefrio iâ, parc sglefrio, caeau chwaraeon 3G a glaswellt, ystafelloedd ffitrwydd, sba a neuadd chwaraeon.

### Canolfan Hamdden Plas Madoc

**7.** Mae Freedom Leisure yn gyfrifol am reoli holl gyfleusterau hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ac eithrio Plas Madoc. Mae'r ganolfan hamdden yng nghanol stad o dai yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Ymddiriedolaeth Gymunedol Sblash yn rheoli'r gwaith o redeg Canolfan Hamdden Plas Madoc. Mae'n sefydliad elusennol nid-er-elw a sefydlwyd yn dilyn penderfyniad gan Gyngor Wrecsam i gau'r ganolfan hamdden yn 2014 er mwyn gwneud arbedion. Roedd y cyngor yn mynd i'w dymchwel, ond cafodd ei hailagor yn ddiweddarach y flwyddyn honno ar ôl i'r ymddiriedolaeth gymunedol gael ei ffurfio i gymryd yr awenau. Yr awdurdod lleol sydd biau'r adeilad o hyd, ac ar hyn o bryd mae'r adeilad yn cael ei brydlesu i'r ymddiriedolaeth.

**Llyfrgell Gymunedol Gresffordd a'r Cylch**

**8.** Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y byddai'n cau nifer o gyfleusterau cymunedol mewn ymgais i wneud arbedion, yn cynnwys llyfrgell Gresffordd. Penderfynodd cymunedau Gresffordd, Marford a'r Orsedd sefydlu cwmni cyfyngedig drwy warant ac elusen gofrestredig i amddiffyn y llyfrgell rhag cau ac i gynnal ei gwasanaethau. Agorodd Llyfrgell Gresffordd a'r Cylch, o dan berchnogaeth gymunedol, ei drysau ar 6 Mai 2014. Mae'n cael ei rheoli a'i staffio'n gyfan gwbl gan wirfoddolwyr.

**Canolfan Hamdden Castell-nedd**

**9.** Mae Canolfan Hamdden Castell-nedd yn ganolfan hamdden newydd sbon gwerth miliynau o bunnoedd yng nghanol Castell-nedd. Mae'n cynnwys pwll nofio 25m, campfa 100 gorsaf, ystafell iechyd, gofod llawr manwerthu, cyfleusterau gofal plant, caffi a llyfrgell. Fe'i hadeiladwyd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, ac fe'i hariannwyd yn rhannol gan Gronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Ymrwymodd yr awdurdod lleol i gontract gyda Celtic Leisure, elusen gofrestredig, yn 2003 i redeg ei gyfleusterau hamdden. Fodd bynnag, bydd rheolaeth dros wasanaethau hamdden yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cael ei throsglwyddo'n ôl i'r cyngor yn fuan yn dilyn pleidlais gan gynghorwyr.

**Llyfrgell Sarn**

**10.** Mae Llyfrgell Sarn yn un o 11 llyfrgell sy'n gwasanaethu trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n un o chwe llyfrgell "llawn amser" sy'n cael eu rhedeg gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Elusen gofrestredig yw Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, sy'n cael ei llywodraethu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar draws tair ardal awdurdod (Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf).

**Casnewydd Fyw**

**11.** Ymddiriedolaeth elusennol gofrestredig a chwmni cyfyngedig drwy warant yw Casnewydd Fyw ac mae'n rhedeg saith lleoliad chwaraeon a hamdden ledled Casnewydd. Wedi'i sefydlu ym mis Ebrill 2015, mae ganddi nifer o gampfeydd, pedwar pwll nofio, canolfan tennis a chyfleusterau chwaraeon eraill. Mae ganddi hefyd ganolfan theatr a chelfyddydau ranbarthol o'r enw Glan yr Afon. Mae Casnewydd Fyw yn cael ei llywodraethu gan fwrdd o ymddiriedolwyr ac mae'n cael ei gweithredu ar ran Cyngor Dinas Casnewydd.

## Casglu tystiolaeth yn ffurfiol

**12.** Clywsom gan chwe phanel o dystion rhwng 23 Mawrth a 4 Mai 2023, cyn cymryd tystiolaeth gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ("y Dirprwy Weinidog") ar 24 Mai.

# 2. Fframwaith statudol a pholisi - Llyfrgelloedd

## Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd

**13.** Mae myrdd o ofynion a dyletswyddau statudol wedi eu gosod ar gynghorau, yn cwmpasu meysydd gwasanaeth allweddol fel darpariaeth addysg leol, gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau plant, trafnidiaeth, priffyrdd a chynllunio, i enwi dim ond rhai. Ymhlith y gofynion statudol ar gynghorau y mae dyletswydd o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy'n dymuno defnyddio'r cyfleuster. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sicrhau stoc ac argaeledd digonol o ran llyfrau, ac annog defnydd llawn o'r gwasanaeth llyfrgell. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn diffinio beth yw gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon, gan adael rhywfaint o le i gynghorau ddehongli hynny eu hunain.

**14.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth Cymru ("CILIP") y canlynol am y Ddeddf hon:

> *"This Act rightly makes librarians proud of their sector and offers wider library stakeholders…a solid base from which to defend library services from cuts and diminishing standards of service.*
>
> *The Act and its guarantee to provide library services across Wales offers the Welsh Government a network of consistent service delivery at the heart of local authorities."*[1]

**15.** Dywedodd GLL (Better) wrthym mai'r broblem gyda Deddf 1964 yw'r geiriau 'cynhwysfawr ac effeithlon':

> *"…it is how those words are defined. So, they are defined locally, and that places library services at risk. I think there would be merit in looking at the situation to see whether further protection could be built in …. So, there may be some merit in looking to see whether additional legislation would be helpful to make sure that the services that you value are retained."*[2]

[1] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 09 CILIP
[2] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, p130

**16.** Yn ôl UNSAIN, mae angen i'r ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau llyfrgell fod yn fwy penodol oherwydd gellid dehongli'r ddyletswydd fel un i ddarparu dim ond un llyfrgell yn unig.[3]

**17.** Dywedodd CILIP y canlynol wrthym am Ddeddf 1964:

> *"...it does a lot of heavy lifting across the UK, and it's useful for people to rally around when there are cuts threatened. But it doesn't do an awful lot. It's really important in a public sense and it's really important that it's there as a starting point, but it's up to us as stakeholders—that's SCL, that's the national library, it's the Government, it's organisations like CILIP—to then decide what that means for us today, now, and how we're going to implement that."*[4]

**18.** Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog mewn tystiolaeth lafar nad oes yr un o Weinidogion Cymru wedi defnyddio pwerau statudol o dan Ddeddf 1964 i ymyrryd a galw ymchwiliad lleol pan fydd awdurdod llyfrgell yn methu â darparu'r gwasanaeth gofynnol:

> *"That's not to say that there haven't been discussions with local authorities over the years about the level of their public library services, and, generally, that's been sufficient in terms of being able to resolve any difficulties, and that's the route that we would prefer to go down."*[5]

**19.** Yn ôl y Dirprwy Weinidog, byddai cryfhau'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn rhy gaeth ac yn gwneud gwasanaethau llyfrgell braidd yn fwy anhyblyg. Aeth ymlaen i ddweud

> *"...the library services we would want to be delivering are based on the needs of a particular community, the local authorities are best placed to make that decision. So, we would see legislation as actually being more restrictive rather than kind of freeing it up and giving more clarity."*[6]

**20.** Cadarnhawyd hyn gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol mewn llythyr atom dyddiedig 6 Mehefin 2023:

[3] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 06 UNSAIN Cymru
[4] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 212
[5] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 13
[6] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 15

> *"Mae gwasanaethau llyfrgell yn amrywio ledled Cymru a chyfrifoldeb awdurdodau lleol unigol yw penderfynu ar y trefniadau ar gyfer darparu eu gwasanaeth llyfrgell a hynny, gan ystyried anghenion eu cymunedau lleol. Ni fyddai'n briodol i Lywodraeth Cymru gyfyngu ar allu awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth yn seiliedig ar anghenion lleol.*
>
> *Gallai disgrifiad o wasanaeth llyfrgell sydd wedi'i ddiffinio'n fwy caeth ac sydd wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth atal awdurdodau lleol rhag datblygu ac arloesi… Yr hyblygrwydd hwn yw'r rheswm dros y ffaith nad wyf wedi ystyried cysylltu'r fframwaith polisi i'r ddeddfwriaeth."*[7]

## Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

**21.** Er mai'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddarparu gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd lleol, mae dyletswyddau o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud y canlynol:

> *"superintend and promote the improvement of the public library service provided by local authorities and to secure the proper discharge by local authorities of the functions in relation to libraries conferred upon them as library authorities under this Act."*

**22.** Ers 2002, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r ddyletswydd hon drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ("y safonau") sy'n nodi eu disgwyliadau ar awdurdodau lleol o ran eu darpariaeth llyfrgell. Cafodd y fframweithiau hyn eu diwygio bob tair blynedd. Yn ôl y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol:

> *"Mae'r dull hwn wedi ein galluogi i fonitro lefel y darpariaethau yn ogystal â chefnogi ac annog prosesau o ddatblygu gwasanaethau newydd mewn llyfrgelloedd."*[8]

**23.** Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chweched fframwaith - Llyfrgelloedd cysylltiedig ac uchelgeisiol. Daeth y fframwaith hwn i ben yn 2020, gyda'r bwriad o barhau ag ef am flwyddyn arall er mwyn gallu adolygu a datblygu fframwaith newydd. Fodd bynnag, fe wnaeth y pandemig darfu ar y gwaith hwn.

[7] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, Papur 10
[8] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, Papur 10

**24.** Dywedodd CILIP mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod y safonau wedi eu rhoi mewn sefyllfa gref i hyrwyddo a mesur safonau proffesiynol, ac y dylid eu hystyried fel llwybr i sicrhau darpariaeth gwasanaethau, proffesiynoldeb a gwasanaeth teg.[9]

**25.** Nododd GLL (Better) fod y safonau wedi bod yn ddefnyddiol ond nad ydynt wedi atal lleihad mewn cyllid o, er enghraifft, stociau llyfrau ledled Cymru. [10]

**26.** Yn yr un modd, dywedodd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen fod y safonau wedi cyfrannu at sicrhau bod gan Ddeddf 1964 fwy o ddiffiniad er nad yw'n atal llyfrgelloedd rhag cau:

> *"…certainly speaking in Wales—and I think it's been done better here than perhaps elsewhere in the UK—it has protected the library services. It doesn't mean that libraries haven't shut, but I do think that they've provided a framework whereby local authorities can be measured on their efforts and on their intentions around library services."* [11]

**27.** Fodd bynnag, roedd diffyg safonau newydd wedi'u diweddaru yn destun pryder i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a rhanddeiliaid eraill. Dywedodd CILIP wrthym fod y diffyg safonau wedi'u diweddaru yn golygu eu bod yn hercian yn eu blaenau yn y chweched fframwaith i ryw raddau ar hyn o bryd.[12]

**28.** Clywsom alwadau bod angen i'r safonau gael eu hadolygu'n llwyr[13] a'u hailwampio'n gyfan gwbl.[14] Yn ôl Awen, mae'r safonau'n canolbwyntio gormod ar fewnbynnau ac allbynnau yn hytrach na mynd ati o ddifrif i sicrhau'r gwerth gorau a'r gwerth cymdeithasol:[15]

> *"I guess a question for Government is, 'Why are you asking those questions? What are you doing with the information? Why does it matter how much is actually being spent? Should it be more the results of that expenditure?' Because somebody could be spending millions on their library service; it doesn't necessarily*

[9] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 09 CILIP
[10] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 130
[11] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 123
[12] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 180
[13] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 220
[14] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 125
[15] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 125

*mean it's a good library service. So, I think it's really asking those deep questions as to why we want this information."*[16]

**29.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLlLC") ei bod yn amserol i'r fframwaith gael ei adolygu o ystyried y gwasanaethau y mae llyfrgelloedd bellach yn eu cynnig, gyda'r holl elfennau digidol a mwy.[17] Dywedodd fod cydweithio â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn allweddol, gyda'r Cynghorydd Rob Stewart yn datgan bod llywodraeth leol yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i drafod, gwella, cydgynhyrchu, ailddylunio'r fframwaith. Nododd fod y model hwn o weithio yn well na defnyddio ffon di-fin a hynod aneffeithiol deddfwriaeth.[18]

**30.** O ran sut y dylai'r safonau newydd edrych, dywedodd Community Leisure UK Wales wrthym ei bod yn bwysig nad oes un cynnig sy'n addas i bawb:

> *"There are some examples, we believe, of where the standards framework has ensured consistency. One example is free Wi-Fi across Welsh libraries—and there's the question: would it have been possible without that standards framework and the core entitlement? But one of the cautions that we would argue for is, obviously, every community is different and every community has different needs as well, so if it's about equity of access, it's important that there's not a one-size-fits-all offer."*[19]

**31.** Yn yr un modd, dywedodd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen:

> *"…libraries are now very vibrant spaces; they're very different wherever you go, they're very localised, and I think whatever framework we have in place needs to reflect that, and that they mean a great deal of different things to many, many different people."*[20]

**32.** Clywsom ei bod yn bwysig i bobl hŷn yn benodol fod rôl llyfrgelloedd wrth gefnogi datblygiad sgiliau digidol yn cael ei chynnal. Yn ôl y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

> *"Bydd hyn yn galluogi pobl hŷn sy'n dymuno datblygu sgiliau i fod ar-lein i gael hyfforddiant ffurfiol neu anffurfiol mewn*

---

[16] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 143
[17] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 378
[18] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 383
[19] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 92
[20] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2022, p113 - 115

*amgylchedd croesawgar a chyfarwydd, gan helpu i wella cynhwysiant digidol. Fodd bynnag, mae llyfrgelloedd hefyd yn gweithredu fel ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth i'r bobl hŷn hynny nad ydynt yn gallu neu'n dewis peidio â chael mynediad i'r we, gan leihau gwaharddiad digidol. Mae hyn yn hanfodol."*[21]

**33.** Galwodd CILIP am i'r safonau gael eu defnyddio'n fwy effeithiol i fesur, datblygu a hyrwyddo llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru trwy eu lledaenu'n well a thrwy drafodaeth broffesiynol. Mae ei thystiolaeth ysgrifenedig yn mynd ymlaen i ddatgan y gellid defnyddio'r Safonau hefyd i fesur effaith toriadau cyllidebol i wasanaethau ac i gychwyn adborth ystyrlon i awdurdodau lleol sy'n mynd i'r afael â'r effaith hon.[22]

**34.** Nododd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru ("SCL Cymru") y diffyg cysylltiad rhwng y safonau a Deddf 1964. Galwodd am fwy o eglurder ynghylch yr hyn sy'n digwydd pan fydd awdurdodau wedi disgyn islaw'r hyn a ystyrir yn lefelau derbyniol o ddarpariaeth gwasanaethau:

*"…what is missing is the monitoring of performance as it relates to the standards. So, what happens afterwards where, potentially, authorities may have fallen down below what would be seen as acceptable levels? What takes place then? So, that needs to be a bit clearer, I think.*

*And then, on its flip side, where things have gone really, really well, we need to use it as a vehicle to advocate for libraries, so people can understand what they are and what opportunities they present."*[23]

**35.** Clywsom hefyd y gellid gwneud mwy o ran rhannu arferion gorau. Er enghraifft, dywedodd CILIP wrthym:

*"I think librarians are obsessed, perhaps quite rightly, with who is not using their services, and that's very difficult to measure. But I think we do need to spend time….thinking about that in the new public library standards and how we do that. There are lots of really interesting cases across individual authorities, and sometimes individual libraries, where people are doing really*

[21] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 05 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
[22] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 09 CILIP
[23] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraffau 210-211

*interesting work in these areas, but…it's not very strategic at a national level, and we'd really welcome that."*[24]

**36.** Yn yr un modd, dywedodd Community Leisure UK Cymru:

*"…there is great innovation happening across library services in Wales that can be applied in terms of programmes in other local authority areas as well. That isn't necessarily needed to be included in a standards framework, but is just generally in terms of sharing best practice."*[25]

**37.** Yn ôl aelodau Community Leisure UK Cymru, un peth sydd ar goll o'r fframwaith presennol yw corff cenedlaethol i arwain datblygiad llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.[26] Adleisiwyd hyn gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a nododd nad oes corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am lyfrgelloedd.[27] Dywedodd Un Llais Cymru y dylai rhwydweithiau presennol i rannu arferion gorau gael eu hymestyn i gynnwys cynghorau cymuned a thref.[28]

**38.** Mynegodd CLlLC bryderon mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod y gwasanaeth llyfrgelloedd yn dioddef o "ddiffyg strategaeth… glir" ar lefel Llywodraeth Cymru.[29]

**39.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod swyddogion wedi dechrau gweithio ar y seithfed fframwaith dros yr haf.[30] O ran y gwaith y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei wneud gyda phrif lyfrgellwyr ar y fframwaith newydd, dywedwyd:

*"….the nature of libraries is really changing, and we'd like the seventh framework to recognise that change but also to support and develop the kinds of changes that are proving to be so effective in libraries."*[31]

**40.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog mai ei dealltwriaeth a'i disgwyliad oedd y byddai'r adolygiad yn ystyried newidiadau mewn anghenion digidol yn ogystal â chymdeithasol:

---

[24] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 115
[25] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 93
[26] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 98
[27] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 124
[28] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 101
[29] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 11 CLlLC
[30] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 26
[31] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 27

> *"What we saw was a growth of digital provision through COVID, and I think we saw the benefits of that. It adds a whole new dimension to libraries. We would very much want to see that developed and made more consistent across all of our public libraries, so I would anticipate that being very much part of the seventh framework."*[32] *(para 29)*

**41.** Dywedodd hefyd wrthym fod llyfrgelloedd yn rhan annatod o'r ystyriaethau ar gyfer y strategaeth ddiwylliant newydd. Aeth ymlaen i egluro:

> *"It will include how the library standards work. So, we've consulted with representatives of the libraries sector, and we're including them in the next phase of developing and reviewing the key themes, and developing the strategy. The strategy covers four areas of culture, and libraries being one of those significant areas. They've all got equal value and equal importance within the strategy, and I'm hoping that that will be published later this year.*
>
> *It's developing the library standards and the culture strategy in tandem. So, again, I don't want to see the two things sitting separately, because the culture strategy clearly needs to inform the library standards as well. So, that's why it's important that we make sure that there is that close relationship between library officials, people working on the culture strategy, and the development of the framework."*[33]

## Ein barn ni

**42.** Nid oedd gan y tystion deimladau cryf o blaid neu yn erbyn deddfu ar gyfer darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, er i rai nodi, er gwaethaf fframwaith penodol yng Nghymru, nad yw wedi atal erydu cyllid nac wedi atal llyfrgelloedd rhag cau. Felly, rydym yn cytuno â thystion bod yn werth edrych i weld a ellid cynnwys rhagor o fesurau amddiffyn yn y fframwaith presennol i helpu i ddiogelu mwy o lyfrgelloedd rhag cael eu cau. Wedi'r cyfan, mae llyfrgelloedd yn ganolfannau cymunedol, sy'n cynnal amrywiaeth eang o wasanaethau a gweithgareddau, nid dim ond y gallu i fenthyg llyfrau.

[32] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 29
[33] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraffau 31-32

**43.** Er y gallai fod lle i gryfhau'r ddeddfwriaeth i atal llyfrgelloedd rhag cau, credwn y dylai'r gwasanaethau llyfrgell sy'n cael eu darparu fod yn seiliedig ar angen cymuned ac mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch darpariaeth eu gwasanaeth llyfrgell. Ni chawsom ein darbwyllo o rinweddau ymgorffori diffiniad mwy rhagnodol o wasanaeth llyfrgell mewn deddfwriaeth, yn enwedig pan allai hyn rwystro gallu awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi i ddatblygu eu darpariaeth ac i arloesi. Clywsom am y gwaith arloesol sy'n cael ei wneud mewn llyfrgelloedd ledled Cymru i ymgysylltu â chymunedau, a chawsom weld hyn drosom ein hunain, ac ni fyddem am weld hyn yn lleihau mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, dylai unrhyw gamau i gryfhau'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol i atal llyfrgelloedd rhag cau ystyried bod 'gwasanaeth llyfrgell' heddiw yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd ym 1964 pan gyflwynwyd y Ddeddf.

**44.** Nodwn nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gryfhau Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Fodd bynnag, byddem yn ei hannog i ailystyried y penderfyniad hwn a rhoi ystyriaeth bellach i a ddylid cryfhau'r fframwaith statudol.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio a ddylai gryfhau Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i ddiogelu llyfrgelloedd rhag cau.

**45.** O ystyried datblygiadau ac arloesedd diweddar ym maes gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru, wedi'u gyrru'n rhannol o ganlyniad i'r pandemig a'r heriau costau byw, rydym yn bryderus am y diffyg fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru newydd, wedi'i ddiweddaru. Clywsom alwadau i ailwampio'r safonau yn llwyr i adlewyrchu'r gwasanaethau y mae llyfrgelloedd bellach yn eu darparu a datblygiadau digidol. Gyda'r amser sylweddol sydd wedi mynd heibio ers y fersiwn ddiwethaf, rydym yn mawr obeithio na fydd y seithfed fframwaith yn seiliedig i raddau helaeth ar y fframwaith presennol. O ran yr hyn y dylai'r safonau newydd ei ddarparu, credwn y dylent ganiatáu hyblygrwydd. Rydym yn cytuno â thystion y byddai cynnig un maint addas i bawb yn anaddas er mwyn caniatáu ar gyfer gwahaniaethau yn ôl ardal ac anghenion cymunedau lleol. Hoffem hefyd weld cyfleoedd i rannu arferion gorau wedi'u hymgorffori yn y fframwaith. Mae gwaith pwysig ac effeithiol ar y gweill ar draws llyfrgelloedd yng Nghymru, a byddai annog rhannu arferion gorau drwy'r fframwaith yn helpu awdurdodau lleol i ddarparu eu gwasanaethau mewn ffyrdd arloesol, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

**46.** Clywsom alwadau am fwy o gysylltiad rhwng Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 a Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, a mwy o

eglurder ynghylch yr hyn sy'n digwydd pan fydd awdurdodau'n disgyn islaw'r hyn a ystyrir yn "lefelau derbyniol" o ddarpariaeth gwasanaethau. Nodwn, fodd bynnag, fod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi dewis peidio ag ystyried cysylltu'r fframwaith polisi â'r ddeddfwriaeth. Bydd hyn, medd y Gweinidog, yn galluogi awdurdodau lleol i gadw'u hyblygrwydd o ran y lefel o wasanaethau a'r math o wasanaethau llyfrgell y maent yn eu darparu. Fodd bynnag, byddem yn annog unrhyw ddangosyddion perfformiad ac ansawdd yn iteriad newydd y safonau i adlewyrchu'r chwyldro digidol a'r trawsnewid yn y modd y caiff gwasanaethau llyfrgell eu darparu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**47.** Clywsom gan y Gweinidog fod llyfrgelloedd yn rhan annatod o'r ystyriaethau ar gyfer y strategaeth ddiwylliant newydd a bod y strategaeth a'r seithfed fersiwn o'r safonau llyfrgell yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'i gilydd. Rydym yn cefnogi'r dull hwn i'r carn, sy'n sicrhau nad yw gwaith o'r fath yn cael ei wneud mewn seilos. Yn ein barn ni, mae hyn yn arbennig o bwysig gan ein bod yn bryderus bod gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd yn aml yn cael eu hanwybyddu neu eu tanbrisio yng nghyd-destun ehangach darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Felly, byddem yn annog gweithio mewn modd cydgysylltiedig i ail-lunio'r ffordd y darperir gwasanaethau llyfrgell. Fodd bynnag, nodwn fod gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gyfrifoldeb am lyfrgelloedd cyhoeddus, a bod Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth yn gyfrifol am ddatblygu'r strategaeth ddiwylliant newydd. O ganlyniad i hyn, rydym yn bryderus na fydd materion sy'n ymwneud â llyfrgelloedd cyhoeddus yn flaenoriaeth neu'n eitem reolaidd ar yr agenda mewn cyfarfodydd Gweinidogol. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru ddarparu eglurder ar gyfrifoldebau a'r dull a gymerir gan Weinidogion a swyddogion i weithio ar y cyd ac yn effeithiol ar y strategaeth ddiwylliant a'r safonau llyfrgell newydd.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i gwaith ar fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru fel mater o frys a'i bod yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar yr amserlenni ar gyfer cyflwyno'r fframwaith.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd wrth ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru ac yn egluro sut y bydd y strategaeth yn plethu â'r fframwaith safonau llyfrgell. Dylai hefyd egluro trefniadau ar gyfer cydweithio a symleiddio cyfrifoldebau Gweinidogol mewn perthynas â gwasanaethau llyfrgell a diwylliant.

# 3. Fframwaith statudol a pholisi – Hamdden

## Deddfwriaeth

**48.** Er bod dyletswyddau hirsefydlog ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd i drigolion, nid yw'r un peth yn wir am wasanaethau hamdden. Nid oes deddf sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddarparu gwasanaethau hamdden i'w trigolion – yn hytrach maent yn cael eu darparu yn ôl disgresiwn.

**49.** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys cynghorau, ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau polisi a chyllidebol. Sefydlodd y Ddeddf saith nod llesiant i sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at yr un diben ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd darpariaeth hamdden yng Nghymru. Ymhlith y saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio tuag at eu cyflawni sy'n berthnasol i ddarpariaeth hamdden a llyfrgelloedd mae:

- Cymru iachach - cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**50.** Nododd Cymdeithas Chwaraeon Cymru ("WSA") yn eu tystiolaeth ysgrifenedig fod hamdden, am nad yw'n wasanaeth statudol, wedi bod yn un o'r meysydd cyllidebol cyntaf i ddod dan bwysau wrth i gyllid gael ei wasgu.[34]

**51.** Yn yr un modd, clywsom gan Cwmpas mai gwasanaethau nad ydynt yn rhai statudol, mewn cyfnodau anodd, fydd y cyntaf i deimlo'r effaith pan fydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd, felly mae'n werth ystyried a ddylid gosod gwasanaethau hamdden ar sail statudol:

> *"…if we go back to 2010, the debates were that, actually, this isn't statutory—obviously, social services is statutory, education is statutory—and when the public sector had to make some difficult decisions, some of the first decisions were based*

[34] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 07 Cymdeithas Chwaraeon Cymru

*around this agenda. If you think of us in Wales, we are a nation that created the well-being of future generations Act, and if we all agree on the whole well-being part of this and the prevention part of this work that we do, then maybe it does need to be on the same, similar statutory footing."*[35]

**52.** Dywedodd GLL (Better) y byddai'n croesawu'r canlynol:

*"simple legislation, saying that there needs to be a health and leisure strategy that ensures that the leisure centre service joins up with the health service would be good."*[36]

**53.** Cytunodd WSA fod angen archwilio'r opsiynau ar gyfer deddfu. Fodd bynnag, nododd fod deddfwriaeth bresennol ar ffurf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi helpu i grisialu'r sefyllfa o ddarparu gwasanaethau hamdden cyhoeddus, ond nid yw'n siŵr a yw'n mynd yn ddigon pell[37]. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, argymhellodd WSA y dylid gwneud y canlynol:

*"Strengthening existing duties in the Future Generations Act and ensuring ongoing delivery of accessible, affordable local services in Welsh communities."*[38]

**54.** Yn yr un modd, cyfeiriodd Nofio Cymru, a ddywedodd y byddai'r syniad o ddeddfu yn ymateb arbennig o gryf, at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

*"I think the framework is there across the well-being of future generations Act…I think there's a very strong will across Wales, across all of our partners to do this…I'd like to think that the will and the overall strategy and ambition for Wales would override any need to legislate. But, clearly, if that's not happening, then, we run out of alternatives."*[39]

**55.** Cwestiynodd Community Leisure UK Cymru bwrpas deddfu ar gyfer gwasanaethau hamdden cyhoeddus, gan gyfeirio ar wasanaethau llyfrgell a dweud nad yw Deddf 1964 yn eu hamddiffyn rhag cau. Roedd Community Leisure UK Cymru hefyd yn credu bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu:

---

[35] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 68
[36] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 135
[37] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2022, paragraff 217
[38] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 07 Cymdeithas Chwaraeon Cymru
[39] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 218

> *"…some statutory protection for leisure and library services, because the associated well-being goals play a significant role, actually, in safeguarding leisure and library services in Wales."*[40]

**56.** Yn ôl Chwaraeon Cymru, heb ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd y penderfyniad i gadw cyfleusterau ar agor, neu eu hagor am lai o oriau, yn seiliedig ar fanteision canfyddedig gwneud hynny yn erbyn y llinell isaf.[41] Fodd bynnag, nododd fod y Ddeddf wedi helpu i ehangu'r safbwynt ynghylch yr hyn yw'r llinell isaf honno'n sylweddol:

> *"I think that we have all come to the nature of it being a bit of a false economy to cut back on leisure services and library services. Ultimately, that's going to have a knock-on effect on education, health, social services, et cetera, in the longer term, which will potentially be more expensive to the public purse if we're having to deal with the impacts of not providing those benefits. But I think the Act is there, at the moment, more as a carrot than a stick, and I don't think that is necessarily a bad thing. It is about using the Act to empower social change and to think broadly and long term about these things. But, ultimately, I don't think, if we're being really honest about it, that people are making determined decisions to keep things open, or at a certain level of service, based entirely on the future generations Act."*[42]

**57.** Roedd UNSAIN Cymru yn glir ynghylch yr hyn y credai y dylai'r flaenoriaeth fod, gan ddweud pe bai gan gynghorau ddigon o gyllid, ni fyddem o reidrwydd yn edrych i weld a oes angen deddfu i ddod â chynghorau i drefn ynghylch hyn:[43]

> *"…it is a bit of a chicken-and-egg situation; I think the lack of funding has meant that we've got a disparagement and a completely varied provision in terms of quality and quantity. So, essentially, it's, 'How can we get consistency clearly?' Well, I think we get consistency by improving funding to local government. But I think there is a role for clarification and tightening up on legislation. But I'm not one who supports over-prescriptiveness for councils, because I believe councils are*

[40] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 75
[41] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 79
[42] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 80
[43] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 276

*responsible to their communities, and within a framework, they work well if properly and adequately funded."*[44]

**58.** Tynnodd Aura Cymru sylw at yr angen am gyllid digonol hefyd:

*"Legislation may help…But what would be incredibly helpful in future, because we have received support from Welsh Government via local authority, is, if funds were made available for leisure services in particular, that, when they get passed on to local authorities, they're ring-fenced in some way so that, when there are difficult financial pressures for local authorities, that actually helps protect some of the support."*[45]

**59.** Dywedodd CLlLC hefyd fod hwn yn fater ariannol. Roedd y Cynghorydd Rob Stewart yn gobeithio nad oedd angen deddfwriaeth, gan ddweud:

*"You can have all the legislation you want, but the funding needs to be provided, and that's the bottom line in all of this. Otherwise, you will leave local authorities with the unenviable task of rediverting resources from education or social care to meet their legislative requirements."*[46]

**60.** Aeth y Cynghorydd Carwyn Jones ymlaen i ddweud:

*"We shouldn't spend time or resources making legislation in these areas, because these areas are so important to residents across Wales, so the most important thing that we can do is get together in partnership to see what the strategy and policy is for the future, so that we can improve the estate and the provision over the next 10, 20 or 30 years."*[47]

**61.** Mae papur tystiolaeth y Dirprwy Weinidog yn nodi'r pryderon o fewn y sector hamdden y gallai'r amgylchedd ariannol heriol i awdurdodau lleol "arwain at leihau neu resymoli gwasanaethau dros y blynyddoedd nesaf". Mae'r papur yn myfyrio ar y ffaith nad yw "gwasanaethau hamdden yn cael eu gwarchod fel gwasanaeth statudol fel y mae'r gwasanaethau llyfrgell", ond nid yw'n trafod y posibilrwydd o ddeddfu yn y maes hwn.[48]

[44] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 277
[45] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 137
[46] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 374
[47] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 376
[48] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 24 Mai 2023, Papur 5

**62.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y byddai deddfu ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgell yn gorbwyso'r manteision canfyddedig yn ôl pob tebyg. Esboniodd:

> *"...this is an area of public service provision that is best determined by the local authority in terms of what the needs of their communities are. So, local authorities will consider what leisure services they provide in accordance with the requirements of the well-being of future generations Act, and I wouldn't want a further layer of legislation to sit either above that or between that that restricts what local authorities do."*[49]

## Fframwaith polisi

**63.** Nid oes dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arolygu a hyrwyddo gwelliannau mewn gwasanaethau hamdden cyhoeddus ar hyn o bryd, er bod gan Lywodraeth Cymru sawl strategaeth i **annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol yn fwy cyffredinol**.

**64.** Dywedodd GLL (Better) wrthym y byddai'n dymuno gweld dyletswyddau'n cael eu rhoi ar lywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol i gyhoeddi strategaeth iechyd a hamdden i sicrhau bod y gwasanaeth canolfannau hamdden yn cysylltu â'r gwasanaeth iechyd. Aeth GLL ymlaen i ddweud:

> *"It would be helpful if local authorities were forced to have a coherent leisure strategy... I think that would give clarity to everybody, including our colleagues in the health service, so people knew what to expect for a universal leisure service."*[50]

**65.** Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod "gallu cadw'n actif yn hanfodol er mwyn galluogi pawb i heneiddio'n dda".[51]

**66.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, galwodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru am waith trawslywodraethol gwell i gefnogi gwasanaethau hamdden cyhoeddus.[52] Yn ôl y Gymdeithas, un o'r heriau presennol yw nad yw lle chwaraeon o amgylch rhai o'r byrddau gwneud penderfyniadau yn glir:

---

[49] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 20
[50] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2022, paragraff 132
[51] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 05 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
[52] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 07 Cymdeithas Chwaraeon Cymru

> *"…for example, in the public services boards, there isn't necessarily always a place for sport, and that may change now that Sport Wales is beginning to roll out the regional partnership model. I think that's one of the key areas of alignment that could happen. Sport's role and voice in, for example, the national exercise referral system has been tricky, and the level of subsidy that is provided to the national exercise referral system has been unchanged for the better part of a decade now. That's made delivery of it increasingly challenging. I think all of that comes back to how sport doesn't always have access to the decision makers in the right places, in education policy, in health policy…*[53]

**67.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, argymhellodd y Gymdeithas fel a ganlyn:

> *"The key role of leisure services in delivering against our mix of priorities in sport, public health and community wellbeing should allow for a clear and defined place for physical activity in Governance and decision making within public service boards, Local Authority cabinets, the Welsh Government etc."*[54]

**68.** Eglurodd Chwaraeon Cymru ei fod yn gweithredu rhaglen flaenllaw sy'n ymwneud â'i waith o ddarparu chwaraeon mewn awdurdodau lleol, a buddsoddi ynddynt:

> *"Mae'r model Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol (RSP) yn elfen allweddol yn y gwaith o annog mwy o gydweithio o ran adnoddau, arbenigedd a chyfleoedd ymhlith cyrff cyhoeddus a phartneriaid mewn ardal leol.*
>
> *Drwy'r Partneriaethau hyn, mae Chwaraeon Cymru yn hwyluso partneriaethau sy'n mynd y tu hwnt i ddarparwyr chwaraeon traddodiadol. Mae hyn yn golygu dod â gwahanol wasanaethau awdurdodau lleol ynghyd â chwaraeon a hamdden, ond hefyd partneriaid gwahanol gan gynnwys prifysgolion, cymdeithasau tai, elusennau'r trydydd sector, Cyrff Rheoli Cenedlaethol Chwaraeon ac eraill sy'n gallu gwella a chyflymu newid yn yr hyn y gall chwaraeon ei gynnig.*

[53] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 227
[54] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 07 Cymdeithas Chwaraeon Cymru

*Cyflawnwyd y newid hwn drwy gyd-fynd â pholisïau gweithio rhanbarthol Llywodraeth Cymru a dymuniad i gefnogi cyfleoedd sy'n gallu mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau ystyfnig o ran cyfranogiad ymhlith gwahanol adrannau o'r gymuned. Mae hefyd yn gydnabyddiaeth bod gan awdurdodau lleol nifer o ofynion sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i'w poblogaethau, a gyda dulliau gweithio clyfar ar draws cyrff cyhoeddus, elusennau, a mentrau sy'n darparu cynigion hamdden, dylai chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar draws ardal ddod yn fwy cynaliadwy."*[55]

**69.** Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Sport England **adroddiad** yn gwerthuso cyflwr presennol gwasanaethau c]hwaraeon a hamdden cyhoeddus yn Lloegr. Yn ôl Community Leisure UK Cymru, un o'r pethau cadarnhaol a ddaeth o'r adroddiad yw bod Sport England wedi datgan yn hollol glir fwriad i hamdden cyhoeddus ddod yn wasanaeth llesiant gweithredol, a chael ei gydnabod felly. Aeth ymlaen i ddweud:

*"…I think that is something that would be very welcomed by public leisure operators, to have that collective commitment to say, 'Actually, public leisure is more than sport, physical activity; leisure is actually there for health and well-being."*[56]

**70.** Dywedodd Un Llais Cymru wrthym y byddent am gyfrannu at adolygiad o wasanaethau hamdden ac:

*"…it's a conversation to be had between the WLGA, One Voice Wales and the WCVA, as to how this could be possibly taken forward in collaboration with Welsh Government."*[57]

**71.** Roedd Chwaraeon Cymru yn teimlo mai CLlLC fyddai'r corff mwyaf priodol i gynnal adolygiad.[58] Ar y llaw arall teimlai CLlLC y dylai Llywodraeth Cymru arwain unrhyw adolygiad o'r fath, mewn partneriaeth ag eraill. Awgrymodd y Cynghorydd Carwyn Jones:

*"Chwaraeon Cymru rownd y bwrdd, yr awdurdodau, y WLGA, y chwaraewyr hanfodol, yr FAW, pobl fel yna sydd efo rhan, sydd yn rhanddalwr yn y sector yma yng Nghymru. A dwi'n meddwl*

[55] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LLALLS 03 Chwaraeon Cymru
[56] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 115
[57] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 113
[58] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 107

*rhyngom ni i gyd buasem ni'n gallu cael gweledigaeth i'r dyfodol fel y medrwn ni i gyd gynllunio am y blynyddoedd i ddod."*[59]

**72.** Aeth y Cynghorydd Rob Stewart ymlaen i ddweud:

*"I think the last thing we'd want to do is to have a strategy created in isolation and then provide it without any funds to deliver it. So, I think it's an opportunity for us to work together to do develop something really good."*[60]

**73.** Cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ymchwiliad, **Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig**; Yn ôl adroddiad y Pwyllgor, er bod gweithgarwch corfforol yn cael ei grybwyll mewn dogfennau polisi, anaml iawn y mae'n ddangosydd allweddol o lwyddiant. Ymhelaethodd yr Athro Melitta McNarry ar y pwynt hwn drwy ddweud wrth y Pwyllgor:

*"We really do need to start joining up policies and having policies that work to address these multiple things, using probably a whole-system approach, and thereby accounting for the fact that not one of those things happens in isolation. So, we can't just take education, we can't just take health and then look to treat them independently; we need to start looking at their intersections and interactions to get the greatest gains in the shortest period of time, and for the best cost-effectiveness, as well."*[61]

**74.** Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol:

*"Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dull cenedlaethol newydd o ymwneud â chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig. Dylai'r dull hwn ddwyn ynghyd y gwaith presennol ac arfer da sydd eisoes yn digwydd yn ogystal â chyflwyno syniadau newydd i gyfrannu at y dull hwn. Dylai hyn gynnwys targedau mesuradwy, a fyddai'n cael eu gosod ar gyfer cyfnod penodol o bum mlynedd, i sicrhau bod cydraddoldeb o ran*

[59] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 354
[60] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 357
[61] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 8 Mehefin 2022, paragraff 265

*mynediad at gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol".*[62]

**75.** Gwrthododd y Dirprwy Weinidog yr argymhelliad, gan ddweud:

*"Fe wnaeth Chwaraeon Cymru helpu'r sector i baratoi gweledigaeth genedlaethol ac aeth ati i ddatblygu ei strategaeth ei hun ar gyfer chwaraeon yng Nghymru yn unol â'r weledigaeth honno, sy'n cael ei chefnogi gan gyrff cyhoeddus eraill, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Nod Gweledigaeth Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yw creu cenedl egnïol lle mae pawb yn gallu mwynhau chwaraeon drwy gydol eu hoes. Cafodd y weledigaeth honno ei datblygu ar ôl i ymgynghoriad eang gael ei chynnal o dan arweiniad Chwaraeon Cymru yn dilyn yr adolygiad annibynnol o Chwaraeon Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017."*[63]

**76.** Pan wnaethom godi'r ffaith i'r Dirprwy Weinidog wrthod yr argymhelliad yn ystod ein sesiwn dystiolaeth lafar, eglurodd:

*"…we didn't want to waste time and resource developing a new strategy when we were already working to a strategy that was engaging with the sector and with stakeholders across local authority, across the third sector, with the general public and across Government. As a result of that vision and that strategy, we've developed things…like the daily mile. We've also talked about the 'Health Weight: Healthy Wales' strategy—all of that came out of that vision that was established by Sport Wales. So, it was really about not reinventing the wheel. We just felt that we were already doing that."*[64]

[62] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Sicrhau chwarae teg: Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig
[63] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd "Sicrhau chwarae teg: Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig", 28 Medi 2022
[64] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 46

## Ein barn ni

**77.** Mae gwasanaethau hamdden awdurdodau lleol yn cael eu darparu yn ôl disgresiwn – nid oes fframwaith na pholisi statudol ar waith. Clywsom dystiolaeth bod rhywfaint o werth mewn archwilio opsiynau ar gyfer deddfu, ond dadleuwyd pe bai gan awdurdodau lleol ddigon o arian, na fyddai angen deddfwriaeth.

**78.** Nododd nifer o randdeiliaid y ddeddfwriaeth bresennol ar ffurf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd wedi helpu i ddiogelu darpariaeth gwasanaethau hamdden cyhoeddus. Fodd bynnag, clywsom bryderon na fydd y Ddeddf o bosibl yn mynd yn ddigon pell.

**79.** Nid ydym yn argyhoeddedig bod angen deddfwriaeth ar hyn o bryd, ond byddem yn annog Llywodraeth Cymru i adolygu effeithiolrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth sicrhau bod gwasanaethau hamdden cyhoeddus yn cael eu darparu a'u diogelu yng Nghymru.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth sicrhau bod gwasanaethau hamdden cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru. Dylai rannu ei chanfyddiadau gyda'r Pwyllgor.

**80.** Er nad ydym yn argyhoeddedig o'r angen am ddeddfwriaeth ar hyn o bryd, rydym yn gweld manteision cael fframwaith polisi ar gyfer darpariaeth gwasanaethau hamdden cyhoeddus. Nodwn fod gan Lywodraeth Cymru sawl strategaeth i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol yn fwy cyffredinol, ond nid oes gweledigaeth genedlaethol amlwg ar gyfer gwasanaethau hamdden cyhoeddus, yn enwedig un sy'n cysylltu gwasanaethau iechyd a hamdden cyhoeddus.

**81.** Galwodd nifer o dystion am strategaeth iechyd a hamdden i sicrhau bod gwasanaethau hamdden yn cydgysylltu â gwasanaethau iechyd. Gallai strategaeth fod o gymorth wrth safoni'r hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol o ran darpariaeth hamdden - byddai'n galluogi awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth, ac i'r cyhoedd wybod beth y gallant ei ddisgwyl gan eu gwasanaeth hamdden.

**82.** Roedd gennym ddiddordeb mewn clywed am adroddiad Chwaraeon Lloegr ar gyflwr presennol gwasanaethau chwaraeon cyhoeddus a hamdden, a ganfu y dylai hamdden cyhoeddus ddod yn wasanaeth llesiant gweithredol a chael ei gydnabod felly. Credwn fod hwn yn rhywbeth a fyddai'n cael ei groesawu yng Nghymru. Dylid cydnabod bod gwasanaethau hamdden cyhoeddus yn fwy na

chwaraeon yn unig, ond mae'n chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo canlyniadau iechyd cadarnhaol, gan gynnwys atal a rheoli afiechydon corfforol a meddyliol. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn arwain adolygiad cyflym o wasanaethau hamdden cyhoeddus yng Nghymru ac yn gweithio'n agos gyda phartneriaid fel CLlLC, Un Llais Cymru, Chwaraeon Cymru a CCGC.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn arwain adolygiad cyflym o'r sefyllfa bresennol o ran darpariaeth gwasanaethau hamdden cyhoeddus yng Nghymru ac yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol fel CLlLC, Un Llais Cymru, Chwaraeon Cymru a CCGC i ystyried gwelliannau ar gyfer dyfodol gwasanaethau hamdden.

**83.** Rydym yn argymell yn gryf bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer gwasanaethau hamdden cyhoeddus sy'n gwneud y cysylltiadau rhwng gwasanaethau iechyd a lles a gwasanaethau hamdden cyhoeddus. Nodwn fod y Dirprwy Weinidog wedi gwrthod argymhelliad y Pwyllgor Diwylliant i gael dull cenedlaethol newydd ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig, ar y sail bod gan Lywodraeth Cymru ei strategaeth ei hun ar gyfer chwaraeon eisoes. Fodd bynnag, rydym yn teimlo bod angen sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau iechyd a hamdden ar fyrder. Byddai hyn yn sicrhau bod llais hamdden a chwaraeon cyhoeddus yn cael ei glywed o fewn ac ar draws y gwahanol fodelau partneriaeth rhanbarthol yng Nghymru, yn ogystal â chefnogi polisïau cydgysylltiedig gwell sy'n canolbwyntio ar atal a chanlyniadau iechyd cadarnhaol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd pob cam rhesymol i ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau hamdden cyhoeddus a gwasanaethau iechyd. Dylai hyn gynnwys datblygu fframwaith polisi newydd ar gyfer gwasanaethau hamdden cyhoeddus, sy'n cysylltu'n agos â gwasanaethau iechyd a lles. Fel rhan o'r broses, dylid adolygu rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth wella cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau hamdden cyhoeddus.

# 4. Modelau darparu

**84.** Dros y degawd diwethaf, mae awdurdodau lleol wedi bod yn raddol drosglwyddo'r gwaith o reoli eu cyfleusterau hamdden, a'u llyfrgelloedd a chyfleusterau diwylliannol eraill i raddau llai, i bartneriaid allanol.

**85.** Yn aml, mae'r partneriaid hyn ar ffurf ymddiriedolaeth, cymdeithas budd cymunedol, menter gymdeithasol neu'r gymuned ei hun. Ychydig dros ddegawd yn ôl, dim ond llond llaw o awdurdodau yng Nghymru s oedd wedi dewis symud at fodel gwahanol o redeg rhai o'u gwasanaethau. Ond wrth i gyni cyllidol barhau ac wrth i gyllidebau cynghorau barhau i grebachu, penderfynodd mwy o awdurdodau i roi eu gwasanaethau hamdden (ac weithiau eu gwasanaethau llyfrgelloedd) ar gontract i ddarparwyr allanol.

**86.** Nododd Cwmpas yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

> *"When managed effectively in a way that develops these services and facilities as community assets, alternative models of service delivery can provide essential services and create considerable social value.*[65]

**87.** Mae UNSAIN Cymru ar y llaw arall yn gwrthwynebu allanoli. Mae'n nodi yn ei dystiolaeth ysgrifenedig ei bryderon bod cynghorau wedi ceisio allanoli gwasanaethau i arbed costau, a bod y naratif cyni yn ychwanegu lefel newydd o fyrder at wneud penderfyniadau ariannol tymor byr. Mae'n poeni bod symud i leihau costau ar draul y gweithlu yn ffordd o feddalu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer preifateiddio. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod llawer o bobl yn teimlo mai wyneb mwy derbynio allanoli yw cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol.[66]

**88.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd UNSAIN Cymru nad oes mantais i allanoli mewn unrhyw ffurf neu fodel:

> *"In terms of the staff experience, our survey has demonstrated that there are no benefits to staff; in fact, quite the opposite. There are lots of detrimental experiences of staff in terms of leisure services, but also library services as well. There's a greater reliance on zero-hours contracts, or under-hours contracts... and moving away from the National Joint Council—that's the*

[65] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 04 Cwmpas
[66] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 06 UNSAIN Cymru

*national local government terms and conditions and pay….We have attempts to move away from the local government pension scheme. And because these are outsourced, then the council basically says it's nothing to do with them."*[67]

**89.** Er bod mentrau yn aml yn eiddo i'w gweithwyr, dywedodd UNSAIN mai ychydig iawn o fudd a gaiff staff yn aml iawn ac:

*"The engagement with the recognised trade unions, where the membership in those bodies would be the majority of the staff, is poor, and often they set up alternative ways of engaging with the staff to bypass the organised, recognised trade unions."*[68]

**90.** Dywedodd Aura Wales ar y llaw arall:

*"…we are an employee-owned community benefit society, so, obviously, we, the board, have to talk to our shareholders, which we do regularly, with our employees, but our employees are bought into Aura—they're part of Aura in a much broader way than it's just Aura that employs them."*[69]

**91.** Yn ôl Community Leisure UK Cymru, er gwaethaf sefydlu ymddiriedolaethau mwy ar gyfer arbedion ariannol yn wreiddiol, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, maent wedi dod yn boblogaidd oherwydd y gwerth cymdeithasol hwnnw ac wedi ennill eu plwyf ym mhob rhan o'r sefydliadau. Dywedodd hefyd fod contractau yn cael eu hadnewyddu gyda'r gydnabyddiaeth bod gweithio gyda model ymddiriedolaeth elusennol, mewn gwirionedd, yn darparu'r gwerth cymdeithasol ehangach hwnnw i'r gymuned:[70]

*"Working with a charitable operator for your leisure and library services actually allows a local authority to then allocate resources and focus on other essential services knowing that their leisure and library services are in good hands and actually will be looked after for the benefit of communities."*[71]

[67] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 244
[68] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 284
[69] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 249
[70] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 176
[71] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2022, paragraff 177

**92.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru ei fod yn "fodel agnostig" a bod gwahanol ddulliau yn gweddu i amgylchiadau lleol amrywiol.[72]

**93.** Clywsom am rai manteision gweithredu gwasanaethau drwy ymddiriedolaeth neu elusen, sy'n cynnwys gostyngiadau treth posibl a mynediad at grantiau y tu hwnt i gyrraedd awdurdodau lleol. Er enghraifft, dywedodd Community Leisure UK Cymru mai un o fanteision cael menter gymdeithasol yn rhedeg cyfleuster annibynnol yw'r rhyddhad treth elusennol y maent yn ei gael. Disgrifiodd y rhyddhad ardrethi annomestig cenedlaethol elusennol o 80 y cant fel un eithaf sylweddol yn achos rhedeg cyfleuster.[73]

**94.** Yn yr un modd, dywedodd Cwmpas:

> *"...the advantage in terms of getting the community to step up is setting up a legal structure that allows them to access capital from outside the local authority. That's the one advantage, because as a non-profit distributing company, whether they're defined as a co-operative or a social enterprise, they could develop relationships with third-party funders in doing that. "*[74]

**95.** Aeth ymlaen i ddweud y gall dibynnu ar wirfoddolwyr arwain at arbedion hefyd:

> *"The other advantage, obviously, is linking that facility back into the community, and the company developing their membership base, so they get members of the company who will become volunteers, who may volunteer within the business, on the board as part of that governance, or may volunteer to be part of the running of the service. So, there's an element of reducing the potential cost of delivering that service."*[75]

**96.** O ran gwirfoddolwyr, dywedodd Aura Cymru eu bod yn cynnig amrywiaeth o brofiad mewn meysydd fel cyllid, marchnata, cysylltiadau cyhoeddus, addysg, AD a'r sector elusennau, yn ogystal â hamdden, llyfrgelloedd, chwarae a

[72] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 07 Cymdeithas Chwaraeon Cymru
[73] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 57
[74] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 53
[75] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 53

0.threftadaeth.[76] Fodd bynnag, nododd Cwmpas y gall llywodraethu da fod yn her wrth ddibynnu ar wirfoddolwyr:

> *"Lots of them come from the starting point of setting up a pressure group to save the facility, and they have a board, and we can support them and train them to develop good governance. But good governance never ends, so, actually, the challenge is when board members, who are volunteers, leave and it's actually how you replace them and how you ensure that they're representative."*[77]

**97.** Disgrifiodd UNSAIN hefyd y budd cyllidebol o allanoli fel "rhith", gan nodi:

> *"…if you're going to be able to give 100 per cent business rate relief to a library service or a leisure service that's outsourced, you should also be able to give 100 per cent business rate relief if you retain it in-house. It shouldn't be an unlevel playing field, which distorts the economics of the situation. It can't be right that you cede democratic control and the ability to adapt a service just because there is a model that provides some financial benefit from doing that without any benefit to the service that is being provided or to the workforce that is providing that service."*[78]

**98.** Awgrymwyd mai budd arall o fod yn sefydliad annibynnol oedd gallu gwneud penderfyniadau a gweithredu'n gyflymach o ran datblygu gwasanaethau. Disgrifiodd Aura Cymru eu hunain fel corff ychydig mwy ystwyth, gan ddweud nad yw hynny'n feirniadaeth o awdurdodau lleol, sydd â myrdd o gyfrifoldebau.[79] Meddai Community Leisure UK Cymru:

> *"…being a charitable organisation, being an independent organisation, you are quicker in your decision making in terms of where you're going to invest in your facility, in the events that you are going to run and the partnerships that you have with your local community."*[80]

[76] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 56
[77] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 35
[78] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 246
[79] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 54
[80] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 247

**99.** Er enghraifft, dywedodd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ei bod yn ddigon hyblyg i newid ei gwasanaethau yn ystod y pandemig a'r argyfwng costau byw.[81] Dywedodd Casnewydd Fyw wrthym ei bod yn gallu agor un o'i leoliadau yng nghanol y ddinas i'r digartref o fewn 48 awr ar ddechrau'r pandemig.

**100.** Fodd bynnag, dadleuodd UNSAIN Cymru ar y llaw arall nad yw gallu gwneud pethau'n gyflymach o reidrwydd yn golygu gwneud pethau'n well[82]

> *"…there is a track record of alternative providers implementing changes very quickly without any consultation with either the local authority or with the staff that provide those services. In fact, that's one of the criticisms that we put in our report, that the social partnership model that we benefit from in public services is not always translated or taken on board by the outsourced providers."*[83]

**101.** Thema gyffredin yn y dystiolaeth yn ymwneud â modelau darparu oedd y dylid mabwysiadu dull partneriaeth, waeth beth fo'r model sy'n cael ei ddefnyddio. Meddai Community Leisure UK Cymru:

> *"…good practice is where local authorities and leisure and culture trusts, or whichever is the operator, adopt a partnership approach, where they co-design, co-develop the service to address common goals."*[84]

**102.** Aeth ymlaen i ddweud nad yw trin y berthynas fel un rhwng cleient a chyflenwr, gan ganolbwyntio'n benodol ar wasanaethau cost isel, wedi gweithio:

> *"We work with all of these organisations, and they very much want this to be a partnership approach with the local authority and do not want them to be treated as a client-supplier relationship."*[85]

**103.** Pan wnaethom ymweld â Casnewydd Fyw, clywsom fod y berthynas â Chyngor Casnewydd yn hanfodol i'w lwyddiant. Dywedodd Nofio Cymru wrthym

[81] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 104
[82] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 249
[83] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 248
[84] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 9 Mawrth 2022, p87 Paragraff 123
[85] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 9 Mawrth 2022, p87 Paragraff 124

hefyd fod angen cynnal y cysylltiad a'r rhwydwaith cymorth.[86] Yn yr un modd, dywedodd Cwmpas:

> *"If you're going to transfer an asset, then it needs to be that and it needs the support with it. You can't just hand that over to a fledgling community group where we can go in and help them to set up as a charitable incorporated organisation or a community interest company or a community benefit society; you need the ongoing support from the local authority to make that work, because without that ongoing support, it's highly likely that that will fail."*[87]

**104.** Yn ôl Archwilio Cymru, canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol, a gyhoeddwyd yn 2018, fod lle i awdurdodau lleol "ddarparu gwell help a chymorth, a hynny mewn modd mwy amlwg, cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses o drosglwyddo asedau cymunedol."[88]

**105.** O ran mentrau cymdeithasol, canfu Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad **'Cyfle wedi'i golli' – Mentrau Cymdeithasol**:

> *"At ei gilydd, nid yw awdurdodau lleol yn annog mentrau cymdeithasol ac nid ydynt yn ceisio tyfu nac ehangu eu rôl. Mae Mentrau Cymdeithasol yn aml ar gyrion busnes awdurdodau lleol. O ganlyniad, nid yw'r awdurdodau lleol yn manteisio ar botensial Mentrau Cymdeithasol er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau a all wella ansawdd bywyd pobl."*[89]

**106.** Er mwyn i ddull partneriaeth weithio, dywedodd Cwmpas fod yn rhaid cael cydnabyddiaeth wleidyddol ymhlith llywodraeth leol bod elfen o reolaeth o ran gwneud penderfyniadau gwleidyddol yn cael ei cholli pan fyddwch yn trosglwyddo gwasanaeth:

> *"You can't really have your cake and eat it in terms of control, ownership, management…Elected members need to be realistic that, if they're going to do it, it's not just about saving, the bottom line of the 80 per cent mandatory rate relief; it's about giving the model—spinning that model out and giving it the best chance to have the freedom to be entrepreneurial and*

---

[86] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 9 Mawrth 2022, p87 Paragraff 185
[87] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 9 Mawrth 2022, p87 paragraff 121
[88] Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLAU 12 Archwilio Cymru
[89] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 12 Archwilio Cymru

> *to make changes, and develop better services for the people in that community, really."*[90]

**107.** Nododd Aura Cymru, a hwythau'n sefydliad elusennol, nid-er-elw, nad oes ganddynt rwymedigaethau i blaid benodol ac wrth wneud penderfyniadau, nad oes rhaid iddynt boeni am yr hyn y gallai plaid wleidyddol ei ddweud na'r goblygiadau gwleidyddol posibl.[91] Fodd bynnag, teimlai UNSAIN nad oes:

> *"…any substitute for having accountability for those services, which is democratically accountable through the local councillors, which, as soon as you outsource these facilities, you lose that direct accountability."*[92]

**108.** Beth bynnag fo'r model darparu, clywsom am bwysigrwydd rhannu arferion da a dysgu. Dywedodd UNSAIN Cymru wrthym eu bod yn gobeithio y bydd cynghorau'n dysgu'r gwersi o'r profiadau ar draws cynghorau yng Nghymru ac yn rhannu'r profiadau hynny.[93] Yn yr un modd, dywedodd Community Leisure UK Cymru ei bod yn bwysig sicrhau ein bod yn parhau i wneud y canlynol:

> *"…support and share best practice of alternative models of service delivery, whether it's the larger trusts, the smaller independent charities or the in-house delivery of local authorities."*[94]

**109.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig mae Community Leisure UK Cymru yn cynghori awdurdodau lleol i fod yn ochelgar rhag gwneud penderfyniadau ar sail rheoli costau yn unig, ond yn hytrach i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hamdden a diwylliant fel gwasanaethau cyhoeddus. Yn y pen draw, dywed fod newid contractau o ymddiriedolaethau hamdden i fodel arall yn annhebygol o helpu gyda'r pwysau cyllidebol sydd ar gynghorau, ac na fydd yn cynyddu buddsoddiad chwaith. [95]

[90] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 143
[91] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 57
[92] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 249
[93] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 268
[94] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 182
[95] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 02 Community Leisure Wales

## Darparu darpariaeth hamdden

**110.** Nid yw'r mwyafrif o gynghorau bellach yn dibynnu'n llwyr ar weithrediadau mewnol i ddarparu gwasanaethau, gyda newid sylweddol i'r ffordd y caiff gwasanaethau hamdden eu darparu yng Nghymru.

**111.** Mae hanner holl gynghorau Cymru wedi allanoli'r gwaith o reoli eu gwasanaethau hamdden i 'ymddiriedolaeth' hamdden. Mae dau awdurdod wedi sefydlu cwmnïau masnachu awdurdod lleol (Gwynedd a Sir Ddinbych) i redeg eu darpariaeth hamdden. Mae wyth cyngor yng Nghymru yn parhau i redeg eu gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd eu hunain yn fewnol, gyda hyn yn cynyddu cyn bo hir i naw wrth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ddod â'i wasanaethau hamdden yn ôl dan reolaeth y cyngor (disgwylir i hyn ddigwydd yn 2024).

**112.** Darparodd Community Leisure UK Cymru y tabl isod, sy'n rhoi trosolwg byr o'r modelau darparu amrywiol fesul awdurdod:

| Local Authority | Leisure Provision | Library Provision |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | Aneurin Leisure (Trust) | Aneurin Leisure (Trust) |
| Bridgend | Halo Leisure (Trust) | Awen Cultural Trust (Trust) |
| Caerphilly | In-house | In-house |
| Cardiff | GLL (Trust) | In-house |
| Carmarthenshire | In-house | In-house |
| Ceredigion | In-house | In-house |
| Conwy | In-house | In-house |
| Denbighshire | Denbighshire Leisure (LATC) | In-house |
| Flintshire | Aura Leisure & Libraries (Trust) | Aura Leisure & Libraries (Trust) |
| Gwynedd | Byw'n Lach (LATC) | In-house |
| Isle of Anglesey | In-house | In-house |
| Merthyr Tydfil | Wellbeing@Merthyr (Trust) | Wellbeing@Merthyr (Trust) |
| Monmouthshire | In-house | In-house |
| Neath Port Talbot | Celtic Leisure (Trust)[2] | In-house |
| Newport | Newport Live (Trust) | In-house |
| Pembrokeshire | In-house | In-house |
| Powys | Freedom Leisure (Trust) | In-house |
| Rhondda Cynon Taff | In-house | In-house |
| Swansea | Freedom Leisure (Trust) | In-house |
| Torfaen | Torfaen Leisure Trust (Trust) | In-house |
| Vale of Glamorgan | Legacy Leisure (complex trading structure) | In-house |
| Wrexham | Freedom Leisure (Trust) | In-house |

**113.** Fel y dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru wrthym, mae rhaniad cyfartal bron yng Nghymru ar hyn o bryd o ran a yw gwasanaethau hamdden yn cael eu darparu'n fewnol, neu a ydynt wedi'u contractio i drydydd parti, gan awgrymu nad oes dewis diofyn yng Nghymru ar hyn o bryd.[96]

**114.** Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig gan Archwilio Cymru, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cwblhau wyth adolygiad archwilio lleol yn ystod y pum mlynedd diwethaf gan edrych ar wasanaethau hamdden. Canfu'r canlynol:

> *"Mewn rhai achosion, yr amgylchedd cyllidol anodd oedd y catalydd ar gyfer dewis gweithio gydag ymddiriedolaeth hamdden a thynnu rheolaeth uniongyrchol ar wasanaethau hamdden oddi ar awdurdodau lleol."*[97]

**115.** Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru:

> *"Mewn rhai awdurdodau roedd gwendidau o ran ansawdd, ystod a dyfnder y wybodaeth a ddefnyddiwyd i gwblhau arfarniadau opsiynau wrth benderfynu ar gontract allanol. Er enghraifft, gwybodaeth ariannol wael sy'n ategu'r opsiynau gwahanol a arweiniodd at gam-ystyried pa opsiwn i'w gymryd, ac ni roddwyd gwybodaeth ariannol ddigonol ac amserol i'r Aelodau i'w helpu i wneud penderfyniadau."*[98]

**116.** Nid oedd barn gref ymhlith tystion ynglŷn â pha fodel darparu sy'n gweithio orau ar gyfer gwasanaethau hamdden, gyda Cwmpas yn nodi y bydd modelau gwahanol yn addas ar gyfer cymunedau gwahanol.[99]

**117.** Dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru fod modelau gwahanol yn cyflwyno heriau gwahanol a chyfleoedd gwahanol. Er enghraifft, pan oedd asedau cymunedol wedi'u trosglwyddo, dywedodd:

> *"…there's a real opportunity to deliver something in partnership with the community, something where the community really buys into it, where local people have a real stake and say. Because it's not a contracted relationship I think there's no financial safety net in those delivery models, and a lot of those facilities that came through the community asset transfer*

---

[96] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 202
[97] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 12 Archwilio Cymru
[98] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 12 Archwilio Cymru
[99] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 121

*process are probably those most under threat at the moment."*[100]

**118.** O ran gwasanaethau dan gontract sy'n cael eu rhedeg gan drydydd parti ar ran awdurdodau lleol, nododd Cymdeithas Chwaraeon Cymru fod y partïon hynny yn gallu manteisio ar drefniadau ariannu amgen. O ganlyniad, awgrymodd fod rhai darparwyr trydydd parti wedi gallu moderneiddio'n fwy effeithiol a pharod, efallai, na rhai o'r darparwyr mewnol.[101] Fodd bynnag, ynghylch darpariaeth fewnol, dywedodd y Gymdeithas fod awdurdodau lleol yn dal i fod yn y sefyllfa lle mae cau canolfannau hamdden, et cetera, yn benderfyniad gwleidyddol anodd ac felly mae hynny'n cynnig lefel o amddiffyniad, er gwaethaf y costau cynyddol yn aml.[102]

**119.** Amlygodd Chwaraeon Cymru bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau hamdden cyhoeddus, ym mha bynnag fformat, yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Aethant ymlaen i ddweud y dylid edrych ar fodelau darparu trwy lens cydraddoldeb a rhoi sylw i'r grwpiau nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi neu eu cynrychioli'n ddigonol nad ydych o reidrwydd yn eu gweld os yw'n fodel penodol i chwaraeon neu'n fodel masnachol penodol.[103]

**120.** Roedd yr Ymddiriedolaethau Hamdden yn awyddus i hyrwyddo manteision allanoli, gyda GLL (Better) yn nodi:

*"…we're pleased and proud in the social enterprise leisure trust movement… The city of Cardiff now pay £1 million a year to have their leisure centres run, when it cost them £3 million, but the facilities are better used now than ever, because, jointly with the council, we've ensured that the investments have gone in the right place, because we know the marketplace and we know what the commercial competitors are going to get up to."*[104]

**121.** Pan wnaethom ymweld â Chanolfan Hamdden Castell-nedd, clywsom fod Celtic Leisure yn cael ffi reoli flynyddol o £1.4 miliwn gan y cyngor a chynyddwyd y ffi honno i £4.4 miliwn wedi'r pandemig i adlewyrchu newidiadau mewn patrymau defnydd, chwyddiant cyflog a phwysau ariannol cyfredol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi pleidleisio yn ddiweddar i ddod â'i wasanaethau hamdden yn ôl o dan reolaeth yr awdurdod lleol. Amcangyfrifir y

[100] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 180
[101] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 181
[102] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 182
[103] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 13
[104] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 61

bydd rhedeg gwasanaethau mewnol yn costio £5.4 miliwn i'r cyngor, yn bennaf oherwydd cyfraniadau pensiwn a chyfraddau annomestig.

**122.** Dywedodd Nofio Cymru wrthym eu bod yn gweld cydberthynas rhwng yr ymddiriedolaethau hamdden sy'n agosach at y gymuned a bod y ddolen adborth rhwng y gymuned ei hun a'r ymddiriedolaethau hamdden fel petai'n gryfach:

> *"Sometimes, in some of those operating models, there's a distance between the head and the tail. So, talking to the community, finding out what the community wants, can be a hard thing to do, getting that insight and data, and then reacting fairly quickly. So, I do think it's a bit like the oil tanker and the speedboat—some of these leisure trusts are more of the speedboat model, where they can listen, readjust, and, next week, they can put on a class…That's as opposed to maybe some of the other feedback loops, where you fill in a form, it goes into the reception, it goes up the ranks, through the local authority, and somebody might read it in six months' time. I'm not saying that's always the case, but for me, they seem a lot more flexible and adaptable, and closer to the people."*[105]

**123.** Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart, wrth siarad am ei awdurdod ei hun (Abertawe), mai allanoli oedd yr opsiwn gorau. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"…across Wales, people will be in different positions and they may choose a different way. Had I been able to get another £1 million or £2 million a year, I would probably have tried to retain or bring everything in-house, but there were additional costs to doing that over and above what we do. We are still subsidising our partnership arrangements with Freedom, and, as I said, we're also pumping in additional money to assist them with their energy bills through this cost-of-living crisis."*[106]

**124.** Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones ar y llaw arall, ar ôl edrych ar ddarpariaeth hamdden yn ei ardal ei hun (Ynys Môn), "doedd yna ddim mantais i ni o'u hallanoli nhw".[107] Roedd natur wledig y sir yn ffactor yn y canlyniad hwn.

[105] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 188
[106] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 278
[107] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 274

**125.** Dywedodd CLILC yn ei chyflwyniad ysgrifenedig na fydd cynghorau'n cau cyfleusterau hamdden, ond bod "yr holl opsiynau'n cael eu hystyried" ac y gallai hyn arwain at "wneud penderfyniadau anodd yn y flwyddyn ariannol nesaf".[108]

## Cyflwyno darpariaeth llyfrgell

**126.** Er bod ymddiriedolaethau'n nodwedd sylweddol yn y sector hamdden yng Nghymru, nid yw'r newid i allanoli llyfrgelloedd a chyfleusterau diwylliannol cynghorau wedi symud ar yr un cyflymder. Yn hytrach, mae cynghorau ar y cyfan wedi ffafrio dal gafael ar eu rheolaeth o lyfrgelloedd. Ar hyn o bryd, mae pedwar awdurdod wedi allanoli eu darpariaeth i ymddiriedolaeth hamdden neu ddiwylliannol.

**127.** Clywsom gan SCL Cymru fod eu haelodaeth yn cynnwys yr holl wahanol fodelau darparu ond waeth beth fo'r model, maent i gyd yn cael eu llywodraethu gan yr un safonau.[109] Yn yr un modd, dywedodd Rhwydwaith Cymheiriaid Cenedlaethol Llyfrgelloedd a Reolir gan y Gymuned (CMLNPN):

> *"I've spoken to and visited hundreds of community libraries, and the general feedback that you get talking to people is that they don't know who runs it, necessarily. Whether that's a good or a bad thing for that community organisation, I don't know, but the service at the point that they receive it is the same."*[110]

**128.** Dywedodd CILIP Cymru wrthym na ddylai newid y model darparu ddigwydd oherwydd na all awdurdod lleol reoli ei ddyletswydd statudol ac y dylai awdurdodau lleol feddwl am yr hyn y maent yn ei golli os ydynt yn newid y model hwnnw.[111]

**129.** Mae Cwmpas yn ei dystiolaeth ysgrifenedig yn nodi bod ymddiriedolaethau cymunedol weithiau'n cael eu sefydlu'n gyflym i ymateb i ddymuniad brys i achub cyfleuster rhag cau. Dywedodd:

> *"This process is highly demanding of individuals' time, needs high levels of skill and capacity, often involves considerable financial commitments and even taking on serious liabilities."*[112]

[108] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 11 CLlLC
[109] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 137
[110] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 140
[111] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 153
[112] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 04 Cwmpas

**130.** Yn yr un modd, dywedodd CMLNPN wrthym y gall llyfrgelloedd sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned fod yn fwy hyfyw yn ariannol, yn ddewis arall rhatach, ond bod hyn yn dibynnu ar ddau faes allweddol:

> *"They are the skills and experience and the enthusiasm of the community that's involved—that group—however it's structured and whoever is involved. In many cases, if it's a charity that has formed as a 'friends of' group to take over the ownership of a community library, it's what experience and skills are spread across the board of those trustees. That is what invigorates a really successful community library, but, at the same time, working very closely with other libraries across the sector, whatever model or structure you've taken, is really, really important."*[113]

**131.** Rhybuddiodd Cwmpas hefyd fod rhaid i ni beidio â rhagdybio bod perchnogaeth gymunedol yn ateb hawdd i bwysau cyllidebol mewn awdurdodau lleol. Wrth ymhelaethu ar yr heriau sy'n wynebu llyfrgelloedd sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned, dywedodd:

> *"…if there wasn't an economic model there, as part of a sustainable social enterprise, social business, that was always problematic. So, it was a lot easier when the library was linked to something else, when there was an economic potential model there that included the library—and Awen Cultural Trust is a good example of that—by putting libraries and culture and theatres together. And I know, for lots of those smaller single libraries—I'm thinking here of an example up in the Afan valley—the community worked really hard, but it was based on voluntary endeavour and grant giving and raising money constantly from funds, because there wasn't that economic model, a sustainable model there."*[114]

**132.** Yn yr un modd, dywedodd CILIP:

> *"…we have seen that alternative models are no cheaper to run or can attain the quality of local authority delivered services. The model only works in affluent areas where staffing levels remain stable and volunteers are plentiful. The greatest need*

[113] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraffau 163-164
[114] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 37

*for excellent public library services might arguably not be in these authorities."*[115]

**133.** Codwyd y pwynt hwn hefyd gan ymddiriedolwyr Llyfrgell Gresffordd a'r Cylch yn ystod ein hymweliad yno. Roeddent yn cydnabod bod yr ardal lle mae'r llyfrgell wedi'i lleoli yn un dosbarth canol a bod grŵp gweithgar o bobl yn y gymuned yn barod, felly pan oedd y llyfrgell yn wynebu cael ei chau, roedd momentwm mawr i wneud rhywbeth am y peth.

**134.** Yn ôl CMLNPN:

*"There are nearly 20,000 volunteers supporting community libraries in England & Wales to grow and thrive. This not only benefits library service provision, embedding community voices throughout, but provides significant benefits and opportunities to the volunteers."*[116]

**135.** Cododd CILIP bryderon y gall sgiliau gael eu colli trwy allanoli.[117] Codwyd y pryder hwn gan UNSAIN Cymru hefyd. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd:

*"The use of volunteers means there is a de-professionalisation of the service offered to the public."*[118]

**136.** Yn ôl UNSAIN Cymru:

*"…if there wasn't an economic model there, as part of a sustainable social enterprise, social business, that was always problematic. So, it was a lot easier when the library was linked to something else, when there was an economic potential model there that included the library—and Awen Cultural Trust is a good example of that—by putting libraries and culture and theatres together. And I know, for lots of those smaller single libraries—I'm thinking here of an example up in the Afan valley—the community worked really hard, but it was based on voluntary endeavour and grant giving and raising money*

[115] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 09 CILIP
[116] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 10 Rhwydwaith Cymheiriaid Cenedlaethol Llyfrgelloedd a Reolir gan y Gymuned
[117] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 135
[118] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 06 UNSAIN Cymru

*constantly from funds, because there wasn't that economic model, a sustainable model there."*[119]

**137.** Dywedodd Un Llais Cymru wrthym mai un o'r modelau y maent yn ei annog yw'r rôl y gall cynghorau cymuned a thref ei chwarae o ran darparu cyllid i gwmnïau budd cymunedol:

> *"One that certainly comes to mind is Resolven. A number of years ago, the community council funded the establishment of a CIC, and that helped to retain the library provision in that area. I understand, though, that some of the problems with that kind of model is that, obviously, it's reliant on volunteers to maintain that service, and I understand that there have been problems in terms of the number of volunteers that are available to retain that service on an ongoing basis."*[120]

**138.** Clywsom mai mantais arall llyfrgelloedd sy'n eiddo i'r gymuned yw'r lefel o ymgynghori ar lawr gwlad a'r gallu i adlewyrchu anghenion lleisiau ar y cyrion.[121] Awgrymwyd y gallant ddarparu gweithgareddau, gwasanaethau, cefnogaeth ac allgymorth sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y gall awdurdodau lleol ei gynnig[122] a gallant hefyd fod yn fwy ystwyth i ddatblygiadau neu bwysau newydd.[123] Dywedodd CMLNPN wrthym:

> *"What we've found is that the provision of a really successful community-led library is based on the passion in that community and what it wants to see delivered. It's therefore very embedded in understanding the local voices and engaging with people and consulting with people properly. I think that's the important thing."*[124]

**139.** Yn yr un modd, dywedodd Llyfrgell Gymunedol Gresffordd a'r Cylch wrthym y gallant fod yn hyblyg ac ymateb i'r hyn y mae pobl ei eisiau. Er enghraifft, mae'r ysgol gynradd leol yn ymweld bob mis ac maent yn cynnal grwpiau gweithgareddau fel gwau.

---

[119] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 06 UNSAIN Cymru
[120] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 127
[121] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 139
[122] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 10 Rhwydwaith Cymheiriaid Cenedlaethol Llyfrgelloedd a Reolir gan y Gymuned
[123] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 141
[124] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 146

**140.** Nododd y Dirprwy Weinidog yn ei thystiolaeth ysgrifenedig mai cyfleusterau bach sydd dan reolaeth y gymuned yw'r lleoliadau sy'n wynebu'r risg fwyaf gan nad ydynt yn cael eu gwarchod gan gontractau nac "amddiffyniad ariannol" ar ffurf cefnogaeth awdurdod lleol.[125]

**141.** Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym mewn tystiolaeth lafar na fyddai'n meiddio cynnig unrhyw gyngor a chefnogaeth i awdurdodau lleol o ran yr hyn y gallent ei wneud o ran modelau ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd:

> *"…it is horses for courses. I have two local authorities in my constituency. One provides direct leisure services, the other one is a trust. Which one is better? You pay your money, you take your choice. They are very different models, but they deliver a level of service, and I think that is what the local authority ultimately has to look at: what is the most effective way of delivering the service that its community needs."*[126]

**142.** Mewn llythyr atom, dyddiedig 12 Mehefin 2023, ailadroddodd y Dirprwy Weinidog mai mater i awdurdodau lleol yw "penderfynu pa fodel sy'n diwallu'r anghenion eu cymuned orau." Cadarnhaodd hefyd nad yw Llywodraeth Cymru yn gwybod "am unrhyw dystiolaeth benodol o ran effeithlonrwydd modelau penodol yng Nghymru".[127]

## Ein barn ni

**143.** Nid oedd barn gyffredinol gref ymhlith tystion ynghylch pa fodel darparu sy'n gweithio orau. Clywsom fod gan bob opsiwn ei fanteision a'i anfanteision, ac roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd na ddylai fod un dull sy'n addas i bawb - bydd modelau gwahanol yn gweddu i awdurdodau lleol gwahanol, yn dibynnu ar eu daearyddiaeth, anghenion eu cymunedau, eu hadnoddau ac yn y blaen. Fodd bynnag, credwn, wrth ystyried modelau darparu, mai'r brif ystyriaeth i awdurdodau lleol ddylai fod lefel ac ansawdd y gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd a ddarperir a'u gwerth i'r cymunedau. Ni ddylid gwneud penderfyniadau ar gyfer rheoli costau yn unig.

**144.** Rydym hefyd yn credu, lle mae gwasanaethau wedi'u hallanoli, y dylid cynnal dull partneriaeth o ddarparu gwasanaethau rhwng yr awdurdod lleol a darparwyr

[125] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 24 Mai 2023, Papur 5
[126] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 111
[127] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Mehefin 2023, Papur 11

trydydd parti ym mhob achos. Yn y pen draw, yr awdurdod lleol ddylai fod yn atebol am ddarpariaeth gwasanaethau, beth bynnag fo'r model darparu.

**145.** Ein barn ni yw mai'r awdurdodau lleol ddylai benderfynu pa fodel darparu sydd fwyaf addas i'w cymunedau. Fodd bynnag, byddem yn annog rhannu arferion da, dysgu a phrofiadau yn ehangach.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol drwy CLlLC i ddarparu cymorth, arweiniad a rhannu arferion gorau sy'n ymwneud â gwahanol fodelau o ddarparu gwasanaethau.

# 5. Gwerth cymdeithasol

**146.** Clywsom na ellir gorbwysleisio manteision gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd i gymunedau. Yn ôl Community Leisure UK Cymru:

> *"They promote physical and mental well-being through various programmes and partnerships and that includes adult education, early years provision, school holiday programming, and, of course, the national exercise referral scheme. So, they reduce inequalities and ill health, they reduce the time that patients spend in hospital on NHS care, and they do that, really, by contributing to developing the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 through integration of arts, culture, sport and leisure."*[128]

**147.** Aeth ymlaen i ddweud bod bygythiad gwirioneddol i iechyd a lles ein cymunedau pan fydd y gwasanaethau hynny'n cael eu tynnu'n ôl, gan eu bod hefyd yn colli cefnogaeth hanfodol ar gyfer iechyd a lles, cyfleoedd addysgol, cyfleoedd cyflogaeth a chydlyniant cymdeithasol.[129]

**148.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae Cwmpas yn tynnu sylw yn ei dystiolaeth ysgrifenedig at adroddiad a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ddiweddar, **Yr Argyfwng Costau Byw: Drwy lens iechyd cyhoeddus**. Dywed Cwmpas fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datgan yn glir bod yr argyfwng costau byw yn cael effaith ddwys ar iechyd y cyhoedd. I'r perwyl hwnnw, mae Cwmpas o'r farn ei bod yn hanfodol bod gwasanaethau llyfrgelloedd a hamdden yn y gymuned yn cael eu hystyried yn asedau allweddol yn y cyd-destun hwn a bod y canlynol yn wir:

> *"Removing these assets and services from communities can have a profound impact on an already dangerous and worsening public health crisis… ensuring a consistent and sustainable delivery of library and leisure services can be a key preventative measure and investment for our health and care."*[130]

[128] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 5
[129] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 5
[130] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 04 Cwmpas

**149.** Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfleusterau hamdden i bobl hŷn:

> *"Mae canolfannau hamdden yn darparu cyfleusterau ac ystod o weithgareddau ar gyfer cymunedau, gan gynnwys pobl hŷn. Os na fydd camau'n cael eu rhoi ar waith i ddiogelu cyfleusterau hamdden hygyrch, nid yn unig y bydd Cymru'n parhau i weld galw heb ei ateb am chwaraeon a gweithgarwch corfforol ymhlith pobl hŷn, ond mae'n debygol y bydd cynnydd mewn unigrwydd cymdeithasol a dirywiad yn iechyd a lles pobl hŷn."*[131]

**150.** O ran llyfrgelloedd, dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn wrthym:

> *"…mae llyfrgelloedd yn chwarae rhan hanfodol wrth feithrin sgiliau digidol ymhlith pobl hŷn ac eisoes yn darparu mynediad at wasanaethau gwybodaeth a chymorth."*[132]

**151.** Nododd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru:

> *"Library services contribute to a range of Welsh Government outcomes such as literacy, skills and learning, digital inclusion, poverty, health and well-being.."*[133]

**152.** Dywedodd UNSAIN Cymru wrthym am lyfrgelloedd:

> *"…they've really come into their own in terms of providing spaces for people who don't have the capacity in their own homes for study or for the equipment in terms of technology and Wi-Fi access, so it provides an equal platform for communities to access those services. And library services provide services for all ages from reading groups for young children right up into support for people looking to apply for jobs, with CV preparation. It provides study, it provides a warm place, and this is all of the things that are above and beyond just looking to see whether you've got reading materials that are going to interest you, but, obviously, access to books that you don't have*

[131] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 05 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
[132] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 05 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
[133] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 01 Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru

*to pay for. So, it provides that equal platform for communities."*[134]

**153.** Yn yr un modd, o ran gwasanaethau hamdden, nododd UNSAIN Cymru:

*"…we have all sorts of campaigns to combat obesity and other chronic health problems that are preventable through people having more healthy lifestyles, and in order to have more healthy lifestyles, you need to have good access to affordable leisure services."*[135]

**154.** Roedd Cymdeithas Chwaraeon Cymru'n teimlo bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth i fuddion ehangach cyfleusterau hamdden, a'r pethau y maent yn eu cyflawni yn eu herbyn o ran addysg, iechyd, lles cymunedol a diogelwch cymunedol.[136]

**155.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig cyfeiriodd Cwmpas at ei ymarfer mapio yn 2022 a ganfu'r canlynol:

*"social enterprises across Wales produce significant social value, including improving health and well-being, supporting vulnerable people and addressing social exclusion, creating employment opportunities and providing access to services."*[137]

**156.** Tynnodd Cwmpas sylw hefyd at effaith datblygiad economaidd modelau darparu nid-er-elw amgen, gan gynnwys mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a chreu cyfleoedd cyflogaeth:

*"I think, particularly when you look at the ones that have moved away from local authority provision, by creating that economic anchor locally, providing the good quality jobs close to where people live in terms of from a foundational economy perspective, but also by creating an independent economic anchor away from the public sector, there's potential around the social value supply-chain work and procurement. You find that actually, they find that slightly easier, moving away from the sort of public sector procurement regime by becoming*

[134] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 233
[135] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 234
[136] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 199
[137] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 04 Cwmpas

*more independent, to try and get that spend to remain local as well."*[138]

**157.** Nododd Chwaraeon Cymru y ffordd eang y gellir crynhoi gwerth cymdeithasol, gan ychwanegu mai ei ddadansoddiad ei hun ar gyfer chwaraeon yn gyffredinol oedd bod elw cymdeithasol o £2.88 am bob £1 a gaiff ei gwario:

> *"…I wouldn't necessarily say that is a absolute given in terms of those outputs. What it does do is really help create the conversations that are required between not just local authorities, but also health services, education services, about how we pool resources to see the preventative impacts of that funding, the preventative impacts of those collaborative programmes around social prescribing, around education and so forth, to maximise the impacts of leisure facilities."*[139]

**158.** Yn yr un modd, nododd Community Leisure UK Cymru ddata yr oedd ganddo wrth law fod ymddiriedolaethau hamdden yn creu £101 o werth cymdeithasol y person gan ddefnyddio eu cyfleusterau a'u gwasanaethau ac mae hynny'n cael ei fesur drwy arbedion i'r GIG, lefelau troseddu is a gwell iechyd meddyliol a chorfforol mewn cymunedau."[140]

**159.** Esboniodd Aura Cymru eu bod yn gweithio gyda chwmni i adolygu ac ymchwilio i werth rhai o'u rhaglenni a'u prosiectau. Er enghraifft:

> *"One was in libraries, which was about our tackling of social isolation and loneliness, and when we reviewed those interventions and interviewed the participants, the social value for every £1 spent was £8.75. And in our active communities teams, we work collaboratively with community safety to identify areas of high anti-social behaviour, and we go in and deliver interventions using sport as a tool to engage young people. Those programmes were evaluated and, for every £1 spent, £13.16 of social value was created."*[141]

**160.** Dywedodd Nofio Cymru wrthym fod angen llawer mwy o ddata a dealltwriaeth o ran gwerth cymdeithasol a'r enillion ar werth cymdeithasol.[142]

---

[138] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 7
[139] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 149
[140] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 154
[141] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 90
[142] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 194

Ategwyd y farn hon gan GLL (Better). Nododd ei bod yn amlwg bod angen mwy o ddealltwriaeth a dadansoddiad o werth cymdeithasol, a hefyd:

> *"…it's sometimes difficult for councillors without a quantitative value in relation to the social value. So, I think that that can be difficult, and what we have done recently is to work with Sheffield Hallam University, and with other specialists in the sector, to actually quantify how much does a council get back from, say, a £1 investment. And what we have found in Lincolnshire is that we are generating over £5 for every £1 of investment, which I think is a very powerful way of demonstrating value. So, I think that that also is important—that we shouldn't be afraid of quantifying what we do."*[143]

**161.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd CLlLC:

> *"Mae angen fframwaith cadarn hefyd i fesur y dychweliad cymdeithasol ar fuddsoddiad a ddarperir o fewn gwasanaethau hamdden a llyfrgell, o ran dulliau ataliol a chanolig ar yr unigolyn a'r galw ar wasanaethau cost uwch fel gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd."*[144]

**162.** Dywedodd Archwilio Cymru wrthym fod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn 2018 wedi canfod bod awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd monitro a mesur effaith ar les ac effaith gymdeithasol trosglwyddo asedau ac na chafodd graddfa'r trosglwyddiadau a'u gwerth eu mesur na'u cofnodi'n ffurfiol yn lleol nac yn genedlaethol.[145]

**163.** Yn yr un modd, mae eu tystiolaeth ysgrifenedig yn cyfeirio at adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Fentrau Cymdeithasol a ganfu:

> *"…er bod Mentrau Cymdeithasol cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant a'u cyfrifoldebau statudol eraill, gan mwyaf nid yw awdurdodau lleol yn monitro nac yn gwerthuso eu gweithgareddau na'u heffaith."*[146]

**164.** Dywedodd Aura Cymru mai un o'r prif heriau yw ceisio egluro i bobl sydd â gofynion cyllidebol eraill y gallwn arbed arian i chi:

---

[143] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 84
[144] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LLALLS 11 CLlLC
[145] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 12 Archwilio Cymru
[146] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 12 Archwilio Cymru

> *"…we do save the health service, the public health service, the police, in terms of anti-social behaviour, and local authorities in terms of some of their social services—we save them money. But I think one of the challenges is that we're not very good at actually explaining all of that, and we certainly don't quantify it, in a way. So, people are looking at the budgets for libraries and leisure and don't realise that they're actually saving other people's budgets and there doesn't seem to be that connection. So, I think that's something that we can all do to try and ease that disconnect."*[147]

**165.** Mae Archwilio Cymru yn cyfeirio at eu hadroddiad ar Wasanaethau'r Awdurdod Lleol yn 2021 yn eu tystiolaeth ysgrifenedig. Canfu'r adroddiad fod gwasanaethau hamdden a diwylliannol "yn cael eu defnyddio'n helaeth ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ddinasyddion". Fodd bynnag, dywedodd Archwilio Cymru:

> *"Er bod ganddynt werth cymdeithasol uchel, gan helpu i gynnal lles personol a chwarae rôl ataliol bwysig, mae'r rhain yn aml yn wasanaethau dewisol ac maent wedi gweld y toriadau mwyaf mewn cyllid ar draws holl weithgareddau'r awdurdod lleol…o'r holl wasanaethau awdurdodau lleol, hamdden a chwaraeon sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf mewn gwariant a gwasanaethau llyfrgell y trydydd toriad mwyaf. Eto i gyd, y rhain hefyd oedd y gwasanaethau â gwerth dinasyddion uchel ac fe'u defnyddiwyd yn rheolaidd gan bobl - 85% o ddinasyddion a arolygwyd gennym yn rheolaidd yn defnyddio gwasanaethau hamdden a chwaraeon awdurdodau lleol a 76% o wasanaethau llyfrgell."*[148]

**166.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"…nad yw ansawdd a dyfnder y wybodaeth a gyflwynir i aelodau fel sail i drafodaethau ac i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau bob amser yn gynhwysfawr, gan ei bod yn brin o fanylion mewn meysydd allweddol. Er enghraifft, nid yw'r sail gyfreithiol ar gyfer gwasanaeth bob amser wedi cael ei chynnwys, gellir anwybyddu sut mae gwasanaethau'n cyfrannu*

[147] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 23
[148] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 12 Archwilio Cymru

*at gyflawni blaenoriaethau ehangach ac nid yw'r effaith ar gyfrifoldebau ehangach, megis cydraddoldebau a heriau economaidd-gymdeithasol, wedi ei mesur."*[149]

**167.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, nododd CLlLC nad yw'r rôl ganolog y mae gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd yn eu chwarae wrth hwyluso pob un o'r llu o ddarpariaethau yng nghymunedau'r cyngor bob amser yn cael ei chydnabod yn deilwng a'i gwerthfawrogi ddigon, ar lefel cynghorau a lefel Llywodraeth Cymru.[150]

**168.** Galwodd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru am fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn y mae llyfrgelloedd yn ei ddarparu, gan ddechrau gyda Llywodraeth Cymru:

*"On the ground, we're all engaged in this work. There is a little bit of a missing trick, though, that starts with Welsh Government…So, when the programme for government was developed and the strategies that developed as a result of that…the strategy for an ageing society….So, libraries are delivering in spades on that strategy. No-one at Government level has made that sum and realised that this is the case, so we're not part of these conversations. It's just completely missing a trick and possible investment, then, into the library offer and that focus on what we are actually delivering."*[151]

**169.** Aeth ymlaen i ddweud, pan fydd y strategaethau'n cael eu llunio, ei bod yn frwydr cael llyfrgelloedd wedi'u cynnwys ynddynt. Gan ddefnyddio'r strategaeth ddiwylliant newydd fel enghraifft, nododd:

*"…we are lobbying hard to get an awareness and an understanding of what libraries can actually deliver within the cultural space. It will be the only strategy, though, and for authorities to be hanging their hats on that strategic direction, it's really important right now. And it's a challenge, and we're all feeling not very confident that our voices are going to be heard loud enough within that strategy."*[152]

[149] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 12 Archwilio Cymru
[150] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 11 CLlLC
[151] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 171
[152] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 172

**170.** Ategwyd y syniad nad yw llyfrgelloedd yn cael eu deall yn dda yn y Llywodraeth gan CILIP:

> *"…the digital strategy for Wales that came out just didn't reference libraries, and so, we organised a cross-sector response. I think public libraries suffer a little bit…in that they're sort of positioned here under the culture division, which is appropriate, but actually, they work across all sorts of issues, so they're in health, in education; they're cutting across all of these things, and there isn't brilliant working across those sectors."*[153]

**171.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod Chwaraeon Cymru wedi ailgomisiynu Prifysgol Sheffield Hallam i gynnal ymchwil ar werth cymdeithasol ac economaidd chwaraeon yng Nghymru a bod disgwyl adroddiad yn ddiweddarach eleni. Eglurodd fod yr adroddiad blaenorol a gyhoeddwyd yn 2018 wedi edrych ar:

> *"…the economic value of sport in Wales, the wider social impacts of sport in relation to health, subjective well-being, social capital, education, crime, volunteering, and what the outcome of that report showed then was that, for every £1 we invested, there was a return of £2.88."*[154]

## Ein barn ni

**172.** Mae gwasanaethau llyfrgell a hamdden yn darparu manteision iechyd a lles, yn ogystal â manteision cymdeithasol ac economaidd, i gymunedau. Cawsom nifer o ffigurau yn ymwneud â gwerth cymdeithasol ehangach y gwasanaethau hyn. Er enghraifft, dywedodd Chwaraeon Cymru fod elw cymdeithasol o £2.88 am bob £1 sy'n cael ei gwario ar chwaraeon, ac yn ôl Community Leisure UK Cymru, mae ymddiriedolaethau hamdden yn creu £101 o werth cymdeithasol am bob person sy'n defnyddio eu cyfleusterau a'u gwasanaethau sy'n cael ei fesur trwy arbedion i'r GIG, lefelau troseddu is a gwell iechyd meddyliol a chorfforol mewn cymunedau. Ni ellir gorbwysleisio'r gwerth sylweddol y mae gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd yn ei ddarparu i'w cymunedau. Fodd bynnag, dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod angen mwy o ddealltwriaeth a dadansoddiad o werth cymdeithasol.

[153] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 178
[154] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 53

**173.** Credwn y dylai fod pwyslais ar werth cymdeithasol pan fydd awdurdodau lleol yn penderfynu ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i ystyried pa ganlyniadau gwerth cymdeithasol y maent am eu cyflawni drwy wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd cyhoeddus a dylunio a darparu eu gwasanaethau yn unol â hynny. Byddai cael data cyfredol sy'n benodol i Gymru ar werth cymdeithasol sy'n cael ei rannu ag awdurdodau lleol yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am ddarparu gwasanaethau.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â phartneriaid llywodraeth leol, yn mynd ati'n rheolaidd i ddadansoddi a chyhoeddi data penodol i Gymru ar yr enillion gwerth cymdeithasol ar fuddsoddiad wrth ddarparu gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd.

**174.** Roeddem yn bryderus i glywed y gall gwasanaethau llyfrgell a'r gwerth cymdeithasol y gallant eu creu gael eu hanwybyddu weithiau gan Lywodraeth Cymru. Mae llyfrgelloedd yn darparu ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau, ac mae'n bwysig bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fewn y llywodraeth o'r hyn y gallant ei gyflawni a'u budd i wasanaethau ehangach fel iechyd ac addysg.

**175.** Ar hyn o bryd, nid oes corff cenedlaethol i arwain datblygiad llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu Tasglu Llyfrgelloedd i hyrwyddo gwerth cymdeithasol llyfrgelloedd a rhannu arferion gorau, a allai gynnwys darparu tystiolaeth a data i wasanaethau llyfrgell i lywio eu penderfyniadau.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r opsiynau ar gyfer sefydlu Tasglu Llyfrgelloedd i hyrwyddo gwerth llyfrgelloedd a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i'w cymunedau a manteision cymdeithasol ehangach.

# 6. Cydleoli

**176.** Mae awdurdodau lleol yn ceisio cydleoli rhai o'u gwasanaethau fwyfwy, yn bennaf mewn ymdrech i arbed costau. Dywedodd CLlLC fod hyn o ganlyniad i fesurau cyni, ond ei fod wedi gorfodi awdurdodau lleol i fod yn arloesol wrth ddarparu gwasanaethau. Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones wrthym am nifer yr adeiladau sydd gan awdurdodau lleol a'u defnydd:

> *"…mae gennym ni hen adeiladau, gormod o adeiladau, felly dwi'n meddwl ein bod ni angen dŵad, a dwi'n meddwl bod yna drafodaethau yn mynd ymlaen mewn nifer o awdurdodau drwy Gymru, i weithio mwy mewn partneriaeth lle mae'r trydydd sector a darpariaeth gyhoeddus yn dod at ei gilydd i gynnig mwy o bethau dan un to."*[155]

**177.** Mae'r Cynghorydd Rob Stewart yn credu bod y dyddiau o gael adeiladau unigol i wneud gwahanol bethau drosodd yn ôl pob tebyg a bod awdurdodau lleol yn ceisio mynd i'r afael â rhai o gostau parhaus rhedeg gwasanaethau trwy eu cydleoli mewn un lleoliad.[156]

**178.** Soniodd SCL Cymru am fanteision posibl cydleoli gwasanaethau, boed hynny drwy fodel hyb gyda gwasanaethau parhaol o dan yr un to neu ddod â gwasanaethau i mewn o bryd i'w gilydd, megis sgrinio am ganser neu feddygfeydd meddygon teulu.

> *"It is a fantastic opportunity… I call it 'upselling' or 'cross-pollinating' services, particularly around health. […] It's also about bringing partners in. So, we work with so many different partners in libraries. It's working with the health board, it's working with Public Health Wales, things like 'stay steady' clinics, working around falls prevention. So, they'll come in and they'll use our venues, and they have an opportunity then to access our customers in the community."*[157]

**179.** Ond roedd CILIP Cymru yn mynegi pryderon yn ei thystiolaeth ysgrifenedig y gallai'r symud i fodel hyb arwain at ostyngiad mewn llyfrgellwyr proffesiynol a symudiad ehangach tuag at staff gwasanaethau mwy generig. Dywedodd y gallai

[155] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 319
[156] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 242
[157] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraffau 202-203

hyn dynnu sylw at lai o ddiddordeb gan awdurdodau lleol yn y llyfrgell a llai o'i hyrwyddo fel man gwaith proffesiynol".[158]

**180.** Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart, wrth ymateb i hyn:

> *"I don't want to distill down or degrade the expertise that the librarians have, but I think you have to balance that against the need to run a multiservice hub, and, within that model, if a librarian is unable to staff a facility that may be open seven days a week, and we don't have trained, qualified librarians who are able to do that not just in the main big hub, but also in our local hubs around our community, then you look at how best you can cover that with staff that are trained in multiple disciplines to offer the best service you can to the community."*[159]

**181.** Er gwaethaf rhai manteision i gyd-leoli gwasanaethau, nododd y Cynghorydd Carwyn Jones heriau i ardaloedd gwledig Cymru a'r angen am gysylltiadau trafnidiaeth:

> *"Oherwydd y broblem ddaearyddol sydd gennym ni yng Nghymru, mae'n iawn yn y llefydd mwyaf poblog, lle mae gennych chi bawb yn agos at ryw hwb, ond rydym ni'n byw yn y llefydd mwyaf anghysbell yn ddaearyddol. Mae trio cadw'r gwasanaethau ym mhob cwr o Gymru yn her, onid ydy, a dydy o byth yn mynd i gael ei wneud yn broffidiol. Teithio llesol, te— mae'n rhaid i bobl allu cael at y gwasanaethau yma ac mae pwysigrwydd teithio'n llesol yn rhan o hynny."*[160]

**182.** Yn yr un modd, dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

> *"Mae'r gwaith o greu hybiau sy'n dod â sawl gwasanaeth at ei gilydd, a lle maen nhw'n atal gwasanaeth lleol rhag cael ei gau'n barhaol, yn cael ei groesawu gan ei fod yn caniatáu i wasanaethau llyfrgell a hamdden barhau i fodoli mewn cymuned. Os caiff hybiau mewn safleoedd newydd eu creu, mae cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a darparwyr trafnidiaeth leol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn*

[158] Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 09 CILIP
[159] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 329
[160] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 350

*gallu parhau i gael mynediad at wasanaethau hamdden a llyfrgell drwy drafnidiaeth gyhoeddus."*[161]

**183.** Awgrymodd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen y dylai awdurdodau lleol edrych ar fodelau amgen o ddarparu gwasanaethau, ond y dylai hyn fod yn llai plwyfol, gan nodi:

*"Rather than have 22 local authorities in Wales looking to do 22 different things, there may be a future in greater strategic partnerships, in creating a critical mass of services, and that's where you derive better value from. So, I think the next step for local authorities in Wales, rather than just looking at their own patches to see where the efficiencies might be, is to see what can be done by working together and whether that's via the regional economic partnership areas that we've got or on a health board basis, perhaps."*[162]

**184.** Mewn ymateb i'r cwestiwn a oes rôl i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried sut y gellid cydleoli gwasanaethau, dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones:

*"I think, possibly, if there was a national policy that would set the framework, then the public services board would be probably ideal to drive it forward, if there was a national policy saying, 'x amount for x amount of years', it would be a good agenda item for the public services board. In its absence, probably it is the ad hoc way that we'll go about it throughout Wales, as we do at the moment."*[163]

**185.** Ychwanegodd y Cynghorydd Rob Stewart:

*"I think there's no reason why that discussion shouldn't happen in a PSB. But we also have the same partners in our corporate joint committees, we also have the same partners in our city region meetings. So, the discussions go on in various venues…the opportunity is there, but it's on a case-by-case basis; when the opportunity arises, you don't need to wait for a regional*

[161] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 05 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
[162] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 29
[163] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 323

> *meeting to have the discussion; you get on and explore the opportunity."*[164]

**186.** Mae papur tystiolaeth y Dirprwy Weinidog yn cyfeirio at duedd "i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau llyfrgell drwy hybiau cymunedol" a bod y "dystiolaeth yn dangos bod hyn wedi cynyddu'r defnydd o wasanaethau, wedi lleihau costau ac yn cyfrannu at wytnwch gwasanaethau." Mae'n nodi y gallai cydleoli gwasanaethau o'r fath "ambell waith wedi bod yn ffordd i osgoi eu cau".[165]

**187.** Waeth beth fo'u llwyddiant, pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog yn ystod y sesiwn dystiolaeth lafar:

> *"…it would very much be down to a local authority to determine whether or not that would be effective in their particular area. Because the impact, really, we don't yet know; it's still a very new innovation."*[166]

**188.** Cydnabu'r Dirprwy Weinidog nad oes un ateb addas i bawb ac y gallai cydleoli fod yn anoddach i awdurdodau lleol sy'n cwmpasu ardaloedd gwledig mawr iawn:

> *"…transport is challenging in most areas at the moment, as we know…But, obviously, that would be one of the considerations that a local authority would have to think about, in terms of, if they were going to co-locate a number of services or create some kind of cultural hub, would they do that in an area where they knew that transport was available to get to, so that that made it accessible to somebody, or would that mean that, by doing that, there would be other communities that wouldn't be able to access, and so, therefore, that they would feel that that wouldn't be the way forward."*[167]

**189.** Mae papur tystiolaeth y Dirprwy Weinidog hefyd yn cyfeirio at gydleoli gwasanaethau llyfrgell gyda gwasanaethau diwylliannol eraill sy'n "annog defnydd a chynaliadwyedd". Yn ei thystiolaeth lafar, gwrthododd y ddadl bod cydleoli yn pylu'r arbenigedd mewn llyfrgelloedd. Dywedodd:

[164] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 325
[165] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 24 Mai 2023, Papur 5
[166] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 64
[167] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 68

> *"...we still have to...have a statutory public library service that meets particular standards. So, that will still require library expertise, it just means that that service can be located with other services. And if somebody is accessing another service, while they're accessing that other service, they might see that there's a library there and go and use that as well. For some people, the library is still a place where they just want to go and borrow a book; for other people, it can be...something very new—digital, something where we can do very innovative things."*[168]

## Ein barn ni

**190.** Clywsom fod awdurdodau lleol yn cydleoli rhai o'u gwasanaethau mewn 'hybiau' cymunedol fwyfwy, yn rhannol mewn ymdrech i arbed costau, ond hefyd ar gyfer manteision ehangach, megis gwella hygyrchedd gwasanaethau. Gall hybiau gynnig sawl budd i gymunedau gan eu bod yn cynnig ystod eang o wasanaethau o dan yr un to, yn amrywio o grwpiau rhieni a phlant bach i gymorth iechyd a thai, ac yn y blaen.

**191.** Fodd bynnag, clywsom fod rhai tystion yn pryderu y gellid gwanhau rôl llyfrgellydd fel proffesiwn lle mae'r model hyb yn cael ei gymhwyso. Roedd rhai yn ofni y bydd yr angen am staff sydd â gwybodaeth fwy generig am wasanaethau yn cymryd lle llyfrgellwyr proffesiynol, gan effeithio'n negyddol ar ddarpariaeth y llyfrgell o ganlyniad. Er mwyn sicrhau bod llyfrgelloedd yn parhau i gael eu defnyddio, credwn y dylid lleoli gwasanaethau llyfrgell mewn lle amlwg o fewn hybiau. Byddem yn annog rhannu arferion gorau ymhlith awdurdodau lleol a'u partneriaid cyflenwi o ran sut i wneud defnydd effeithiol o lyfrgelloedd o fewn modelau hyb. Ni ddylid blaenoriaethu gwasanaethau proffidiol mewn canolfannau ar draul llyfrgelloedd - dylai awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni ystyried eu cyfrifoldebau cymdeithasol wrth wneud penderfyniadau am gydleoli gwasanaethau a'u dyluniad.

**192.** Clywsom hefyd am heriau wrth gydleoli gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Os yw gwasanaethau'n cael eu cydleoli, mae angen iddynt fod ar gael i bawb. Fel y clywsom mewn tystiolaeth, mae'n amlwg bod trafnidiaeth yn broblem ar hyn o bryd, a dylai fod yn ystyriaeth allweddol mewn unrhyw benderfyniad i gydleoli. Dylai hyn gynnwys y defnydd o wasanaethau trafnidiaeth gymunedol.

**193.** Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd bod angen i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau ar sail anghenion eu cymunedau eu hunain, a bod angen

[168] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 69

mwy o dystiolaeth a data cadarn i lywio penderfyniadau. Clywsom fod tystiolaeth hyd yma yn dangos bod y cydleoli wedi cynyddu'r defnydd o wasanaethau, ei fod wedi lleihau costau a'i fod yn cyfrannu at wydnwch gwasanaethau. O ystyried bod hybiau yn arloesedd cymharol newydd, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro a gwerthuso eu llwyddiant, a bod canfyddiadau'n cael eu rhannu ag awdurdodau lleol er mwyn llywio eu penderfyniadau. Rhaid i awdurdodau lleol fabwysiadu dull deallus o wneud penderfyniadau ar gydleoli, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau llyfrgell, er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried pwysigrwydd llyfrgelloedd o fewn y gwasanaethau cyffredinol a ddarperir mewn hybiau.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, gyda phartneriaid llywodraeth leol, yn monitro ac yn gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cydleoli yng Nghymru hyd yma ac yn rhannu eu canfyddiadau ag awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol drwy CLlLC i sicrhau bod trafnidiaeth, gan gynnwys gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol, yn ystyriaeth allweddol wrth wneud penderfyniadau ar gydleoli gwasanaethau.

# 7. Cymorth Ariannol

**194.** Waeth pwy sy'n rhedeg gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd, mae'r heriau ariannol diweddar, yn enwedig mewn perthynas â chostau ynni, wedi arwain at benderfyniadau anodd i gynghorau a'r rhai sy'n rhedeg y cyfleusterau. Mae'r argyfwng ynni wedi effeithio'n anghymesur ar ganolfannau hamdden, yn enwedig y rhai sydd â phyllau nofio sy'n defnyddio llawer o ynni. Mae hyn wedi codi'r posibilrwydd o leihau oriau agor a chau mewn rhai ardaloedd.

**195.** Nododd Archwilio Cymru yn eu tystiolaeth ysgrifenedig fod:

> *"...gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd wedi gweithredu dan amgylchiadau heriol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae effeithiau'r pandemig, problemau recriwtio a chadw parhaus ym maes gwasanaethau cyhoeddus, pwysau chwyddiant ac amddiffyniad cyfyngedig rhag toriadau cyllideb yn cael effaith andwyol."*[169]

**196.** Gan gyfeirio at y data diweddaraf a gyhoeddwyd gan StatsCymru, aeth Archwilio Cymru ymlaen i ddweud:

> *"...mae'n glir bod awdurdodau lleol wedi'i chael hi'n anodd cynnal buddsoddiad mewn gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd dros y 12 mlynedd diwethaf. Rhwng 2009-10 a 2021-22, mae gwariant awdurdodau lleol ar lyfrgelloedd, diwylliant, treftadaeth, gwasanaethau a gweithgareddau chwaraeon a hamdden wedi disgyn 33.6% mewn termau real; o £370.6 miliwn yn 2009-10 i £246.2 miliwn yn 2021-22."*[170]

**197.** Clywsom fod costau ynni yn y sector wedi treblu'n fras i rai sefydliadau[171] a bod rhai ymddiriedolaethau sy'n gweithredu gwasanaethau ar ran awdurdodau yn nodi cynnydd o hyd at £1 miliwn fesul contract awdurdod lleol.[172] Dywedodd Aura Cymru wrthym, er enghraifft, fod ei filiau ynni wedi tyfu dros £600,000 yn y flwyddyn ddiwethaf a heb gymorth yr awdurdod lleol gyda'i gostau ynni, awgrymodd na allai fod wedi goroesi.[173] Ni chafodd canolfannau hamdden eu cynnwys yng Nghynllun Gostyngiad mewn Biliau Ynni Llywodraeth y DU.

[169] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 12 Archwilio Cymru
[170] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 12 Archwilio Cymru
[171] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 205
[172] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 07 Cymdeithas Chwaraeon Cymru
[173] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 110

**198.** Yn ystod ein hymweliad â Chanolfan Hamdden Plas Madoc, clywsom fod yr argyfwng ynni yn parlysu'r elusen a'i bod yn cynnal trafodaethau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar hyn o bryd ynghylch cymorth.

**199.** Clywsom gan Nofio Cymru y gallai costau ynni fod dair i bum gwaith yn uwch yn awr nag yr oeddent, ac y gallai fod cymaint â £30 miliwn o fwlch yng nghyllidebau'r ymddiriedolaethau hamdden. Er y gallai'r setliad llywodraeth leol a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn fod wedi lleddfu rhywfaint o'r pwysau hwnnw, gallai fod bwlch cyllido o £10-12 miliwn dros y 12 mis nesaf, yn yr achos gorau, o ganlyniad i filiau ynni canolfannau hamdden.[174]

**200.** Dywedodd Chwaraeon Cymru wrthym fod y sector yn eithaf gwydn yn dod allan o'r pandemig o ganlyniad i lawer o waith arloesol iawn i amddiffyn ei hun a buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dywedodd:

> *"…the perfect storm of staffing, the cost of living and operation costs and inflation and the energy crisis that have come about now have almost, to an extent, undone a lot of that work, or at least set us back to a point—. We would have thought this would be a really positive, redemption year almost, if I can use that term, and, instead, it's just firefighting new and emerging challenges."*[175]

**201.** Mae papur tystiolaeth Community Leisure UK Cymru yn nodi bod 80 y cant o'i aelodau'n rhagweld diffyg ariannol ar ddiwedd y flwyddyn, gyda diffyg cyfunol disgwyliedig o fwy na £5.4 miliwn i ymddiriedolaethau hamdden yn unig.[176] Mae ymddiriedolaethau hamdden yn derbyn ffi reoli gan yr awdurdod lleol i reoli'r cyfleusterau, ond dywedodd Community Leisure UK Cymru wrthym:

> *"… Mae'r ffi rheoli wedi aros yn fflat, felly mae hynny'n ostyngiad mewn termau real mewn gwirionedd, neu, mewn rhai achosion, maen nhw hefyd wedi cael eu lleihau yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf… Yna mae'r gweithredwyr yn dod yn fwy dibynnol ar incwm o fasnachu, felly mae hynny'n golygu eich bod yn fwy dibynnol ar eich caffis neu ar eich digwyddiadau sy'n cael eu cynnal, mewn parciau, digwyddiadau haf. "*[177]

[174] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraffau 207-209
[175] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 22
[176] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LLALLS 02 Community Leisure Wales
[177] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 48

**202.** **Yn gynharach eleni adroddwyd bod hyd at 150 o byllau nofio yng Nghymru mewn perygl o gau oherwydd costau ynni**, gan godi'r posibilrwydd o gau mewn rhai ardaloedd. Roedd Nofio Cymru yn amcangyfrif fod 500,000 o bobl yng Nghymru yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr bob wythnos ar draws 309 o byllau yng Nghymru cyn y pandemig.[178] Fodd bynnag, dywedodd GLL (Better) wrthym ei bod ar hyn o bryd yn costio dros £12 i ddarparu sesiwn nofio ac nad oes neb yn talu mwy na £5, felly mae'n rhaid i'r arian hwnnw ddod o rywle.[179]

**203.** **Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gronfa o £63 miliwn** ym mis Mawrth i gefnogi pyllau nofio yn Lloegr. Mae'r Dirprwy Weinidog yn nodi yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn tua £3.5 miliwn mewn cyllid canlyniadol o ganlyniad i'r cyhoeddiad hwn. Mae'r papur tystiolaeth yn mynd ymlaen i nodi:

> *"…mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried sut i ddefnyddio'r arian canlyniadol o tua £3.5m a fydd yn dod, gan gofio hefyd y cyllid sylweddol sydd eisoes yn cael ei ddarparu i Awdurdodau Lleol a'r arian ehangach sydd ar gael i'r sector. Rhaid nodi hefyd mai un o egwyddorion pwysicaf datganoli yw nad yw cyllid canlyniadol yn cael ei 'glustnodi' at ddibenion tebyg mewn llywodraethau datganoledig."*[180]

**204.** Mae'r Dirprwy Weinidog yn parhau drwy honni:

> *"Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i asesu ac ystyried pa benderfyniadau cyllido gâi'r effaith fwyaf yn unol ag amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru yng nghyd-destun yr ystod o wasgfeydd sydd wedi'u nodi, gan gynnwys y trafodaethau am gyflogau a lliniaru'r argyfwng costau byw rydym yn parhau i'w wynebu."*[181]

**205.** O ran a fydd Llywodraeth Cymru yn gwario'r cyllid canlyniadol ar byllau nofio, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym yn ystod y sesiwn dystiolaeth lafar na fydd y £1.2 miliwn sydd ar gael i helpu 120 o byllau nofio gyda chostau ynni unrhyw le'n agos at yr hyn sydd ei angen arnynt".[182]

[178] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 08 Nofio Cymru
[179] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 116
[180] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 24 Mai 2023, Papur 5
[181] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 24 Mai 2023, Papur 5
[182] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 88

**206.** Parhaodd y Dirprwy Weinidog drwy nodi bod angen sgwrs ehangach gyda'r sector am gynaliadwyedd hirdymor o ran mesurau arbed ynni, yn enwedig o ran sut mae pyllau nofio yn rheoli eu heffeithlonrwydd ynni ar gyfer y tymor hwy.[183] Yn ôl y Dirprwy Weinidog:

> *"£1.2 million divided between them is £10,000. That's one month's energy bill. That isn't a solution. The solution is long-term energy efficiency. I understand all of the pressures and the difficulties that all of these pools and leisure centres are facing, but a one-off payment of £10,000, to me, is not efficient use of that money, because that doesn't solve the problem. I think we've got to work in collaboration with local authorities and leisure providers to look at a longer-term strategy and, hopefully, local authorities can get their leisure services over this hump and work with us to put longer term energy efficiency measures in place."*[184]

**207.** Er gwaethaf hyn, dywedodd Nofio Cymru wrthym y byddai ffigur o £3 miliwn mewn cyllid canlyniadol yn cynnig achubiaeth i'r sector[185].

**208.** Yn ystod hydref 2022 cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ymchwiliad i **gostau cynyddol a'u heffaith ar ddiwylliant a chwaraeon**, gan gyhoeddi adroddiad ym mis Tachwedd 2022. Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion, yn cynnwys:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid ychwanegol wedi'i dargedu i'r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol."*[186]

**209.** Derbyniodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth yr argymhelliad, gan nodi yn ei hymateb:

> *"Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod effeithiau aruthrol chwyddiant ar gostau cyfleustodau a chostau byw cyrff hyd braich a sefydliadau yn y sector lleol. I'n helpu â'r pwysau hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i neilltuo £3,750,000*

[183] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 88
[184] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 97
[185] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 210
[186] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Adroddiad ar effaith costau cynyddol, Tachwedd 2022

> *ym mlwyddyn ariannol 2022-23 i Lyfrgell Genedlaethol Cymru; Amgueddfa Cymru; sector y celfyddydau trwy Gyngor Celfyddydau Cymru, y sector chwaraeon trwy Chwaraeon Cymru; yr amgueddfeydd annibynnol a llyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru; Cyngor Llyfrau Cymru; a'r diwydiannau creadigol annibynnol yng Nghymru."*[187]

**210.** Nid yw'n glir a fydd yr arian ychwanegol hwn wedi'i dargedu ar gael yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24.

**211.** Galwodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru am gynllun hirdymor i sicrhau sefydlogrwydd ariannol gwasanaethau hamdden cyhoeddus.[188]

**212.** Awgrymodd Community Leisure UK Cymru y gellid mynd i'r afael â'r heriau ariannol sy'n wynebu gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd drwy wneud y canlynol:

> *"…ensuring that local government is properly resourced, because it is the key partner in leisure and library services, whether it delivers them itself or it works with a charitable operator or another model, obviously, taking into consideration increased costs of living and inflation."*[189]

**213.** Nododd y Cynghorydd Rob Stewart fod y setliad llywodraeth leol, er ei fod yn fwy na'r disgwyl, yn dal ymhell islaw chwyddiant, sydd wedi arwain at bwysau enfawr. Dywedodd y bydd addysg a gofal cymdeithasol yn cymryd y rhan fwyaf o'r gyllideb yn y rhan fwyaf o gynghorau, felly mae'n rhaid i chi dalu am eich holl wasanaethau eraill gyda'r hyn sydd ar ôl.[190]

**214.** Clywsom hefyd am heriau o ran bodloni codiadau yn y cyflog byw cenedlaethol. Dywedodd Community Leisure UK Cymru wrthym:

> *"…from 1 April, a 9.7 per cent increase in the national living wage, which is the right thing to do, but to be able to afford to put a 9.7 per cent increase across all pay scales in an organisation adds a lot of pressure on the bottom line….And that's not to say that operators do not want to pay; of course*

[187] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar effaith costau cynyddol, Ionawr 2023
[188] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 07 Cymdeithas Chwaraeon Cymru
[189] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 181
[190] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 241

> *they do want to pay that, it's just talking about budgets and the affordability of that."*[191]

**215.** Yn ogystal â'r heriau o ran cynnal gwahaniaethau cyflog digonol a'r cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol, nododd Aura Cymru hefyd fod costau ynghlwm wrth ddod â phobl i'r sector o ran talu am gymwysterau fel achubwr bywyd pwll cenedlaethol ac athro nofio.[192]

**216.** Ynghyd â chostau cynyddol ynni, nododd Cymdeithas Chwaraeon Cymru dystiolaeth gynyddol fod costau byw yn cael effaith ar lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon, yn fwyaf arbennig i'r rhai ar incwm is. Pwysleisiodd y Gymdeithas nad yw'n dymuno gweld cyfranogiad yn dod yn rhywbeth i bobl yn y grwpiau incwm canol ac uwch yn unig yng Nghymru.[193]

**217.** Er enghraifft, dywedodd Nofio Cymru wrthym fod llawer o blant yn gadael yr ysgol yn methu â nofio, yn enwedig y rhai o deuluoedd llai cefnog a'r rhai o gefndiroedd ethnig amrywiol.[194] Clywsom mai dim ond 50 y cant o'r 1,600 a mwy o ysgolion cynradd yng Nghymru sy'n cymryd rhan weithredol mewn nofio ysgol, nad yw'n orfodol nac yn cael ei reoleiddio gan Estyn yn y ffordd y mae pynciau eraill.[195] Aeth ymlaen i ddweud:

> *"It's not a blame thing, but I think we've taken our eye off the ball with regard to school swimming in a big way, because those children that can't afford those lessons—. The average lesson pre COVID was £6.50 for a swimming lesson, and post-COVID, in the current environment across Wales, the average cost of a swimming lesson is £12.50. So, we've nearly doubled the cost of a swimming lesson. Those children in those harder-to-reach areas, underserved areas, socially and economically deprived areas, have no chance, and that's why school swimming is so important. We celebrate the 150,000 who are in those lessons—that's fantastic—but they're the ones that can afford it. We're going to have a situation very soon where, dare I say it, white middle-class children will be able to swim and the rest won't."*[196]

---

[191] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, 31
[192] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 16
[193] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2022, paragraff 205
[194] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 08 Nofio Cymru
[195] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 167
[196] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 169

**218.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym ei bod wedi cyfarfod â'r Gweinidog Addysg yn ddiweddar i drafod y diffyg ysgolion sy'n cymryd rhan mewn gwersi nofio. Aeth ymlaen i ddweud

> *"What we provide is free swimming, and Welsh Government is funding that, but that's not free swimming lessons, and lessons cost money. Swim Wales provide qualified teachers, and so on, but their concern is the cost of the swimming lesson, and I absolutely get that. But I think part of the answer to that is we have every school involved in swimming lessons.. To take one of the councils, in my own constituency, in Merthyr Tydfil, there is not one school in Merthyr Tydfil that engages in swimming lessons, and one of those schools actually has a pool and they don't deliver swimming lessons for the kids. I have met with the Minister for education to discuss that, and we're going to try and do some work jointly with local authorities on persuading them of the value of ensuring that children have free swimming lessons delivered by school from an early age."*[197]

## Ein barn ni

**219.** Mae costau ynni cynyddol wedi cael effaith enfawr ar wasanaethau hamdden awdurdodau lleol. Clywsom y gallai costau ynni fod dair i bum gwaith yn uwch nawr nag yr oeddent ychydig flynyddoedd yn ôl, ac na fyddai rhai darparwyr gwasanaethau hamdden wedi goroesi'r gaeaf heb gymorth gan yr awdurdod lleol tuag at eu biliau.

**220.** Mae'r argyfwng ynni wedi bod yn arbennig o heriol i gyfleusterau hamdden sydd â phyllau nofio. Cawsom ein synnu o glywed ei bod yn costio dros £12 ar hyn o bryd i ddarparu sesiwn nofio y pen, sy'n fwy na dwbl yr hyn y mae pobl fel arfer yn ei dalu i ddefnyddio'r pwll.

**221.** Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cronfa gwerth £63 miliwn ym mis Mawrth i gefnogi pyllau nofio yn Lloegr. O ganlyniad, bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn tua £3.5 miliwn mewn cyllid canlyniadol, a dim ond £1.2 miliwn ohono sy'n gyllid refeniw. Clywsom nad yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto sut y bydd yn defnyddio'r cyllid hwn.

**222.** Rydym yn cydnabod na fydd £1.2 miliwn yn mynd yn bell iawn o ran helpu pyllau nofio gyda chostau ynni. Fodd bynnag, o ystyried y sefyllfa bresennol,

[197] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 104

credwn y bydd unrhyw gyfraniad, waeth beth fo'i swm, yn gwneud gwahaniaeth. Am y rheswm hwnnw, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid canlyniadol i byllau nofio cyhoeddus. Fel y clywsom, mae 500,000 o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr ledled Cymru bob wythnos, gan gynnwys 150,000 o blant mewn gwersi nofio.[198] Mae nofio yn cynnig manteision i iechyd corfforol ac iechyd meddwl, ac mae hefyd yn sgil bywyd. Felly mae'n bwysig bod pyllau nofio yn parhau ar agor.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dyrannu £3.5 miliwn mewn cyllid canlyniadol i byllau nofio, yn enwedig y rhai a allai fod yn anhyfyw heb gymorth ychwanegol. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r Pwyllgor pan fydd penderfyniad ynghylch dyrannu'r £3.5 miliwn ychwanegol wedi'i wneud.

**223.** Serch hynny, rydym yn cytuno â'r Dirprwy Weinidog nad yw dyrannu'r cyllid canlyniadol i byllau nofio yn cynnig ateb i broblemau effeithlonrwydd ynni, ac rydym yn siarsio bod gwaith i ddatblygu strategaeth hirdymor, yn ogystal ag atebion tymor byrrach, yn cael ei wneud ar fyrder. Byddwn yn archwilio hyn yn fanylach yn y bennod nesaf, ond mae'n amlwg bod angen cymorth mwy dybryd ar wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd i'w helpu i oroesi'r argyfwng presennol. Ym mis Tachwedd 2022 cyhoeddodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol adroddiad ar effaith costau cynyddol ar ddiwylliant a chwaraeon. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid ychwanegol wedi'i dargedu i'r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid ychwanegol wedi'i dargedu i'r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Pwyllgor ar ba gymorth ariannol ychwanegol y bydd yn ei ddarparu i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd i ddelio â'r argyfyngau ynni a chostau byw presennol.

**224.** Rydym yn pryderu bod yr argyfwng costau byw yn cael effaith ar lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon. Er enghraifft, clywsom fod cost gwersi nofio wedi dyblu ers y pandemig, gan eu gwneud yn anfforddiadwy i deuluoedd yn enwedig

---

[198] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 152

y rhai ar incwm is. Cawsom ein synnu a'n siomi o glywed mai dim ond 50 y cant o ysgolion cynradd yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn nofio gyda'r ysgol, ac efallai na fydd rhai ysgolion â phyllau hyd yn oed yn cynnig gwersi nofio. Rydym yn gwerthfawrogi bod darparwyr hamdden yn darparu nofio am ddim i blant yng Nghymru drwy fenter gan Lywodraeth Cymru, ond mae angen iddynt allu nofio er mwyn cael budd o hyn. O ystyried costau cynyddol gwersi nofio, mae'n bwysicach nag erioed bod plant yn cael gwersi nofio am ddim yn yr ysgol, yn enwedig gan fod nofio a diogelwch dŵr yn sgiliau bywyd.

**225.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog wedi cyfarfod â'r Gweinidog Addysg i drafod diffyg darpariaeth gwersi nofio mewn ysgolion, a'u bod wedi cytuno i wneud gwaith ar y cyd ag awdurdodau lleol i'w perswadio o werth sicrhau bod plant yn cael gwersi nofio am ddim a ddarperir gan yr ysgol o oedran cynnar. Rydym yn credu y dylai fod dull unffurf ar draws Cymru i sicrhau bod plant sy'n gadael yr ysgol gynradd yn gallu nofio ac y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid darparu ar strategaeth o'r fath.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd i ddatblygu strategaeth i annog ysgolion cynradd i ddarparu gwersi nofio am ddim, a sut y mae'n gweithio gyda darparwyr hamdden ar y strategaeth hon.

# 8. Cyllid cyfalaf a datgarboneiddio

**226.** Er bod rhwystrau i gynghorau ac ymddiriedolaethau eu goresgyn yn y tymor byr, fel costau ynni, mae heriau tymor hwy hefyd i'w goresgyn, yn enwedig mewn perthynas â datgarboneiddio.

**227.** Dywedodd GLL (Better) wrthym:

> *"All the buildings have got a massive carbon challenge. So, even as we move through getting the energy crisis stabilised…there's still a clear and present and major problem for Cardiff Council and GLL, particularly in leisure centres: £70,000 a month missing that is just going to the energy companies, basically."*[199]

**228.** Gwnaeth Aura Cymru hefyd ddisgrifio cyfleusterau sy'n heneiddio ar draws Cymru sy'n anodd eu datgarboneiddio.[200] Dywedodd Community Leisure UK Cymru wrth y Pwyllgor fod cyfleusterau hamdden cynghorau yn gyson ymhlith y pum math o adeilad sydd â'r allyriadau mwyaf,[201] ac y bydd buddsoddi mewn datgarboneiddio a moderneiddio cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd yn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddeniadol, yn hygyrch, ond hefyd yn ecogyfeillgar.[202]

**229.** Clywsom alwadau am strategaeth hirdymor o adeiladu adnewyddiadau. Yn ôl GLL (Better):

> *"There's a transition we all need to go through on this journey to carbon neutral, reducing energy consumption. It's going to take a lot of capital, it's a big journey, we've all got to go on it together, and it's not about outsourcing or insourcing; it's about partnership working."*[203]

**230.** Nododd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen nad oedd yn ymwybodol o gyllid cyfalaf y sector cyhoeddus y gallai ymddiriedolaethau hamdden neu ddiwylliannol fanteisio arno ar gyfer rhaglenni datgarboneiddio:

> *"What we don't have in Wales is that public sector decarbonisation capital scheme that we can access. We're doing a lot ourselves, but I would urge Government to think of*

199 Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 19
200 Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 110
201 Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 30
202 Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 182
203 Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 119

*that, so that we can access the capital to really make a difference, not just to tackle the energy costs, but to get us to that net-zero position that we all want to get to."*[204]

**231.** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid cyfalaf i Chwaraeon Cymru i'w weinyddu, y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo gyda datgarboneiddio cyfleusterau hamdden a'u gwneud yn fwy effeithlon o ran ynni. Cyhoeddwyd y rownd ddiweddaraf o gyllid, £3.1 miliwn, yn gynharach eleni.

**232.** O ran mynediad at gyllid Chwaraeon Cymru, clywsom, er bod y gronfa yn benodol i bartneriaid cenedlaethol fel awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu cenedlaethol, nid oes unrhyw beth, mewn theori, yn atal y sefydliadau hynny a nodwyd [cyfleusterau sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned] rhag cael sgyrsiau, nac yn atal yr awdurdod lleol, NGB, neu bartner cenedlaethol rhag dod i mewn ar eu rhan.[205] Nododd Chwaraeon Cymru ei fod wedi ariannu nifer o sefydliadau, boed yn glybiau penodol, ymddiriedolaethau hamdden, cyfleusterau sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned[206]. Er hynny, dywedodd fod "cwmpas yr her yn ymestyn y tu hwnt i allu'r arian cyfalaf sydd ar gael".[207]

**233.** Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru wrthym eu bod yn croesawu'r lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad cyfalaf sy'n dod drwy Chwaraeon Cymru i'r sector, fodd bynnag:

*"…local authority leisure services' capital requirements are probably quite a lot higher than those going through Sport Wales. And Sport Wales is funded to deliver sports development activity, for the most part, and shouldn't necessarily be expected to fund the capital requirements of local authority leisure provision, especially given the scale of them."*[208]

**234.** Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones wrthym:

*"…it is hard to access this money as a local authority outside the realms of grant funding from the Government, to be honest. I don't think there are many other avenues."*[209]

---

[204] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2022, paragraff 105
[205] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 27
[206] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2023, paragraff 27
[207] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, LALLS 03 Chwaraeon Cymru
[208] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 29 Mawrth 2023, paragraff 158
[209] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 364

**235.** Nododd llywodraeth leol ddiffyg gweledigaeth posibl ar gyfer gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd cyhoeddus ynghyd â chyllid cyfalaf hirdymor. Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones:

> *"Un peth sydd wedi gweithio'n eithriadol o lwyddiannus yma yng Nghymru ydy'r polisi ysgolion unfed ganrif ar hugain, lle roedd hi'n bolisi lle oedd yna £1.4 biliwn i'w fuddsoddi tuag at greu rhyw 150 o ddarpariaethau addysg newydd. Ond un peth sydd gennym ni ddim yn y maes rydym ni'n ei drafod heddiw ydy polisi o'r fath: beth ydy'n gweledigaeth ni i hamdden, llyfrgelloedd a darpariaeth ar y cyd i'r dyfodol? Pe buasai yna bolisi yng Nghymru i fuddsoddi dros yr 20, 30 mlynedd nesaf ar ddarpariaeth, buasai awdurdodau wedyn yn gallu gweithio ar y cyd, yn gwybod bod yna grant cyfalaf i gael, i roi hybiau newydd, effeithiol yn eu lle, i ddarparu y gwasanaeth aml-asiantaeth yma i'n trigolion."*[210]

**236.** Myfyriodd y Cynghorydd Rob Stewart ar faint yr her i ddatgarboneiddio ei adeiladau yn Abertawe yn unig, er ei fod yn edrych ar yr ystad ehangach ac nid cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd yn unig:

> *"We've worked on the detail of our net-zero targets for the council for 2030, and I think we came up with a figure of about £700 million if we wanted to decarbonise the whole of our estate. I think, in the most recent budget, the allocation was about £20 million for that purpose. So, if we're serious about doing those sorts of things, not just in leisure, but in all of our services, then we're going to have to find a lot more money and attract a lot more investment in order to do that."*[211]

**237.** Yn ôl y Cynghorydd Stewart y realiti yw na fydd modd codi rhai o'r adeiladau, waeth a ydynt at ddibenion hamdden, llyfrgelloedd neu wasanaethau eraill, i'r math o safonau y bydd eu hangen arnom.[212] Ategwyd hyn gan y Cynghorydd Carwyn Jones a ddywedodd fod angen cyflymu pethau ar fyrder o ran cyllid cyfalaf er mwyn cyrraedd sero net erbyn 2030, ond:

[210] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 320
[211] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 359
[212] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 359

> *"efallai fod yna rai adeiladau sydd wedi pasio'r pwynt lle medrwch chi rili fynd i wario—rhoi* sticking plaster *neu* throw good money after bad *felly yw efo rhai adeiladau."*[213]

**238.** Mae papur tystiolaeth y Dirprwy Weinidog yn cyfeirio at ddata Hamdden Cymunedol sy'n awgrymu bod gweithredwyr hamdden eisoes wedi buddsoddi mewn systemau ynni-effeithlon lle y gallant. Fodd bynnag, mae bron i ddwy ran o dair o'r ystad hamdden yn heneiddio ac nid oes modd eu hadnewyddu bellach. Mae'n tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu darparwyr hamdden gyda'r pwysau ariannol presennol, gan nodi "na all ymddiriedolaethau hamdden fuddsoddi ymhellach mewn datgarboneiddio ac adnewyddu cyfleusterau." Mae'n nodi, er bod canolfannau hamdden a phyllau nofio awdurdodau lleol yn wynebu heriau refeniw enbyd, bod "diffyg buddsoddiad cyfalaf yn fater mwy dybryd, yn enwedig yng nghyd-destun ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau economi di-garbon".[214]

**239.** Mae papur y Dirprwy Weinidog yn parhau drwy dynnu sylw at y ffaith y "gall Awdurdodau Lleol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill fanteisio ar gymorth technegol ac ariannol Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i wneud eu pyllau nofio a'u canolfannau hamdden (gan gynnwys y rhai a reolir gan ymddiriedolaethau hamdden) yn fwy ynni effeithlon." Mae'r papur hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi "ymrwymo £16m o arian cyfalaf dros y ddwy flynedd nesaf i Chwaraeon Cymru i ddatblygu cyfleusterau ledled Cymru, sy'n cynnwys helpu i wella cyfleusterau chwaraeon gyda mesurau arbed ynni."[215]

**240.** Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> *"…the level of local authority funding has increased significantly, including capital funding, and so it is a matter for local authorities to determine how they address their net-zero objectives across their estates, including sports and leisure facilities."*[216]

**241.** Dywedodd nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddatblygu cynllun tebyg i'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ar gyfer gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd, gan nodi:

---

[213] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 4 Mai 2023, paragraff 361
[214] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 24 Mai 2023, Papur 5
[215] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 24 Mai 2023, Papur 5
[216] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 119

> *"…this is very much a service that is delivered via local authorities, and we are trying to support local authorities to be able to do that with the level of funding that we are able to deliver."*[217]

**242.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd ei bod yn gobeithio bod Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i hyrwyddo ei Gwasanaeth Ynni:

> *"…that is something that I'm always happy to take back and have a look at…if there is any concern that what is available isn't reaching the parts that it should reach, because…we do engage with the sector at a specific level, but if we have to look further and wider than that, then I'm quite happy to do so."*[218]

## Ein barn ni

**243.** Mae heriau sylweddol yn wynebu awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau wrth ddatgarboneiddio cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd sy'n heneiddio, sy'n destun pryder arbennig o ystyried cynllun Sero Net Llywodraeth Cymru.

**244.** Rydym yn pryderu nad yw rhai ymddiriedolaethau yn ymwybodol y gallant fanteisio ar yr arian cyfalaf sydd ar gael i wneud cyfleusterau hamdden yn fwy ynni effeithlon a chynaliadwy, sy'n cael ei weinyddu gan Chwaraeon Cymru. Mae angen mynd i'r afael â hyn ar frys o gofio bod nifer o weithredwyr hamdden angen cymorth ar fyrder.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio sut y gall godi ymwybyddiaeth o'r cymorth i ddatgarboneiddio cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd.

**245.** Waeth beth fo'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mwy mewn datgarboneiddio a moderneiddio cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd fel mater o frys. Rydym yn pryderu na fydd y cyllid presennol yn mynd yn ddigon pell, yn enwedig o ystyried y bydd yn amhosibl dod â rhai adeiladau i fyny i'r safon. Rydym hefyd yn pryderu bod datgarboneiddio cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd fel pe bai'n llai o flaenoriaeth, o'i gymharu â gwasanaethau awdurdodau lleol eraill. Mae hyn yn ein synnu os yw Llywodraeth Cymru am gyrraedd ei thargedau Carbon Sero Net.

---

[217] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 119
[218] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 24 Mai 2023, paragraff 122

**246.** Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod angen strategaeth hirdymor ar gyfer moderneiddio a datgarboneiddio. Mae'n ymddangos bod diffyg gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd cyhoeddus ynghyd â chyllid cyfalaf hirdymor. Byddem yn croesawu polisi tebyg i Raglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif i sicrhau bod ein cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd yn addas ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod angen cymorth yn gynt o lawer ar wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd i wella effeithlonrwydd ynni eu cyfleusterau. Felly, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried hefyd pa gyllid tymor byr ychwanegol y gellid ei ddarparu i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd tuag at ddatgarboneiddio.

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn cefnogi datgarboneiddio ac adnewyddu cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd ledled Cymru. Dylai hyn gynnwys atebion tymor byr, yn ogystal â strategaeth hirdymor, i helpu awdurdodau lleol a darparwyr cyflenwi i wella effeithlonrwydd ynni eu cyfleusterau ar frys.

# Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen **we'r Pwyllgor.**

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **23 Mawrth 2023** | **Jennifer Huygen, Pennaeth Polisi a Phartneriaethau Strategol**,<br>Community Leisure UK<br>**Owen Hathway, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Buddsoddiadau, Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus**,<br>Chwaraeon Cymru<br>**Glenn Bowen, Prif Weithredwr Dros Dro**,<br>Cwmpas<br>**Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr**,<br>Un Llais Cymru |
| **29 Mawrth 2023** | **Diana Edmonds, Cyfarwyddwr Llyfrgelloedd Cenedlaethol,**<br>GLL (Better)<br>**Mark Sesnan, Prif Swyddog,**<br>GLL (Better)<br>**Richard Hughes, Prif Weithredwr,**<br>Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen<br>**Sara Mogel, Cadeirydd,**<br>Aura Cymru<br>**Sian Williams, Rheolwr Datblygu Hamdden,**<br>Aura Cymru<br>**Matthew Williams, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu,**<br>Cymdeithas Chwaraeon Cymru<br>**Fergus Feeney, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Nofio Cymru<br>**Dominic MacAskill, Ysgrifennydd Rhanbarthol,**<br>UNSAIN Cymru |
| **4 Mai 2023** | **Amy Staniforth, Rheolwr Perthnasoedd,**<br>Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth Cymru |

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| | **Nicola Pitman, Cadeirydd,**<br>Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru<br>**Chris Neath, Rheolwr Rhwydwaith,**<br>Rhwydwaith Cymheiriaid Cenedlaethol Llyfrgelloedd a Reolir gan y Gymuned<br>**Sharon Davies, Pennaeth Addysg,**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Y Cynghorydd Carwyn Jones, Deilydd Portffolio - Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer,**<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>**Y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd,**<br>Cyngor Abertawe |
| **24 Mai 2023** | **Dawn Bowden AS,**<br>Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth<br>**Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Neil Welch, Pennaeth Chwaraeon,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Mary Ellis, Pennaeth Llyfrgelloedd, Archifau a Gwydnwch,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a’r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i’r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar **wefan y Pwyllgor.**

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **LALLS 01** | Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru |
| **LALLS 02** | Community Leisure UK Cymru |
| **LALLS 03** | Chwaraeon Cymru |
| **LALLS 04** | Cwmpas |
| **LALLS 05** | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| **LALLS 06** | UNSAIN Cymru |
| **LALLS 07** | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| **LALLS 08** | Nofio Cymru |
| **LALLS 09** | CILIP Cymru |
| **LALLS 10** | Rhwydwaith Cymheiriaid Cenedlaethol Llyfrgelloedd a Reolir gan y Gymuned |
| **LALLS 11** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **LALLS 12** | Archwilio Cymru |

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022–23

## Ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023

S4C

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022–23**

**Ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023**

Cyflwynir i'r Senedd yn sgîl paragraffau 13(1) a 13(2) i atodlen 6 Deddf Darlledu 1990.

Gosodir gerbron Senedd Cymru yn unol â phenderfyniad gan y Senedd o dan Reol Sefydlog 15.1(v).

HC 1344

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar ddydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023.

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol hwn ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

© **S4C 2023**

Caniateir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng yn amodol ar gywirdeb yr atgynhyrchu ac nad yw'n cael ei wneud mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod hawlfraint S4C a nodi teitl y ddogfen.

Gellir lawrlwytho'r ddogfen hon o www.s4c.cymru

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at s4c@s4c.cymru

ISBN 978-1-5286-4130-2
E02915576 07/23

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| 5 | **Cyflwyno S4C** |
| 7 | Sut i wylio a chysylltu gydag S4C |
| 8 | **Cyflwyniad y Cadeirydd** |
| 10 | **Strategaeth 2022–27** |
| 20 | **Adroddiad y Prif Weithredwr** |
| 31 | **Cynnwys** |
| 40 | Blaenoriaethau Cynnwys 2023–24 |
| 47 | **Cyfraniad Cymdeithasol ac Economaidd S4C** |
| 55 | **Gweithgareddau Masnachol** |
| 58 | **Adroddiadau Gweithredol** |
| 59 | Adroddiad Llywodraethu |
| 77 | Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg |
| 81 | Adroddiad Polisi Cyflogaeth |
| 85 | Adroddiad ar Gynaladwyedd |
| 88 | **Cyfrifon 2022–23** |
| 89 | Datganiad hyfywdra ariannol |
| 91 | Oriau a ddarlledwyd a chyfartaledd cost yr awr |
| 93 | Datganiad o gyfrifoldebau |
| 95 | Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Fwrdd Sianel Pedwar Cymru S4C sy'n cydnabod bod dau Dŷ'r Senedd hwythau'n dibynnu ar Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol S4C |
| 97 | Datganiad cyfun o incwm cynhwysfawr |
| 98 | Mantolen gyfun |
| 99 | Mantolen S4C |
| 100 | Datganiad cyfun o newidiadau mewn ecwiti |
| 101 | Datganiad llif arian cyfun |
| 102 | Nodiadau i'r cyfrifon |

# Cyflwyno S4C

**Mae S4C yn gwasanaethu'r gynulleidfa gyda chynnwys sydd yn diddanu, yn cyffroi ac yn adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth.**

**Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus mae gennym ddyletswydd i greu'r platfform a'r ecosystem i sbarduno'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i greu cynnwys uchelgeisiol ac unigryw sy'n apelio at bob oedran, cefndir a gallu ieithyddol.**

**Nod S4C yw bod yn gyrchfan ar gyfer cynnwys Cymraeg creadigol, gafaelgar a deniadol sydd ar gael i'w fwynhau ar amryw o lwyfannau yng Nghymru a thu hwnt.**




Tudalen y pecyn 123

# Hanes S4C




**Cyn sefydlu S4C, roedd rhai rhaglenni Cymraeg yn cael eu darlledu ar BBC 1 ac ITV.**

Yn ystod y 1970au, fe benderfynodd llywodraeth Prydain y byddai pedwaredd sianel deledu yn cael ei sefydlu, i ymuno â BBC 1, BBC 2 ac ITV. Roedd y sianel newydd hon yn cael ei hystyried gan nifer yn gyfle ar gyfer dechreuad newydd ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Yn dilyn ymgyrchu dwys, sefydlwyd S4C gan Ddeddfau Darlledu 1980/1981.

Fe ddechreuodd S4C ddarlledu am 18:00 nos Lun, 01 Tachwedd 1982. I ddechrau, 22 awr o raglenni Cymraeg oedd yn cael eu darlledu bob wythnos, ochr yn ochr â rhaglenni Saesneg o wasanaeth Channel 4.

Heddiw, mae S4C yn sianel gyfan gwbl Gymraeg yn darlledu dros 115 awr o raglenni bob wythnos ar y gwasanaeth llinol. Mae hefyd yn cyhoeddi cynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau eraill.

Mae prif swyddfa S4C yng Nghanolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin, ac mae gan S4C swyddfeydd yng Nghaernarfon, Gwynedd, ac yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.

Tudalen y pecyn 124

# Sut i wylio a chysylltu gyda S4C

## Ar deledu yng Nghymru

**Freeview: 4**
(gan gynnwys HD ar 104)

**Sky: 104**
(gan gynnwys HD)

**Freesat: 104**
(gan gynnwys HD)

**Virgin TV: 104**
(HD)

## Ar deledu yn Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon

**Sky: 134**
(gan gynnwys HD)

**Freesat: 120**
(gan gynnwys HD)

**Virgin TV: 164**
(HD)

## Ar-lein ar draws y DU

**S4C Clic**
www.s4c.cymru/clic
a thrwy'r ap lle bo un ar gael trwy farchnad apiau eich dyfais

**BBC iPlayer:**
www.bbc.co.uk/tv/s4c
a thrwy'r ap lle bo un ar gael trwy farchnad apiau eich dyfais

### Cysylltu gydag S4C...

**Mae S4C wastad yn falch i glywed barn ein gwylwyr.**

**Os ydych yn dymuno cyflwyno eich barn am ein rhaglenni neu os ydych eisiau gwybodaeth bellach, fe fyddem yn falch i glywed gennych.**

**Fe allwch gysylltu ag S4C dros y ffôn, drwy e-bost, y cyfryngau cymdeithasol, neu drwy lythyr.**

**Gwefan:**
**www.s4c.cymru**

**E-bost:**
**s4c@s4c.cymru**

**Gwifren:**
**0370 600 4141**

Swyddfa Caerfyrddin:
Canolfan S4C Yr Egin, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ

Swyddfa Caernarfon:
S4C, Doc Fictoria, Caernarfon, LL55 1TH

Swyddfa Caerdydd:
S4C, 3 Sgwâr Canolog, Caerdydd, CF10 1FS

Mae croeso i chi gysylltu ag S4C yn y Gymraeg, ac os byddwch chi'n gwneud hynny byddwn yn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny.

# Cyflwyniad y Cadeirydd
## Rhodri Williams

**Ar ran Bwrdd Unedol S4C, rwy'n falch iawn i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon S4C ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2023.**

**Yn ystod y flwyddyn adrodd, fe nododd S4C 40 mlynedd ers ei lansiad ym mis Tachwedd 1982. Mae llawer wedi newid dros y ddeugain mlynedd diwethaf, ac mae'r heriau sy'n wynebu S4C yn dra gwahanol heddiw yn y byd digidol. Mae S4C nawr yn bodoli mewn marchnad gystadleuol tu hwnt, gyda chynnwys o bob cwr o'r byd yn ymladd am sylw'r gwylwyr.**



Rhaid i S4C felly ymateb yn gadarnhaol i'r amgylchedd presennol a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i ni. Rhaid i ni fynd at gynulleidfaoedd erbyn hyn a hawlio eu sylw, yn hytrach na disgwyl iddynt ddod atom ni.

Wrth baratoi i ddathlu pen-blwydd y sianel, yn ystod Mawrth 2022 fe gymeradwyodd y Bwrdd blaenoriaethau strategol newydd S4C ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2022 ymlaen. Rwyf i a fy nghyd aelodau ar y Bwrdd Unedol yn ddiolchgar i staff S4C a'r sector gynhyrchu am eu cefnogaeth i'r blaenoriaethau newydd, a'u hymroddiad i adnewyddu S4C fel ei bod yn parhau'n berthnasol ar gyfer y cyfnod nesaf yn ei hanes.

Mae'n blaenoriaethau strategol newydd yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer trawsnewid S4C o fod yn sianel linol i gyhoeddwr digidol. Mae'r rhesymeg dros gymryd y trywydd hwn yn ymddangos mewn man arall oddi fewn i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Wrth werthuso ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, mae'n dda gweld bod y cyfeiriad newydd eisoes yn dwyn ffrwyth.

Mae cyrhaeddiad cynnwys S4C wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf – yn enwedig ymysg gwylwyr iau na fyddent yn draddodiadol yn gwylio'r sianel linol. Mae hyn i'w groesawu, ac mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i gomisiynu cynnwys apelgar i ddal i ddenu a chadw'r gynulleidfa hon.

Ein defnydd o amrywiaeth ehangach o lwyfannau sydd wedi cyfrannu'n rhannol at gyrraedd y gynulleidfa iau. Mae gwylio cynnwys S4C drwy lwyfannau ffrydio Clic ac iPlayer yn dod yn fwyfwy poblogaidd, ac mae niferoedd cynyddol yn dod i gyswllt gyda'n cynnwys trwy ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol.

Tudalen y pecyn 126

> “
> **Mae’n gyfnod cyffrous wrth i S4C drawsnewid yn gyhoeddwr gwasanaeth cyhoeddus yn y byd digidol. Proses barhaus fydd hon, gydag S4C yn dal i drawsnewid wrth i ddisgwyliadau ein cynulleidfaoedd ddatblygu ymhellach dros y blynyddoedd.**
> ”

Mae’r ffaith hyn i’w gweld wrth i’n cynnwys gael ail fywyd ar ôl dod i sylw gwahanol gynulleidfaoedd. Mae cyfres fel ‘Pen Petrol’ yn enghraifft o hyn – rhyddhawyd y gyfres yn ddigidol yn unig yn wreiddiol, ond yn sgil ei phoblogrwydd mae bellach wedi ei chyhoeddi ar ystod ehangach o lwyfannau, gan gynnwys y gwasanaeth llinol.

Yn yr un modd, mae’r sylw rhyngwladol i’n dramâu wedi iddynt ymddangos ar ein gwasanaeth llinol yn arwain at gynnydd yn y niferoedd sy’n eu gwylio ar alw ar Clic ac iPlayer. Mae’r ddrama ‘Dal y Mellt’ yn enghraifft dda, gyda chynnydd yn niferoedd yn gwylio ar alw yn dilyn y cyhoeddiad y byddai’r ddrama yn cael ei dosbarthu trwy Netflix yn y DU.

Mae felly’n hanfodol ein bod yn buddsoddi yn ein presenoldeb ar y llwyfannau hyn, a llwyfannau newydd i’r dyfodol, er mwyn i gynnwys S4C gyrraedd y gwylwyr ar y llwyfan o’u dewis a chynnig y profiad gorau.

Dros y misoedd diwethaf, mae S4C wedi gweithio i sicrhau bod ap Clic ar gael ar ystod ehangach o lwyfannau. Yn ogystal, lansiwyd yr ap â gwedd fwy modern i gyd-fynd â phen-blwydd S4C. Mae’r dyluniad newydd eisoes ar gael ar lwyfannau yn cynnwys iOS, YouView, ac Amazon Fire Stick; ac fe fydd yn cyrraedd llwyfannau pellach dros y misoedd nesaf.

Mae’r Bwrdd Unedol ei hun wedi adolygu ei drefniadau a’i strwythurau llywodraethu er mwyn sicrhau ein bod yn ddigon ystwyth i gefnogi cyflawni’r amcanion strategol. Rydym wedi adolygu cyfansoddiad a chylchoedd gorchwyl ein pwyllgorau, ac mae’r trefniadau newydd wedi gweithio’n dda dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae aelodaeth y Bwrdd Unedol wedi aros yn lled sefydlog yn ystod y flwyddyn adrodd. Daeth cyfnod Anita George fel aelod anweithredol o’r Bwrdd i ben ddechrau Gorffennaf 2022, ac fe benodwyd Suzy Davies fel aelod anweithredol newydd ddechrau Awst 2022. O ran yr aelodau gweithredol, daeth Llinos Griffin-Williams yn aelod o’r Bwrdd wrth iddi ymuno ag S4C fel Prif Swyddog Cynnwys ddechrau’r flwyddyn adrodd.

Adolygwyd hefyd drefniadau llywodraethu’r gweithgareddau masnachol er mwyn hwyluso cyflawni’r strategaeth fasnachol newydd a gytunwyd yn ystod 2022–23 i gyd-fynd â’r blaenoriaethau strategol. Ceir amlinelliad o’r strategaeth fasnachol yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, a byddwn yn parhau i fireinio prosesau llywodraethu’r gweithgareddau masnachol wrth roi’r strategaeth newydd ar waith.

Mae’r gwaith o gyflawni’r amcanion strategol wedi ei hwyluso’n sylweddol gan y sicrwydd ariannol sydd gan S4C ers Ebrill 2022. Yn wir, mae’r sicrwydd o gyllid trwy Ffi’r Drwydded wedi ein caniatáu i fod yn fwy uchelgeisiol.

Mae S4C yn ddiolchgar iawn yn hyn o beth i’r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) fel ag yr oedd, ac i’r Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, am gadarnhau ym mis Ionawr 2022 y byddai S4C yn derbyn £7.5m o gyllid ychwanegol trwy Ffi’r Drwydded o Ebrill 2022 ymlaen. Mae’r cyllid ychwanegol hwn yn ein galluogi i fuddsoddi yn ein blaenoriaethau strategol, gan gynnwys gweddnewid ap Clic ac ehangu argaeledd yr ap ar wahanol ddyfeisiadau.

Dros y misoedd nesaf, rydym yn edrych ymlaen at gydweithio ymhellach gyda swyddogion y DCMS ar y Mesur Cyfryngau arfaethedig. Gobeithiwn yn fawr y bydd y Mesur yn sicrhau amlygrwydd ac argaeledd gwasanaethau S4C, er mwyn hwyluso cyrraedd y gwylwyr.

Bydd y mesur Cyfryngau arfaethedig hefyd yn caniatáu cwblhau gweddill yr argymhellion a wnaed gan y diweddar Euryn Ogwen Williams yn ei Adolygiad Annibynnol o S4C – Creu S4C ar gyfer y dyfodol – a baratowyd ar gyfer y DCMS ym mis Mawrth 2018. Mae’r argymhellion y bydd y Mesur Cyfryngau yn caniatáu eu cyflawni’n llawn yn cynnwys:

- Diweddaru cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein, a chael gwared ar y cyfyngiadau darlledu daearyddol presennol;
- Diwygio’r gofynion cymeradwyo presennol i roi mwy o ryddid i S4C i fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol; a
- Disodli Awdurdod S4C gyda Bwrdd Unedol newydd sy’n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr anweithredol (er, mae gennym ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol yn barod i weithredu fel Bwrdd Unedol cysgodol ar sail weinyddol).

Er y sicrwydd ariannol trwy Ffi’r Drwydded, mae’r cyllid mae S4C bellach yn ei dderbyn yn sefydlog am y ddwy flynedd gyntaf, cyn cynyddu yn unol â chwyddiant dros y blynyddoedd wedyn. Mae hyn wedi creu sefyllfa heriol i ni yn wyneb y lefelau chwyddiant diweddar. Mae’r Bwrdd felly wedi cymryd camau i leihau costau mewnol cymaint â phosib er mwyn diogelu’r gyllideb ar gyfer comisiynu cynnwys. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i’n partneriaid yn y sector am eu parodrwydd i gydweithio gyda ni, a gyda’i gilydd, er mwyn sicrhau’r gwerth gorau am arian i’n cynulleidfaoedd.

Mae’n gyfnod cyffrous wrth i S4C drawsnewid yn gyhoeddwr gwasanaeth cyhoeddus yn y byd digidol. Proses barhaus fydd hon, gydag S4C yn dal i drawsnewid wrth i ddisgwyliadau ein cynulleidfaoedd ddatblygu ymhellach dros y blynyddoedd.

Rwyf i a’r Bwrdd yn ddiolchgar iawn i staff S4C, ein partneriaid yn y sector, a phawb arall am eu cefnogaeth ar y daith wrth i S4C edrych ymlaen at y 40 mlynedd nesaf.

# Strategaeth 2022–27

Tudalen y pecyn 128

# Ar 17 Mawrth 2022, cymeradwyodd y Bwrdd Unedol strategaeth newydd S4C ar gyfer y pum mlynedd o 01 Ebrill 2022. Daw'r strategaeth newydd yn sgil misoedd o drafod ar lefel Bwrdd Unedol a Thîm Rheoli, ac ymgynghoriad mewnol.

**Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod o newid mawr i S4C, gyda'r pencadlys yn symud i Gaerfyrddin a chydleoli gwasanaethau darlledu technegol S4C gyda rhai BBC Cymru yn Sgwâr Canolog, Caerdydd. Yn ogystal, ac yn sgil Adolygiad Euryn Ogwen Williams yn 2018, rydym wedi dechrau datblygu ein gwasanaeth digidol gan osod sylfaen gadarn i'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Ond, rhaid i'n model busnes barhau i addasu ac esblygu dros y blynyddoedd i ddod.**



Gwesty Aduniad

Ers 01 Ebrill 2022, daw holl arian cyhoeddus S4C drwy Ffi'r Drwydded. Mae'r sicrwydd cyllidebol hwn ar gyfer y cyfnod tan ddiwedd Mawrth 2028 – ynghyd â'r £7.5m ychwanegol y flwyddyn a gyhoeddwyd i S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fis Ionawr 2022 – yn cynnig cyfle i ni drawsnewid S4C at y dyfodol.

Mae ein strategaeth newydd yn seiliedig ar esblygu S4C o fod yn Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus traddodiadol i Cyhoeddwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n berthnasol yn y dirwedd gyfryngau rhyngwladol modern.

Mae'n gofyn i S4C drawsnewid, gan symud o ystyriaethau 'llinol neu ddigidol' er mwyn comisiynu cynnwys i'w ddosbarthu ar draws toreth o lwyfannau. Yn hynny o beth, mae'n gynllun beiddgar sy'n herio'r modelau traddodiadol mae S4C a darlledwyr eraill wedi eu dilyn ers degawdau.

Byddwn felly yn ail-flaenoriaethu ein gwariant tuag at gynnwys mwy aml-lwyfan, gan gael y gwerth gorau posib am arian i'n cynulleidfa ar draws amryw o lwyfannau, gan gynnwys ein sianel linol bresennol.

Tudalen y pecyn 129

# Ein Blaenoriaethau Strategol




## Amlygrwydd ac Argaeledd

**Fel gweddill y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mae gwasanaeth teledu llinol S4C yn dibynnu'n helaeth ar yr amlygrwydd y mae'n ei gael ar deledu digidol daearol, cebl a lloeren yng Nghymru. Mae sicrhau bod gwylwyr yng Nghymru yn gweld y gwasanaethau sydd yn berthnasol iddyn nhw ar frig y canllawiau rhaglenni electronig yn rhan bwysig o'r broses o gael y gwerth gorau o'r buddsoddiad a wnaed yn y cynnwys. Wrth i arferion gwylio ddatblygu a dibynnu fwyfwy ar lwyfannau digidol, mae'n hanfodol bod S4C yn cael amlygrwydd ar ryngwynebau defnyddwyr digidol a hynny ar delerau teg a rhesymol.**

Mae ein strategaeth yn blaenoriaethu sut rydym yn dosbarthu ein cynnwys ar lwyfannau ehangach na'r gwasanaeth llinol traddodiadol er mwyn ymateb i ofynion y gynulleidfa.

## Cymru a'r Gymraeg

**Mae'r iaith Gymraeg yn greiddiol i S4C a'i gwasanaethau. Ein cynnwys yn yr iaith Gymraeg yw'r rheswm mae ein cynulleidfa am ddod atom ni a rhaid sicrhau eu bod nhw am dreulio amser ac aros gyda'n cynnwys.**

Mae hyrwyddo'r iaith Gymraeg gyda chynnwys perthnasol felly'n parhau'n flaenoriaeth sylfaenol i S4C ac yn greiddiol i'n bodolaeth. Mae angen sicrhau ein bod yn hwyluso mynediad i a defnydd o'r Gymraeg i bawb o bob oed a gallu ieithyddol.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg' yn pwysleisio pwysigrwydd S4C yn hynny o beth ac yn ddi-os, mae gan S4C rôl flaenllaw i'w chwarae mewn arwain y ffordd ar draws tair prif thema strategaeth Cymraeg 2050 sef: cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol i sicrhau ffyniant y Gymraeg.

Wrth gadarnhau setliad ariannol S4C o Ffi'r Drwydded ar gyfer y cyfnod o 01 Ebrill 2022, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd gydnabod y cyfraniad allweddol y gall S4C gynnig at gyflawni strategaeth Cymraeg 2050. Rydym felly'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, a phartneriaid allweddol eraill ar gyflawni'r strategaeth hollbwysig hon.

Drwy sefydlu S4C fel cartref profiadau cenedlaethol Cymru, gallwn berchnogi digwyddiadau cenedlaethol – o gerddoriaeth i chwaraeon – ac arwain y sgwrs o'u cwmpas. Yn sgil y digwyddiadau cenedlaethol hyn, gallwn ddenu cynulleidfaoedd mwy amrywiol a siaradwyr newydd, a chynnig mynediad iddynt i ystod ehangach o gynnwys S4C na fyddent fel arfer yn eu hystyried, a thrwy hynny yn cynyddu faint o Gymraeg maent yn ei weld a'i glywed.



Tudalen y pecyn 130

## Ein Cynulleidfa

**Mae'r byd darlledu yn fwy cystadleuol nag erioed o'r blaen, gydag amryw o gyhoeddwyr rhyngwladol bellach yn ceisio denu cynulleidfaoedd i'w cynnwys ar draws amryw o blatfformau.**

Mae'n rhaid felly i greadigrwydd ac anghenion ein cynulleidfa fod wrth wraidd pob dim mae S4C yn ei wneud – yn ganolbwynt i'n cyfleoedd a phenderfyniadau strategol, ac yn greiddiol i'r ffordd mae S4C yn comisiynu, amserlennu, dosbarthu, datblygu, gwerthu a chyfathrebu. Creadigrwydd ddylai yrru ein penderfyniadau.

Bydd deall ein cynulleidfa drwy gasglu data perthnasol ar eu harferion yn elfen hollbwysig o'r broses, gan ganiatáu i ni bersonoli profiadau unigolion wrth iddynt ymwneud â chynnwys S4C. Yn yr un modd, byddwn yn parhau i gasglu adborth cyson ar werthfawrogiad a theimladau tuag at S4C gan wahanol grwpiau cynrychioliadol, ynghyd ag edrych ar berfformiad cyffredinol ein cynnwys.

Mae gennym syniad da o ddemograffeg ein cynulleidfa, ond mae angen parhau gyda'r dadansoddi a'r craffu i ddod o hyd i nodweddion pellach amdani.

Bydd yr holl ddata a gasglwn yn cael ei dynnu ynghyd mewn dashfwrdd clir, i'w ddefnyddio i lywio ein holl benderfyniadau – er mwyn sicrhau bod yr hyn a wnawn er budd y gynulleidfa.

Drwy ddod i nabod ein cynulleidfa'n well, a sefydlu perthynas â nhw fel unigolion, gallwn deilwra ein cynnwys i sicrhau ein bod yn bodloni eu hanghenion.

Yn ychwanegol, bydd rhoi ffocws arbennig ar gyrraedd cyfran fwy o wylwyr iau ar aelwydydd iaith gymysg yn elfen bwysig o ehangu'r gynulleidfa, ac yn helpu i sicrhau perthnasedd barhaus S4C mewn tirwedd ieithyddol sy'n newid o hyd.

Colleen Ramsey: Bywyd a Bwyd






## Cyhoeddi ein Cynnwys

**Mae'r cyfuniad o lwyfannau digidol newydd, ynghyd â darparwyr cynnwys byd-eang newydd, wedi chwyldroi arferion gwylio yng Nghymru fel ym mhobman arall. Mae cynnwys Cymraeg a ddosberthir gan S4C yn gorfod cystadlu gyda chynnwys gan rai o brif gwmnïoedd cynhyrchu'r byd.**

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld ein cynnwys – yn arbennig ein dramâu – yn cael eu gwerthu i ddarlledwyr a llwyfannau eraill ar draws y byd. Rydym am i hyn barhau, drwy gomisiynu cynnwys o'r safon uchaf sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol.

Ar yr un pryd, rhaid i ni ymestyn ein cyrhaeddiad a thyfu effaith ein gwasanaeth o fewn cymunedau. Drwy gomisiynu cynnwys apelgar sy'n ennyn sgwrs, ein bwriad yw cyrraedd cynulleidfa ehangach yn lleol. Yn hynny o beth, byddwn yn parhau i flaenoriaethu cynnwys drama, chwaraeon, a phlant – sydd eisoes wedi profi llwyddiant wrth ddenu cynulleidfa ehangach i S4C.

Rhaid i gynnwys S4C ar ba lwyfan bynnag y mae'n cael ei ddosbarthu fod yn afaelgar ac o ansawdd uchel. Rhaid hefyd dosbarthu cynnwys S4C yn y ffurfiau priodol ac ar y llwyfannau sy'n boblogaidd gyda defnyddwyr. Nid ydym yn meddwl am S4C fel sianel deledu llinol o hyn allan, ond fel dosbarthydd cynnwys Cymraeg ar amrywiaeth o lwyfannau (gyda'r gwasanaeth llinol yn un o'r llwyfannau hynny).

Yn sgìl yr esblygiad hwnnw, bydd ein strategaeth gynnwys hefyd yn esblygu i wasanaethu ein cynulleidfa yn well. Gan ddefnyddio data defnyddwyr i yrru ein penderfyniadau comisiynu byddwn yn cyhoeddi cynnwys beiddgar, difyr sy'n ceisio bodloni anghenion ein cynulleidfa ac yn ysgogi'r meddwl.

Byddwn hefyd yn ystyried y gynulleidfa darged ar gychwyn y broses gomisiynu, er mwyn penderfynu ar ba lwyfan neu gyfuniad o lwyfannau y dylid cyhoeddi'r cynnwys at eu sylw er mwyn cyrraedd y gyfran fwyaf posib o'r gynulleidfa honno. Bydd amrywio'r broses gomisiynu yn y modd yma'n hwyluso ein hymrwymiad i greu mwy o gynnwys digidol yn gyntaf a digidol yn unig.

Yn ychwanegol, bydd y cyfathrebu a'r hyrwyddo o gwmpas y comisiwn hefyd yn cael eu trafod ar gychwyn y broses ddatblygu, er mwyn sicrhau bod pecyn creadigol yn cael ei ddatblygu ar y cychwyn cyntaf ar gyfer bodloni anghenion y gynulleidfa, a'u cyrraedd yn y ffordd fwyaf effeithiol.

## Cefnogi'r Economi

**Fel sefydliad cyhoeddus, mae gan S4C gyfrifoldeb i sicrhau'r budd mwyaf i Gymru o'n dylanwad a'n hadnoddau.**

Bydd creu a chynnal partneriaethau pwrpasol gyda darlledwyr eraill ac amryw sefydliadau eraill yn rhan gynyddol bwysig o ddyfodol S4C. Mae angen gweithredu mewn modd mwy strategol a hir dymor gan fachu cryfderau a galluoedd eraill o wahanol sectorau i yrru ein creadigrwydd ac arloesedd ac i'n cynorthwyo i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf.

Law yn llaw â'r strategaeth gorfforaethol hon, rydym hefyd wedi datblygu strategaeth newydd ar gyfer gweithgareddau masnachol S4C. Bydd y strategaeth fasnachol hon yn sicrhau ein bod yn adnabod partneriaid ar draws y byd i gael marchnadoedd newydd i'n cynnwys, ac yn rhoi pwyslais ar gyd-gynhyrchu cynnwys o'r ansawdd uchaf yng Nghymru er mwyn dod â buddsoddiad ychwanegol i'r sector a'r gwerth gorau i gynulleidfa S4C.

Bydd cynnal a chadw partneriaethau diddorol – yng Nghymru, ac yn rhyngwladol – yn ffordd effeithiol o ddatblygu talent, gwella sgiliau, sicrhau amrywiaeth ac ymbweru cymunedau Cymru i deimlo eu bod nhw am fod yn rhan o S4C.



Cyw a'i Ffrindiau



## Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chynrychiolaeth

**Mae amrywiaeth, cynhwysiant a chynrychiolaeth yn ganolog i holl weithgaredd S4C.**

Rhaid i bawb yng Nghymru a thu hwnt sy'n gwylio cynnwys S4C, ar unrhyw lwyfan, deimlo eu bod nhw yn cael eu hadlewyrchu yn ein hamrywiaeth o gynnwys.

Rydym hefyd am weld ein gweithlu a gweithluoedd ein cyflenwyr yn cynnwys yr amrywiaeth ehangaf o bobol, ac rydym yn gweithio gyda chwmnïoedd cynhyrchu a phartneriaid eraill i ddenu talent newydd i'r sector.

Tudalen y pecyn 132

Ffyrnig

# Ein Strategaeth Newydd

## Strategaeth 2022–27

**Ein pwrpas**
yw sicrhau fod y Gymraeg yn rhan bwysig o fywyd pawb yng Nghymru drwy ddarparu cynnwys beiddgar ac arloesol sy'n dathlu'n diwylliant cyfoes.

**Ein gweledigaeth**
yw Cymru lle mae'r iaith yn perthyn i ni gyd, gydag S4C yn uno'r genedl trwy ein cynnwys.

**Wrth i ni fynd ati i weithredu ein strategaeth newydd, byddwn yn rhoi sylw priodol i'n gwerthoedd fel sefydliad, sef:**

- **Amrywiaeth**
- **Ymwneud**
- **Arloesedd**
- **Uchelgais**

## Dod i nabod, a chreu perthynas, gyda'n cynulleidfa

- **Defnyddio data i sicrhau fod y gynulleidfa'n sail i'n holl benderfyniadau.**
- **Deall ein cynulleidfa a phersonoli'u profiadau.**
- **Creu dashfwrdd clir i fesur ein gwerth a'n perfformiad.**

**Er mwyn gwireddu'r amcanion hyn, byddwn yn:**

✓ Diffinio sut rydym yn mesur perfformiad, gan osod targedau clir y gallwn eu mesur mewn modd dibynadwy;
✓ Creu dashfwrdd a sefydlu rhaglen 'gwrando ar ein cynulleidfa'; a
✓ Defnyddio data i bersonoleiddio profiadau, a chreu perthynas gyda'n cynulleidfa.





## Creu sŵn gyda chynnwys beiddgar

- **Deall ein cynulleidfa a chynhyrchu cynnwys sy'n creu'r sgwrs ac yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol.**
- **Ymestyn ein cyrhaeddiad a thyfu effaith ein gwasanaeth o fewn cymunedau.**
- **Blaenoriaethu drama, chwaraeon a phlant.**

**Er mwyn gwireddu'r amcanion hyn, byddwn yn:**

✓ Dilyn y model: Adnabod y gynulleidfa > Comisiynu cynnwys sy'n apelio at y gynulleidfa > Cyhoeddi ar y llwyfan mwyaf addas i gyrraedd y gynulleidfa;
✓ Diffinio ein blaenoriaethau cynnwys ar sail anghenion y gynulleidfa;
✓ Datblygu strategaethau cynnwys hir-dymor – ar gyfer genres drama, chwaraeon, a phlant; ac yn
✓ Creu cynllun ar gyfer partneriaethau, cyd-gynyrchiadau a datblygu marchnadoedd rhyngwladol.

Tudalen y pecyn 134

## Sefydlu'n hunain fel cartref profiadau cenedlaethol Cymru

- **Perchnogi digwyddiadau cenedlaethol a chynnal y sgwrs o'u cwmpas; o gerddoriaeth i chwaraeon.**

**Er mwyn gwireddu'r amcan hwn, byddwn yn:**

✓ Cynllunio rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau ar draws Cymru, gan sicrhau presenoldeb amlwg i S4C;
✓ Datblygu ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i greu sŵn, a chyfathrebu ein pwrpas; a
✓ Lansio ein brand newydd.





## "Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd" – gweithio gydag eraill i gyrraedd y filiwn

- **Gweithio gyda'n partneriaid i gyrraedd y filiwn a dyblu defnydd, a sicrhau ein bod yn cael ein gweld fel partner amlwg yn cyfrannu at ffyniant y Gymraeg.**


**Er mwyn gwireddu'r amcan hwn, byddwn yn:**

✓ Creu strategaeth partneriaethau clir, i ddiffinio a ffurfioli ein perthynas gyda'n partneriaid; a
✓ Chwarae rôl flaengar yn nhwf yr iaith Gymraeg, ac arwain y ffordd ymlaen.

## "Darparu dy gynnwys di ar dy lwyfan di"

- **Sicrhau amlygrwydd ac argaeledd ar draws y prif lwyfannau gwylio.**
- **Amserlennu ein cynnwys ar draws pob llwyfan, yn hytrach na bod yn 'llinol-yn-gyntaf'.**
- **Meithrin perthynas fasnachol gyda'n partneriaid.**
- **Datblygu talent i gyfleu cynnwys digidol.**
- **Sicrhau amlygrwydd i'n cymunedau amrywiol ar, ac oddi ar, y sgrin.**

**Er mwyn gwireddu'r amcanion hyn, byddwn yn:**
✓ Amserlennu cyhoeddi cynnwys ar draws pob llwyfan;
✓ Cynyddu argaeledd ac amlygrwydd ein cynnwys ar draws llwyfannau gwylio cyfoes;
✓ Mireinio'n prosesau busnes mewnol i adlewyrchu'n strategaeth gyhoeddi newydd; a
✓ Gweithio gyda'r sector i ddatblygu strategaeth hyfforddiant.





## Adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth

- **Sicrhau ein bod yn adlewyrchu cymunedau Cymru drwy osod targedau amrywiaeth clir, yn fewnol ac ar draws ein cynyrchiadau.**

**Er mwyn gwireddu'r amcan hwn, byddwn yn:**
✓ Gweithio gyda'r sector i sicrhau ein bod yn adlewyrchu ein cymunedau yn eu holl amrywiaeth; ac yn
✓ Gosod targedau clir ar gyfer amrywiaeth yn ein cynnwys, a mesur ein perfformiad yn eu herbyn.

## Creu gwerth trwy ein hadnoddau

- **Creu cynllun corfforaethol clir gydag amcanion penodol.**
- **Canfod cyfleoedd masnachol i helpu ni wireddu gwir werth ein cynnyrch.**

**Er mwyn gwireddu'r amcanion hyn, byddwn yn:**

✓ Datblygu strategaeth fasnachol newydd;
✓ Adnabod marchnadoedd amgen ar gyfer ein cynnwys;
✓ Mireinio ein prosesau cyllid i adlewyrchu'n strategaeth aml-lwyfan newydd;
✓ Diffinio ein 'rhestr siopa', ac amddiffyn ein hawliau; a
✓ Mireinio'n prosesau caffael i adlewyrchu ein strategaeth.





## Ysbrydoli a meithrin talent yng Nghymru

- **Cefnogi'n partneriaid yn y sector i ddatblygu talent newydd yng Nghymru, drwy bartneriaethau ar draws y sector creadigol.**

**Er mwyn gwireddu'r amcan hwn, byddwn yn:**

✓ Buddsoddi mewn adnoddau er mwyn ein galluogi i ddeall anghenion cwmnïau cynhyrchu, a'r sector yn ehangach; a
✓ Sicrhau llwybr clir i dalent newydd, a datblygu ein sgiliau a'n gallu i gyflawni'n strategaeth.

Tudalen y pecyn 137

# Adroddiad y Prif Weithredwr

**(yn ymgorffori'r adolygiad blynyddol ar berfformiad)**

Tudalen y pecyn 138

# Adroddiad y Prif Weithredwr

**(yn ymgorfforiʼr adolygiad blynyddol ar berfformiad)**

## Siân Doyle

**Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn amser arbennig i fod yn rhan o dîm S4C.**

**Bu'n flwyddyn gyffrous wrth i ni ddechrau gweithredu Strategaeth 2022–27. Rydym yn ddiolchgar i'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) am y setliad ychwanegol o £7.5m o Ffi'r Drwydded ers Ebrill 2022, sydd wedi ein galluogi ni i ddatblygu'r strategaeth newydd. Yn sgil hyn, mae gennym raglen drawsnewid i sicrhau bod y gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion y gynulleidfa – yng Nghymru a thu hwnt – fel bod S4C yn parhau'n berthnasol ac yn amlwg yn y byd aml-lwyfan.**



Ac wrth gwrs, roedd hi hefyd yn flwyddyn o ddathlu i S4C – pen-blwydd y gwasanaeth yn 40, ac ein rôl fel cartref pêl-droed Cymru wrth i ni ddilyn a rhannu pob cam o daith tîm cenedlaethol y dynion i Gwpan y Byd yn Qatar.


Mae'n rhaid diolch i staff S4C am eu hymrwymiad yn ystod blwyddyn arbennig o brysur, ac i'r sector am ymateb mor gadarnhaol i Strategaeth 2022–27, wrth i ni esblygu'r gwasanaeth i gadw S4C a'r iaith Gymraeg ar flaen y gad ar gyfer y 40 mlynedd nesaf.

## Strategaeth 2022–27

Pan lansiodd S4C ym 1982, dim ond pedair sianel oedd. Heddiw, mae cannoedd ar gael. Mae ein strategaeth a'n blaenoriaethau yn adlewyrchu'r trawsnewid sylweddol y mae pob darlledwr yn ei wynebu heddiw, wrth i ddisgwyliadau'r gynulleidfa gynyddu o ran sut a beth maent am ddewis ei wylio, a hynny o fewn y môr o gynnwys sydd ar gael.

Mae'n galonogol gweld bod blaenoriaethau ein strategaeth newydd – denu cynulleidfaoedd newydd ac iau at y gwasanaeth – eisoes yn llwyddo, gyda nifer o'r mesuriadau hyn wedi cynyddu'n sylweddol.

Tra bod y niferoedd sy'n gwylio teledu llinol yn lleihau ar draws yr holl sianeli, gwelsom gynnydd yn y niferoedd sy'n troi at S4C. Roedd ein cyrhaeddiad wythnosol ar ei uchaf ers pum mlynedd, ac 8% yn uwch na'r llynedd. Fe gynyddodd cyfraniad oed 16-44 at ein oriau gwylio yn sylweddol, mae nawr ar ei uchaf ers degawd.




**Dod i nabod, a chreu perthynas, gyda'n cynulleidfa**

**Creu sŵn gyda chynnwys beiddgar**

**"Darparu dy gynnwys di ar dy lwyfan di"**

**Sefydlu'n hunain fel cartref profiadau cenedlaethol Cymru**

**"Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd" – gweithio gydag eraill i gyrraedd y filiwn**

**Creu gwerth trwy ein hadnoddau**

**Ysbrydoli a meithrin talent yng Nghymru**


**Adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth**

Tudalen y pecyn 140

Yn wir, dros y pum mlynedd diwethaf, wrth i broffil oedran cynulleidfa cyfartalog y chwe sianel cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru heneiddio mae proffil oedran cynulleidfa S4C wedi mynd yn iau.

Ar yr un pryd, mae proffil economaidd-gymdeithasol cynulleidfa S4C wedi gwyro i ffwrdd o'r grŵp C2DE ar raddfa ychydig yn gynt na chyfradd y chwe sianel cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Yn sgil hyn, mae ein strategaeth gynnwys dros y cyfnod nesaf yn cynnwys cynnig arlwy fydd yn apelio at y grŵp pwysig hwn.

Proffil Oedran a Economaidd-Gymdeithasol S4C a'r 6 Sianel Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru yn ystod yr oriau brig




(Ffynhonnell: BARB; y Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yw: BBC 1, BBC 2, ITV 1, Channel 4, Channel 5, ac S4C).


## Mynd â chynnwys S4C at y gynulleidfa


Yr her heddiw ydi sicrhau fod S4C yn ddigon swnllyd a beiddgar i gystadlu gyda'r oriau di-ri o gynnwys gan gannoedd o sianeli, ffrydiwyr a llwyfannau eraill ar draws byd. Yn ôl ymchwil gan Enders, yn 2010 roedd llai na 5,000 o oriau o gynnwys ar gael i'r gynulleidfa ddewis ohono – erbyn 2023, mae dros 120,000 o oriau ar gael i'w dewis wrth i fwy o lwyfannau gael eu lansio.

Er gwaethaf yr holl gystadleuaeth, mae yma gyfleoedd – ac mae'n rhaid i ni fanteisio arnynt.

Un sianel linol oedd gan S4C pan lansiwyd y gwasanaeth. Bellach, gyda'r holl lwyfannau gwahanol sydd ar gael, mae cyfle mawr i S4C i rannu ei chynnwys ymhellach. Yn ôl amcangyfrif Enders, nid yw hanner pobl ifanc 16-24 oed yn gwylio ar y set deledu draddodiadol bellach. Rhaid i ni felly sicrhau y gall pawb fwynhau cynnwys S4C ar ba bynnag lwyfan maent yn ei ddefnyddio – boed hynny drwy wylio ar alw, setiau bocs ar Clic neu iPlayer, neu ddarganfod S4C ar YouTube a chyfryngau cymdeithasol eraill.

Rydym yn ddyledus i'r DCMS am y setliad ychwanegol o Ffi'r Drwydded i alluogi ein rhaglen drawsnewid, sy'n cynnwys datblygu ein presenoldeb ar wahanol lwyfannau er mwyn cyrraedd y gynulleidfa. Roedd lansio Clic 2.0 yn cynnig cyfle i ddiweddaru gwedd a theimlad yr ap, tra hefyd yn cyflwyno nodweddion ychwanegol er budd y gynulleidfa. Mae'n braf gweld bod S4C/Clic yn awr ar gael ar 67% o setiau teledu clyfar, a'r gwaith yn parhau yn ddi-oed er mwyn cynyddu'r argaeledd hwn ymhellach, a hwyluso amlygrwydd S4C yn y byd aml-lwyfan.




Brig: Yr hen Clic
Gwaelod: Clic

Tudalen y pecyn 141

## Darparu cynnwys ar lwyfannau o ddewis y gynulleidfa

Yn ogystal â chyrraedd llwyfannau newydd, rhaid i ni hefyd adnabod ein cynulleidfaoedd, a'r hyn maent am ei wylio. Mae cryn ddiolch i'r tîm ymchwil am y gwaith dadansoddi sydd wedi ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf – gan gynnwys datblygu dashfwrdd newydd sydd wedi ein galluogi i gyflwyno proses gomisiynu sydd yn fwy hyblyg ac yn ateb anghenion ac arferion gwylio'r gynulleidfa yn well.

Wrth i ni adeiladu ein strategaeth llwyfannau, mae'r gynulleidfa wedi cynyddu ar draws pob llwyfan.

Mae'r defnydd cynyddol o wylio cynnwys S4C ar draws y gwahanol lwyfannau yn golygu, heb os, bod amserlennu'r cynnwys ar draws y llwyfannau hynny bellach yr un mor bwysig ag amserlennu ar deledu llinol traddodiadol.

Mae mesur perfformiad a gwylio ar lwyfannau eraill yn greiddiol hefyd, a chytunwyd mesuryddion perfformiad newydd yn ystod cyfnod yr adroddiad yma am y tro cyntaf. Un o brif amcanion Strategaeth 2022–27 yw cynnig y cynnwys mae pobl am ei wylio ar y llwyfannau maent yn eu defnyddio. Felly wrth i ni ehangu'r cyfleoedd i ymwneud â'r gwasanaeth ar wahanol lwyfannau a dyfeisiadau, mae'n galonogol gweld bod y gynulleidfa yn tyfu hefyd..

Mae ein gwylio ar Clic ac iPlayer ar ei uchaf erioed gyda chynnydd o 10% ers y llynedd. Pan gyhoeddwyd ein drama Dal y Mellt yn Hydref 2022, bu 50% o'r gwylio ar ôl diwrnod y darllediad llinol drwy wahanol ddulliau ar alw. Mae cyfresi eraill wedi gweld tueddiadau tebyg, fel Gogglebocs Cymru gyda 60% o oriau gwylio'r gyfres ar alw ar ôl y noson, gan adlewyrchu arferion gwylio pobl ifanc. Mae Gogglebocs Cymru hefyd yn nodweddiadol am y gwerthfawrogiad uchel iawn o'r gyfres ymhlith cynulleidfaoedd iau (a'r garfan 16-24 oed yn arbennig).

## Creu sŵn gyda'n cynnwys

Mae cynnwys beiddgar sy'n bachu sylw'r gynulleidfa yn hanfodol, ac roedd nodi 40 mlynedd ers sefydlu'r sianel yn foment i ddathlu ond hefyd myfyrio ar 40 mlynedd nesaf y gwasanaeth.

I nodi'r achlysur, comisiynwyd Y Sŵn (Joio), ffilm yn adrodd hanes y frwydr i sefydlu S4C. Cafodd miloedd y cyfle i fwynhau Y Sŵn mewn sinemâu ar draws y DU cyn i S4C ei darlledu – trefn yr ydym yn bwriadau ei hefelychu gyda Sinema Cymru. Hon yw ein partneriaeth ffilm newydd gyda Cymru Greadigol â chefnogaeth Ffilm Cymru, fydd yn creu ffilm Gymraeg bob blwyddyn ac yn rhoi Cymru ar y sgrîn fawr mewn gwyliau rhyngwladol. I gefnogi'r cynllun, lansiwyd O'r Sgript i'r Sinema, cwrs arloesol gyda'r National Film and TV School Cymru, i feithrin to newydd o awduron fydd yn gallu ysgrifennu'r ffilmiau newydd hyn gyda'r nod uchelgeisiol o ddilyn ôl troed TG4 a llwyddiannau An Cailín Cúin eleni.

Cawsom flwyddyn nodedig gyda drama, gan gynnwys y ddrama Gymraeg gyntaf ar Netflix wedi i'r ffrydiwr brynu addasiad Iwan 'Iwcs' Roberts o'i nofel Dal y Mellt ar gyfer S4C (Vox / Abacus). Roeddem yn falch o weld Y Golau (Triongl / Duchess Productions), ein cyd-gynhyrchiad drama cyntaf gyda Channel 4 yn derbyn clod mawr cyn gwerthu'n rhyngwladol hefyd. Hon oedd y ddrama a wyliwyd fwyaf ar Channel 4 yn ystod y cyfnod, gan ddangos bod gweledigaeth S4C o straeon am ac o Gymru yn teithio ac yn gafael mewn cynulleidfaoedd ehangach. Dyma hefyd oedd y cynhyrchiad cyntaf i'r actor Joanna Scanlan ei wneud yn Gymraeg yn dilyn ei hymddangosiad ar ein fformat dysgu Cymraeg llwyddiannus ni Iaith ar Daith (Boom Cymru) yn 2021, sy'n dangos sut y gallwn ni ddenu talent adnabyddus at S4C a chefnogi siaradwyr newydd.

Nid mewn drama yn unig y cafwyd llwyddiant. Daeth S4C a'n partneriaid cynhyrchu ag anrhydeddau a chlod yn ôl i Gymru hefyd drwy wobrau sylweddol – Gwobr Broadcast i Drych: Fi Rhyw ac Anabledd (Wildflame); a Gwobr Llais Newydd i'n cyfres Hansh, Tisio Fforc? (Afanti).

Rydym hefyd yn arbennig o falch eleni o weld ein brandiau rhagorol yn parhau i ddiddanu, gan gynnwys Am Dro (Cardiff Productions), Priodas Pum Mil (Boom Cymru), a Cân i Gymru (Afanti).

Mae'n dda gweld fformatau S4C hefyd yn teithio, gyda nifer wedi eu gwerthu a'u haddasu yn llwyddiannus yn ystod 2022–23, fel Gwesty Aduniad (Darlun) sydd bellach ar y BBC fel Reunion Hotel. Wrth i ni ddenu cynulleidfaoedd iau dros y cyfnod, mae wedi bod yn wych gweld y brand Hansh yn mynd o nerth i nerth.

Parhaodd ein cynnwys plant i ddenu cynulleidfaoedd cyson ar draws pob platfform. Fe wnaeth Cyw ddeor Cywion Bach i gefnogi siaradwyr newydd a throsglwyddiad iaith gwylwyr iau a'u teuluoedd, a gwelsom lwyddiant dramâu newydd fel Y Goleudy (Boom Cymru) ac Itopia (Boom Cymru) i blant hŷn, drwy gefnogaeth cronfa cynulleidfaoedd ifanc Llywodraeth y DU (Young Audiences Content Fund), hefyd yn gwneud eu marc ac yn ennill enwebiadau a gwobrau.



Y Golau

## Profiadau Cenedlaethol Cymru

Ym mlwyddyn hanesyddol Cwpan y Byd, roedd yn fraint cael bod yn rhan o Jambori'r Urdd gyda 330k o blant yn canu i ddathlu Cymru'n cyrraedd Cwpan y Byd am y tro cyntaf ers 1958.

Mae chwaraeon yn rhan greiddiol o'n harlwy i gynulleidfaoedd Cymru wrth i ni adlewyrchu'r rhan bwysig yma o'n diwylliant. Ac mae hefyd yn cyflwyno S4C i gynulleidfaoedd newydd sydd yn mwynhau ein brandiau chwaraeon fel Sgorio (Rondo Media).

Ond, nid cartref pêl-droed Cymru yn unig yw S4C. Parhaodd ein cynnwys chwaraeon i ddenu cynulleidfaoedd gwych ar draws pob camp. Roeddem yn falch o ddarlledu gemau pêl-droed nodedig – o gêm merched Wrecsam yn erbyn Cei Connah i gêm ragbrofol Cwpan y Byd Cymru yn erbyn Wcráin.

Mae ein darllediadau ralïo bob amser yn dod â chynulleidfaoedd gwych ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, a charfan ffyddlon yn dilyn y Giro d'Italia, y Tour de France a Triathlon Cymru yn y Gymraeg drwy S4C.

Ac mae rygbi yn parhau yn ffefryn wrth i ni ddarlledu holl gemau'r Chwe Gwlad o'r tîm dynion i'r gemau dan 20.

Mae darllediadau S4C o ddigwyddiadau byw yn esblygu o ddarlledu ar y teledu yn unig i ffrydio ar draws sawl llwyfan gan gynnig gwasanaeth mwy cynhwysfawr i gynulleidfaoedd ledled Cymru a thu hwnt. Roeddem yn falch o ffrydio'n fyw o dri llwyfan yn yr Urdd yn 2022, ac fel prif ddarlledwr y Sioe Fawr fe wnaethon dorri recordiau o ran y cynulleidfaoedd a gyrhaeddwyd trwy Facebook, YouTube ac ar y teledu. Fe wnaethom ddarlledu rhaglen gynhwysfawr o ŵyl Gymraeg Tafŵyl am y tro cyntaf, ac roedd ein darlledu o'r Eisteddfod Genedlaethol unwaith eto yn aml-lwyfan.

Wrth i'r rhyfel yn Wcráin ddryllio bywydau, cafwyd cyngerdd codi arian arbennig ar S4C i ddangos ein cefnogaeth i bobol Wcráin, mewn partneriaeth â'r pwyllgor argyfwng trychinebau DEC Cymru. Fe gafwyd adroddiadau arbennig o'r llinell flaen ar wasanaeth Newyddion S4C (BBC Cymru) ac ar Y Byd ar Bedwar (ITV Cymru) gyda'r cynnwys yn derbyn enwebiadau am wobr RTS Cymru.

Mae'n gwasanaeth newyddion digidol newydd hefyd yn mynd o nerth i nerth, gyda chynnydd cyson yn y niferoedd sy'n lawrlwytho'r ap, a thwf yng nghyrhaeddiad y gwasanaeth ar Facebook ac Instagram. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn lansio gwasanaeth newyddion newydd ar TikTok



## "Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd"

Drwy'r cyfnod adrodd rydym wedi rhoi adnoddau strategol i sicrhau bod ein cynnwys yn cadarnhau'r hyn rydym yn ei gynnig fel darlledwr cenedlaethol Cymru.

Bydd rôl newydd Arweinydd Strategaeth y Gymraeg yn gweithredu memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd gyda Llywodraeth Cymru sydd yn amlinellu rôl S4C yn yr amcan o filiwn o siaradwyr a dyblu defnydd erbyn 2050. Lansiwyd y memorandwm wrth i'n cyfres drawiadol Stori'r Iaith (Rondo Media) ddarlledu fis Chwefror 2023, gyda phedwar cyflwynydd gwahanol – Sean Fletcher, Alex Jones, Elis James a Lisa Jên – yn trafod eu perthynas gyda'r iaith. Mae'r gyfres eisoes yn cael ei defnyddio o fewn addysg ac yn sbarduno'r sgwrs am beth yw'r Gymraeg heddiw.

Yn ystod y cyfnod adrodd, rwy'n falch ein bod wedi cynyddu ein darpariaeth o isdeitlau yn Gymraeg yn ôl ein hymrwymiad, gan gynnwys ar ein rhaglenni plant a byw, megis Heno (Tinopolis). Mae 46% o'n rhaglenni bellach gydag is-deitlau Cymraeg – sef cynnydd o 21% ar y flwyddyn flaenorol.



Heno

Tudalen y pecyn 143

### Adlewyrchu Cymru a Meithrin Talent

Drwy ein cynnwys, a'r gweithlu sy'n ei greu i ni, mae'n hanfodol bod S4C yn adlewyrchu Cymru yn ei chyfanrwydd. Rydym wedi parhau gyda'r amcan pwysig eleni o sicrhau ein bod yn gwella ein cynrychiolaeth a'n hamrywiaeth – ar y sgrin a thu cefn y camerâu.

Rydym yn integreiddio'r egwyddorion hyn i bopeth a wnawn yn S4C, yn ogystal â gyda'n partneriaid yn y sector. Yn ystod y flwyddyn, crëwyd swydd Arweinydd Amrywiaeth, Cynaliadwyedd a Phwrpas Cymdeithasol i weithredu'r nod yma. A pharhaodd S4C i weithio gyda phartneriaid gwerthfawr gan gynnwys It's My Shout, Screen Alliance Wales, Culture Connect Cymru, rad Cymru, a sefydlu'r cyntaf o baneli cynghori S4C (ar hil ac ethnigrwydd). Cychwynnwyd y broses hefyd o ymuno gyda phrosiect Diamond, sydd yn mesur amrywiaeth a chynrychiolaeth ar ac oddi ar y sgrin ar gyfer darlledwyr y DU, fel y bydd data pendant gennym ni a sylfaen i wella.

### Creu gwerth trwy ein hadnoddau

Mae nifer o elfennau Strategaeth 2022–27 yn deillio o argymhellion adroddiad annibynnol y diweddar Euryn Ogwen Williams i'r DCMS a gyhoeddwyd yn 2018. Rydym wedi parhau i wireddu'r argymhellion hyn, ac wedi adolygu ac ail lansio S4C Masnachol fel ein bod yn creu gwerth trwy ein hadnoddau. Ar ôl gwerthu Parc Tŷ Glas a'n buddsoddiad hanesyddol yn y cwmni Wildseed yn llwyddiannus, mae ffocws clir ar strategaeth y dyfodol. Roeddem yn falch iawn o fod yn bartner gyda Cymru Greadigol a Rondo i lansio stiwdios Aria ar Ynys Môn fis Chwefror 2023. Eleni hefyd, byddwn yn lansio Cronfa Cynnwys a Chronfa Twf i adeiladu ein hadnoddau yma yng Nghymru trwy fuddsoddiadau clir a phwrpasol.

### Diolch i'n partneriaid

Mae cymaint o'n gwasanaethau yn cael eu cyfoethogi gan ein partneriaethau strategol ac rydym mor falch o esblygiad strategol y perthnasau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf.

Roeddem yn falch iawn o weithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru, yr Urdd, BBC Cymru, a Llywodraeth Cymru fel rhan o Dîm Cymru o amgylch Cwpan y Byd yn Qatar. Fel rhan o gefnogaeth S4C, cafwyd cyngerdd llwyddiannus Cymru yn America (Orchard Media) yn Efrog Newydd lle derbyniodd Rob McElhenney a Ryan Reynolds wobr 'Diolch y Ddraig' gan Lywodraeth Cymru am eu cyfraniad i Gymru.

Gwelsom ymgysylltiad anhygoel ledled y byd gyda chynnwys S4C o'r cyngerdd gydag un clip o'r carped coch – a ddarlledwyd yn wreiddiol ar raglen Heno (Tinopolis) – yn denu 383k o sesiynau gwylio ar TikTok. Fe wnaeth clipiau eraill o'r carped coch a chyflwyniad gwobr 'Diolch y Ddraig' ddenu dros 50k o sesiynau gwylio yr un ar Facebook, gyda chyfweliad Rob a Ryan wedi derbyn y wobr yn ennyn dros 70k o sesiynau gwylio ar YouTube.

Mae S4C yn croesawu ein partneriaeth gyda'r DCMS ac yn falch o weld drafft Mesur y Cyfryngau wedi ei gyhoeddi yn San Steffan. Bydd hyn yn gam i roi amlygrwydd ffurfiol i S4C a chynnwys Cymraeg ar lwyfannau newydd. Mae hyn – a rhoi statws i ddarlledwyr cyhoeddus a'r Gymraeg am y tro cyntaf – i'w croesawu'n fawr.

Rydym yn ddyledus i'n holl bartneriaid cynhyrchu – 70 ohonynt yn 2022–23 – sy'n creu ac yn cynhyrchu cynnwys i S4C sydd yn parhau i ennill gwobrau a diddanu'r gynulleidfa. Mae bron i 80% o'n cyllideb yn cael ei wario ar gomisiynu cynnwys, gyda thros 98.4% o'r cynnwys hwn yn cael ei gynhyrchu yn y sector creadigol yma yng Nghymru.

### Adolygu perfformiad 2022–23

Ar ddiwedd blwyddyn gyntaf Strategaeth 2022–27 felly, rwy'n falch iawn o adrodd cynnydd cadarnhaol gydag uchafbwyntiau fel:

- Cyrhaeddiad wythnosol S4C (yng Nghymru) wedi cynyddu i 324,000 – 8% yn uwch na llynedd a'r uchaf ers pum mlynedd.;
- Cyrhaeddiad wythnosol S4C at siaradwyr Cymraeg yn 150,000, sydd 14% yn uwch na llynedd a'r uchaf hefyd ers pum mlynedd;
- Gwylio rhaglenni oriau brig S4C i fyny 16% ers llynedd, a'n cynulleidfa oed 16–44 yr uchaf ers degawd, a 45-64 yr uchaf ers 9 mlynedd;
- Cyfran gwylio S4C yr uchaf ers degawd, yn dangos ein bod yn cynnal yn dda yn erbyn sianeli eraill;
- Cynulleidfa dal-i-fyny S4C (1-7 diwrnod ar ôl y diwrnod darlledu) ar ei uchaf erioed;
- Cynnydd o 10% yn oriau gwylio rhaglenni S4C ar draws Clic ac iPlayer; ac
- Oriau gwylio S4C ar YouTube bron wedi dyblu.

Ceir mwy o fanylion ynghylch gwahanol agweddau o'n perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf yn y tudalennau sy'n dilyn.

### Blaenoriaethau 2023–24

Wrth i ni edrych tuag at ail flwyddyn y Strategaeth, bydd ein blaenoriaethau yn 2023–24 yn aros yn gyson ac yn adeiladu ar lwyddiannau eleni. Byddwn yn parhau i:

- Greu cynnwys beiddgar i ddenu cynulleidfa ieuengach, a chynulleidfa C2DE;
- Gwreiddio'r trawsnewid i fyd aml-lwyfan, a chadw'r momentwm o weithredu ein strategaeth lwyfannau; a
- Gweithredu ein rhaglen 'EIN diwylliant' er mwyn creu S4C sydd ymhlith goreuon y byd.

Yng nghanol blwyddyn pen-blwydd S4C yn ddeugain felly, mae'n destun balchder gweld y cynnydd a'r llwyddiannau hyn wrth i ni gychwyn ar y cyfnod nesaf yn hanes y gwasanaeth. Ond dim ond y cam cyntaf yw hwn ar ein taith i wireddu Strategaeth 2022–27. Mae rhoi'r Gymraeg wrth wraidd popeth a wnawn tra'n cynnig y gwasanaeth gorau posib yn hanfodol.



# Cyrhaeddiad Cynnwys S4C

## Ffigyrau gwylio S4C ar deledu

Mae'r graffiau isod yn nodi cyrhaeddiad (ar deledu) gwasanaeth S4C ar sail wythnosol a blynyddol, yn ogystal â chynulleidfa S4C ar gyfartaledd yn yr oriau brig. Mae'r canrannau a ddyfynnwyd yn dangos y newid o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.


**Er bod gwylio ar deledu llinol yn disgyn ar draws pob sianel, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio S4C. Roedd ein cyrhaeddiad wythnosol yng Nghymru ac ymhlith siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ar eu huchaf ers pum mlynedd.**

● DU ● Cymru ● Tu allan i Gymru ● Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru

Cyrhaeddiad wythnosol
(o leiaf 3 munud olynol)

(Ffynhonnell: BARB)


**Cynnydd o 8% ers llynedd mewn cyrhaeddiad wythnosol yng Nghymru - yr uchaf ers pum mlynedd**




Cyrhaeddiad blynyddol
(o leiaf 3 munud olynol)

(Ffynhonnell: BARB)


**Cynnydd o 2% mewn cyrhaeddiad blynyddol yng Nghymru**




Cynulleidfa ar gyfartaledd yn ystod yr oriau brig (7pm-10pm)

(Ffynhonnell: BARB)

**Cynnydd o 18% ers y llynedd ar draws y DU, a chynnydd o 16% yng Nghymru - yr uchaf ers pum mlynedd**




Tudalen y pecyn 145

# Cyrhaeddiad Cynnwys S4C

## Gwylio S4C ar-lein


Mae'r graffiau isod yn nodi oriau gwylio ar wasanaethau ar-lein S4C ar draws y DU.

Gwelwyd cynnydd sylweddol o ran defnydd gwasanaethau ar-lein S4C ar draws y DU unwaith eto yn ystod 2022–23, gyda'r patrymau a oedd yn dod yn amlwg yn ystod y blynyddoedd cynt yn parhau i ddatblygu wrth i S4C gynnig mwy o raglenni a chynnwys ar gyfryngau cymdeithasol megis YouTube - a dulliau newydd o gyflwyno'n cynnwys – megis dramâu fel bocs sets.

**Mae ein ffigyrau gwylio ar Clic ac iPlayer ar eu huchaf erioed, gyda chynnydd o 10% ers y llynedd.**

**Ar YouTube, mae oriau gwylio S4C bron wedi dyblu.**


Oriau gwylio ar S4C Clic a BBC iPlayer




(Ffynhonnell: S4C & BBC)


Yn cyfateb i'r hyn a wneir ar draws y diwydiant, mae oriau gwylio S4C Clic a BBC iPlayer yn tybio fod 1.5 person yn gwylio pob ffrwd ar deledu ac 1.0 person yn gwylio pob ffrwd ar ddyfais arall (gliniadur, llechen a ffôn clyfar).

Oriau gwylio pob tudalen Facebook S4C




(Ffynhonnell: Facebook)

Oriau gwylio pob sianel YouTube S4C





(Ffynhonnell: Youtube)

# Tracio Delwedd S4C

**Mae S4C yn cynnal arolwg blynyddol sy'n tracio delwedd y gwasanaeth – gan gynnwys ymysg gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg.**

Yn ystod 2022–23, canfu'r Arolwg Tracio Delwedd S4C fod y ganran o wylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg yn cytuno gyda'r gosodiadau canlynol:




(Ffynhonnell: Beaufort Research)

Mae'r canlyniadau eleni i gyd wedi cynyddu neu aros yn debyg iawn i llynedd, sy'n cynnig darlun cadarnhaol am y canfyddiad cyhoeddus o S4C.

# Rhaglenni uchaf S4C ar deledu yn 2022–23




| | Rhaglen | Genre | Dyddiad | Cyrhaeddiad |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Sgorio Rhyngwladol: Cynghrair y Cenhedloedd (Gwlad Belg v Cymru) | Chwaraeon | 22/09/2022 | 456,000 |
| 2 | Sgorio Rhyngwladol: Grwpiau Cwpan Ewrop (Croatia v Cymru) | Chwaraeon | 25/03/2023 | 408,000 |
| 3 | Cwpan FA: Coventry v Wrecsam | Chwaraeon | 07/01/2023 | 320,000 |
| 4 | Rygbi Ewrop: Cwpan Pencampwyr Ewrop (Caerlŷr v Gweilch) | Chwaraeon | 20/01/2023 | 195,000 |
| 5 | Cwpan Y Byd 2022 (Cymru v UDA) | Chwaraeon | 21/11/2022 | 188,000 |
| 6 | Clwb Rygbi: Pencampwriaeth Unedig Rygbi (Gweilch v Leinster) | Chwaraeon | 07/01/2023 | 186,000 |
| 7 | Clwb Rygbi Rhyngwladol Dan 20 (Cymru v Iwerddon) | Chwaraeon | 03/02/2023 | 184,000 |
| 8 | Sgorio Rhyngwladol: Grwpiau Cwpan y Byd (Cymru v Wcrain) | Chwaraeon | 05/06/2022 | 160,000 |
| 9 | Patrôl Pawennau | Plant | 29/08/2022 | 137,000 |
| 10 | Gogglebocs Cymru | Adloniant | 02/11/2022 | 135,000 |
| 11 | Taith yr Haf 2022 (De Affrica v Cymru, ail brawf) | Chwaraeon | 09/07/2022 | 130,000 |
| 12 | Eisteddfod Genedlaethol 2022: Mwy o'r Maes | Digwyddiadau | 31/07/2022 | 123,000 |
| 13 | Rygbi Ewrop: Cwpan Her Ewrop (Scarlets v Brive) | Chwaraeon | 31/03/2023 | 119,000 |
| 14 | Y Wal Goch | Adloniant | 03/06/2022 | 115,000 |
| 15 | Llofruddiaeth Logan Mwangi | Materion Cyfoes | 30/06/2022 | 113,000 |
| 16 | Clwb Rygbi Rhyngwladol: Chwe Gwlad (Cymru v Lloegr) | Chwaraeon | 25/02/2023 | 97,000 |
| 17 | Y Tîm tu ôl i'r Tîm | Dogfen | 20/11/2022 | 93,000 |
| 18 | Cân i Gymru | Cerddoriaeth | 03/03/2023 | 92,000 |
| 19 | Garddio a Mwy | Adloniant | 25/07/2022 | 91,000 |
| 20 | Y Golau | Drama | 15/05/2022 | 89,000 |
| 21 | Clwb Rygbi Rhyngwladol: Chwe Gwlad Menywod (Cymru v Ffrainc) | Chwaraeon | 22/04/2022 | 85,000 |
| 22 | Sgwrs Dan y Lloer | Ffeithiol | 22/12/2022 | 83,000 |
| 23 | Tlws FA: Bromley v Wrecsam | Chwaraeon | 22/05/2022 | 83,000 |
| 24 | Ralio+ | Chwaraeon | 19/09/2022 | 81,000 |
| 25 | Priodas Pum Mil | Adloniant | 29/01/2023 | 79,000 |

# Cynnwys

Tudalen y pecyn 149

# Diolch i'n partneriaid yn y sector gynhyrchu!

**Rydym yn ddiolchgar iawn i'n partneriaid yn y sector gynhyrchu am eu cefnogaeth barhaol i S4C.**

**Yn ystod 2022–23, fe weithiom gyda'r cyflenwir canlynol i gynhyrchu cynnwys ar gyfer ein gwasanaeth llinol a'r amrywiaeth o lwyfannau digidol:**

- Al Touring Ltd t/a Targed
- Atebol Cyfyngedig
- Avanti Media Ltd t/a Afanti
- Barn Media Ltd
- BBC Studios Productions Ltd
- Beastly Media Ltd
- Boom Pictures Productions Ltd
- British Broadcasting Corporation
- Captain Jac Ltd
- Cardiff Productions Ltd
- Carlam Ltd
- Ceidiog Cyf
- Chwarel Cyf
- Cloth Cat Animation Limited
- Copa90
- Craith 3 Ltd
- Cwmni Da
- Cynhyrchiadau Alpha Productions Ltd
- Cynyrchiadau Twt Productions Ltd
- Dal Y Mellt Cyfyngedig
- Darlun Cyf
- DocShed Ltd
- Dream Team Television Ltd
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- Ffilmiau Twm Twm Cyf
- Fiction Factory
- Fresh Catch Films
- Gogglebocs Cymru Cyf
- Gorilla TV Ltd t/a Bait Studio
- Grandpa Productions Ltd
- Gritty Productions Ltd
- Hall of Mirrors Ltd
- Hello Deer Productions Ltd
- Hoho Rights Ltd
- Its My Shout Productions Ltd
- ITV Broadcasting Ltd (Production)
- ITV Services Ltd
- Jet TV Ltd
- Joio
- Kailash Films
- Kreu Media Ltd
- Lefel Dau Cyf
- Limegreentangerine Ltd
- Little Bird Films Ltd
- Llywodraeth Cymru
- Media Atom Ltd
- Men Who Sing
- Moilin Cyf
- Mona Films Ltd
- Nerth dy Ben
- Nimble Dragon Ltd
- Opra Avanti Ltd
- Orchard Media & Events Group
- PRS For Music Ltd
- PYST Cyf
- Rondo Media Cyf
- Sain Cyf
- Slam Media
- South Wind Blows Ltd
- Sunset & Vine Productions Ltd
- Swnllyd Cyfyngedig
- Telesgop
- Tinopolis
- Tinopolis Interactive Ltd
- Tree on the Hill Films Ltd
- Wes Glei Cyf
- Whisper Films Ltd
- Wildflame Productions Ltd
- Y Golau Cyf
- Yellow Barrels Ltd

Gwnaed pob ymdrech i adnabod a rhestru pob cyflenwr a weithiodd gyda ni – ar gynnwys a gyhoeddwyd yn ystod 2022–23, neu sydd i ddod dros y cyfnod nesaf – ac fe ymddiheurwn os oes unrhyw esgeulustod.

# Gwobrau Ffilm a Theledu 2022–23

Mae cynnwys S4C yn ennill gwobrau ac enwebiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae ennill, neu dderbyn enwebiad ar gyfer gwobr mewn gŵyl ffilm neu deledu yn arwydd o werthfawrogiad o ansawdd y rhaglenni a gynhyrchir gan y cwmnïau cynhyrchu annibynnol ar gyfer S4C.

## Gwobrau RTS Cymru 2022

### Ennillydd

Newyddion a Materion Cyfoes
**John Owen: Cadw Cyfrinach (Wildflame)**

Arloesi 2022
**Rachael Solomon (Boom Cymru)**

Digidol
**Yn y Garej: Philip Mills (Tinopolis)**

Cynhyrchiad Cyfnod Clo
**Tŷ am Ddim / The Great House Giveaway (Chwarel / Channel 4)**

### Enwebiadau

Arloesi
**Justin Melluish – Craith / Hidden (Severn Screen)**

Arloesi
**Euros Llŷr Morgan – DRYCH: Galar yn y Cwm (Carlam)**

Plant
**Deian a Loli: Digwyl y Meirw (Cwmni Da)**

Plant
**Mabinogiogi: Clustiau'r March (Boom Cymru)**

Digidol
**Pa Fath o Bobl (Boom Cymru)**

Drama 2020
**Un Bore Mercher / Keeping Faith (Vox Pictures)**

Drama 2021
**Yr Amgueddfa (Boom Cymru)**

## Gwobrau BAFTA Cymru 2022

### Ennillydd

Adloniant
**Bwyd Byd Epic Chris (Cwmni Da)**

Ffilm Deledu
**Grav (Regan Developments / Tarian)**

Plant
**Hei Hanes! (Cwmni Da)**

Dogfen Sengl
**Y Parchedig Emyr Ddrwg (Docshed)**

Ffeithiol
**Ysgol Ni: Y Moelwyn (Darlun)**

Cyflwynydd
**Chris Roberts – Bwyd Byd Epic Chris (Cwmni Da)**

Cyfarwyddwr – Ffeithiol
**Dylan Williams – Y Côr (Cwmni Da)**

Ffilm Fer
**Y Cythraul Celf / Affairs of the Art (Beryl Productions International Ltd)**

### Enwebiadau

Adloniant
**6 Gwlad Shane ac Ieuan (Orchard)**

Adloniant
**Am Dro! (Cardiff Productions)**

Adloniant
**Iaith ar Daith (Boom Cymru)**

Plant
**Bex (Ceidiog)**

Plant
**Deian a Loli (Cwmni Da)**

Plant
**Efaciwis (Wildflame)**

Newyddion a Materion Cyfoes
**Covid, y Jab a Ni (Cloud Break Pictures)**

Ffeithiol
**Gwesty Aduniad (Darlun)**

Dogfen Sengl
**John Owen: Cadw Cyfrinach (Wildflame)**

Drama Deledu
**Yr Amgueddfa (Boom Cymru)**

Arloesi
**Lemarl Freckleton – Curadur (Orchard)**

Cyflwynydd
**Elin Fflur – Sgwrs Dan y Lloer (Tinopolis)**

### Enwebiadau

Cyflwynydd
**Jason Mohammad – Trelai, y Terfysg a Jason Mohammad (Hall of Mirrors)**

Awdur
**Owen Thomas – Grav (Regan Developments / Tarian)**

Golygu – Ffeithiol
**Alun Edwards – John Owen: Cadw Cyfrinach (Wildflame)**

Golygu – Ffeithiol
**John Gillanders – Huw Edwards yn 60 (Rondo)**

Golygu – Ffuglen
**Urien Deiniol – Enid a Lucy (Boom Cymru)**

Ffotograffiaeth a Goleuo – Ffuglen
**Ryan Eddleston – Grav (Regan Developments / Tarian)**

Ffotograffiaeth a Goleuo – Ffeithiol
**Mei Williams – Peter Moore: Dyn Mewn Du (Kaliash Films)**

Sain
**John Markam – Cyngerdd Tangnefedd Llangollen (Rondo Media)**

## Gwobrau Broadcast Sports 2022

### Enwebiadau

Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol orau
**Cymru v Wcráin**

## Gwobrau 'C21 International Drama Series Pitch'

### Enwebiadau

'C21 Drama Series Pitch'
**Pigeon (Triongl)**

## Gwobrau Broadcast 2022

### Enillydd

Rhaglen 'amlsianel' orau
**DRYCH: Fi, Rhyw ac Anabledd (Wildflame)**

### Enwebiadau

Ffeithiol
**Ysgol Ni: Y Moelwyn (Darlun)**

Plant
**Efaciwis (Wildflame)**

Fformat ffurf fer gorau
**Tisho Fforc? (Afanti)**

## Gŵyl Cyfryngau Celtaidd Celtic – Gwobrau'r Torch 2022

### Enillydd

Plant
**Sol (Antena)**

Materion Cyfoes
**Prif Weinidog mewn Panedmig (Zwwm Films)**

### Enwebiadau

Plant
**Deian a Loli: Digwyl y Meirw (Cwmni Da)**

Plant
**Mabinogiogi: Clustiau'r March (Boom Cymru)**

Materion Cyfoes
**Llofruddiaeth Mike O'Leary (ITV Wales)**

Comedi
**Rybish (Cwmni Da)**

Cerddoriaeth Byw
**Curadur: Lemfreck (Orchard)**

Adloniant Ffeithiol
**Bwyd Epic Chris (Cwmni Da)**

Dogfen Nodwedd
**John Owen: Cadw Cyfrinach (Wildflame)**

Dogfen Sengl
**DRYCH: Byw Heb Freichiau (Zwwm Films)**

### Enwebiadau

Dogfen Sengl
**DRYCH: Chwaer Fach Chwaer Fawr**

Cyfres Ddrama
**Yr Amgueddfa (Boom Cymru)**

Drama Sengl
**Grav (Regan Developments / Tarian)**

Drama Sengl
**Hen Wragedd a Ffyn (It's My Shout)**

Hanes
**Terfysg yn y Bae (Tinopolis)**

Dogfen Chwaraeon
**Stori Jimmy Murphy (Docshed)**

'Ysbryd yr Ŵyl'
**Blwyddyn Covid: Lleisiau Cymru (Kailash Films)**

# S4C yn gwrando ar ein gwylwyr

**Mae sicrhau trafodaeth a pherthynas reolaidd gyda'r gynulleidfa yn bwysig iawn i waith S4C.**

**Ceir ymwneud drwy gydol y flwyddyn gyda'r gynulleidfa am raglenni S4C ar gyfryngau cymdeithasol a gyda Gwifren Gwylwyr, llinell gymorth S4C.**




Bois y Pizza



**Llinell gymorth Gwifren Gwylwyr**
Mae modd i'n gwylwyr gysylltu'n uniongyrchol gydag S4C drwy ffonio, e-bostio, ar gyfryngau cymdeithasol neu anfon llythyr at y Wifren Gwylwyr. Mae'r gwasanaeth dwyieithog ar gael o 09:00 tan 22:00 saith diwrnod yr wythnos.

Mae tîm Gwifren Gwylwyr S4C fel arfer yn gweithio yn swyddfa S4C yng Nghaernarfon bob dydd o'r flwyddyn. Mae'r holl sylwadau sy'n ein cyrraedd am gynnwys a gwasanaethau S4C yn cael eu cofnodi a'u cadw. Mae'r tîm yn darparu crynodeb o'r sylwadau ar gyfer swyddogion ac aelodau'r Bwrdd.

Cafwyd 8,894 o gysylltiadau gydag S4C drwy gyfrwng

**Panel Ymateb Cynulleidfa**
Yn ogystal â derbyn adborth y gynulleidfa trwy'r Wifren Gwylwyr, mae gan S4C Banel Ymateb Cynulleidfa sy'n cynnwys 1,400 o unigolion, a ddewiswyd i adlewyrchu poblogaeth Cymru.

Mae'r panelwyr yn rhoi eu barn i S4C am y gwasanaeth a sgoriau gwerthfawrogiad ar gyfer rhaglenni S4C.

# Sicrhau gwerth i'r gynulleidfa

**Mae S4C yn anelu i sicrhau fod y ganran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar gynnwys sy'n gymharus o ran ansawdd gyda chynnwys rhaglenni rhwydwaith eraill y DU, tra'n sicrhau ar yr un pryd fod rhaglenni yn cael eu cynhyrchu yn y modd fwyaf effeithlon a bod cost gorbenion S4C yn parhau yn isel.**

Gwerth am arian yw'r berthynas rhwng cost a pherfformiad S4C fel gwasanaeth ac fel sefydliad. Ar gyfer darlledwr cyhoeddus, mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth cynhwysfawr o safon uchel ar deledu a chyfryngau digidol sy'n cael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi gan y gynulleidfa, gan wneud hynny mewn modd effeithlon o ran y defnydd o adnoddau ariannol.

Blaenoriaeth gyntaf S4C yw darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, ar deledu ac ar lwyfannau digidol perthnasol, sy'n cwrdd ag anghenion ei chynulleidfa. Mae hefyd yn bwysig i sicrhau fod y buddsoddiad yng ngwasanaethau S4C yn rhoi gwerth priodol am arian. Mae sicrhau bod y ganran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar raglenni a chynnwys felly'n amcan bwysig.

Elfen arall o hyn yw sicrhau fod costau rhedeg sefydliad S4C yn parhau i fod yn ganran fechan o wariant S4C.

Mae S4C wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac ariannol dros y blynyddoedd diweddar gyda rhesymoli staffio, ystadau a thechnolegol. O ganlyniad, dim ond 3% o gyfanswm gwariant S4C yw gweinyddiaeth a gorbenion – ffigwr sydd wedi parhau i ostwng ers 2018–19 – gyda gweddill y gwariant yn cefnogi creu a dosbarthu cynnwys.


**Blaenoriaethu gwariant ar raglenni a chynnwys – dosraniad gwariant S4C**

Buddsoddir y rhan fwyaf o gyllid cyhoeddus S4C mewn rhaglenni a chynnwys.

Mae dyraniad gwariant Cronfa Gyhoeddus S4C yn ystod 2022–23 yn dangos fod mwyafrif gwariant S4C yn parhau i gael ei fuddsoddi'n uniongyrchol yn ei rhaglenni a'i chynnwys, sef buddsoddiad yn y ddarpariaeth ar gyfer y gynulleidfa a buddsoddiad yn y sector gynhyrchu yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| **1. Costau'r rhaglenni a drosglwyddwyd** | **77.67%** |
| **2. Costau'n ymwneud â darlledu a dosbarthu gwasanaeth rhaglenni S4C** | **19.29%** |
| **3. Costau gweithredu a gweinyddu** | **3.04%** |

Ceir rhagor o wybodaeth am wariant S4C yn y Datganiad Ariannol.



**S4C yw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-effeithlon yn y DU**

Trwy weithio'n agos gyda chynhyrchwyr i reoli cost cynhyrchu pob awr o gynnwys, mae gan S4C record falch o gomisiynu rhaglenni cost-effeithiol ac mae S4C wedi llwyddo i warchod nifer yr oriau a ddarlledwyd, yn ogystal ag ystod, amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaeth.


S4C yw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-effeithlon yn y DU gyda chost yr awr yn sylweddol is na darlledwyr eraill, gan gomisiynu ar ffracsiwn (25 - 33% yn nodweddiadol) o'r cyfraddau genre tebyg a ddefnyddir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod cost gwneud rhaglenni yn cynyddu, gyda gwariant byd-eang ar rai genres – yn enwedig drama wedi'i sgriptio – yn codi i lefelau digynsail. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau'r dyfodol wrth i ni gystadlu am dalent ar a thu ôl i'r sgrin. Mae tueddiadau diweddar yn y diwydiannau creadigol hefyd wedi cael effeithiau chwyddiant ar gostau cynhyrchu.

Rydym yn parhau i weithio gyda TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) a chwmnïoedd cynhyrchu unigol i sicrhau'r gwerth gorau i gynulleidfaoedd o'n cyllid cyhoeddus.




**Cost yr awr - rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C (ag eithrio cynnwys digidol-yn-unig a digidol-yn-gyntaf)**




Mae effaith Covid-19 ar gostau cynhyrchu, yn ogystal â'r newid i statws TAW S4C, wedi arwain at ostyngiad neu gynnydd sylweddol mewn cost yr awr rhai genres dros y blynyddoedd diwethaf – yn enwedig drama, celfyddydau, a chrefydd.

Tudalen y pecyn 155

**Cost yr awr - cynnwys digidol-yn-unig a digidol-yn-gyntaf a gomisiynwyd gan S4C (ag eithrio cynnwys cyfryngau cymdeithasol)**






Tudalen y pecyn 156

# Croesawu pawb i wylio S4C – gwasanaethau cymorth i'n cynulleidfa

**Mae sicrhau bod cynnwys S4C ar gael i'r gynulleidfa ehangaf posib yn bwysig iawn i S4C.**

Mae gwasanaethau mynediad yn parhau i ddarparu modd bwysig i alluogi S4C i ehangu ei chynulleidfa a'i hapêl.

Mae is-deitlo yn Saesneg ac yn Gymraeg, ynghyd ag arwyddo, sain ddisgrifio a gwasanaethau disgrifiadol ail-sgrin yn darparu ystod o wasanaethau sy'n cyfoethogi darpariaeth S4C ac yn sicrhau fod cynnwys ar gael i rai sydd ag anghenion penodol yn ogystal ag i gymuned ehangach o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o bob lefel rhuglder a'r di-Gymraeg.

Darparwyd y gwasanaethau canlynol yn ystod y flwyddyn:




### Is-deitlau Cymraeg

Mae'r is-deitlau hyn ar gael yn bennaf ar gyfer pobl f/Fyddar a thrwm eu clyw sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â phobl sy'n dysgu siarad Cymraeg. Darparwyd is-deitlau Cymraeg ar 45% o raglenni. Mae is-deitlau Cymraeg a Saesneg hefyd ar gael ar wasanaeth S4C Clic, ac is-deitlau Saesneg ar gael ar y BBC iPlayer.

### Is-deitlau Saesneg

Bwriad y gwasanaeth hwn yw ehangu apêl y rhaglenni ar gyfer gwylwyr di-Gymraeg, pobl f/Fyddar a thrwm eu clyw. Trwy wasgu'r botwm "is-deitlau" ar y teclyn rheoli, gellir gweld is-deitlau ar gyfer pob math o raglenni, gan gynnwys rhaglenni byw. Caiff rhai rhaglenni eu darlledu gydag is-deitlau agored. Fel arfer, ail-ddarllediadau o raglenni poblogaidd yw'r rhain. Yn ystod y flwyddyn roedd is-deitlau Saesneg ar gael ar 79.35% o'r rhaglenni (targed Ofcom yw 53%).

### Sain Ddisgrifio

Mae'r gwasanaeth sain ddisgrifio ar rai rhaglenni yn rhoi sylwebaeth, trwy ddewis, yn y Gymraeg i lenwi'r cyfnodau pan nad oes unrhyw ddeialog mewn rhaglenni. Mae'n cynnwys disgrifiad ychwanegol i gynorthwyo defnyddwyr dall neu rhannol ddall i ddilyn rhaglenni'n haws. Darparwyd y gwasanaeth hwn ar gyfer 11.98% o'r rhaglenni (targed Ofcom yw 10%).

### Arwyddo rhaglenni

Cafodd rhai rhaglenni, fel arfer ar y penwythnos ac amser cinio yn ystod yr wythnos, eu harwyddo yn BSL (British Sign Language) ar gyfer gwylwyr b/Byddar a'r rhai sy'n defnyddio iaith BSL. Roedd y gwasanaeth ar gael ar 6.10% o raglenni (targed Ofcom yw 5%).

# Cynnwys 2023–24

**Datganiad Polisi Rhaglenni 2023–24**

## Prif Swyddog Cynnwys S4C, Llinos Griffin-Williams, sy'n amlinellu blaenoriaethau cynnwys S4C ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.



Tudalen y pecyn 158

# Mae S4C yn trawsnewid

**Mae S4C yn camu mewn i'w 40au yn hyderus, angerddol ac yn uchelgeisiol wrth i ni greu cynnwys beiddgar a phwerus sy'n cynrychioli Cymru gyfoes.**

Yn rhoi llais i gymunedau ar draws Cymru a thu hwnt, byddwn yn adlewyrchu cenedl amrywiol gyda chynnwys cynhwysfawr a phoblogaidd sy'n croesawu siaradwyr Cymraeg hen a newydd – gan ysbrydoli pobl i glywed, gweld a siarad Cymraeg yng Nghymru, y DU a thu hwnt.

Bydd arlwy fywiog, gyffrous yn difyrru ein gwylwyr ffyddlon tra'n ymgysylltu â chynulleidfa newydd, drwy roi persbectif Cymreig ar y byd. Mae strategaeth glir gennym i apelio at wylwyr yn y grŵp oedran 25–44 a'r grŵp economaidd-gymdeithasol C2DE, sy'n llywio penderfyniadau comisiynu cynnwys ar gyfer 2023–24, yn ogystal a blaen gynllunio cynnwys 2024–25.

Bydd S4C hefyd yn bartner creadigol, atyniadol i gyd-gynyrchiadau wrth i S4C anelu i ddenu cynulleidfaoedd ifancach ac ehangach.



Yn anad dim, bydd ein holl gynnwys yn cyflawni o leiaf un o dri phwrpas:

- ✓ Addysgu;
- ✓ Ysbrydoli; a
- ✓ Chynnig dihangfa.

Gan gydnabod fod ein gwylwyr yn wynebu heriau amrywiol yn eu bywydau, fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus byddwn yn estyn lloches a chymorth drwy ein cynnwys.

Byddwn felly'n creu cyfleoedd i'n gwylwyr – o ba bynnag oed – i ddeall mwy am y byd o'n cwmpas – o gostau byw i newid hinsawdd. Fe rown lais i straeon a chymeriadau ysbrydoledig wrth i ni gyrraedd cymunedau gwahanol, bywydau a lleoliadau unigryw. A byddwn yn creu dihangfa gyda chynnwys cyffrous, arloesol, uchelgeisiol a newydd ar draws ein platfformau.

Tra bydd y sianel llinol yn darparu ar gyfer pawb, bydd ein gwahanol lwyfannau – gwylio ar deledu, ar-lein, ar alw, ac unrhyw blatfform arall – ar gael unrhyw bryd ac yn darparu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

# Creu cynnwys swnllyd

**Wrth i ni wireddu strategaeth gynnwys sy'n ffocysu ar y gynulleidfa yn yr oedran 25–44, mae comisiynau newydd yn dechrau gweld llwyddiant – megis *Gogglebocs Cymru* wnaeth dreblu'r niferoedd oedd yn gwylio trwy'r llwyfannau 'dal i fyny' yn wythnosol ers lansiad y gyfres gyntaf eleni.**

Rydym felly'n chwilio am frandiau adnabyddus a all ychwanegu i'n darpariaeth adloniant, ond sy'n cynnig personoliaeth Gymreig. Yn ogystal, rydym yn buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu fformatau newydd gwreiddiol sy'n apelio i'r holl deulu.

Bydd brandiau adnabyddus y sianel yn parhau, ond gyda phwyslais ar dargedu cynulleidfa newydd. Edrychwn ymlaen felly at groesawu Am Dro, Gwesty Aduniad, Priodas Pum Mil, Jonathan a Sgwrs Dan y Lloer yn ôl dros y misoedd nesaf.

Gan ymateb i ddisgwyliadau ein cynulleidfa darged, byddwn yn lansio sawl fformat ddi-sgript newydd sy'n gwthio'r ffiniau creadigol. Yn rhan o hyn, byddwn yn dadansoddi pynciau drwy lens gwahanol ac yn herio rhagfarnau, wrth i ni gynyddu'r pwyslais ar gomisiynau fydd yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru: o Colli Cymru i'r Môr sy'n ymchwilio effaith newid hinsawdd ar Gymru, i Saith Person sy'n gweld unigolion yn ailymweld â rheiny sydd wedi dylanwadu ar eu bywydau.

Bydd Ni yw'r Cymry yn adlewyrchu beth yw hi i fod yn Gymry heddiw, ac yn Arwyr Anabl (teitl dros dro) byddwn yn edrych ar hanes anabledd yng Nghymru. Mae'r cyfresi yma yn cynnig cyfle i ni fuddsoddi mewn talent cyffrous newydd a chwilio am ffyrdd i ddatblygu talent adnabyddus. Bydd hyn yn adeiladu ar Stori'r Iaith, oedd yn gyfres hynod lwyddiannus a swnllyd wedi ei harwain gan Alex Jones, Ellis James, Sean Fletcher a Lisa Jên, tra hefyd yn rhoi cyfle i ni weld talent a lleisiau newydd yn y gyfres.

Bydd ein darpariaeth o gynnwys premiwm swnllyd yn gweld buddsoddiad gyda chyfresi byr trawiadol Gwir-Drosedd yn adrodd straeon syfrdanol wrth wthio ffiniau creadigol gyda hanes Y Twyllwr , Llofruddiaeth Niwclear, a Hoover: Lle ma fy ngwyliau?




Uchod: Osian & Nayema, Caernarfon

Bydd comisiynau swmpus o gyfresi poblogaidd Y Llinell Las ac Y Fets yn rhoi blas gwahanol ar fywyd yng nghymunedau ar draws Cymru.

Hefyd ymysg y llechen eang bydd cyfresi pryfoclyd newydd fel Y Prif a Gwasanaeth Prawf, fydd yn rhoi mynediad arbennig i wasanaethau cyhoeddus.

Yn cynnig dihangfa i'r gynulleidfa bydd cyfresi newydd yn dilyn wynebau adnabyddus. Bydd cyn chwaraewr Cymru Mike Phillips yn dilyn y Cymry dramor yn Croeso i Dubai; tra bod Beti George a Huw Stephens yn Cysgu O Gwmpas mewn cyfres foethus sy'n ymweld â gwestai unigryw.

Edrychwn ymlaen at ail gyfres *Bywyd a Bwyd* gyda *Colleen Ramsey;* bydd *Chris, Al a Kiri* yn teithio ar draws *Seland Newydd* ar antur; a bydd amryw o ddogfennau a chyfresi difyr ffeithiol yn cefnogi darpariaeth Cwpan Rygbi'r Byd yn yr Hydref

Tudalen y pecyn 160


# Lleisiau newydd

**Yn dilyn llwyddiant rhaglenni dogfen tebyg i *Drych: Fi, Rhyw ac Anabledd ac Ysgol Ni: Moelwyn* bydd cyfle i adlewyrchu Cymru gyfoes yn ein harlwy dogfennol. Rydym am chwilio am straeon di-ofn, heriol ac emosiynol sy'n gwthio'r drafodaeth ac yn rhoi persbectif gwahanol ar fywyd.**

Rydym yn awyddus i adlewyrchu mwy o leisiau'r cymoedd a gogledd-ddwyrain Cymru gyda rhaglenni tebyg i Wrecsam: Clwb Ni sy'n edrych ar hanes y clwb pêl-droed gyda Rob McElhenney a Ryan Reynolds.

Yn ogystal bydd dogfennau unigryw gyda wynebau cyfarwydd yn gyfle i gwrdd â chymeriadau unigryw gyda rhaglenni ar Bethan Elfyn: Trawsblaniad; Alex: Epilepsi a Fi; a Sage Todz: Brodyr Brodorol.

Yn adeiladu ar gomisiynau digidol-yn-gyntaf bydd Byw y Freuddwyd yn gomisiwn YouTube yn dilyn cwpl sydd wedi gwerthu popeth i wireddu eu breuddwyd i fyw heb forgais yng ngorllewin Cymru. Bydd dwy raglen llinol yn rhan o 12 x 15' o raglenni YouTube.



DRYCH: DJ Terry

Mwy na Daffs a Taffs, Gemma Collins



# HANSH: Creu trwbl da

**Yn blatfform i leisiau a thalent ifanc Cymru, bydd Hansh yn dod yn flaenllaw ar draws llwyfannau S4C o TikTok i Instagram, YouTube i Clic a'r iPlayer.**

Mae Hansh wedi parhau i dyfu o ran gwylwyr a dilynwyr fis ar fis ers ei lansio, a bydd buddsoddiad pellach yng nghynnig digidol S4C i'r ifanc.

Bydd ymgyrch Hansh yn mynd â chynnwys direidus y brand y tu hwnt i'w gwylwyr ffyddlon, wrth i ni adeiladu ein harlwy o ddarpariaeth aml-genre ffurf ganolog a ffurf hir ar y llwyfan.

Bydd y gyfres newydd Mwy na Daffs a Taffs yn lansio ar Clic a iPlayer, gan ddilyn rhai o ddylanwadwyr mwyaf Prydain a cheisio chwalu eu farnau am Gymru. Yn ogystal, bydd y gyfres heriol caru Tishio Fforc? yn dychwelyd.

# Cartref chwaraeon Cymru



**Fe welon ni lwyddiant anhygoel ymgyrch Cartref Pêl-droed Cymru yn ystod hydref 2022 wrth i ni ryddhau llechen swmpus o gynnwys arbennig oedd yn cefnogi ymgyrch Cwpan Pêl-droed y Byd. Yng nghanol cyfnod hanesyddol i'r tîm cenedlaethol, gwelodd S4C y cyrhaeddiad gorau erioed ar draws ein llwyfannau digidol, gan dorri pob record i'r platfformau gyda'n cynnwys beiddgar.**

O ddarpariaeth plant gyda'r Jambori lle bu dros 200,000 o blant Cymru yn canu mewn undod (a hanner y rheini mewn ysgolion ail-iaith) i raglenni dogfen Yma o Hyd a Cewri Cwpan y Byd, o Cyngerdd Efrog Newydd i Gemau Byw, roedd cynnwys S4C yn apelio ar draws y byd gyda miliynau o sesiynau gwylio ar-lein. Llwyddwyd i ddyblu y niferoedd gwylio gafwyd yn ystod gemau'r Ewros blaenorol.

Byddwn yn lansio ymgyrch Cartref Chwaraeon Cymru yn ystod 2023–24 i gyd-fynd gyda chystadleuaeth rygbi'r Chwe Gwlad, a Chwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc. Bydd hyn yn ymateb i angerdd y genedl gyda chynnwys megis rhaglen ddogfen arbennig ar Ken Owens yn ogystal â fformat newydd o'r Soffa i'r Sgrym gyda Robin McBryde a'i fab fydd yn dilyn criw o fechgyn ifanc o ogledd-ddwyrain Cymru a'r cymoedd yn dod at ei gilydd i chwarae gem yn Ffrainc. Yn ogystal, bydd dwy raglen Jonathan yn fyw o Ffrainc.

O ran ein darpariaeth i gyd-fynd gyda Chwpan Rygbi'r Byd, byddwn ynghanol y bwrlwm yn Ffrainc gyda Jason Mohammad, Sarra Elgan a Mike Phillips fel wynebau ein hymgyrch.



# O'r sgript i'r sgrîn

**Eleni byddwn yn lansio cronfa Sinema Cymru mewn partneriaeth â Cymru Creadigol a Ffilm Cymru, gyda'r bwriad o fuddsoddi mewn un ffilm y flwyddyn a datblygu sgriptiau cyffroes gyda thalent Cymraeg.**

Bydd Y Sŵn yn arwain y ffordd gan adrodd hanes sefydlu S4C mewn i sinemâu ar draws Cymru, cyn i'r ffilm gael ei ddarlledu ar y gwasanaeth llinol. Yna, bydd ffilm arswyd Gwledd – sydd eisoes wedi bod ar Hulu ac mewn sinemâu – yn cael ei dangos ar S4C Noson Calan Gaeaf.

Yn dilyn llwyddiant ein cyd -gynhyrchiad gyntaf gyda Channel 4, Y Golau, mae llechen gref o ddrama eleni gyda Rownd a Rownd yn parhau i dyfu ei chynulleidfa, a Pobol y Cwm yn dathlu'r 50 yn 2024.

Byddwn yn lansio cyfres ddrama-gomedi Anfamol, sy'n addasiad o sioe theatr boblogaidd, yn ogystal â Creisis sy'n dilyn dyn ifanc ym Mhontypridd sy'n delio â chreisis yn ei fywyd personol ac yn y gwaith.


Bydd hefyd cyd-gynhyrchiad Pren ar y Bryn gyda BBC Cymru; yn ogystal â chyfres yn deillio o'r sebon Rownd a Rownd – Bariau; ac ail gyfres o'r ddrama boblogaidd Stad.

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn ein dramâu. Rhoddwyd arian datblygu i 12 sgript / syniad er mwyn meithrin talent cynhyrchu ac ysgrifennu newydd gyda chwmnïau Ie Ie Productions, Fiction Factory, Three Tables, BBC Studios a Boom Cymru. Ymhellach, mae Severn Screen wedi ymrwymo i gynhyrchu drama bob blwyddyn i S4C am y tair blynedd nesaf gyda'r talent Cymreig sydd y dyddiau hyn yn gweithio'n helaeth gyda Netflix, Gareth Evans.

Rydym hefyd yn parhau i alw am syniadau newydd wrth i ni lansio ein cyd-gynhyrchiad Drama Ryngweithiol gyda chwmni gemau Wales Interactive.

Ac mae ein dramâu yn parhau i werthu yn rhyngwladol, wrth i Britbox brynu Yr Amgueddfa, a Neflix yn cynnig Dal y Mellt.

Pren ar y Bryn



Tudalen y pecyn 163

## Cartref digwyddiadau byw Cymru – LWP

**Byddwn yn ailwampio ein darpariaeth digwyddiadau byw. Bydd amrywiaeth o gynnwys yn cael ei ddarparu o gwmpas Y Sioe Fawr wrth i ni ymestyn y cynnwys ar draws adloniant, bwyd a chystadlu ac yn ffrydio elfennau ar draws ein platfformau. Bydd Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol hefyd yn cael eu ffrydio trwy ein chwaraewyr.**

Gydag S4C yn noddi llwyfan Gymraeg PRIDE Cymru, bydd llwyth o gynnwys LGBTQ+ yn rhan o'n darpariaeth drwy'r flwyddyn, gyda'r sylw'n cynyddu ymhellach yn ystod y dathliadau.

Byddwn hefyd yn gwthio ein brand LWP fel cartref cerddoriaeth gyfoes Cymru. Yn sgil hynny, byddwn yn cymryd rôl flaenllaw mewn digwyddiadau yn cynnwys Tafwyl, Green Man, a'r Eisteddfod, gan hefyd ddatblygu cynnwys Curadur, Uchafbwyntiau'r Haf, Sesiynau LWP a Fideos Cerddoriaeth LWP. Bydd hyn yn fuddsoddiad sylweddol pellach i sîn gerddoriaeth Cymru ac yn meithrin talent newydd cerddorol ymhellach.



## Cymraeg i bawb

**Gydag apwyntiadau newydd o fewn y tîm Cynnwys a Chyhoeddi, bydd Arweinydd Strategaeth y Gymraeg a'r Gweithredwr Cynnwys Addysg yn ein cynorthwyo i lansio ymgyrch Cymraeg i Bawb, fydd yn croesawu siaradwyr newydd a dysgwyr i'n cynnwys.**

Ar yr un pryd, byddwn yn edrych ar sut gallwn ni ddarparu cynnwys yn fwy effeithiol o fewn y byd addysg, gan dargedu cartrefi cymysg, rhieni ail-iaith, ysgolion, colegau a phrifysgolion.

# Cyfraniad Cymdeithasol ac Economaidd S4C

# Cyfraniad Cymdeithasol ac Economaidd S4C

**Ers ei sefydlu yn 1982, mae S4C wedi bod yn ymwybodol iawn o'i chyfraniad i Gymru ac yn ehangach.**

**Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldeb a swyddogaeth bwysig fel hwylusydd a galluogwr, gan ddefnyddio ein hadnoddau i ddod â'r budd mwyaf i'n gwylwyr a'r gymdeithas yn ehangach.**

**Drwy weithio gydag amryw o bartneriaid, rydym yn gweithio'n galed i gyfrannu at ddyfodol iaith, diwylliant, amgylchedd ac economi Cymru.**

## Datganiad Polisi

Ym mis Rhagfyr 2022, cymeradwyodd y Bwrdd Unedol ddatganiad polisi sy'n dod â gweithgareddau presennol S4C ynghyd o ran cyfraniad cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r datganiad polisi hwn yn alinio gyda'r strategaeth gorfforaethol newydd a gymeradwywyd yn gynt yn y flwyddyn adrodd, ac mae'r blaenoriaethau polisi'n adlewyrchu elfennau o'r strategaeth gorfforaethol – sy'n tanlinellu pa mor greiddiol yw cyfraniad cymdeithasol ac economaidd S4C i weithgareddau ehangach y sefydliad.

Crëwyd swydd newydd yr Arweinydd Amrywiaeth, Cynaliadwyedd a Phwrpas Cymdeithasol yn ystod gwanwyn 2023. Ymysg cyfrifoldebau'r Arweinydd fydd arwain gweithgareddau S4C oddi fewn i'r datganiad polisi newydd hwn, a datblygu strategaethau perthnasol yn ôl yr angen.

## Pwrpas Cymdeithasol S4C: Sicrhau fod y Gymraeg yn rhan o fywyd pawb yng Nghymru

## Blaenoriaethau Polisi

**1. "Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd"**

- Cynyddu'r niferoedd sy'n ymwneud â chynnwys S4C yn y Gymraeg, i helpu cyrraedd y filiwn (a dyblu'r defnydd dyddiol).

**2. Adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth**

- Adlewyrchu cymunedau Cymru drwy osod targedau amrywiaeth clir, yn fewnol ac ar draws ein cynyrchiadau.

**3. Creu Gwerth yn Gynaliadwy**

- Creu gwerth trwy ein hadnoddau i gefnogi'r economi leol; ac wrth wneud hynny, gweithio tuag at leihau ôl troed carbon ein holl weithgareddau.

**4. Meithrin Talent**

- Defnyddio ein hadnoddau a'n dylanwad i feithrin talent oddi fewn i S4C ac yn y sector ehangach, yn ogystal â chefnogi datblygu sgiliau.

**“Mae’r Gymraeg yn perthyn i ni gyd”**

Ers 1982, mae’r iaith wedi bod yn greiddiol i fodolaeth S4C ac yn ganolbwynt allweddol i’w holl ddarpariaeth. Mae’r rôl hollbwysig y mae S4C yn ei chwarae o ran cynnal a hyrwyddo’r Gymraeg wrth galon ei diben cyhoeddus unigryw, a chafodd hyn ei ffurfioli wrth i S4C dderbyn cadarnhad o’i setliad Ffi’r Drwydded o Ebrill 2022 ymlaen.

Mae gennym bellach gyfraniad sylweddol i’w gynnig at wireddu amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru ‘Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg’, sef: cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg a chreu amodau ffafriol i sicrhau ffyniant yr iaith.

Rydym felly – trwy ein cynnwys – yn ceisio hwyluso mynediad i a defnydd o’r Gymraeg i bawb o bob oed a gallu ieithyddol.

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â’r byd addysg, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu cynnwys addysgiadol i gefnogi’r cwricwlwm yng Nghymru ac i sicrhau y gall cynnwys S4C gael ei ddefnyddio gan rai sy’n dysgu – beth bynnag eu hoedran. I wireddu’r amcanion hyn, rydym wedi penodi i ddwy swydd newydd yn ystod 2022–23, sef Arweinydd Strategaeth y Gymraeg, a’r Gweithredwr Cynnwys Addysg.

Law yn llaw â hwyluso mynediad i’n cynnwys i siaradwyr newydd, mae’n hollbwysig bod siaradwyr Cymraeg o bob gallu ieithyddol yn dewis gwylio cynnwys S4C yn rheolaidd.

Er mwyn gwerthuso ein cyfraniad yn hyn o beth, byddwn yn edrych dros y blynyddoedd nesaf i gynyddu ‘arferiad’ ymysg ein cynulleidfa – sef y ganran sy’n dewis gwylio cynnwys S4C ar un neu fwy o lwyfannau, am o leiaf dwy awr, ac ar draws tri neu fwy o ddiwrnodau bob mis.




Tudalen y pecyn 167

## Adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth

Mae'n hanfodol bod S4C yn portreadu ac yn dathlu Cymru yn ei holl amrywiaeth ac mae gweithio tuag at hyn yn parhau yn flaenoriaeth i S4C. Mae'r gynulleidfa yn gweld hyn yn agwedd bwysig o waith S4C.

Mae 68% o wylwyr sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn sianel sy'n llwyddo i adlewyrchu amrywiaeth y bobl sy'n byw yng Nghymru o ran oed, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu ethnigrwydd ar draws ei raglenni yn ystod 2022–23 (Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C, Beaufort Research, 2023). Yn yr un arolwg y flwyddyn gynt, y ffigwr cymharol oedd 59%.

Er mwyn i S4C barhau i wasanaethu a thyfu ei chynulleidfa, yn ogystal â chyfrannu at sector ddarlledu gref, mae'r ymrwymiad hir-dymor i sicrhau fod cynrychiolaeth ar y sgrin a thu ôl i'r camerâu yn parhau ac yn holl bwysig.

Rydym felly'n gweithio gyda'r sector gynhyrchu i sicrhau bod ein cynnwys yn adlewyrchu ein cymunedau yn eu holl amrywiaeth.

Mae S4C yn ymaelodi â'r system Diamond sy'n cael ei chydlynu gan y Creative Diversity Network. Dyma'r system sydd wedi ei sefydlu gan nifer o ddarlledwyr blaenllaw'r DU er mwyn casglu data amrywiaeth a chynrychiolaeth cyson ar y rhaglenni maent yn eu comisiynu. Bwriad S4C wrth fabwysiadu'r system yw cynyddu amrywiaeth ar a thu ôl i'r 'sgrîn' yng nghynnwys S4C er mwyn adlewyrchu Cymru heddiw.

Wrth werthuso ein cynnydd, byddwn yn cymharu'r data o'r system Diamond ar gynnwys S4C yn erbyn canlyniadau amrywiaeth Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru. Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd unwaith ag y bydd y system Diamond ar waith.

Yn ogystal â chymryd camau i sicrhau bod ein cynnwys yn adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth, rydym hefyd yn gweithio i gynyddu amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant ar draws ein gweithgareddau corfforaethol.



### Creu Gwerth yn Gynaliadwy

Ochr yn ochr â'n cyfraniad cymdeithasol, mae S4C yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru.

Buddsoddir bron i 80% o gyllid cyhoeddus S4C mewn rhaglenni a chynnwys. Mae hyn yn cynrychioli buddsoddiad yn y gwasanaethau a ddarperir i'r gynulleidfa ac yn y sector gynhyrchu yng Nghymru.

Rydym yn buddsoddi ac yn comisiynu ein cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu ledled Cymru ac mae ein cwmnïau cadwyn gyflenwi yn eu tro yn chwarae rhan bwysig yn eu heconomïau lleol.

Rydym hefyd yn awyddus i gefnogi'r sector i ddatblygu, a chynorthwyo cwmnïoedd i wireddu eu potensial. Bydd hyn yn ei dro yn cryfhau ein cadwyn gyflenwi. Mae'r camau rydym wedi eu cymryd hyd yn hyn yn cynnwys hwyluso mwy o gydweithio rhwng y cwmnïoedd mwy a llai – megis trwy annog y defnydd o adnoddau a chyfarpar cynhyrchu gan gwmnïoedd llai pan nad yw'r cwmnïoedd mwy sydd eu perchen eu hangen.

Ar yr un pryd, mae strategaeth fasnachol newydd S4C yn anelu at gyfrannu at ffyniant economaidd Cymru drwy, ymysg amcanion eraill, sefydlu cronfa dwf i fuddsoddi mewn cwmnïoedd sydd â photensial i dyfu, ac sy'n alinio gyda phwrpas S4C.

Mae crynswth yr holl weithgaredd hyn felly'n golygu bod cyfraniad S4C i economi Cymru yn sylweddol – ac mae'n bwysig bod y cyfraniad hwnnw'n cael ei deimlo ym mhob cwr o Gymru.

Ein hamcan yw gwario dros 95% o'n cyllideb gynnwys gyda chynhyrchwyr sydd wedi eu lleoli yng Nghymru. Yn 2022–23, llwyddom i wario 98% o'r gyllideb cynnwys oddi fewn i Gymru (2021–22: 99%).



### Oddi fewn i Gymru, roedd ein gwariant rhanbarthol ar gynnwys fel a ganlyn:

| Rhanbarth | 2021–22 | 2022–23 | Tueddiad |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 29% | 26% | ↓ |
| De Cymru | 51% | 55% | ↑ |
| Gorllewin Cymru | 19% | 17% | ↓ |
| Tu allan i Gymru | 1% | 2% | ↑ |
| Cyfanswm | 100% | 100% | |

(Mae'r data uchod yn berthnasol i leoliad swyddfeydd y cwmnïau cynhyrchu, ac nid yw'n adlewyrchu gweithgaredd cynhyrchu neu wariant mewn lleoliadau ar draws Cymru)


Cynefin

Ein hamcan dros y blynyddoedd nesaf yw sicrhau dosraniad mwy cyfartal o wariant ar gynnwys ar draws Cymru.

Ym mis Rhagfyr 2020, comisiynodd S4C gwmni ymchwil Arad i adolygu gwariant S4C yn ystod 2019–20 a chynnal asesiad effaith economaidd ar gyfraniad S4C i economi'r DU a Chymru. Cyfrifodd Arad i S4C yn ystod y flwyddyn ariannol o dan sylw greu effaith economaidd o £197.4m ar economi'r DU, ac £141.1m ar economi Cymru.

Mae hyn yn golygu, am bob £1 o incwm cyhoeddus a dderbyniodd S4C yn 2019–20, fe greom yr effaith economaidd a ganlyn:
- £2.03 yn Economi'r DU; ac
- £1.45 yn Economi Cymru.

Wrth gymeradwyo'r datganiad polisi ar Gyfraniad Cymdeithasol ac Economaidd S4C, fe ymrwymodd y Bwrdd Unedol i gomisiynu asesiad o effaith economaidd a chymdeithasol S4C bob dwy flynedd, er mwyn sicrhau gwerthusiad annibynnol o'r effaith hwnnw.

Yn ystod gwanwyn 2023, penodwyd cwmni Wavehill i gynnal gwerthusiad annibynnol o effaith economaidd a chymdeithasol S4C yn ystod y flwyddyn adrodd 2022–23. Disgwylir i Wavehill adrodd i'r Bwrdd Unedol ar eu canfyddiadau yn ystod hydref 2023.

Wrth gwrs, wrth fynd ati i gefnogi a buddsoddi yn nhwf economaidd Cymru, mae S4C yn ymwybodol iawn o'r angen i wneud hynny mewn ffordd sy'n amgylcheddol-gynaliadwy.

Ers Medi 2021, mae gan S4C bartneriaeth gyda chonsortiwm BAFTA albert, sef cymdeithas o rai o gwmnïau cynhyrchu a darlledwyr mwyaf y DU er mwyn cyflawni hyn, ac ymgorffori cynaliadwyedd yn ein proses gynhyrchu drwy:
- Wneud cyfrifo ôl troed carbon albert yn orfodol ar yr holl gynnwys a gomisiynir gennym; a
- Mynd ati i annog cynyrchiadau i gwblhau proses ardystio albert ar gyfer eu cynyrchiadau.

Daeth yn orfodol o 01 Ionawr 2022 i gwmnïoedd sy'n cynhyrchu cynnwys i S4C gydymffurfio gyda'r gofynion uchod (heblaw bod y cynhyrchiad yn gyfres dan 15 munud o hyd a / neu fod cyfanswm y gyllideb yn llai na £50,000).

Yn ystod 2022–23, fe wnaeth rhyw 92% o gynyrchiadau S4C gydymffurfio gyda gofynion albert – canlyniad oedd yn is na'r hyn a obeithiwyd yn sgil y nifer o ddarllediadau chwaraeon yn ystod y flwyddyn adrodd.

Mae'r consortiwm BAFTA albert hefyd yn cynnig hyfforddiant am ddim sy'n cwmpasu darlun mawr newid yn yr hinsawdd, ei oblygiadau i'r diwydiant teledu a'r hyn y gall unigolion ei wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth.

Yn sgil ein partneriaeth gydag albert, roedd S4C yn un o 12 o ddarlledwyr a ffrydiwyr ddaeth ynghyd yn ystod Tachwedd 2021 i ymrwymo i'r Addewid Cynnwys Hinsawdd, oedd wedi ei drefnu gan albert. Dyma oedd y tro cyntaf i'r diwydiant weithio ar y cyd ar ddatganiad o'r fath.

Mae S4C a'r llofnodwyr eraill – sy'n cynnwys y BBC, BBC Studios, Britbox International, Channel 4, Channel 5 / ViacomCBS, Discovery UK and Eire, ITV, RTE, Sky, STV, ac UKTV – wedi ymrwymo i ddefnyddio ein cynnwys i helpu cynulleidfaoedd i ddeall beth allai mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ei olygu iddynt hwy, yn ogystal ag ysbrydoli a llywio dewisiadau cynaliadwy.

Oddi ar y sgrîn, mae S4C yn gweithio i leihau effaith ei gweithgareddau corfforaethol ar yr amgylchedd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cymryd camau i leihau teithio ble nad oes angen, a chynyddu'r defnydd o fideo-gynadledda. Anogir y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus cymaint â phosib.

Yn ystod 2022–23, daeth 100% o'r trydan a ddefnyddiwyd gan S4C yn yr Egin o ffynonellau adnewyddadwy (2021–22: 88%). Ymhellach, ailgylchwyd mwyafrif gwastraff ein swyddfeydd yn ystod yr un cyfnod.

Mae S4C wedi paratoi Adroddiad Cynaladwyedd ar wahân, sy'n ymddangos yn adran 'Adroddiadau Gweithredol' yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Ein nod yw lleihau ein hôl troed carbon ein gweithgareddau corfforaethol dros y blynyddoedd nesaf, a chytuno ar ddyddiad targed er mwyn cwblhau'r trawsnewid i weithredu ar sail Sero Net.

**Meithrin Talent**

Ers y cychwyn cyntaf un, mae S4C wedi chwarae rôl greiddiol yn datblygu talent a sgiliau o fewn y sector yng Nghymru.


Mae natur comisiynu S4C fel cyhoeddwr ddarlledwr nad yw'n creu cynnwys ei hun wedi galluogi ein partneriaid cynnwys i fuddsoddi yn natblygiad sgiliau eu staff dros y blynyddoedd. Ac mae S4C ei hun yn parhau i fuddsoddi ac arwain y ffordd er mwyn cefnogi'r nod yma.

Mae cefnogi pobl o bob cefndir i ddod i weithio yn y sector hefyd yn flaenoriaeth i S4C. Rydym felly yn falch o fod wedi parhau i weithio gyda phartneriaid fel It's My Shout, Screen Alliance Wales a Gyrfa Cymru yn ystod y cyfnod adrodd i wireddu hyn, ac o fod wedi bod yn rhan o'r cynllun peilot RAD Cymru Wales – cynllun hyfforddi gyda thâl i rai o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli.

Rydym hefyd wedi ffurfioli ein partneriaeth gyda Sgil Cymru, a buddsoddi ar y cyd gyda Cymru Creadigol yn y cynllun Criw i alluogi mwy o lefydd i brentisiaid ar gynyrchiadau S4C.

Ac mae Hansh: Dim Sbin, ein partneriaeth hyfforddi arloesol gydag ITV Cymru a sefydlwyd yn 2018, hefyd wedi parhau yn llwyddiannus

Mae'r holl weithgareddau hyn yn ein cynorthwyo i gynnal gweithlu medrus iawn sy'n sail i sector gynhyrchu o'r radd flaenaf yng Nghymru ac sy'n denu cynyrchiadau teledu, ffilm a chynnwys digidol o wledydd ledled y byd.



**Gwerthuso Cyfraniad Cymdeithasol ac Economaidd S4C**

Ein bwriad yw adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau polisi newydd yn ein hadroddiadau blynyddol o 2023–24 ymlaen.

Er mwyn caniatáu gwerthuso'r cynnydd, mae cyfres o fesuryddion pwrpasol yn cael eu datblygu. Nid yw'r targedau perthnasol wedi eu cytuno eto ar gyfer pob un o'r mesuryddion.

| Statws | Mesurydd | Targed | Canlyniad presennol | Dyddiad / Cyfnod Mesur |
|---|---|---|---|---|
| "Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd" | | | | |
| ● | 'Arferiad' gwylio S4C ymysg siaradwyr Cymraeg, 16+ oed | 25% | 28% | Mawrth 2023 |
| ● | 'Arferiad' gwylio S4C ymysg siaradwyr Cymraeg, 25 – 44 oed | 15% | 12% | Mawrth 2023 |
| Adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth | | | | |
| ● | Cynnwys S4C sy'n cynnwys unigolion gydag anabledd (ar sail data'r system Diamond) | 21.1% | Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd unwaith ag y bydd y system Diamond ar waith. | |
| ● | Cynnwys S4C sy'n cynnwys unigolion sy'n perthyn i grŵp ethnig ar wahân i 'Gwyn' (ar sail data'r system Diamond) | 6.2% | | |
| ● | Cynnwys S4C sy'n cynnwys unigolion â chyfeiriadedd rhywiol LHD+ (ar sail data'r system Diamond) | 3% | | |
| Creu Gwerth yn Gynaliadwy | | | | |
| ● | Canran y gyllideb cynnwys sy'n cael ei wario gyda chynhyrchwyr sydd wedi eu lleoli yng Nghymru | 95% | 98% | Blwyddyn adrodd 2022–23 |
| ● | Sicrhau dosraniad mwy cyfartal o wariant ar gynnwys ar draws Cymru (data: gogledd Cymru / de Cymru / gorllewin Cymru) | 33% / 33% / 33% | 26% / 55% / 17% | Blwyddyn adrodd 2022–23 |
| ● | Canran ein cynnwys sy'n cwrdd â gofynion ALBERT (ag eithrio cyfresi dan 15 munud o hyd a/neu fod cyfanswm y gyllideb yn llai na £50,000) | 100% | c92% | Blwyddyn adrodd 2022–23 |
| ● | Lleihau ein hôl troed carbon ein gweithgareddau corfforaethol yn flynyddol, er mwyn cyrraedd Sero Net erbyn y dyddiad targed. | Gwaith i gytuno ar y dyddiad targed wedi cychwyn. | Byddwn yn adrodd ar gynnydd wedi i'r dyddiad targed gael ei gytuno. | |
| Meithrin Talent | | | | |
| ● | Nifer prentisiaethau ar gynyrchiadau S4C (yn ystod y flwyddyn adrodd) | Targed i'w ddatblygu mewn ymgynghoriad â TAC | Aros i gytuno'r targed cyn adrodd ar gynnydd. | |

Tudalen y pecyn 172

# Gweithgareddau Masnachol

**Mae S4C Masnachol – adain fasnachol – S4C yn gyfrifol am amrywiaeth o weithgareddau a buddsoddiadau masnachol sydd â'r nod o greu ffrwd incwm gynaliadwy ychwanegol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus S4C.**


Mae gweithgareddau masnachol S4C yn cyfrannu oddeutu £1m y flwyddyn ar gyfartaledd i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C. Er yn ganran fechan o holl incwm S4C, mae'n gyfraniad ariannol pwysig sy'n galluogi S4C i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau na fyddai modd fel arall eu darparu. Mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghronfa fasnachol S4C yn arian sydd wedi cael ei gynhyrchu gan weithgareddau masnachol y S4C yn y gorffennol.

Argymhellodd yr Adolygiad Annibynnol o S4C (Creu S4C ar gyfer y dyfodol) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylai'r Llywodraeth ddiwygio'r gofynion cymeradwyo presennol er mwyn cynnig rhagor o ryddid i S4C fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth y DU, gyda'r bwriad o ddiwygio'r fframwaith presennol yn y Mesur Cyfryngau sydd ar ddod.

# S4C Masnachol

### Strwythur gweithgareddau masnachol S4C

Mae yna 5 o gwmnïau yng ngrŵp masnachol S4C ar hyn o bryd. Maent i gyd yn is-gwmnïau i S4C, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r strwythur yn sicrhau bod yr incwm o'n gweithgareddau masnachol ar wahân i'r arian cyhoeddus mae S4C yn ei dderbyn trwy ffi'r drwydded.




### S4C Masnachol Cyf

Mae hwn yn gweithredu fel "holding company" ac nid yw yn masnachu. Mae ganddo dri is-gwmni uniongyrchol: S4C Rhyngwladol Cyf; S4C2 Cyf; ac S4C PTG Cyf.

Mae S4C Masnachol Cyf yn talu difidendau i S4C ar ôl eu derbyn gan S4C Rhyngwladol Cyf, S4C2 Cyf, ac S4C PTG Cyf.

### S4C Rhyngwladol Cyf

Dyma'r cwmni sy'n gyfrifol am fwyafrif gweithgareddau masnachol S4C, gan gynnwys:

- Gwerthu gofod hysbysebu, nawdd a telewerthu (trwy Sky Media fel asiant hysbysebu);
- Trwyddedu nwyddau ar gyfer brandiau fel Cyw;
- Derbyn incwm o ecsploetio ol-gatalog rhaglenni S4C yn fasnachol;
- Derbyn incwm o gyd-gynyrchiadau y buddsoddodd S4C ynddynt yn y gorffennol;
- Ariannu trac sain Saesneg ar rai o raglenni chwaraeon a digwyddiadau S4C (lle gellir dangos cynnydd mewn incwm hysbysebu o ganlyniad).

### S4C2 Cyf

Dyma'r cwmni oedd yn arfer darparu sianel S4C2, ond caewyd y sianel rai blynyddoedd yn ôl.

Mae dal gan S4C2 gytundeb i ddefnyddio un ffrwd deledu yng Nghymru ar Freeview. Fodd bynnag, defnyddir y ffrwd hon gan ddarlledwr arall trwy is-gytundeb gydag S4C2. Adnewyddwyd y trefniant hwn yn ystod 2022–23, gyda'r is-gytundeb presennol nawr mewn lle tan 2026.

### S4C Digital Media Cyf (SDML)

Buddsoddodd SDML yn SDN, y cwmni sy'n dal y drwydded i Multiplex A ar Freeview, yn 1998. Gwerthodd SDML ei siars yn SDN yn 2005, gan fuddsoddi'r incwm.

Erbyn hyn, mae gan SDML y buddsoddiadau canlynol:

- Buddsoddiadau ecwiti mewn cwmnïau sy'n gweithredu yn y sectorau cynnwys a digidol; a
- Chronfeydd buddsoddi a reolir gan reolwr cronfa allanol.

### S4C PTG Cyf

Cafodd y cwmni yma ei greu yn 2019 ar gyfer prynu ystâd Parc Tŷ Glas, pencadlys blaenorol S4C, a rhedeg y busnes o rentu unedau i denantiaid.

Yn ystod 2022–23, cwblhawyd y broses o werthu ystâd Parc Tŷ Glas.

### Perfformiad Ariannol 2022–23

Asedau net yr adain fasnachol ar 31 Mawrth 2023 oedd £19m (31 Mawrth 2022: £20m) a'r colled ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 oedd £0.154m (31 Mawrth 2022: £1.05m). Roedd y golled hon o ganlyniad i golled heb ei gwireddu mewn cronfa fuddsoddi a ddelir o fewn y Grŵp. Yr elw cyn y newid yng ngwerth marchnadol y gronfa fuddsoddi, treth a throsglwyddo difidend oedd £0.816m.

Mae perfformiad ariannol yr is-gwmnïoedd masnachol yn ymddangos yn y datganiadau ariannol ar gyfer y Grŵp oddi fewn i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Yn ystod 2022–23, cyfrannodd gweithgareddau masnachol S4C £0.825m i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C (2021–22: £0.701m).

### Llywodraethiant

Penodir cyfarwyddwyr yr is gwmnïoedd masnachol S4C gan y Bwrdd Unedol, ac mae'r cyfarwyddwyr hyn yn gwasanaethu ar Fwrdd y Grŵp Masnachol.

Mae Bwrdd y Grŵp Masnachol yn gyfrifol i'r Bwrdd Unedol am ddatblygu strategaeth fasnachol S4C, ac am oruchwylio gweithgareddau masnachol S4C yn unol â'r strategaeth honno.

Tudalen y pecyn 174

**Aelodaeth Bwrdd y Grŵp Masnachol**

Mae aelodaeth y Bwrdd Masnachol yn cynnwys rhai o aelodau anweithredol y Bwrdd Unedol, cyfarwyddwyr anweithredol annibynnol, a swyddogion S4C.

Cadeirir y Bwrdd Masnachol gan Brif Weithredwr S4C.

Yn ystod 2022–23, gwasanaethodd y canlynol fel cyfarwyddwyr is-gwmnïoedd masnachol S4C (ac felly ar y Bwrdd Masnachol):

- Siân Doyle, Prif Weithredwr S4C – Cadeirydd Bwrdd y Grŵp Masnachol
- Anita George, aelod anweithredol o'r Bwrdd Unedol (tan 01 Gorffennaf 2022)
- Adele Gritten, aelod anweithredol o'r Bwrdd Unedol
- Chris Jones, aelod anweithredol o'r Bwrdd Unedol
- Elin Morris, Prif Swyddog Gweithredu S4C
- David Sanders, aelod anweithredol annibynnol (tan 30 Mehefin 2022)
- Gwyn Roberts, aelod anweithredol annibynnol
- Sharon Winogorski, Prif Swyddog Cyllid S4C

Gyda dau o'r aelodau yn dod i ddiwedd eu tymhorau fel cyfarwyddwyr yr is-gwmnïoedd masnachol yn ystod 2022–23, cytunodd y Bwrdd Unedol i ddiwygio cyfansoddiad y Bwrdd Masnachol.

O hyn allan, bydd Prif Weithredwr S4C, tri aelod anweithredol, a hyd at ddau aelod gweithredol yn ffurfio'r Bwrdd Masnachol, ac yn gwasanaethu fel cyfarwyddwyr yr is-gwmnïoedd masnachol.

Mae Ysgrifennydd Bwrdd S4C yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd y Grŵp Masnachol ar ran y Bwrdd Unedol. Gall Cadeirydd Y Bwrdd Unedol hefyd fynychu yn ôl yr angen.

**Y Strategaeth Fasnachol**

Yn ystod 2022–23, cynhaliodd S4C arolwg o'i strategaeth fasnachol gyda chymorth ymgynghorwyr allanol. Canlyniad hyn oedd i strategaeth fasnachol newydd gael ei chymeradwyo gan y Bwrdd Unedol ar 20 Hydref 2022.

Mae'r strategaeth fasnachol newydd hon ar gyfer S4C wedi ei llunio gyda phwrpas clir iddi: cyflawni gwerth ariannol a strategol i S4C, ei chynulleidfa ac i Gymru.

Bwriedir i'r strategaeth gyflawni mwy o elw ariannol; gwella gwerth ar sgrin a mewnbwn creadigol S4C; adeiladu perthnasoedd uniongyrchol cryfach gyda chynulleidfa S4C; a chefnogi twf economaidd a datblygu sgiliau yng Nghymru.

Mae'r strategaeth yn nodi 6 maes gweithgarwch masnachol ar gyfer S4C Masnachol:

- Cyd-gynhyrchu – lle mae S4C yn cynyddu maint a gwerth cynnwys sy'n cael ei gyd-gynhyrchu;
- Eiddo Deallusol Cynnwys – lle mae S4C yn cynyddu'r gwerth y mae'n ei gynhyrchu o gynnwys ac eiddo deallusol;
- Buddsoddi yn nhwf busnes – cynyddu elw strategol ac ariannol o ganlyniad i fuddsoddi mewn twf drwy sefydlu cronfa fuddsoddi i gymryd cyfranddaliadau mewn busnesau sy'n agos at bwrpas S4C, ac sydd â photensial cynyddol;
- Hysbysebu a Noddi – datblygu cyfleoedd cyffroes a parhaol ar draws llwyfannau S4C i gynyddu incwm o hysbysebu a noddi;
- Brandiau – mabwysiadu dull gweithredu ar draws y sefydliad o ran adeiladu brand defnyddwyr, i greu gwerth o ran cyllid ac i'r gynulleidfa, o frandiau S4C yn y presennol a'r dyfodol; a
- Digidol – creu sylfaen ar gyfer strategaeth ddigidol fasnachol, gan gynnwys buddsoddi mewn cynnyrch ac adnoddau sy'n cefnogi strategaeth ddigidol S4C ac sydd â defnydd masnachol ychwanegol.

Mae'r gweithgareddau hyn wedi alinio'n agos ag amcanion craidd S4C ac yn cefnogi Strategaeth 2022–27.

Mae'r strategaeth fasnachol newydd yn bwriadu cynyddu'r cyfraniad ariannol blynyddol o weithgareddau masnachol S4C i gronfa'r gwasanaeth cyhoeddus, a thyfu gwerth y gronfa fasnachol dros amser i gefnogi buddsoddiadau yn y dyfodol.

Mae gwerthiant Parc Tŷ Glas, yn ogystal â chael gwared â rhai buddsoddiadau ecwiti hanesyddol gan SDML, wedi darparu cyllid ychwanegol yn y gronfa fasnachol wrth gefn, i gefnogi gweithredu'r strategaeth fasnachol newydd o 2023–24 ymlaen.

# Adroddiadau Gweithredol

# Adroddiad Llywodraethu

**Mae S4C yn gorfforaeth statudol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu a digidol yn yr iaith Gymraeg, yn bennaf ar gyfer y gynulleidfa yng Nghymru, ond hefyd ar gyfer cynulleidfa ehangach sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau Cymraeg S4C.**

**Yn gorff cyhoeddus annibynnol, mae strwythur a dyletswyddau cyfansoddiadol S4C wedi'u nodi mewn statud yn Neddf Gyfathrebu 2003 a Deddfau Darlledu 1990 a 1996.**

**Mae'r Adroddiad Llywodraethu hwn yn nodi fframwaith llywodraethiant corfforaethol y Bwrdd ac yn egluro: sut y mae'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes, sut mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi, sut y mae'r Bwrdd yn asesu ei berfformiad ac effeithiolrwydd, a sut y mae'n dirprwyo cyfrifoldebau i'r Tîm Rheoli a'r Prif Weithredwr tra'n sicrhau atebolrwydd priodol.**

## Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol S4C
Mae'r ddeddfwriaeth a sefydlodd S4C yn cyfeirio at un corff statudol a gwasanaeth teledu. Mae'r adroddiad hwn yn gyson gyda'r diffiniadau statudol. Cyfeirir at fwrdd cyfarwyddwyr S4C fel Bwrdd (S4C) neu'r Bwrdd Unedol, ac at y gwasanaeth fel S4C.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i sicrhau bod swyddogaethau statudol S4C, mewn amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus a masnachol, yn cael eu cyflawni'n unol â pholisïau'r Bwrdd, gofynion deddfau perthnasol, Cod Darlledu Ofcom, a'r Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd gyda'r BBC.

## Y Bwrdd Unedol cysgodol
Argymhellodd yr Adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylai strwythur llywodraethu corfforaethol S4C fod yn seiliedig ar fwrdd unedol sy'n cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol, gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, lle mae'r aelodau gweithredol a'r uwch-swyddogion yn rheoli, a'r aelodau anweithredol yn craffu ac yn cynghori.

Yn hydref 2018, gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, rhoddodd S4C drefniadau dros dro ar waith ar sail weinyddol i hwyluso yr argymhellion llywodraethu o fewn y ddarpariaeth statudol gyfredol. Cadarnhaodd y Bwrdd Reolau Sefydlog newydd a rhoddwyd ar waith Bwrdd Unedol cysgodol fel yr argymhellwyd gan yr Adolygiad o S4C.

Mae'r Bwrdd Unedol cysgodol yn cynnwys aelodau anweithredol y Bwrdd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r Prif Weithredwr, a dau aelod gweithredol arall a benodir gan yr aelodau anweithredol yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Bydd y darpariaethau dros dro hyn yn parhau ar sail weinyddol nes cyflwynir deddfwriaeth i gadarnhau'r newidiadau arfaethedig a diwygio fframwaith llywodraethu S4C. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd S4C yn parhau i wneud hynny gan weithredu'n ffurfiol yn unol â'r darpariaethau statudol cyfredol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Bwrdd Unedol cysgodol yn ei Rheolau Sefydlog ar safle we S4C.


## Swyddog Cyfrifo S4C
Dynodir y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer S4C.

Yn ystod 2022–23, roedd y Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol i'r Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) mewn perthynas ag ariannu statudol S4C, ac felly nhw oedd y person oedd yn gyfrifol am y defnydd priodol o arian Ffi'r Drwydded a dalwyd i S4C yn unol â chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli
Mae'r Bwrdd yn dirprwyo nifer o swyddogaethau penodol i'r Prif Weithredwr a'i swyddogion, fel y nodir yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd. Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Bwrdd am weithredu'r swyddogaethau hyn.

Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr, swyddogion a staff S4C ydi rheoli a chynnal S4C o ddydd i ddydd. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys darparu gwasanaethau teledu ac ar-lein S4C.

**Strwythur Llywodraethiant Corfforaethol S4C**




Tudalen y pecyn 178

# Y Bwrdd Unedol

**Mae'r Bwrdd Unedol cysgodol yn cynnwys hyd at naw aelod anweithredol, ynghyd â'r Prif Weithredwr, a dau aelod gweithredol arall.**

**Ceir mwy o fanylion ynghylch aelodaeth y Bwrdd Unedol cysgodol yn hwyrach yn yr adroddiad hwn.**

**Nid yw aelodau anweithredol y Bwrdd yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau dydd i ddydd. Yn benodol, nid yw aelodau anweithredol y Bwrdd yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau comisiynu neu benderfyniadau golygyddol. Mae'r arfer yma wedi bodoli ers 1982. Mae'n sicrhau fod y Bwrdd yn cael ei gadw hyd braich o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y swyddogion – yn arbennig felly, ynglŷn â chynnwys rhaglenni.**

**Effeithiolrwydd a Gwerthuso**
Mae'r Bwrdd yn cynnal gwerthusiad blynyddol o'i berfformiad ei hun a gwaith ei bwyllgorau a'r aelodau.

Cwblhawyd adolygiad sicrwydd allanol o lywodraethiant ac effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod 2020 gan TIAA (Archwilwyr Mewnol S4C). Mae TIAA yn annibynnol o S4C ac ystyriodd yr adolygiad y trefniadau lefel uchel sydd mewn lle trwy drafodaethau gydag aelodau'r Bwrdd a chymariaethau gyda chyfarwyddyd arfer gorau, er mwyn darganfod effeithiolrwydd y Bwrdd Unedol newydd. Gwnaed nifer o argymhellion gan TIAA, ac mae'r Bwrdd bellach wedi eu cwblhau i gyd yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Yn ystod 2022–23, yn unol ag arfer da, fe ymgymerodd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau â phroses o hunan-werthuso eu perfformiad a bydd yr adborth a dderbyniwyd yn dylanwadu ar drefniadau cyfarfodydd o 01 Ebrill 2023.

**Cyfrifoldebau'r Bwrdd**
Mae prif gyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys:
- darparu gwasanaethau teledu, digidol ac ar-lein S4C;
- sicrhau cydymffurfiaeth y gwasanaethau gyda'r gofynion rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys Cod Darlledu Ofcom;
- cymryd ystyriaeth o farn y gynulleidfa am arlwy gwasanaeth S4C;
- cymeradwyo strategaeth, cyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol tymor hir S4C;
- goruchwylio, cymeradwyo a chraffu ar reolaeth briodol S4C;
- gweithredu fel corff cyhoeddus;
- gweithredu fel rheoleiddiwr ar nifer cyfyngedig o faterion penodol yn ymwneud a gwasanaethau ar-lein S4C;
- paratoi adroddiadau blynyddol a chyfrifon; a
- phenodi Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd.

Ceir rhagor o wybodaeth am brosesau a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn y Rheolau Sefydlog ar www.s4c.cymru.

**Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol**
Mae gan y Bwrdd ddyletswydd penodol i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol o weithgareddau S4C i Senedd San Steffan bob blwyddyn.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi cytuno i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C gerbron Senedd Cymru.

**Cydymffurfiaeth Rheoleiddio**
Trosglwyddwyd nifer sylweddol o gyfrifoldebau rheoliadol i Ofcom, y rheolydd cyfathrebu'r DU, gan Ddeddf Gyfathrebu 2003.

Mae gwasanaeth teledu S4C yn cael ei reoleiddio gan Ofcom. O dan y darpariaethau hyn mae'n ofynnol i S4C gydymffurfio ag ystod eang o ofynion rheoliadol a nodir mewn deddfwriaeth, a hefyd gan Ofcom.

Mae dyletswydd statudol ar S4C i gydymffurfio gyda Chod Darlledu Ofcom a gofynion rheoleiddio eraill, ac mae gan Ofcom nifer o bwerau a chyfrifoldebau statudol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gwasanaethau S4C.

Fel rhan o'r broses flynyddol o adrodd i Ofcom, mae S4C yn talu Ffi Rheoleiddio i Ofcom ac yn darparu ystod eang o wybodaeth i Ofcom, gan gynnwys gwybodaeth ariannol, gwybodaeth feintiol am berfformiad y gwasanaeth a gwybodaeth am gydymffurfio gyda chwotâu perthnasol Ofcom.

Mae'r Bwrdd Unedol yn parhau â nifer cyfyngedig o gyfrifoldebau rheoleiddio sy'n ymwneud gyda gwasanaethau ar-lein S4C sydd y tu hwnt i ddarpariaethau Cod Darlledu Ofcom.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno a chyhoeddi Proses Gwynion S4C, sy'n manylu sut mae cwynion yn ymwneud â materion cydymffurfiaeth neu reoleiddio mewn perthynas â chynnwys S4C yn cael eu hystyried.

Pan fydd cwynwyr am gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad gan y Prif Weithredwr yn unol â Phroses Gwynion S4C, ystyrir y mater gan Banel Cwynion y Bwrdd, sy'n cwrdd yn ôl yr angen. Mae'r Panel Cwynion yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd Unedol.

**Ceisio barn y gynulleidfa**
Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb statudol i wneud trefniadau i ganfod y farn gyhoeddus am y rhaglenni sy'n cael eu cyhoeddi gan S4C, ynghyd ag effeithiau rhaglenni ar agwedd ac ymddygiad y gwylwyr ac yn ogystal y math o raglenni y byddai aelodau'r cyhoedd yn dymuno eu gweld ar S4C.

Mae'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Bwrdd yn cynnwys: Panel Gwylwyr, sy'n rhoi adborth wythnosol ar raglenni a ddarlledir gan S4C; arolwg blynyddol ar ganfyddiad y gynulleidfa o S4C; ac ystyriaeth o ddata perthnasol a gesglir drwy BARB, S4C Clic a'r BBC iPlayer.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaethau priodol yn bodoli er mwyn galluogi gwylwyr i gwyno i S4C am raglenni'r gwasanaeth. Ceir gwybodaeth am sut i gwyno am raglenni S4C ar www.s4c.cymru.

# Swyddogaethau a Systemau Cyllid

### Paratoi'r Gyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol hir dymor

Cymeradwyir cyllideb S4C ar gyfer pob blwyddyn ariannol (ac unrhyw ddiwygiadau dilynol iddo) gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried a chymeradwyo cynllun ariannol pum mlynedd sy'n gosod cyfeiriad hir dymor ac yn ogystal ceir cynllun ariannol amcanol pum mlynedd.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am ystyried yn fanwl cyllidebau blynyddol drafft ar gyfer S4C, ynghyd â chynlluniau ariannol tymor hir, ac i argymell cyllidebau a chynlluniau o'r fath i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cymeradwyo.

### Swyddogaethau Archwilio

Mae gan y Bwrdd ddyletswydd statudol i sicrhau trefniadau archwilio priodol ar gyfer holl agweddau o faterion ariannol S4C. Rhennir y swyddogaeth archwilio yn ddau gytundeb – ar gyfer materion Archwilio Allanol a materion Archwilio Mewnol.

### Trefniadau Archwilio Allanol

Yn dilyn argymhelliad yr Adolygiad Annibynnol o S4C yn ymwneud â threfniadau archwilio S4C, daethpwyd i gytundeb ym mis Hydref 2019 rhwng S4C a'r NAO, gan hwyluso'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilwyr allanol S4C, hyd nes bydd y ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i diwygio. Cytunwyd ar Lythyr Ymgysylltu rhwng yr NAO a S4C.

### Adroddiad yr Archwilwyr Allanol

Mae Adroddiad yr Archwilwyr Allanol i'r Bwrdd Unedol i'w weld oddi fewn i adran y datganiadau ariannol ar gyfer 2022–23.

### Archwilio Mewnol

Yn dilyn proses dendro gyhoeddus, penodwyd TIAA fel Archwilwyr Mewnol S4C ym mis Medi 2019 am gyfnod o dair blynedd (tan ddiwedd y flwyddyn ariannol 2021–22). Ar 16 Chwefror 2022, penodwyd TIAA am gyfnod pellach yn dilyn proses dendro gyhoeddus. Byddant yn awr yn gwasanaethu fel Archwilwyr Mewnol S4C am gyfnod o dair blynedd yn cychwyn 01 Ebrill 2022, gyda'r posibilrwydd o ddau estyniad o flwyddyn fel bo'n briodol.

Cynhaliwyd gwaith archwilio mewnol trwy gydol y flwyddyn i roi sicrwydd ynglŷn â gweithrediad a dilysrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r Archwilwyr Mewnol yn mynd ati'n annibynnol i adolygu'r broses reoli a weithredir gan y rheolwyr ac yn adrodd i'r Swyddog Cyfrifo a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Os oes rheolaethau gwan neu amhriodol i'w cael, sydd felly'n creu elfen o risg i'r sefydliad, mae'r camau cywiro sydd wedi eu cynllunio yn cael eu monitro'n annibynnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gyfer eu cwblhau'n brydlon.

### Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol

Mae adnabod a rheoli risgiau yn greiddiol i waith y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd a'r Tîm Rheoli gyfrifoldeb clir i adnabod risgiau sy'n wynebu S4C ac am roi gweithdrefnau yn eu lle er mwyn monitro a lliniaru risgiau o'r fath. Mae'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli yn gweithredu fframwaith rheoli risg ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol a wynebir gan S4C. Mae'r fframwaith hwn wedi ei ddatblygu yn unol â chanllawiau arfer da perthnasol ar reolaethau mewnol a rheoli risg.

Yn dilyn cyhoeddi arweiniad i gyfarwyddwyr ar reolaeth fewnol, Rheolaeth Fewnol; Arweiniad i Gyfarwyddwyr ar y Côd Cyfun (arweiniad Turnbull), mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod proses barhaus i adnabod, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol a wynebir gan y grŵp wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn dan sylw a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Ariannol, a bod y broses hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd Unedol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn unol â'r canllawiau.

Mae elfennau allweddol y system rheolaeth fewnol fel a ganlyn:

#### Rheolaeth Ariannol

Mae S4C yn gweithredu system gynhwysfawr ar gyfer adrodd ar reolaeth sy'n cynnwys paratoi cyllidebau blynyddol ar gyfer pob canolfan cost. Caiff y cyllidebau hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd fel rhan o'r gyllideb gyffredinol am y flwyddyn. Adroddir yn fisol ar ganlyniadau'r canolfannau cost a chaiff y canlyniadau eu cymharu â'r gyllideb. Ymchwilir i amrywiadau sylweddol o'u cymharu â'r gyllideb fel y bo'n briodol. Mae rhagolygon ar gyfer ymrwymiadau'n cael eu paratoi'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn.

#### Adroddiadau Ariannol

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu systemau rheolaeth fewnol a systemau rheoli risg sy'n ymwneud â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y grŵp a phroses y grŵp ar gyfer paratoi cyfrifon cyfun. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am oruchwylio a monitro'r prosesau hyn, sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod y Bwrdd yn cydymffurfio â'r darpariaethau adrodd a rheoleiddio perthnasol.

#### Trefniadau Chwythu'r Chwiban

Mae gan S4C bolisi 'chwythu'r chwiban' (datgelu gwybodaeth) er mwyn hwyluso'r broses o gyfathrebu gwybodaeth gyfrinachol berthnasol neu unrhyw ddigwyddiad mewn modd cyfrinachol. Mae'r polisi ar gael ar fewnrwyd S4C. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ar ran y Bwrdd, yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer ymchwilio, mewn modd cymesur, i faterion a gyflwynwyd ac ar gyfer camau priodol yn dilyn unrhyw ymchwiliad.

**Monitro Rheolaethau a Risgiau'r Busnes**
Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r dasg o adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n berthnasol i'r busnes i'r Tîm Rheoli, ynghyd â chynllunio a gweithredu rheolaethau mewnol priodol. Asesir y risgiau hyn ar sail barhaus a gallant fod yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ffynonellau mewnol neu allanol gan gynnwys toriadau mewn goruchwyliaeth, amhariad ar y systemau gwybodaeth, cystadleuaeth, trychinebau naturiol a gofynion rheoleiddio.

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Unedol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg am faterion rheoli risg, ac mae'r Pwyllgor yn ystyried y Gofrestr Risgiau Strategol ym mhob cyfarfod. Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd yn darparu gwybodaeth ar berfformiad ariannol i'r Bwrdd yn chwarterol.

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd i'r Bwrdd ar ran y Tîm Rheoli ar newidiadau sylweddol yn y busnes a'r amgylchedd allanol sy'n effeithio'r risgiau sylweddol. Lle nodir meysydd ar gyfer gwelliant yn y system, mae'r Bwrdd yn ystyried yr argymhellion a wneir gan y Tîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

**Asesu'r Prif Risgiau, Ansicrwydd a Chyfleoedd**
Mae Cofrestr Risg Strategol S4C yn seiliedig ar asesiad o Flaenoriaethau Strategol S4C a'r risgiau all effeithio ar gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Darparodd swyddogion adroddiadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Risg er mwyn iddynt allu monitro rheoli risg a gwelliannau i'r gofrestr risg. Yn ogystal, darparwyd adroddiadau a sicrwydd perthnasol gan yr archwilwyr mewnol er mwyn galluogi'r pwyllgor i asesu proffil risg S4C yn ystod y flwyddyn.

Mae'r asesiad risg a nodir isod yn cynnwys crynodeb o'r prif risgiau ac ansicrwydd a adnabuwyd yn ystod y flwyddyn, a'r camau a gymerwyd i liniaru'r risgiau hyn. Bwriad y risgiau hyn yw nodi ar lefel strategol risgiau posibl allai gael effaith sylweddol ar allu S4C i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.

Mae'r prif feysydd risg a nodwyd yn parhau'n debyg i'r rhai a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol, a gellir eu categoreiddio fel rhai'n ymwneud â darparu ac ansawdd gwasanaeth S4C, materion strategol, a materion ariannol a llywodraethiant.

**1. Y Gynulleidfa a Pherfformiad y Gwasanaeth**
Prif ddyletswydd S4C yw darparu gwasanaeth teledu digidol iaith Gymraeg sy'n cynnwys ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel. Er mwyn darparu gwasanaeth o'r fath, rhaid i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn gwrando ar anghenion ei gynulleidfa, bod S4C yn ymateb yn briodol i'r anghenion hyn a bod y sector cynhyrchu annibynnol yn gallu darparu cynnwys o ansawdd uchel.

Mae'r Bwrdd yn arolygu ansawdd y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn, gan ddefnyddio ystod eang o ffynonellau gwybodaeth annibynnol ac ymgynghori yn eang â'r gynulleidfa gan ddefnyddio nifer o wahanol ddulliau.

Drwy weithio'n agos gyda chynhyrchwyr annibynnol, mae S4C wedi trafod sylwadau'r gynulleidfa a nodi ffyrdd o wella'r allbwn rhaglenni tra hefyd yn sicrhau gwerth am arian drwy'r cydweithio hyn.

Mewn amgylchedd o lwyfannau cyfryngol sy'n datblygu'n gyflym, mae angen i S4C sicrhau ei bod yn gallu mynd i'r afael â phatrymau gwylio a gofynion y gynulleidfa ar gyfer cynnwys ar draws gwahanol lwyfannau digidol cyfredol ac yn y dyfodol, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, Manylder Uwch a fformatau cynnwys eraill. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod gan S4C y prosesau ar waith i fonitro a dadansoddi perfformiad S4C ar draws yr amrywiol wasanaethau y mae'n eu darparu. Fodd bynnag, mae cwrdd â disgwyliadau cynyddol gwylwyr gan gynnwys cost darparu mwy o ddewis a chynnwys o ansawdd ar gynifer o lwyfannau a dyfeisiau â phosibl yn gofyn am fuddsoddiad parhaus, a bydd hyn yn parhau yn rhan o drafodaethau cyllidebol.

Mae gofyn i'r system gymhleth o seilwaith technegol sy'n ganolog i allu S4C i ddarparu ei gynnwys dros ystod gynyddol o lwyfannau i gynnal lefel uchel iawn o argaeledd gwasanaethau ac ansawdd ar sail 24/7. Mae cynlluniau parhad busnes o fewn S4C wedi eu cynllunio er mwyn sicrhau bod y systemau technegol hyn yn gadarn a bod trefniadau priodol a chymesur yn eu lle er mwyn dygymod gyda digwyddiadau technegol sylweddol.

Ers Ionawr 2021, mae S4C wedi cyd-leoli gwasanaethau darlledu technegol gyda rhai BBC Cymru Wales yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.

**2. Strategol ac Ariannol**
Ers mis Ebrill 2022, mae ariannu cyhoeddus S4C yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl drwy Ffi'r Drwydded, gyda'r holl benderfyniadau ariannu yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o setliad ariannu Ffi'r Drwydded.

Cyn i'r trefniadau ariannu newydd ddod i rym, ym mis Ionawr 2022, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at S4C i gadarnhau setliad Ffi'r Drwydded 2022 – ac wrth wneud hynny, cydnabuwyd statws ddiwylliannol a chymdeithasol unigryw S4C fel yr unig ddarlledwr Cymraeg yn y DU, sy'n chwarae rhan hanfodol yn nyfodol y Gymraeg ac uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai S4C, o 01 Ebrill 2022 ymlaen, yn gweld ei chyllid blaenorol o Ffi'r Drwydded (£74.5 miliwn y flwyddyn) ynghyd â'r incwm grant gan DCMS (£6.85 miliwn y flwyddyn) yn cael eu cyfuno. Dyfarnwyd £7.5 miliwn arall y flwyddyn o Ffi'r Drwydded i gefnogi datblygiad digidol S4C.

Rhoddodd hyn cyfanswm o tua £88.85 miliwn o gyllid Ffi'r Drwydded i S4C o 01 Ebrill 2022, gyda'r swm hwn yn cynyddu'n flynyddol yn unol â graddfa chwyddiant y CPI o 01 Ebrill 2024 tan ddiwedd cyfnod y setliad (31 Mawrth 2028).

Er gwaethaf y sicrwydd cyllidol hwn dros y cyfnod canolig, mae'r Bwrdd Unedol yn ymwybodol iawn o'r risgiau penodol sy'n deillio o chwyddiant yn y sector cynhyrchu cynnwys a'r economi ehangach. Mae'r Tîm Rheoli felly'n cymryd camau priodol i weithio gyda'r sector cynhyrchu annibynnol i reoli costau a sicrhau gwerth am arian i gynulleidfaoedd.

**3. Strwythur a Llywodraethiant**

Mae system a gweithdrefnau llywodraethiant corfforaethol y Bwrdd yn cael eu hadolygu'n ffurfiol er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn addas.

Cwblhawyd adolygiad sicrwydd o lywodraethiant ac effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod 2020 gan TIAA (yr Archwilwyr Mewnol). Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau lefel uchel sydd mewn lle trwy drafodaethau gydag Aelodau'r Bwrdd a chymariaethau gyda chyfarwyddyd arfer gorau, er mwyn darganfod effeithiolrwydd y Bwrdd Unedol newydd. Mae'r Bwrdd bellach wedi gweithredu holl argymhellion TIAA.

Yn dilyn yr Adolygiad Annibynnol o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, mae'r Bwrdd eisoes wedi gweithredu nifer o'r argymhellion yn ymwneud â strwythur a llywodraethu S4C. Mae hyn yn cynnwys apwyntio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol S4C yn 2019, a thrafodaethau parhaus gyda'r DCMS ynghylch gwneud newidiadau yn neddfwriaeth sylfaenol i gyflawni argymhellion yr Adolygiad.

Mae Cytundeb Ariannu, Partneriaeth ac Atebolrwydd rhwng S4C a'r BBC wedi bod mewn lle ers mis Tachwedd 2017. Mae'r Bwrdd wedi rhoi prosesau adrodd ar gyfer cyflwyno sicrwydd ariannol i Fwrdd y BBC ar waith ac wedi cyflwyno adroddiadau i Bwyllgor Archwilio'r BBC.

# Aelodaeth Bwrdd Unedol S4C

**Mae'r Bwrdd Unedol cysgodol yn cynnwys y Cadeirydd a hyd at wyth aelod anweithredol; y Prif Weithredwr a hyd at ddau aelod gweithredol arall.**

**Penodir Aelodau Anweithredol Bwrdd S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, a Llywodraeth Cymru.**

**Hysbysebir swyddi anweithredol ar y Bwrdd yn gyhoeddus, ac mae'r penodiadau'n cael eu gwneud yn dilyn trefn penodiadau cyhoeddus.**

**Mae gan yr aelodaeth anweithredol brofiad a gwybodaeth helaeth ac maent yn annibynnol o'r Tîm Rheoli, ac o unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd ag arfer eu barn annibynnol. Mae'r strwythur hwn yn sicrhau na all y broses o wneud penderfyniadau gan yr aelodau gael ei dominyddu gan unigolyn neu grŵp bychan.**

**Mae'r Prif Weithredwr yn aelod ex officio o'r Bwrdd Unedol cysgodol, tra bod unrhyw aelodau gweithredol eraill yn cael eu penodi i'r Bwrdd Unedol cysgodol gan yr aelodau anweithredol yn unol â Rheolau Sefydlog S4C.**

**Amrywiaeth**
Mae amrywiaeth o fewn aelodaeth y Bwrdd Unedol yn cael ei ystyried fel rhan o broses ddethol y DCMS. Mae amrywiaeth o fewn y sefydliad yn allweddol i sicrhau bod gwasanaeth S4C yn adlewyrchu ei chynulleidfa a'u hanghenion.

**Hyfforddiant a Rhaglen Sefydlu Aelodau'r Bwrdd**
Mae rhaglen sefydlu bwrpasol yn cael ei ddarparu i bob aelod newydd o'r Bwrdd.

Mae'r broses sefydlu yn cynnwys cyfarfodydd ag unigolion allweddol o fewn S4C a'r Bwrdd, darparu gwybodaeth sylfaenol sy'n ymwneud â dyletswyddau cyfarwyddwyr, gwybodaeth yn ymwneud â gweithrediad busnes S4C, sector y cyfryngau; ac hefyd y prif risgiau a'r ansicrwydd sy'n wynebu S4C.

Ynghyd â darparu gwybodaeth, mae'r broses sefydlu yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithrediad busnes

Yn ystod 2022–23, darparwyd cyfleoedd hyfforddi a datblygu i aelodau'r Bwrdd ar wahanol bynciau, gan gynnwys:
- Prosesau Rheoli Risg, a datblygu datganiad a matrics Archwaeth Risg corfforaethol;
- Gwasanaethau Mynediad, gan gynnwys y gofynion ar S4C a'n perfformiad presennol yn erbyn y targedau hyn;
- Prosesau mewnol ar gyfer comisiynu cynnwys, a gweithgareddau cysylltiedig i reoli costau;
- Y sector gynhyrchu annibynnol yng Nghymru, wnaeth gynnwys ymweliadau ag amrywiol gwmnïau a chyfleusterau cynhyrchu.

Yn ogystal, fe gynigiwyd i aelodau fynychu sesiynau datblygu Cyfarwyddwr Anweithredol a ddarperir gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU.

**Diddordebau'r Aelodau**
Mae cofrestr sy'n datgan diddordebau allanol yr aelodau ar gael ar wefan S4C, www.s4c.cymru.

Yn ystod y cyfnod nid oedd gan unrhyw aelodau anweithredol y Bwrdd fudd mewn cytundebau gydag S4C.

**Cydnabyddiaeth Aelodau**
Caiff gwybodaeth mewn perthynas â chydnabyddiaeth yr aelodau ei nodi mewn nodyn i'r Datganiad Ariannol.

# Aelodaeth 2022–23

**Arhosodd cyfansoddiad y Bwrdd Unedol yn gymharol sefydlog yn ystod y flwyddyn adrodd.**

**Cyrhaeddodd Anita George ddiwedd ei thymor fel aelod anweithredol ar ddechrau Gorffennaf 2022; ac fe benodwyd Suzy Davies i'r Bwrdd fel aelod anweithredol newydd y mis canlynol.**

**O ran yr aelodaeth weithredol, ymunodd Llinos Griffin-Williams â'r Bwrdd Unedol cysgodol ar ddechrau'r flwyddyn adrodd wrth ymgymryd â swydd Prif Swyddog Creadigol S4C.**

**Aelod Anweithredol Arweiniol**
Crëwyd y swyddogaeth yr Aelod Anweithredol Arweiniol gan y Bwrdd yn 2016 yn dilyn cyngor a roddwyd gan DCMS i'r cyrff a noddir ganddi.

Ymgymerodd Anita George â'r swyddogaeth hon rhwng Tachwedd 2018 a diwedd ei thymor ar y Bwrdd yng Ngorffennaf 2022.


Yna, ar 08 Rhagfyr 2022, penodwyd Chris Jones gan y Bwrdd fel yr Aelod Anweithredol Arweiniol newydd.

Mae cyfrifoldebau'r Aelod Anweithredol Arweiniol yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth i'r Cadeirydd; casglu adborth o aelodau'r Bwrdd ar berfformiad y Cadeirydd fel rhan o broses werthuso flynyddol DCMS o'r Cadeirydd; lle mae anawsterau neu densiwn yn bodoli yn y berthynas rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, bod yn gyfrifol am hwyluso'r gwaith o ddatrys y materion hyn; a chydweithio â'r Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd i geisio datrys unrhyw ystyriaethau neu anghydfodau perthnasol sy'n effeithio ar waith y Bwrdd.

**Sgiliau**
Adeg eu penodi, ac unwaith y flwyddyn, gwahoddir holl aelodau'r Bwrdd i ddatgan y sgiliau a'r profiadau y gallant dynnu arnynt i wneud y cyfraniad mwyaf effeithiol i S4C a gwaith y Bwrdd.

Mae'r balans sgiliau ymysg aelodau'r Bwrdd Unedol yn cael ei ystyried fel rhan o broses ddethol y DCMS.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd aelodau'r Bwrdd Unedol cysgodol yn meddu ar sgiliau a phrofiadau uniongyrchol yn y meysydd canlynol:





Tudalen y pecyn 185


**Amrywiaeth**
Yn ystod 2022–23, gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd Unedol cysgodol i ddatgan gwybodaeth er mwyn casglu data perthnasol ar amrywiaeth ymysg yr aelodaeth.

Roedd amrywiaeth y Bwrdd Unedol cysgodol ar 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:


**Rhyw**





**Oedran**





**Cefndir**





**Anabledd**




**Lefel addysg rhieni**




**Ysgol a fynychwyd rhwng 11 – 16 oed**




Tudalen y pecyn 186



**Rhodri Williams – Cadeirydd**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 02.07.2018 – 31.03.2024**
**(Cadeirydd 01.04.20 – 31.03.24)**
Mae Rhodri yn aelod anweithredol o Fwrdd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac yn Gadeirydd ar Bwyllgor Cymru y Cyngor. Roedd yn gyfarwyddwr Ofcom yng Nghymru rhwng 2004 a 2018. Roedd yn gyd-sefydlydd cwmni teledu Agenda ym 1990 a chyn hynny yn aelod o dîm Y Byd ar Bedwar yn ITV. Mae ei rolau anweithredol blaenorol yn cynnwys Aelod a Chadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1997-2004) ac aelod o Fwrdd Ymwelwyr Carchar ei Mawrhydi, Caerdydd.



**Guto Bebb**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.02.2021 – 31.01.2025**
Mae Guto'n Brif Weithredwr Gwasanaeth Yswiriant Undeb Amaethwyr Cymru ers 2020 ac yn Brif Weithredwr Grŵp Undeb Amaethwyr Cymru yn ei gyfanrwydd ers Chwefror 2021. Cyn hynny, fe fu'n Aelod Seneddol dros Aberconwy am ddegawd gan wasanaethu fel Gweinidog yn Swyddfa Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Yn enedigol o Sir y Fflint, mae Guto wedi byw yng Nghaernarfon ers dros deugain mlynedd. Cyn ei ethol i San Steffan fe fu'n rhedeg amrywiol fusnesau gan gynnwys ymgynghoriaeth datblygu economaidd a siop lyfrau.



**Suzy Davies**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.08.2022 – 31.07.2026**
Yn gyfreithiwr cymwysedig, dilynodd Suzy yrfaoedd ym maes marchnata'r celfyddydau ac fel uwch gyfreithiwr gyda deng mlynedd o wasanaeth fel Aelod o'r Senedd, gan gynnwys tymor fel Gweinidog yr Wrthblaid dros Ddiwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg.

Ers hynny, mae hi wedi bod yn eiriolwr dros dwristiaeth yng Nghymru, fel Cadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru, ac mae'n parhau i ymgyrchu dros fwy o gydraddoldeb fel aelod o fwrdd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod. Mae hi hefyd yn aelod o fwrdd Colegau Cymru a bwrdd archwilio a risg y Comisiynydd Plant. Yn un o sylfaenwyr Gŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru, mae hi bellach yn aelod o Fwrdd Gŵyl Ffilm Iris.

Yn enedigol o Abertawe, cafodd Suzy ei magu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Cwm Cynon, Caerdydd ac Aberhonddu. Ar ôl gweithio yn Abertawe, Y Drenewydd ac Aberystwyth, ymgartrefodd yn Nyffryn Dyfi lle mae gan ei theulu fusnes fferm a thwristiaeth, a lle dysgodd Gymraeg.



**Anita George – Aelod Anweithredol Arweiniol (tan 01.07.2022)**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 02.07.2018 – 01.07.2022**
Mae Anita George yn gyfreithiwr efo profiad bwrdd a gweithredol eang yn y sectorau preifat, cyhoeddus ac elusennol.

Mae wedi gweithio fel cyfreithiwr mewnol ar draws sawl sector rheoledig yn y DU a Hong Kong, ac yn fwyaf diweddar fel ymgynghorydd annibynnol yn cynghori busnesau gwasanaethau ariannol ar lywodraethiant corfforol a newid sefydliadol.



**Adele Gritten**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.02.2021 – 31.01.2025**
Cafodd Adele ei geni a'i magu yn Abertawe. Mae'n weithredwr profiadol ar lefel bwrdd ar ôl gweithio mewn rolau uwch reolwr ar gyfer amrywiaeth o ymgynghoriaethau cyfryngau, marchnata ac ymchwil, gan gynnwys YouGov, ers dros 20 mlynedd.

Ymunodd Adele a Local Partnerships LLP fel Prif Weithredwr Tachwedd 2022, cwmni sy'n eiddo ar y cyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Y Trysorlys a Llywodraeth Cymru.

Yn arweinydd profiadol, uchel ei pharch, mae gan Adele MA mewn Gwyddor Gymdeithasol a Gwleidyddol o Brifysgol Caergrawnt.



**Chris Jones – Aelod Anweithredol Arweiniol (o 08.12.2022)**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.02.2021 – 31.01.2025**
Roedd Chris yn gyd-sylfaenydd Glas Cymru Cyf, wnaeth brynu Dŵr Cymru yn 2001 i greu'r unig gwmni cyfleustodau yn y DU nad yw'n eiddo i gyfranddalwyr. Ef oedd Prif Swyddog Ariannol Dŵr Cymru rhwng 2001 a 2013, ac yna'n Brif Weithredwr nes iddo adael y cwmni ym mis Mai 2020.

Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol o Xoserve Limited (darparwr gwasanaethau data canolog y farchnad nwy ym Mhrydain) ac mae'n gyn Gyfarwyddwr Anweithredol gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality. Mae'n aelod lleyg o Gyngor Prifysgol Caerdydd. Mae o wedi cael amrywiaeth o rolau fel ymddiriedolwr neu gynghorwr gyda sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys Ymddiriedolaeth y Tywysog, y Sefydliad Materion Cymreig, Water UK a CBI Cymru.

Dysgodd Chris Gymraeg fel oedolyn. Dyfarnwyd CBE iddo



**Denise Lewis Poulton**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.04.2021 – 31.03.2025**
Mae Denise yn arbenigwr cyfathrebu strategol, brand a materion corfforaethol profiadol.

Cafodd ei geni a'i magu yng Nghastell Newydd Emlyn, a'i haddysg yn Ysgol Ramadeg Llandysul a King's College, Prifysgol Llundain.

Treuliodd ei gyrfa gorfforaethol yn bennaf fel uwch gyfarwyddwr mewn cwmnïau telegyfathrebu rhyngwladol fel Bell Canada plc, Cable & Wireless Communications plc ac Orange plc.

Aeth ymlaen i sefydlu busnes ymgynghori yn cynghori nifer o sefydliadau diwylliannol, cyfryngau a sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru, S4C, a Chanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd.

Mae hi wedi gwasanaethu fel Ymddiriedolwr a Chyfarwyddwr Anweithredol gyda sawl sefydliad diwylliannol cenedlaethol yn eu plith Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, Gŵyl Lenyddol y Gelli, a Chasgliad Wallace yn Llundain. Mae hi'n Gymrawd Oes er Anrhydedd i BAFTA.

Ym Mawrth 2023, penodwyd Denise yn Ymddiriedolwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ac yn Gadeirydd Pwyllgor Cymru.



**Siân Doyle – Prif Weithredwr**
**Aelod Gweithredol**

Cychwynnodd Siân Doyle yn swydd Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo S4C ym mis Ionawr 2022.

Cyn ymuno ag S4C, fe gafodd Siân brofiad helaeth yn y sectorau telegyfathrebu a manwerthu yn y DU, Canada a'r Unol Daleithiau. Roedd yn Reolwr Gyfarwyddwr gyda'r cwmni telathrebu TalkTalk, a chyn hynny roedd yn Gyfarwyddwr Manwerthu gydag EE. Bu hefyd yn Uwch Is-lywydd Manwerthu Comcast Cable yn Philadelphia.

Wedi'i haddysgu yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy graddiodd mewn Hanes a Gwleidyddiaeth o Brifysgol Caerdydd.



**Llinos Griffin-Williams – Prif Swyddog Cynnwys**
**Aelod Gweithredol**

Cyn ymuno ag S4C yn Ebrill 2022, roedd Llinos yn Gyfarwyddwr Creadigol y cwmni cynhyrchu annibynnol o Gaerdydd, Wildflame.

Yn ystod ei chyfnod gyda'r cwmni hwnnw, fe helpodd i arwain y gwaith o symud y cwmni i ddatblygu cynnwys rhyngwladol gyda chytundebau gan ddarlledwyr byd-eang gan gynnwys Discovery+, Paramount+, Smithsonian Channel/ViacomCBS a Science Channel yn ogystal â gwerthu cynnwys i Amazon Prime, Acorn, BritBox a Nat Geo.



**Elin Morris – Prif Swyddog Gweithredu**
**Aelod Gweithredol**

Mae Elin yn dod yn wreiddiol o Lanrhystud, Aberystwyth. Roedd yn gyfreithiwr yn Adran Gorfforaethol Geldards am dros 18 mlynedd.

Cafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol S4C yn 2009, gan ddod yn Brif Swyddog Gweithredu yn 2018.

# Presenoldeb

Mae'r tabl isod yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd Unedol a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

| 01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Y Bwrdd Unedol | Y Pwyllgor Archwilio, a Risg | Y Pwyllgor Cyfathrebu | Y Pwyllgor Cynnwys | Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau |
| Nifer o gyfarfodydd dros y flwyddyn | 6 | 5 | 3 | 4 | 2 |
| Rhodri Williams | 6/6 | X | 3/3 | 4/4 | 2/2 |
| Guto Bebb | 6/6 | 4/5 | 1/3 | 4/4 | X |
| Suzy Davies | 4/5 | 3/3 | 3/3 | X | X |
| Anita George | 1/1 | 1/1 | X | X | X |
| Adele Gritten | 6/6 | X | X | 4/4 | 2/2 |
| Chris Jones | 6/6 | 5/5 | X | X | 2/2 |
| Denise Lewis Poulton | 4/6 | X | 3/3 | 3/4 | X |
| Siân Doyle | 6/6 | X | 3/3 | 4/4 | 2/2 |
| Elin Morris | 6/6 | X | X | X | 2/2 |
| Llinos Griffin-Williams | 5/6 | X | 1/3 | 4/4 | X |

Mynegir presenoldeb fel y nifer o gyfarfodydd a fynychwyd fel aelod swyddogol / y nifer o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fynychu.

# Y Tîm Rheoli

**Mae'r Bwrdd yn dirprwyo nifer o swyddogaethau penodol i'r Prif Weithredwr a'i swyddogion, sy'n ffurfio Tîm Rheoli S4C yn unol â'r Rheolau Sefydlog perthnasol.**

**Y Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am weithrediad S4C o ddydd i ddydd, ac mae'n atebol i Fwrdd S4C drwy'r Prif Weithredwr.**

**Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gymeradwyo penodiadau i'r Tîm Rheoli. Caiff aelodau, penodiadau, newidiadau i'r Tîm Rheoli a thelerau ac amodau'r Tîm Rheoli eu cynnig i'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr, trwy'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau.**

**Aelodaeth 2022–23**
Yn ystod y flwyddyn adrodd, bu newid i gyfansoddiad ac aelodaeth y Tîm Rheoli, gyda rhai prosesau i benodi aelodau newydd heb eu cwblhau ddiwedd Mawrth 2023.

Fe wasanaethodd y canlynol ar y Tîm Rheoli yn ystod 2022–23:



**Siân Doyle**
**Prif Weithredwr**
Siân Doyle took up the post of S4C's Chief Executive and Cychwynnodd Siân Doyle yn swydd Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo S4C ym mis Ionawr 2022.

Cyn ymuno ag S4C, fe gafodd Siân brofiad helaeth yn y sectorau telegyfathrebu a manwerthu yn y DU, Canada a'r Unol Daleithiau. Roedd yn Reolwr Gyfarwyddwr gyda'r cwmni telathrebu TalkTalk, a chyn hynny roedd yn Gyfarwyddwr Manwerthu gydag EE. Bu hefyd yn Uwch Is-lywydd Manwerthu Comcast Cable yn Philadelphia.

Wedi'i haddysgu yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy graddiodd mewn Hanes a Gwleidyddiaeth o Brifysgol Caerdydd.



**Rhidian Dafydd**
**Cyfarwyddwr Prosiectau**
**Aelod o'r Tîm Rheoli rhwng 01.09.2022 a 25.09.2022**
Mynychodd Rhidian Dafydd Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf cyn astudio gradd yn y Gyfraith yng Ngholeg Prifysgol Llundain.

Mae ganddo brofiad o gyfarwyddo nifer o raglenni newid ar raddfa fawr – gan gynnwys yn S4C, ac yn flaenorol Canolfan Ganser Felindre.

Mae Rhidian hefyd yn aelod o Fwrdd Busnes yr Urdd.



**Owen Derbyshire**
**Cyfarwyddwr Marchnata a Digidol**
**Aelod o'r Tîm Rheoli tan 13.10.2022**
Cyn ymuno â Thîm Rheoli S4C ym mis Mawrth 2021, Owen oedd sylfaenydd a Prif Weithredwr Grŵp Datblygu Cymru.

Roedd hefyd yn aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg, Bwrdd Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru, ac yn ymddiriedolwr o'r elusen tai a digartrefedd Shelter Cymru.



**Geraint Evans**
**Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi**
Cyn ei benodiad fel Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi yng ngwanwyn 2022, Geraint Evans oedd Comisiynydd Newyddion a Materion Cyfoes S4C.

Cyn ymuno â S4C, bu'n newyddiadurwr gyda ITV Cymru am 25 mlynedd. Yn Ohebydd ar gyfres materion cyfoes Y Byd ar Bedwar, yna'n Olygydd y gyfres ac yn Bennaeth Rhaglenni Cymraeg ITV.

Yn ITV, datblygodd nifer o gyfresi newydd ffeithiol a materion cyfoes, fel Y Byd yn ei Le, Y Ditectif, ac Ein Byd. Mae wedi derbyn gwobr Bafta Cymru am y rhaglen newyddion a materion cyfoes orau nifer o weithiau ac wedi ennill yr un cydnabyddiaeth gan yr Ŵyl Cyfryngau Celtaidd.

Ers ymuno â S4C yn 2019 mae wedi ail-lansio y rhaglen drafod boblogaidd Pawb a'i Farn, mae wedi comisiynu nifer o ddogfennau materion cyfoes pwerus fel Llofruddiaeth Mike O'Leary, Prif Weinidog mewn Pandemig, a Cadw Cyfrinach ac mae wedi bod yn gyfrifol am arwain darpariaeth Newyddion S4C i'r oes ddigidol drwy ddatblygu gwasanaeth newyddion digidol newydd i S4C.



**Llinos Griffin-Williams**
**Prif Swyddog Cynnwys**
Cyn ymuno ag S4C yn Ebrill 2022, roedd Llinos yn Gyfarwyddwr Creadigol y cwmni cynhyrchu annibynnol o Gaerdydd, Wildflame.

Yn ystod ei chyfnod gyda'r cwmni hwnnw, fe helpodd i arwain y gwaith o symud y cwmni i ddatblygu cynnwys rhyngwladol gyda chytundebau gan ddarlledwyr byd-eang gan gynnwys Discovery+, Paramount+, Smithsonian Channel/ViacomCBS a Science Channel yn ogystal â gwerthu cynnwys i Amazon Prime, Acorn, BritBox a Nat Geo.



**Elin Morris**
**Prif Swyddog Gweithredu**
Mae Elin yn dod yn wreiddiol o Lanrhystud, Aberystwyth. Roedd yn gyfreithiwr yn Adran Gorfforaethol Geldards am dros 18 mlynedd.

Cafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol S4C yn 2009, gan ddod yn Brif Swyddog Gweithredu yn 2018.



**Amanda Rees**
**Cyfarwyddwr Llwyfannau**
Roedd Amanda yn cyfarwyddo, cynhyrchu ac uwch gynhyrchu ystod eang o raglenni ffeithiol i ddarlledwyr ar draws y byd cyn ffurfio ei chwmni ei hun yn 2012. Cafodd ei rhaglen Finding Mum and Dad (i Channel 4) ei henwebu am wobrau Grierson a Broadcast yn 2015.

Fe gafodd Amanda ei phenodi'n Gyfarwyddwr Cynnwys S4C yn Hydref 2016. Ers Rhagfyr 2021, Amanda yw Cyfarwyddwr Llwyfannau S4C.



**Catrin Whitmore**
**Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol**
**Aelod o'r Tîm Rheoli ers 01.09.2022**
Ar ôl dechrau ei gyrfa yn y sector annibynnol, aeth Catrin ymlaen i ymuno â'r BBC, lle bu'n gweithio ar amryw o gynyrchiadau cyn arwain y swyddogaeth Talent yng Nghymru a Bryste ar gyfer BBC Studios.

Yn wreiddiol o'r Rhondda, mae Catrin yn angerddol am feithrin talent a datblygu'r sector greadigol yng Nghymru.



**Gwyn Williams**
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu Corfforaethol**
**Aelod o'r Tîm Rheoli tan 11.11.2022**
Dechreuodd Gwyn ei yrfa yn y cyfryngau gan weithio i Radio Cymru ym Mangor. Wedi hynny bu'n gweithio i Newyddion 7 a Hel Straeon cyn cychwyn ei gwmni cynhyrchu ei hun.

Roedd yn un o sylfaenwyr Cwmni Da ac yna'n brif weithredwr cwmni adnoddau Barcud yng Nghaernarfon.

Cyn cychwyn gyda S4C, roedd yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu gyda Chomisiynydd y Gymraeg.



**Sharon Winogorski**
**Prif Swyddog Cyllid**
Mae Sharon yn gyfrifydd siartredig. Cyn ymuno â S4C yn 1998, gweithiodd Sharon i nifer o gwmnïau a sefydliadau.

Fe'i phenodwyd hi i Dîm Rheoli S4C ym mis Hydref 2018. Mae'n gyfrifol am Adran Gyllid S4C sy'n cynnwys materion ariannol a chyllidebol ar gyfer endidau cyhoeddus a masnachol S4C.

Mae Sharon yn dysgu Cymraeg.

# Strwythur Gwaith Bwrdd S4C

**Mae'r Bwrdd Unedol cysgodol yn cyfarfod yn ôl yr angen, ac o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Cynhelir fel arfer dau 'ddiwrnod strategol' pellach bob blwyddyn, yn ychwanegol i'r cyfarfodydd ffurfiol.**

**Yn ogystal ag aelodau anweithredol a gweithredol y Bwrdd, mae uwch swyddogion eraill o Dîm Rheoli S4C ac Ysgrifennydd y Bwrdd hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ac yn cymryd rhan yn nhrafodaethau'r Bwrdd.**

**Mae Rheolau Sefydlog y Bwrdd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gweithrediad system y Bwrdd Unedol cysgodol, ac yn benodol, darpariaethau sy'n ymwneud â statws yr aelodau gweithredol, gofynion cworwm a hawliau pleidleisio aelodau y Bwrdd. Bydd y darpariaethau hyn yn parhau nes bod y darpariaethau statudol perthnasol sy'n ymwneud â fframwaith llywodraethu S4C yn cael eu diwygio.**

**Mae'r Tîm Rheoli yn darparu gwybodaeth briodol ac amserol ar gyfer aelodau'r Bwrdd, ac mae rhyddid i'r aelodau ofyn am unrhyw wybodaeth bellach y credant sy'n angenrheidiol.**

**Gall pob aelod ofyn am gyngor gan yr Ysgrifennydd a gweithwyr proffesiynol annibynnol ar draul S4C.**

**Mae aelodau'r Bwrdd yn craffu perfformiad S4C mewn perthynas â chyflawni nodau ac amcanion a gytunwyd, maent yn monitro adrodd ar berfformiad. Maent yn craffu cywirdeb gwybodaeth ariannol a sicrhau bod rheolaethau a systemau rheoli risg ariannol yn gadarn ac yn cael eu gweithredu'n briodol.**

**Yn amodol ar adolygiad cyfnodol gan y Bwrdd Unedol cysgodol o'r cyfrifoldebau a'r pwerau a ddirprwyir i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli a chyfrifoldebau statudol trosgynnol y Bwrdd, mae'r cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu polisïau a darparu gwasanaethau S4C, gan sicrhau eu bod yn gyson gyda chylch gorchwyl S4C a'r Strategaeth Cynnwys, wedi ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a thrwyddynt i'r Tîm Rheoli.**

Yn ystod 2022–23, roedd y materion a ystyriwyd gan y Bwrdd Unedol yn cynnwys:
- Cynnydd ar weithredu Strategaeth 2022, a chymeradwyo dashfwrdd ar gyflawni'r Strategaeth i'w gyflwyno i'r DCMS yn chwarterol;
- Datblygu mesuryddion newydd ar gyfer monitro perfformiad cynnwys S4C;
- Datblygu matrics archwaeth risg newydd;
- Ystyried effaith chwyddiant ar gostau cynhyrchu cynnwys, y camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i hyn, a gweithgareddau i reoli costau mewnol S4C;
- Cymeradwyo cyllideb S4C ar gyfer y flwyddyn 2023–24, ac ystyried y rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod wedi hynny;
- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021–22;
- Cymeradwyo Strategaeth Fasnachol newydd;
- Cymeradwyo cynllun rhaglenni ar gyfer y 10 awr o gynnwys fydd y BBC yn darparu i S4C yn 2023–24;
- Ymateb i'r honiadau mewn perthynas â gweithredu polisi caffael S4C;
- Derbyn adroddiadau ar ddatblygiad Mesur y Cyfryngau a'r goblygiadau i S4C, a chynnig arweiniad lle'n berthnasol;
- Ystyried strategaeth S4C ar gyfer ymateb i'r trafodaethau ar ddyfodol Ffi'r Drwydded, dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a datganoli'r cyfrifoldeb dros ddarlledu yng Nghyrmu;
- Cymeradwyo Datganiad Polisi newydd ar Gyfraniad Cymdeithasol S4C;
- Diwygio gwahanol bolisïau, gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno; a
- Chynnal cyfarfod blynyddol gyda chynrychiolwyr o TAC.

### Strwythur Pwyllgorau Bwrdd S4C
Mae gan y Bwrdd nifer o bwyllgorau i oruchwylio gwahanol agweddau o waith S4C.

Mae'r pwyllgorau'n adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Bwrdd, gyda'r Bwrdd yn cymeradwyo argymhellion y pwyllgorau.

I gyd-fynd â chymeradwyo'r strategaeth gorfforaethol newydd, adolygwyd strwythur y pwyllgorau er mwyn ei resymoli. Daeth y strwythur diwygiedig i rym ar 01 Ebrill 2022.

Bellach mae gan y Bwrdd bedwar prif bwyllgor sy'n cefnogi prosesau llywodraethu effeithiol.

Yn ogystal ag aelodau ffurfiol y pwyllgorau – sy'n cynnwys cynrychiolaeth o aelodaeth anweithredol a gweithredol y Bwrdd fel bo'n briodol – mae uwch swyddogion eraill o Dîm Rheoli S4C ac Ysgrifennydd y Bwrdd hefyd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgorau ac yn cyfrannu at y trafodaethau.

Hefyd, mae Panel Cwynion yn cael ei gynnull yn ôl y galw gan y Bwrdd i ystyried materion a godir mewn perthynas â Phroses Gwynion S4C.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi sefydlu Bwrdd y Grŵp Masnachol, i oruchwylio Gweithgareddau Masnachol S4C. Darperir gwybodaeth am y Bwrdd Masnachol hwn ar wahân.

### Y Pwyllgor Archwilio a Risg
Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr (fel Swyddog Cyfrifo S4C) mewn perthynas â threfniadau rheolaeth fewnol a sicrwydd y sefydliad.

Yn ystod 2022–23, roedd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor:
- Chris Jones – Cadeirydd
- Guto Bebb
- Suzy Davies (o 01.08.2022)
- Anita George (tan 01.07.2022)

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y materion a ystyriwyd gan y pwyllgor yn cynnwys:
- Cymeradwyo cynlluniau blynyddol a derbyn adroddiadau perthnasol gan yr archwilwyr mewnol ac allanol;
- Adolygu diweddariadau'r Tîm Rheoli i'r Gofrestr Risg;
- Derbyn adroddiadau sicrwydd penodol ar: gwerth am arian, trefniadau seibr-ddiogelwch, cydleoli, a threfniadau cyhoeddi treuliau;
- Adolygiad o'r Polisi Caffael;
- Gwerthuso gweithrediad y pwyllgor yn erbyn meini prawf arfer da yr NAO;
- Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021–22 i'r Bwrdd Unedol, gan gynnwys adolygu'r Datganiad Llywodraethu.

### Y Pwyllgor Cyfathrebu
Mae'r Pwyllgor Cyfathrebu yn gyfrifol am oruchwylio strategaeth a pherfformiad gweithgareddau cyfathrebu a marchnata corfforaethol S4C ar ran y Bwrdd Unedol.

Yn ystod 2022–23, roedd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor:
- Denise Lewis Poulton – Cadeirydd
- Guto Bebb
- Suzy Davies (o 01.08.2022)
- Siân Doyle, Prif Weithredwr
- Anita George (tan 01.07.2022)
- Llinos Griffin-Williams, Prif Swyddog Cynnwys

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y materion a ystyriwyd gan y pwyllgor yn cynnwys:
- Diweddariadau ar weithgareddau cyfathrebu, marchnata a hyrwyddo;
- Datblygiad personas newydd ar gyfer comisiynu a marchnata;
- Esblygiad brand S4C;
- Datblygiad y Datganiad Polisi ar Gyfraniad Cymdeithasol S4C;
- Arfer gorau o fonitro sylw yn y cyfryngau;
- Strwythur a diwyg yr Adroddiad Blynyddol;

**Y Pwyllgor Cynnwys**
Mae'r Pwyllgor Cynnwys yn gyfrifol am oruchwylio strategaeth a pherfformiad cynnwys a gwasanaethau S4C, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y gynulleidfa.

Yn ystod 2022–23, roedd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor:
- Guto Bebb – Cadeirydd
- Siân Doyle, Prif Weithredwr
- Llinos Griffin-Williams, Prif Swyddog Cynnwys
- Adele Gritten
- Denise Lewis Poulton

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y materion a ystyriwyd gan y pwyllgor yn cynnwys:
- Diweddariadau manwl ar y genres canlynol: drama, chwaraeon, plant, a newyddion digidol;
- Gwerthusiad o'r peilot S4C Lleol;
- Datblygu'r amserlen aml-lwyfan;
- Y broses gomisiynu newydd;
- Adroddiadau perfformiad chwarterol; ac
- Adroddiadau o'r cyfarfodydd rhwng S4C a'r sector.

**Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau**
Mae'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau cyflogaeth S4C a monitro eu heffeithiolrwydd. Mae hefyd yn cynghori'r Bwrdd ar uwch-benodiadau ac, ar ran y Bwrdd, ac yn monitro perfformiad uwch-reolwyr.

Yn ystod 2022–23, roedd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor:
- Adele Gritten – Cadeirydd
- Rhodri Williams, Cadeirydd y Bwrdd
- Siân Doyle, Prif Weithredwr
- Chris Jones
- Elin Morris, Prif Swyddog Gweithredu

Ni fu hawl gan unrhyw un o gyflogeion S4C – boed yn aelodau o'r pwyllgor neu'n gweinyddu – fod yn bresennol pan wnaeth y Pwyllgor ystyried unrhyw fater yn ymwneud â'u cyflogaeth, gan gynnwys canlyniad eu hasesiad blynyddol a thrafodaethau ynghylch eu cyflogau. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, holwyd i'r unigolyn o dan sylw adael y cyfarfod dros dro.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y materion a ystyriwyd gan y pwyllgor yn cynnwys:
- Setliad cyflog blynyddol staff S4C;
- Y broses meincnodi cyflogau;
- Strwythur ac aelodaeth y Tîm Rheoli; a
- Data staffio – gan gynnwys tueddiadau absenoldeb, cychwynwyr a'r rhai sy'n gadael, a hyfforddiant a datblygu.

# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gyfer blwyddyn ariannol 2022–23

**Cymeradwywyd yr adroddiad canlynol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 16 Mai 2023, i'w gyflwyno i Fwrdd Unedol cysgodol S4C, a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo.**

# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gyfer blwyddyn ariannol 2022–23

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac yn rhoi crynodeb o'r busnes a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.**

**Mae'r adroddiad hefyd yn egluro sut mae'r Pwyllgor wedi helpu'r Bwrdd Unedol cysgodol i adolygu amgylchedd rheolaeth fewnol S4C, gwaith y pwyllgor o ran adolygu effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol, yn ogystal â goruchwylio gweithgareddau a phrosesau i sicrhau gwerth am arian.**

**Aelodaeth y Pwyllgor**

Mae gan aelodau'r Pwyllgor amrediad eang o brofiad ym meysydd busnes, cyllid, llywodraethu ac adnoddau dynol sy'n galluogi'r pwyllgor i gyflawni ei gylch gorchwyl mewn modd cadarn ac annibynnol.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23, bu'r unigolion isod yn gwasanaethu fel aelodau o'r Pwyllgor:

- Chris Jones, Cadeirydd
- Guto Bebb
- Suzy Davies (o 01 Awst 2022 ymlaen)
- Anita George (tan 01 Gorffennaf 2022)

Roedd Prif Weithredwr S4C, y Prif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Cyllid ac Ysgrifennydd Bwrdd S4C hefyd wedi mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y cyfnod dan sylw.

Roedd cynrychiolwyr yr archwilwyr mewnol ac allanol hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd fel yr oedd yn briodol.

Mae holl aelodau'r Pwyllgor yn cael hyfforddiant priodol a sesiynau gwybodaeth un i un gyda Chadeirydd y Pwyllgor, Ysgrifennydd Bwrdd S4C, a staff perthnasol eraill fel rhan o'u cynefino.

**Cyfarfodydd**

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod y flwyddyn, sef:

- 26 Mai 2022
- 08 Gorffennaf 2022
- 14 Medi 2022
- 17 Tachwedd 2022
- 16 Chwefror 2023

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

Cafodd holl aelodau'r Bwrdd Unedol cysgodol wahoddiad i ddod i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Gorffennaf 2022 i dderbyn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar yr archwiliad allanol o'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Yn unol ag arferion gorau, mae aelodau'r Pwyllgor yn cyfarfod â'r archwilwyr mewnol ac allanol yn breifat bob blwyddyn – fel arfer cyn y cyfarfod y cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol er ystyriaeth ynddo.

Cyflwynir cofnodion y Pwyllgor yn ffurfiol i'r Bwrdd Unedol ar gofnodion y Pwyllgor ar ôl bob cyfarfod o'r Pwyllgor.

**Cylch Gorchwyl**

Roedd y Bwrdd Unedol wedi adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ystod chwarter olaf 2021–22, yng nghyd-destun adolygiad ehangach o'r strwythur pwyllgorau.

Ers 01 Ebrill 2022, mae'r cyfrifoldeb dros adnoddau dynol a materion cysylltiedig â thaliadau wedi'i drosglwyddo o'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol blaenorol i bwyllgor newydd, sef y Pwyllgor Pobl a Thaliadau. Erbyn hyn, gelwir y Pwyllgor hwn y Pwyllgor Archwilio a Risg, a chytunwyd ar gylch gorchwyl diwygiedig sy'n cyd-fynd â'r arferion a argymhellir yn y sector cyhoeddus.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ei newydd wedd yn cefnogi'r Bwrdd Unedol a'r Prif Weithredwr (fel Swyddog Cyfrifo S4C) yng nghyswllt trefniadau sicrwydd a rheolaeth fewnol y sefydliad. Mae'n atebol i'r Bwrdd Unedol. Mae cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor i'w weld yn www.s4c.cymru.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar gynllun gwaith blynyddol sy'n sicrhau bod yr holl gyfrifoldebau sydd wedi'u nodi yn y cylch gorchwyl yn cael eu hystyried ar yr adeg briodol yn y cylch cyfarfodydd.

# Archwilio Mewnol

**Trefniadau**
Yn ystod 2022–23, parhaodd y Pwyllgor i oruchwylio gwaith archwilwyr mewnol S4C, sef TIAA, gan ystyried eu hadroddiadau, ymateb rheolwyr, a chynlluniau gweithredu a oedd yn ymateb i argymhellion perthnasol. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried asesiad o anghenion archwilio S4C ac wedi cymeradwyo cynllun gwaith blynyddol yr archwilwyr mewnol.

Penodwyd TIAA yn archwilwyr mewnol S4C yn wreiddiol yn 2019, am gyfnod oedd yn cwmpasu'r tair blynedd adrodd hyd 2021–22. Yn dilyn proses dendro gystadleuol yn gynnar yn 2022, roedd y Pwyllgor wedi ailbenodi TIAA yn archwilwyr mewnol o 01 Ebrill 2022 am gyfnod o dair (a hyd at bum) mlynedd.

**Y Cynllun Archwilio Mewnol ac Adroddiadau**
Cyflwynodd TIAA ei Gynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2022–23 i'r Pwyllgor ar 26 Mai 2022. Lluniwyd hwn mewn ymgynghoriad ag uwch reolwyr – y sesiwn gyntaf mewn rhaglen dreigl o archwiliadau a fyddai'n para am dair blynedd (2022–23 hyd 2024–25).

Cwblhaodd TIAA bum archwiliad mewnol yn ystod 2022–23 mewn perthynas â'r canlynol:
• TGCh – Seiberddiogelwch;
• Adnoddau Dynol – Perfformiad a Datblygiad;
• Mesurau Rheoli Ariannol Allweddol;
• Fframwaith Rheoli Risg a
• Llywodraethu – Rheolaeth Strategol.

Roedd un o'r archwiliadau hyn yn gynghorol o ran natur, ac roedd TIAA wedi darparu asesiadau sicrwydd priodol yng nghyswllt gweddill yr archwiliadau a gynhaliwyd. Cyflwynwyd yr holl adroddiadau i'r Pwyllgor i'w hystyried.

Roedd y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar yr holl wendidau ac argymhellion oedd wedi'u nodi yn adroddiad yr Archwilwyr Mewnol, ond rhoddodd sylw penodol i'r meysydd hynny lle'r oedd y casgliad wedi cael effaith sylweddol ar y sgôr sicrwydd.

**Cofnod Argymhellion**
Mae'r Pwyllgor wedi bod yn monitro'r cofnod o argymhellion sydd eto i'w cyflawni, yn rheolaidd, ac wedi ei ddiweddaru. Mae'r Aelodau wedi cael gwybod am y cynnydd yn erbyn yr holl bwyntiau sy'n weddill, wedi cael gwybod pa faterion sydd wedi cael eu datrys ers y cyfarfod diwethaf a pha argymhellion sydd eto i'w cyflawni.

Fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn, cynhaliodd TIAA archwiliad 'Dilynol' i ystyried y cynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad mewnol a godwyd yn 2021–22, yn ogystal â'r rheini a godwyd mewn blynyddoedd blaenorol ond oedd eto i'w cyflawni.

O'r 11 argymhelliad oedd ar ôl i'w hadolygu, canfu'r Archwiliad Mewnol Dilynol bod pedwar ohonynt wedi cael eu rhoi ar waith, roedd un wedi cael ystyriaeth bellach a phenderfyniad wedi'i wneud i beidio â'i roi ar waith, roedd pedwar eto i'w cyflawni ond o fewn amserlen adolygedig roedd y Pwyllgor wedi cytuno iddi, ac roedd dau eto i'w cyflawni ac ar ei hôl hi o ran eu cwblhau.

Cytunodd aelodau'r Pwyllgor i barhau i fonitro gweithrediad y camau oedd yn weddill drwy'r Cofnod Argymhellion mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Perfformiad ac Asesiad yr Archwilwyr Mewnol**
Yn ei Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor ar 16 Mai 2023, roedd TIAA wedi cynnwys hunanasesiad o'i berfformiad yn ystod 2022–23. Roedd 100 y cant o'r archwiliadau wedi cael eu cwblhau o fewn y dyddiau a glustnodwyd ar eu cyfer yn y gyllideb y cytunwyd arni yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2022–23 (2021–22: 100 y cant), ac roedd TIAA wedi cyhoeddi 100 y cant o'i adroddiadau terfynol o fewn 10 diwrnod gwaith i gael ymatebion (2021–22: 95 y cant).

Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon ar gywirdeb y crynodeb ac ar berfformiad cyffredinol yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer y flwyddyn.

**Barn Flynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2022–23**
Cyflwynwyd Barn Flynyddol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol ar gyfer 2022–23 i'r Pwyllgor ar 16 Mai 2023, gan ddatgan bod

*TIAA yn fodlon, yng nghyswllt y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan S4C brosesau rheoli risg, llywodraethu a rheoli rhesymol ac effeithiol ar waith.*

*Mae'r farn hon yn seiliedig ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn unig, ac nid yw'n farn ar holl elfennau'r prosesau rheoli risg, llywodraethu a rheoli nac ar hyfywedd ariannol parhaus nac ar allu'r (sefydliad) i gwrdd â'i rwymedigaethau ariannol. Rhaid i S4C gael y rhain gan ei amrywiol ffynonellau sicrwydd.*

## Archwilio Allanol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol oedd yn gyfrifol am gynnal yr archwiliad allanol o Grŵp S4C ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Cyflwynwyd y Cynllun Archwilio Allanol i'r Pwyllgor ar 16 Chwefror 2023. Cyflwynwyd yr adroddiad a ddeilliodd o hyn – yn crynhoi canlyniad y broses archwilio – i'r Pwyllgor ar 29 Mehefin 2023. Gwahoddwyd holl aelodau'r Bwrdd Unedol i'r cyfarfod hwn i dderbyn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Cyflwynwyd rhai elfennau o Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 – gan gynnwys yr Adroddiad Llywodraethu arfaethedig – i'r Pwyllgor ar 16 Mai 2023 er ystyriaeth. Rhoddodd Aelodau adborth ar y fersiynau drafft hyn.

## Rheoli Risg

Trwy gydol 2022–23, roedd y Prif Swyddog Cyllid wedi cyflwyno adroddiadau a diweddariadau ar y datblygiadau ym maes rheoli risg yn S4C, ynghyd â chopïau o'r Gofrestr Risgiau Strategol. Rhoddwyd gwybod am newidiadau penodol i sgorau risg a'u trafod, felly hefyd ffactorau lliniarol.

Yn ystod 2022–23, roedd y prif risgiau a drafodwyd gan y Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:

- cyd-leoli gwasanaethau darlledu technegol â'r BBC;
- trefniadau seiberddiogelwch, o ran yr amddiffyniad oedd yn cael ei gynnig drwy allanoli systemau technegol allweddol i'r BBC, ac o ran y systemau eraill oedd yn weddill a oedd yn cael eu trefnu'n uniongyrchol gan S4C;
- gweithgareddau cyfathrebu a marchnata o fewn S4C, gan gynnwys eu cadernid mewn cyfnod o newid mewnol; a
- chontractau trydydd parti, a gwytnwch darparwyr allweddol.

## Busnes Arall Allweddol

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried y busnes arall allweddol canlynol:

### Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Caffael

Mewn ymateb i honiadau a wnaed i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â threfniadau caffael yn S4C, roedd y Pwyllgor wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r trefniadau dan sylw gan TIAA.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oedd dim tystiolaeth fod S4C wedi torri'r rheolau caffael cymeradwy. Fodd bynnag, roedd TIAA wedi argymell bod S4C yn tynhau rhai agweddau ar y polisi caffael er mwyn cofnodi'n glir y cyfiawnhad dros benderfyniadau ac annibyniaeth y penderfyniadau hynny.

Cyflwynwyd yr adroddiad ar hyn i'r Pwyllgor ar 16 Chwefror 2023, a gwnaed wyth argymhelliad oedd yn ymwneud ag egluro prosesau / polisïau. Ers hynny, mae'r rheolwyr wedi cyflawni'r holl argymhellion.

### Gweithdrefnau Caffael

Cyflwynwyd adolygiadau i Weithdrefnau Caffael S4C i'r Pwyllgor ar 16 Chwefror 2023 ac roedd yr aelodau wedi cymeradwyo'r rhain. Roedd yr adolygiadau hyn yn ymwneud yn rhannol ag argymhellion a wnaed gan TIAA fel rhan o'r adolygiad annibynnol o drefniadau caffael yn S4C.

### Gwerth am Arian

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol ar asesu a chynnal gwerth am arian yng nghyswllt gwasanaethau S4C.

Roedd effaith chwyddiant ar y gost o gynhyrchu cynnwys hefyd yn ystyriaeth bwysig i'r aelodau yn ystod y flwyddyn – yn nhermau rheoli risg, ac yn nhermau sicrhau gwerth am arian – ac roedd adroddiad ar wahân hefyd wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar y pwnc hwn ar 16 Chwefror 2023.

## Adolygu sut mae'r Pwyllgor yn gweithredu

Yn ystod 2022-23 roedd Ysgrifennydd y Bwrdd wedi adolygu sut roedd y Pwyllgor yn gweithredu yn erbyn y rhestr wirio hunanasesu i Bwyllgorau Archwilio a Risg a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cyflwynwyd yr asesiad a ddeilliodd o hyn i'r Pwyllgor er ystyriaeth ar 16 Chwefror 2023.

Yn gyffredinol, roedd yr aelodau'n cytuno bod y Pwyllgor eisoes yn cydymffurfio â'r arferion a argymhellir i raddau helaeth. Er hynny, cytunwyd ar gwpl o fân bwyntiau gweithredu er mwyn cyd-fynd fwy fyth ag arferion gorau.

## Casgliad a Sicrwydd

Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi adolygu adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol a darparwyr sicrwydd eraill, wedi asesu'r camau roedd y rheolwyr wedi rhoi cychwyn arnynt er mwyn mynd i'r afael â'r materion cysylltiedig â rheolaeth a godwyd, wedi canolbwyntio ar sicrhau bod camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflwyno a'u monitro, ac wedi ystyried gwybodaeth arall a gyflwynwyd iddo.

Ar sail y gwaith hwn, a'r sicrwydd hwn, gall y Pwyllgor Archwilio a Risg roi sicrwydd i'r Bwrdd Unedol cysgodol ei fod yn rhesymol dweud y gall ddibynnu ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol S4C, ei systemau rheoli risg a'i brosesau llywodraethu. Gall y Pwyllgor hefyd sicrhau'r Bwrdd Unedol bod trefniadau'r sefydliad ar gyfer sicrhau gwerth am arian, ar y cyfan, yn effeithiol.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr archwiliadau a gwblhawyd yn rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch y mesurau rheoli yn y meysydd dan sylw, er ei fod yn cydnabod na ddylai rôl y Pwyllgor Archwilio a Risg gymryd lle gweithredu, a chydymffurfio â, mesurau rheoli mewnol, ac mai Tîm Rheoli S4C sy'n gyfrifol am hyn, ac, yn y pen draw, y Bwrdd Unedol.

# Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

Tudalen y pecyn 199

# Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi materion yn cynnwys polisi cyflogaeth a chydnabyddiaeth S4C, ac adroddiad cyflog ar sail rhyw.**

### Cyfleoedd cyfartal

Mae S4C yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n goddef gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, niwroamrywiaeth, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, cyflogaeth rhan-amser neu weithwyr llawn-amser, crefydd, daliadau gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, defnydd o iaith neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a gwneir penodiadau ar sail teilyngdod.

Mae S4C yn gweithredu system arfarnu sy'n pennu amcanion personol ar gyfer pob aelod o staff gan gynnwys y Tîm Rheoli. Mae'r amcanion hyn yn seiliedig ar amcanion corfforaethol blynyddol S4C a chaiff perfformiad mewn perthynas â'r amcanion hyn gan bob aelod o staff ei fonitro a'i werthuso fel rhan o system arfarnu staff S4C.

O dan y polisi cydnabyddiaeth a chytundebau cyflogaeth presennol, nid yw S4C yn gweithredu unrhyw drefniadau cyflog neu gydnabyddiaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad ac nid oes unrhyw daliadau bonws neu elfennau cyflog dewisol yn cael eu talu i staff S4C.

### Cydnabyddiaeth Aelodau Anweithredol y Bwrdd

Caiff cydnabyddiaeth a chyfnod penodiad y Cadeirydd ac aelodau anweithredol y Bwrdd eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Nodir manylion tâl y Cadeirydd a'r aelodau yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

Ni ddyfarnwyd unrhyw gynnydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y cyfnod adrodd i lefel cydnabyddiaeth aelodau anweithredol y Bwrdd na'r Cadeirydd.

### Cydnabyddiaeth Aelodau Gweithredol y Bwrdd

Pennir cydnabyddiaeth aelodau gweithredol y Bwrdd gan aelodau anweithredol y Bwrdd, yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol a Rheolau Sefydlog y Bwrdd.

### Cydnabyddiaeth ar gyfer staff S4C

Mae cyflogau'r Prif Weithredwr, yr Ysgrifennydd ac aelodau'r Tîm Rheoli yn cael eu pennu gan y Bwrdd. Caiff cyflogau aelodau eraill staff S4C eu pennu gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli o fewn y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Caiff pob codiad cyflog cyffredinol ar gyfer aelodau staff ei gadarnhau gan y Bwrdd ar argymhelliad y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli. Cyflog canolrif yr holl staff ac eithrio'r Tîm Rheoli ar 31 Mawrth 2023 oedd £36,867 (ar 31 Mawrth 2022 - £33,757).

### Polisi Cydnabyddiaeth

Yn ystod y flwyddyn adrodd 2022–23, cymeradwyodd y Bwrdd y setliad cyflog blynyddol canlynol ar gyfer cyflogeion S4C:

- Cyflwyno isafswm cyflog o £20,000 i staff presennol ac ar gyfer swyddi newydd yn y dyfodol;
- Cynnydd cyflog o £1,400 ar gyfer cyflogeion sy'n ennill o dan £40,000 y flwyddyn;
- Cynnydd o 3.5% mewn cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau staff sy'n ennill rhwng £40,000 a £70,000 y flwyddyn;
- Cynnydd o 2% mewn cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau staff sy'n ennill rhwng £70,000 a £120,000 y flwyddyn; a
- Dim codiad cyflog ar gyfer y rhai sy'n ennill dros £120,000 y flwyddyn.

Bwriad y setliad cyflog yw sicrhau cydbwysedd rhwng cydnabod cyfraniad pwysig staff i lwyddiant y gwasanaeth gyda'r angen i sicrhau fod costau staffio S4C yn parhau i gyfrif am ganran fechan o gyfanswm gwariant S4C, gan ddarparu gwerth am arian o fewn setliad ariannol presennol S4C.

Mae lefel cydnabyddiaeth penodiadau newydd yn cael ei feincnodi gyda swyddi tebyg o fewn y farchnad er mwyn sicrhau y gall S4C ddenu unigolion sydd â chymwysterau addas.

**Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli**
Cyflog canolrif y Tîm Rheoli ar 31 Mawrth 2023 oedd £115,135 (ar 31 Mawrth 2022 - £106,492). Roedd y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn derbyn 4.4 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio'r Tîm Rheoli (2021–22 - 4.8 gwaith).

Nodir manylion cyflog y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

Ag eithrio'r Prif Swyddog Cynnwys a'r Cyfarwyddwr Llwyfannau, mae holl aelodau'r Tîm Rheoli yn cael eu cyflogi ar gytundebau parhaol.

**Perfformiad y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli**
Mae perfformiad y Prif Weithredwr yn cael ei asesu yn flynyddol gan y Bwrdd. Mae'r broses hon yn cael ei arwain gan y Cadeirydd.

Mae S4C yn gweithredu system o asesu perfformiad ac amcanion personol a chorfforaethol ar gyfer aelodau'r Tîm Rheoli. Caiff yr amcanion hyn eu cytuno rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau unigol y Tîm Rheoli ar ddechrau'r flwyddyn a bydd eu perfformiad yn eu herbyn yn cael eu hasesu gan y Prif Weithredwr yn ystod ac yn dilyn diwedd y flwyddyn.

**Cyfansoddiad gweithlu S4C**
Ar 31 Mawrth 2023, roedd gweithlu S4C yn cynnwys 62% o ferched a 38% o ddynion (ar 31 Mawrth 2022 - 59% yn ferched a 41% yn ddynion).

**Rheoliadau Undebau Llafur (gofynion cyhoeddi amser a neilltuir)**
Yn unol â'r Rheoliadau undebau llafur (gofynion cyhoeddi amser a neilltuir) 2017, mae'r adroddiad hwn yn nodi faint o amser y mae cyflogeion S4C wedi ei dreulio ar faterion yn ymwneud gyda gwaith yr undeb.

Swyddogion undeb perthnasol
Yn ystod y flwyddyn, roedd un cyflogai yn gweithredu fel swyddog undeb perthnasol.

Canran yr amser a dreuliwyd ar waith undebol
Treuliodd y cyflogai perthnasol 9 awr dan gontract ar waith undebol.

Canran y gwariant cyflogau sy'n cael ei wario ar amser ar gyfer gwaith undebol
Roedd llai nag 1% o gyfanswm y bil cyflog yn cael ei wario ar amser ar gyfer gwaith undebol.

**Adroddiad Cyflog ar Sail Rhyw**
Daeth deddfwriaeth cyflog rhwng y rhywiau newydd i rym ym mis Ebrill 2017, gan ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni yn y DU sydd â thros 250 o weithwyr gyhoeddi eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Er nad oes gan S4C fwy na 250 o weithwyr, rydym wedi penderfynu cyhoeddi data cyflog ar sail rhyw.

Mae bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog yr holl staff benywaidd a chyflog cyfartalog yr holl staff gwrywaidd, heb ystyried unrhyw wahaniaethau yn y gwaith y maent yn ei wneud. O ganlyniad, mae'n cael ei effeithio gan natur y gweithlu, gan gynnwys niferoedd mewn gwahanol fathau o swyddi ac ar lefelau gwahanol o fewn y sefydliad.

Nod S4C yw sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws ein gweithlu, o ran statws, cydnabyddiaeth ariannol a natur y gwaith.

Ar draws y sefydliad cyfan, roedd y bwlch canolrif mewn cyflogau rhwng y rhywiau ar gyfartaledd yn 12.2% (2021–22 – 12.2%) a'r bwlch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau yn 23.3% (2021–22 – 22.0%).

Nodir isod ddata ar gyfer canran y staff gwrywaidd a benywaidd a'r bwlch cyflog o fewn sectorau a elwir yn chwarteli (sy'n fandiau cyflog o'r un maint, o'r 25% o weithwyr ar y cyflog isaf i'r 25% ar y cyflog uchaf).

Yn ystod y flwyddyn cynyddodd nifer staff S4C gan arwain at newid nifer y staff ym mhob chwartel. Mae'r chwartel uchaf yn parhau i adlewyrchu cydbwysedd rhwng y rhywiau bron i 50:50. Tra ein bod wedi gweld gwelliannau bychain yn y chwarteli uchaf, canol uchaf, a chanol isaf o ran y bwlch cyflog canolrifol, mae'r un dangosydd wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf yn y chartel isaf.

Yn y ddau chwartel isaf, mae dal gennym anghydbwysedd yn y rhaniad rhwng y rhywiau, gyda mwy o swyddi'n cael eu gwneud gan fenywod.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau, cynhaliodd S4C hyfforddiant Amrywiaeth a Chydraddoldeb i'w holl staff. Yn ogystal, rydym yn cymryd camau addas i gefnogi'r sefydliad i hybu ymwybyddiaeth ac arfer gorau yn fwy cyffredinol oddi fewn i'r sefydliad. Mae S4C yn cynnig gweithio hyblyg a hybrid ar ei holl swyddi gwag, yn ogystal â sicrhau bod y swyddi'n cael eu hysbysebu ar ystod eang o lwyfannau, gan gymryd camau penodol i gyrraedd pobl o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector.

Mae gan S4C banel personél sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod swyddi gwag, newidiadau i swyddi a chyflogau. Mae pob cyflog yn cael ei feincnodi'n allanol gyda diwydiannau tebyg.

Mae S4C yn parhau i gymryd camau priodol i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymhellach, gan gynnwys y mentrau a grybwyllir uchod, ochr yn ochr ag adolygiad rheolaidd o arfer gorau yn y diwydiant ac yn y bydd corfforaethol yn ehangach.

| Blwyddyn | Cyfanswm | | Chwartel uchaf | | Canol uchaf | | Canol is | | Chwartel Isaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw |
| % staff | | | | | | | | | | |
| **2022/23** | **38%** | **62%** | **45%** | **55%** | **65%** | **35%** | **16%** | **84%** | **27%** | **73%** |
| 2021/22 | 41% | 59% | 47% | 53% | 63% | 37% | 23% | 77% | 30% | 70% |
| Salary % gap | | | | | | | | | | |
| **2022/23** | **£45,000** | **£34,528** | **£76,442** | **£73,268** | **£44,291** | **£45,914** | **£32,000** | **£32,843** | **£26,758** | **£25,450** |
| **Canolrif bwlch cyflog % 2022/23** | **23.3%** | | **4.2%** | | **-3.7%** | | **-2.6%** | | **4.9%** | |
| 2021/22 | £41,046 | £32,000 | £76,015 | £71,112 | £41,850 | £44,361 | £32,400 | £30,518 | £24,000 | £23,948 |
| Canolrif bwlch cyflog % 2021/22 | 22.0% | | 6.5% | | -6.0% | | 5.8% | | 0.2% | |
| Salary % gap | | | | | | | | | | |
| **2022/23** | **£50,399** | **£44,267** | **£77,073** | **£84,882** | **£45,693** | **£45,151** | **£32,860** | **£33,130** | **£26,447** | **£25,603** |
| **Cyfartaledd bwlch cyflog % 2022/23** | **12.2%** | | **-10.1%** | | **1.2%** | | **-0.8%** | | **3.2%** | |
| 2021/22 | £47,606 | £41,782 | £76,641 | £79,962 | £43,061 | £43,499 | £31,871 | £30,877 | £24,274 | £23,736 |
| Cyfartaledd bwlch cyflog % 2021/22 | 12.2% | | -4.3% | | -1.0% | | 3.1% | | 2.2% | |

# Adroddiad Cynaliadwyedd

# Adroddiad Cynaliadwyedd

**Ers y flwyddyn adrodd 2021–22, mae'n ofynnol i S4C gynhyrchu Adroddiad Cynaliadwyedd blynyddol. Dyma'r ail adroddiad o'i fath, ac felly mae'n cynnig cymhariaeth o berfformiad ar wahanol fesuryddion cynaliadwyedd o'i gymharu â'r llynedd.**

Nid yw S4C yn cynhyrchu ei chynnwys ei hun. Ers mis Medi 2021, rydym wedi ffurfio partneriaeth â chonsortiwm albert BAFTA, ac rydym yn gweithio gyda'n cyflenwyr i sicrhau bod cynnwys yn cael ei gynhyrchu'n gynaliadwy ac yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar yr amgylchedd.

Roedd S4C yn un o 12 o ddarlledwyr a ffrydiwyr ddaeth ynghyd yn ystod Tachwedd 2021 i ymrwymo i'r Addewid Cynnwys Hinsawdd, oedd wedi ei drefnu gan albert. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio ein cynnwys i helpu cynulleidfaoedd i ddeall beth allai mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ei olygu iddynt hwy, yn ogystal ag ysbrydoli a llywio dewisiadau cynaliadwy.

O ran gweithrediadau corfforaethol S4C, mae adleoli ein pencadlys i Ganolfan S4C Yr Egin – a sicrhaodd dystysgrif Rhagorol BREEAM ar gyfer cynaliadwyedd – a chydleoli ein gweithrediadau technoleg darlledu gyda BBC Cymru Wales yn eu pencadlys yn y Sgwâr Canolog, wedi arwain at lai o ddefnydd o ynni ac allyriadau.

Mae'r data ar gyfer 2021–22 yn ymwneud ag allyriadau a defnydd S4C yn Yr Egin yn ystod cyfnod a oedd yn cynnwys cyfyngiadau cenedlaethol mewn ymateb i bandemig Covid-19, a oedd yn cynnwys gofyniad bod staff yn gweithio gartref lle'n bosib. Felly, rydym yn disgwyl y bydd y ffigurau cymharol ar gyfer 2022–23 a'r blynyddoedd wedi hynny yn uwch, gan adlewyrchu ailddechrau cynnal arferion busnes arferol.

**Allyriadau nwyon tŷ gwydr**

| | | | Mesur | 2021–22 | 2022–23 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwmpas 1 – Allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol | Cyfanswm allyriadau gros Cyrhaeddiad 1 | | tCO2e | 19 | 19 | — |
| | Allyriadau o: | Nwy | tCO2e | 19 | 19 | — |
| | | Olew | tCO2e | 0 | 0 | — |
| | | Tanwydd (gan gynnwys LPG) | tCO2e | 0 | 0 | — |
| Cwmpas 2 – Allyriadau anuniongyrchol o ynni | Cyfanswm allyriadau gros Cyrhaeddiad 2 | | tCO2e | 8 | 5 | ↓ |
| | Allyriadau o: | Trydan | tCO2e | 8 | 5 | ↓ |
| Cwmpas 3 - Allyriadau teithio swyddogol | Cyfanswm allyriadau gros Cyrhaeddiad 3 | | tCO2e | 18 | 57 | ↑ |
| | Allyriadau o: | Teithio busnes domestig | tCO2e | 18 | 21 | ↑ |
| | | Teithio busnes rhyngwladol | tCO2e | | 36 | ↑ |

Tudalen y pecyn 204

## Defnydd o ynni

| | | Mesur | 2021-22 | 2022-23 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Trydan | | kWh | 8,000 | 21,000 | ↑ |
| Trydan | Adnewyddadwy | kWh | 7,000 | 21,000 | ↑ |
| | Dim modd ei adnewyddu | kWh | 1,000 | 0 | ↓ |
| Nwy | | kWh | 19,000 | 82,000 | ↑ |
| LPG | | kWh | 0 | 0 | = |
| Arall | | kWh | 0 | 0 | = |

## Gwastraff

| | | Mesur | 2021-22 | 2022-23 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gwastraff a waredwyd | | tunnell | 1.00 | 1.15 | ↑ |
| Gwaredu gwastraff peryglus | | tunnell | 0.00 | 0.00 | = |
| Gwaredu gwastraff nad yw'n beryglus | Tirlenwi | tunnell | 0.00 | 0.00 | ↓ |
| | Ailgylchu | tunnell | 1.00 | 0.64 | ↑ |
| | Gwastraff TGCh wedi'i ailgylchu, ei ailddefnyddio a'i adfer (allanol) | tunnell | 0.00 | 0.00 | = |
| | Compostio | tunnell | 0.00 | 0.00 | = |
| | Llosgi gan adfer ynni | tunnell | 0.00 | 0.51 | ↑ |
| | Llosgi heb adfer ynni | tunnell | 0.00 | 0.00 | = |

## Defnydd o Adnoddau Cyfyngedig

| | | Mesur | 2021-22 | 2022-23 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Y defnydd o ddŵr (Y stad swyddfeydd) | Cyflenwyd | m3 | 52 | 97 | ↑ |
| | Tynnwyd | m3 | 0 | 0 | = |
| | Casglwyd | m3 | 0 | 0 | = |
| Y defnydd o ddŵr (Y stad heblaw swyddfeydd) | Cyflenwyd | m3 | 0 | 0 | = |
| | Tynnwyd | m3 | 0 | 0 | = |
| | Casglwyd | m3 | 0 | 0 | = |
| Defnydd papur - A4 | Cyflenwyd | Pentyrrau o bapur | 40 | 18 | ↓ |
| Defnydd papur - A3 | Cyflenwyd | Pentyrrau o bapur | 0 | 0 | = |

## Cerbydau

| | Mesur | 2021-22 | 2022-23 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cerbydau (Dan berchnogaeth, wedi'u llogi a dan brydles) | Nifer y cerbydau | 20 | 26 | ↑ |
| % y cerbydau a gategoreiddiwyd fel Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) | % o gerbydau | 0 | 70 | ↑ |

# Cyfrifon 2022-23

# Datganiad Ariannol 2022/23

## Adroddiad S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2023

### Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Datganiad Ariannol S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2023, ynghyd â nodiadau esboniadol.

Cyflwynir Datganiad Ariannol S4C am y flwyddyn a derfynodd ar 31 Mawrth 2023 yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i S4C ym mis Mawrth 2020.

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno asesiad cytbwys o sefyllfa a rhagolygon S4C yn yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyflwyno yn ôl gofynion statudol.

### Prif weithgareddau

Mae S4C yn gweithredu o dan Adrannau 203 hyd 207 (yn gynwysiedig) ac Atodlen 12 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Adran 204 yn darparu bod S4C yn gweithredu i ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu o safon uchel gyda'r bwriad iddynt fod ar gael yn gyfan gwbl neu yn bennaf i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth gyflawni'r swyddogaeth honno, rhaid i S4C barhau i ddarlledu'r gwasanaeth digidol a adnabyddir mewn deddfwriaeth fel S4C digidol.

### Strwythur grŵp

Mae is-baragraffau (2) a (3) Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel y'u diwygiwyd gan Adran 206 (6) Deddf Cyfathrebiadau 2003) yn caniatáu i S4C, i'r graddau ei bod yn ymddangos iddynt bod gwneud hynny'n atodol neu'n arweiniol i gyflawni eu swyddogaeth, i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau masnachol, trwy gwmnïau S4C gan ddefnyddio cyllid masnachol yn unig. Yn ogystal, mae'r darpariaethau trawsnewidiol ym mharagraff 27 Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn caniatáu i S4C barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau masnachol, a oedd yn cael eu cyflawni yn syth cyn dechreuad Adran 206, naill ai eu hunain neu drwy un o gwmnïau S4C.

O fewn y Datganiad Ariannol cyfun hwn, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at yr asedau nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol.

### Cyllid

Mae'r darpariaethau'n ymwneud â gofynion ariannol S4C wedi eu nodi yn Adran 31 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae'r adran yn rhoi dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau y telir swm i S4C y mae o'r farn ei fod yn ddigonol i dalu cost S4C bob blwyddyn ar gyfer (a) darparu gwasanaethau cyhoeddus S4C (o fewn ystyr Adran 207 Deddf Cyfathrebiadau 2003); a (b) threfnu i ddarlledu neu ddosbarthu'r gwasanaethau hynny. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyflawni'r ddyletswydd hon drwy wneud taliadau ei hun neu lunio cytundeb ag unigolyn arall i'r unigolyn hwnnw wneud hynny (neu'r ddau). Rhaid i'r cyfryw gyllid gael ei gadw yn y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'i gymhwyso at ddibenion darparu gwasanaethau cyhoeddus S4C yn unig. Ni chaniateir unrhyw gymhorthdal o'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer unrhyw un o is-gwmnïau S4C.

Yn ystod y flwyddyn, daeth cyllid S4C o ffi'r drwydded trwy'r BBC.
Mae S4C hefyd yn cynhyrchu refeniw drwy weithgareddau masnachol, gan gynnwys gwerthiant hysbysebion a nawdd rhaglenni.

Cafodd y darpariaethau sy'n ymwneud â chyfraniad ffi'r drwydded ar gyfer 2022/23 eu hamlinellu yng Nghytundeb Fframwaith y BBC gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, (fel y'u diwygiwyd Mai 2022) sy'n cynnwys y darpariaethau ariannol gytunwyd arnynt rhwng y BBC, yr Ysgrifennydd Gwladol ac S4C o 2022/23 i 2026/27.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi'r symiau y bydd y DCMS yn eu cyfrannu i S4C am 2022/23 mewn llythyr setliad Ffi Drwydded ar 21 Ionawr 2022. Mae'r penderfyniad hwn yn gymwys am weddill gyfnod y setliad hyd at 31 Mawrth 2028.

### Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Throsiant y Gronfa Gyffredinol

Roedd y cyfanswm a dderbyniwyd oddi wrth yr BBC yn ystod y cyfnod yn £88.850m (cyfnod i 31 Mawrth 2022 - £81.351m oddi wrth yr Adran dros Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC). Defnyddiwyd yr incwm hwn i gyllido costau comisiynu a phrynu rhaglenni Cymraeg, costau darlledu S4C, gwariant ar asedau sefydlog a gorbenion. Mae balans yr incwm hwn, ar ôl cost darlledu rhaglenni a chostau gweithredu a gweinyddu, felly yn cynrychioli'r prif fodd o gyllido asedau net S4C ac yn cael ei drin fel incwm gohiriedig yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Crëwyd trosiant y Gronfa Gyffredinol trwy werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïo, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi. Yn y cyfnod a derfynodd 31 Mawrth 2023, roedd cyfanswm y trosiant hwn yn £1.922m (cyfnod i 31 Mawrth 2022 - £1.986m). Rhoddir manylion pellach yn nodyn 3 i'r Datganiad Ariannol.

### Gwariant

Mae'r costau a roddwyd yn erbyn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn ystod y cyfnod yn cynnwys £91.769m (cyfnod i 31 Mawrth 2022 - £82.842m) ar gyfer costau'r gwasanaeth rhaglenni a chostau darlledu a dosbarthu, £0.930m ar gyfer costau uniongyrchol eraill (cyfnod i 31 Mawrth 2022 - £0.878m) a £3.225m (cyfnod i 31 Mawrth 2022 - £2.882m) ar gyfer costau gweithredu a gweinyddu. Roedd costau'r rhaglenni a ddarlledwyd yn cynnwys £72.985m (cyfnod i 31 Mawrth 2022 - £66.534m) ar gyfer costau rhaglenni a gomisiynwyd neu a brynwyd gan gyflenwyr rhaglenni ac ailddarllediadau. Mae'r costau darlledu a dosbarthu yn codi mewn perthynas â llwyfannau digidol daearol a lloeren gan gynnwys gwasanaethau fideo ar alw a ddarperir gan gontractwyr. Roedd y gweddill yn gostau uniongyrchol comisiynu a chyflwyno rhaglenni, costau gweithredol gwasanaethau mynediad S4C ynghyd â chostau darlledu perthnasol eraill y gwasanaeth rhaglenni megis costau marchnata a chostau ymchwil cynulleidfa.

Mae costau uniongyrchol eraill yn cynnwys rhaniad elw a oedd yn daladwy i drydydd partïon mewn perthynas â gwerthu rhaglenni, comisiwn asiantaeth a chostau darlledu sy'n ymwneud â hysbysebion a chostau darlledu digidol yn ymwneud â gofod darlledu S4C2 Cyf. Ceir manylion pellach am gostau gweithredu a gweinyddu S4C yn nodyn 4 i'r Datganiad Ariannol.

# Datganiad Ariannol 2022/23

## Adroddiad S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2023

Derbynnir incwm gan y BBC cyn i'r holl gostau gael eu codi ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Ar ddyddiad y Fantolen, trosglwyddir unrhyw incwm a dderbynnir ymlaen llaw i'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus. Trosglwyddwyd £3.844m o'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus ar 31 Mawrth 2023 (Ar 31 Mawrth 2022 - £2.786m i'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus).

**Polisi talu**

Mae'n bolisi gan S4C i gytuno ar amodau a thelerau addas ar gyfer ei thrafodion â chyflenwyr ac, yn amodol ar eu cydymffurfiad, gwneir taliadau yn unol â'r telerau hyn. Yn arferol yn ystod y flwyddyn, talwyd 91% (cyfnod i 31 Mawrth 2022 - 92%) o gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod.

## Oriau a ddarlledwyd a chyfartaledd cost yr awr

Yn ystod y cyfnod darlledodd S4C gyfanswm o 6,544 awr o raglenni (cyfnod i 31 Mawrth 2022 - 6,506 awr), yn cynrychioli cyfartaledd o 125.8 awr yr wythnos (cyfnod i 31 Mawrth 2022 - 125.1 awr).

Cafodd yr oriau statudol a ddarparwyd gan y BBC, a oedd yn cynnwys elfen o ailddarlledu, eu darparu i S4C o dan Adran 58 (1) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y nodwyd yn Adran 29 o Ddeddf Darlledu 1996) ac fe'u hariannwyd gan y BBC o refeniw ffi'r drwydded. Yn ogystal, gwnaeth S4C daliadau o £1.615m ar gyfer cynnwys chwaraeon a bwletinau tywydd (dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022 – £0.7m ar gyfer Pobol y Cwm a bwletinau tywydd) sydd ddim yn cael eu darparu fel rhan o'r oriau statudol.

Yn ystod 2022/23 cynyddodd nifer yr oriau a gomisiynwyd gyda'r BBC o ganlyniad i ddarllediadau digwyddiadau arbennig yn 2022 – Cwpan y Byd FIFA lle gyrhaeddodd Cymru y rowndiau terfynol am y tro gyntaf ers 1958, a rhaglenni ychwanegol yn gysylltiedig â marwolaeth y Frenhines.

Yn ystod y cyfnod darlledodd S4C 1,278 awr (cyfnod i 31 Mawrth 2022 - 1,278 awr) o raglenni Cymraeg yn yr oriau brig rhwng 6.30 y.p. a 10.00 y.p. sy'n gyfartaledd yr wythnos o 24.6 awr (cyfnod i 31 Mawrth 2022 - 24.6 awr).

Nid yw'r oriau â ddarlledwyd na chost cyfartalog yr awr yn gynnwysiedig ym marn y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar y datganiadau ariannol.

| | **2022/23** | | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Oriau** | **Cost yr awr £** | Oriau | Cost yr awr £ |
| **Rhaglenni a gomisiynwyd** | | | | |
| Cynyrchiadau annibynnol | **1,477** | **46,667** | 1,428 | 43,863 |
| BBC | **103** | **15,678** | 52 | 13,015 |
| | **1,580** | **44,647** | 1,480 | 42,779 |
| Rhaglenni a brynwyd | **88** | **11,551** | 123 | 8,649 |
| **Ailddarllediadau** | | | | |
| Cynyrchiadau annibynnol | **4,266** | **334** | 4,303 | 501 |
| BBC | **87** | **-** | 95 | - |
| | **6,021** | **12,122** | 6,001 | 11,087 |
| BBC - Oriau Statudol | **523** | **-** | 505 | - |
| **Cyfanswm** | **6,544** | | 6,506 | |
| Cyfartaledd yr wythnos | **125.8** | | 125.1 | |

Rhaglenni a ddarlledwyd yn ôl categori

| **Rhaglenni a gomisiynwyd** | **2022/23** | | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Oriau** | **Cost yr awr £** | Oriau | Cost yr awr £ |
| Drama | **64** | **174,729** | 80 | 193,514 |
| Ffeithiol Cyffredinol | **498** | **33,591** | 517 | 34,537 |
| Materion Cyfoes a'r Tywydd | **89** | **32,240** | 97 | 31,223 |
| Cerdd Ysgafn / Adloniant | **156** | **75,412** | 124 | 64,929 |
| Plant | **265** | **26,877** | 312 | 18,320 |
| Cerddoriaeth a Chelfyddydau | **103** | **49,313** | 28 | 57,500 |
| Chwaraeon | **379** | **38,192** | 296 | 35,106 |
| Crefydd | **26** | **50,840** | 26 | 45,355 |
| **Cyfanswm** | **1,580** | **44,647** | 1,480 | 42,779 |

## Cynnwys ychwanegol cyhoeddwyd (ac eithrio cyfryngau cymdeithasol)

Yn ychwanegol i'r cynnwys comsiynwyd uwchben, cyhoeddiwyd 58 awr o gynnwys digidol yn y flwyddyn am £1.834m (73 awr am £1.699m yn 2021/22).

| | 2022/23 | | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaglenni a gomisiynwyd** | **Oriau** | **Cost yr awr £** | Oriau | Cost yr awr £ |
| Drama | **3** | **32,842** | 2 | 28,345 |
| Ffeithiol Cyffredinol | **5** | **26,707** | 7 | 17,326 |
| Materion Cyfoes a'r Tywydd | **4** | **48,903** | 5 | 12,232 |
| Cerdd Ysgafn / Adloniant | **2** | **77,476** | 7 | 26,272 |
| Plant | **28** | **30,828** | 29 | 22,496 |
| Cerddoriaeth a Chelfyddydau | **7** | **32,449** | 11 | 27,957 |
| Chwaraeon | **9** | **17,896** | 1 | 38,247 |
| Teledu Lleol | **-** | **-** | 11 | 26,219 |
| **Cyfanswm** | **58** | **31,621** | 73 | 23,277 |

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| **BBC** | **Oriau** | Oriau |
| Drama | **63** | 71 |
| Newyddion | **246** | 219 |
| Materion Cyfoes a Ffeithiol | **19** | 33 |
| Adloniant Ysgafn | **-** | - |
| Pobl Ifanc a Phlant | **16** | 16 |
| Cerddoriaeth a Chelfyddydau | **89** | 24 |
| Chwaraeon | **90** | 142 |
| **Cyfanswm** | 523 | 505 |

# Datganiad o Gyfrifoldebau

## Paratoi Datganiadau Ariannol

Yn y datganiadau Ariannol hyn mae cyfarwyddwyr yn cyfeirio at Fwrdd S4C, Swyddog Cyfrifo S4C a chyfarwyddwyr is-gwmnïau masnachol S4C.

**(a)** Mae'n ofyniad hanfodol o dan gyfraith cwmnïau'r Deyrnas Unedig i gyfarwyddwyr sicrhau bod eu datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan roi darlun gwir a theg o sefyllfa eu cwmni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o'r elw neu'r golled ar gyfer y cyfnod hwnnw.

**(b)** At hynny, mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr:

- fabwysiadu polisïau cyfrifo addas a'u defnyddio'n gyson;
- lunio arfarniadau a gwneud amcangyfrifon yn rhesymol ac yn ddoeth;
- gydymffurfio â safonau cyfrifo sy'n gymwys; a
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn anaddas i gymryd bod y cwmni'n mynd i barhau mewn busnes.

**(c)** Mae cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am:

- sicrhau bod cofnodion cyfrifo digonol yn cael eu cadw i ddiogelu asedau'r cwmni; ac
- i gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Cyn belled a bod y cyfarwyddwyr yn ymwybodol:

- Nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y grŵp yn ymwybodol ohoni; ac mae'r cyfarwyddwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi ei gynnwys ar wefan y cwmni. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Yn achos S4C, mae'r cyfrifoldeb am baratoi Datganiad Ariannol wedi ei roi ar S4C fel corff statudol o dan Ddeddf Darlledu 1990, Atodlen 6, paragraffau 12 a 13 (fel yr addaswyd).

Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifo, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, yn gyfrifol am sicrhau bod y Datganiad Ariannol yn cael ei baratoi, ac am weithredu'r camau rheoli.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod Datganiad Ariannol S4C yn cydymffurfio â'r holl ofynion priodol. Mae'r Bwrdd yn ystyried ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ym mhob un o'r agweddau uchod.

## Busnes Gweithredol

Mewn perthynas ag asesu hyfywedd y busnes, mae'r Bwrdd wedi asesu rhagolygon busnes S4C am y cyfnod hyd at fis Mawrth 2027. Mae'r cyfnod hwn yn berthnasol i fusnes S4C gan ei fod yn ymwneud â chyfnod setliad Ffi'r Drwydded hyd at 31 Mawrth 2027, gan gynnwys darpariaethau cymal 39 o Gytundeb Fframwaith y BBC (a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2016).

Mae'r Bwrdd wedi ystyried dyletswydd statudol yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau cyllid digonol i S4C er mwyn iddo allu darparu ei wasanaethau darlledu cyhoeddus a'r setliad cyllido ar gyfer y cyfnod 2022 i 2027.

Yn ei asesiad cyffredinol o hyfywedd busnes S4C, mae'r Bwrdd wedi:

- ystyried y ddyletswydd statudol i sicrhau cyllid digonol i S4C er mwyn iddo allu darparu ei wasanaethau darlledu cyhoeddus;
- cymeradwyo cyllideb grŵp S4C hyd at 31 Mawrth 2024 gan ystyried archwaeth risg y Bwrdd, strategaeth S4C, a'i gylch gwaith o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Roedd y gyllideb yn cynnwys refeniw a chost ynghyd â'i sefyllfa ariannol bresennol a'i adnoddau ariannol.
- ystyried trefniadau TAW S4C;
- adolygu amcanion strategol a strategaeth cynnwys S4C ar gyfer 2022/23. Yn dilyn cadarnhad o'r setliad cyllido ar gyfer y cyfnod 2022 - 2027, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo strategaeth ar gyfer y cyfnod hwnnw;
- adolygu disgwyliadau cynulleidfa o wasanaethau S4C. Monitrodd y Bwrdd ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth yn weithredol trwy gydol y flwyddyn ac ymgynghorwyd yn eang â'r gynulleidfa trwy ystod o wahanol ddulliau. Trwy weithio'n agos â chynhyrchwyr annibynnol, mae S4C wedi trafod sylwadau cynulleidfa a nodi ffyrdd o wella'r allbwn rhaglenni tra hefyd yn sicrhau gwerth am arian drwy'r cydweithio hwn.
- ystyried y gofrestr risg strategol a phob un o'r prif risgiau ac ansicrwydd a nodir yn yr Adroddiad Llywodraethu uchod, gan gynnwys sut y cânt eu rheoli;
- ystyried cynllun Covid-19 S4C a ffyrdd newydd o weithio ar ôl Covid-19;
- ystyried adroddiadau sy'n crynhoi gwaith sicrwydd busnes yn ystod y flwyddyn; ac
- adolygu'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad arferol y busnes sy'n cynnig y sylfaen i roi strategaeth hirdymor S4C ar waith.

Tudalen y pecyn 211

# Datganiad o Gyfrifoldebau

Er nad yw'r asesiad hwn yn ystyried yr holl risgiau y gallai S4C eu hwynebu, mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod ei asesiad o'r risgiau strategol y mae S4C yn eu hwynebu yn gadarn.

Ar sail canlyniadau ei weithgareddau yn ymwneud â'r prif risgiau a hyfywedd a'r darpariaethau statudol yn ymwneud â chyllid digonol i S4C, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rwymedigaethau, pan fyddant yn ddyledus. Am y rheswm hwn, mae'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r Datganiad Ariannol.

### Annibyniaeth yr archwilwyr allanol

Mae'r Bwrdd yn cynnal perthynas briodol gydag archwilwyr allanol.

### Archwilwyr Allanol

Mae adroddiad yr archwilydd allanol, y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, ar y Datganiad Ariannol i'w gael ar dudalennau 95 i 96.

Ar orchymyn y Bwrdd

Siân Doyle
Prif Weithredwr

07 Gorffennaf 2023



# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I FWRDD SIANEL PEDWAR CYMRU (S4C), SY'N CYDNABOD BOD DAU DŶ'R SENEDD HWYTHAU'N RHOI DIBYNIAETH AR ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL S4C

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Grŵp S4C, sy'n cynnwys Awdurdod S4C a'i is-gwmnïau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol am S4C a'i Grŵp:

- Y Fantolen Gyfunol a Mantolen y Grŵp ar 31 Mawrth 2023;
- Y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r Datganiadau Cyfunol a Datganiadau S4C o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu o bwys.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi datganiadau ariannol Grŵp S4C yw'r gyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion S4C a'i Grŵp ar 31 Mawrth 2023, a'i golled ar ôl trethiant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Darlledu 1990 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd faterol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) (ISAs y DU), y gyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 y ddogfen Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022). Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn adran Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Dan y safonau hynny, mae'n ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar S4C a'i Grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd S4C a'i Grŵp o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu S4C a'i Grŵp i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a Bwrdd Cyfarwyddwyr S4C mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol nac ychwaith fy nhystysgrif a'm hadroddiad fel yr archwilydd. Bwrdd Cyfarwyddwyr a Swyddog Cyfrifyddu S4C sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gefais yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn faterol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol posib, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad, mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am S4C a'i Grŵp a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau materol yn yr Wybodaeth Arall Statudol.
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- Na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan S4C a'i Grŵp neu os na chafwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- Nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau Bwrdd a Swyddog Cyfrifyddu S4C am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau, mae Bwrdd a Swyddog Cyfrifyddu S4C yn gyfrifol am y canlynol:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ac esboniadau ychwanegol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bersonau o fewn S4C a'i Grŵp y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath ar waith yn ôl yr angen i alluogi paratoi'r datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau materol, boed hynny oherwydd twyll neu wall;
- sicrhau bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac yn cael eu paratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Darlledu 1990;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Darlledu 1990; ac

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I FWRDD SIANEL PEDWAR CYMRU (S4C), SY'N CYDNABOD BOD DAU DŶ'R SENEDD HWYTHAU'N RHOI DIBYNIAETH AR ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL S4C

- asesu gallu S4C a'i Grŵp i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan S4C a'i Grŵp yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a mynegi barn arnynt yn unol â'r Weithred Gytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac S4C dyddiedig 7 Mai 2019 yn unol â gofynion Deddf Darlledu 1990, a Safonau Archwilio Rhyngwladol.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau materol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad materol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn faterol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### Y graddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Lluniaf weithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau materol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau cam-ddatgan materol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll:

- ystyriais natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol, gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu S4C a'i Grŵp.
- holais y rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol S4C a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau S4C a'i Grŵp ynghylch:
  - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - o canfod ac ymateb i risgiau twyll; a'r
  - o rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau S4C a'i Grŵp mewn perthynas â chydymffurfiaeth S4C â Deddf Darlledu 1990 a Deddf Darlledu 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003;

- holais y rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol S4C a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
  - o a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - o a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
- cefais drafodaeth â'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol ac allanol, megis arbenigwyr pensiynau, ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn S4C a'i Grŵp ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a thuedd yn amcangyfrifon y rheolwyr. Yn gyffredin â phob archwiliad o dan ISAs (DU), mae hefyd yn ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o wrthwneud gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod S4C a'i Grŵp a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae S4C a'i Grŵp yn gweithredu ynddynt. Bûm yn canolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau materol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau S4C a'i Grŵp. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Darlledu 1990 a Deddf Darlledu 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003, cyfraith cyflogaeth a deddfwriaeth treth.

### Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais y rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a Bwrdd S4C ac adroddiadau archwilio mewnol; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profais briodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesais a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon yn arwydd o duedd posibl; a gwerthusais resymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i drefn arferol busnes.

Cyfleais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm ymgysylltu gan gynnwys arbenigwyr mewnol ac allanol, megis arbenigwyr pensiynau, a thimau archwilio cydrannau sylweddol, ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

### Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio o bwys, ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae S4C yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

Gareth Davies
10 Gorffennaf 2023
**Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr

## am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2023

Mae'r Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr, y Mantolenni, y Datganiadau o Newidiadau Mewn Ecwiti a'r Datganiad Llif Arian Cyfun yn dangos canlyniadau a pherfformiad S4C yn ogystal â'i grŵp masnachol o gwmnïau. O fewn y Datganiad Ariannol Cyfun hwn, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaethau Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at yr asedau nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol.

| | Nodyn | **2022/23** | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | £000 |
| Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Throsiant y Gronfa Gyffredinol | 3 | **90,933** | 83,526 |
| Trosiant S4C | | **90,933** | 83,526 |
| Costau'r gwasanaeth rhaglenni | | **(87,677)** | (79,405) |
| Costau darlledu a dosbarthu | | **(4,092)** | (3,437) |
| Costau uniongyrchol eraill | | **(930)** | (878) |
| Colled gros | | **(1,766)** | (194) |
| Costau gweithredu a gweinyddu | 4 | **(3,225)** | (2,882) |
| Colled gweithredol | 3 | **(4,991)** | (3,076) |
| Gwerthiant buddsoddiadau | 8 | **582** | - |
| | | **(4,409)** | (3,076) |
| (Colled)/cynnydd fuddsoddiad | 11 | **(970)** | 212 |
| Incwm buddsoddiad | | **202** | 190 |
| Enillion ar eiddo buddsoddi | | **-** | 135 |
| Llog net | | **254** | 3 |
| Colled ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant | | **(4,923)** | (2,536) |
| Trethiant ar (colled) / elw ar weithgareddau cyffredin | 6 | **53** | (40) |
| Colled ar ôl trethiant | | **(4,870)** | (2,576) |
| Enillion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 19 | **100** | 100 |
| Elw cynhwysfawr arall | | **100** | 100 |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | | **(4,770)** | (2,476) |
| Trosglwyddiad o Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | 13 | **3,844** | 2,786 |
| Cadwyd yn y Gronfa Gyffredinol | 13 | **(926)** | 310 |

Cymeradwywyd y Datganiad Ariannol gan y Bwrdd ar 07 Gorffennaf 2023.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 102 i 119 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.

# Mantolen Gyfun


ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | **Ar 31/03/23** | | Ar 31/03/22 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | **78** | | 222 | |
| Buddsoddiadau | 8 | **156** | | 552 | |
| Eiddo buddsoddi | 8 | **-** | | 3,640 | |
| | | | **234** | | 4,414 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 9 | **13,937** | | 14,671 | |
| Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | **4,771** | | 2,639 | |
| Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 10 | **6,682** | | 6,890 | |
| Buddsoddiadau | 11 | **12,646** | | 13,693 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | **19,529** | | 20,255 | |
| | | | **57,565** | | 58,148 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | | | |
| Credydwyr - symiau i'w talu o fewn blwyddyn | 12 | **(15,419)** | | (14,712) | |
| Credydwyr - symiau i'w talu ar ôl mwy na blwyddyn | 12 | **(3,861)** | | (4,561) | |
| Asedau Cyfredol Net | | | **38,285** | | 38,875 |
| **Cyfanswm Asedau llai Cyfanswm Rhwymedigaethau** | | | **38,519** | | 43,289 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | 13 | | **19,448** | | 23,292 |
| Cronfa Gyffredinol | 13 | | **19,071** | | 19,997 |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | | | **38,519** | | 43,289 |

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Ariannol i gydymffurfio
ag FRS 102 para 32.09. gan y Bwrdd ar 07 Gorffennaf 2023.

**Rhodri Williams** Cadeirydd
**Siân Doyle** Prif Weithredwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 102 i 119 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.



# Mantolen S4C


ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | Ar 31/03/23 | | Ar 31/03/22 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | **78** | | 222 | |
| | | | **78** | | 222 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 9 | **13,937** | | 14,671 | |
| Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | **5,331** | | 2,272 | |
| Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 10 | **6,259** | | 6,890 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | **12,612** | | 17,542 | |
| | | | **38,139** | | 41,375 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | | | |
| Credydwyr - symiau i'w talu o fewn blwyddyn | 12 | **(14,908)** | | (13,744) | |
| Credydwyr - symiau i'w talu ar ôl mwy na blwyddyn | 12 | **(3,861)** | | (4,561) | |
| Asedau Cyfredol Net | | | **19,370** | | 23,070 |
| **Cyfanswm Asedau llai Cyfanswm Rhwymedigaethau** | | | **19,448** | | 23,292 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | 13 | | **19,448** | | 23,292 |
| Cronfa Gyffredinol | 13 | | **-** | | - |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | | | **19,448** | | 23,292 |

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Ariannol i gydymffurfio
ag FRS 102 para 32.09. gan y Bwrdd ar 07 Gorffennaf 2023.

**Rhodri Williams** Cadeirydd
**Siân Doyle** Prif Weithredwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 102 i 119 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.



## Datganiad Cyfun o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2023

| Grŵp S4C | **Enillion a gadwyd** | **Cyfanswm ecwiti** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2022 | **43,289** | **43,289** |
| Colled am y flwyddyn | **(4,870)** | **(4,870)** |
| Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn | **100** | **100** |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | **(4,770)** | **(4,770)** |
| Ar 31 Mawrth 2023 | **38,519** | **38,519** |

## Datganiad Cyfun o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2022

| Grŵp S4C | Enillion a gadwyd | Cyfanswm ecwiti |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 45,765 | 45,765 |
| Colled am y flwyddyn | (2,576) | (2,576) |
| Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn | 100 | 100 |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | (2,476) | (2,476) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 43,289 | 43,289 |

## Datganiad S4C o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2023

| S4C | **Enillion a gadwyd** | **Cyfanswm ecwiti** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2022 | **23,292** | **23,292** |
| Colled am y flwyddyn | **(3,944)** | **(3,944)** |
| Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn | **100** | **100** |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | **(3,844)** | **(3,844)** |
| Ar 31 Mawrth 2023 | **19,448** | **19,448** |

## Datganiad S4C o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2022

| S4C | Enillion a gadwyd | Cyfanswm ecwiti |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 26,078 | 26,078 |
| Colled am y flwyddyn | (2,886) | (2,886) |
| Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn | 100 | 100 |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | (2,786) | (2,786) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 23,292 | 23,292 |

# Datganiad Llif Arian Cyfun

## am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2023

Mae'r llif arian net o'r gweithgareddau gweithredu yn dangos yr arian a gynhyrchwyd gan weithgareddau craidd cyn buddsoddi ac ariannu.

| | | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | **£000** | £000 |
| Colled am y flwyddyn arriannol | | **(4,923)** | (2,536) |
| Llog net | | **(254)** | (3) |
| Incwm buddsoddiad | | **(202)** | (190) |
| Colled/(cynnydd) na wireddwyd mewn buddsoddiadau | 11 | **970** | (212) |
| Enillion heb eu gwireddu ar eiddo buddsoddi | 8 | **-** | (135) |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 7 | **151** | 180 |
| Elw o werthu asedau sefydlog | | **-** | (44) |
| Elw o werthu buddsoddiadau | | **(582)** | - |
| Lleihad/(cynnydd) mewn stoc | | **734** | (3,218) |
| Cynnydd mewn dyledwyr | | **(1,392)** | (236) |
| Cynnydd/(lleihad) mewn credydwyr | | **342** | (2,162) |
| Lleihad mewn buddsoddiadau | | **77** | 62 |
| **Allanlif ariannol net o weithgareddau gweithredol** | | **(5,079)** | (8,494) |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Incwm buddsoddiadau | | **202** | 190 |
| Llog a dderbyniwyd | | **122** | 3 |
| Benthyciadau a adenillwyd | | **-** | 5 |
| Benthyciadau ad-dalwyd/dderbyniwyd | | **(400)** | (1,029) |
| **Allanlif ariannol net o weithgareddau ariannu** | | **(76)** | (831) |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Pryniant asedau sefydlog diriaethol | 7 | **(7)** | (3) |
| Prynu Buddsoddiadau | | **(50)** | (500) |
| Gwerthu asedau sefydlog | | **4,486** | 128 |
| **Mewnlif/(allanlif) ariannol net o weithgareddau buddsoddi** | | **4,429** | (375) |
| **Lleihad mewn arian** | | **(726)** | (9,700) |
| (Lleihad)/cynnydd na wireddwyd mewn buddsoddiad | 11 | **(970)** | 212 |
| Costau rheoli | 11 | **(77)** | (81) |
| Arian parod a dynnwyd o'r gronfa fuddsoddi | 11 | **-** | 500 |
| **Symudiadau o fewn cronfeydd net** | | **(1,773)** | (9,069) |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2022 | 18 | **33,948** | 43,017 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2023** | 18 | **32,175** | 33,948 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2023

## 1. Polisïau Cyfrifo

Gwelir isod brif bolisïau cyfrifo S4C. O fewn y Datganiad Ariannol cyfun, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at asedau Grŵp S4C nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol. Cyflwyniad ac arian cyfred y datganiadau ariannol hyn yw sterling. Talgrynnir i'r £000 agosaf ac eithrio yn y datgeliad cyflogau a threuliau staff.

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod S4C yn Endid Budd Cyhoeddus fel y'i diffiniwyd gan FRS 102. Endid Budd Cyhoeddus yw endid â'i brif amcan yw darparu nwyddau neu wasanaethau er buddiannau cyhoeddus, cymunedol neu gymdeithasol cyffredinol, a lle darperir unrhyw ecwiti gyda'r bwriad o gefnogi prif amcanion yr endid yn hytrach na gyda'r bwriad o gynhyrchu elw ariannol i ddarparwyr ecwiti, cyfranddalwyr neu aelodau.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y disgrifiwyd yn yr adran busnes gweithredol a hyfywedd ar dudalennau 93 i 94.

### (a) Sail paratoi'r Datganiad Ariannol

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn costau hanesyddol yn unol â pharagraff 12 (1) Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd), y Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol (FRS) sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn mynnu defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu critigol penodol. Mae hefyd yn mynnu bod rheolwyr yn arfer eu barn wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu S4C (gweler nodyn 2).

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu canlynol wedi'u cymhwyso:

### (b) Sail cyfuno

Mae'r Datganiad Ariannol cyfun yn ymgorffori rhai S4C a'i his-ymgymeriadau (gweler nodyn 8) a luniwyd hyd at 31 Mawrth 2023. Caiff elw neu golledion ar drafodion grŵp eu dileu'n llawn. Pan gaiff is-gwmni ei brynu, caiff holl asedau a rhwymedigaethau'r is-gwmni sy'n bodoli ar ddyddiad ei brynu eu cofnodi yn ôl eu gwerthoedd teg gan adlewyrchu eu cyflwr ar y dyddiad hwnnw.

### (c) Incwm

Cynhwysir incwm o'r BBC yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan y'i derbynnir.

Mae incwm arall, sydd yn cynnwys incwm o werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïaeth, cyhoeddi, a gweithgareddau buddsoddi yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan ddarperir y gwasanaethau cysylltiedig.

### (ch) Costau rhaglenni

Caiff costau rhaglenni'r gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'u comisiynu eu dileu'n llwyr ar y darllediad cyntaf neu pan ddaw yn glir na fydd darllediad.

### (d) Stoc rhaglenni a stoc arall

Mae costau uniongyrchol a gyfyd wrth gomisiynu neu brynu rhaglenni i'r gwasanaeth cyhoeddus sydd heb eu darlledu yn ymddangos fel stoc, ar ôl darparu ar gyfer gwariant ar ddeunydd nad yw'n debygol o gael ei ddarlledu. Am gyfres o raglenni, mae'r dosraniad stoc rhwng rhaglenni a orffennwyd ond heb eu darlledu a rhaglenni ar ganol eu cynhyrchu wedi ei seilio ar gyfanswm y gost hyd yn hyn ynghyd â chost gytundebol pob pennod a gwblhawyd.

Diffinnir cost uniongyrchol fel taliadau a wnaed neu sy'n ddyledus i gwmnïau cynhyrchu neu gyflenwyr rhaglenni.

### (dd) Incwm a dderbyniwyd cyn y gwariant perthnasol

Oherwydd y polisïau uchod, derbynir incwm o'r BBC cyn cynnwys yr holl gostau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Ar ddyddiad y Fantolen, trosglwyddir unrhyw incwm a dderbynnir ymlaen llaw i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Pan mae costau perthynol yn codi, trosglwyddir symiau cyfatebol o incwm perthnasol o Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr felly yn cynnwys trosglwyddiad net i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus, neu oddi wrtho, yn adlewyrchu'r trosglwyddiadau hyn.

### (e) Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau

Mae buddsoddiadau mewn cyd-fentrau yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf yn y Mantolen Gyfun ar bris y trafodiad a'u haddasu ar ôl hynny i adlewyrchu cyfran y grŵp o'r cyfanswm incwm cynhwysfawr ac ecwiti'r gyd-fenter, llai unrhyw leihad yn eu gwerth.

### (f) Dyledwyr

Mae dyledwyr tymor byr a hir dymor yn cael eu mesur ar bris y trafodiad, llai unrhyw leihad yn eu gwerth. Mae benthyciadau a dderbyniwyd yn cael eu mesur yn y lle cyntaf ar werth teg, heb gynnwys costau trafodion, a chânt eu mesur ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol, llai unrhyw leihad mewn gwerth.

### (ff) Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn arian mewn llaw a blaendaliadau a gadwyd gan sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae symiau cyfwerth i arian parod yn fuddsoddiadau hynod o hylif a gellir eu trosi'n hwylus i symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

### (g) Offerynnau ariannol

Yn bennaf bydd S4C yn ymrwymo i drafodion offerynnau ariannol sylfaenol sy'n arwain at gydnabod asedau a rhwymedigaethau ariannol fel masnach a chyfrifon eraill sy'n dderbyniadwy a thaladwy, benthyciadau gan fanciau a thrydydd partïon eraill, benthyciadau i bartïon cysylltiedig a buddsoddiadau mewn cyfranddaliadau cyffredin di-roddadwy.

Caiff offerynnau dyled (heblaw am y rheiny sy'n ad-daladwy neu'n dderbyniadwy yn gyfan gwbl o fewn un flwyddyn), gan gynnwys benthyciadau a chyfrifon eraill sy'n dderbyniadwy a thaladwy, eu mesur yn y lle cyntaf ar werth presennol llifoedd arian parod y dyfodol ac ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol. Mae offerynnau dyled sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy o fewn un flwyddyn, yn nodweddiadol symiau masnach sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy, yn cael eu mesur, yn y lle cyntaf ac ar ôl hynny, ar swm na ddisgowntiwyd yr arian parod neu ystyriaeth arall, a ddisgwylir ei dalu neu ei dderbyn. Fodd bynnag, os yw trefniadau offeryn tymor byr yn gyfystyr â thrafodiad ariannu, fel talu dyled masnach a ohiriwyd y tu hwnt i delerau busnes arferol neu a ariannwyd ar gyfradd llog nad yw ar raddfa'r farchnad neu yn achos benthyciad tymor byr yn gyfan gwbl nad yw ar raddfa'r farchnad, mae'r ased neu rhwymedigaeth ariannol yn cael ei fesur, yn y lle cyntaf, ar werth presennol llifoedd arian parod y dyfodol wedi'u disgowntio ar raddfa llog y farchnad ar gyfer offeryn dyled tebyg ac ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio.

Mae asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar gost a chost wedi'i hamorteiddio yn cael eu hasesu ar ddiwedd pob cyfnod adrodd am dystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth. Os canfyddir tystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth, cydnabyddir colled mewn gwerth yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Ar gyfer asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio, caiff y golled mewn gwerth ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng swm cario ased a gwerth presennol y llifoedd arian parod amcangyfrifedig wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog weithredol gwreiddiol yr ased. Os oes cyfradd llog newidiol i ased ariannol, y gyfradd ddisgownt ar gyfer mesur unrhyw golled mewn gwerth yw'r gyfradd llog weithredol gyfredol a bennir o dan y cytundeb.

Ar gyfer asedau ariannol a fesurir ar gost llai colled mewn gwerth, caiff y golled mewn gwerth ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng swm cario ased ac amcangyfrif gorau sy'n frasamcan o'r swm y byddai S4C yn ei dderbyn am yr ased pe bai'n cael ei werthu ar ddyddiad y Fantolen.

Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwyso a'r swm net yn cael ei gofnodi yn y Fantolen pan fydd hawl y gellir eu gorfodi i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig a bod bwriad i setlo ar sail net neu i realeiddio'r ased a setlo'r rhwymedigaeth yr un pryd.

### (ng) Credydwyr
Mae credydwyr tymor byr a hir dymor yn cael eu mesur ar bris y trafodiad. Mae rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau banc, yn cael eu mesur yn y lle cyntaf ar werth teg, heb gynnwys costau trafodion, a chânt eu mesur ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol.

### (h) Buddsoddiadau asedau sefydlog
Dalir buddsoddiadau asedau sefydlog ar gost hanesyddol llai unrhyw leihad yn eu gwerth.

### (i) Asedau sefydlog diriaethol
Cyfrifir asedau sefydlog diriaethol yn ôl yr hyn a dalwyd amdanynt ynghyd ag unrhyw gostau prynu perthnasol, llai dibrisiant. Caiff dibrisiant ei gyfrif er mwyn dileu cost yr ased sefydlog diriaethol llai gweddill ei werth yn gyfartal dros y cyfnod yr amcangyfrifir y caiff ei ddefnyddio. Mae'r prif gyfraddau a ddefnyddir i'r diben hwn fel a ganlyn:

Offer a chyfarpar 20%

Caiff gwelliannau i adeiladau ar brydles fer eu dileu'n gyfartal dros gyfnod y brydles.

### (j) Cyfraniadau pensiwn
### Cynllun budd diffiniedig
Mae cynllun buddion wedi'u diffinio wedi nodi'r buddion pensiwn y bydd y gweithiwr yn eu cael pan fydd yn ymddeol. Mae'r buddion pensiwn hyn yn ddibynnol ar sawl elfen fel rheol. Bydd yr elfennau hyn yn cynnwys oedran, hyd gwasanaeth, a chydnabyddiaeth ariannol, ond nid dim ond y rhain o reidrwydd. Ystyr cynllun buddion wedi'u diffinio yw cynllun pensiwn nad yw'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio.

Defnyddir y dull rhagamcanu unedau i gyfrifo'r rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio. Mae S4C yn talu am wasanaeth actiwariaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth bob blwyddyn. Pennir y gwerth presennol drwy ddisgowntio'r hyn a amcangyfrifwyd ynghylch taliadau'r dyfodol. Gwneir hyn drwy ddefnyddio'r arenillion yn y farchnad ar gyfer bondiau corfforaethol o safon y maent yn rhai sterling ac y mae eu cyfnod yn lled debyg i'r cyfnod amcangyfrif ar gyfer taliadau'r dyfodol ('y gyfradd ddisgowntio').

Mesurir gwerth teg asedau'r cynlluniau yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi S4C ynghylch asedau tebyg sydd ganddo. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Dan incwm cynhwysfawr arall y credydir/debydir yr enillion a'r colledion actiwaraidd a ddeillia o addasiadau ar sail profiad ac o newid tybiaethau actiwaraidd. Mae'r symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau 'eiddo parod', ar ôl tynnu'r symiau a gynhwysir yn y llog net, yn cael eu datgelu dan enillion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn.

### Cynllun cyfraniadau diffiniedig
Mae S4C yn gweithredu cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. Mae cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio yn gynllun pensiwn lle mae S4C yn talu cyfraniadau penodedig i mewn i endid ar wahân. Ar ôl talu'r cyfraniadau, nid yw S4C dan ragor o rwymedigaethau talu.

Pan fydd y cyfraniadau'n daladwy, fe'u cydnabyddir yn gost yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r symiau nas talwyd i'w gweld yn groniadau, ar ffurf rhwymedigaeth, yn y Fantolen.

### (l) Asedau wedi eu prydlesu
Caiff rhenti sydd yn daladwy o dan brydlesi gweithredol eu cynnwys yn gyfartal dros gyfnod y brydles drwy'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### (ll) Trethiant
Y dreth gyfredol a gynhwysir yng nghostau treth y flwyddyn. Cydnabyddir y dreth yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Ond bydd cost a briodolir i eitem incwm a threuliau a gydnabyddir dan incwm cynhwysfawr arall neu gost a briodolir i eitem a gydnabyddir yn uniongyrchol yn yr ecwiti yn cael ei chydnabod hefyd yn yr incwm cynhwysfawr arall neu'n uniongyrchol yn yr ecwiti.

Paratowyd y Datganiad Ariannol ar y sail na chodir unrhyw dreth ar symiau a dderbynia S4C oddi wrth yr Adran dros Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC.

Codir treth gorfforaeth ar elw sy'n cael ei gynhyrchu gan is-ymgymeriadau.

### (m) Arian tramor
Cynhwysir asedau a rhwymedigaethau mewn arian tramor yn ôl y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y fantolen. Cynhwysir trafodion yn ôl y gyfradd gyfnewid ar y dyddiad mae'n digwydd. Mae gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi o werthiannau tramor a chyfnewid arian yn cael eu dangos yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### (n) Buddsoddiadau asedau cyfredol
Dalir Buddsoddiadau Asedau Cyfredol ar werth teg gydag unrhyw newid yn cael ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled.

### (o) Eitemau eithriadol
Ystyr eitemau eithriadol yw trafodion sy'n rhan o weithgareddau arferol S4C ond a gyflwynir ar wahân oherwydd eu maint neu eu nifer.

### (p) Eiddo buddsoddi
Caiff eiddo buddsoddi y gellir mesur gwerth teg ar ei gyfer yn ddibynadwy, heb fod cost ddiangen o ran ymdrech ar sail barhaus, ei fesur ar werth teg yn flynyddol, gydag unrhyw newid yn cael ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled.

## 2. Dyfarniadau wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol rhaid i reolwyr wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon arwyddocaol. Mae'r eitemau yn y datganiadau ariannol lle mae'r dyfarniadau a'r amcangyfrifon hyn wedi'u gwneud yn cynnwys:

### Lleihad mewn gwerth buddsoddiadau asedau sefydlog

Mae gwerth cario'r buddsoddiadau strategol yn cael eu hasesu am leihad posibl mewn gwerth gan ddefnyddio model llif arian wedi'i ddisgowntio a gymeradwywyd gan y rheolwyr. Lle nad yw rhagolygon ffurfiol ar gael, mae technegau prisio cyffredin eraill yn cael eu defnyddio yn y model lleihad mewn gwerth.

### Stoc

Mae costau uniongyrchol yr eir iddynt wrth gomisiynu neu brynu rhaglenni i'r gwasanaeth cyhoeddus sydd heb eu darlledu yn cael eu cario ymlaen fel stoc, ar ôl darparu ar gyfer gwariant ar ddeunydd nad yw'n debygol o gael ei ddarlledu.

### Cynllun budd diffiniedig

Mae'r costau pensiwn a godir ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr wedi'u seilio ar y dulliau a damcaniaethau actiwaraidd sydd â'r amcan o wasgaru'r costau pensiwn disgwyliedig dros fywydau gwasanaethol y gweithwyr yn y Cynllun, er mwyn sicrhau bod y gost pensiwn reolaidd yn cynrychioli canran sylweddol llyfn o'r gyflogres bensiynadwy gyfredol a'r dyfodol disgwyliedig. Mae amrywiaethau o'r gost reolaidd wedi'u gwasgaru dros weddill cyfartaledd bywydau gwasanaethol gweithwyr cyfredol yn y cynllun.

Yn absenoldeb unrhyw gytundeb i dalu ad-daliad i S4C ac oherwydd bod y Cynllun wedi'i gau bellach i groniad gwasanaeth yn y dyfodol, mae gwarged y Cynllun ar 31 Mawrth 2023 wedi'i gyfyngu ym Mantolen S4C i ddim.

## 3. Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a throsiant y Gronfa Gyffredinol

Derbynnir incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn i S4C gyflawni ei chyfrifoldebau gwasanaeth cyhoeddus (o fewn ystyr Adran 207 Deddf cyfathrebiadau 2003). Mae trosiant y Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli'r incwm a grëwyd gan weithgareddau masnachol a gweithgareddau nad ydynt yn rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus fel y cantiateir o dan Adran 206 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a'r darpariaethau trawsnewidiol ym mharagraff 27 Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Pan dderbynnir yr incwm o ffi'r drwydded caiff ei gredydu i'r Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r incwm arall, sydd yn cynnwys incwm o werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïo, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi, yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr ar sail croniadau.

| | | **2022/23** | | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
| Incwm a dderbyniwyd oddi wrth ffi'r drwydded | **88,850** | | 74,500 | |
| Incwm a dderbyniwyd oddi wrth DCMS | **-** | | 6,851 | |
| Incwm arall | **161** | | 189 | |
| | | **89,011** | | 81,540 |
| Trosiant y Gronfa Gyffredinol | | | | |
| Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu | **1,336** | | 1,324 | |
| Cyhoeddi a marsiandïo | **40** | | 81 | |
| Eraill gan gynnwys ymelwad digidol | **546** | | 581 | |
| | | **1,922** | | 1,986 |
| Trosiant y grŵp | | **90,933** | | 83,526 |

Ceir isod ddadansoddiad o drosiant y Gronfa Gyffredinol yn ôl marchnad ddaearyddol:

| | **2022/23** | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Y Deyrnas Unedig | **1,854** | 1,967 |
| Unol Daleithiau America | **56** | 4 |
| Gweddill y Byd | **12** | 15 |
| | **1,922** | 1,986 |

### Colled gweithredol

Y golled gweithredol yw diffyg y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r (colled)/elw o'r gweithgareddau masnachol cyn unrhyw incwm buddsoddi, llog a threth.

Dangosir dadansoddiad o golled gweithredol y Grŵp fesul gweithgarwch isod:

| | | **2022/23** | | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
| Gweithgareddau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | **(4,957)** | | (3,590) | |
| | | **(4,957)** | | (3,590) |
| Cronfa Gyffredinol | | | | |
| Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu | **620** | | 624 | |
| Cyhoeddi a marsiandïo | **25** | | 81 | |
| Gweithgareddau eraill | **(679)** | | (191) | |
| | | **(34)** | | 514 |
| | | **(4,991)** | | (3,076) |

Mae'r gweithgareddau eraill yn cynnwys darparu gwasanaethau rheoli i is-gwmnïau masnachol gan S4C Masnachol Cyf., darpariaeth o wasanaethau darlledu digidol gan S4C2 Cyf. a rhentu eiddo gan S4C PTG Cyf.

### Asedau net

Asedau net Grŵp S4C yw cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau.

| | 2022/23 | | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
| Gweithgareddau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | **19,448** | | 23,292 | |
| | | **19,448** | | 23,292 |
| Cronfa Gyffredinol | | | | |
| Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu | **340** | | 272 | |
| Cyhoeddi a marsiandïo | **10** | | 16 | |
| Gweinyddiaeth | **135** | | 135 | |
| Gweithgareddau eraill | **18,586** | | 19,574 | |
| | | **19,071** | | 19,997 |
| | | **38,519** | | 43,289 |

## 4. Colled gweithredol

Y golled gweithredol yw gwarged y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r (golled)/elw o'r gweithgareddau masnachol cyn unrhyw incwm buddsoddi, llog a threth.

| Nodir y golled gweithredol ar ôl: | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cost y gwasanaeth rhaglenni | | |
| Dibrisiant | **85** | 109 |
| Costau staffio | **5,730** | 4,909 |
| Teithio a chynhaliaeth | **137** | 36 |
| Costau gweithredu a gweinyddu | | |
| Costau staffio | **1,697** | 1,770 |
| Dibrisiant | **66** | 71 |
| Ffi'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am archwilio cyfrifon blynyddol S4C | **108** | 80 |
| Gwasanaethau heb fod yn ymwneud ag archwilio gydag archwilwyr eraill | | |
| Gwasanaethau cydymffurfio â threthiant | **17** | 9 |
| Gwasanaethau archwilio mewnol | **13** | 7 |
| Costau gweinyddu eraill: | | |
| Taliadau prydlesi gweithredol | **1,095** | 739 |
| Taliadau prydlesi gweithredol - Tir ac adeiladau | **192** | 187 |
| Teithio a chynhaliaeth | **37** | 19 |
| | **3,225** | 2,882 |

Mae'r dadansoddiad o gostau gweithredu a gweinyddu fel a ganlyn:

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Costau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | **2,857** | 2,735 |
| Costau'r Gronfa Gyffredinol | **368** | 147 |
| | **3,225** | 2,882 |

Ni ddarparodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio yn ystod y flwyddyn.

## 5. Aelodau a swyddogion cyflogedig

| Mae cyfanswm cydnabyddiaeth swyddogion cyflogedig yn ystod y flwyddyn yn cynnwys: | **2022/23** | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cyflogau gros | **5,646** | 5,175 |
| Cyfraniadau YG y cyflogwr | **651** | 543 |
| Cyfraniadau pensiwn | **1,080** | 949 |
| | **7,377** | 6,667 |

Yn ystod y flwyddyn gwnaed pedwar taliad o dan y cynllun diswyddo gwerth cyfanswm o £0.147m (2021/22 - tri thaliad gwerth cyfanswm o £0.054m). Mae cyfraniadau pensiwn yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwr. Nid oedd gan S4C unrhyw ymrwymiadau 'oddi ar y gyflogres' sy'n dod o dan y meini prawf a nodir yng nghanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas â threfniadau treth uwch benodiadau cyhoeddus.

| Roedd nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn: | **2022/23** | | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Rhif Dynion** | **Rhif Menywod** | Rhif Dynion | Rhif Menywod |
| Comisiynu | **7** | **9** | 5 | 7 |
| Cyhoeddi a Dosbarthu | **12** | **19** | 11 | 17 |
| Datblygu Cynnyrch | **6** | **2** | 4 | 2 |
| Cyfathrebu a Data | **17** | **22** | 18 | 24 |
| Corfforaethol a Pholisi Masnachol | **7** | **17** | 8 | 16 |
| | **49** | **69** | 46 | 66 |

Cyfanswm teithio a chynhaliaeth a dalwyd i swyddogion cyflogedig yn ystod y cyfnod a derfynodd 31 Mawrth 2023 oedd £163,049 (cyfnod i 31 Mawrth 2022 - £52,046).

### Cydnabyddiaeth yr aelodau

Dangosir taliadau i aelodau'r Bwrdd am y flwyddyn isod:

| | **2022/23** | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cyfanswm y taliadau | **87** | 97 |

Dangosir taliadau i aelodau'r Bwrdd am y flwyddyn isod:

| | **2022/23** | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Guto Bebb | **9,650** | 9,650 |
| Suzy Davies | **5,629** | - |
| Anita George | **2,439** | 9,650 |
| Adele Gritten | **9,650** | 9,650 |
| Hugh Hesketh Evans | **-** | 6,139 |
| Chris Jones | **9,650** | 9,650 |
| Siân Lewis | **-** | 2,600 |
| Denise Lewis Poulton | **9,650** | 9,650 |
| Rhodri Williams | **40,000** | 40,000 |

Penodwyd Suzy Davies ar 1 Awst 2022.
Ymddiswyddodd Anita George ar 1 Gorffennaf 2022.
Ymddiswyddodd Hugh Hesketh ar 19 Tachwedd 2021.
Ymddiswyddodd Siân Lewis ar 8 Gorffennaf 2021.

Yn ystod y cyfnod, hawliodd aelodau'r Bwrdd y treuliau canlynol wrth gyflawni eu dyletswyddau:

| Treuliau aelodau'r Bwrdd | Teithio | Llety a Chynhaliaeth | Lletygarwch | **2022/23 Cyfanswm** | 2021/22 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | **£** | £ |
| Guto Bebb | 651 | 395 | - | **1,046** | 367 |
| Suzy Davies | 160 | 136 | - | **296** | - |
| Anita George | - | - | - | **-** | 281 |
| Adele Gritten | 1,230 | 175 | - | **1,405** | 643 |
| Chris Jones | 622 | 156 | - | **778** | 350 |
| Denise Lewis Poulton | 686 | 228 | - | **914** | 362 |
| Rhodri Williams | 2,036 | 172 | 24 | **2,232** | 556 |
| Cyfanswm | **5,385** | **1,262** | **24** | **6,671** | 2,559 |

## Cydnabyddiaeth y Tîm Rheoli

Dangosir taliadau i aelodau'r Tîm Rheoli yn ystod y cyfnod isod:

| | **2022/23 Gross pay** | 2021/22 Gross pay |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Rhidian Dafydd | **5** | - |
| Owen Derbyshire | **46** | 86 |
| Siân Doyle | **162** | 52 |
| Geraint Evans | **120** | 41 |
| Owen Evans | **-** | 141 |
| Llinos Griffin Williams | **124** | - |
| Elin Morris | **108** | 108 |
| Amanda Rees | **114** | 114 |
| Catrin Whitmore | **79** | - |
| Gwyn Williams | **48** | 84 |
| Sharon Winogorski | **92** | 86 |

Ymunodd Rhidian Dafydd â'r Tîm Rheoli ar 1 Medi 2022 a gadawodd ar 25 Medi 2022.

Gadawodd Owen Derbyshire y Tîm Rheoli ar 13 Hydref 2022.

Ymunodd Siân Doyle â'r Tîm Rheoli ar 6 Rhagfyr 2021.

Ymunodd Geraint Evans â'r Tîm Rheoli ar 11 Hydref 2021.

Gadawodd Owen Evans y Tîm Rheoli ar 31 Rhagfyr 2021.

Ymunodd Llinos Griffin Williams â'r Tîm Rheoli ar 4 Ebrill 2022.

Ymunodd Catrin Whitmore â'r Tîm Rheoli ar 1 Medi 2022.

Gadawodd Gwyn Williams y Tîm Rheoli ar 1 Tachwedd 2022. Gwnaethpwyd taliad yn ychwanegol i'r cyflog yn y tabl uchod o dan gynllun diswyddo S4C.

Yn ystod y cyfnod, hawliodd aelodau'r Tîm Rheoli y treuliau canlynol wrth gyflawni eu dyletswyddau:

| Treuliau aelodau'r Tîm Rheoli | Teithio | Llety a Chynhaliaeth | Lletygarwch | **2022/23 Cyfanswm** | 2021/22 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | **£** | £ |
| Rhidian Dafydd | - | - | - | **-** | - |
| Owen Derbyshire | - | 319 | - | **319** | 557 |
| Siân Doyle | 7,815 | 2,517 | 1,784 | **12,116** | 6,298 |
| Geraint Evans | 10,258 | 4,686 | 217 | **15,161** | 2,174 |
| Owen Evans | - | - | - | **-** | 2,067 |
| Llinos Griffin Williams | 6,590 | 6,321 | 240 | **13,151** | - |
| Elin Morris | 2,294 | 525 | - | **2,819** | 1,493 |
| Amanda Rees | 1,309 | 380 | - | **1,689** | 816 |
| Catrin Whitmore | 256 | 366 | - | **622** | - |
| Gwyn Williams | 534 | 177 | 4 | **715** | 2,092 |
| Sharon Winogorski | 102 | 120 | - | **222** | 226 |
| Cyfanswm | 29,158 | 15,411 | 2,245 | **46,814** | 15,723 |

Cynllun cyfraniadau diffiniedig - cyfraniadau S4C

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Rhidian Dafydd | **1** | - |
| Owen Derbyshire | **7** | 13 |
| Siân Doyle | **25** | 8 |
| Geraint Evans | **27** | 6 |
| Owen Evans | **-** | 33 |
| Llinos Griffin Williams | **19** | - |
| Elin Morris | **31** | 30 |
| Amanda Rees | **28** | 27 |
| Catrin Whitmore | **12** | - |
| Gwyn Williams | **26** | 13 |
| Sharon Winogorski | **21** | 14 |

## 6. Trethiant

Paratowyd y Datganiad Ariannol ar y sail na chodir unrhyw drethiant ar symiau a dderbynia S4C oddi wrth yr Adran dros Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC.

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig ar 19% (2022 - 19%) | **-** | - |
| Treth gohiriedig | **(53)** | 40 |
| Tâl trethiant cyfredol am y cyfnod | **(53)** | 40 |

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Colled ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant | **(4,923)** | (2,536) |
| Colled ar weithgareddau cyffredin wedi'i lluosi â'r gyfradd treth safonol yn y DU o 19% (2022 - 19%) | **(935)** | (482) |
| Effeithiau: | | |
| Gwahaniaethau asedau diraethol | **(49)** | 2 |
| Costau na ellir eu tynnu at ddibenion treth | **363** | 4 |
| Ased treth gohiriedig heb ei ddarparu | **990** | 1,780 |
| Addasiadau i'r tâl trethiant am gyfnodau blaenorol | **5** | 1 |
| Incwm nad yw'n drethadwy at ddibenion treth | **504** | (47) |
| Trosglwyddo i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus | **-** | 529 |
| Colledion cyfalaf a ddefnyddiwyd | **-** | - |
| (Colledion)/enillion cyfalaf | **(679)** | 26 |
| Gwahaniaeth yng nghyfradd treth gohiriedig | **(252)** | (1,346) |
| Gwahaniaethau amseru | **-** | (427) |
| Symudiad mewn gwerth teg | **-** | - |
| Tâl trethiant cyfredol am y cyfnod | **(53)** | 40 |

## 7. Asedau sefydlog diriaethol

| Grŵp S4C | | Tir ac Adeiladau | |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Prydles | Offer a Chyfarpar |
| Cost | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 1,101 | 209 | 892 |
| Ychwanegiadau | 7 | - | 7 |
| Gwerthiannau | (106) | - | (106) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 1,002 | 209 | 793 |
| | | | |
| Dibrisiant | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 879 | 209 | 670 |
| Cost am y flwyddyn | 151 | - | 151 |
| Gwerthiannau | (106) | - | (106) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 924 | 209 | 715 |
| | | | |
| Gwerth llyfr net | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 78 | - | 78 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 222 | - | 222 |

Tir ac adeiladau

Pafiliwn S4C ar faes y Sioe Amaethyddol Frenhinol yn Llanelwedd yw'r eiddo dan brydles fer.

## 8. Buddsoddiadau asedau sefydlog

Mae'r buddsoddiadau asedau sefydlog isod yn cael eu dal yn y grŵp masnachol o gwmnïau.

Mae cyfanswm buddsoddiadau asedau sefydlog yn cynnwys:

| | Buddsoddiadau mewn endidau heb eu rhestru | Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau | Buddsoddiadau mewn cwmniau cyswllt | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 1,397 | 125 | - | 1,522 |
| Ychwanegiadau | - | - | 50 | 50 |
| Gwerthiannau | (600) | - | - | (600) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 797 | 125 | 50 | 972 |
| Lleihad mewn gwerth | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 845 | 125 | - | 970 |
| Gwerthiannau | (154) | - | - | (154) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 691 | 125 | - | 816 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 552 | - | - | 552 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 106 | - | 50 | 156 |

| **Eiddo Buddsoddi** | **Grŵp S4C** |
|---|---|
| | £000 |
| Cost | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 3,640 |
| Gwariant cyfalaf | 122 |
| Gwerthiant | (3,762) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | - |

Yn ystod y flwyddyn cafodd yr eiddo buddsoddi ym Mharc Ty Glas, Llanisien, a ddaliwyd yn S4C PTG Cyf., ei werthu. Yr elw ar waredu oedd £0.2m.

Fe wnaeth S4C Digital Media Limited ymrwymo i'r gyd-fenter ganlynol yn ystod 2015/16:

| | Gwlad ymgorffori | Dosbarth y cyfrandaliad a ddaliwyd | Canran a ddaliwyd: Gan y prif ymgymeriad | Canran a ddaliwyd: Gan yr Awdurdod | Natur y busnes |
|---|---|---|---|---|---|
| Media Rocket Ltd | Cymru a Lloegr | Cyffredin | 50% | 50% | Cwmni buddsoddi |

Symudiadau mewn buddsoddiadau cyd-fenter yn ystod y flwyddyn:

| Cost | £000 |
|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2022 | 125 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 125 |
| | |
| Lleihad mewn gwerth | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 125 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 125 |
| | |
| Gwerth llyfr net | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | - |
| Ar 31 Mawrth 2023 | - |

Buddsoddiadau mewn cwmniau cyswllt

Mae gan S4C Digital Media Limited fuddsoddiadau yn y cwmniau cyswllt canlynol:

| Enw | Gwlad ymgorffori | Dosbarth Cyfranddaliad | Canran a ddalir |
|---|---|---|---|
| Aria Studios Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | 40% |

Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd S4C Digital Media Limited £50,000 am ddaliad o 40% yn Aria Studios Cyf.

Ar 31 Mawrth 2023 roedd gan Grŵp S4C gyfranddaliadau ecwiti sylweddol o'r canlynol:

| | Gwlad ymgorffori | Dosbarth y cyfrandaliad a ddaliwyd | Canran a ddaliwyd: Gan y prif ymgymeriad | Canran a ddaliwyd: Gan yr Grŵp S4C | Natur y busnes |
|---|---|---|---|---|---|
| S4C Masnachol Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | 100% | 100% | Darparu gwasanaethau rheoli i is-gwmnïau masnachol |
| S4C Digital Media Ltd | Cymru a Lloegr | Cyffredin | - | 100% | Cwmni buddsoddi |
| S4C Rhyngwladol Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | - | 100% | Gwerthu gofod hysbysebu a rhaglenni |
| S4C2 Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | - | 100% | Darlledu digidol a darparu gwasanaethau darlledu digidol |
| S4C PTG Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | - | 100% | Eiddo Buddsoddi |

Yn ystod y flwyddyn gwaredodd S4C PTG Cyf ar yr eiddo fuddsoddi a ddelir o fewn y cwmni. Yn dilyn y gwerthiant, mae'r cwmni wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac felly wedi paratoi ei gyfrifon ei hun ar sail busnes nad yw'n weithredol.

Mae'r is-ymgymeriadau i gyd wedi eu cyfuno yn y Datganiad Ariannol. Maent i gyd yn is-ymgymeriadau yn rhinwedd cyfranddaliadau o 100%. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hawl mynediad llawn i ddatganiadau ariannol holl is-ymgymeriadau Grŵp S4C sydd mewn bodolaeth nawr neu a grëir yn y dyfodol.

## 9. Stoc

Mae'r stoc rhaglenni heb eu darlledu a stoc arall fel a ganlyn:

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Rhaglenni ar ganol eu cynhyrchu | **13,878** | 14,408 | **13,878** | 14,408 |
| Rhaglenni a orffennwyd ond eto i'w darlledu | **59** | 263 | **59** | 263 |
| | **13,937** | 14,671 | **13,937** | 14,671 |

## 10. Dyledwyr

Symiau dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Dyledwyr masnachol | **739** | 554 | **261** | 165 |
| Symiau sy'n ddyledus i ymgymeriadau grŵp | **-** | - | **1,279** | 283 |
| Benthyciadau i swyddogion | **2** | 5 | **2** | 5 |
| TAW | **2,916** | 1,180 | **2,858** | 1,120 |
| Blaendaliadau ac incwm cronedig | **1,114** | 900 | **931** | 699 |
| | **4,771** | 2,639 | **5,331** | 2,272 |

Mae'r benthyciadau i swyddogion o dan y Cynllun Beicio i'r Gwaith.

Symiau dyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Rhagdaliadau | **6,259** | 6,890 | **6,259** | 6,890 |
| Dyledwyr eraill | **423** | - | **-** | - |
| | **6,682** | 6,890 | **6,259** | 6,890 |

Mae rhagdaliadau'n ymwneud â'r prosiect cydleoli a rhent a ragdalwyd ar gyfer pencadlys newydd S4C yn Yr Egin.

## 11. Buddsoddiadau asedau cyfredol

| Cronfa fuddsoddi: | Grŵp S4C | |
|---|---|---|
| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 |
| | **£000** | £000 |
| Ar 1 Ebrill | **13,693** | 13,062 |
| Arian parod a fuddsoddwyd | **-** | 500 |
| Newid yng ngwerth marchnadol y buddsoddiad | **(970)** | 212 |
| Costau rheoli | **(77)** | (81) |
| Ar 31 Mawrth | **12,646** | 13,693 |

Mae buddsoddiadau asedau cyfredol hefyd yn cynnwys cyd-gynhyrchu a buddsoddiadau digidol gwerth £dim (2021/22 - £dim).

Mae'r gronfa fuddsoddi yn cynnwys portffolio o ecwitïau, bondiau, arian ac asedau eraill a reolir ar ran S4C Digital Media Ltd. gan Sarasin & Partners LLP. Mesurir y buddsoddiad ar werth teg drwy'r elw a cholled lle mae prisiad y gronfa ar 31 Mawrth 2023 trwy bris y farchnad a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol.

Caiff y gronfa fuddsoddi ei hamlygu i risg y farchnad yn unig a lliniarir hyn trwy ddefnyddio rheolwr y gronfa.

Mae'r gronfa fuddsoddi wedi'i dosbarthu fel ased cyfredol gan fod y gallu gan S4C i dynnu allan o'r gronfa a chau'r gronfa ar fyr rybudd.

## 12. Credydwyr

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| Symiau credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Credydwyr masnachol | **1,183** | 540 | **1,180** | 247 |
| Credydwyr rhaglenni | **1,416** | 488 | **1,416** | 488 |
| Credydwyr eraill | **164** | 210 | **164** | 157 |
| Incwm rhagdaledig ac incwm gohiriedig | **213** | 159 | **-** | - |
| Symiau cronedig | **12,443** | 13,315 | **12,148** | 12,852 |
| | **15,419** | 14,712 | **14,908** | 13,744 |

Symiau credydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Blaendal Cymorth Grant | **3,861** | 4,561 | **3,861** | 4,561 |
| | **3,861** | 4,561 | **3,861** | 4,561 |

Darparodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Cymorth Grant ymlaen llaw i S4C i ariannu'r prosiect cydleoli gyda BBC Cymru ac adleoli pencadlys S4C i Yr Egin, Caerfyrddin. Mae ad-daliadau i'w gwneud yn flynyddol yn unol ag amserlen dalu y cytunwyd arni. Mae mecanwaith ar gyfer talu i'w gytuno gyda'r DCMS ar ôl i'r taliadau Cymorth Grant ddod i ben.

## 13. Cronfeydd

Cronfeydd wrth gefn Grŵp S4C a ddangosir isod yw'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer S4C, y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus, a chronfeydd wrth gefn y cwmnïau masnachol, y Gronfa Gyffredinol. Mae'r cronfeydd wrth gefn eraill yn cynnwys dyledwyr, buddsoddiadau, arian parod llai credydwyr. Caiff cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol eu defnyddio ar gyfer buddsoddiadau a phrosiectau i wella gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus S4C, wrth geisio adenillion masnachol hefyd. Caiff unrhyw adenillion masnachol eu talu fel difidendau i S4C i'w defnyddio yn ei wasanaethau cyhoeddus.

Cronfeydd Grŵp S4C

| | Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau Sefydlog | Stoc | Eraill | Cronfa Gyffredinol | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 222 | 14,671 | 8,399 | 19,997 | **43,289** |
| Diffyg y Gronfa Gyffredinol am y cyfnod | - | - | - | (101) | **(101)** |
| Trosglwyddiad Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r cyfrif elw a cholled | (144) | (734) | (3,791) | - | **(4,669)** |
| Trosglwyddiad i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | - | - | 825 | (825) | **-** |
| Ar 31 Mawrth 2023 | **78** | **13,937** | **5,433** | **19,071** | **38,519** |

Cronfeydd S4C

Dangosir cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus ar 31 Mawrth 2023 ar wahân isod:

| | Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau Sefydlog | Stoc | Eraill | Cronfa Gyffredinol | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 222 | 14,671 | 8,399 | - | **23,292** |
| Trosglwyddiad y Gronfa Gyffredinol am y cyfnod | - | - | - | 825 | **825** |
| Trosglwyddiad Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r cyfrif elw a cholled | (144) | (734) | (3,791) | - | **(4,669)** |
| Trosglwyddiad i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | - | - | 825 | (825) | **-** |
| Ar 31 Mawrth 2023 | **78** | **13,937** | **5,433** | **-** | **19,448** |

Mae cyfanswm o £3.844m wedi'i drosglwyddo o'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus i'r cyfrif elw a cholled yn 2022/23 (2021/22 - £2.786m o'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus). Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiad o £0.825m (2021/22 - £0.701m) o'r Gronfa Gyffredinol, y trosglwyddiad Gwasanaethau Cyhoeddus o £4.669m (2021/22 - £3.487m) a nodir uchod.

## 14. Ymrwymiadau prydlesi gweithredol

Mae taliadau prydles lleiaf Grŵp S4C yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu fel a ganlyn:

| | Ar 31/03/23 | Ar 31/03/22 |
|---|---|---|
| Tir ac Adeiladau | **£000** | £000 |
| Llai nag un flwyddyn | **195** | 187 |
| Hwyrach nag un flwyddyn, ddim yn hwyrach na phum mlynedd | **755** | 735 |
| Hwyrach na phum mlynedd | **2,277** | 2,383 |
| | **3,227** | 3,305 |

Mae derbyniadau prydles lleiaf Grŵp S4C yn y dyfodol fel a ganlyn:

| | Ar 31/03/23 | Ar 31/03/22 |
|---|---|---|
| Tir ac Adeiladau | **£000** | £000 |
| Llai nag un flwyddyn | **-** | 251 |
| Hwyrach nag un flwyddyn, ddim yn hwyrach na phum mlynedd | **-** | 684 |
| Hwyrach na phum mlynedd | **-** | 778 |
| | **-** | 1,713 |

## 15. Ymrwymiadau cyfalafol

Nid oedd gan Grŵp S4C ac S4C unrhyw ymrwymiadau cyfalafol ar 31 Mawrth 2023 nac ar 31 Mawrth 2022.

## 16. Ymrwymiadau rhaglenni

Ar 31 Mawrth, yr oedd Grŵp S4C ac S4C wedi ymrwymo'n gytundebol i wario'r symiau a ganlyn ar raglenni:

| | Ar 31/03/23 | Ar 31/03/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Ymrwymiadau rhaglenni | **19,626** | 14,671 |

## 17. Offerynnau ariannol

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Asedau ariannol | **36,255** | 35,686 | **17,012** | 19,115 |
| Asedau ariannol | **36,255** | 35,686 | **17,012** | 19,115 |
| Rhwymedigaethau ariannol | **(14,720)** | (14,658) | **(14,209)** | (13,744) |
| Rhwymedigaethau ariannol | **(14,720)** | (14,658) | **(14,209)** | (13,744) |

Mae asedau ariannol yn cynnwys cronfeydd buddsoddi wedi eu mesur ar werth teg drwy'r cyfrif elw a cholled ac arian parod, dyledwyr masnach (gan gynnwys TAW), symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau grŵp a dyledwyr eraill a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio llai unrhyw leihad mewn gwerth.

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cynnwys credydwyr masnach, symiau sy'n ddyledus i ymgymeriadau grŵp a chroniadau a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio.

## 18. Dadansoddiad o'r newidiadau mewn cronfeydd net

| | Ar 01/04/22 | Llifarian | Arian parod heb eu gwireddu | Ar 31/03/23 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Arian mewn llaw ac yn y banc | 20,255 | (726) | - | 19,529 |
| Adnoddau parod eraill | 13,693 | - | (1,047) | 12,646 |
| | 33,948 | (726) | (1,047) | 32,175 |

Tudalen y pecyn 234

## 19. Cynllun pensiwn

### Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae'r Grŵp S4C yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig er budd gweithwyr.

Mae cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio yn gynllun pensiwn lle mae'r Grŵp S4C yn talu cyfraniadau penodedig i mewn i endid ar wahân. Ar ôl talu'r cyfraniadau, nid yw S4C dan ragor o rwymedigaethau talu.

Pan fydd y cyfraniadau'n daladwy, fe'u cydnabyddir yn gost yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r symiau nas talwyd i'w gweld yn groniadau, ar ffurf rhwymedigaeth, yn y Fantolen.

Mae asedau'r cynllun yn cael eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr mewn cronfeydd unigol sy'n annibynnol o rai S4C. Cafwyd tâl pensiwn o £1,080,069 ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023 (blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 - £948,990).

### Cynllun budd diffiniedig

Mae'r Grŵp S4C yn gweithredu cynllun budd diffiniedig, sydd yn rhan o Gynllun Pensiwn Staff Ofcom (CTA gynt). Ar 31 Mai 2011, caewyd y cynllun budd diffiniedig i groniad yn y dyfodol. Trosglwyddwyd yr holl aelodau gweithredol i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae asedau'r cynllun yn cael eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr mewn cronfa sy'n annibynnol o rai Grŵp S4C.

Mae cynllun buddion wedi'u diffinio wedi nodi'r buddion pensiwn y bydd y gweithiwr yn eu cael pan fydd yn ymddeol. Mae'r buddion pensiwn hyn yn ddibynnol ar sawl elfen fel rheol. Bydd yr elfennau hyn yn cynnwys oedran, hyd gwasanaeth, a chydnabyddiaeth ariannol, ond nid dim ond y rhain o reidrwydd. Ystyr cynllun buddion wedi'u diffinio yw cynllun pensiwn nad yw'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio.

Defnyddir y dull rhagamcanu unedau i gyfrifo'r rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio. Mae Grŵp S4C yn talu am wasanaeth actiwariaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth bob blwyddyn. Pennir y gwerth presennol drwy ddisgowntio'r hyn a amcangyfrifwyd ynghylch taliadau'r dyfodol. Gwneir hyn drwy ddefnyddio'r arenillion yn y farchnad ar gyfer bondiau corfforaethol o safon y maent yn rhai sterling ac y mae eu cyfnod yn lled debyg i'r cyfnod amcangyfrif ar gyfer taliadau'r dyfodol ('y gyfradd ddisgowntio').

Mesurir gwerth teg asedau'r cynlluniau yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r cwmni ynghylch asedau tebyg sydd ganddo. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Dan incwm cynhwysfawr arall y credydir/debydir yr enillion a'r colledion actiwaraidd a ddeillia o addasiadau ar sail profiad ac o newid tybiaethau actiwaraidd. Mae'r symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau 'eiddo parod', ar ôl tynnu'r symiau a gynhwysir yn y llog net, yn cael eu datgelu dan 'Ailfesur y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio (net)'.

Mae'r pensiwn net sydd dros ben yn cael ei gydnabod fel naill ai gall yr asedau gael eu hadennill gan y cynllun neu gall arwain at gyfraniadau is yn y dyfodol. Mewn achos pan nad yw'r amodau hyn yn bodoli nid yw'r cyfanswm net sydd dros ben yn cael ei gynnwys ar y Fantolen fel sydd ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2022.

Seilir costau a rhwymedigaethau'r cynllun ar brisiad actiwaraidd. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf ar 31 Mawrth 2018 gan actwari annibynnol cymwys.

### Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwari oedd:

| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 | Ar 31/03/21 |
|---|---|---|---|
| Chwyddiant | **3.3%** | 3.7% | 3.3% |
| Cyfradd disgownt rhwymedigaethau'r cynllun | **4.8%** | 2.8% | 2.0% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau cysylltiedig yn llawn a'r mynegai pris manwerthu | **3.3%** | 3.7% | 3.3% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sydd â mynegai pris cyfyng | **3.1%** | 3.5% | 3.2% |

Ar sail y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer disgwyliadau einioes, disgwylir i bensiynwr gyrywaidd sydd yn awr yn 60 fyw am 26.5 blwyddyn bellach (2021/22 - 26.9 blwyddyn). Darparir lwfans ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol parthed disgwyliadau einioes.

Mae'r swm sy'n gynwysedig yn y Fantolen yn tarddu o oblygiadau'r Grŵp S4C i'r cynllun fel â ganlyn:

| | **Ar 31/03/23 Gwerth** | Ar 31/03/22 Gwerth | Ar 31/03/21 Gwerth |
|---|---|---|---|
| | **£000** | £000 | £000 |
| Bondiau Llywodraeth | **800** | 800 | 700 |
| Blwydd-daliadau yswiriedig | **26,400** | 34,600 | 35,600 |
| Arian | **500** | 800 | 900 |

Ar ôl cwblhau pryniant ar gyfer y rhwymedigaethau anyswiriedig gweddilliol yn yr Adran S4C ym mis Mai 2019, delir y mwyafrif helaeth o asedau'r Adran mewn polisïau blwydd-dal sy'n symud yn unol â rhwymedigaethau'r Adran. Mae gweddill asedau'r Adran wedi'u buddsoddi mewn arian parod a giltiau indecs-gysylltiedig i dalu am gostau rhedeg ac unrhyw dreuliau ychwanegol a allai godi o'r pryniant.

| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 | Ar 31/03/21 |
|---|---|---|---|
| | **£000** | £000 | £000 |
| Cyfanswm gwerth marchnadol yr asedau | **27,700** | 36,200 | 37,200 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | **(26,500)** | (34,900) | (35,900) |
| Ased pensiwn net | **1,200** | 1,300 | 1,300 |
| Ased pensiwn heb ei gydnabod | **(1,200)** | (1,300) | (1,300) |
| Sefyllfa mantolen net | **-** | - | - |

Yn unol ag FRS 102, dangosir y cynllun ar y fantolen ar 31 Mawrth 2023 fel ased net o £dim (ar 31 Mawrth 2022 - £dim).

Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y datganiad incwm fel â ganlyn:

| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cost gwasanaeth presennol | | |
| Enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | **(1,000)** | (700) |
| Costau rhedeg | **100** | 100 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **1,000** | 700 |
| Cyfanswm costau gweithredol | **100** | 100 |

Cynhwysir y symiau a godwyd neu a gredydwyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn yr incwm a thaliadau gweithredol ac o fewn llog taladwy.

Mae newidiadau i werth presennol oblygiadau'r budd diffiniedig fel â ganlyn:

| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Oblygiadau agoriadol y budd diffiniedig | **34,900** | 35,900 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **1,000** | 700 |
| Buddion a dalwyd | **(1,800)** | (1,000) |
| Enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau | **(7,600)** | (700) |
| Oblygiadau terfynol y budd diffiniedig | **26,500** | 34,900 |

Mae newidiadau yng ngwerth marchnadol asedau'r cynllun fel â ganlyn:

| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gwerth marchnadol asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod | **36,200** | 37,200 |
| Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun | **1,000** | 700 |
| Costau rhedeg | **(100)** | (100) |
| Buddion a dalwyd | **(1,800)** | (1,000) |
| Colledion actiwaraidd ar asedau | **(7,600)** | (600) |
| Gwerth marchnadol asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod | **27,700** | 36,200 |

Prif gategorïau buddsoddiadau asedau'r cynllun, fel % o gyfanswm asedau'r cynllun:

| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 |
|---|---|---|
| Bondiau Llywodraeth | **3%** | 2% |
| Arian | **2%** | 2% |
| Blwydd-daliadau yswiriedig | **95%** | 96% |

Gwir enillion asedau'r cynllun:

| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun | **1,000** | 700 |
| Colledion actiwaraidd ar asedau | **(7,600)** | (600) |
| Gwir (colled)/enillion ar asedau'r cynllun | **(6,600)** | 100 |

Enillion o £0.1m (blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 - enillion o £0.1m) yw'r cyfanswm a gydnabuwyd yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr Arall ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023.

Colledion o £10.367m (blwyddyn i 31 Mawrth 2022 colled - £10.467m) yw'r swm cronedig gydnabuwyd yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr Arall ar 31 Mawrth 2023.

Dadansoddiad hanesyddol o werthoedd asedau, rhwymedigaethau'r cynllun a gwarged cyffredinol:

| | **Ar 31/03/23** | Ar 31/03/22 | Ar 31/03/21 | Ar 31/03/20 | Ar 31/03/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gwerth marchnadol asedau'r cynllun | **27,700** | 36,200 | 37,200 | 31,900 | 53,500 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun | **(26,500)** | (34,900) | (35,900) | (30,800) | (38,300) |
| Gweddill yn y cynllun | **1,200** | 1,300 | 1,300 | 1,100 | 15,200 |

## 20. Rhwymedigaethau amodol – Grŵp S4C ac S4C

Ar 31 Mawrth 2023, nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol (ar 31 Mawrth 2022 - £dim).

## 21. Trafodion partïon cysylltiol

Yr is-gwmnïau masnachol sy'n eiddo'n llwyr, cyd-fentrau, aelodau'r Bwrdd ac aelodau'r Tîm Rheoli yw partïon cysylltiedig S4C.

Mae cydnabyddiaeth yr Bwrdd a'r Tîm Rheoli yn cael ei ddatgelu yn nodyn 5.

Ni wnaed unrhyw drafodion partion cysylltiol perthnasol gan aelodau y Bwrdd neu'r Tîm Rheoli yn ystod 2022/23.

Mae holl drafodion a balansau is-gwmnïau masnachol S4C wedi eu dileu yn y broses gyfuno. Mae S4C wedi manteisio ar yr eithriad o ddatgelu unrhyw drafodion gydag unrhyw gwmni grŵp arall o dan Safonau Adrodd Ariannol 102.

E02915576
978-1-5286-4130-2

Delyth Jewell, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant a’r Gymraeg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Gorffennaf 2023

Annwyl Gadeirydd

**Lleoli Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol Amenedigol Gogledd Cymru**

Ysgrifennaf atoch ar ran Grŵp Iechyd a Lles Cymdeithas yr Iaith sy’n ymgyrchu yn unol â'r dull di-drais dros hawliau trigolion Cymru i gael derbyn gwasanaethau iechyd a gofal yn Gymraeg. Fel grŵp, rydym yn bryderus iawn am gynlluniau Llywodraeth Cymru i leoli gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol amenedigol gogledd Cymru y tu allan i Gymru, gan amddifadu merched a’u teuluoedd o’u hawl i dderbyn gofal trwy’r Gymraeg. Galwn ar Y Pwyllgor Diwylliant a’r Gymraeg i gynnal ymchwiliad i’r mater am y rhesymau a amlinellir isod.

Ceir tystiolaeth gynyddol bod cleifion yn teimlo’n fwy cyfforddus, hyderus a medrus i drafod eu hiechyd yn eu mamiaith (Misell, 2000; Madoc-Jones, 2004; Prys, 2010; Iaith, 2012; CYG, 2014; Hughes, 2018; Martin et al, 2019); a byddai’n hollol annerbyniol pe na bai'r mamau hyn yn cael defnyddio eu Cymraeg, a hwythau eisoes mewn sefyllfa mor fregus. Heblaw hynny, os am gyrraedd rhywun mewn gwewyr meddwl, mae’n rhaid ar gyfathrebu effeithiol sy’n briodol i’w anghenion iaith (Pavlenko, 2012; Santiago-Rivera ac Altarriba, 2002). Gall hyn fod yn allweddol ar gyfer cynnal asesiadau cywir a dibynadwy, a chyflwyno triniaethau ystyrlon ac effeithiol (Karliner et al, 2010; de Moissac a Bowen, 2019; Seale et al, 2022). Am hynny, does dim amheuaeth y byddai cael y cyfle i siarad eu hiaith eu hun yn gallu gwneud cymaint o wahaniaeth i brofiadau a chanlyniadau’r cleifion dan sylw.

Rydym yn ymwybodol o wasanaethau ehangach a ddarperir dros y ffin lle mae arbenigedd wedi’i gwreiddio ers blynyddoedd. Ond credwn fod y sefyllfa dan sylw yn bur wahanol gan fod yr arbenigedd iechyd meddwl eisoes gennym yng ngogledd Cymru – a hynny’n aml trwy’r Gymraeg. Rhaid nodi mai merched ar eu mwyaf bregus sydd dan sylw fan hyn. Gallwn ond dychmygu eu sefyllfa hunllefus a fyddai’n gwaethygu’n arw o fod mewn awyrgylch lle mae popeth yn teimlo’n anghyfarwydd, yn enwedig yr iaith o’u cwmpas. Mewn sefyllfa o’r fath, mae’n rhaid i’r driniaeth fod yn ieithyddol briodol neu mae yna beryg na fydd yn effeithiol - na hyd yn oed yn addas ar gyfer yr unigolyn.

Rydym wedi ein siomi’n arw gydag ymateb y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i’r drafodaeth (gweler cofnod Y Senedd 15/2/23 ac ymateb ysgrifenedig y gweinidog i Gymdeithas yr Iaith 1/6/23). Wrth ddiystyried pwysigrwydd y Gymraeg yn y gwaith cynllunio, mae Llywodraeth Cymru yn cefnu ar egwyddorion craidd ei strategaeth *Mwy na Geiriau* ac yn tanseilio hawliau dynol merched bregus. Galwn ar Y Pwyllgor Diwylliant a’r

Gymraeg i gynnal ymchwiliad i'r mater hwn ar frys gan ystyried y dystiolaeth yn llawn ac ail-agor y drafodaeth. Rydym yn ffyddiog y byddai hyn yn arwain at gynllunio o'r newydd er mwyn gwarchod hawliau iaith mamau a theuluoedd ar eu mwyaf bregus.

Yn gywir

Gwerfyl Roberts
Cadeirydd
Grŵp Iechyd a Lles
Cymdeithas yr Iaith

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru

Copi at: Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

17 Gorffennaf 2023

**Amserlen Cyllideb Ddrafft 2024-25**

Annwyl Rebecca,

Trafododd y Pwyllgor lythyr y Pwyllgor Cyllid atoch (dyddiedig 7 Gorffennaf 2023) yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2023. Mae'r Pwyllgor yn adleisio'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr amserlen amlinellol ar gyfer craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

Fel y mae llythyr y Pwyllgor Cyllid yn ei nodi, dyma'r bumed flwyddyn yn olynol i'r broses ddau gam beidio â chael ei dilyn fel y'i nodir ym Mhrotocol Proses y Gyllideb ("y Protocol"). Mae'r Pwyllgor yn derbyn rhesymau blaenorol dros beidio â dilyn y Protocol, megis pandemig Covid-19 a newidiadau i ddyddiadau digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU. Ar yr ail o'r ddau bwynt, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen gwell fframwaith ar gyfer penderfyniadau cyllidol a wneir ledled y DU – a hynny er mwyn sicrhau gwell eglurder ynghylch pryd y bydd dewisiadau ariannol pwysig yn cael eu gwneud. Byddai hyn o fudd i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â nifer o gyrff eraill sy'n dibynnu ar benderfyniadau amserol, megis cyrff a ariennir yn gyhoeddus ac awdurdodau lleol. Byddai'r Pwyllgor yn eich annog i godi hyn gyda gweinidogion cyllid eraill yn llywodraethau'r Deyrnas Unedig.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE-253-2023

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

21 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth,

**Amserlen cyllideb 2024-25**

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf, sy'n mynd i'r afael â materion a godwyd yn llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf y Pwyllgor Cyllid at y Pwyllgor Busnes ynghylch amserlen cyllideb 2024-25.

Rwyf wedi amgáu copi o'm llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf, sy'n ymateb i'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Cyllid.

Mae ansicrwydd ac amseriad hwyr digwyddiadau cyllidol olynol Llywodraeth y DU wedi cael effaith andwyol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru sy'n paratoi eu cynlluniau gwariant, yn ogystal ag ar gyrff eraill sy'n dibynnu ar benderfyniadau amserol, megis cyrff a noddir yn gyhoeddus ac awdurdodau lleol. Mae amseriad hwyr y digwyddiadau cyllidol hyn hefyd wedi arwain at amserlenni cyllidebol byrrach, gan leihau'r amser sydd ar gael i'r Senedd ac eraill sy'n dymuno craffu ar ein cynlluniau gwariant.

Rwyf wedi codi'r pryderon hyn yn uniongyrchol gyda Phrif Ysgrifenyddion olynol y Trysorlys mewn gohebiaeth ac ochr yn ochr â'r Gweinidogion Cyllid datganoledig eraill yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Cyllid am ei ymdrechion i godi hyn gyda Llywodraeth y DU.

Byddaf yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ymrwymo i gyhoeddi ei Chyllideb yr Hydref cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, o ystyried amseriad digwyddiadau cyllidol hydref y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r cyd-destun cyllidol ansicr, mae'n ddoeth bod yn barod am y posibilrwydd o Gyllideb Hydref hwyr gan y DU eto eleni.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae sefydlu un fframwaith cyllidol yn y DU, sy’n seiliedig ar anghenion, y cytunir arno gan bob llywodraeth ac a gaiff ei weithredu a’i warantu’n annibynnol, yn parhau i fod yn un o nodau hirdymor Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer penderfyniadau cyllidol a wneir ledled y DU, sy’n parchu’r effaith ar gynllunio ariannol yn y llywodraethau datganoledig.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE-251-2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@senedd.cymru

20 Gorffennaf 2023

Annwyl Peredur,

**Newidiadau Arfaethedig i Brotocol Proses y Gyllideb**

Diolch am eich llythyr ynglŷn ag adolygiad o Brotocol presennol Proses y Gyllideb, a'r amlinelliad o'r newidiadau posibl sydd i'w gwneud. Mae ein swyddogion wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd adeiladol i drafod a oes modd inni gytuno ar unrhyw rai o'r newidiadau rydych wedi'u cynnig cyn inni ddechrau ar y paratoadau ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25.

Fel y trafodwyd yn ein cyfarfod ar 20 Mehefin, rwy'n fodlon cytuno ar yr holl newidiadau rydych wedi'u cynnig, gan gynnwys ffurfioli ein trefniadau craffu rhag-gyllidebol presennol, ar wahân i'r cynigion i eithrio wythnosau'r toriad ar gyfer craffu ar y Gyllideb (paragraff 10) ac unrhyw ymrwymiad i gyhoeddi o fewn 4 wythnos i ddigwyddiad cyllidol Llywodraeth y DU (paragraff 12).

Rwy'n croesawu ein trafodaethau cadarnhaol ar y ddau fater hwn ac yn cydnabod y dull adeiladol rydych wedi'i gymryd i gydnabod yr effaith y mae cael gwybod am fanylion setliad ein cyllideb yn ystod tymor yr hydref yn ei chael ar baratoi'r Gyllideb Ddrafft a chraffu arni. Rwy'n sicr y gallwn ddod o hyd i ateb hyblyg i'n galluogi i wneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael ar gyfer ein prosesau Cyllidebol, yn hytrach na gosod terfyn o bedair wythnos yn unig. Mae'n anodd deall cymesuredd y ddadl bod angen i Bwyllgorau gael mwy na dwbl yr amser i graffu ar gynlluniau gwariant nag y mae Gweinidogion yn ei gael i'w paratoi. Byddwn yn croesawu ystyriaeth bellach ar gyfer y cynnig hwn.

Rydym yn gyfarwydd iawn â'r anawsterau hyn, ac mae eu datrys yn dibynnu ar amseriad digwyddiad cyllidol yr hydref yn llywodraeth y DU, ac efallai y byddai'n well ystyried y cynigion ar gyfer newidiadau i'n hamserlen Gyllidebol fel rhan o waith mwy hirdymor ar Ddiwygio'r Senedd. Hoffwn bwysleisio mai dyma'r prif reswm y bu'n rhaid inni sbarduno'r amgylchiadau eithriadol ym mhrotocol proses y gyllideb sy'n amharu ar ein gallu i lunio'r gyllideb a chaniatau amser ar gyfer craffu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n hyderus y byddwn yn gallu dod i gyfaddawd ynghylch yr eithriadau rwyf wedi'u hamlinellu. Fodd bynnag, nid wyf yn hyderus y gellir cytuno ar y rhain yn gyflym a heb ddadansoddiad priodol o'r goblygiadau ar gyflawni'r Cyllidebau.

Y prif bethau rwy'n eu hystyried wrth symud ymlaen yw sut rydym yn sicrhau cymesuredd rhwng yr amser sydd ar gael i lunio'r Gyllideb a chraffu arni, gan sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau yn ystod paratoadau'r Gyllideb, a sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol yn y Protocol i ymateb i heriau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. Nid wyf yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau pellach heb ystyried yn gyntaf sut y maent yn effeithio ar y tri phryder allweddol hwn.

Roedd dau gynnig arall lle cytunwyd y byddai'n debygol y gallem ddod i gytundeb pe ceir esboniad ynghylch y geiriad yn eich cynigion cychwynnol. Mae'r rhain yn ymwneud â phresenoldeb Gweinidogion mewn pwyllgorau craffu rhag-gyllidebol (paragraff 5B); ac ymrwymiadau i Lywodraeth Cymru gyhoeddi mwy na dwy Gyllideb atodol o fewn blwyddyn ariannol (paragraff 34 a pharagraff 40).

Gwnaethoch nodi mai bwriad y Pwyllgor yn syml oedd cydnabod ein hymarfer presennol lle rwyf i, fel y Gweinidog Cyllid, wedi cael y pleser o fynd i'r Pwyllgor Cyllid i gefnogi proses graffu rhag-gyllidebol y Pwyllgor. Gwnaethoch esbonio nad oedd y Pwyllgor wedi bwriadu cynnig y dylai Gweinidogion eraill fynd i bwyllgorau perthnasol at ddibenion tebyg. Rwyf wedi awgrymu geiriad diwygiedig isod i'r Pwyllgor ei ystyried.

**Craffu cyn y gyllideb – Paragraff 5B.**
Mewn blynyddoedd lle ceir oedi cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, y disgwyl yw y bydd ~~Llywodraeth Cymru~~y Gweinidog Cyllid yn bresennol yn sesiynau craffu'r Pwyllgorau rhag-gyllidebol, os yw'r Pwyllgor Cyllid yn gofyn hynny. ~~Nid oes disgwyl y bydd gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth na bod yn bresennol yn y sesiwn hon.~~

Mae'r ail awgrym o ran geiriad amgen yn ymwneud â chais y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru gyhoeddi trydedd Gyllideb Atodol mewn blynyddoedd lle bydd 'amgylchiadau eithriadol'. Gwnaethom gytuno, er nad oedd y term 'amgylchiadau eithriadol' wedi'i ddiffinio'n briodol, bod y drydedd gyllideb atodol ychwanegol ar gyfer dyraniadau Covid wedi dangos sut y mae'r trefniadau presennol yn rhoi'r hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi mwy nag un Gyllideb Atodol, yn y blynyddoedd hynny pan fo Gweinidogion yn credu fod hynny'n angenrheidiol. Mae'r geiriad newydd arfaethedig ar gyfer paragraffau 34 a 40 isod.

**Para 34 – Cyllidebau Atodol**
Er mwyn sicrhau tryloywder symudiadau ariannol yn ystod y flwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ~~parhau i osod~~gosod dwy gyllideb atodol bob blwyddyn~~, (neu fwy mewn blwyddyn 'eithriadol')~~, yn amodol ar y ddau baragraff canlynol. Mae Llywodraeth Cymru'n cadw'r hyblygrwydd i gyhoeddi cyllideb atodol ychwanegol pe bai'n penderfynu gwneud hynny.

**Para 40 – Cyllidebau Atodol**
Mae unrhyw newid i'r adnoddau sydd eu hangen ar y cyrff hyn a ariennir yn uniongyrchol yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig cyllideb atodol. ~~O dan y trefniadau diwygiedig, mae hyn yn parhau i fod yn wir gan fod newidiadau i'r cynnig cyllidebol y berthnasol i Lywodraeth Cymru yn unig.~~ Fel y nodwyd ym mharagraff 26, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno ~~cyllidebau atodol yr un mor aml ag o'r blaen. Mae~~o leiaf ddwy gyllideb atodol ym mhob blwyddyn ariannol. Bydd Llywodraeth Cymru ~~felly'n ymrwymo i barhau i gysylltu'n~~yn cysylltu'n rheolaidd â'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol ~~a cheisio darparu ar gyfer~~ac yn ceisio bodloni eu gofynion ariannol ~~yn ystod~~o fewn y flwyddyn drwy broses y gyllideb atodol. Bydd unrhyw gynnig i amrywio pa mor aml y cyflwynir cyllidebau atodol yn ystyried gofynion cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

Pan wnaethom gyfarfod ar 20 Mehefin, nodais y byddwn yn cynnig rhai newidiadau pellach i'r Protocol, sydd â'r bwriad o gadarnhau a chryfhau ein trefniadau cyllidebol mewn blynyddoedd lle nad ydym yn gallu cyhoeddi Cyllideb Ddrafft tan nes ymlaen yn nhymor yr hydref. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor ystyried y cynigion a nodwyd yn y tabl isod fel rhan o unrhyw ddiwygiadau y byddwn efallai'n cytuno i'w gwneud i fersiwn gyfredol Protocol Proses y Gyllideb.

| **Newid arfaethedig** | **Safbwynt Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| ***Cydnabod rôl y Gweinidog Cyllid a'r Pwyllgor Cyllid wrth graffu ar y Protocol a'r Rheolau Sefydlog***<br><br>*Mewnosod fel paragraff 25 newydd o dan yr is-bennawd 'Craffu ar y Gyllideb'*<br><br><u>Geiriad arfaethedig</u><br><br>Bydd ymarfer craffu'r Pwyllgor Cyllid ar y Gweinidog Cyllid yn canolbwyntio ar gyfrifoldeb strategol cyffredinol y Gweinidog Cyllid am ddyrannu'r cyllidebau Prif Grŵp Gwariant cyffredinol. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn cydnabod bod craffu dyraniadau ar gyfer polisïau a rhaglenni unigol yn syrthio'n fwy priodol o dan gyfrifoldeb pwyllgorau 'pwnc' y Senedd, gyda chwestiynau'n cael eu gofyn i'r gweinidog portffolio priodol. | Roedd y Protocol a'r diwygiadau dilynol i'r Rheolau Sefydlog yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng Cyllideb ddrafft amlinellol (Cam 1) a chynlluniau gwariant adrannol, manwl (Cam 2).<br><br>Er y cyhoeddwyd y ddau gam gyda'i gilydd yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau amlinellol a strategol y Gweinidog Cyllid a chyfrifoldebau gwariant adrannol manwl Gweinidogion portffolio'n parhau.<br><br>Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid wedi cydnabod bod nifer o faterion portffolio penodol wedi'u codi yn sesiynau craffu blaenorol y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb, er eu bod wedi'u cyflwyno'n fwy priodol i'r Gweinidogion portffolio perthnasol. Mae'r Cadeirydd wedi nodi na fydd yn caniatáu cwestiynau penodol am y portffolio yn y dyfodol. |
| ***Gosod paragraff Newydd cyn Para 9.***<br><br>Rhaid i'r Trefnydd roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes ar ba ddyddiad y bydd y Cyllidebau Drafft Manwl ac amlinellol yn cael eu gosod, a bydd Cynnig y Gyllideb Flynyddol yn cael ei gyflwyno o leiaf pythefnos cyn toriad yr haf bob blwyddyn. Yn y blynyddoedd pan mae Llywodraeth y DU yn nodi nad yw'n bwriadu rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am lefel Setliad y Gyllideb tan yr hydref, bydd y Trefnydd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Busnes na fydd y dyddiadau hyn yn gyhoeddus nes y bydd dyddiad digwyddiad cyllidol yr hydref Llywodraeth y DU yn gyhoeddus. | Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llythyr y Trefnydd at y Pwyllgor Busnes wedi cynnig dyddiadau ond wedi nodi y gallai'r rhain newid. Mae hyn wedi arwain at ansicrwydd o ganlyniad i ddiffyg eglurder gan Lywodraeth y DU. Mae'r Gweinidogion Cyllid wedi gorfod ysgrifennu at y Pwyllgorau Busnes a Chyllid i ofyn am amynedd y Pwyllgorau o ran y newidiadau i'r dyddiadau arfaethedig.<br><br>Mae newid y dyddiad cau i'r Trefnydd roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes yn adlewyrchu effaith penderfyniadau Llywodraeth y DU yn well.<br><br>Efallai y bydd hyn yn golygu newid i SO20.2 a SO 20.3. |

| Newid arfaethedig | Safbwynt Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| | |
| ***Gosod paragraff newydd ar ôl Para 11***<br><br>Bydd Cyllidebau Drafft a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd lle bu adolygiad gwariant yn wahanol i'r Cyllidebau Drafft a gyhoeddwyd ar gyfer blynyddoedd dilynol mewn cyfnod aml-flwyddyn. Cydnabyddir y bydd y Gyllideb Ddrafft gyntaf a gyhoeddir yn dilyn adolygiad gwariant yn cynnwys mwy o fanylder nag yn y blynyddoedd diweddarach, sy'n adlewyrchu y bydd cynlluniau eisoes wedi'u cyhoeddi gyda chyllidebau drafft ar ôl yr Adolygiad Gwariant, gan adlewyrchu newidiadau i'r cynlluniau manylach hyn. | Yn ystod y broses o graffu ar y gyllideb gyntaf mewn cyfnod amlflwyddyn newydd, bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru roi mwy o wybodaeth nag y byddent mewn Cyllidebau ym mlynyddoedd diweddarach y cyfnod adolygiad o wariant. Mae angen cydnabod y gwahaniaeth rhwng y digwyddiadau cyllidol hyn.<br><br>Bydd cydnabod nad oes angen cyflwyno gwybodaeth ailadroddus o'r flwyddyn gyntaf yn hwyluso cyflwyno gwybodaeth yn y blynyddoedd diweddarach o fewn y graddfeydd amser a orfodwyd gan gyhoeddiadau hwyr Llywodraeth y DU ynghylch ein setliad Cyllideb. |
| ***Mewnosod paragraff newydd***<br><br>Mewnosod fel paragraff 23 newydd o dan yr is-bennawd 'Craffu ar y Gyllideb'<br><br>Bydd Gweinidogion yn rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i bwyllgorau'r Senedd i gefnogi eu cynlluniau gwariant ar gyfer y Gyllideb Ddrafft. Bydd Gweinidogion yn anelu i ddarparu fersiwn Saesneg pob papur o fewn un wythnos i gyhoeddi'r Gyllideb ddrafft ac, os yw'r amserlen yn caniatáu, o leiaf pythefnos cyn y cyfarfod pwyllgor. Bydd fersiynau Cymraeg y papurau'n cael eu darparu o leiaf dau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod Pwyllgor. *Ni fydd Pwyllgorau'r Senedd na Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi papurau nes y bydd y fersiynau Cymraeg wedi'u darparu i sicrhau cydymffurfiaeth ag ymrwymiadau statudol Llywodraeth Cymru i gyhoeddi gwybodaeth yn ddwyieithog.* | Mae'r cynnig yn ceisio cydnabyddiaeth ynghylch yr amser y bydd yn ei gymryd i gynhyrchu'r wybodaeth hon ac mae'n adlewyrchu'r cytundeb cyfredol rhwng y Pwyllgorau a Gweinidogion.<br><br>Mae Gweinidogion wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth i gefnogi craffu yn ddwyieithog ar y Gyllideb Ddrafft. Fodd bynnag, mae paratoi papurau tystiolaeth yn dasg y mae'n rhaid iddynt ei gohirio nes y byddant wedi cyflwyno eu cyfraniadau i ddogfennau cyhoeddedig y gyllideb. |

Ysgrifennais atoch ar 15 Mehefin i gefnogi cynnig y Pwyllgor o ran y newidiadau i'r Datganiad o Egwyddor sy'n llywodraethu'r broses o graffu ar y cyllid a ddyrennir i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

Rwyf hefyd yn awyddus i archwilio newidiadau i alluogi'r Senedd i gymeradwyo'r cynnig ar benderfyniad Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT) cyn y diwrnod y bydd Cynnig y Gyllideb Flynyddol yn cael ei ystyried. Mae hwn yn drefniant ymarferol i roi amser, os bydd angen, i dynnu'r cynnig ar benderfyniad Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn ôl, ei newid, a'i ailgyflwyno cyn i Gynnig y Gyllideb Flynyddol gael ei gymeradwyo.

Awgrymaf, ar ôl cynnal trafodaethau pellach, y dylem geisio gwneud y newidiadau i'r Protocol a'r Rheolau Sefydlog uchod fel un pecyn sengl, cyfunol o newidiadau, yn hytrach na cheisio cymeradwyaeth y Senedd mewn modd mwy tameidiog.

Rwy'n croesawu'r trafodaethau adeiladol sydd eisoes wedi'u cynnal ynglŷn â'r cynigion ar gyfer newidiadau i'r Protocol a'n proses Gyllidebol. Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn parhau i adolygu'r sefyllfa hon yn ystod cyfnod y Gyllideb a sicrhau deialog sy'n cyd-fynd â'r cyfnod Adolygiad o Wariant nesaf.

**Dogfennau sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru**

Wrth ddatblygu'r materion hyn, bydd Gweinidogion yn ystyried y materion a godwyd gennych yn eich llythyr ar 23 Mehefin, lle gwnaethoch roi gwybod am sylwadau gan Bwyllgorau'r Senedd ynghylch amseroldeb a thryloywder deunydd ysgrifenedig a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru i gefnogi ein cynlluniau gwariant.

Gan droi at y sylwadau gan y Pwyllgorau, rydym wedi cytuno yn ein trafodaethau ar y Protocol sut y mae ymdrech Llywodraeth y DU i gadarnhau manylion ein setliad cyllidebol ar ddiwedd tymor yr hydref yn cael effaith ar y broses graffu, a'i fod hefyd yn cael effaith yr un mor sylweddol ar yr amser sydd ar gael i Weinidogion baratoi'r wybodaeth gyllidebol. Yn y cyd-destun hwn, hoffwn fynd i'r afael â rhai o'r materion rydych wedi'u codi yn ymwneud ag amseroldeb yr wybodaeth rydym yn ei darparu.

I ddechrau, y dyddiadau pan fydd Gweinidogion yn gallu darparu tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgorau'r Senedd: mae rhai Pwyllgorau wedi mynegi siom nad oedd y dystiolaeth wedi'i darparu ar y dyddiadau a nodwyd yn y ceisiadau cychwynnol am dystiolaeth. Er bod Gweinidogion yn deall awydd y Pwyllgor i dderbyn y dystiolaeth cyn gynted â phosibl, yn anaml iawn y bydd yn bosibl i Weinidogion roi tystiolaeth yn y diwrnod neu ddau yn dilyn cyhoeddiad y Gyllideb Ddrafft, yn enwedig yn ddwyieithog, oherwydd eu bod wedi bod yn canolbwyntio ar gwblhau eu cynlluniau gwariant. Os nad yw hyn wedi bod yn bosibl, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â thimau clercio'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl i gytuno ar y dyddiadau amgen nesaf sydd ar gael ar gyfer darparu'r dystiolaeth.

Mae gallu Gweinidogion i sicrhau perthynas agored gyda phwyllgorau a nodi pa dystiolaeth nad oes modd ei darparu o fewn yr amserlen a roddwyd yn dangos pa mor bwysig y mae Gweinidogion yn ei ystyried yw'r broses o graffu ar y cynlluniau gwariant. Os nad yw'n opsiwn i Weinidogion ail-negodi'r dyddiadau ar gyfer cyflwyno, eto byddwn yn gofyn ein bod yn ystyried clustnodi cyfnod cymesur o amser yn y lle cyntaf i alluogi i swyddogion gynhyrchu tystiolaeth o ansawdd uchel i'r Pwyllgorau.

Mae'n werth nodi nad oes angen i Bwyllgorau aros i'r papurau tystiolaeth gael eu cyhoeddi cyn dechrau craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Cytunodd y Gweinidogion i gyhoeddi tablau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gais y Pwyllgorau i ategu'r manylion yr oedd y Pwyllgorau'n credu oedd eu hangen er mwyn craffu'n iawn ar y Gyllideb Ddrafft. Mae cyhoeddi'r tablau yn galluogi'r Pwyllgorau i ddadansoddi'r tablau Llinellau Gwariant yn y

Gyllideb y gwnaethant ofyn amdanynt heb orfod aros am yr esboniad o’r dyraniadau gwariant ym mhapurau tystiolaeth y Gweinidogion.

Rwyf hefyd wedi ystyried sylwadau’r Pwyllgorau’n ymwneud â chynnwys papurau tystiolaeth y Gweinidogion. Yn hyn o beth, gall fod yn ddefnyddiol pe bai ein swyddogion yn cydweithio i gynhyrchu templed ar gyfer y papurau tystiolaeth, a all dynnu ar yr enghreifftiau blaenorol o arferion da y mae rhai o’r Pwyllgorau wedi cyfeirio atynt. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol pe bai’r Pwyllgorau Senedd sydd â chyfrifoldeb am graffu ar y Gyllideb Ddrafft yn cael y nodyn briffio technegol a roddwyd i’r tîm clercio yn unig yn y gorffennol. Byddai fy swyddogion yn fwy na pharod i drefnu hyn.

Yn ail, rwy’n cydnabod sylwadau’r Pwyllgor Cyllid nad yw ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft ar gael yn ddigon buan cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. Gwnaeth y Prif Weinidog ymrwymiad i Aelodau y byddai ymatebion yn cael eu darparu erbyn y diwrnod cyn y ddadl ar y Gyllideb derfynol, fan bellaf. Ein nod o hyd yw i ddarparu ymatebion dwyieithog cyn diwedd y dydd ar y diwrnod cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol, a bydd Gweinidogion yn gwneud pob ymdrech i gyflawni’r amcan hwn yn ystod proses y Gyllideb ar gyfer 2024-25.

Mae rhai Pwyllgorau wedi awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i esbonio’r gwahaniaethau rhwng y Gyllideb Ddrafft a’r Gyllideb Derfynol cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. Mae wedi bod yn arfer gennym ers peth amser i gyhoeddi manylion penodol a llawn y newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a’r Gyllideb Derfynol mewn pennod o’r Nodyn Esboniadol ar y Gyllideb Derfynol, sy’n cael ei gyhoeddi un wythnos cyn y ddadl ar Gynnig y Gyllideb Flynyddol. Ni fyddai digon o amser ar gael i Weinidogion ysgrifennu at Bwyllgorau i ailadrodd y manylion hyn ac nid wyf yn credu y byddai unrhyw fudd ymarferol i Bwyllgorau pe bai Gweinidogion yn gwneud hynny.

Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i edrych ar sut y gellir gwneud newidiadau i’r modd y bydd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno ochr yn ochr â’r Gyllideb Ddrafft. Rwyf wedi gofyn i’m swyddogion friffio fy nghydweithwyr ar y Cabinet ar yr argymhellion a gyflwynwyd yn eich llythyr diweddaraf, a byddaf yn edrych am gyfleoedd i sicrhau gwelliannau. Ar y sail honno, edrychaf ymlaen at barhau â’r trafodaethau fel rhan o’n sgyrsiau parhaus ynghylch Protocol y Gyllideb a’n prosesau Cyllideb.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

**Sport Wales National Centre**
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru
Sophia Gardens | Gerddi Sophia
Cardiff | Caerdydd
CF11 9SW
0300 3003123
www.sport.wales | www.chwaraeon.cymru

CEO | Prif Weithredwr : Brian Davies
Chair | Cadeirydd: Baroness, Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL

Delyth Jewell AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20.07.2023

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ar honiadau'n ymwneud â honiadau o ymddygiad amhriodol o fewn Undeb Rygbi Cymru. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi a'r pwyllgor ehangach am eich ymgysylltu yn ystod yr ymchwiliad. Roedd Chwaraeon Cymru yn falch o allu rhannu ei brofiad, ei arbenigedd a'i arferion gyda'r Pwyllgor i helpu fel sail i'w waith.

O ran yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad, roeddwn yn teimlo ei bod yn briodol ysgrifennu'n benodol am argymhelliad 6 a oedd yn galw ar Chwaraeon Cymru i weithredu. Roedd yr argymhelliad hwnnw'n nodi:

> *Dylai Chwaraeon Cymru ystyried y cyllid mae'n ei ddarparu i gyrff rheoli cenedlaethol yng ngoleuni unrhyw honiadau o ymddygiad amhriodol o fewn y cyrff rheoli hyn.*

Mae Chwaraeon Cymru yn derbyn yr argymhelliad. Byddai Chwaraeon Cymru, fel rhan o'i broses gallu ac atebolrwydd, bob amser yn ystyried y cyllid mae'n ei ddarparu yng ngoleuni unrhyw honiadau o ymddygiad amhriodol. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i Gyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol, ond ar draws ein rhwydwaith partneriaid llawn sy'n cael ei gyllido.

Bu achlysuron pan ddarparwyd gostyngiadau mewn cymorth ariannol, taliadau fesul cam neu ddisgwyliadau ychwanegol yn unol ag unrhyw gynigion i liniaru risg. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynnig ffurfiol i Undeb Rygbi Cymru tra rydym yn aros am gynnydd gyda chynllun gwella penodol.

INVESTORS IN PEOPLE
We invest in people Standard
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Safon
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
YN DYFARNU ARIAN ODDI WRTH
AWARDING FUNDS FROM
THE NATIONAL LOTTERY®
Sport Wales is the trading name of the Sports Council for Wales | Chwaraeon Cymru yw enw masnachu Cyngor Chwaraeon Cymru

Yn ogystal, bydd ein hadolygiad o'r fframwaith gallu a'n dull o ddatblygu atebolrwydd yn cryfhau'r ymrwymiad hwn ymhellach gyda fframwaith gwell, gan gynnwys gweithredu polisi cwynion newydd.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn helpu i roi sicrwydd i'r Pwyllgor nid yn unig o ran ein hymrwymiad i ddiogelu arian cyhoeddus a sicrhau ei fod mor effeithiol â phosib ymhlith y rhai rydym yn buddsoddi ynddynt, ond hefyd ein hymrwymiad parhaus i gefnogi gwelliant parhaus o fewn llywodraethu ac ymddygiadau partneriaethau ar draws y sector chwaraeon.

Yn Gywir,



Brian Davies

Prif Weithredwr

Chwaraeon Cymru

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth /**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-DB-1859-23
Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, yr Iaith Gymraeg,
Pwyllgor Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth,

Diolch am yr adroddiad gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar honiadau ynghylch Undeb Rygbi Cymru.

Rwy'n ddiolchgar i chi ac aelodau'r Pwyllgor am eich ffocws diweddar ar yr honiadau a wnaed yn erbyn Undeb Rygbi Cymru. Rwyf wedi amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad mewn atodiad i'r llythyr hwn.

Fodd bynnag, hoffwn fynd i'r afael ag un o'ch casgliadau ym mharagraff 65 ac egluro na weithredais yn anghyson rhwng materion casineb at fenywod a thrawsryweddol wrth gyfathrebu ag URC.

Ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol a minnau at URC ar eu polisi trawsryweddol gan fod URC wedi cysylltu â ni i gael barn. Bu swyddogion yn gweithio gydag URC ar y polisi wrth ei ddatblygu ac roeddem am nodi safbwynt Llywodraeth Cymru. Roedd hon yn senario wahanol iawn o'i chymharu â'r honiadau gan nad oedd gennyf unrhyw wybodaeth bendant i'w chodi wrth ysgrifennu, gydag URC, ond fe'u codwyd yn anffurfiol mewn cyfarfodydd gyda Phrif Swyddog Gweithredol URC ar sawl achlysur.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
Ebrill 2021 i Fawrth 2022
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn anfon gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd**

**"Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru"**

## Argymhelliad 1

Pan fydd y Panel Adolygu Annibynnol yn cyhoeddi ei adroddiad, dylai URC fynd ati cyn gynted ag y bo'n ymarferol i gyhoeddi cynllun gweithredu yn dangos sut a phryd y bydd yn rhoi ei argymhellion ar waith. Dylai hefyd fynychu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i esbonio ei gamau gweithredu presennol ac arfaethedig yn y maes hwn.

Ymateb:

Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer URC i'w ystyried.

## Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gymorth ariannol y mae'n ei roi i URC yn y dyfodol yn gydnaws â phob agwedd ar y strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r Contract Economaidd.

Ymateb:

Derbyn.

Er nad ydym yn darparu cyllid craidd i gyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol – dyna rôl Chwaraeon Cymru – fe wnaeth Llywodraeth Cymru, dan amgylchiadau eithriadol iawn yn ystod Covid, ddarparu cymorth grant a benthyciad brys a hanfodol i URC, a sefydliadau eraill, i oroesi'r argyfwng yr oeddent yn ei wynebu.

Wrth gytuno'n ddiweddar i ailstrwythuro'r cytundeb benthyciad, a wnaed yn wreiddiol i helpu URC brynu allan ei fenthyciad CLBILS gan Lywodraeth y DU, ysgrifennodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth at URC yn nodi rhai rhagofynion er mwyn i drafodaethau ddechrau. Roeddent yn cynnwys hyrwyddo gêm gynhwysol lle mae menywod a merched yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu clywed a'u cefnogi gyda gweithleoedd sy'n dilyn arferion gwaith teg ac yn diogelu a sicrhau gwerth am arian mewn unrhyw fuddsoddiad cyhoeddus. Roedd y llythyr hefyd yn cynnwys cyfeiriad at y contract economaidd, a oedd yn rhan o'r cymorth ariannol blaenorol presennol i URC, a sut y dylai URC a Llywodraeth Cymru adeiladu'r gofynion hynny ymhellach i'n partneriaeth i sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn cefnogi eu cynlluniau tymor hwy ar gyfer busnes iachach. Cytunodd URC ar y rhain i gyd.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau y gellir ymgorffori'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn unrhyw gyllid y mae URC yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Byddant hefyd yn cynnwys y rhain yn y trefniadau rheoli cyfrifon ffurfiol sydd ar waith gydag URC i fonitro cydymffurfiaeth â'r cytundeb benthyciad.

## Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd pryderon ynghylch diwylliant sefydliad yn cael eu hystyried ym mhenderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid rhoi cymorth ariannol i'r sefydliad hwnnw.

Ymateb:

Derbyn.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i ddiogelu arian cyhoeddus, gan sicrhau eu bod yn cael eu trin ag uniondeb, stiwardiaeth ac er budd y cyhoedd. Mae'n bwysig bod hyder yn y sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu, gan sicrhau bod cyllid yn cyrraedd y safonau uchaf o ran ymddygiad cyhoeddus. Mae nifer o ffactorau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses arfarnu wrth ddarparu cyllid i sefydliadau.

Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd yn uniongyrchol i sefydliadau chwaraeon ond mae'n cyfarwyddo Chwaraeon Cymru, fel rhan o'u cylch gwaith, i ddarparu arian i sefydliadau chwaraeon, fel cyrff llywodraethu cenedlaethol. Wrth benderfynu a ddylid darparu cyllid i'r sefydliadau hynny, mae gofyniad i arddangos eu gallu yn erbyn fframwaith llywodraethu sy'n asesu a oes gan sefydliadau drefniadau llywodraethu digonol, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau cadarn, i roi sicrwydd eu bod yn addas i dderbyn arian cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro hyn yn rheolaidd gyda Chwaraeon Cymru, ac mae Chwaraeon Cymru yn hyderus eu bod yn mynd i'r afael â'r cyfrifoldeb hwn yn effeithiol. Yn ddiweddar hefyd, cawsant sicrwydd sylweddol ar eu prosesau gan eu harchwilwyr.

**Argymhelliad 4**

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei phrotocolau ar gyfer ymateb i bryderon a godir gyda Gweinidogion, Dirprwy Weinidogion a gweision sifil am ymddygiad amhriodol mewn sefydliadau yng Nghymru. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ar ganlyniad yr adolygiad hwn a dylai nodi pa gamau y bydd yn eu cymryd o ganlyniad.

Ymateb:

Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn a bydd yn ysgrifennu'n ôl at y Pwyllgor o fewn chwe mis, yn unol â'r cais.

**Argymhelliad 5**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi sut y dylai'r sefydliadau y mae'n eu hariannu ddefnyddio'r cyllid hwn mewn llythyrau cylch gwaith. Mae craffu da yn dibynnu ar allu asesu a yw'r nodau hyn wedi'u cyflawni. I'r perwyl hwn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gofynion llythyrau cylch gwaith y sefydliadau y mae'n eu hariannu yn glir ac yn ddiriaethol.

Ymateb:

Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu cyfarwyddyd i dderbynwyr grantiau annibynnol y mae'n eu cefnogi ar sut y dylid gwario cyllid drwy'r telerau, yr amodau a'r atodlenni yn y llythyr cynnig grant.

Mae Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Chwaraeon Cymru, yn sefydliadau hyd braich. Felly, maent yn gyfrifol am wneud eu penderfyniadau ariannu eu hunain yn seiliedig ar

flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru fel y nodir yn eu llythyrau cylch gwaith tymor y llywodraeth.

**Argymhelliad 6**

Dylai Chwaraeon Cymru ystyried y cyllid y mae'n ei ddarparu i gyrff llywodraethu cenedlaethol yng ngoleuni unrhyw honiadau o ymddygiad amhriodol yn y cyrff llywodraethu hyn.

Ymateb:

Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer Chwaraeon Cymru i'w ystyried.

Sport Resolutions administers the Welsh Rugby Union (WRU) Independent Review which investigates allegations of sexism, misogyny, homophobia and racism and examines the organisational culture and behaviours of leadership at all levels at the WRU.

The Independent Review Panel to consider the period from 2017 to the present was announced in February 2023. Dame Anne Rafferty DBE chairs it, alongside Maggie Alphonsi MBE and Quentin Smith. Counsel to the Review is David Lawson.

The Panel has issued an update on progress and invites individuals to submit any information they have about the subject of the Review.

**1.** The Panel has made good progress. First, we want to emphasise that we are still keen to hear from anyone with something to say about the Welsh Rugby Union and the subjects of the review. We have approached many people, and people have contacted us about providing information. We would really like as wide a group as possible to tell us what they think, know and have experienced. We also encourage people who want to send information anonymously, as some people have already done. All information sent to Sport Resolutions is held by them and not the Welsh Rugby Union. There is a stand-alone and confidential email address as well as an online form to send evidence. If anyone has any questions about how to submit evidence please contact independentpanel@sportresolutions.com and they will help you.

**2.** We have met many witnesses and have written evidence from staff and players and former staff and players. We are arranging more meetings over the summer. Once the full panel was in place in March we asked the WRU for documents and we continue to work on documents and to request documents these refer to.

**3.** Past members of staff can speak to us and the WRU has confirmed that it will not see this as a breach of any agreement not to discuss their employment with any third party.

**4.** We have met a number of people who have taken a public interest in Welsh Rugby and lots of people who can give us information about particular issues which we can put together to form an overall picture.

**5.** We have read or listened to every report and broadcast of potentially analogous reviews, so we can see the WRU as part of a big picture, nationally and internationally. We have, of course, read the Senedd report.

**6.** We have heard about:

a. Welsh rugby – People have spoken about the growth of women's rugby, the formation of the national team and the move to professional women's rugby. We have heard about the structure of men's and women's club rugby and financial issues, including post-pandemic, and the balance between the community game and national teams.

b. Governance – We have heard about organisational structure and how it relates to management and culture and about past and recent changes.

c. Employment practices – We have seen the WRU's employment policies and heard about their implementation. We have also heard about people bringing complaints and grievances and about the use of non-disclosure agreements.

d. Culture – Lots of people told us about the wider culture in rugby and in the Welsh Rugby Union, including in the community and at a professional level.

**7.** Of course, there has also been a mass of behind-the-scenes activity – setting up electronic systems, obtaining and reading documents and appointing investigators to help gather evidence. The experienced and skillful team at Sport Resolutions has been and is a major resource.

**8.** We will have in mind the forthcoming men's World Cup in considering when to publish the final report.

# Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru

Adroddiad y Panel Arbenigol ar yr Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru

# Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol** 3
**Datganiad y Cyd-gadeiryddion** 4
**Adran 1:** Y Panel Arbenigol 6
**Adran 2:** Y sefyllfa ar hyn o bryd 8
**Adran 3:** Beth glywodd y Panel 12
**Adran 4:** Sefydlu Awdurdod Cysgodol i Gymru 18
**Adran 5:** Awdurdod Cysgodol i Gymru – egwyddorion allweddol 19
**Adran 6:** Awdurdod Cysgodol i Gymru - meysydd y canolbwyntir arnynt yn benodol 20
**Adran 6.1:** Newyddiaduraeth 20
**Adran 6.2:** Plant a phobl ifanc 21
**Adran 6.3:** Chwaraeon 22
**Adran 7:** Sefydlu Awdurdod Cysgodol i Gymru 23
**Adran 8:** Yr Awdurdod Cysgodol (2024-25) - argymhellion y cynllun gwaith 26
**Adran 9:** Taliadau cydnabyddiaeth, staffio, costau allweddol a llywodraethiant Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol a'r Awdurdod Cysgodol 32
**Adran 10:** Gwaith Awdurdod i Gymru o 2025 ymlaen 32
**Adran 11:** Gwaith Awdurdod i Gymru yn y dyfodol 35
**Casgliad** 36

**Atodiad 1:** Cylch Gorchwyl y Panel Arbenigol 37
**Atodiad 2:** Ymrwymiadau perthnasol y Cytundeb Cydweithredu 39
**Atodiad 3:** Rhestr o Dystiolaeth a ystyriwyd gan y Panel Arbenigol 40
**Atodiad 4:** Dosbarthu Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru: Canllawiau ar Ddosbarthu 41
**Atodiad 5:** Llyfryddiaeth 49

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r tirlun darlledu a chyfathrebu yn newid yn gyflym. Bydd y 10 mlynedd nesaf yn gyfnod hollbwysig i'r sector, gyda threfniadau trwyddedu presennol ITV yn dod i ben yn 2024, a Siarter y BBC yn dod i ben ddiwedd 2027. Bydd y ddwy garreg filltir yn cael effeithiau penodol ar Gymru, gan gynnwys sefyllfa ariannu S4C yn y dyfodol.

Mae newid dramatig wedi bod i arferion gwylio ac mae ansicrwydd ynghylch cyllid darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Yn y cyd-destun hwn, gofynnwyd i'r Panel Arbenigol ddarparu argymhellion ac opsiynau i helpu i gryfhau cyfryngau Cymru, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ar gyfer fframwaith rheoleiddio effeithiol i Gymru, sy'n addas i'r diben.

Mae themâu allweddol wedi dod i'r amlwg o'r dystiolaeth a glywsom, a nodir y rhain yn fanwl yn Adran 3 yr adroddiad hwn.

Er gwaethaf y cymhlethdod sylweddol ar draws y cyd-destun llywodraethu, rydym yn credu bod modd cymryd rhai camau'n gyflym, ac o fewn cwmpas presennol pwerau Llywodraeth Cymru.

Ein hargymhelliad canolog yw sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru.

Rydyn ni'n credu ei bod yn hanfodol bwysig bod gan Lywodraeth Cymru gorff i droi ato yng Nghymru am arweiniad ar lywio'r newidiadau sydd ar y gorwel. Byddai'r corff hwnnw'n cryfhau rheoleiddio ac atebolrwydd ac yn dod â'r atebolrwydd hwnnw'n nes at adref.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi argymell y dylid adeiladu Awdurdod Cysgodol ar egwyddorion cydweithio, cyfranogi, tegwch, amrywiaeth, cynhwysiad a pherthyn, gan ddod â phobl a rhanddeiliaid at ei gilydd a chasglu tystiolaeth i lywio gweithredoedd.

Rydym wedi nodi'r egwyddorion allweddol a awgrymir ar gyfer yr Awdurdod Cysgodol yn Adran 5.

Rydym yn argymell creu gweithgor i sefydlu'r Awdurdod Cysgodol ac i gasglu rhagor o ddata, ymchwil a thystiolaeth. Rydym wedi nodi meysydd ffocws a argymhellir a rhai elfennau allweddol i'w cyflawni o adran 7 ymlaen, gan gynnwys ystyried cyfansoddiad, gofynion cyllido a threfniadau llywodraethu'r corff.

Gellir datganoli'r pwerau i reoleiddio, goruchwylio ac ysgogi atebolrwydd dros ddarlledu a chyfathrebu yng Nghymru mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, ac rydym yn cynghori yn adran 7 bod angen rhagor o gyngor technegol, fel elfen allweddol o gynllun gwaith yr Awdurdod Cysgodol, cyn bwrw ymlaen.

Rydym yn credu y dylai'r Awdurdod Cysgodol ddod yn Awdurdod cwbl weithredol ar ôl 12 mis.

# Datganiad y Cyd-gadeiryddion

Dros y deng mis diwethaf rydym wedi sylweddoli y bydd y deng mlynedd nesaf yn gwbl allweddol i ddyfodol darlledu a chyfathrebu yng Nghymru. Rydym yn byw drwy gyfnod o newid sydd mor gyflym a mor eang, yn enwedig yn y maes digidol, fel ei bod yn rhaid gweithredu er mwyn diogelu darlledu cyhoeddus, amddiffyn democratiaeth a gweithio gyda'n gilydd i wella amgylchedd cyffredinol y cyfryngau i bobl Cymru.

Ni allai penderfyniad Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Aelod Dynodedig, Cefin Campbell AS, i sefydlu Panel Arbenigol i archwilio creu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru fod wedi bod yn fwy amserol.

Roeddem yn wynebu tasg heriol. Roeddem yn cychwyn o sefyllfa ble roedd yna ddiffyg data a gwybodaeth am agweddau pwysig ar ddarpariaeth a defnydd y cyfryngau; ble roedd y ffiniau rhwng darlledu, cyfathrebu a'r cyfryngau yn aneglur; ble roedd y sefyllfa ynglŷn â phwerau datganoledig a rhai a gedwir yn ôl yn un gymhleth.

Defnyddiodd y Panel Arbenigol y cyfoeth o brofiad sydd gan ei aelodau ar draws meysydd darlledu, cyfathrebu, newyddiaduraeth, iaith, polisi, llywodraethiant a diwylliant Cymru i archwilio'r materion cyfredol sy'n wynebu'r sectorau ac i ystyried sut olwg fyddai ar dirlun y dyfodol, gan ganolbwyntio bob amser ar bobl a chynulleidfaoedd.

Yn dilyn proses o gasglu tystiolaeth yn eang, gan gynnwys comisiynu gwaith ymchwil o'r newydd, daeth yn glir bod angen cryfhau polisi, rheoleiddio ac atebolrwydd.

Daethom i'r casgliad bod angen corff annibynnol o arbenigedd ar y sector hanfodol hwn – Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol – i gynyddu tryloywder a gweledydd ar lefel Gymreig. Byddai'r corff hwn yn cynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau'r dyfodol, yn cefnogi ac yn diogelu'r diwydiant yng Nghymru fel y gall barhau i addasu a gwella, a chreu llais i bobl Cymru.

Fe ddysgon ni lawer o'n hymchwil i wledydd eraill - yn enwedig y rhai sy'n wynebu materion tebyg yn ymwneud â phwerau a gedwir yn ôl a phwerau datganoledig, a phwysigrwydd cefnogi dwyieithrwydd ac ieithoedd lleiafrifol. Roedd y cyd-destunau hyn atseinio gyda'n sefyllfa ni yng Nghymru a'r pwysau i gynnal a datblygu gwasanaethau o safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cawsom gyfle i gyfarfod ag arweinwyr ar draws y sector a gyda phobl ar lawr gwlad sy'n gwneud rhaglenni a darparu cynnwys. Roedd pob un ohonynt yn angerddol ac wedi ymrwymo i wasanaethu'r cyhoedd. Roedd yno awydd clir i ragor o annibyniaeth a chyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau, gan gynnwys rheolaeth ariannol, fod yma yng Nghymru.

Fe synhwyron ni rywfaint o nerfusrwydd ynghylch newid, yn ddigon dealladwy mewn cyfnod o ansicrwydd fel hwn. Roedd rhai yn teimlo mai'r status quo oedd y lle mwyaf diogel. Roedd y panel yn teimlo nad oedd hynny'n opsiwn.

Daethom i'r casgliad y gellid cryfhau materion llywodraethiant gyda llinell atebolrwydd a fyddai'n gliriach ac yn fwy trylwyr, ond eto'n gydweithredol, a hynny'n uniongyrchol gyda'r Senedd, ac yn arwain at fwy o benderfyniadau, cydweithredu a chraffu yma yng Nghymru.

Clywsom bryderon am y dyfodol: ofnau y gallai pobl yng Nghymru golli cyfleoedd i weld digwyddiadau chwaraeon sy'n cael eu hystyried yn rhan bwysig o'n treftadaeth a'n diwylliant, a chonsyrn ynghylch y cynnwys heb ei reoleiddio y mae gan blant fynediad rhwydd ato.

Cawsom gyfle i gyfarfod â Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y  Cyhoedd Cymru a chlywed pa mor fregus yw newyddiaduraeth a sut rydym yn rhannu llawer o'r un heriau. O ganlyniad, credwn y dylai newyddiaduraeth ddod o dan yr un corff newydd â darlledu a chyfathrebu.

Clywsom am y peryglon gwirioneddol y gallai cynnwys Cymreig fynd yn anweledig neu ar goll hyd yn oed, gyda'r llwyfannau digidol enfawr sydd bellach yn dominyddu'r ffordd rydym yn defnyddio ac yn casglu ein newyddion a'n gwybodaeth.

Dylem fod yn falch o'n darlledu yng Nghymru a dylem alluogi a chefnogi'r uchelgais i greu mwy o gynnwys yma yng Nghymru ar gyfer pobl Cymru.

Credwn y bydd sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol ynghyd ag agwedd ystyriol tuag at ddatganoli pellach yn rhoi'r gefnogaeth y mae'n ei haeddu i'r sector.

Megis cychwyn yn unig yw hyn, catalydd ar gyfer ffordd newydd ymlaen ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru; un a fydd, gobeithio, yn creu ffordd o weithio sy'n fwy cydweithredol, amgylchedd mwy diogel i ddarlledwyr a'r rhai sy'n creu cynnwys, ac un a fydd yn annog newid, arloesedd a mwy o atebolrwydd.

Hoffem ddiolch i aelodau'r Panel Arbenigol am roi llawer iawn o'u hamser ac am gyfrannu o'u harbenigedd a'u gwybodaeth i'r gwaith. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r tîm yn Cymru Greadigol dan arweiniad y Dirprwy Gyfarwyddwr Gerwyn Evans am eu mewnbwn a'u sgiliau ysgrifenyddiaeth ac i'r ymgynghorydd Rebecca Woolley. Yn bennaf oll, hoffem ddiolch i bawb a ddaeth i gyfarfod â ni ac a gysylltodd â ni yn y broses hon. Roedd eich cyfraniad yn amhrisiadwy.

# Adran 1: Y Panel Arbenigol

**1.** Sefydlwyd y Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol ar gyfer Cymru yn 2022 fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Mae'r Cytundeb Cydweithio (2021) yn cytuno i'r canlynol[1]:

> **"Ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru, i fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch elfennau bregus yn y cyfryngau ar hyn o bryd a'r ymosodiadau ar eu hannibyniaeth. Byddai'r corff hwn yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig yn y maes digidol ac yn annog lluosogrwydd yn y cyfryngau. Rydym ni o'r farn y dylai pwerau darlledu a chyfathrebu gael eu datganoli i Gymru."**

**2.** Penodwyd y Panel drwy alwad agored, a dewiswyd aelodau ar sail eu gwybodaeth a'u harbenigedd. Aelodau: Mel Doel a'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones (Cyd-gadeiryddion), Carwyn Donovan, Nia Ceidiog, Clare Hudson, Dr Llion Iwan, Ceri Jackson, Shirish Kulkarni, Richard Martin, Arwel Ellis Owen, Dr Ed Gareth Poole a Geoff Williams.

**3.** Mae'r Panel yn atebol yn y pen draw i Lywodraeth Cymru[2], gan adrodd i'r Dirprwy Weinidog ac Aelod Dynodedig o Blaid Cymru. Ei gylch gwaith yw darparu argymhellion ac opsiynau i helpu i gryfhau cyfryngau Cymru, cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ar gyfer fframwaith rheoleiddio effeithiol ac addas i'r diben i Gymru, a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad i edrych ar greu awdurdod darlledu a chyfathrebu cysgodol i Gymru[3].

**4.** O fis Mehefin 2022 ymlaen, cynhaliodd y Panel gyfarfodydd, gan gomisiynu ymchwil penodol a gwahodd amrywiaeth o randdeiliaid i roi tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig. Cynhaliwyd trafodaethau'r Panel yn ddwyieithog, a chefnogwyd ei waith gan swyddogion Llywodraeth Cymru gyda chymorth ymgynghorydd allanol.

**5.** Yn y sesiynau llafar, gwahoddwyd unigolion allweddol i gyflwyno eu safbwyntiau ar ffocws cylch gwaith y Panel fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl, gan gynnwys: cylch gwaith, cwmpas a threfniadau Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol; effeithiau posibl datganoli darlledu a chyfathrebu; addasrwydd y fframweithiau rheoleiddio a'r trefniadau cyllido presennol; a'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng nghyswllt Cymru yn benodol. Rhwng mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2023, cyfarfu'r Panel â'r canlynol:

- BBC Cymru Wales, ITV Cymru Wales, S4C
- Ofcom
- Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC)
- Ffederasiwn Undebau Adloniant Cymru (gyda chynrychiolwyr o BECTU, NUJ, Urdd Awduron Prydain Fawr, Equity ac Undeb y Cerddorion)
- AM Cymru
- Gwahoddwyd Netflix a Channel 4 i gwrdd â'r Panel

**6.** Yn ystod yr un cyfnod, gwahoddodd y Panel yr unigolion a'r sefydliadau canlynol i wneud cyfraniadau llafar:

- Alan Eslemont (Prif Swyddog Gweithredol TG4, Iwerddon)
- Andrew Jeffreys (Y Trysorlys, Llywodraeth Cymru)
- Y Sefydliad Materion Cymreig
- Canolfan Llywodraethiant Cymru (Prifysgol Caerdydd)
- Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru

1 Llywodraeth Cymru (2021) 'Y Cytundeb Cydweithio'. Ar gael yn https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/cytundeb-cydweithio-2021.pdf

2 https://www.llyw.cymru/panel-arbenigol-ar-awdurdod-darlledu-a-chyfathrebu-cysgodol-i-gymru/cylch-gorchwyl

3 https://www.llyw.cymru/cyhoeddi-panel-arbenigol-ar-ddatganoli-darlledu

**7.** Comisiynwyd gwaith ymchwil penodol gan y Panel i wella ei sylfaen dystiolaeth:

- Tueddiadau Darlledu - Paratowyd ar gyfer y Panel Arbenigol ar Ddatganoli Darlledu (Enders Analysis)
- Adolygiad o bwerau a chyfrifoldebau darlledu mewn gwledydd penodol (Prifysgol Caerdydd)
- Cyfryngau ar gyfer plant yn 2023 a'r angen am reoleiddio (Kids Industries)

**8.** Ddechrau 2023, gwahoddodd y Panel dystiolaeth ysgrifenedig drwy arolwg ar-lein Llywodraeth Cymru a derbyniodd ymatebion gan y sefydliadau canlynol:

- Arqiva
- Y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol
- Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr
- Race Council Cymru
- Channel 4
- Netflix
- ITV Cymru Wales
- TAC
- Ofcom
- Cymdeithas yr Iaith

**9.** Ymgynghorodd y Panel hefyd ag amrywiaeth eang o adroddiadau sydd wedi cael eu cyhoeddi a rhagor o dystiolaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.

# Adran 2: Y sefyllfa ar hyn o bryd

**10.** Mae tirwedd darlledu a chyfathrebu wedi bod yn newid yn gyflym yma yng Nghymru, ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae digidoleiddio a thechnoleg wedi trawsnewid sylfeini ein systemau cyfryngau; mae cyfryngau cymdeithasol bellach yn rhan annatod o'n bywydau bob dydd; mae marchnadoedd wedi dod yn fwy byd-eang; tarfwyd ar fodelau cyfryngau lleol a newyddiaduraeth ac mae llawer o heriau cymhleth yn wynebu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae cynnwys ac allbwn sectorau'r cyfryngau, sydd wedi'u gwahanu'n draddodiadol o ran gofynion rheoleiddio, yn cydgyfeirio ar draws llwyfannau digidol, ac mae'r ffiniau rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr neu ddinasyddion hefyd wedi mynd yn fwy aneglur. Ar yr un pryd, mae pryderon o hyd ynghylch lluosogrwydd yn y cyfryngau a'r angen am sector tecach sy'n gallu adlewyrchu a chynrychioli amrywiaeth gymdeithasol yn well. Mae cyflwyno band eang cyflym iawn a signal symudol 4G a 5G wedi golygu bod modd dosbarthu cynnwys yn eang dros y rhyngrwyd, ond mae cyflymder a darpariaeth, argaeledd a hygyrchedd yn dal yn anghyson i lawer o'n cymunedau.

**11.** Ar ôl i ddwy ddegawd fynd heibio ers dechrau datganoli, mae'r achos yn dal i gael ei wneud dros gryfhau'r berthynas rhwng democratiaeth, darlledu a chyfathrebu yng Nghymru, ac mae'r cyfryngau a thechnoleg ddigidol wedi'u nodi'n glir yn themâu strategol 'Cymraeg 2050'[4].

**12.** 12. Mae'n bosibl nad yw'r term 'darlledu' yn cwmpasu cymhlethdod llawn cynnwys fideo, sain a chynnwys arall ar-lein ar ymylon cyfryngau cymdeithasol. Yn aml, nid yw sianeli teledu a radio traddodiadol yn gallu cystadlu ag elfennau o'i bŵer a'i ddylanwad. Mae'r chwyldro technoleg yn cynnig llawer o bethau cadarnhaol i ddemocratiaeth – lledaenu gwybodaeth a barn bwysig, sy'n gallu bod yn gymhleth ar brydiau – ond mae llawer o beryglon; effaith niweidiol 'newyddion ffug' a diffyg cyferbyniad, cydbwysedd ac amrywiaeth amlwg a chadarn o ran y cynnwys sydd ar y llwyfannau hyn i herio lleisiau lleiafrifol i lywio'r sgwrs a dylanwadu'n ormodol arni, yn wleidyddol ac fel arall.

**13.** Nid yw'r diffiniad o 'ddarlledu' yn ein cylch gwaith yn cynnwys newyddiaduraeth yn benodol ac rydym yn ymwybodol bod panel arbenigol ar newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn rhedeg yn gyfochrog â'n gwaith. Fodd bynnag, er mwyn cyd-fynd â'n cylch gorchwyl i ddiogelu a chryfhau buddiannau democratiaeth a thrafodaethau gwleidyddol iach, mae'n hanfodol ein bod yn cynnwys yr angen i sicrhau effaith a gwelededd newyddiaduraeth gyfrifol a rheoledig.

**14.** Mae'r Bil Cyfryngau, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mawrth 2023, yn cydnabod esblygiad terminoleg ac yn cyfeirio mwy at 'wasanaethau clyweledol', 'cynnwys clyweledol', 'cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus', 'darlledwr gwasanaeth cyhoeddus', 'gwasanaethau rhaglenni ar y rhyngrwyd', lle'r oedd y term 'darlledu' wedi'i ddefnyddio mewn deddfwriaeth flaenorol i ddiffinio rôl a gweithgarwch clyweledol y BBC, S4C, C3, C4 a C5. Yn yr un modd, mae'r llythyr diweddar at Ofcom gan Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cyfeirio at **"fframwaith amlygrwydd ar-lein newydd fel bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael, ac yn cael amlygrwydd, ar draws y prif lwyfannau teledu ar-lein."**[5]

[4] Llywodraeth Cymru (2017) 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'

[5] https://www.gov.uk/government/publications/dcms-secretary-of-state-letter-to-ofcom-on-the-renewal-of-the-channel-3-and-channel-5-licences/letter-from-dcms-secretary-of-state-to-ofcom-on-the-renewal-of-the-channel-3-and-channel-5-licences

**15.** Mae arferion gwylio wedi newid, gyda gostyngiad o 37% mewn ffigurau gwylio teledu llinol ers 2010, ac mae hyn wedi digwydd hyd yn oed yn gyflymach dros y 2 flynedd diwethaf. Mae'r newidiadau hyn yn arbennig o amlwg yn y grwpiau oedran iau sy'n gwylio tua 75-80% yn llai o deledu na'u cyfoedion ddegawd yn ôl.[6] Yn ôl Cyfryngau'r Genedl: Cymru 2022, roedd pobl yng Nghymru'n treulio ychydig dros 3 awr y dydd yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu ar set deledu yn 2021, sy'n fwy na chyfartaledd y DU, ond gostyngodd yr amser a dreulir yn gwylio teledu gan ddarlledwyr yng Nghymru o 12.6% o'i gymharu â 2020, y gostyngiad cyfrannol mwyaf o blith holl wledydd y DU.

**16.** Mae gan ddarlledwyr domestig lwyfannau fideo ar-alw ar gyfer eu cynnwys ochr yn ochr â gwasanaethau Fideo Ar-alw Drwy Danysgrifio (SVODs) byd-eang fel Netflix, Amazon Prime ac ati. Mae rhywfaint o gynnwys darlledwyr domestig hefyd ar gael ar lwyfannau fideo ar-lein a safleoedd cyfryngau cymdeithasol (fel YouTube, Facebook, Instagram, a TikTok) ac ar wasanaethau Fideo Ar-alw drwy Danysgrifio.

**17.** Mewn amgylchedd cyfryngau digidol byd-eang ac aml-lwyfan cydgyfeiriol, mae wedi dod yn fwyfwy heriol i sicrhau gwelededd a'r gallu i ddod o hyd i gynnwys sy'n gysylltiedig â Chymru, gan gynnwys cynnwys yn y Gymraeg. Gall technoleg ac algorithmau seiliedig ar ardal ddaearyddol wneud y cynnwys hwn yn fwy - neu'n llai - hygyrch i bobl sy'n byw yng Nghymru.

**18.** Mae cynhyrchu cynnwys cyfryngau Cymraeg yn ddibynnol iawn ar yr amgylchedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel sy'n wir am lawer o gymunedau ieithoedd lleiafrifol ledled Ewrop. Mae lluosogrwydd cynnwys a lluosogrwydd o ran darparwyr cynnwys yn y Gymraeg yn ffactor pwysig wrth ddiwallu anghenion cymuned amrywiol o siaradwyr.

**19.** Mae gan y sector darlledu rhan ganolog o ran cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg yn y byd digidol. Mewn tirwedd sy'n newid, mae angen cyfleoedd ychwanegol er mwyn cryfhau a gwella presenoldeb a defnydd o'r iaith ar draws ystod o lwyfannau a chysylltu ei siaradwyr â chynnwys digidol amrywiol yn yr iaith.

**20.** Dros y blynyddoedd nesaf, mae disgwyl i'r tueddiadau cyffredinol hyn barhau, gyda rhagolygon y bydd teledu a gynhyrchir gan ddarlledwyr yn cyfrif am ddim ond hanner yr holl fideos a fydd yn cael eu gwylio yn 2027. Fodd bynnag, mae'r ystadegau llinell uchaf hyn yn cuddio amrywiaethau enfawr fesul grwpiau oedran. Erbyn 2027, rhagwelir mai dim ond 12% o'u hamser fideo y bydd pobl ifanc 15-24 oed yn ei dreulio yn ymgysylltu â chynnwys wedi'i gomisiynu/gynhyrchu gan ddarlledwyr, o'i gymharu ag 85% ar gyfer y rheini sydd dros 65 oed[7].

**21.** O fewn y darlun ehangach hwn o newid cyflym, mae rhai tueddiadau a thestunau pryder penodol yn amlwg i Gymru, fel y mae'r adroddiad ymchwil 'Broadcasting Trends', a gomisiynwyd gan y Panel yn dangos[8]:

- Mae dros chwarter yr oedolion yn cael gafael ar newyddion am Gymru drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig Facebook, ac mae TikTok yn boblogaidd iawn ymysg oedolion ifanc;
- Mae mwy o fodlonrwydd â darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru nag unrhyw wlad arall yn y DU (roedd 71% o'r rheini a oedd yn gwylio gwasanaethau sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru mewn cyfnod o 6 mis yn ystod 2021 yn dweud eu bod yn fodlon, a dim ond 9% oedd yn anfodlon);
- Mae ITV yng Nghymru yn tanberfformio o'i gymharu ag STV yn yr Alban, o ran canfyddiadau ynglŷn â darparu rhaglenni am eu gwledydd eu hunain.

[6] Enders Analysis (Chwefror 2023) 'Tueddiadau Darlledu: paratowyd ar gyfer y Panel Arbenigol ar Ddatganoli Darlledu'

[7] Enders Analysis (Chwefror 2023) 'Tueddiadau Darlledu: paratowyd ar gyfer y Panel Arbenigol ar Ddatganoli Darlledu'

[8] Enders Analysis (Chwefror 2023) 'Tueddiadau Darlledu: paratowyd ar gyfer y Panel Arbenigol ar Ddatganoli Darlledu'

- Mae ffigurau gwylio rhaglenni Cymreig y BBC ac ITV yn cyfrif am ddim ond 4% o gyfanswm yr amser gwylio teledu, gyda'r gwylio'n gogwyddo'n drwm tuag at y rheini dros 65 oed. Yn unol â'r holl wylio teledu, mae hyn yn gostwng dros amser, ond ar gyfradd ychydig yn arafach;
- Rhwng 2010 a 2022, bu gostyngiad o 62% yng nghyfanswm y rheini o dan 45 oed sy'n gwylio rhaglenni rhwydwaith o Gymru. Oherwydd y gostyngiadau hyn, roedd 88% o'r rheini a oedd yn gwylio rhaglenni rhwydwaith o Gymru yn 2022 yn dod o'r grŵp oedran dros 45 oed, er bod y grŵp hwn yn cyfrif am ychydig o dan hanner poblogaeth Cymru;
- Mae'r nifer sy'n gwrando ar y radio ledled Cymru yn debyg i'r DU, oni bai am y ffaith bod y BBC yn llawer mwy poblogaidd. Mae gan BBC Radio Cymru ystod ddemograffig eang o wrandawyr o ran oedran a chefndir economaidd-gymdeithasol. Bobl dros 65 oed sy'n gyfrifol am dri chwarter oriau gwrando BBC Radio Wales, sy'n codi cwestiynau ar unwaith ynghylch gwasanaethu pobl iau nad ydynt yn siarad Cymraeg.

**22.** Mae'r Sefydliad Materion Cymreig wedi gwneud gwaith i asesu cyflwr presennol rheoleiddio ac atebolrwydd darlledwyr yng Nghymru ac i edrych ar yr opsiynau sydd ar gael o ran modelau rheoleiddio yn y dyfodol. Cyhoeddwyd dwy ran olaf ei adroddiad ar Reoleiddio Darlledu yng Nghymru[9] ym mis Mawrth 2023. Roedd yr adroddiad yn nodi dau brif argymhelliad:

**Argymhelliad 1** - Dylai Llywodraeth y DU drosglwyddo rhai swyddogaethau sy'n ymwneud â darlledu o'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (pob penodiad i fyrddau sy'n llywodraethu darlledwyr, cyfrifoldeb polisi dros ddarlledu masnachol, a phenderfyniadau sy'n ymwneud â Siarter y BBC, Cytundeb y BBC a Ffi'r Drwydded Darlledu) i (a) Llywodraeth Cymru neu (b) Gomisiwn annibynnol.

- **Argymhelliad 2** - Dylai Llywodraeth Cymru greu Sefydliad Cyfryngau yng Nghymru cyn diwedd tymor presennol y Senedd ym mis Mai 2026. Dylai fod yn annibynnol ar lywodraethau a'i gylch gwaith fyddai gwasanaethu buddiannau dinasyddion a chynulleidfaoedd yng Nghymru.

**23.** Mae cwestiynau ynghylch llywodraethu Cymru yn y dyfodol yn ychwanegu mwy o gymhlethdod at y cymysgedd. Mae adroddiad interim y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru yn nodi deg pwynt lle mae pwysau ar ddatganoli, gan gynnwys pa mor fregus yw cysylltiadau rhynglywodraethol, cyfyngiadau ar bolisi a chyflawni ar ymylon y setliad, a diffyg gwybodaeth ac atebolrwydd. Mae'r pwysau a nodwyd gan y Comisiwn yn taro tant gyda'r Panel hwn o ran y dystiolaeth maent wedi'i chlywed ar draws y dirwedd darlledu a chyfathrebu mewn cyd-destun datganoledig ac yn tanlinellu pa mor fregus ac annigonol yw'r system bresennol o ran cyflawni go iawn ar gyfer pobl Cymru.

[9] Adroddiad Pwerau Darlledu yng Nghymru yr IWA - Rheoliadau Darlledu yng Nghymru - Sefydliad Materion Cymreig (iwa.wales)

**24.** Mae'r Cytundeb Cydweithio[10] rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cydnabod y diffyg hwn, ac yn nodi rhai o'r prif broblemau gyda'r system bresennol:

> **"Darlledu**
>
> **Er bod y pandemig wedi codi proffil democratiaeth Cymru a Chymru yng nghyfryngau'r DU, mae consensws cyffredinol bod y fframwaith darlledu a chyfathrebu presennol yn annigonol, yn llesteirio bywyd democrataidd ein gwlad ac nad yw'n gwasanaethu anghenion y Gymraeg, na'r uchelgeisiau ar ei chyfer. Felly, nid yw'r system bresennol yn gallu darparu'r cyfryngau sydd eu hangen ar Gymru. Mae Llywodraeth Geidwadol y DU hefyd yn peri bygythiadau parhaus i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac ymosodiadau arnynt. Mae Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid datganoli pwerau darlledu a chyfathrebu i'r Senedd."**

**25.** Ar hyn o bryd, mae 'darlledu a chyfryngau eraill' yn parhau i fod yn Faterion a Gadwyd yn Ôl[11] ac ni all y Senedd ddeddfu yn y meysydd hyn. Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol na Siarter y BBC yn benodol i Gymru. Mae hyn hefyd yn wir o ran y Bil Cyfryngau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mawrth 2023. Er mwyn rhoi pwerau i'r Senedd ddeddfu yn y maes hwn, byddai'n rhaid i Senedd y Deyrnas Unedig ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru i ddileu'r mater a gadwyd yn ôl.

**26.** Ar hyn o bryd mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang a nodir yn adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud unrhyw beth sy'n briodol yn eu barn hwy i gyflawni unrhyw un neu ragor o'r amcanion canlynol: (a) hybu neu wella llesiant economaidd Cymru, (b) hybu neu wella llesiant cymdeithasol Cymru, a (c) hybu neu wella llesiant amgylcheddol Cymru. Mae adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn caniatáu'n benodol i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth sy'n briodol yn eu barn hwy i gefnogi gweithgareddau amrywiol gan gynnwys: celfyddydau a chrefftau sy'n ymwneud â Chymru, gweithgareddau diwylliannol sy'n ymwneud â Chymru, a'r Gymraeg.

**27.** Mae'r pwerau hyn (adrannau 60 a 61) yn eang iawn ac yn rhoi cryn ryddid i Weinidogion Cymru gefnogi amrywiaeth o weithgareddau. Mae adran 70 yn rhoi pŵer penodol i'r Prif Weinidog roi cymorth ariannol (boed hynny drwy grant, benthyciad neu warant) i unrhyw weithgaredd y mae'r Prif Weinidog yn credu a fydd yn sicrhau, neu'n helpu i sicrhau, bod unrhyw amcan yn cael ei gyflawni o fewn swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

[10] Llywodraeth Cymru (2021) 'Y Cytundeb Cydweithio'. Rhaglen Bolisi Lawn'. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/y-cytundeb-cydweithio-rhaglen-bolisi-lawn-html

[11] Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Diwygiad yn Atodlen 7A (mater a gadwyd yn ôl 158)

# Adran 3: Beth glywodd y Panel

**28.** Daeth themâu allweddol i'r amlwg o'r dystiolaeth, a dyma'r sylfaen ar gyfer yr argymhellion yn yr adroddiad hwn:

**Atebolrwydd, craffu a rheoleiddio**

- Rhoddodd y Panel gyfle i drafod modelau eraill o reoleiddio, yn ogystal ag atebolrwydd a chraffu gyda'r nod o wasanaethu pobl Cymru yn well yn y maes hwn. Roedd darlledwyr presennol, rheoleiddwyr ac undebau yn amharod i gymryd rhan yn y sgwrs hon, gan gynnwys ar lefel modelu damcaniaethol, gan nodi mai mater gwleidyddol fyddai unrhyw adolygiad o'r trefniadau cyfansoddiadol presennol.
- Cyfeiriwyd at yr angen i ddarlledwyr fod yn atebol a'r angen i gynulleidfaoedd allu derbyn yr un gwasanaethau neu well gwasanaethau drwy unrhyw drefniadau. Byddai S4C yn disgwyl cael eu trin fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ledled y DU gan nodi'r gwerth a'r manteision sy'n gysylltiedig â chael eu hystyried fel rhan o'r 'teulu' darlledu gwasanaeth cyhoeddus ehangach.
- Clywodd y Panel bryderon mai dim ond sgyrsiau cyfeillgar oedd y trafodaethau â Phwyllgorau'r Senedd ar hyn o bryd, ac yn ei hanfod, nid oedd gan y Senedd bŵer go iawn i ddal Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn atebol.
- Nododd BECTU eu bod yn credu bod diffyg atebolrwydd yng Nghymru o ran darlledu gan fod Byrddau'r BBC ac S4C yn atebol yn uniongyrchol i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn San Steffan.
- Nododd y BBC eu bod yn atebol i OFCOM o ran eu cyfrifoldebau i Gymru, gan gynnwys targedau penodol ynghylch nifer yr oriau darlledu sy'n cynrychioli Cymru a'u gwariant ar gynnwys.
- Yn gyffredinol, nodwyd bod y sefyllfa bresennol yn system a oedd yn gweithio ac nad oedd angen dybryd i wella atebolrwydd ar lefel Cymru. Ar hyn o bryd, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu craffu llai manwl o ran eu gweithgarwch yng Nghymru, ar gyfer Cymru ac am Gymru. Mae'r Panel yn credu bod dadl dros gefnogi atebolrwydd mwy uniongyrchol i bobl Cymru.
- Nododd y Panel fod rhai gwledydd Ewropeaidd yn gweithredu modelau o reoleiddio ar y cyd, lle mae rhai agweddau ar reoleiddio'r cyfryngau yn digwydd ar lefel y wladwriaeth ac eraill ar lefel seneddau ymreolaethol neu ddatganoledig[12].
- Roedd yn ymddangos fod y rheini a oedd yn rhoi tystiolaeth yn ffafrio datblygu'r system bresennol o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a Llywodraeth Cymru, a rhwng ei gilydd. Nid yw'r trefniant hwn yn caniatáu unrhyw fewnbwn gan ddinasyddion, ac nid yw chwaith yn cynnwys unrhyw gyfraniad annibynnol at ddadl gyhoeddus ynghylch dyfodol hirdymor darlledu a chyfathrebu yng Nghymru.
- Mae diffyg data sylweddol mewn perthynas â'r cyfryngau darlledu a chyfathrebu sy'n cael ei brofi gan bobl Cymru, ac nid oes gan yr un sefydliad gyfrifoldeb i fynd i'r afael â hyn ar hyn o bryd.
- Roedd y Panel yn bryderus nad oedd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i wneud cynnwys Cymraeg yn fwy amlwg ac yn fwy hygyrch i bobl sy'n byw yng Nghymru drwy dechnoleg lleoli daearyddol.

[12] Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant, Prifysgol Caerdydd (Ionawr 2023)' Adolygiad o gyfrifoldebau a phwerau darlledu mewn gwledydd penodol: adroddiad i'r Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru

- Roedd y Panel yn bryderus nad oedd yn ymddangos bod llawer o feddwl tua'r dyfodol nac arloesi yn digwydd i ystyried sut gallai darlledu a chyfathrebu edrych yng Nghymru yn y dyfodol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw sefydliad yn gyfrifol am ddatblygu gweledigaeth strategol, sy'n benodol i Gymru yn y maes hwn.

## Ein cenedl ddwyieithog

- Mae gwahanu'r Gymraeg a'r Saesneg yn systematig ar draws y diwydiant yn nodweddiadol o sectorau'r cyfryngau mewn gwledydd dwyieithog ac amlieithog lle mae gan y cyfryngau bresenoldeb sylweddol yn yr ieithoedd dan sylw[13]. Mae creu neu gael mynediad at awdurdodau darlledu, sianeli teledu, gorsafoedd radio yn ogystal â'r wasg argraffu ac ar-lein wedi cael eu hystyried yn llwyddiannau mawr i gymunedau ieithoedd lleiafrifol ledled Ewrop a thu hwnt. Mae cynnwys a sefydliadau cyfryngau yn gwneud cyfraniad hollbwysig at gynyddu hyfywedd ieithoedd lleiafrifol. Mae gwella presenoldeb digidol ieithoedd fel Cymraeg, Basgeg, Galiseg a Chatalaneg yn hanfodol i'w rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

- Mae ein cenedl ddwyieithog gyfoes yn un lle rydym yn symud yn ôl ac ymlaen rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn ein cartrefi, ein gweithleoedd, ein hysgolion a'n cymunedau ehangach. Ac eto, nid yw'r fersiwn o Gymru rydym ni'n ei weld a'i glywed gan ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn aml yn cynrychioli'r cydfodoli hyblyg a chytûn hwn rhwng y ddwy iaith. Nododd y Panel fod angen rhagor o arloesi yn y maes hwn.

- Pan mae pethau'n cael eu gadael i rymoedd y farchnad yn unig, mae ieithoedd lleiafrifol yn cael eu gwthio ymhellach i'r cyrion ac mae angen arian cyhoeddus i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol. Gall Llywodraeth Cymru wneud hyn heb bwerau deddfu ychwanegol, ac mae eisoes yn gwneud hynny. Er enghraifft, cyllid Cyngor Llyfrau Cymru ar gyfer Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg.

- Mae data'r Cyfrifiad diweddar[14] yn dangos bod gan ychydig o dan 4% o gartrefi Cymru brif iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, a'r Bwyleg yw'r un fwyaf cyffredin. Ychydig neu ddim cynnwys darlledu sy'n cael ei ddarparu yn yr ieithoedd hyn ar hyn o bryd, a tharged statudol y DU ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain yw 5% o'r oriau o raglenni teledu[15].

- Mae cynulleidfaoedd di-Gymraeg Cymru'n dal i gael eu gwasanaethu'n wael o ran cynnwys yn benodol ar gyfer Cymru, ac mae'r bwlch cyllido yn y maes gwasanaeth hwn, o'i gymharu â'r Alban, yn parhau. Mae'r Panel o'r farn na ddylid amddifadu poblogaeth ddi-Gymraeg Cymru o faint priodol o gynnwys lleol perthnasol, ac mae hefyd yn nodi bod siaradwyr Cymraeg yn aml yn gwylio ac yn gwerthfawrogi rhaglenni Saesneg am Gymru. Ni chlywodd y Panel dystiolaeth i awgrymu bod y broblem hon yn cael sylw digonol gan ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'n dyfynnu ffigurau'n uniongyrchol gan y BBC isod i gadarnhau'r pryderon hyn[16]. Nid y BBC yn unig sy'n gyfrifol am beidio darparu gwasanaethau digonol i gynulleidfaoedd di-Gymraeg.
  - » Cyfanswm y gwariant ar gynnwys teledu Saesneg lleol yng Nghymru (ar draws BBC 1 a BBC 2) yn 2022 oedd £35m, o'i gymharu â chyllideb o £71m ar gyfer cynnwys teledu Saesneg yn yr Alban yn yr un cyfnod;
  - » Mae bodlonrwydd eang â darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru: mae cynulleidfaoedd yn fwyaf bodlon â darlledu gwasanaeth cyhoeddus (gyda 72% o'r rheini sy'n gwylio sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y chwe mis diwethaf yn dweud hynny), a dim ond 9% oedd yn anfodlon. S4C oedd â'r sgôr isaf, sef 60%.

[13] Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant, Prifysgol Caerdydd (Ionawr 2023)' Adolygiad o gyfrifoldebau a phwerau darlledu mewn gwledydd penodol: adroddiad i'r Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru

[14] https://www.llyw.cymru/grwp-ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-htmlreligion-wales-census-2021-html

[15] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0035/179954/tv-access-services-code.pdf

[16] BBC Group Annual Report and Accounts 2021/22 (2022). Available at: https://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/annualreport/ara-2021-22.pdf

» Roedd sgôr Cymru ychydig y tu ôl i Ogledd Iwerddon ond yn sylweddol uwch na'r Alban pan ofynnwyd pa mor dda roedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn darparu ar 'raglenni rhanbarthol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am fy ardal', gyda 52% o'r ymatebwyr yng Nghymru yn rhoi sgôr o 7 neu fwy allan o 10. Cafodd S4C sgôr o 67%, BBC 56%, ITV 49% a C4 28% a C5 22%. Yn yr Alban, cafodd ITV sgôr o 55% a 64% yng Ngogledd Iwerddon.

» Mae sianel BBC Scotland, a lansiwyd yn 2019, ar yr awyr bob noswaith, ac mae'n cynnwys awr lawn o newyddion. Er nad yw'r model hwn efallai'n briodol i Gymru, mae'n dangos bod buddsoddiad sylweddol gan y BBC mewn oriau ac amrywiaeth o genres ar gyfer cynulleidfa'r Alban yn Saesneg, o'i gymharu â'r hyn a welir yng Nghymru;

» Er bod BBC Cymru Wales wedi comisiynu drama ar y cyd ag S4C o bryd i'w gilydd (cynyrchiadau Cymraeg a Saesneg gefn wrth gefn), mae'r rhan fwyaf o'r dramâu Saesneg ar BBC Cymru Wales yn cael eu comisiynu ar y cyd â chomisiynwyr rhwydwaith y BBC. Mae hyn yn golygu bod bron y cyfan o wariant ac oriau BBC Cymru Wales yn y genre hwn yn cael eu neilltuo i ddrama y bwriedir ei dangos ar ryw adeg ledled y DU. Mae hyn yn dod â chryn dipyn o fuddsoddiad a graddfa i ddrama sydd wedi'i lleoli yng Nghymru ar y BBC, sy'n ddatblygiad cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, mae'r Panel yn pryderu bod drama sy'n benodol ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru yn yr iaith Saesneg yn dod yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol. Efallai nad yw chwaeth y rhwydwaith o ran y pwnc a stori bob amser yn adlewyrchu Cymru mewn ffordd sy'n taro tant yn ddigon dwfn â chynulleidfaoedd yma. Roedd 456 awr o raglenni Drama, Adloniant, Cerddoriaeth a'r Celfyddydau ar BBC Scotland yn 2022 (o'i gymharu â 63 yng Nghymru);

» Mae nifer yr oriau optio allan lleol ar gyfer newyddion a materion cyfoes dyddiol ac wythnosol ar y teledu yn yr iaith Saesneg yng Nghymru wedi gostwng i 367 awr (o 429 yn 2021) sy'n achos pryder ychwanegol. Dim ond yn achlysurol y mae rhaglenni materion cyfoes ymchwiliol ffurf hir yn cael eu darlledu bellach ar y rhaglen BBC Wales Investigates. Mae Wales Live, a sefydlwyd ychydig flynyddoedd yn ôl, yn fformat cylchgrawn wythnosol sy'n parhau ar BBC 1 Wales, ond nid yw'n cyflawni'r cylch gwaith ymchwilio ffurf hir hwn;

» Mae'r Panel yn pryderu'n fawr am nifer yr oriau o raglenni 'addysg, ffeithiol a chrefydd' ar BBC Cymru (i lawr i 165 awr yn 2022, o 212 awr yn 2021). Nid yw'r genre hwn yn addas ar gyfer cyd-gomisiynu â'r rhwydwaith (mae eithriadau i hyn o bryd i'w gilydd). Mae'n genre allweddol i gyflwyno straeon sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd Cymru ac yn taro tant â nhw, ac mae'n ymddangos ei fod yn dirywio. Mae X Ray, rhaglen ddefnyddwyr hirsefydlog BBC Cymru, newydd ddod i ben. Er ei bod yn bosibl nad yw rhai rhaglenni'n denu digon o gynulleidfaoedd i gyfiawnhau parhau i wario arnynt, rydym yn poeni am y gostyngiad cyffredinol mewn cynnwys lleol yn y genre hwn. Allai'r darlun ddim bod yn fwy gwahanol yn yr Alban, gyda 1008 awr yn cael eu comisiynu yn 2022;

» Mae ymchwil a gomisiynwyd gan y Panel hwn yn dangos mai rhaglenni penodol sydd wedi bod yn cael eu darlledu ers tro gan y BBC ac ITV sy'n wynebu'r cwymp mwyaf fel rhan o'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y gwylwyr teledu rhanbarthol ac ehangach. Mae X-Ray (BBC), Wales This Week (ITV) a Sharp End (ITV) wedi ymchwilio i faterion sy'n berthnasol i wylwyr yng Nghymru ers dros ddegawd. Er bod y tri wedi cynnal cynulleidfa sylweddol am lawer o'r amser hwnnw, bu gostyngiad dramatig yn nifer y gwylwyr yn ystod y pedair blynedd diwethaf, gyda phob un yn gostwng dros 35%.

» O ran gwariant ar y radio, mae'r ffigurau'n adrodd cyfrolau: Mae gan Radio Wales

gyllideb o £14m ac chylludeb Radio Scotland yw £24m. Mae'r gyllideb radio yng Nghymru'n cael ei rhannu'n fwy neu lai'n gyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, ond mae'r ffigur gwariant cyffredinol yn codi'r cwestiwn a yw'r gorsafoedd Cymraeg neu Saesneg yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt i wasanaethu eu cynulleidfaoedd;

» Yn ôl y rheoliadau, mae'n rhaid i'r BBC ac ITV gynhyrchu cynnwys newyddion a chynnwys heb fod yn newyddion penodol i Gymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru. Mae'r rheoliad yn nodi bod yn rhaid i ITV ddarlledu 5.5 awr o gynnwys newyddion a chynnwys heb fod yn newyddion penodol i Gymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru bob wythnos (286 awr y flwyddyn), ac mae'n rhaid i 4 awr o hynny fod yn newyddion, a 47 munud o raglenni materion cyfoes. Yn 2021, fe wnaethant orddarparu, gan gynhyrchu 332 (yn erbyn targed o 286)

» Drwy gydol 2022, denodd bwletinau newyddion Cymru ITV 1 (18:30-19:00) gynulleidfa gyfartalog o 126k. Bu gostyngiad o 45% yn hyn dros y pum mlynedd diwethaf.

» Mae S4C yn cyfrif am 1% yn unig o'r teledu sy'n cael ei wylio a 3% ymysg siaradwyr Cymraeg, ond mae gwylio wedi aros yn eithaf cyson dros y pum mlynedd diwethaf.

» Roedd 505,000 o bobl yn gwylio S4C yn y DU mewn wythnos arferol yn 2022. Yng Nghymru, roedd yn cael ei wylio gan 10% o'r boblogaeth sy'n berchen ar deledu bob wythnos. - Er mai dim ond 5% o gyrhaeddiad wythnosol sydd gan S4C ymysg pobl ifanc o dan 25 oed yng Nghymru ac 8% ymysg pobl 25-44, roedd ei chyrhaeddiad yn uwch ymysg pobl 45-64 oed (12%) a phobl dros 65 oed (17%)

» Mae 28% o holl wylio S4C yn ymwneud â rhaglenni chwaraeon, ac mae'n cyfrif am hanner y gwylio ymysg pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg. O'r 30 rhaglen a gafodd eu gwylio fwyaf ar S4C yn 2022, roedd 24 yn gemau chwaraeon (roedd 8 o'r 10 uchaf yn gemau pêl-droed rhyngwladol).

» Os cyfunwch chi gyfrannau gwylio S4C (1%) â'r cyfrannau gwylio ar gyfer cynnwys rhwydwaith o Gymru ar y BBC ac ITV, roedd 5% o gyfanswm yr oriau o deledu a wyliwyd gan gynulleidfaoedd Cymru yn 2022 yn gynnwys a gynhyrchwyd ar gyfer Cymru. Mae hynny'n bron i 8 munud o wylio y pen bob dydd.

### Rôl Cymru Greadigol

» Mae Cymru Greadigol yn asiantaeth datblygu economaidd yn Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar hyrwyddo twf ar draws y sectorau Teledu, Ffilm ac Animeiddio; Gemau, VFX ac ôl-gynhyrchu; Cerddoriaeth, Comedi a Chyhoeddi, ynghyd ag arwain ar safbwynt polisi Llywodraeth Cymru ar ddarlledu a'r cyfryngau. Mae'n buddsoddi mewn creu cyfleoedd i bobl yn y diwydiant drwy gefnogi mentrau sgiliau a thalent, ariannu prosiectau sy'n rhoi hwb i seilwaith a busnesau creadigol, darparu cyngor arbenigol ac yn mynd ati i hyrwyddo cynaliadwyedd, amrywiaeth a chydraddoldeb i bawb ar draws y sectorau creadigol.

» Mae Cymru Greadigol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn dramâu teledu dros y blynyddoedd diwethaf, gan roi hwb mawr i'r diwydiannau creadigol yma. Mae buddsoddiad Cymru Greadigol wedi arwain at gael mwy o bortread o Gymru ar amrywiaeth o lwyfannau a sianeli teledu (ar rwydweithiau'r DU, gan gynnwys ITV a Channel 4, ac ar wasanaethau ffrydio rhyngwladol). Er fod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, nid yw Cymru Greadigol yn comisiynu nac yn darlledu dramâu ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru: mae'n fuddsoddwr yn hytrach na chomisiynydd. Mae'r Panel hwn yn dal yn bryderus am benderfyniadau ynghylch cyllid darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel y mae'n berthnasol i Gymru, cyfanswm y gwariant, ac a yw'n gwasanaethu cynulleidfaoedd yn dda yng Nghymru.

### Hyrwyddo cynulleidfaoedd yng Nghymru

- Nid oes yr un corff na pherson unigol yn atebol am geisio barn pobl yng Nghymru am ansawdd ac amrywiaeth y gwasanaethau darlledu a chyfathrebu am Gymru, a mynegi'r farn honno. Mewn gwirionedd, gellid dadlau mai'r bobl sy'n cael eu gadael allan ar hyn o bryd o'r gwaith o lunio strategaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yw'r cyhoedd eu hunain.

- Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a gafodd y panel gan Race Council Cymru yn dweud 'nad ydynt yn clywed ein hacenion ein hunain, ein lleisiau ein hunain, a'n profiadau ein hunain yn cael eu hadlewyrchu'n ôl i ni'. Fodd bynnag, bach iawn oedd y ffocws ar degwch, amrywiaeth, cynhwysiad a pherthyn yn llawer o'r dystiolaeth a gafwyd. Mae hyn yn dangos i'r Panel fod cryn angen gweithredu mewn ffordd fwy ystyrlon a systematig.

- Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd gan Gymdeithas yr Iaith yn ymdrin ag amryw o faterion. Tynnodd sylw at yr heriau o ran cyllid S4C a'i chylch gwaith a'r diffyg cynnwys ar-lein yn Gymraeg (gan gynnwys apiau a gemau). Mynegwyd pryder fod yr iaith yn cael ei gadael ar ôl a chynigiwyd y dylid creu Menter Ddigidol Gymraeg. Ychydig iawn o dystiolaeth a gafodd y Panel i ddangos bod camau digonol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg newyddion cywir sy'n benodol i Gymru mewn rhaglenni newyddion ledled y DU, na'r angen am sylw newyddion cynrychioladol ac amrywiol yn benodol ar gyfer Cymru.

- Nid yw'r llwyfannau digidol unigol sy'n cael eu sefydlu gan ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o reidrwydd yn rhoi cynnwys yn y llefydd y mae cynulleidfaoedd eisoes yn mynd iddynt, ac mae risg nad yw'r dull hwn yn cael ei integreiddio'n ddigonol i'r dirwedd cyfryngau digidol ehangach sy'n esblygu er mwyn cadw i fyny â hynny.

### Cefnogi bywyd democrataidd yng Nghymru

- Mae adroddiad Ofcom ar arferion cael gafael ar newyddion yn y DU (2022) yn dangos bod gan bobl Cymru ddiddordeb arbennig mewn clywed newyddion am eu gwlad eu hunain. Mae'n bwysig bod y dymuniad hwn yn cael ei glywed a'i drafod. Mae hefyd yn hanfodol cydnabod rôl cyfryngau cadarn sy'n gywir, yn amserol ac yn ymateb i naws a gwahaniaethau ar draws ein cenedl ddatganoledig, er mwyn galluogi democratiaeth gref i ffynnu.

- Mae amgylchedd cadarn ar draws darlledu a chyfathrebu yn hanfodol bwysig i ddemocratiaeth ddatblygedig a gwybodus. Mewn byd sy'n weithredol yn ddigidol, mae'n hanfodol cael systemau dosbarthu newyddion dibynadwy a chyfrifol sy'n estyn allan i gynulleidfaoedd yn y mannau digidol maen nhw'n treulio amser ynddyn nhw. Nid yw'n ddigon i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus greu llwyfannau ac apiau ar wahân lle mae eu darpariaeth newyddion.

- Mae llawer o wledydd sydd â heriau tebyg i Gymru wrthi'n datblygu strategaethau ar gyfer addasu polisïau a sefydliadau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y dirwedd cyfryngau digidol. Mae systemau gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu cyllid cyfyngedig ac un o'r pwysau mwyaf ar ddarlledwyr yw'r gystadleuaeth ddwys gan wasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifio byd-eang i gynulleidfaoedd a chynhyrchu, cyflenwi a dosbarthu cynnwys. Mae'n hanfodol o ran ymddiriedaeth y cyhoedd mewn sefydliadau cyfryngau bod gwahaniad rhwng buddiannau gwleidyddol neu fasnachol a llywodraethu'r cyfryngau, a gall cyfranogiad cyhoeddus mwy uniongyrchol mewn penderfyniadau allweddol sy'n ymwneud â chyllid, trefniadau llywodraethu a strategaethau cynnwys cyfryngau cyhoeddus gyfrannu at ddulliau llywodraethu ac atebolrwydd newydd. Er mwyn llunio polisïau'n effeithiol a chynllunio ar gyfer y cyfryngau cyhoeddus, mae angen craffu ac atebolrwydd

cyhoeddus ystyrlon, a dylai fod yn seiliedig ar ymchwil cynhwysfawr, awdurdodol a thryloyw[17].

- Dylid cynnwys pobl Cymru yn y sgwrs am ddatganoli gwasanaethau darlledu a chyfathrebu. Mae'r dirwedd yn gymhleth, a doedd hyd yn oed rhai o'r arbenigwyr y cysylltwyd â nhw am dystiolaeth heb feddwl yn ehangach nag ystyried sut beth fyddai darlledu datganoledig.

[17] Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant, Prifysgol Caerdydd (Ionawr 2023)' Adolygiad o gyfrifoldebau a phwerau darlledu mewn gwledydd penodol: adroddiad i'r Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru

# Adran 4: Sefydlu Awdurdod Cysgodol i Gymru

**29.** Rhoddodd y Panel ystyriaeth, ar sail y dystiolaeth a glywodd, i'r manteision a'r heriau a allai ddeillio o beidio â gweithredu. Mae peidio â gweithredu yn creu amryw o heriau, gan gynnwys:

- Byddai hyn yn golygu colli cyfle i ddatblygu sgwrs genedlaethol soffistigedig a gwybodus am rôl a dyfodol darlledu, cyfathrebu a newyddiaduraeth yng Nghymru, ar yr adeg dyngedfennol hon;
- Gallai'r ansicrwydd presennol ynghylch cyllid yn y dyfodol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gan Lywodraeth y DU barhau, gan roi darlledu yng Nghymru mewn sefyllfa fwy bregus;
- Byddai cynulleidfaoedd yng Nghymru'n colli'r cyfle i gael rhywfaint o ddylanwad dros y dirwedd darlledu a chyfathrebu sy'n newid yn gyflym yma, ar draws y DU ac yn fyd-eang.

**30.** Pa gamau bynnag sy'n cael eu cymryd nawr, hoffai'r Panel bwysleisio bod yn rhaid cael dull ymatebol, y gellir ei addasu. Rhaid ceisio a defnyddio data a gwybodaeth sy'n benodol i Gymru, a rhaid i bobl Cymru fod wrth galon y sgwrs. Synnwyd y Panel gan y ffaith nad oes, ar hyn o bryd, un unigolyn na chorff sy'n gyfrifol am ddiogelu buddiannau pobl Cymru. Mae peidio â chael rhywun yn cyflawni rôl hanfodol yr 'hyrwyddwr' yn gadael bwlch sylweddol.

**31.** Gyda mwy o newid ar y gorwel, mae angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, gan edrych ymlaen at y newidiadau sydd ar y gweill, ac ystyried beth allai'r goblygiadau fod i Gymru mewn ffordd glir a chraff. Byddai corff gyda chyfrifoldeb penodol am stiwardio gweledigaeth gydlynol, strategol a gwybodus, ac ymgysylltu â phobl Cymru, yn darparu gwerth sylweddol ar hyn o bryd.

**32.** Felly, mae'r Panel yn argymell sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'Awdurdod Cysgodol'). Mae'n argymell bod yr Awdurdod Cysgodol:

- Yn annibynnol ar y Llywodraeth;
- Yn cynnwys unigolion sydd â'r cyfuniad cywir o arbenigedd, profiad a dychymyg amrywiol i gefnogi newid trawsnewidiol ar draws y sector darlledu a chyfathrebu, gyda phobl Cymru ac ar eu rhan;
- Yn ymroddedig i ddod o hyd i ffyrdd ystyrlon ac arloesol o roi pobl Cymru wrth galon y weledigaeth ar gyfer dyfodol darlledu a chyfathrebu yng Nghymru;
- Yn canfod ffyrdd o gryfhau'r mecanweithiau atebolrwydd sy'n ymwneud â darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig mewn meysydd sy'n arbennig o bwysig i bobl Cymru, hyd yn oed os nad oes newid i'r trefniadau deddfwriaethol a rheoleiddiol;
- Yn ymgysylltu'n uniongyrchol â darlledwyr i'w galluogi, eu hwyluso a'u cefnogi i gyflawni eu nodau;
- Yn gyfrifol yn benodol dros y Gymraeg, meithrin perthnasoedd a sbarduno arloesedd a newid ar draws y sector, gyda'r bwriad o gyflawni nodau strategol 'Cymraeg 2050';
- Yn ceisio gwella'r ddarpariaeth o ran cynnwys Saesneg sy'n cael ei wneud yng Nghymru ar gyfer pobl Cymru, a phontio'r bwlch rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar draws sbectrwm cyfan y dirwedd darlledu a chyfathrebu;
- Yn esblygu dros amser, gan weithio o fewn y mecanweithiau presennol i ddechrau, gan ddarparu gwybodaeth a data i lywio a gwella, ond yn gallu addasu i ychwanegu swyddogaethau ychwanegol os bydd angen rhagor o ddatganoli.

# Adran 5: Awdurdod Cysgodol i Gymru - egwyddorion allweddol

**33.** Rhaid i'r Awdurdod Cysgodol weithredu fel galluogwr ar gyfer meddwl a gweithredu ar y cyd, gan annog arloesedd, optimistiaeth, dychymyg ac uchelgais.

**34.** Rhaid i'r Awdurdod Cysgodol ddarparu un pwynt ffocws ar gyfer stiwardiaeth drylwyr, gan ddod yn gorff y bydd yr holl randdeiliaid 'yn troi ato' fel canolbwynt ar gyfer arbenigedd, gwybodaeth ac arweinyddiaeth.

**35.** Bydd yr Awdurdod Cysgodol yn ceisio gweithio gyda darlledwyr presennol a chrewyr cynnwys, gan gynnwys rhai newydd o bosibl, i hyrwyddo'r egwyddorion allweddol hyn:

- Bod ansawdd y cynnwys a gynhyrchir ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru yn gyson uchel;
- Bod y cynnwys hwn yn gwasanaethu gwahanol gymunedau a demograffeg ledled Cymru;
- Bod rhaglenni rhwydwaith a deunydd a gynhyrchir yn benodol ar gyfer Cymru yn cynnig portread ac yn adrodd straeon sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru;
- Mae cynnwys newyddion bob amser yn gywir ac yn cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau a phrofiadau.
- Dylai cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru fod yn weladwy ac yn hawdd dod o hyd iddo ar draws llwyfannau digidol.

**36.** Dylai anghenion pobl Cymru fod yn ganolog i'r ystyriaethau sy'n ymwneud â datganoli darlledu. Rhaid i'r Awdurdod Cysgodol alluogi sgwrs gyda'r cyhoedd ar sail dulliau trawsnewidiol o ran tegwch, amrywiaeth, cynhwysiad a pherthyn.

**37.** Rhaid cael dull gweithredu uchelgeisiol ac eang ar gyfer y Gymraeg, gan adeiladu ar lwyfannau presennol a gwella arloesedd a chynnwys digidol.

**38.** Dylai'r Awdurdod Cysgodol roi cyngor ar sut y gellid pontio'r bwlch presennol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan hwyluso'r gwaith o brofi a dysgu dulliau newydd.

**39.** Rhaid i'r Awdurdod Cysgodol allu addasu, ymateb ac arloesi yn wyneb newid.

# Adran 6: Awdurdod Cysgodol i Gymru - meysydd y canolbwyntir arnynt yn benodol

**40.** Rhoddodd y Panel ystyriaeth benodol i rai meysydd allweddol a ddylai ddod o fewn cwmpas yr Awdurdod Cysgodol, sef:

- Newyddiaduraeth er budd y cyhoedd
- Plant a phobl ifanc
- Chwaraeon

**41.** Mae'r meysydd hyn yn bwysig am y rhesymau canlynol:

- Eu harwyddocâd diwylliannol i Gymru;
- Eu rôl o ran adeiladu democratiaeth sy'n ymgysylltu â phobl;
- Eu sefyllfa mewn perthynas â'r uchelgeisiau o ran y Gymraeg a amlinellir yn 'Cymraeg 2050';
- Eu pwysigrwydd wrth ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Eu heffaith ar gynaliadwyedd hirdymor y sector.

### Adran 6.1: Newyddiaduraeth

**42.** Mewn ymateb i'r ymrwymiadau yn y Cytundeb Cydweithio, gofynnwyd i'r Panel ystyried cryfhau democratiaeth yng Nghymru a lleihau'r diffyg gwybodaeth.

**43.** Clywodd y panel gan rai o aelodau Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru, a bu'n gweithio'n agos gyda nhw. Cafodd ei gynnull i roi cyngor ar gamau gweithredu i gefnogi cynaliadwyedd tymor hir newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**44.** Mae synergedd clir rhwng gwaith Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru a'r Panel Arbenigol. Mae'r ddau grŵp wedi parhau i ganolbwyntio ar yr angen i feithrin yr amodau iawn ar gyfer ymgysylltu democrataidd. Mae'r ddau wedi ceisio diffinio pa amodau strwythurol fydd eu hangen, er mwyn cynhyrchu cynnwys sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.

**45.** Mae'r Panel yn cydnabod bod newyddiaduraeth yn elfen bwysig o'r dirwedd darlledu a chyfathrebu, ac felly mae'n credu bod yn rhaid ei ystyried yn rhan strategol o waith yr Awdurdod Cysgodol wrth symud ymlaen.

**46.** Dylai'r Awdurdod Cysgodol ymgysylltu â'r allbynnau o waith pwysig y Gweithgor o'r cychwyn cyntaf.

**47.** Mae'r newidiadau cyflym i'r broses o gynhyrchu, cyhoeddi a defnyddio cynnwys ar draws cynifer o sianeli yn golygu bod modelau traddodiadol o ddeall a chefnogi newyddiaduraeth wedi dyddio'n gyflym. Mae'n hanfodol bod dulliau newydd yn cael eu profi a'u dysgu'n gyflym.

**48.** Dylai Cymru, fel gwlad fach sydd â chysylltiadau da, allu creu a chynnig ffyrdd newydd o gefnogi'r sector, gan ystyried yr amgylchedd newidiol, a sganio'r gorwel ar gyfer yr hyn sy'n dod nesaf.

**49.** Ni fydd yn ddigon i wneud buddsoddiadau bach annibynnol gan ddefnyddio modelau traddodiadol. Rhaid i ni weithio gyda chymunedau i ddatblygu damcaniaeth gref o ran newid, er mwyn gallu mesur ymyriadau systemig gan ddefnyddio metrigau a ddiffiniwyd, sy'n ceisio cael effaith drawsnewidiol ar ymgysylltu democrataidd. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Race Council Cymru yn arbennig o awyddus i ganolbwyntio ar y canlynol yn y dyfodol: 'Rhaid i ddyfodol newyddiaduraeth edrych yn wahanol i'r gorffennol. Rydym yn... annog yr Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru, i fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch elfennau bregus yn y cyfryngau ar hyn o bryd a'r ymosodiadau ar eu hannibyniaeth. Hoffem weld defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig yn y maes digidol ac yn annog lluosogrwydd yn y cyfryngau.'

**50.** Mae angen cydlynu a buddsoddi ar gyfer y math hwn o newid strategol, blaengar a systemig, yn enwedig pan fo llawer o gyhoeddiadau print ac ar-lein ledled Cymru eisoes mewn sefyllfaoedd ariannol ansicr.

**51.** Mae newyddiaduraeth gynaliadwy, gywir ac atyniadol o ansawdd uchel, sy'n deillio o anghenion a buddiannau pobl Cymru, yn rhan annatod o'r ecosystem darlledu a chyfathrebu ehangach.

**52.** Mae'r Panel felly'n argymell bod cwmpas yr Awdurdod Cysgodol yn cynnwys newyddiaduraeth.

### Adran 6.2: Plant a phobl ifanc

**53.** Roedd y Panel yn awyddus i ddeall beth allai rôl Awdurdod Cysgodol fod mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

**54.** Comisiynodd y Panel adroddiad a sesiwn dystiolaeth gan arbenigwyr yn y maes, a oedd yn datgelu rhai tueddiadau penodol o ddiddordeb a phryder[18]:

- Mae plant 13 oed ac iau nawr yn defnyddio llawer iawn o gynnwys sy'n gysylltiedig â fideo, boed hynny'n fideo ar-lein (fel YouTube) neu ffrydio gwasanaethau ar-alw (fel Disney+). Mae plant rhwng 4 a 15 oed yn treulio llawer llai o amser yn gwylio teledu byw nag unrhyw grŵp oedran arall;
- Mae darnio o ran cynnwys fideo yn arbennig o amlwg o ran cynnwys i blant, gydag amrywiaeth o sianeli a llwyfannau'n cystadlu am sylw;
- Mae plant yn treulio llawer mwy o amser ar-lein, ac yn aml yn dod o hyd i'w ffordd drwy lwyfannau digidol yn eithaf annibynnol. Mae gan y llwyfannau hyn briodweddau sy'n gwneud y gwyliwr yn gaeth iddynt. Mae tystiolaeth yn dangos bod risg o ddod i gysylltiad â chynnwys niweidiol dro ar ôl tro, sy'n gallu effeithio ar iechyd meddwl.

**55.** Dysgodd y Panel fod gwahaniaethau amlwg, gyda rhieni yng Nghymru'n poeni mwy am agweddau penodol ar ddefnydd eu plant o gyfryngau na rhieni yng ngwledydd eraill y DU. Roedden nhw'n poeni'n arbennig y gallai eu plant roi manylion personol i bobl ar-lein neu'n gweld cynnwys amhriodol i'w hoedran ar-lein neu ar y teledu. Mewn perthynas â chwarae gemau yn benodol, roedd rhieni yng Nghymru'n fwy tebygol na gwledydd eraill o boeni am y posibilrwydd y gallai eu plentyn siarad â dieithriaid wrth chwarae gemau, cael eu bwlio gan chwaraewyr eraill, cynnwys a phwysau i brynu pethau yn y gêm.

**56.** Roedd rhieni yng Nghymru hefyd yn poeni mwy am bwy mae eu plentyn yn cysylltu â nhw neu'r posibilrwydd o gael eu bwlio ar eu ffôn symudol.

**57.** Nid yw arbenigwyr yn y diwydiant yn credu fod y swyddogaethau rheoleiddio presennol ym maes darlledu a chyfathrebu i blant yn addas i'r diben, a bod risg fawr ynghlwm â pheidio â chadw i fyny â chyfradd y newid.

**58.** Mae'r Panel yn argymell ei bod yn hanfodol i'r Awdurdod Cysgodol edrych ar fodelau rheoleiddio gwahanol yng Nghymru a allai greu mwy o amddiffyniad i blant a phobl ifanc, yn unol ag uchelgeisiau a chwmpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**59.** Roedd y dystiolaeth arbenigol a gyflwynwyd i'r Panel mewn perthynas â phlant hefyd yn rhoi sylw i'r posibilrwydd o gael buddsoddiad a sylw mwy penodol i ddiogelu a gwella cynnwys Cymraeg i blant a'i ddosbarthiad. Roedden nhw'n rhannu enghreifftiau o wledydd eraill lle mae buddsoddiad mewn modelau newydd o gynhyrchu a dosbarthu cynnwys i blant (gan gynnwys Iwerddon, Gwlad y Basg, Canada, Mecsico, Seland Newydd ac Awstralia) wedi diogelu a chefnogi ieithoedd brodorol.

**60.** Mae'r Panel felly'n argymell y dylai cwmpas Awdurdod Cysgodol gynnwys ystyried modelau newydd a gwell ar gyfer cefnogi tirwedd darlledu a chyfathrebu yn y Gymraeg sy'n ffynnu ac yn ennyn diddordeb cynulleidfa iau yng Nghymru.

[18] Kids Industries (Chwefror 2023) 'Cyfryngau ar gyfer plant yn 2023 a'r angen am reoleiddio'

**Adran 6.3: Chwaraeon**

**61.** Mae dealltwriaeth dda o bwysigrwydd diwylliannol chwaraeon i Gymru, a chlywodd y Panel Arbenigol gan ddarlledwyr am y ffigurau cynulleidfa enfawr maen nhw'n eu mesur yn ystod digwyddiadau rygbi a phêl-droed rhyngwladol.

**62.** Mewn dyfodol lle gallai digwyddiadau chwaraeon allweddol ddiflannu y tu ôl i waliau talu, byddai hynny'n niweidiol iawn i bobl Cymru. Byddai newid o'r fath yn cael yr effaith fwyaf ar y rheini sy'n lleiaf tebygol o allu fforddio'r ffioedd tanysgrifio, ond o ystyried y problemau o ran cyflwyno band eang cyflym iawn a signal symudol 4G a 5G ar draws y wlad, byddai'r newid yn taro'n galetach yn y cymunedau hynny sydd eisoes fwyaf ar yr ymylon. Ynghyd â'r effaith ddiwylliannol, mae'r effaith negyddol ar iechyd a lles, o ran ymgysylltiad pobl ifanc â chwaraeon, yn destun pryder sylweddol.

**63.** Mae Deddf Darlledu (1996) yn diogelu buddiannau'r cyhoedd sy'n gwylio ar hyn o bryd drwy nodi dwy restr o ddigwyddiadau chwaraeon allweddol y mae'n rhaid iddynt fod ar gael am ddim, ac mae'r rhain fel arfer yn cael eu galw'n 'restrau Grŵp A a Grŵp B'. Fodd bynnag, er yr ymgynghorir ag S4C, gellir tynnu digwyddiadau oddi ar y rhestr hon ar hyn o bryd heb orfod ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru.

**64.** Mae'r dirwedd darlledu a chyfathrebu fyd-eang sy'n newid yn gyflym eisoes yn effeithio ar sut mae pobl yng Nghymru yn gallu cael mynediad at ddigwyddiadau chwaraeon. Marchnad y DU ar gyfer hawliau darlledu chwaraeon yw'r fwyaf cystadleuol yn y byd, gyda nifer cynyddol o ddarlledwyr drwy danysgrifiad yn cynnig cynnwys ar draws nifer o lwyfannau ac yn dod o hyd i ffyrdd arloesol o ddarparu cynnwys i gynulleidfaoedd. Mae'r cwmnïau hyn yn addasu i'r farchnad mewn ffyrdd sy'n herio'r sefyllfa bresennol, un enghraifft yw cynnig sylwebaeth Gymraeg fyw bwrpasol. Felly, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus traddodiadol yn cael eu herio yn y farchnad hon gan rym ariannol y darlledwyr teledu talu-i-wylio a hefyd oherwydd eu defnydd arloesol o dechnoleg darlledu digidol.

**65.** Mae hawliau darlledu yn rhan gymhleth o'r sector darlledu a chyfathrebu, ac mae llu o wahanol becynnau o gynnwys yn cael eu negodi a'u masnachu. Mae darnio pecynnau hawliau yn nodwedd gynyddol o'r ffordd y mae hawliau'n cael eu masnachu, ac yn cymhlethu'r darlun ymhellach. Mae pecynnau hawliau ar wahân ar gyfer: mynediad byw o'i gymharu â mynediad uchafbwyntiau, teledu lloeren, darlledu gwasanaeth cyhoeddus llinol ar gyfer teledu, darllediadau byw digidol, uchafbwyntiau digidol, radio byw a gwasanaethau sgoriau, ymysg eraill.

**66.** Gall cymhlethdod y trefniadau pecynnu a chontractio hyn arwain at ganlyniad niweidiol i bobl yng Nghymru. Er enghraifft, gallai pecyn hawliau sy'n cael ei brynu gan ddarlledwr talu-i-wylio ganiatáu iddynt ffrydio sylwebaeth yn fyw yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan felly gyflawni eu rhwymedigaethau cytundebol ar gyfer darpariaeth yng Nghymru yn dechnegol, ond amddifadu gwylwyr o sylwebaeth Gymraeg am ddim ar gyfer digwyddiadau chwaraeon pwysig.

**67.** Gallai dileu darpariaeth Gymraeg o lwyfannau am ddim gael effaith negyddol ar ddatblygiad yr iaith, yn enwedig o ystyried uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ar hyn o bryd, mae chwaraeon, gyda'i apêl eang ar draws yr holl ddemograffeg gymdeithasol, yn dod â'r Gymraeg i gartrefi ledled Cymru.

**68.** Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau'r wybodaeth a'r cyngor cywir er mwyn gallu ymgysylltu'n ddarbwyllol yn yr amgylchedd masnachu hawliau, ac wrth drafod â Llywodraeth y DU ynghylch diogelu rhestrau Grŵp A a B yn y dyfodol. O fewn tirwedd gymhleth a newidiol y rhan benodol hon o'r sector, mae'r Panel yn argymell y dylai'r Awdurdod Cysgodol gael cyfrifoldeb swyddogaethol penodol dros ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor hwn.

# Adran 7: Sefydlu Awdurdod Cysgodol i Gymru

**69.** Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu sefydlu Awdurdod Cysgodol, mae'r Panel o'r farn mai'r ffordd orau o fwrw ymlaen fyddai gwneud hynny fesul cam. Mae wedi ystyried y ffactorau canlynol:

- Mae diffyg data a gwybodaeth ynghylch darlledu a'r cyfryngau yng Nghymru a thros Gymru, y gallai Awdurdod Cysgodol roi sylw iddo yn y lle cyntaf, gan greu llwyfan ar gyfer penderfyniadau pellach ynghylch datganoli;

- Bydd creu Awdurdod Cysgodol yn creu canolbwynt ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru ac ar gyfer Cymru, a bydd yn denu rhanddeiliaid allweddol, a phobl Cymru, i gymryd rhan mewn sgwrs strategol;

- Llywodraeth y DU sydd â'r rhan fwyaf o'r pwerau yn y maes darlledu a chyfathrebu ar hyn o bryd, ac felly nid yw newidiadau i'r pwerau hynny, na'u datganoli, yn rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud. Byddai Awdurdod Cysgodol mewn sefyllfa dda i weithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio ystod o opsiynau ar gyfer datganoli rhagor ar ddarlledu a chyfathrebu, a darparu cymorth i Lywodraeth Cymru wrth lunio achos busnes manwl ar sail opsiynau;

- Mae'r systemau rheoleiddio, atebolrwydd a chraffu yn gymhleth, ac efallai y byddai'n well lleoli rhai swyddogaethau mewn sefydliad yng Nghymru yn y dyfodol, gan fod yn atebol yn y pen draw i Weinidogion yn y Senedd. Fodd bynnag, byddai angen rhoi ystyriaeth fanwl a gwneud penderfyniadau gwleidyddol wrth flaenoriaethu a chyflwyno'r newidiadau hynny, a gallai Awdurdod Cysgodol gefnogi'r naill a'r llall;

- Mae lle yn y ddeddfwriaeth bresennol i Awdurdod Cysgodol ychwanegu gwerth uniongyrchol sylweddol at y mecanweithiau craffu sydd eisoes ar waith ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**70.** Mae'r Panel yn argymell ei bod yn debygol y bydd Awdurdod Cysgodol yn gwneud cynnydd go iawn hyd yn oed heb ddatganoli rhagor o bwerau i'r Senedd.

**71.** Mae'r Panel Arbenigol yn credu ei bod yn hanfodol cynnal momentwm i sefydlu Awdurdod Cysgodol cwbl weithredol erbyn diwedd 2024. Mae'n argymell mai'r cam nesaf yw i'r Dirprwy Weinidog, ac Aelod Dynodedig y Cytundeb Cydweithio i greu Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol llai, a fydd yn gweithredu o fis Medi 2023 hyd fis Medi 2024. Dylai'r Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol fod yn gyfrifol am y canlynol:

- Cyflawni argymhellion y Panel Arbenigol

- Sefydlu Awdurdod Cysgodol a fydd yn dechrau gweithio ym mis Medi 2024

# Amserlen y Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol

**Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol**

### Medi 2023

- Penodi Gweithgor o chwech i ddechrau ar y gwaith o sefydlu'r Awdurdod Cysgodol;
- Penodi/secondio uwch was sifil amser llawn i gefnogi'r grŵp, gyda chefnogaeth Uwch Swyddog Gweithredol;
- Comisiynu darnau allweddol o waith ymchwil pellach a chasglu tystiolaeth.

### Ionawr 2024

Mae'r Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol yn adrodd i'r Dirprwy Weinidog a'r Aelod Dynodedig ar y mecanwaith o sefydlu'r Awdurdod Cysgodol, a'i strwythur, fel y dangosir gan ymchwil a wnaed yn y misoedd cyntaf. Mae'n dechrau'r broses recriwtio ar gyfer y tîm gweithredol a thrafodaethau gyda'r Uned Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer y bwrdd.

### Ebrill 2024

Mae gwaith yn parhau ar sefydlu'r Awdurdod Cysgodol gan gynnwys dadansoddi ymchwil a chanfod bylchau.

### Medi 2024

- Yr Awdurdod Cysgodol yn dechrau gweithredu. Y Gweithgor yn cael ei ddirwyn i ben.

**Bydd y Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol:**

- Yn cynnwys chwech o bobl, a bydd y Dirprwy Weinidog a'r Aelod Dynodedig yn eu dewis o'r Panel Arbenigol;
- Yn meddu ar y cymysgedd angenrheidiol o sgiliau a gwybodaeth (gall hyn olygu bod angen ystyried penodiadau allanol);
- Yn cael tâl ac adnoddau;
- Yn cael ei gefnogi gan uwch swyddog llawn amser o'r Llywodraeth.

**Cymorth**

- Bydd Swyddog Gweithredol Uwch llawn amser yn cefnogi'r uwch was sifil amser llawn (ar Raddfa 6). Bydd profiad o sefydlu sefydliadau a recriwtio yn hanfodol. Byddai gwybodaeth am ddarlledu a newyddiaduraeth yn ddymunol iawn.
- Byddai'r swyddog hwn yn sefydlu'r mecanwaith i hysbysebu a recriwtio tîm staff yr Awdurdod Cysgodol a bwrdd yr Awdurdod Cysgodol, ac yn rhoi cyngor ar bolisi'r Llywodraeth, cyfraith cyflogaeth ac ati.

# SBCA Working Group

**Blaenoriaethau Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol ar gyfer y chwe mis cyntaf**

Rôl Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol fydd diffinio cylch gwaith yr Awdurdod Cysgodol, strwythur y sefydliad, strwythur y bwrdd, ei statws cyfreithiol, caffael ac unrhyw faterion cyfreithiol.

Mae'r Panel Arbenigol wedi ystyried pa fath o gorff y dylai'r Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol fod, gan ystyried y categorïau o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, fel y nodir yn Dosbarthiad Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru: Dogfen Arweiniad ar Ddosbarthiad (Atodiad 4). Mae'r Panel wedi dod i'r casgliad y dylid ei sefydlu fel panel cynghori neu grŵp gorchwyl a gorffen.

Mae'r Panel Arbenigol yn deall, yn ôl Dosbarthu Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru: Canllawiau Dosbarthu, mai dim ond fel dewis olaf y dylid sefydlu cyrff cyhoeddus newydd. Byddai Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol yn cael ei sefydlu i barhau i ddarparu'r rhaglen tair blynedd a sefydlwyd o dan y Cytundeb Cydweithredu. Bydd yn defnyddio'r arbenigedd allanol sydd ei angen i ddarparu'r Awdurdod Cysgodol a bod yn wleidyddol ddiduedd ac yn annibynnol.

Bydd y Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol yn sefydlu swyddogaeth a strwythur gweithredol tîm yr Awdurdod Cysgodol, yn llunio disgrifiadau swydd a manylebau ar gyfer staff, y gweithdrefnau ar gyfer penodi a dechrau'r broses recriwtio.

Bydd yn sefydlu'r panel a fydd yn penodi'r Bwrdd.

Bydd yn penderfynu ar strwythur Bwrdd yr Awdurdod Cysgodol, yn diffinio cyfansoddiad y Bwrdd a'r taliadau iddo, ac yn llunio proffiliau rôl aelodau'r Bwrdd i gynnwys yr arbenigedd a'r cefndir canlynol:

- Profiad cyfredol a pherthnasol o ddarlledu, darlledu gwasanaeth cyhoeddus a newyddiaduraeth;
- Gwybodaeth gyfredol am ddarlledu a newyddiaduraeth ddigidol a'i bwysigrwydd yn y dyfodol;
- Profiad a gwybodaeth am fusnes, cyllid, llywodraethu a Llywodraeth;
- Dealltwriaeth o strwythurau polisi ac archwilio;
- Sgiliau cyfathrebu;
- Dealltwriaeth o anghenion Undebau Llafur;
- Dealltwriaeth o Gymru a'i phobl;
- Cydnabyddiaeth o egwyddorion Nolan.

Dylai'r grŵp ddiffinio pa swyddi sy'n rhai lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol/hanfodol, a phennu lefelau tâl ac ymrwymiad amser yr aelodau.

- Bydd y Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol yn goruchwylio ac yn cefnogi proses yr Awdurdod Cysgodol a'r Bwrdd o recriwtio staff;
- Efallai y bydd angen i'r Gweithgor fod yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau os bydd unrhyw un o aelodau'r Gweithgor neu aelodau blaenorol o'r Panel Arbenigol yn dymuno ymgeisio;
- Bydd yn parhau i ddadansoddi ymchwil sydd wedi'i gasglu, ac yn comisiynu unrhyw ymchwil bellach lle bydd yn dod o hyd i unrhyw fylchau.

# Adran 8: Yr Awdurdod Cysgodol (2024-25) argymhellion y cynllun gwaith

**72.** Mae'n hanfodol bod gan yr Awdurdod Cysgodol gylch gwaith clir a meysydd allbwn diffiniedig. Er y bydd y Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol yn gyfrifol am sefydlu'r Awdurdod Cysgodol, mae'r Panel Arbenigol wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r meysydd gwaith y dylai'r Awdurdod Cysgodol ymgymryd â hwy, ac mae wedi amlinellu'r meysydd gwaith allweddol hyn isod:

**72.1 Gwybodaeth**
Casglu data nad yw ar gael ar hyn o bryd, meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth, cyfrannu at graffu effeithiol a datblygu darlun cyflawn o'r ffordd orau o sicrhau dyfodol llwyddiannus i'r maes darlledu, cyfathrebu a newyddiaduraeth yng Nghymru:

- Mae'r Panel yn argymell bod y Gweithgor yn comisiynu darn o waith hydredol ar unwaith sy'n canolbwyntio ar gasglu data cywir a sensitif am gynulleidfaoedd o bob cwr o Gymru. Dylai gyfuno data meintiol wedi'i rannu ar draws amrywiaeth eang o grwpiau demograffig, a chasglu data ansoddol gan ddefnyddio dulliau sy'n dod i'r amlwg wrth ymgysylltu'n ystyrlon â'r gymuned.

**72.2 Ymgysylltu**
Ymgysylltu â phobl Cymru i glywed eu lleisiau, deall eu hanghenion a'u buddiannau mewn perthynas â darlledu a chyfathrebu, a newyddiaduraeth a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed:

- Mae'r Panel yn argymell bod y Gweithgor yn mynd ati ar unwaith i gomisiynu darn penodol o waith i nodi ffordd effeithiol ac ystyrlon o gynnwys pobl Cymru yn ei strwythur llywodraethu. Bydd yr allbynnau'n sylfaenol wrth lywio strwythur, aelodaeth a threfniadau llywodraethu'r Awdurdod Cysgodol yn y dyfodol.

Ymgysylltu â'r sector, er mwyn:

- Gweithio gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i gydlynu ymatebion cydgysylltiedig ac arloesol i newidiadau ar draws y sector, er mwyn diwallu anghenion a buddiannau pobl Cymru;
- Trefnu cyfarfod rhanddeiliaid i ddarparu cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ar ddyfodol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, yng nghyd-destun y trafodaethau ynghylch Siarter y BBC a dyfodol cyllid S4C, ac aildrwyddedu C3.

**72.3 Seilwaith**
Gwneud y cysylltiad rhwng cyflwyno band eang cyflym iawn a signal symudol 4G a 5G ledled Cymru, y tueddiadau tuag at fwy o ddosbarthu ar-lein ym maes darlledu yn y dyfodol, a'r annhegwch posibl sy'n deillio o hynny i grwpiau ar y cyrion ledled ein gwlad:

- Mae'r Panel yn argymell bod ymchwil yn cael ei gomisiynu i ddeall yn well beth yw'r cysylltiad rhwng cyflwyno seilwaith band eang a symudol ledled Cymru yng nghyd-destun darlledu, cyfathrebu a newyddiaduraeth.

**72.4 Cyngor**
Rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru, gan ei ganiatáu i wneud penderfyniadau gwleidyddol ar sail tystiolaeth ynghylch i ba raddau y mae angen newid deddfwriaethol yn y dyfodol, er mwyn ymateb i gynulleidfaoedd yng Nghymru:

- Dylai'r Gweithgor gomisiynu maes gwaith sy'n darparu tystiolaeth i ddangos pa brosesau sydd eu hangen i ddatganoli rhannau neu swyddogaethau cyfan o'r seilwaith darlledu a chyfathrebu ar draws y DU i Gymru, gan amlinellu risgiau, manteision, heriau a goblygiadau'r gwahanol opsiynau.

72.5 Atebolrwydd

Cynghori ar fecanwaith a natur craffu gan Lywodraeth Cymru ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn gwella atebolrwydd yn erbyn ei blaenoriaethau strategol. Gallai hyn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg, cynllunio cydraddoldeb strategol, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- O fewn y trefniadau presennol ar gyfer craffu gan y Senedd, ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, mae lle i ddatblygu perthynas sy'n fwy heriol ond hefyd yn gefnogol;
- Dan arweiniad Awdurdod Cysgodol fel yr amlinellir uchod, byddai modd gwneud defnydd effeithiol iawn o'r ddarpariaeth well o ddata a gwybodaeth sy'n benodol i Gymru, fel rhan o'r berthynas hon. Felly, mae'r Panel yn argymell y dylid defnyddio'r sylfaen dystiolaeth fel rhan o'r broses graffu ac ymateb;
- Dylai'r Awdurdod Cysgodol gwmpasu a chynghori ar ffyrdd o wneud y BBC yn fwy atebol yn uniongyrchol am sut mae ffi'r drwydded yn cael ei gwario yng Nghymru, o ran cynnwys a gwasanaethau. Gallai hyn fod ar ffurf mecanweithiau newydd ar gyfer craffu, hyd nes y cyflwynir Siarter benodol y BBC ar gyfer Cymru ac ar ôl ei chyflwyno, fel yr amlinellir ymhellach isod.

72.6 Y Gymraeg

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid ar draws y sector, i wneud y canlynol:

- Llywio llwybr strategol tuag at fwy o luosogrwydd llwyfannau ar gyfer cynnwys yn y Gymraeg;
- Comisiynu a/neu ddarparu gwybodaeth ac arbenigedd i'r dirwedd darlledu, cyfathrebu a newyddiaduraeth yn y Gymraeg ar hyn o bryd, gan roi sylw i elfennau amrywiol cynrychiolaeth, amlygrwydd, treiddio/torri drwodd, lluosogrwydd ac arferion arloesol;
- Hyrwyddo a chefnogi arloesedd yn y maes darlledu yn y Gymraeg, ac ar draws cyfathrebu digidol;
- Hwyluso mentrau digidol i gefnogi nodau Cymraeg 2050 a chenedlaethau newydd o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru;
- Canolbwyntio ar borth traws-sector i bobl ddi-Gymraeg allu cael gafael ar gynnwys priodol yn hyderus;
- Herio materion systemig, fel effeithiau andwyol gwahanu'r ddwy iaith o fewn strwythurau sefydliadol, neu agweddau negyddol gwahanu a neilltuo unigolion a thimau ar sail llinellau ieithyddol;
- Rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru o ran craffu ar ddilysrwydd cynhyrchu ar draws y ddwy iaith.

**73.** Dylai'r Awdurdod Cysgodol ddefnyddio'r allbynnau o'r meysydd gwaith hyn i roi gwybod i Lywodraeth Cymru a allai fod angen newid mwy systemig a deddfwriaethol i fynd i'r afael â'r diffygion presennol a amlinellir yn y Cytundeb Cydweithio.

**74.** Yn ystod oes yr Awdurdod Cysgodol hyd at 2025, mae'r Panel yn argymell bod y cyrff presennol sy'n cynnal y prif swyddogaethau polisi, atebolrwydd a rheoleiddio yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt, fel a ganlyn:

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyflawni gwaith polisi drwy Cymru Greadigol;
- Dylai Ofcom barhau i fod yn gyfrifol am reoleiddio, gyda mwy o dryloywder a gwelededd ar lefel Cymru drwy waith yr Awdurdod Cysgodol;
- Atebolrwydd: dylai'r mecanweithiau presennol barhau yn unol â strwythurau llywodraethu'r darlledwyr, gyda gwaith yr Awdurdod Cysgodol yn eu gwella fel yr amlinellir yn adran 72.5


**Mae angen cydweithio'n agos iawn ar bob un o'r meysydd hyn - Polisi, Rheoleiddio ac Atebolrwydd**

**75.** Mae'r Panel o'r farn y bydd gwaith yr Awdurdod Cysgodol yn arwain at fwy o dryloywder yng Nghymru, gan wella amlygrwydd, a datblygu craffu ar faterion sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Bydd angen i'r Awdurdod Cysgodol, Ofcom a Chymru Greadigol gydweithio'n agos, a gweithio hefyd gyda Llywodraeth Cymru, i wireddu'r cyfleoedd hyn.

Mae'r diagram yn dangos pwysigrwydd natur gydgysylltiedig rheoleiddio, atebolrwydd a pholisi darlledu. Fel mater a gedwir yn ôl, Llywodraeth y DU sydd â phwerau dros ddarlledu a'r cyfryngau, gydag Ofcom yn rheoleiddio darlledu ar lefel y DU. Er mai'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n bennaf gyfrifol am bolisi, mae gan Cymru Greadigol gyfrifoldeb dros ddarlledu a pholisi'r cyfryngau yng Nghymru, gan roi cyngor i Weinidogion Cymru ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth y DU, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith sy'n addas i'r diben ar gyfer darlledu ac yn adlewyrchu anghenion Cymru.

**76.** Mae amrywiaeth o lwybrau y gallai Llywodraeth Cymru eu dilyn, i ddatganoli'r cyfrifoldeb dros reoleiddio a/neu atebolrwydd dros ddarlledu a chyfathrebu i Gymru. Yn adran 78, mae'r Panel wedi amlinellu'r llwybrau y mae'n credu sydd fwyaf perthnasol i'w hystyried, ac mae wedi amlinellu'r manteision a'r heriau posibl ym mhob achos.

**77.** Dylai'r Awdurdod Cysgodol edrych yn fanwl ac yn dechnegol ar y llwybrau hyn tuag at ddatganoli, er mwyn cynghori Llywodraeth Cymru (fel yr awgrymwyd ym mhwynt 72.4 uchod) ar gynnig clir, ymarferol a manwl.



# Llwybrau

### Llwybr 1: Cymryd camau sylweddol, o fewn pwerau deddfwriaethol presennol y Senedd

Buddion

- Ni fyddai angen unrhyw newid deddfwriaethol na negodi â Llywodraeth y DU ar gyfer hyn;

- Gallai Llywodraeth Cymru gymryd camau tuag at lunio strategaeth darlledu, cyfathrebu a newyddiaduraeth sy'n diwallu anghenion pobl Cymru yn well;

- Byddai gweithredu o'r math hwn yn galluogi dull 'profi a dysgu', gan greu darlun mwy cynnil o gryfderau a gwendidau presennol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys yr heriau cyllido a'r heriau golygyddol o ran cynnwys sy'n berthnasol i Gymru yn y ddwy iaith. Byddai'n caniatáu casglu data mwy cynhwysfawr, ac yn edrych yn fwy trwyadl ar fodelau ar gyfer datganoli pellach;

- Mae'r llwybr hwn yn rhoi cyfle i grŵp eang o randdeiliaid a chynulleidfaoedd gymryd rhan mewn sgwrs genedlaethol ynghylch sut beth fyddai datganoli pellach pe bai'n cael ei wneud ar ei orau;

- Byddai'r ffocws gwleidyddol a dinesig ehangach hwn ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ynddo'i hun yn ehangu faint o graffu sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Heriau

- Ar gyfer y llwybr hwn mae angen camau gweithredu cydlynol naill ai gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol, neu'n drwy gontract allanol i gorff arall.

- Byddai angen buddsoddi yn y cam gweithredu hwn, er mwyn cynhyrchu'r sylfaen wybodaeth a'r ddeialog genedlaethol sydd eu hangen i symud tuag at newid ystyrlon.

### Llwybr 2: Negodi Siarter newydd y BBC, gyda fersiwn ar wahân ar gyfer pob gwlad

Buddion

- Byddai hyn yn rhoi'r gofyniad i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yng ngwledydd gwahanol y DU wrth galon trefniadau llywodraethu'r BBC, gan roi ffocws newydd i gynnwys a newyddion lleol.

Heriau

- Mae'r llwybr hwn yn gofyn am ymgysylltu a chydweithredu rhwng llywodraeth y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, a byddai angen newid deddfwriaethol;

- Efallai y bydd pryderon y byddai'r model hwn yn arwain at sefyllfa lle byddai senedd pob gwlad yn micro-reoli penderfyniadau golygyddol y BBC. Byddai angen rhoi mecanweithiau ar waith i barhau i sicrhau y byddai annibyniaeth y BBC yn cael ei diogelu.

### Llwybr 3: Datganoli'r gwaith o oruchwylio a rheoleiddio S4C i'r Senedd

Buddion

- Byddai gweithredu mewn perthynas â'r llwybr hwn yn goresgyn problem y trefniadau presennol, lle mae San Steffan a Whitehall yn gyfrifol am graffu ac atebolrwydd;

- Mae'r llwybr hwn yn ymgorffori egwyddor bwysig, sy'n cael ei derbyn i raddau helaeth yng Nghymru - lle mae rhywbeth yn berthnasol yn bennaf i un wlad yn y DU, dylid ei ddatganoli i'r wlad honno.

- Mae adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn caniatáu'n benodol i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth sy'n briodol yn eu barn hwy i gefnogi'r Gymraeg.

Heriau

- Mae angen ymgysylltiad a chydweithrediad gan Lywodraeth y DU ar gyfer y llwybr hwn;
- Pe bai hyn yn cael ei roi ar waith, byddai angen rhoi mesurau diogelu ar waith sy'n ymwneud ag annibyniaeth olygyddol.
- Byddai'r llwybr hwn yn creu rhaniad newydd, cymhleth rhwng darlledwyr Saesneg a darlledwyr Cymraeg yng Nghymru a rhwng gwahanol rannau o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Byddai atebolrwydd clyweledol/teledu Cymraeg yng Nghymru, a byddai atebolrwydd cyfatebol yn yr iaith Saesneg yn aros ar lefel y DU, yn ogystal â gwasanaeth cyhoeddus radio/sain yn Gymraeg.

**Llwybr 4: Datganoli atebolrwydd dros ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i'r Senedd**

Buddion

- Byddai'r llwybr hwn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru bennu natur a pharamedrau craffu ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru;
- Byddai'r llwybr hwn yn rhoi'r cyfle i graffu fod yn fwy cynhwysol ac ymatebol, gan gyd-fynd ag anghenion pobl Cymru, ac yn seiliedig ar wybodaeth (data, ymchwil ac arbenigedd) sy'n benodol i Gymru.

Heriau

- Mae angen ymgysylltiad a chydweithrediad gan Lywodraeth y DU ar gyfer y llwybr hwn;
- Byddai cymhlethdod atebolrwydd datganoledig yn golygu datgymalu neu ddarnio strwythurau rheoleiddio presennol, sy'n gymhleth ac angen ystyriaeth strategol fanwl, cynnwys nifer o randdeiliaid, ac amser a buddsoddiad gweinyddol.

**Llwybr 5: Datganoli'r gwaith o oruchwylio a rheoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i'r Senedd**

Buddion

- Byddai'r llwybr hwn yn gwneud newidiadau sylweddol i drefniadau llywodraethu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, a allai gynnwys mwy o ymgysylltu a dylanwadu ar ran cymunedau ledled Cymru;
- Byddai hyn yn caniatáu llunio strategaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus gydlynol i Gymru, gydag anghenion pobl Cymru yn ganolog iddi;
- Efallai mai datganoli darlledu a chyfathrebu yw'r ffordd orau o bortreadu newyddion a straeon am Gymru, ac felly mae'n opsiwn sy'n cysylltu'n agos â darparu cynnwys sy'n gwasanaethu democratiaeth ddatblygedig a hollol wybodus.

Heriau

- Mae angen ymgysylltiad a chydweithrediad gan Lywodraeth y DU ar gyfer y llwybr hwn;
- Byddai angen datgysylltu rheoleiddio, gan greu her weinyddol sylweddol; byddai cymhlethdodau ychwanegol yn gysylltiedig o ran darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus preifat ledled y DU, fel ITV;
- Mae'n cyflwyno heriau sylweddol mewn perthynas â strwythur a threfniadau llywodraethu'r BBC, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai'r newid arwain at ddarnio'r BBC ar draws y DU;
- Gallai newid o'r fath olygu colli'r buddsoddiad ledled y DU sy'n creu'r cynnwys sydd wrth fodd cynulleidfaoedd ar hyn o bryd;
- Ar hyn o bryd mae Cymru yn un o fuddiolwyr net ffi'r drwydded. Os dilynir y lefel hon o ddatganoli, bydd yn hanfodol sicrhau nad yw'n cael effaith negyddol ar gynulleidfaoedd yng Nghymru.

**78.** Roedd y Panel yn ymwybodol iawn o'r cymhlethdod, y peryglon posibl a'r amrywiadau bach sy'n gysylltiedig â'r mecanweithiau ar gyfer datganoli darlledu a chyfathrebiadau i Gymru yn llwyr neu'n rhannol. Gellir cymryd rhai camau'n gyflym, gyda'r bwriad o feithrin dealltwriaeth a thrafodaeth gyhoeddus i sbarduno'r gwaith o greu modelau effeithiol ar gyfer datganoli pellach yn y dyfodol.

**79.** Gellir gwneud llawer iawn o gynnydd heb ddatganoli pellach, ac mae'r Panel hwn yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd camau gweithredu o fewn cwmpas ei phwerau deddfwriaethol presennol i ddechrau. Os nad yw cynnydd pendant yn bosibl wrth i'r gwaith fynd rhagddo, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ceisio rhagor o ddatganoli. Ni ddylai risgiau posibl yn sgil datganoli darlledu a chyfathrebiadau fod yn rhwystr rhag meddwl mewn ffordd arloesol a soffistigedig ynghylch sut y gellid ei wneud, a'r manteision y gallai eu cynnig.

# Adran 9: Taliadau cydnabyddiaeth, staffio, costau allweddol a llywodraethiant Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol a'r Awdurdod Cysgodol

**80.** Mae'r Panel Arbenigol yn argymell y dylai'r Awdurdod Cysgodol weithredu gyda'r strwythur, y staffio a'r arbenigedd a amlinellir yn Nhabl 1, isod:

**81.** Yn ogystal â sicrhau bod gan aelodau'r Awdurdod Cysgodol yr ystod o arbenigedd a gwybodaeth a amlinellir yn Nhabl 1, mae'r Panel yn argymell y dylid rhoi sylw manwl i'r canlynol wrth ddewis aelodau'r grŵp:

- Sicrhau Aelodau sy'n amrywiol ar draws y grŵp, gan roi sylw penodol i brofiad uniongyrchol, ond gan fod yn gwbl glir na fyddant yn dibynnu ar brofiad uniongyrchol unrhyw aelod unigol o'r grŵp i 'gynrychioli' demograffig ehangach neu set ehangach o brofiadau wrth gyflawni eu rôl;
- Cynnwys arbenigedd o'r tu allan i'r sector, lle bo hynny'n briodol, yn enwedig lle gallai gyflwyno arferion arloesol neu arferion newydd i waith y grŵp.

**Aelodau Ymgynghorol Anweithredol**

Rhaid i'r arbenigeddau a'r sgiliau canlynol gael eu cynrychioli'n llawn ymysg y gronfa gyffredinol o aelodau a ddewisir:

- Gallu meddwl yn strategol;
- Gallu meddwl tua'r dyfodol, gan gynnwys cysylltu â thueddiadau sy'n dod i'r amlwg a'r gallu i feddwl yn greadigol am ffyrdd newydd o weithio;
- Gwybodaeth fanwl am ddarlledu, cyfathrebu a newyddiaduraeth;
- Dealltwriaeth fanwl o'r amgylchedd deddfwriaethol a rheoleiddiol mewn perthynas â darlledu, cyfathrebu a newyddiaduraeth;
- Dealltwriaeth o ehangder y meysydd polisi datganoledig ar draws Llywodraeth Cymru a busnes technegol neu ddeddfwriaethol llywodraethau datganoledig;
- Dealltwriaeth o lwyfannau digidol a'r amgylchedd digidol sy'n dod i'r amlwg yn fyd-eang, gan gynnwys profiad o weithredu yn yr amgylchedd hwn mewn gwirionedd;
- Dealltwriaeth ymarferol o gyflwyno band eang a signal symudol yng nghyd-destun Cymru;
- Y Gymraeg a'r di-Gymraeg, gyda dealltwriaeth drylwyr o'n cenedl ddwyieithog;
- Arbenigedd mewn ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys ffyrdd newydd o weithio, a rhai sy'n dod i'r amlwg;
- Dealltwriaeth o brofiadau bywyd cymunedau amrywiol ledled Cymru, gan gynnwys o safbwynt economaidd-gymdeithasol.

| Tîm Gweithredol | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr | <£80,000 |
| Swyddog Polisi a Strategaeth | <£70,000 |
| Cydlynydd Ymchwil | <£40,000 |
| Cydlynydd Gweinyddol | <£30,000 |
| Darpariaeth arbenigol dan gontract | £100,000 |
| **Cyfanswm costau staff uchaf** | **£320,000** |

**Tabl 1 Model a Argymhellir ar gyfer yr Awdurdod Cysgod**

| Maes gwariant | Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol | Awdurdod Cysgodol Costau Allweddol 2024/25 | Yr Awdurdod Costau Allweddol 2025/26 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Y gyllideb a gytunwyd arni / ymrwymwyd iddi | £1m | £1m | £0 | Budget agreed/ committed |
| Tîm y staff | £120,000 | £320,000 | £320,000 | |
| Ymchwil sy'n cael ei gomisiynu | £200,000 | £300,000 | £400,000 | Mae'r gyllideb ymchwil yn cynnwys ystyriaeth ar gyfer yr amser rhagarweiniol wrth bennu blaenoriaethau a chomisiynu gwaith |
| Costau eraill | £50,500 | £84,000 | £84,000 | Taliadau'r Bwrdd |
| **Cyfanswm Costau** | **£370,500** | **£704,000** | **£804,000** | |

**Tabl 2: Costau allweddol dangosol y Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol a'r Awdurdod Cysgodi**

**82.** Mae'r Panel yn argymell bod aelodau'r Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol a'r Awdurdod Cysgodol yn cael eu talu am eu cyfraniad yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac y dylent fod yn atebol i'r Dirprwy Weinidog a'r Aelod Dynodedig. Amlinellir y costau allweddol dangosol yn Nhabl 2 isod:

**83.** Mae'r Panel yn argymell yn gryf y dylai'r Awdurdod Cysgodol fod yn annibynnol ar y Llywodraeth. Bydd cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu'r corff yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

- Argaeledd y buddsoddiad a'i flaenoriaeth;
- Cyfeiriad gwleidyddol a'r cyd-destun gwleidyddol ehangach yng Nghymru ac yn San Steffan;
- Allbynnau'r Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol, a fydd yn llywio'r broses o sefydlu'r Awdurdod Cysgodol.

# Adran 10: Gwaith Awdurdod i Gymru o 2025 ymlaen

**84.** Gan ddibynnu ar wybodaeth a chanfyddiadau gwaith yr Awdurdod Cysgodol, mae'n bosibl y bydd symudiad sylweddol tuag at ddatganoli rhagor o bwerau darlledu a chyfathrebu i Gymru. Os felly, dylid ailsefydlu'r Awdurdod Cysgod fel Awdurdod swyddogol o 2025 ymlaen, gan beidio â gweithredu ar ffurf gysgodol.

**85.** Dylid ystyried a yw'r Awdurdod yn mynd ymlaen i gael ei siapio fel Comisiwn, tebyg i Ddyfodol y Comisiwn Cyfryngau a sefydlwyd yn Iwerddon yn 2020. Cafodd y Comisiwn yn Iwerddon y dasg o ddatblygu argymhellion ar gyllid cyhoeddus cynaliadwy a chymorth arall i sicrhau bod y cyfryngau yn Iwerddon yn parhau'n hyfyw, yn annibynnol ac yn gallu cyflawni nodau gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r Panel hwn yn credu y gallai fformat Comisiwn ddarparu'r trylwyredd sydd ei angen i lywio set o gamau gweithredu strategol, cynaliadwy a hirdymor ar hyd llwybr tuag at ddatganoli llawn.

# Adran 11: Gwaith Awdurdod i Gymru yn y dyfodol

**86.** Erbyn 2028 bydd nifer o gerrig milltir wedi mynd heibio: Etholiad Cyffredinol yn San Steffan, Etholiadau'r Senedd yn 2026, newidiadau i'r BBC ac S4C o ganlyniad i'r ffaith fod Siarter bresennol y BBC yn dod i ben yn 2027, ac unrhyw oblygiadau yn sgil ail-negodi trwyddedau ITV ar ôl 2024.

**87.** Mae'r cyfuniad o'r ffactorau hyn yn golygu nad yw'n fuddiol amlinellu na rhagweld yn fanwl beth allai gofynion Awdurdod i Gymru gyda chyfansoddiad llawn fod o 2028 ymlaen.

**88.** Byddai datganoli swyddogaethau penodol i Lywodraeth Cymru yn golygu bod angen Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau, a newid yn y trefniadau cyllido a llywodraethu sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau hynny'n effeithiol. Bryd hynny, mae'n debygol y byddai'n rhaid i Awdurdod a oedd wedi meithrin locws o arbenigedd a hygrededd yn y sector yng Nghymru symud yn gyflym eto, er mwyn ymateb i newidiadau a heriau'r tirlun newydd.

**89.** Os yw Llywodraeth Cymru yn dymuno symud tuag at fwy o ddatganoli, bydd yn hanfodol cadw arbenigedd a dealltwriaeth corff fel Awdurdod, gan adeiladu ar waith y Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol a'r Awdurdod Cysgodol, fel yr argymhellwyd gan y Panel hwn

# Casgliad

**90.** Dros y 10 mis diwethaf, mae'r Panel Arbenigol ar gyfer Darlledu a Chyfathrebu wedi clywed tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau, wedi comisiynu ymchwil helaeth ac wedi cymryd rhan mewn trafodaeth sylweddol i edrych ar greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer datganoli'r pwerau hynny i Gymru.

**91.** Mae'n amlwg i'r Panel bod gwir angen mwy o graffu ar ddarlledu a chyfathrebu yn y dirwedd hon sy'n newid yn gyflym. Mae hefyd angen casglu llawer mwy o ymchwil, gwybodaeth a data sy'n benodol i Gymru, a sganio'r gorwel i ddatblygu strategaeth gydlynol ar gyfer Cymru, sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.

**92.** Roedd yn arbennig o amlwg nad oes un corff sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion darlledu a chyfathrebu er mwyn gwasanaethu pobl Cymru yn y ffordd orau.

**93.** Casgliad y Panel hwn felly yw y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol, a dylai ei gylch gwaith hefyd gynnwys newyddiaduraeth. Bydd y corff hwn yn cael arian cyhoeddus ac yn annibynnol ar y llywodraeth.

# Atodiad 1: Cylch Gorchwyl y Panel Arbenigol

**1. Teitl a Math**

**1.1** Corff cynghori yw'r Panel Arbenigol sy'n atebol i Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip, ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru. Mae'r Panel wedi'i sefydlu a'i benodi fel grŵp gorchwyl a gorffen am gyfnod o ddim mwy na blwyddyn o'i gyfarfod cyntaf.

**2. Diben**

**2.1** Prif ddiben y Panel yw darparu opsiynau ac argymhellion ynghylch gweithredu'r ymrwymiad yng Nghytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru.

**2.2** Wrth gynnig safbwynt a phersbectif sy'n seiliedig ar wybodaeth ac arbenigedd unigolion, bydd y Panel yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at ffynonellau ehangach o gyngor a ddarperir gan y gwasanaeth sifil, partneriaid diwydiant a mecanweithiau eraill, megis ymgysylltu cymunedol.

**3. Cwmpas a Chylch Gwaith**

**3.1** Bydd y Panel yn rhoi sylw penodol i'r ymrwymiad uchod ynghylch Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol. Caiff ei waith ei lywio gan gyd-destun ehangach yr ymrwymiadau ynghylch darlledu a'r cyfryngau a nodir yn y Cytundeb Cydweithio. Mae mwy o fanylion yn Nogfen 1.

**3.2** Mae'r Cytundeb Cydweithio yn nodi manylion y mathau o rolau y gallai Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol eu cyflawni, gan gynnwys cymryd camau i unioni'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael yng Nghymru, alinio'r ymdrechion presennol i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru ag ymdrechion arloesol i gefnogi'r Gymraeg ar holl blatfformau'r cyfryngau ac yn y maes digidol, a datblygu cynlluniau ar gyfer fframwaith amgen yng Nghymru yn barod ar gyfer datganoli pwerau darlledu a chyfathrebu.

**3.3** Bydd disgwyl i'r Panel adeiladu ar y safbwynt cychwynnol a amlinellwyd yn y Cytundeb Cydweithio i ystyried  a gwneud argymhellion ynghylch sut i gyflawni'r amcanion hynny. Bydd angen cynnwys argymhellion ynghylch:

- Cylch gwaith a chwmpas;
- Strwythur a lle o fewn y fframwaith llywodraethu a rheoleiddio ehangach;
- Tryloywder ac atebolrwydd;
- Trefniadau llywodraethiant;
- Goblygiadau cyllid a chynaliadwyedd i'r dyfodol;
- Unrhyw opsiynau perthnasol eraill ar gyfer gwireddu amcanion yr ymrwymiadau darlledu yn y Cytundeb Cydweithio.

**3.4** Fel un elfen o'i waith, bydd disgwyl i'r Panel nodi arferion gorau a'r hyn a ddysgwyd gan wledydd ac ardaloedd eraill y DU ac yn rhyngwladol, a dangos sut gellid defnyddio esiamplau o'r fath i lywio'r meddylfryd yng Nghymru. Bydd gwaith y Panel yn allweddol i'r broses o ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth a'r achos busnes dros ddatganoli pwerau darlledu a chyfathrebu i Gymru.

**4. Aelodaeth**

**4.1** Sefydlwyd y Panel ar sail Panel Arbenigol, a bydd yn cynnwys yr unigolion canlynol:

- Shirish Kulkarni
- Richard Martin
- Nia Ceidiog
- Mel Doel
- Geoff Williams
- Elin Haf Gruffydd Jones
- Dr Llion Iwan
- Dr Ed Gareth Poole
- Clare Hudson
- Ceri Jackson
- Arwel Ellis Owen
- Carwyn Donovan

**4.2** Cadeirir y Panel gan Mel Doel ac Elin Haf Gruffydd Jones.

**4.3** Bydd aelodaeth y panel yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd gyda'r opsiwn o gyfethol aelodau ychwanegol neu gyngor arbenigol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael eu cynrychioli yn ôl yr angen ar gyfer eitemau trafod penodol.

**5. Cyfarfodydd a Ffyrdd o Weithio**

**5.1** Bydd y Panel yn cyfarfod yn rheolaidd a'r Cyd-gadeiryddion fydd yn pennu'r amlder.

**5.2** Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein ac yn adeiladau Llywodraeth Cymru gyda chytundeb yr aelodau ac yn dibynnu ar reoliadau COVID-19 cyfredol.

**5.3** Bydd agendâu a phapurau ategol y cyfarfodydd yn cael eu dosbarthu i aelodau cyn cyfarfodydd. Cytunir ar yr agendâu ymlaen llaw gyda'r Cadeirydd/Cadeiryddion. Bydd angen datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau ar ddechrau pob cyfarfod neu pan fydd materion o'r fath yn codi.

**5.4** Bydd y gwaith o drefnu cyfarfodydd, dosbarthu papurau a materion cysylltiedig yn cael ei wneud drwy swyddogaeth ysgrifenyddol a ddarperir gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cynhyrchu nodyn o bob cyfarfod, gan gofnodi pwyntiau trafod a chamau gweithredu allweddol.

**5.5** Bydd y Panel yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ei waith i Weinidogion ac Aelodau Dynodedig. Mae'r Panel yn bwriadu darparu adroddiad interim ar ôl 6 mis.

**5.6** Efallai y bydd dogfennau, gan gynnwys nodiadau cyfarfodydd, yn agored i geisiadau am wybodaeth a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Pan dderbynnir ceisiadau o'r fath, bydd gweithdrefnau Rhyddid Gwybodaeth arferol Llywodraeth Cymru yn cael eu dilyn.

**5.7** Cynhelir trafodaethau'r Panel yn Gymraeg a/neu'n ddwyieithog; darperir papurau yn Gymraeg a darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

**6. Atebolrwydd**

**6.1** Yn y pen draw, mae'r Panel yn atebol i Lywodraeth Cymru, a chaiff yr adroddiadau eu darparu i Weinidogion Cymru ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru.

**7. Adolygu**

**7.1** Caiff y Cylch Gorchwyl hwn ei adolygu a'i newid drwy gytundeb â Gweinidogion Cymru ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru.

# Atodiad 2: Ymrwymiadau perthnasol y Cytundeb Cydweithredu

**24. Darlledu**

Er bod y pandemig wedi rhoi proffil uwch i Gymru ac i ddemocratiaeth Cymru yng nghyfryngau'r DU, mae consensws eang bod y fframwaith darlledu a chyfathrebu presennol yn annigonol, ei fod yn llesteirio bywyd democrataidd ein gwlad ac nad yw'n diwallu anghenion y Gymraeg, na'r uchelgais ar ei chyfer. Nid yw'r system bresennol, felly, yn abl i ddarparu'r cyfryngau y mae ar Gymru eu hangen. Mae bygythiadau parhaus hefyd i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac ymosodiadau arno, o du Lywodraeth Geidwadol yr DU. Mae Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai pwerau darlledu a chyfathrebu gael eu datganoli i'r Senedd.

- Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd, a chydag arbenigwyr yn y diwydiant, cymunedau a phartneriaid ehangach, i ystyried creu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru.

- Byddai cylch gwaith y corff hwnnw'n cynnwys ceisio cryfhau democratiaeth Cymru a chau'r bwlch gwybodaeth; dwyn ynghyd a chydgysylltu mewn ffordd strwythuredig ymdrechion presennol Llywodraeth Cymru i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru, a datblygiadau arloesol i gefnogi'r Gymraeg yn y maes digidol, megis amam.cymru; gwneud y cyfryngau'n fwy lluosogaethol a defnyddio'r Gymraeg ar holl blatfformau'r cyfryngau.

- Byddai'r Awdurdod newydd hefyd yn gyfrifol am lunio cynlluniau ar gyfer fframwaith darlledu a chyfathrebu amgen i Gymru, ac am gymryd camau tuag ato, yn barod ar gyfer datganoli pwerau darlledu a chyfathrebu.

Drwy weithredu fel hyn, bydd modd inni gryfhau'r sector er gwaethaf yr heriau sy'n codi oherwydd nad yw llywodraeth yn y DU yn ymdrin mewn ffordd adeiladol â datganoli yng Nghymru.

**25. Cymorth ariannol i'r cyfryngau**

Ein hymyriad cychwynnol fydd darparu buddsoddiad ychwanegol i ddatblygu mentrau sydd eisoes yn bod a mentrau newydd sy'n ceisio gwella newyddiaduraeth yng Nghymru ac i helpu'r cyfryngau yng Nghymru i fynd i'r afael â'r bwlch gwybodaeth.

# Atodiad 3: Rhestr o Dystiolaeth a ystyriwyd gan y Panel Arbenigol

**Tystiolaeth lafar yn y drefn gronolegol y cawsant eu cyflwyno**

| | |
|---|---|
| 05/10/22 | TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru)<br>Ofcom |
| 24/10/22 | S4C<br>Ffederasiwn Undebau Adloniant Cymru |
| 10/11/22 | ITV<br>BECTU |
| 16/11/22 | BBC Wales<br>Canolfan Llywodraethiant Cymru |
| 17/01/23 | Alan Esslemont (TG4, Iwerddon)<br>Andrew Jeffreys (Y Trysorlys, Llywodraeth Cymru) |
| 21/02/23 | Sefydliad Materion Cymreig (IWA)<br>Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru |
| 10/03/23 | Alun Llwyd (AM Cymru) |

**Derbyniwyd Cyflwyniadau Ysgrifenedig gan:**

- Arqiva
- Channel 4
- ITV Cymru Wales
- National Communications Council
- Netflix
- NUJ (Ar gael yn: https://www.nuj.org.uk/resource/nuj-submission-to-the-expert-panel-on-a-shadow-broading-and-communications-authority-for-wales----october-2022.html)
- Race Council Cymru
- TAC
- Ofcom: gwybodaeth am ddarpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus o gynnwys newyddion a materion cyfoes
- Cymdeithas yr Iaith

**Tystiolaeth a Gomisiynwyd gan y Panel Arbenigol**

- Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant, Prifysgol Caerdydd (Ionawr 2023) 'Adolygiad o gyfrifoldebau a phwerau darlledu mewn gwledydd penodol: adroddiad i'r Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru'
- Enders Analysis (Chwefror 2023) 'Tueddiadau Darlledu: paratowyd ar gyfer y Panel Arbenigol ar Ddatganoli Darlledu'
- Kids Industries (Chwefror 2023) 'Cyfryngau ar gyfer plant yn 2023 a'r angen am reoleiddio'

**Deunydd arall**

Adroddiadau blynyddol ac adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (Adroddiadau Blynyddol S4C ac adolygiadau rheoli blynyddol gan BBC Cymru Wales)

Gweithgareddau a ariennir gan Cymru Greadigol: Ar gael yn: Hafan | Cymru Greadigol

Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Ymchwiliad i Ddarlledu yng Nghymru. Ar gael yn: Darlledu yng Nghymru - Pwyllgorau - Senedd y DU

Adroddiadau Enders (nid yw ar gael i rai nad ydynt wedi tanysgrifio; mynediad dros dro tra bo'r contract Tueddiadau'r Dyfodol ar waith)

- Hawliau chwaraeon: A fydd y ffrydwyr yn codi prisiau?
- Statws parhaus y DU fel pwerdy diwylliannol
- Teledu gwasanaeth cyhoeddus: Rhywbeth i bawb
- Dadansoddi hawliau chwaraeon y DU: Y gwahanol gydrannau gwerth
- Diwydiannau Creadigol y DU: Rhoi hwb i'r economi ranbarthol
- Sianeli teledu sy'n darlledu am ddim: Cydgrynhoi a budd y cyhoedd
- Allanoli diwylliant: Pan nad yw sioeau Prydeinig yn 'Brydeinig'

# Appendix 4: Dosbarthu Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru: Canllawiau ar Ddosbarthu

**Mathau o Gyrff Cyhoeddus**

A. Adrannau Anweinidogol (NMDs)

B. Asiantaethau Gweithredol (EA)

**C.** Cyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru
**C1.** Cyrff Hyd Braich Gweithredol
**C2.** Cyrff Hyd Braich Cynghori
**C3.** Cyrff Hyd Braich Tribiwnlys

D. Cwmnïau Cyfyngedig
**D1.** Cwmnïau sy'n eiddo i'r Llywodraeth
**D2.** Corfforaethau Cyhoeddus

E. Cyrff Cynghori
**E1.** Gweithgorau Sector Cyhoeddus
**E2.** Paneli Cynghori
**E3.** Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

F. Cyrff y GIG

G. Cyrff Eraill
**G1.** Deiliaid Swyddi Statudol Annibynnol

H. Trefniadau ar y Cyd a Phartneriaethau Cyhoeddus-Preifat

**Rhestr o Gyrff Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru.**

| Categorïau a Nodweddion | Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **A. Adrannau Anweinidogol** | |
| • Adrannau unigol o'r Llywodraeth yn eu rhinwedd eu hunain, a sefydlwyd i gyflawni swyddogaeth benodol, ond nid oes ganddynt eu Gweinidog eu hunain.<br>• Yn gyffredinol, mae'r pwerau'n deillio o statud ac maent yn cael eu harwain gan Fwrdd Statudol.<br>• Bydd union natur eu perthynas â Gweinidogion Cymru yn amrywio yn ôl eu swyddogaethau a'u fframwaith statudol. Cadw'r gwaith dydd i ddydd o weinyddu'r gweithgarwch i ffwrdd o reolaeth Weinidogol uniongyrchol, tra'n cadw rhywfaint o fewnbwn y Llywodraeth i bolisi ehangach.<br>• Mae'r staff yn weision sifil. Yr uwch swyddog yw'r swyddog cyfrifyddu, sydd fel arfer yn cael ei benodi gan y Trysorlys.<br>• Yn llunio eu cyfrifon eu hunain.<br>• Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus sy'n rheoleiddio penodiadau i'r bwrdd a rhaid iddynt gael eu gwneud yn unol â'r Cod Llywodraethu. | • Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth/Concordat sy'n diffinio'r berthynas waith rhwng LlC ac Adrannau Anweinidogol. |

| Categorïau a Nodweddion | Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **B. Asiantaethau Gweithredol** | |
| • Mae Asiantaethau Gweithredol yn rhan o Lywodraeth Cymru neu un o Adrannau Llywodraeth y DU.<br>• Maent yn unedau busnes diffiniedig a sefydlwyd i gyflawni gwasanaeth neu swyddogaeth benodol o fewn Llywodraeth Cymru.<br>• Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r polisi. Maent yn gweithredu gyda rhywfaint o ymreolaeth oddi wrth Weinidogion Cymru a'u 'rhiant' Gyfarwyddwr Cyffredinol.<br>• Maen nhw'n cael eu harwain gan Brif Weithredwr a allai hefyd gael ei gefnogi gan Fwrdd Rheoli. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn cael ei ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu gan Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol priodol Llywodraeth Cymru. Mae'r staff yn weision sifil.<br>• Nid yw Gweinidogion Cymru yn ymwneud â gweithrediadau o ddydd i ddydd, ond maent yn atebol i'r Senedd am eu perfformiad cyffredinol. Gweinidogion Cymru sy'n cymeradwyo ac yn darparu cyllid.<br>• Maent wedi cael eu sefydlu'n weinyddol ac nid oes ganddynt bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân. Mae'r Asiantaethau Gweithredol yn llunio eu cyfrifon a'u hadroddiad blynyddol eu hunain. Mae eu cyfrifon yn cael eu cyfuno yng nghyfrifon Llywodraeth Gyfan.<br>• Mae'n bosibl y dynodir y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r asiantaeth. | • Dogfen fframwaith<br>• Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Bwrdd (os oes bwrdd)<br>• Llythyr Penodi ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys telerau ac amodau. |

| Categorïau a Nodweddion | Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **C. Cyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru** | |
| **C1. Cyrff Hyd Braich Gweithredol** | |
| • Mae Cyrff Hyd Braich gweithredol fel arfer yn cael eu sefydlu o dan statud, er bod nifer fach wedi cael eu sefydlu drwy Warant Frenhinol neu Siarter Frenhinol.<br>• Nid yw'n rhan o'r Goron ond mae ganddo ei bersonoliaeth gyfreithiol ei hun.<br>• Maent yn gweithredu o fewn fframwaith strategol a bennir gan Weinidogion Cymru.<br>• Maent yn cyflawni ystod eang o swyddogaethau gweinyddol, masnachol, gweithredol a rheoleiddiol neu dechnegol yr ystyrir eu bod yn cael eu cyflawni'n well hyd braich oddi wrth LlC.<br>• Fel arfer, mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn cael ei ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu. Drwy'r Swyddog Cyfrifyddu, maent yn uniongyrchol atebol i Senedd Cymru a Senedd y DU er mai Gweinidogion sy'n atebol yn y pen draw am eu perfformiad.<br>• Maent yn cael eu harwain gan Fyrddau (neu ddeiliad swyddi o bryd i'w gilydd) y penodir eu haelodau gan Weinidogion. Gall rhai aelodau fod yn Benodiadau'r Goron ar gyngor Gweinidogion neu gall y corff ei hun wneud penodiadau. Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus sy'n rheoleiddio penodiadau, a rhaid iddynt gael eu gwneud yn unol â'r Cod Llywodraethu.<br>• Mae'r bwrdd yn penodi'r Prif Swyddog Gweithredol, gyda chytundeb Gweinidogion Cymru fel arfer. Nid yw'r Prif Swyddog Gweithredol a'r staff yn weision sifil, ond yn cael eu cyflogi gan y corff ei hun.<br>• Mae cyllid yn cael ei ddarparu drwy grant neu, yn fwy cyffredin, cymorth grant, er y gall rhai gynhyrchu incwm ychwanegol drwy ffynonellau eraill. Yn llunio eu cyfrifon a'u hadroddiad blynyddol eu hunain. | • Dogfen fframwaith<br>• Cod Ymddygiad Aelodau'r Bwrdd<br>• Cod Ymddygiad ar gyfer Staff<br>• Llythyr Cylch Gwaith<br>• Cofrestr Buddiannau<br>• Llythyr Penodi, gan gynnwys telerau ac amodau. |

| Categorïau a Nodweddion | Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Cyrff Hyd Braich Cynghori** | |
| • Mae Cyrff Hyd Braich Cynghori yn cael eu sefydlu i roi cyngor arbenigol ac annibynnol i Weinidogion Cymru yn barhaus. Maen nhw'n gyrff sydd ag oes hirach na dwy flynedd.<br>• Nid oes unrhyw Gyrff Hyd Braich Cynghori newydd yn cael eu creu gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd. Dylid sefydlu Grwpiau neu Baneli Cynghori yn lle hynny - nid yw'r rhain yn gyrff ar wahân ac mae'n haws eu creu a'u diddymu. | • Mae concordat rhwng Uned Tribiwnlysoedd Cymru a'r Tribiwnlys, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau, trefnau datrys anghydfodau ac ati.<br>• Llythyrau penodi ar gyfer aelodau lleyg, yn rhoi manylion y telerau a'r amodau. |
| **C3. Cyrff Hyd Braich Tribiwnlys** | |
| • Fel arfer yn gweithredu dan ddarpariaethau statudol.<br>• Fel arfer, mae'n ymwneud â thasgau a chyngor sy'n ymwneud â meysydd arbenigol o'r gyfraith, ac yn ymgymryd â swyddogaethau barnwrol, fel penderfynu ar hawliau a rhwymedigaethau dinasyddion preifat. Nid ydynt yn rhan o system y llysoedd.<br>• Maent yn amrywio'n fawr o ran y math o waith a wneir ganddynt a faint o waith maent yn ei wneud, yn ogystal ag o ran eu cefnogaeth weinyddol.<br>• Yn dilyn adroddiad i'r Cwnsler Cyffredinol, mae strwythur Tribiwnlysoedd yng Nghymru yn cael ei adolygu. | • Mae concordat rhwng Uned Tribiwnlysoedd Cymru a'r Tribiwnlys, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau, trefnau datrys anghydfodau ac ati.<br>• Llythyrau penodi ar gyfer aelodau lleyg, yn rhoi manylion y telerau a'r amodau. |

| Categorïau a Nodweddion | Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **D. Cwmnïau Cyfyngedig** | |
| • Mae Gweinidogion Cymru wedi sefydlu amryw o gwmnïau, ac maent yn berchen arnynt yn llwyr neu'n rhannol. | |
| **D1. Cwmnïau sy'n eiddo i'r Llywodraeth** | |
| • Fe'i sefydlwyd fel cwmnïau cyhoeddus cyfyngedig drwy gyfranddaliadau neu drwy warant yn unol â Deddfau Cwmnïau.<br>• Rhaid i'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu nodi "sail masnachu" y Cwmni yn glir.<br>• Bydd penodiadau Gweinidogion Cymru i'r bwrdd yn dod o fewn cylch gwaith y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a rhaid iddynt gael eu gwneud yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd.<br>• Bydd y Bwrdd yn penodi'r Prif Swyddog Gweithredol, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, a fydd yn cael ei ddynodi'n swyddog cyfrifyddu gan yr Ysgrifennydd Parhaol, os yw hynny'n briodol.<br>• Bydd y rhyddid a roddir i'r cwmni'n dibynnu i raddau helaeth ar faint o ymyrraeth a rheolaeth y byddai Gweinidogion yn dymuno eu harfer.<br>• Bydd y staff yn cael eu cyflogi gan y cwmni, ac ni fyddent yn weision sifil. | • Cytundeb Rheoli<br>• Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, os cafodd ei sefydlu o dan y Ddeddf Cwmnïau.<br>• Cod Ymddygiad Aelodau'r Bwrdd<br>• Cod Ymddygiad ar gyfer Staff<br>• Llythyr Cylch Gwaith<br>• Cofrestr Buddiannau<br>• Llythyrau Penodi |
| **D2. Corfforaethau Cyhoeddus** | |
| • Yn bennaf, mae'r rhain yn gyrff masnachu sy'n gweithredu naill ai'n fasnachol neu'n adennill y rhan fwyaf o'u costau drwy ffioedd a godir ar gwsmeriaid neu ardollau.<br>• Fel arfer yn cael ei ddosbarthu pan fydd o leiaf 50% neu fwy o'i gostau'n cael eu talu o incwm allanol o'r fath. Dylid defnyddio'r maen prawf o 50% drwy edrych dros amrywiaeth o flynyddoedd i osgoi ailddosbarthu'n aml drwy fân amrywiadau mewn blwyddyn, na ddisgwylir iddynt gael eu hailadrodd yn y dyfodol.<br>• Dylid gofyn am gyngor gan y Tîm Rheoli Ariannol ynghylch triniaeth at ddibenion cyllidebu a chyfrifo. | |

Tudalen y pecyn 303

| Categorïau a Nodweddion | Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **E. Cyrff Cynghori** | |
| **E1. Gweithgorau Sector Cyhoeddus** | |
| • Yn darparu cyngor ar ystod eang o faterion gan gynnwys materion polisi, sydd fel arfer yn anstatudol.<br>• Yn cynnwys o leiaf ddwy ran o dair o weision sifil neu gyhoeddus.<br>• Mae aelodau'n aml yn gwasanaethu yn rhinwedd eu swyddi, ac maent yn atebol i'w cyflogwyr. Nid yw oes y math hwn o gorff wedi'i gyfyngu i ddwy flynedd. | • Cylch Gorchwyl<br>• Llythyrau penodi |
| **E2. Paneli Cynghori** | |
| • Yn cael eu sefydlu i ymgysylltu â, ymgynghori a chael barn o amryw o ffynonellau er mwyn rhoi cyngor annibynnol ac arbenigol i Weinidogion. Nid yw oes y math hwn o gorff wedi'i gyfyngu i ddwy flynedd.<br>• Sefydlwyd yn weinyddol neu dan statud.<br>• Rhaid penodi i Baneli a restrir yn y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn unol â'r Cod Llywodraethu.<br>• Ni all paneli ymgynghorol a sefydlir yn weinyddol gyflogi eu staff eu hunain na gwario ar eu cyfrif eu hunain. Maent yn cael eu cefnogi gan staff o'r adran noddi.<br>• Y ddeddfwriaeth sefydlu fydd yn penderfynu a all Panel a sefydlir dan statud gyflogi staff neu gael gwariant yn eu rhinwedd eu hunain, drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. | • Modus Operandi (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'w bwrpas, ei gylch gorchwyl, ei aelodaeth a'r broses benodiadau)<br>• Cod Ymddygiad i Aelodau<br>• Llythyrau penodi sy'n rhoi manylion y telerau a'r amodau<br>• Datganiad Gwrthdaro rhwng Buddiannau |

| Categorïau a Nodweddion | Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **E3. Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ac ati** | |
| • Yn cael eu sefydlu'n gyflym i ddarparu cyngor arbenigol ac annibynnol i Weinidogion Cymru ar fater penodol mewn cyfnod byr.<br>• Oes fer o lai na dwy flynedd.<br>• Cylch gwaith sy'n canolbwyntio ar un prif fater.<br>• Daw'r aelodau o'r sector cyhoeddus ehangach, y trydydd sector neu'r sector preifat.<br>• Nid yw'r penodiadau yn dod o fewn cylch gwaith y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus oherwydd eu natur tymor byr.<br>• Nid ydynt yn gwario yn eu rhinwedd eu hunain nac yn cynhyrchu cyfrifon y mae'r adran noddi yn gyfrifol amdanynt. | • Llythyrau Penodi<br>• Cylch Gorchwyl<br>• Cofrestr Buddiannau<br>• Cod Ymddygiad i Aelodau |
| **F. Cyrff y GIG** | |
| • Rheoli, gweinyddu a darparu'r GIG yng Nghymru.<br>• Mae Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau yn atebol i'w Byrddau i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd cenedlaethol a rhanbarthol ac anghenion sy'n seiliedig ar wybodaeth leol.<br>• Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'n paratoi eu cyfrifon blynyddol eu hunain, sy'n cael eu cynnwys yng Nghyfrifon Adnoddau Llywodraeth Cymru. | |

| Categorïau a Nodweddion | Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **G. Cyrff Eraill** | |
| **G1. Deiliaid Swyddi Statudol Annibynnol** | |
| • Deiliaid swyddi unigol y nodir eu penodiad mewn statud. Eu statws cyfreithiol yw fel 'corfforaeth unigol'.<br>• Yn annibynnol ar Weinidogion, wedi'u sefydlu i weithredu y tu allan i unrhyw ddylanwad gwleidyddol.<br>• Pwerau goruchwylio, gorfodi, dyfarnu neu fonitro neu rôl eirioli.<br>• Y Senedd neu'r Prif Weinidog sy'n penodi deiliad y swydd, ond bydd hyn fel arfer yn cael ei wneud ar gyngor pwyllgor hollbleidiol.<br>• Gallant gyflogi staff ond ni fyddant yn weision sifil.<br>• Maent yn cynhyrchu eu cyfrifon a'u hadroddiad blynyddol eu hunain ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yw eu harchwilydd allanol.<br>• Deiliad y swydd yw'r swyddog cyfrifyddu. | • Deddfwriaeth sylfaenu fydd yn pennu natur unrhyw ddogfennau rheoli. Bydd angen rhyw fath o lythyr cyllido os yw'n cael ei ariannu gan adnoddau Llywodraeth Cymru. Gall rhai dynnu arian i lawr yn uniongyrchol o'r Gronfa Gyfunol.<br>• Efallai y bydd angen Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd yn dibynnu ar natur y berthynas â Gweinidogion Cymru. |
| **H. Trefniadau ar y Cyd a Phartneriaethau Cyhoeddus-Preifat** | |
| • Gweithio gyda phartneriaid yn y sector preifat i sicrhau cymaint â phosibl o gyllid a/neu arbenigedd yn y maes targed.<br>• Gellir sefydlu cyfrwng at ddibenion arbennig, fel partneriaeth neu gwmni cyfyngedig, a fydd yn cael ei redeg ar y cyd â phartner yn y sector preifat.<br>• Rhaid i bob parti gofnodi a deall y trefniadau rhwng y partneriaid, e.e. llywodraethu, rheolaeth ariannol, adrodd, penodiadau ac ati.<br>• Penodir yr Uwch Swyddog Cyfrifol i reoli'r Trefniant ar y Cyd. | • Datganiad Polisi<br>• Cytundeb Cyfreithiol<br>• Rhestr o Gyrff Cyhoeddus i'w diweddaru.<br>• Cofrestr Buddiannau<br>• Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu a Chytundeb Cyfranddalwyr fel arfer.<br>• Cynllun Busnes |

# Atodiad 5: Llyfryddiaeth


Grŵp y BBC (2022) ***Adroddiad blynyddol a chyfrifon Grŵp y BBC 2021/22.*** Ar gael yn: https://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/annualreport/ara-2021-22.pdf

Yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (Ebrill 2022), ***Papur Gwyn Bil y Cyfryngau***. Ar gael yn: Nesaf - gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer y sector darlledu - GOV.UK (www.gov.uk)

Yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (Tachwedd 2022), ***Cylch Gorchwyl yr Adolygiad o Hawliau Digidol.*** Ar gael yn: Listed Events: Digital Rights Review - GOV.UK (www.gov.uk)

The Future of Media Commission (Gorffennaf 2022). Ar gael yn: gov.ie – Report of the Future of Media Commission (www.gov.ie)

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2022), ***Darlledu: Digwyddiadau Chwaraeon a Restrir*** (Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. Ar gael yn: https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN00802/SN00802.pdf

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2022), ***Adroddiad interim gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru***. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-12/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-interim-rhagfyr-2022.pdf

Sefydliad Materion Cymreig (Tachwedd 2022), ***Rheoliadau Darlledu yng Nghymru Rhan 1***. Ar gael yn: IWA_Broadcasting-Regulation-Part1-FINAL.pdf

Sefydliad Materion Cymreig (Tachwedd 2022), ***Lleisiau'r Dinasyddion, Newyddion y Bobl: Sicrhau bod y Cyfryngau'n Gweithio Dros Gymru.*** Ar gael yn: Lleisiau'r Dinasyddion, Newyddion y Bobl:Sicrhau bod y Cyfryngau'n Gweithio Dros Gymru - Sefydliad Materion Cymreig (iwa.wales)

Ofcom (Awst 2022) ***Cyfryngau'r Genedl.*** Ar gael yn: Cyfryngau'r Genedl 2022:Cymru (ofcom.org.uk)

Ofcom (Awst 2022) ***Adroddiad Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: 2022.*** Ar gael yn: Adroddiad blynyddol darlledu gwasanaeth cyhoeddus 2022

Ofcom (Mehefin 2022) ***Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC.*** Ar gael yn: Ymgynghoriad:Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC - Ofcom

Ofcom (Gorffennaf 2022) ***Cael Gafael ar Newyddion yn y DU, gydag adroddiad penodol ar gael i Gymru.*** Ar gael yn: Cael gafael ar newyddion yn y DU – Ofcom

Ofcom (Gorffennaf 2021), ***Atodiad 5: Fframwaith rheoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus: sgrin fach, trafodaeth fawr,*** Ar gael yn: https://www.smallscreenbigdebate.co.uk/__data/assets/pdf_file/0027/221958/annex-5-statement-future-of-public-service-media.pdf

Adolygiad pum mlynedd Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus; mae'r holl adroddiadau a thystiolaeth ar gael yn: Sgrin Fach:Trafodaeth Fawr (smallscreenbigdebate.co.uk)

Senedd y Deyrnas Unedig. Tŷ'r Arglwyddi (Gorffennaf 2022), ***y Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol; Ymchwiliad i Gyllid y BBC yn y Dyfodol.*** Ar gael yn: Trwydded i Newid:Cyllid y BBC yn y dyfodol (parliament.uk)

Senedd y Deyrnas Unedig. Tŷ'r Arglwyddi (Tachwedd 2019), ***y Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol; Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn oes fideo ar-alw***. Ar gael yn: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus: mor hanfodol ag erioed (parliament.uk)

Senedd y Deyrnas Unedig. Tŷ'r Cyffredin (Mawrth 2021) ***Adroddiad y Pwyllgor Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus***

**Llywodraeth Cymru** (2021), ***Y Cytundeb Cydweithio. Rhaglen Bolisi Lawn.*** Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/12/3/1638349216/y-cytundeb-cydweithio-rhaglen-bolisi-lawn.pdf

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru yr adroddiad** (Mawrth 2021) ***Edrych ar ddatganoli darlledu: sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?*** Ar gael yn: Edrych ar ddatganoli darlledu: sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?(senedd.cymru)

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru** (Rhagfyr 2021) ***Ymateb i Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.*** Ar gael yn: https://senedd.cymru/media/legnrxuc/cr-ld14748-w.pdf

**Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon** (Rhagfyr 2016); ***y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig.*** Ar gael yn: Cm 9365 Broadcasting Royal Charter (bbc.co.uk)

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth S4C / Cymraeg 2050.** Ar gael yn: Memorandwm cyd-ddealltwriaeth: Cymraeg 2050 ac S4C | LLYW.CYMRU, Memorandum of understanding: S4C and Cymraeg 2050 | GOV. WALES

# Adolygiad o gyfrifoldebau a phwerau darlledu mewn gwledydd penodol
# Adroddiad i'r Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru

Ionawr 2023

Dr Tom Chivers, Yr Athro Stuart Allan, Dr Cynthia Carter,
Dr Eva Nieto McAvoy a Dr Caitrona Noona

Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd

# Gair am yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o'r cyfrifoldebau a'r pwerau darlledu yng Ngwlad y Basg, Canada, Denmarc, Gweriniaeth Iwerddon ac Estonia. Mae'r ymchwil yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddogfennau polisi swyddogol, data'r diwydiant a llenyddiaeth academaidd a gyhoeddwyd dros y 15 mlynedd diwethaf yn y gwledydd hyn ac ar draws meysydd polisi cyfryngau Ewropeaidd a rhyngwladol.

Drwy bum proffil, mae'r adroddiad yn cyflwyno crynodeb ffeithiol o system gyfryngau pob gwlad, ynghyd ag astudiaethau achos manwl o ddadleuon cyfoes yn y wlad honno ar drefniadau llywodraethu, rheoleiddio, cyllido a darparu cynnwys ar gyfer cyfryngau cyhoeddus. Mae'r adroddiad yn edrych ar faterion penodol sy'n ymwneud â gwasanaethu anghenion a buddiannau cymunedau ieithyddol a diwylliannol penodol, yn ogystal ag edrych ar strategaethau'r gwledydd ar gyfer addasu polisïau a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y dirwedd cyfryngau digidol.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnig crynodeb o'n canfyddiadau a'n sylwadau cyffredinol ar strwythur y gwahanol systemau cyfryngau hyn, eu dulliau penodol o lunio polisïau, a goblygiadau gwahanol fodelau neu ddulliau o ran llywodraethu a rheoleiddio cyfryngau cyhoeddus. Rydym yn gobeithio y bydd yr achosion a gyflwynir yn ddiddorol, yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaethau'r Panel Arbenigol ar y posibilrwydd o ddatganoli pwerau darlledu i Gymru.

## Gair am yr Awduron

Mae **Dr Tom Chivers** yn Gydymaith Ymchwil yn Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd. Am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae wedi gweithio fel ymchwilydd ar y ffrwd waith 'Celfyddydau, Diwylliant a Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus' i'r Ganolfan Tystiolaeth a Pholisi ar gyfer y Diwydiannau Creadigol (a gydlynwyd â Nesta, a'i ariannu gan grant AHRC rhif AH/S001298/1), sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymchwilio i werth darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gyhoedd y DU. Mae ei ddiddordebau ymchwil ehangach yn cynnwys polisi'r wasg a darlledu, llunio polisïau cyhoeddus a hanes cyfryngau Prydain, ac mae wedi darlithio ar y pynciau hyn yng Ngholeg King's Llundain, Prifysgol Llundain Goldsmiths a Phrifysgol Bournemouth.

Mae'r **Athro Stuart Allan** yn Athro Newyddiaduraeth a Chyfathrebu yn Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd. Yn ddiweddar, cwblhaodd dymor estynedig fel Pennaeth yr Ysgol ac ar hyn o bryd mae'n arwain ffrwd waith 'Celfyddydau, Diwylliant a Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus' i'r Ganolfan Polisi a Thystiolaeth ar gyfer y Diwydiannau Creadigol. Ar hyn o bryd, mae'n cynnal ymchwil i nifer o bynciau, gan gynnwys natur newidiol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol ehangach. Mae wedi arwain a chyfrannu at amryw o brosiectau ymchwil dros y blynyddoedd, gyda nifer o grantiau wedi cael eu dyrannu gan gynghorau ymchwil cenedlaethol.

Mae **Dr Cynthia Carter** yn Ddarllenydd yn Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd. Mae'n gyd-ymchwilydd gyda'r ffrwd waith 'Celfyddydau, Diwylliant a Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus' i'r Ganolfan Tystiolaeth a Pholisi ar gyfer y Diwydiannau Creadigol, ac yn canolbwyntio'n benodol ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y gynulleidfa o dan 30 oed. Mae hi ar Fwrdd Cynghori Academaidd y Children's Media Foundation, yn aelod o Voice of the Listener and Viewer a Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau Ofcom sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â phlant, y cyfryngau a dinasyddiaeth. Cafodd ddau grant cyllido gan AHRC/BBC ar gyfer ymchwil i gynulleidfaoedd ar yr hyn y mae plant yn ei ddisgwyl gan raglen newyddion plant y BBC Newsround, ynghyd â grantiau cysylltiedig gan Sefydliad Ffilm Prydain, Corfforaeth Ddarlledu Bafaria a'r Open Data Institute.

Mae **Dr Eva Nieto McAvoy** yn gymrawd gwadd yn Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd. Am y tair blynedd diwethaf, mae wedi bod yn gydymaith ymchwil ar y ffrwd waith 'Celfyddydau, Diwylliant a Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus' i'r Ganolfan Polisi a Thystiolaeth ar gyfer y Diwydiannau Creadigol. Mae hi wedi gwneud gwaith ymchwil i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU a thu hwnt fel ymchwilydd i'r Prosiect Gwerth Diwylliannol ac Infomigrants, gwaith ar y cyd dan arweiniad Frances Monde, Deutsche Welle, a'r asiantaeth y wasg o'r Eidal, ANSA yn y Brifysgol Agored. Mae hi wedi cyfrannu cyhoeddiadau ar waith a hanes y BBC World Service ac wedi arwain ymchwil ar effaith Covid19 ar y sector sgrin yng Nghymru.

Mae **Dr Caitriona Noonan** yn Uwch Ddarlithydd mewn Cyfryngau a Chyfathrebu yn yr Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol. Ei harbenigedd yw meysydd cynhyrchu teledu, darlledu gwasanaeth cyhoeddus, llafur creadigol a pholisi diwylliannol. Mae'n gyd-awdur y llyfr 'Producing British Television Drama: Local Production in a Global Era', ac mae hefyd yn brif ymchwilydd ar y prosiect 'Screen Agencies as Cultural Intermediaries: Negotiating and Shaping Cultural Policy for the Film and TV Industries within Small Nations' a ariennir gan AHRC.

## Crynodeb o'r canfyddiadau a'r arsylwadau

Ar draws y pum system cyfryngau rydym wedi edrych arnynt yn yr adroddiad hwn, rydym wedi nodi themâu cyffredin sy'n dylanwadu ar ansawdd, cynaliadwyedd a gwerth cyhoeddus gwahanol systemau darlledu. Mae'r themâu hyn yn defnyddio ein dadansoddiad a'n harsylwadau o'r cyfrifoldebau a'r pwerau darlledu yn y gwledydd a ddewiswyd, ac yn ceisio tynnu sylw at oblygiadau (a chyfleoedd ar gyfer) edrych ar fodelau amgen o ariannu, llywodraethu a rheoleiddio mewn cyd-destunau cyfryngau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

### 1. Cyllid cyfyngedig i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

Er bod llywodraethau yn y DU, ar draws Ewrop a ledled y byd yn ceisio ailddatgan neu adolygu rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn eu systemau cyfryngau eu hunain, mae cefnogaeth barhaus o hyd i egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus sylfaenol cyffredinolrwydd, amrywiaeth, didueddrwydd ac atebolrwydd. Ac eto, er gwaethaf y gefnogaeth barhaus hon, mae'r prif sefydliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y pum gwlad a ddewiswyd wedi wynebu heriau ariannol difrifol dros y blynyddoedd diwethaf: cyllid cyhoeddus yn cael ei rewi neu ei dorri; llai o refeniw o ffynonellau masnachol; a chynnydd mewn costau o ganlyniad i chwyddiant a chynnydd mewn cystadleuaeth ryngwladol. Mae cyllid annigonol wedi arwain at doriadau sylweddol yn lefel y gwasanaethau a'r rhaglenni sy'n cael eu cynnig gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y gwledydd hyn, gan arwain at densiynau a dewisiadau anodd o ran sut mae'r darlledwyr hyn yn cyflawni'r amcanion gwasanaeth cyhoeddus craidd a bennwyd gan lunwyr polisi – yn enwedig wrth i'r amcanion hyn gael eu hehangu i gynnwys darparu mwy o wasanaethau ar-lein.

Ar ben hynny, mae'r modelau presennol ar gyfer casglu a dosbarthu arian yn peri anhawster pellach o ran cynaliadwyedd a dibynadwyedd cynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae cyllid darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy grantiau'r llywodraeth (sy'n cael eu defnyddio ym mhob un o'r pum gwlad) wedi dangos ei fod yn agored iawn i amgylchiadau gwleidyddol ac ariannol anwadal, ac mae mwy a mwy'n ystyried bod ffioedd trwyddedau (y brif ffynhonnell gyllid ar gyfer RTÉ yn Iwerddon ar hyn o bryd) yn anacronistig ac maent yn dioddef yn sgil cyfraddau uchel o aelwydydd yn peidio â'u talu. Er bod gan Ganada, Denmarc ac Iwerddon wahanol gynlluniau ar gyfer rhoi cymorthdaliadau i gynnwys mewn genres nad ydynt yn cael eu gwasanaethu cymaint yn fasnachol, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel arfer yn 'brigdorri' y cronfeydd hyn yn hytrach na'u darparu o ffynonellau newydd. Fodd bynnag, bydd angen i opsiynau ar gyfer diwygio neu ymyrryd mewn modelau cyllido hefyd archwilio'n llawn y canlyniadau anfwriadol o ran lefel ac ansawdd y gwasanaethau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl.

**Wrth werthuso graddfa a chymysgedd y cyllid a ddefnyddir i ariannu cynnwys cyfryngau darlledu, bydd angen i lunwyr polisi ystyried a yw modelau cyllido newydd neu rai presennol yn ddigonol i ddarparu lefel gwasanaeth sy'n cyflawni'r amcanion cymdeithasol a diwylliannol ehangach sy'n gynhenid i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.**

### 2. Llywodraethu a llunio polisi cyfryngau gwleidyddol

Er bod modelau cyffredin o lywodraethu'r cyfryngau yn y pum gwlad – e.e. rheoleiddwyr hyd braich a ddiffinnir mewn statud, cytundebau cylchol y llywodraeth yn gosod cylchoedd gwaith a chwotâu darlledu gwasanaeth cyhoeddus – mae pob system cyfryngau hefyd yn cynnwys

dulliau newydd o oruchwyliaeth olygyddol, wleidyddol neu gyhoeddus, yn enwedig yn y prif sefydliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorau, byrddau, ombwdsmyn a chynghorwyr â chyfansoddiadau gwahanol sy'n ceisio cynrychioli cymunedau diwylliannol, ieithyddol a chymunedau eraill nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, gan ddarparu fforwm ar gyfer cwynion gan gynulleidfaoedd, ac ymgynghori ar wasanaethau a strategaethau darlledwyr. Fodd bynnag, mae llawer o'r swyddi hyn yn cael eu llenwi fel arfer gan unigolion o'r diwydiant neu unigolion mewn 'swyddi uchel' proffesiynol, ac nid yw rôl a dylanwad y cyrff amrywiol hyn bob amser yn glir.

Ym mhob un o'r pum gwlad ceir tensiynau amlwg rhwng y prif ddulliau o lywodraethu'r cyfryngau'n annibynnol a chyfraniad gwleidyddol neu ran y llywodraeth yn y gwaith o'u rheoleiddio. Ym mhob achos bron, gwleidyddion sy'n penodi byrddau llywodraethu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a rheoleiddwyr y cyfryngau, naill ai'n uniongyrchol drwy benderfyniad gweithredol un o weinidogion y llywodraeth neu gyda chymeradwyaeth seneddau cenedlaethol. Mae pŵer llywodraethau i benodi uwch swyddogion i lywodraethu'r cyfryngau, cytuno ar lefelau cyllid cyhoeddus a phennu gofynion contract darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi'u gwreiddio yn neddfwriaeth cyfryngau'r gwledydd, a dim ond mewn ychydig o achosion yn unig y mae'r penderfyniadau hyn yn dibynnu ar ymgynghoriad â'r cyhoedd neu bleidleisiau cadarnhau gan y deddfwyr. Mae adolygiadau rheoleiddio o systemau darlledu gwasanaeth cyhoeddus hefyd wedi cael trafferth sicrhau cydbwysedd rhwng delfrydau budd cyhoeddus ehangach ac amcanion diwydiannol ar gyfer cystadleuaeth marchnad agored. Fel rydym wedi sylwi o achosion diweddar yn Nenmarc ac Estonia, mae'r diffyg gwahanu rhwng buddiannau gwleidyddol neu fasnachol a llywodraethu'r cyfryngau wedi arwain at benderfyniadau polisi ad-hoc a allai amharu ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a thanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd mewn sefydliadau cyfryngau.

**Dylai llunwyr polisi sicrhau nad yw'r angen am atebolrwydd cyfreithiol yn caniatáu gormod o ymyrraeth yn annibyniaeth wleidyddol a masnachol sefydliadau cyfryngau cyhoeddus. Wrth ystyried dulliau llywodraethu newydd, dylai llunwyr polisïau ystyried sicrhau bod mwy o graffu ac ymgynghori cyhoeddus ar benodiadau cyfryngau (yn hytrach na dim ond craffu ac ymgynghori gwleidyddol), yn ogystal â hyrwyddo mwy o gyfranogiad cyhoeddus uniongyrchol mewn penderfyniadau allweddol sy'n ymwneud â strategaethau chyllido, llywodraethu a chynnwys cyfryngau cyhoeddus.**

### 3. <u>Cefnogaeth gyfyngedig i ieithoedd, diwylliannau lleol a chynnwys mewn genres arbenigol</u>

Mae pob un o'r systemau darlledu yn y pum gwlad yn cynnwys darlledwyr, gwasanaethau neu fentrau cynnwys penodol sy'n ceisio diogelu a chynnal cynrychiolaeth o hunaniaeth genedlaethol a/neu wasanaethu cymunedau ieithyddol, diwylliannol a lleiafrifol penodol. Mae darpariaethau rheoleiddio, fel cwotâu 'tarddiad Ewropeaidd' a threfn Canada ar gyfer ardystio 'cynnwys o Ganada', yn cynnwys y prif ofynion swyddogol ar gyfer cynhyrchu cynnwys gwreiddiol cenedlaethol neu leol, ynghyd â disgwyliadau penodol a nodir yng nghontractau cyhoeddus darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Ym mhob un o'r pum gwlad, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw prif ddarparwyr (os nad unig ddarparwyr) cynnwys gwreiddiol, diwylliannol unigryw sy'n cael ei wneud yn benodol ar gyfer cymunedau diwylliannol neu ieithyddol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r ymyriadau hyn wedi profi i fod yn fesurau gwerthfawr i ddiwallu anghenion a buddiannau pobl a chymunedau sydd, yn hanesyddol, wedi'u gwthio i'r cyrion neu eu tangynrychioli.

Fodd bynnag, fel y dengys achosion diweddar yn Iwerddon, Estonia a Gwlad y Basg, mae cyllid cyhoeddus a chefnogaeth ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at gymunedau

iaith 'llai' wedi aros yr un fath. Efallai mai ychydig o apêl y gall gwasanaethau a'r genres iaith (y tu hwnt i rai dramâu a fformatau adloniant) ei gynnig i gynulleidfaoedd domestig neu ryngwladol, yn enwedig pan fydd darlledwyr yn dibynnu ar refeniw masnachol. Wrth i lefelau'r cyllid cyffredinol ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ostwng, gwasanaethau iaith teledu a radio pwrpasol yn aml yw'r rhai cyntaf i wynebu toriadau neu gael eu cyfuno, gan gyfyngu ar eu gallu i wasanaethu eu cynulleidfaoedd penodol yn llawn. Er bod cynlluniau cymhorthdal fel y rheini yn Iwerddon, Denmarc a Chanada wedi helpu i agor y gwaith o gynhyrchu cynnwys mewn ieithoedd a genres arbenigol (fel rhaglenni addysgol a rhaglenni plant) i ddarparwyr newydd y tu hwnt i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae cefnogaeth hirdymor i'r cynlluniau hyn yn dibynnu yn y pen draw ar ymrwymiadau ariannol gan reoleiddwyr a llywodraethau, ond gallai eu blaenoriaethau newid. Er bod gwasanaethau ffrydio rhyngwladol wedi cymryd camau cychwynnol tuag at ariannu neu gyd-gynhyrchu cynnwys sy'n adlewyrchu ieithoedd a diwylliannau lleol, nid yw'n glir ychwaith a yw hwn yn fodel cynaliadwy ar gyfer cynnal a hyrwyddo hunaniaethau cenedlaethol unigryw ar gyfryngau darlledu.

**Dylai llunwyr polisïau, darlledwyr a rheoleiddwyr nodi opsiynau cyllido mwy diogel i sicrhau nad yw cynulleidfaoedd sy'n cael eu tangynrychioli yn cael eu gwthio i'r cyrrion wrth i'r dirwedd cyfryngau esblygu. Gallai strategaethau i ymchwilio gynnwys dulliau pellach i ddatblygu a chadw capasiti cynhyrchu a thalent lleol, yn benodol ar gyfer cynnwys mewn iaith leol a genres arbenigol.**

## 4. Cystadleuaeth ddwys ac anghydbwysedd rheoleiddiol yn y dirwedd cyfryngau ar-lein

Mae un o'r pwysau mwyaf sy'n wynebu darlledwyr yn y pum gwlad yn deillio o dwf cyflym technolegau cyfryngau digidol newydd a gwasanaethau ffrydio fideo ar-alw rhyngwladol (SVoD). Mae cwmnïau fel Netflix, Amazon, Apple a Disney wedi creu cystadleuaeth ddwys i ddarlledwyr domestig o ran y gwasanaethau cyfryngau mae cynulleidfaoedd yn eu defnyddio ac o ran y cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu, ei gyflenwi a'i ddosbarthu mewn marchnadoedd cenedlaethol. Mae darlledwyr cyhoeddus a masnachol fel ei gilydd wedi mabwysiadu strategaethau eang ar gyfer darparu eu gwasanaethau 'traddodiadol' ar-lein, gan gynnwys dosbarthu eu cynnwys eu hunain ar wasanaethau ffrydio masnachol i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a chynhyrchu refeniw ychwanegol. Fodd bynnag, mae perygl bod gwahaniaeth diwylliannol a nodau gwasanaeth cyhoeddus darlledwyr cenedlaethol (yn enwedig y rheini mewn gwledydd llai) yn dod yn llai amlwg neu'n llai perthnasol i gynulleidfaoedd, sy'n gallu cael gafael ar ddegau o filoedd o oriau o gynnwys ar draws gwahanol genres a fformatau.

Mae poblogrwydd cynyddol y gwasanaethau cyfryngau newydd hyn hefyd yn achosi cyfyng-gyngor sylweddol i reoleiddwyr o ran cyflenwi a chynhyrchu cynnwys domestig sy'n adlewyrchu bywydau a phrofiadau cynulleidfaoedd cenedlaethol penodol. Er ei bod yn ofynnol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y pum gwlad (yn eu dibenion a ddiffiniwyd yn gyfreithiol a'u cwotâu rhaglenni penodol) ddangos cynnwys sy'n adlewyrchu bywydau a buddiannau eu cymunedau cenedlaethol, nid yw cynnwys ar wasanaethau ffrydio yn cael ei reoleiddio fel arfer ac yn cynnig cynnwys diwylliannol unffurf wedi'i dargedu at gynulleidfaoedd rhyngwladol. Mae ymdrechion diweddar a pharhaus i ddiwygio yn Nenmarc, Sbaen a Chanada wedi cynnig ehangu'r rheoliadau darlledu presennol i wasanaethau ffrydio, gan gynnwys safonau o ran cynnwys, cwotâu ar gyfer buddsoddi ac oriau o gynnwys 'lleol' ac ardollau ar refeniw i gefnogi cronfeydd cymhorthdal gwasanaeth cyhoeddus. Bydd effeithiolrwydd y mesurau hyn yn dibynnu'n fawr ar y graddau y bydd y cwmnïau rhyngwladol hyn yn

cydymffurfio â hyn, a pha bwerau mae llywodraethau neu reoleiddwyr cenedlaethol yn eu rhoi i'w hunain er mwyn sicrhau cydymffurfiad. Mewn marchnadoedd llai, lle nad yw gwasanaethau ffrydio efallai'n cynhyrchu refeniw sylweddol, mae perygl y gallai'r cwmnïau hyn osgoi'r mesurau hyn, lleihau eu buddsoddiad lleol neu ddiddymu gwasanaethau'n gyfan gwbl, yn hytrach na chytuno i fwy o ofynion rheoleiddio.

**Dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (yn enwedig y rheini sy'n gwasanaethu poblogaethau cenedlaethol llai neu gymunedau penodol) ystyried ffyrdd o 'ddelio'n wahanol â'r byd digidol', er mwyn gwahaniaethu rhwng eu gwasanaethau a'u cynnwys a'r hyn sydd eisoes yn cael ei gynnig yn eang gan wasanaethau ffrydio rhyngwladol a darlledwyr masnachol. Gallai dulliau eraill gynnwys mwy o raglenni 'traws-gyfryngol' sy'n gwasgaru cynnwys dros sawl fformat, cynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn comisiynu a dosbarthu cynnwys, ac ail-ddiffinio dosbarthiad cynnwys ac argymhellion sy'n cael eu sbarduno gan algorithmau sy'n rhoi mwy o flaenoriaeth i werthoedd gwasanaeth cyhoeddus na chynyddu cynulleidfaoedd.**

**Fodd bynnag, ni ddylai strategaethau newydd ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddarparu cynnwys ar-lein ar draul teledu a radio daearol sefydledig. Mae rhannau mawr o gynulleidfaoedd cenedlaethol, yn enwedig y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ac o ardaloedd daearyddol ynysig, yn dal i ddibynnu ar fformatau 'traddodiadol' ar gyfer eu defnydd o gyfryngau neu'n aml ddim yn gallu cael gafael ar gysylltiadau rhyngrwyd dibynadwy neu rad. Bydd hefyd angen cyllid sefydlog a mandadau clir i 'ddelio'n wahanol â'r byd digidol' er mwyn sicrhau bod pob cynulleidfa'n elwa o wasanaethau estynedig a rhai presennol.**

## 5. Arferion gwahanol i sicrhau tryloywder a chasglu data

Mae prinder ac argaeledd amrywiol adroddiadau cyhoeddus ar weithgareddau darlledu a rheoleiddio yn y gwledydd a ddewiswyd wedi bod yn rhwystr cyson i'n hymchwil. Er bod dogfennau sylfaenol fel adroddiadau blynyddol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, contractau gwasanaeth cyhoeddus a phenderfyniadau rheoleiddio yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd, rydym wedi nodi gwahaniaeth sylweddol ar draws y gwledydd o ran y ffordd y caiff data arolygon ei gasglu a'i gyflwyno (e.e. arferion cynulleidfaoedd a chanfyddiadau'r cyhoedd), ystadegau cynhyrchu (e.e. dyraniadau cyllid ac oriau o gynnwys a gynhyrchir), ymgynghoriadau neu benderfyniadau rheoleiddio a llywodraethu mewnol.

Mae nifer o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y pum gwlad yn defnyddio cwmnïau ymgynghori preifat a grwpiau dadansoddi i wneud ymchwil i gynulleidfaoedd ac ymchwilio i'r farchnad, gan ddefnyddio methodolegau perchnogol ac amcanion aneglur, yn hytrach na bod y darlledwyr yn cyflogi eu hymchwilwyr eu hunain. Er ein bod yn cydnabod bod hyn yn adlewyrchiad i raddau o'r gwahanol ddulliau cyfreithiol a sefydliadol o lywodraethu corfforaethol yn y pum gwlad (heb sôn am yr adnoddau ariannol a sefydliadol sydd eu hangen ar gyfer monitro rheolaidd), mae'n tynnu sylw, serch hynny, at agwedd ar lywodraethu, rheoleiddio a llunio polisïau cyfryngau sy'n hanfodol ac yn cael ei thanbrisio'n rheolaidd.

**Er mwyn llunio polisïau'n effeithiol a chynllunio cyfryngau cyhoeddus mae angen craffu ac atebolrwydd cyhoeddus ystyrlon, a dylai fod yn seiliedig ar ymchwil cynhwysfawr, dibynadwy a thryloyw. Dylid disgwyl i lunwyr polisi, rheoleiddwyr a darlledwyr ddarparu adroddiadau cyhoeddus rhesymol am eu prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, a dylent gynhyrchu ymchwil helaeth ar dueddiadau'r farchnad, ymddygiad cynulleidfaoedd a chofnodion o'r cynnwys a gynhyrchir a'r cyllid ar gyfer hynny.**

## Cyflwyniad

Ar draws y byd, mae systemau cyfryngau domestig yn wynebu cyfres o heriau mawr. Mae newidiadau cyflym i lwyfannau cyfryngau a thechnolegau digidol, cystadleuaeth gynyddol rhwng cynhyrchwyr a dosbarthwyr cyfryngau, a newid i arferion defnyddio cyfryngau yn gweddnewid y ffordd mae cynulleidfaoedd yn canfod, yn defnyddio ac yn gwerthfawrogi cynnwys cyfryngau ar draws fformatau teledu, radio ac ar-lein.[1] Yn ystod y degawd diwethaf, mae'r cynnydd cyflym mewn gwasanaethau ffrydio fideo ar-alw fel Netflix, Amazon Prime, Apple TV a Disney+ wedi rhoi amrywiaeth ehangach o ddewis i gynulleidfaoedd o ran cynnwys a fformatau. Fodd bynnag, mae'r chwistrelliad hwn o fuddsoddi wedi ffafrio rhaglenni sy'n canolbwyntio'n bennaf ar yr Unol Daleithiau, sydd wedi'u dylunio i apelio at gynulleidfaoedd trawswladol, diwylliannol unffurf, yn hytrach nag adlewyrchu bywydau a phrofiadau'r cymunedau cenedlaethol, heb sôn am gymunedau lleol, sy'n cael gafael ar y cynnwys hwn.[2]

Mae nifer o dueddiadau cyffredin wedi dod i'r amlwg wrth edrych ar draws cyd-destunau cenedlaethol. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi wynebu pwysau ariannol sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at lai o fuddsoddi mewn cynhyrchu cynnwys o bwys cymdeithasol a diwylliannol, yn enwedig newyddion, rhaglenni plant a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd lleol, rhanbarthol a lleiafrifol.[3] Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhewi neu doriadau i gyllid cyfryngau cyhoeddus wedi cyfyngu ar refeniw gweithredu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac mae gostyngiad mewn incwm masnachol a chwyddiant cynyddol wedi arwain at wasgu pellach ar gyllid darlledwyr domestig. Mae'r Undeb Darlledu Ewropeaidd yn amcangyfrif bod sefydliadau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ledled Ewrop wedi wynebu gostyngiad o 6.9% yn eu refeniw rhwng 2016 a 2020.[4] Yn y DU, fel mewn llawer o wledydd ledled y byd, mae ymddiriedaeth y cyhoedd mewn sefydliadau 'hen' gyfryngau wedi gostwng yn sylweddol ymysg pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.[5] Mae pryderon cynyddol ynghylch annibyniaeth y cyfryngau ac atebolrwydd pwerau'r llywodraeth sy'n ymwneud â setliadau cyllido, uwch benodiadau a'r strategaeth ar gyfer sefydliadau cyfryngau cyhoeddus yn y dyfodol.[6]

Fodd bynnag, yn erbyn yr heriau parhaus hyn, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw'r ffynonellau cyfryngau mwyaf poblogaidd a'r rhai y mae cynulleidfaoedd yn ymddiried ynddynt fwyaf yn y DU ac ar draws Ewrop. Ar gyfartaledd ar draws Ewrop, mae cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cyrraedd 60% o gynulleidfaoedd ac yn cael cyfran ddyddiol o 25% o'r farchnad teledu bob dydd.[7] Y cyfryngau newyddion gwasanaeth cyhoeddus yw'r ffynonellau newyddion a gwybodaeth y mae'r bobl yn ymddiried ynddynt fwyaf mewn 28 o'r 31 gwlad yn Ewrop, ac mae'r cyhoedd yn dal i werthfawrogi rôl hanfodol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth feithrin amgylchedd gwybodaeth amrywiol, hyrwyddo mynegiant diwylliannol a chynnal

---

[1] EBU (2022) Audience Trends: Television 2022, Gorffennaf 2022; Ofcom (2022) Adroddiad Media nations:UK 2022, 17 Awst 2022.
[2] Enders Analysis (2021) Outsourcing culture: When British shows aren't 'British', 9 March 2021.
[3] D'Arma, A. a Labio A. (2017) Making a difference? Public service broadcasting, distinctiveness and children's provision in Italy and Spain; Enli, G. (2013) Defending Nordic children against Disney: PSB children's channels in the age of globalization; McElroy, R. a Noonan, C. (2018) Public Service Media and Digital Innovation: The Small Nation Experience.
[4] EBU (2022) Funding of Public Service Media.
[5] Reuters Institute for the Study of Journalism (2019) Old, Educated and Politically Diverse: The Audience of Public Service News; RISJ (2021) Digital News Report 2021.
[6] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd (2017) Dyfodol S4C; Future of TV Inquiry Report 2016; Pwyllgor Cyfathrebiadau Tŷ'r Arglwyddi (2016) BBC Charter Review: Reith not Revolution.
[7] EBU (2022) Audience Trends: Television 2022, Gorffennaf 2022.

prosesau democrataidd.[8] Er bod llywodraethau yn y DU, ar draws Ewrop a ledled y byd yn ceisio ailddatgan neu adolygu rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn eu systemau cyfryngau eu hunain, mae cefnogaeth barhaus o hyd i egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus sylfaenol cyffredinolrwydd, amrywiaeth, didueddrwydd ac atebolrwydd a'r gwerth cyhoeddus sylweddol mae'r delfrydau hyn yn ei greu.[9]

Mae'r ffactorau cydgysylltiedig hyn yn dangos pa mor bwysig yw hi fod gan lunwyr polisi ddealltwriaeth fanwl o sut mae'r amgylchedd cyfryngau newydd wedi effeithio ar wahanol fodelau darlledu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac yn ymateb i hynny. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar bwerau darlledu a threfniadau llywodraethu yng Ngwlad y Basg, Canada, Denmarc, Gweriniaeth Iwerddon ac Estonia. Mae'r pum gwlad a ddewiswyd a'u systemau cyfryngau unigol yn cynnig enghreifftiau delfrydol ar gyfer dadansoddi gwahanol fodelau o lywodraethu, rheoleiddio ac ariannu'r cyfryngau a rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r tiriogaethau hyn yn rhannu nodweddion unigryw i'w cymharu â'r system cyfryngau yng Nghymru, gan gynnwys: poblogaethau sy'n cynnwys cyfran sylweddol o siaradwyr dwyieithog, amlieithog neu ieithoedd lleiafrifol; gwahanol raddau o bwerau gwleidyddol, cyfreithiol a chyfathrebu datganoledig o fewn fframwaith cenedlaethol a/neu'r Undeb Ewropeaidd; darpariaeth gymysg o wasanaethau teledu, radio a chyfryngau ar-lein cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys cyllid cyhoeddus ar draws trwyddedau teledu, refeniw masnachol, trethu uniongyrchol a/neu grantiau gan y llywodraeth; polisi ar gyfer llywodraethu darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sydd wedi'i sefydlu mewn cyfraith, sy'n pennu'r ethos, yr amcanion a'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer y darlledwr/darlledwyr unigol; a darparu gwasanaethau cyfryngau darlledu (cyhoeddus neu breifat) sy'n darparu rhaglenni i wahanol gymunedau ieithyddol neu ddiwylliannol.

## Dulliau a strategaeth chwilio

Wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn, cynhaliom broses chwilio am dystiolaeth helaeth i gasglu'r ystod ehangaf o ddeunyddiau a data perthnasol a fyddai'n sail i ddadansoddiad cynhwysfawr o system gyfryngau a phwerau darlledu pob gwlad. Arweiniwyd ein strategaeth ymchwil a'n dadansoddiad o dystiolaeth gan bum Cwestiwn Ymchwil craidd a fodelwyd ar fuddiannau ac amcanion y Panel Arbenigol:

1. Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar dwf a datblygiad sector darlledu pob gwlad a'i fframweithiau rheoleiddio/llywodraethu perthnasol?
2. Pa fathau o amcanion gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu diffinio mewn deddfwriaeth neu gyfansoddiadau darlledwyr, a sut? Pa egwyddorion sy'n cael eu blaenoriaethu a sut mae mesur neu asesu eu bod yn cael eu cyflawni?
3. Pa gyrff sy'n gyfrifol yn swyddogol am wneud penderfyniadau polisi a rheoleiddio, a sut mae'r prosesau penderfynu hyn yn cael eu cynnwys yn y cyfansoddiad? Pa ofynion sydd ar waith i sicrhau yr ymgynghorir â buddiannau cymunedau lleol, rhanbarthol a lleiafrifol neu fod ganddynt awdurdod datganoledig dros agweddau o benderfyniadau?
4. Sut mae sefydliadau darlledu, grwpiau diwydiant a llunwyr polisïau yn ymateb i faterion cyfoes sy'n deillio o'r newid i arferion cynulleidfaoedd, technolegau digidol newydd a phwysau'r farchnad? Pa ddiwygiadau neu gynlluniau sydd wedi cael eu cyflwyno yn ystod y 15 mlynedd diwethaf a pha mor effeithiol fu'r rhain?

---

[8] EBU (2022) Trust in public service media 2022, Hydref 2022.
[9] Chivers, T. ac Allan, S. (2022) A public value typology for public service broadcasting in the UK, Creative Industries Policy & Evidence Centre.

5. Pa wasanaethau arbenigol mae'r systemau darlledu cenedlaethol hyn yn eu darparu i wasanaethu cymunedau ieithoedd lleiafrifol a grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli? Sut mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu targedu a'u hariannu?

Roedd ein prif strategaeth chwilio am dystiolaeth yn cynnwys cyfres o chwiliadau ar gyfer pob gwlad, gan nodi, canfod a gwerthuso deunyddiau perthnasol ynghylch polisi darlledu'r wlad a datblygiadau cysylltiedig ym maes llywodraethu. Roedd y strategaeth ymchwil hon yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth a gyhoeddwyd am (ac yn ddelfrydol yn) y pum gwlad a ddewiswyd, a hefyd yn ymgorffori tystiolaeth eilaidd ryngwladol neu gymharol o gyd-destunau darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill.

Roedd y prif fathau o ddogfennau a gasglwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Statudau cyfreithiol, sgema rheoleiddiol a datganiadau polisi'r llywodraeth
- Cyfansoddiadau, datganiadau cenhadaeth a siarteri corfforaethol cyrff cyfryngau cyhoeddus
- Adroddiadau ac astudiaethau swyddogol a gyhoeddwyd gan lywodraethau cenedlaethol, deddfwrfeydd, cyrff datganoledig, rheoleiddwyr
- Adroddiadau blynyddol darlledwyr, eu hymatebion i ymgynghoriadau a datganiadau cydymffurfio rheoleiddiol
- Adroddiadau ac astudiaethau a gyhoeddwyd gan sefydliadau ymchwil, grwpiau diddordeb, elusennau a mathau eraill o 'lenyddiaeth lwyd'
- Erthyglau cylchgrawn, papurau, monograffau academaidd a chyfrolau wedi'u golygu a adolygwyd gan gymheiriaid
- Adroddiadau newyddion ar-lein a phostiadau blog.

Y prif gronfeydd data ac adnoddau chwilio a ddefnyddiwyd ar gyfer y broses chwilio hon oedd llwyfannau llenyddiaeth academaidd (e.e. llyfrgell Prifysgol Caerdydd, JSTOR, Scopus, ERIC ac ati), llyfrgelloedd cenedlaethol a storfeydd digidol, gwefannau corfforaethol cwmnïau cyfryngau, rheoleiddwyr a grwpiau ymchwil, yn ogystal â gwefannau cyfryngau newyddion ac adnoddau chwilio newydd fel LexisNexis a ProCuest. Lle bo modd, fe wnaethom gynnwys cyfeiriadau llawn a hyperddolenni ar gyfer yr holl ddata a thystiolaeth ategol a ddefnyddiwyd yn ein dadansoddiad o systemau cyfryngau'r gwledydd.

Cawsom gymorth hefyd yn ein chwiliadau gan arbenigwyr academaidd ar lefel gwlad a chysylltiadau polisi, a oedd yn ddigon caredig i roi cyfeiriadau, awgrymiadau, mynediad at ddogfennau heb eu cyhoeddi a phwyntiau o eglurhad i ni. Rydym yn hynod ddiolchgar am eu hamser a'u cyfraniadau gwerthfawr i'r ymchwil hwn.

## Cyfraith darlledu a chyfarwyddebau cyfryngau'r UE

Mae gan y pum gwlad a ddewiswyd systemau darlledu a threfniadau llywodraethu unigol sy'n adlewyrchu deinameg hanesyddol, gwleidyddol a diwylliannol unigryw. Fodd bynnag, mae pedair o'r gwledydd – Iwerddon, Denmarc, Estonia a Gwlad y Basg – hefyd yn rhwym wrth fframwaith rheoleiddio ar y cyd sy'n deillio o'u haelodaeth genedlaethol o'r Undeb Ewropeaidd.[10] Er gwaethaf gofynion cyffredinol yr UE i ganiatáu llif rhwydd nwyddau, cyfalaf

[10] Er nad yw Canada yn amlwg yn rhwym wrth gyfreithiau na Chyfarwyddebau'r UE, serch hynny mae'n rhan o gytundebau rhyngwladol fel NAFTA sy'n cynnwys gofynion a lwfansau masnach rydd ar gyfer mynediad ar draws y farchnad gyda'r Unol Daleithiau a Mecsico. Yn benodol, llwyddodd Canada i lobïo

a llafur, fe wnaeth Cytuniad Amsterdam yn 1997 gyfundrefnu pwysigrwydd darlledu cyhoeddus ar gyfer "anghenion democrataidd, cymdeithasol a diwylliannol pob cymdeithas a'r angen i gynnal amrywiaeth yn y cyfryngau". Fe wnaeth y Cytuniad ddatganoli'r pwerau i Aelod-wladwriaethau ganiatáu ariannu darlledu gwasanaeth cyhoeddus i'r graddau y mae cyllid o'r fath yn cael ei roi i gyrff darlledu i gyflawni'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus fel y mae pob Aelod-wladwriaeth yn ei roi, ei ddiffinio a'i drefnu.[11]

Fel ym mhedair gwlad yr UE a edrychwyd arnynt yn yr adroddiad hwn, rhoddwyd y cylchoedd gwaith hyn ar waith mewn deddfwriaeth genedlaethol sy'n manylu ar egwyddorion craidd ac yn trefnu eu sefydliadau cyfryngau cyhoeddus mewn ffyrdd penodol. Er bod pob gwlad wedi dehongli a diwygio'r egwyddorion hyn i adlewyrchu eu cyd-destunau cenedlaethol a'u systemau darlledu, maent yn rhannu set o ddelfrydau a gwerthoedd normadol sy'n aml yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer 'compact' y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys cyffredinolrwydd cynnwys a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion a buddiannau pob cynulleidfa; hygyrchedd ac argaeledd, yn sicrhau'n benodol bod modd defnyddio gwasanaethau am ddim; amrywiaeth ddiwylliannol o ansawdd uchel ar draws genres a fformatau; cynnwys newyddion a newyddiaduraeth ddiduedd a dibynadwy; lluosogiaeth ac amrywiaeth o ran barn, safbwyntiau a chynrychiolaeth; ac atebolrwydd ac annibyniaeth.[12]

Fe arweiniodd datblygiad gwasanaethau darlledu lloeren a chebl ledled Ewrop o'r 1980au ymlaen hefyd at gyflwyno fframwaith rheoleiddio cynyddol ar gyfer gwasanaethau darlledu teledu, radio a fideo ar-alw yn fwyaf diweddar.[13] Roedd Cyfarwyddeb 'Teledu Heb Ffiniau' y Comisiwn Ewropeaidd yn 1989 yn ceisio safoni a rhyddfrydoli marchnad ddarlledu Ewrop, gan osod disgwyliadau budd y cyhoedd ar ddarlledwyr ar yr un pryd â sefydlu rheolau cystadleuaeth a Chymorth Gwladwriaethol i gyfyngu ar effaith negyddol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gystadleuaeth fasnachol yn y cyfryngau. Yn 2007 disodlwyd y Gyfarwyddeb hon gan y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol, a etifeddodd fframwaith craidd y Gyfarwyddeb 'Teledu Heb Ffiniau' a chyflwyno gofynion rheoleiddio newydd i'w gweithredu ar lefel genedlaethol. Roedd egwyddor "gwlad tarddiad" newydd yn datgan mai dim ond yn unol â rheolau a safonau'r wladwriaeth lle mae'r darllediadau'n tarddu y gellid rheoleiddio gwasanaethau darlledu, yn hytrach na'r wladwriaeth lle mae darllediadau'n cael eu derbyn. Sefydlodd y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol gwotâu hefyd ar gyfer 'gwaith Ewropeaidd' (50% o ddarllediadau teledu) a rhaglenni wedi eu creu gan gynhyrchwyr annibynnol o Ewrop (10%).

Cafodd y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ei hehangu ymhellach yn 2018, a'r diwygiad mwyaf sylweddol oedd dileu'r model rheoleiddio 'dwy haen' blaenorol rhwng darlledwyr llinol a gwasanaethau eraill 'sy'n debyg i deledu'.[14] Cyflwynodd Cyfarwyddeb 2018 ddull gweithredu teg, gyda darlledwyr, llwyfannau fideo ar-alw a safleoedd rhannu fideos i gyd yn rhwym wrth yr un fframwaith. Ynghyd â gofynion newydd ar gyfer llwyfannau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol i ddiogelu pobl ifanc dan oed rhag cynnwys niweidiol, mae'r cwotâu ar gyfer 'gwaith Ewropeaidd' wedi cael eu hymestyn i wasanaethau fideo ar-alw, ac mae

---

am eithriad diwylliannol yng nghytundeb gwreiddiol 1994, i ddiogelu ei farchnad ddarlledu genedlaethol rhag dylanwad diwylliannol gormodol America.

[11] EUR-Lex, Cytuniad Amsterdam – protocol ar y system darlledu cyhoeddus yn yr Aelod-wladwriaethau.

[12] Chivers, T. ac Allan, S. (2022) A public value typology for public service broadcasting in the UK; Freedman, D. a Goblot, V. (2018) A Future for Public Service Television; Public Media Alliance, 'What is PSM?'.

[13] Broughton Micova (2020) The Audiovisual Media Services Directive: Balancing Liberalisation and Protection.

[14] EUR-Lex, Audiovisual Media Services Directive 2018.

disgwyl iddynt neilltuo o leiaf 30% o'u catalogau cynnwys i gynnwys Ewropeaidd. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn caniatáu i Aelod Wladwriaethau osod rhwymedigaethau ariannol ar wasanaethau cyfryngau sy'n targedu eu defnyddwyr eu hunain i gefnogi 'cyfraniadau diwylliannol' ariannol i gynhyrchu cyfryngau domestig. Wrth i ni edrych ar broffiliau'r gwledydd canlynol, cafwyd nifer o ymatebion i'r broses o roi Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2018 ar waith mewn deddfwriaeth genedlaethol: Cyfeiriwyd Iwerddon a Sbaen (ynghyd â Tsiecia, Slofacia a Romania) i Lys Cyfiawnder yr UE am eu methiant i drosi'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yn gyfraith y wladwriaeth, ac yn ddiweddar mae Denmarc wedi cynnig creu bil drafft ar gyfer 'treth Netflix' ochr yn ochr â diwygiadau ehangach i'w ddeddfwriaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[15]

[15] Iordache, C. et al. (2022) The "Netflix Tax": An analysis of investment obligations for on-demand audiovisual services in Europe.

# Gwlad y Basg[1]

**Demograffeg:**[2]

- Poblogaeth: 2.1 miliwn (allan o 47.4 miliwn yn Sbaen), twf o 0.6% ers 2016.
- Ieithoedd: Mae 936,812 o bobl yn dweud eu bod yn siarad ac yn deall y Fasged yn dda. Mae gan 1.3 miliwn (62.4%) rywfaint o ddealltwriaeth o'r Fasgeg, gan godi o ganran o 34% yn 1981.
- Mae 13.5% o aelwydydd yn defnyddio Basgeg yn yr uned deuluol; mae 7.5% o aelwydydd yn nodi eu bod yn ddwyieithog; ac mae 80% o aelwydydd yn defnyddio Sbaeneg yn unig. Mae'r defnydd o'r Fasgeg yn amrywio'n fawr o ran oedran: Mae 90.5% o bobl 10 i 14 oed yn siarad Basgeg o'i gymharu â 22.1% o'r rheini sy'n 70 oed a hŷn: mae dros 70% o'r rheini sy'n 30 oed ac iau yn siaradwyr Basgeg.[3]
- Mae 76,000 o wladolion y Basg yn byw dramor, ond mae grwpiau alltud Basgaidd ehangach (amcangyfrifir bod 10 miliwn o bobl) sy'n cael eu hystyried yn rhan ddiwylliannol o Wlad y Basg.[4]

**Y prif ddarlledwyr:**

- *Euskal Irrati Telebista* (**EITB**) – darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg, a sefydlwyd ym 1982.

EITB yw'r prif grŵp cyfryngau yng Ngwlad y Basg, ac mae'n darparu pum sianel deledu, chwe gorsaf radio, gwefan â chynnwys newyddion a chyfryngau a gwasanaeth darlledu fideo digidol ar-alw *EITB Nahieran*. Mae'n cael ei ariannu drwy gymysgedd o grant cyhoeddus gan Lywodraeth Gwlad y Basg a refeniw masnachol o hysbysebion a gwasanaethau. Cyfanswm cyllideb EITB yn 2022 oedd €176.1 miliwn, gyda €164.1 miliwn o'r ffigur hwnnw (93.2%) yn dod o'r grant cyhoeddus - sy'n rhoi cost fisol y pen o €6.25 y pen ar gyfer cyfryngau cyhoeddus Gwlad y Basg, mwy na dwbl y cyfartaledd Ewropeaidd. Cylch gwaith EITB, fel y'i diffinnir yn ei Strategaeth 2030, yw:

> ymateb i anghenion cymdeithas y Gwlad y Basg gydag amrywiaeth o gynnyrch clyweledol gan gynnwys newyddion a materion cyfoes, cynnwys addysgol ac adloniant o natur amrywiol, atyniadol ac o ansawdd uchel; hyrwyddo'r iaith Fasgeg a diwylliant; a helpu i normaleiddio ac ymestyn y defnydd o'r Fasgeg yn yr ecosystem glyweledol bresennol.[5]

---

[1] Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar Gymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg *(Euskadi)*, un o 17 adran weinyddol Sbaen. Mae'r Gymuned yn un o sawl rhanbarth sy'n rhan o Wlad y Basg (*Euskal Herria*), sydd hefyd yn cynnwys Cymuned Ymreolaethol Navarra a Gogledd Gwlad y Basg yn Ffrainc. Mae'r rhanbarth yn rhannu hunaniaeth genedlaethol a'r iaith Fasgeg, sy'n cynrychioli 3.1 miliwn o drigolion. Mae'r adran hon yn defnyddio data ar gyfer Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg a'i system cyfryngau lleol yn bennaf, gan ychwanegu data ar gyfer y rhanbarth ehangach lle bo hynny'n briodol.

[2] Ffigurau gan *Instituto Nacional de Estadástica* (Sefydliad Ystadegau Cenedlaethol Sbaen) ac *Eustat*, Instituto Vasco de Estadística (Sefydliad Ystadegau Gwlad y Basg).

[3] Ffigurau o Gyfrifiad Poblogaeth a Thai *Eustat* 2021. Mae Sbaeneg a'r Fasgeg yn gyd-swyddogol ym mhob tiriogaeth yn y gymuned ymreolaethol – siaredir y Fasgeg hefyd yng Nghymuned Ymreolaethol Navarre ac yng Ngwlad y Basg yn Ffrainc.

[4] Sefydliad Diwylliannol Gwlad y Basg.

[5] Strategaeth EITB 2030.

Mae darllediadau daearol o ETB1, prif sianel deledu EITB, yn rhoi sylw i Gymunedau Ymreolaethol Gwlad y Basg a Navarra, sydd hefyd yn cyrraedd rhai ardaloedd mewn tiriogaethau sy'n ffinio o fewn Sbaen a thrigolion Gwlad y Basg yn Ffrainc.

- *Radio y Televisión* Española (**RTVE**) – darlledwr gwasanaeth cyhoeddus cenedlaethol yn Sbaen, a sefydlwyd yn 2006.

Darlledwr gwasanaeth cyhoeddus cenedlaethol Sbaen, sy'n cynnig pum sianel deledu am ddim, tair sianel loeren, chwe gorsaf radio, porth newyddion ar-lein, llwyfan darlledu fideo ar-alw a gwasanaeth teledu drwy dalu yn ne a chanolbarth America. Ariennir RTVE gan grant gan y wladwriaeth (€473 miliwn yn 2020) ac ardollau ar gwmnïau cyfryngau preifat. Er bod rhaglenni a gwasanaethau RTVE yn Sbaeneg eu hiaith yn bennaf, mae'n ddarparwr cyfryngau sylweddol yng Ngwlad y Basg.

## Cyd-destun y farchnad

Ar draws Sbaen, y ddau brif grŵp darlledu masnachol *Artesmedia* a *Mediaset* sy'n arwain o ran cynulleidfaoedd, gyda'r grwpiau'n cofnodi cyfrannau o 26.8% a 26.4% o'r gynulleidfa deledu yn 2022 o'i gymharu â 13.8% RTVE.[6] Yng Ngwlad y Basg yn 2021, denodd sianeli teledu EITB (ETB) y cyfrannau uchaf o'r gynulleidfa yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, gyda chyfran cynulleidfa o 13.2% yn curo A3 *Artesmedia* (10.8%) a La1 RTVE (8.8%). Mae 39.9% o gynulleidfa Gwlad y Basg yn gwrando ar orsafoedd radio EITB bob dydd, ar gyfer newyddion (Radio Euskadi yn Sbaeneg, Euskadi Irratia yn y Fasgeg a Radio Vitoria ar gyfer talaith Alava) a cherddoriaeth (Gaztea ac EITB Musika). Mae sianeli ETB wedi bod yn brif ffynonellau newyddion teledu yng Ngwlad y Basg yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Yn 2021, roedd gan raglenni newyddion ETB gyfran o 25.4% o'r gynulleidfa, y lefel uchaf ers 2006 a deuddeg pwynt ar y blaen i'w brif gystadleuydd. Yn 2021 roedd 57.5% o'r gynulleidfa sy'n cael gafael ar newyddion wedi cael o leiaf un cyswllt dyddiol â'r ddwy brif raglen newyddion, sef *Gaur Egun* yn y Fasgeg (ETB1) a *Teleberri* yn Sbaeneg (ETB2).

O ran cyfryngau digidol, yn 2021 roedd 70% o'r rheini rhwng 18-44 oed yn tanysgrifio i un neu fwy o wasanaethau fideo ar-alw – ychydig yn is na'r ffigur o 79.4% ar gyfer Sbaen, lle mae'r ffigurau sydd ar gael yn dangos mai Netflix oedd y llwyfan mwyaf, gan gyrraedd 55.1% o'r gynulleidfa.[7] Cyfryngau digidol yw'r dewis cyntaf ar gyfer defnyddio cynnwys clyweledol ymysg pobl ifanc 18-29 oed yng Nghymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg. YouTube sydd yn y safle uchaf gyda 84.9%, yna llwyfannau teledu talu wrth wylio gyda 76.3%, ac mae gan deledu confensiynol gyfran o 67.1% (2021).[8] Ar draws gwasanaethau ar-lein EITB, denodd ei wefan *eitb.eus* dros 162,000 o ddefnyddwyr unigryw dyddiol yn 2021 a chafodd apiau newyddion *Albisteak* EITB eu lawrlwytho 100,000 o weithiau.[9]

---

[6] Ffigurau misol cyfartalog gan Barlovento Comunicación, Informe Audiencia TV Hyd-22. Mae'r cwmnïau masnachol hyn hefyd yn denu 85% o refeniw hysbysebu, ar ôl i RTVE roi'r gorau i hysbysebion ar ei wasanaethau yn 2010.
[7] EITB (2021) Memoria Integrada. Data ar gyfer Sbaen gyfan, yn hytrach na Gwlad y Basg. Barlobento Comunicación. 2022. Barometro TV-OTT 2a Ola. 2022. Data ar gyfer 10-20 Mehefin 2022. Cyfran y gynulleidfa fideo ar-alw drwy danysgrifio/drwy fand eang ar gyfer Amazon Prime Video (18,4%), Movistar+ (13,1%), HBO (8,7%) y Disney+ (6,0%).
[8] Strategaeth EITB 2030.
[9] Bartolome, A.M. (2022) Between competition and survival: new digital strategies of the Basque Public Radio and Television (EITB). Data gan yr awdur a gafwyd o'r prosiect LOCALCOM.

## Deddfwriaeth, llywodraethu a rheoleiddio

Mae'r bedwaredd erthygl ar bymtheg yn Statud Ymreolaeth Gwlad y Basg (a roddwyd yn 1979 fel rhan o Gyfansoddiad Sbaen ar ôl y Ffranco) yn caniatáu i Wlad y Basg "reoli, creu a chynnal ei chyfryngau teledu, radio a'r wasg ei hun, ac, yn gyffredinol, yr holl gyfryngau cyfathrebu cymdeithasol i gyflawni ei dibenion".[10] Roedd hon yn foment arwyddocaol i bobl Gwlad y Basg ar ôl i'w mynegiant diwylliannol (gan gynnwys y iaith Fasgeg) ddioddef erledigaeth yn ystod unbennaeth Franco (1939-1975). Mae gan yr EITB ddau brif gorff corfforaethol: Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n ei lywodraethu (*Consejo de Administración*) a'r Rheolwyr Cyffredinol *(Dirección General*). Yn unol â deddfwriaeth sefydlu EITB,[11] penodir yr 20 aelod o'r Bwrdd (gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol) drwy bleidlais fwyafrifol yn Senedd Gwlad y Basg, ac maent yn gyfrifol am gytuno ar Gontract Rhaglenni pedair blynedd EITB gyda'r llywodraeth. Mae'r contract hwn yn sefydlu'r paramedrau ar gyfer gweithrediadau EITB, gan gynnwys y gyfres o ymrwymiadau y dylai eu cyflawni a'r dangosyddion perfformiad y bydd ei wasanaethau'n cael eu mesur yn eu herbyn. Y Bwrdd sy'n penodi'r Rheolwyr Cyffredinol, sy'n gyfrifol am ddarparu a rheoli gwasanaethau EITB.

Mae datblygiadau yn neddfwriaeth Sbaen dros y 15 mlynedd diwethaf wedi newid sefyllfa EITB fel cwmni cyfryngau rhanbarthol llai o faint. Sefydlodd Deddf Gwasanaethau Clyweledol 2010 fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer cyfryngau cyhoeddus a phreifat yn Sbaen, gyda gwelliant yn 2012 yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr rhanbarthol yn y ffordd maent yn darparu eu gwasanaethau cyfryngau clyweledol.[12] Roedd hyn yn cynnwys caniatáu i gymunedau ymreolaethol Sbaen ddewis rheoli eu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy amryw o bartneriaethau cyhoeddus-preifat. Yn sgil hyn, creodd EITB  ei is-gwmni masnachol ei hun, EITB Media, gan ganiatáu iddo ehangu ei ffrydiau refeniw drwy gael cyfranddaliadau mewn cwmni hysbysebu. Yn fwy diweddar, cymeradwyodd senedd Sbaen y Bil Cyfathrebu Clyweledol Cyffredinol (i'w roi ar waith yn 2023, gan ddisodli Deddf 2010), sy'n darparu o'r diwedd ar gyfer mabwysiadu Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yr UE 2018 mewn deddfwriaeth genedlaethol. Bydd Deddf 2023 yn cyflwyno trefniadau rheoleiddio ar gyfer chwaraewyr cyfryngau newydd sy'n targedu cynulleidfaoedd yn Sbaen, ac yn mynnu bod y gwasanaethau hyn yn dyrannu 5% o'u refeniw a gynhyrchir yn Sbaen i gynnwys o darddiad Ewropeaidd – gyda 70% o hyn yn mynd i gynyrchiadau annibynnol yn Sbaen. Mae'r ddeddf newydd hon yn cyd-fynd â chynllun 'Hwb Clyweledol Ewrop' Llywodraeth Sbaen yn 2021, sy'n golygu buddsoddiad o £1.6 biliwn yn y sector erbyn 2025 gyda'r nod o ehangu diwydiannau cyfryngau Sbaen o 30%.[13]

## Normaleiddio'r Fasgeg

Yn sgil y newidiadau hyn i dirweddau cyfryngau daearol a digidol yng Ngwlad y Basg, mae EITB wedi gosod ei her arweiniol ar gyfer y degawd nesaf:

> Beth yw rôl grŵp clyweledol cyhoeddus mewn gwlad fach yn Ewrop, sydd â'r nod o gynnal ein diwylliant lleol a'n hiaith leiafrifol mewn cyfnod o ddigidoleiddio a globaleiddio?

---

[10] Estatuto de Autonomia del Pais Vasca.
[11] Ley 5/1982 *de Creación de EITB*.
[12] Ley 7/2010 *General de la Comunicación Audiovisual*.
[13] Gwefan Spain Audiovisual Hub.

Ymhlith y prif heriau y mae EITB yn eu nodi mae "dilysrwydd cyfryngau cyhoeddus" a "cholli cysylltiad emosiynol â phobl ifanc".[14] Yn y digwyddiadau diweddar a oedd yn cofio pen-blwydd EITB yn 40 oed, tynnodd y *Lehendakari* (Arlywydd) Llywodraeth Gwlad y Basg sylw at rôl EITB yn "sefydliadoli Euskadi" a "normaleiddio'r Fasgeg":

> Drwy wybodaeth ac adloniant, mae [EITB] wedi cryfhau ein hiaith a'n diwylliant, ein ffordd o fyw a'n hunaniaeth. Mae wedi creu treftadaeth glyweledol gyfoethog sy'n deillio o'n pobl a'n cymdeithas.[15]

Mae EITB yn cynnig cynnwys yn nwy iaith gyd-swyddogol Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg. Sefydlwyd y sianel yn yr iaith Fasgeg ETB1 yn 1982, a chrëwyd y sianel Sbaeneg ETB2 yn 1986.[16] Cafodd y ddwy sianel ddechrau digon dadleuol, gan eu bod wedi bod yng nghanol sawl anghydfod rhwng llywodraeth ganolog Sbaen a llywodraeth Gwlad y Basg, yn enwedig Plaid Genedlaethol Gwlad y Basg (PNV/*Partido Nacionalista Vasco*). Dechreuodd y ddwy sianel EITB weithredu cyn i lywodraeth ganolog Sbaen dderbyn eu cyfansoddiad, ac roedd llawer yn ystyried bod creu sianel Sbaeneg i Wlad y Basg yn bradychu amcanion cychwynnol EITB.[17] I eraill, llwyddodd y rhesymeg dros gael darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a oedd yn gwasanaethu'r rhan fwyaf o gymuned Gwlad y Basg nad oedd yn siarad nac yn deall Basgeg i ennill y dydd dros ystyriaethau ieithyddol.[18]

Ar draws pedair sianel deledu 'domestig' EITB, mae ETB1 ac ETB3 (ar gyfer plant a phobl iau) yn darlledu'n gyfan gwbl yn y Fasgeg, mae ETB2 yn darlledu yn Sbaeneg ac ETB4 yn darlledu yn y ddwy iaith (gan ganolbwyntio ar gynyrchiadau domestig gwreiddiol). Mae ETB Basque, sydd wedi'i anelu at y gymuned Basgeg ryngwladol yn America, hefyd yn darlledu'n bennaf yn y Fasgeg. Y brif her o ran cyflawni ei genhadaeth gwasanaeth cyhoeddus o gynrychioli diwylliant a chymdeithas Fasgeg, ac yn yr iaith Fasgeg, yw'r angen i gynhyrchu cynnwys domestig. Hyd yn ddiweddar, bu cydbwysedd anghyfartal rhwng cynnwys ffeithiol a chynnwys ffuglennol. Er bod rhaglenni newyddion, materion cyfoes, chwaraeon a sioeau gemau i gyd yn cael eu cynhyrchu'n lleol – gyda rhai ohonynt yn y Fasgeg – mae cyfresi, ffilmiau a rhaglenni plant yn aml yn cael eu mewnforio a'u trosleisio i Sbaeneg neu'r Fasgeg lle bo angen.

Felly, un o flaenoriaethau EITB oedd adeiladu ecosystem glyweledol gref a chynaliadwy yng Ngwlad y Basg. Yn ddiweddar, adnewyddodd y darlledwr ei gytundeb â'r cymdeithasau sy'n cynrychioli cwmnïau cynhyrchu Basgaidd annibynnol, gyda'r contract newydd yn rhoi pwyslais arbennig ar gyd-gynhyrchu a chyd-ddosbarthu cynnwys Basgaidd ar draws gwahanol lwyfannau cyfryngau. Mae'r holl bleidiau'n cytuno ar bwysigrwydd ailadrodd ac atgyfnerthu eu hymrwymiad i amddiffyn, hyrwyddo a lledaenu treftadaeth ddiwylliannol Gwlad y Basg ac ar yr angen i hyrwyddo defnyddio a safoni'r Fasgeg yn y sector glyweledol.[19]

Mae EITB wedi llwyddo i leoleiddio genres teledu sefydledig o ran castio, lleoliad a phwnc. Mae'r sgetsh comedi *Vaya Semanita*, er enghraifft, yn dadansoddi ac yn gwneud sbort ysgafn

---

[14] Strategaeth EITB 2030, tud. 24.
[15] Araith Iñigo Urkullu, 16 Mai 2022.
[16] Zabaleta, I. a Xamardo, N. (2022) Economy and Funding of European Minority Language Media: Reality and Impact of Digitalization and Economic Crisis.
[17] Mae darparwyr cynnwys cyfryngau eraill yn y Fasgeg, yn bennaf yn gyhoeddus ar lefel leol, yn enwedig cyfryngau print a radio ond hefyd rhai sianeli teledu lleol (e.e. *Goiena* a Hamaka, sianel deledu breifat ranbarthol).
[18] Amezaga, A. et al. (2013) The Public Sphere and Normalization of Minority Languages: An analysis of Basque television in light of other experiences in Europe; Larrea, C. (2012) Globalization, Regional Television and National Identity: The case of Vaya Semanita/What a Week.
[19] EITB, 2022.

ar gymdeithas a thraddodiadau Gwlad y Basg, ac mae *El conquistador del fin del mundo*, sioe realiti 'goroesi', wedi cael ei darlledu'n llwyddiannus ar eu sianel iaith Sbaeneg ETB2 ers 2005.[20]

Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae cyfran y brif sianel Fasgeg ETB1 o'r gynulleidfa wedi bod yn gostwng yn raddol. Er nad yw sefyllfa ariannol EITB, fel nifer o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn dibynnu'n uniongyrchol ar ddenu cynulleidfaoedd mawr neu broffidiol, mae'n aml yn creu tensiwn gwleidyddol. Mae'r parti asgell dde eithafol VOX wedi mynnu'n ddiweddar bod EITB yn adrodd ar ffigurau cynulleidfaoedd ar gyfer ETB1 yng Ngwlad y Basg mewn perthynas â'r arian mae'n ei gael. Un o'r prif heriau o ran cadw cynulleidfaoedd yw'r gystadleuaeth annheg (o ran adnoddau) gan grwpiau cyfryngau masnachol a gwasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifio, gan gynnwys cwmnïau cyfryngau byd-eang. Mae hyn wedi bod yn bwynt trafod rhwng rheoleiddwyr a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ledled Ewrop. Er bod y cyfryngau cenedlaethol yn rhwym wrth gwotâu ar gyfer cyllid a chynhyrchu cynnwys i gydymffurfio â pholisi iaith cyd-swyddogol Sbaen, nid yw hynny'n wir am y cwmnïau cyfryngau rhyngwladol sy'n gor-lenwi'r dirwedd glyweledol. Roedd disgwyl y byddai'r Ddeddf Cyfathrebiadau Clyweledol newydd yn newid hynny ac, er ei bod wedi cyflwyno rhai mesurau, nid yw wedi cyrraedd disgwyliadau'r diwydiant a'r grymoedd gwleidyddol. Mae cwotâu ar gyfer cynnwys mewn ieithoedd cyd-swyddogol wedi'u cyfyngu i gyfran o 3.8% o'r gynulleidfa ar gyfer teledu llinol a 6% o deledu ar-alw. Bydd y cyllid ar gyfer cynhyrchu mewn ieithoedd cyd-swyddogol yn 0.63% o'r refeniw ar gyfer RTVE a 0.32% ar gyfer gwasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifiad.[21] Mae rhai dadansoddwyr yn awgrymu mai un o risgiau'r gyfraith newydd yw y byddai'n gwthio cwmnïau teledu rhanbarthol i ymylon eu hecosystemau clyweledol eu hunain, ac yn eu rhoi o dan anfantais ariannol a rheoleiddiol, gan gyfyngu ar eu gallu i addasu eu hunain i newidiadau technolegol.[22]

Ar wahân i'r heriau sy'n wynebu ecosystemau cyfryngau mewn ieithoedd lleiafrifol, mae rhai wedi sylwi bod dosbarthiad y cyllid a'r gefnogaeth rhwng y sianeli teledu o fewn EITB wedi creu hierarchaeth anghytbwys lle mae perygl y bydd ETB1 yn yr iaith Fasgeg yn cael ei gwthio'n raddol i'r cefndir.[23] Gwaethygodd y sefyllfa hon yn ystod pandemig Covid-19 pan wnaeth cyfran y gynulleidfa ar gyfer ETB1 ostwng i lefel na welwyd mo'i thebyg o'r blaen o lai nag 1%, ond, ers hynny, mae'r sefyllfa mae wedi dechrau gwella i 1.8% yn 2022. Gan fod y defnydd o'r Fasgeg wedi cynyddu, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd iau, mae rhai'n beio apêl isel rhaglenni ETB1 yn hytrach na'r rhaniad mewn cymunedau ieithyddol. Ym mis Medi 2022, er enghraifft, nododd y blaid wleidyddol Bildu mewn sesiwn seneddol nad oedd ETB1 wedi darlledu un ffilm yn ystod y pedwar mis blaenorol, ac roedd ETB2 wedi darlledu 130 o deitlau, i gyd yn Sbaeneg.

---

[20] Larrea, C. (2012) Globalization, Regional Television and National Identity: The case of Vaya Semanita/What a Week; Tolosa, I. et al. (2020) El Conquis: ¿un reality demasiado vasco? Análisis de una adaptación de un formato internacional.

[21] Mae'r Ddeddf newydd hefyd yn cynnwys "hyrwyddo ieithoedd swyddogol y cymunedau ymreolaethol", creu cronfa i helpu dybio ac isdeitlo mewn ieithoedd cyd-swyddogol, a chreu cronfa rhwng y wladwriaeth a'r cymunedau ymreolaethol a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r cyrff cymwys.

[22] CTXT/Gorka Bereziartua Mitxelena, Cyfweliad gyda Ramón Zallo (Athro Emeritws, Prifysgol Gwlad y Basg) - "PSOE y PP entendieron que la Ley Audiovisual era una cuestión de Estado, no de derechos ciudadanos", 22 Gorffennaf 2022.

[23] Mae sianel ETB2 wedi'i hanelu at y boblogaeth gyfan, gan gynnwys siaradwyr Basgeg, gan ddenu gwylwyr posibl a allai wylio'r sianel yn yr iaith Fasgeg hefyd. Gweler Amezaga, A. et al. (2013) The Public Sphere and Normalization of Minority Languages: An analysis of Basque television in light of other experiences in Europe.

**Ennyn diddordeb cynulleidfaoedd iau**

Mae llywodraeth genedlaethol Sbaen a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi bod yn araf yn ymateb i'r tarfu a achosir gan lwyfannau digidol a llwyfannau fideo ar-alw.[24] Mae'r darnio cynulleidfaoedd sy'n deillio o hynny a'r newidiadau yn arferion defnyddwyr wedi cael effaith ddramatig ar ffigurau cynulleidfa EITB ar gyfer cynulleidfaoedd iau. Un prif ffocws i EITB dros y blynyddoedd diwethaf o ran denu siaradwyr Basgeg ifanc yw datblygu strategaethau digidol gyda chynnwys yn yr iaith Fasgeg i gystadlu â llwyfannau ffrydio. Fel y nodwyd yn Strategaeth newydd 2030, "Rhaid i'r EITB fod y corff sy'n gwarantu cynnwys clyweledol ar bynciau Basgaidd ac yn y Fasgeg yng nghyd-destun mathau newydd o gael gafael ar gyfryngau digidol".

Mae strategaeth aml-sgrin ac aml-lwyfan EITB wedi cynnwys lansio rhaglenni ffeithiol a ffuglen ar yr un pryd ar lwyfannau teledu a digidol. Yn 2020, cafodd y gyfres ar y we, *Pikuak* a thair cyfres deledu, gan gynnwys y rhaglen gyffro *Hondar ahoak*, eu dangos am y tro cyntaf ar ETB1, eitb.eus, ac ar EITB Nahieran. Dechreuwyd darlledu'r rhaglen gomedi *Vaya Semanita Xtream* ar eitb.eus ar ôl blynyddoedd o lwyddiant ar ETB2, ac mae hefyd ar gael ar rwydweithiau cymdeithasol, rhaglenni i ddyfeisiau symudol a setiau teledu sydd wedi eu cysylltu. Ym mis Mawrth 2021, sefydlodd EITB sianel ar Twitch i ffrydio rownd derfynol cystadleuaeth *Basarria*, sef sioe realiti am gydfodoli rhwng pobl y dref a *baserritarras* (pobl sy'n byw mewn tai fferm). O ganlyniad i'r sianel Twitch EITB newydd, lansiodd cymuned o chwaraewyr gemau fideo y fenter #3000Twitz ar Twitter fel bod Basgeg yn cael ei derbyn fel iaith ddarlledu ar y llwyfan. Ar wahân i'w strategaeth ddigidol, mae gan EITB gynlluniau hefyd i greu 'Netflix Basgaidd' i gystadlu â gwasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifio a chyfryngau digidol eraill.

Yn ddiweddar, mae EITB wedi cynhyrchu rhaglenni traws-gyfrwng penodol sy'n adrodd un stori ar draws nifer o lwyfannau cyfryngau, gan greu profiadau i'r cyhoedd (sydd wedi'u cysylltu'n helaeth) a'u hannog i gymryd rhan yn y cynnwys a rhyngweithio ag ef.[25] Un o'r cynyrchiadau traws-gyfrwng hyn yw *Go!azen* – rhaglen cyfrwng Basgeg sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc yn eu harddegau. Yn ddiweddar, mae'r EITB wedi dangos ei lwyddiant, gan roi clod iddo am ddenu cynulleidfaoedd ifanc mwy o faint i ETB1. Mae'r rhaglen yn dilyn anturiaethau grŵp o bobl ifanc yn eu harddegau yng Ngwersyll Haf Basakabi, gyda'r ap sy'n cyd-fynd â'r sioe yn dweud y bydd "yn eich galluogi i ddarganfod straeon nad ydynt i'w gweld yn y gyfres deledu ... a bydd yn caniatáu i chi weld fideos arbennig na fydd ar gael yn unman arall". Yn sgil lansio'r ap, bu cynnydd graddol yn nifer y gwylwyr a oedd yn defnyddio'r llwyfan hwn i gael gafael ar y cynnwys ar-alw. Mae ei lwyddiant yn enghraifft o bosibiliadau cynnwys traws-gyfrwng wrth ymgysylltu cynulleidfaoedd iau â'r gwerthoedd diwylliannol a chymdeithasol sy'n cael eu cynrychioli gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[26]

[24] Bartolome, A.M. (2022) Between competition and survival: new digital strategies of the Basque Public Radio and Television (EITB).
[25] Larrondo-Ureta, A. (2020) Scope and difficulties of the transmedia practice: A case study on the Spanish PSM system.
[26] Larrondo-Ureta, A. et al. (2020) Hacia una mayor participación de la audiencia: experiencias transmedia para jóvenes.

# Canada

**Demograffeg:**[1]

- Poblogaeth: 36.9 miliwn, gyda 90% o drigolion yn byw o fewn 150 milltir i ffin Canada â'r UDA.
- Ieithoedd: Mae 27.6 miliwn (74%) yn siarad Saesneg fel eu prif iaith, 7.8 miliwn (21%) yn siarad Ffrangeg. Dywedodd 6.5 miliwn (17%) eu bod yn ddwyieithog ac yn gallu siarad Saesneg a'r Ffrangeg.
- Yn Québec (poblogaeth 8.4 miliwn), Ffrangeg yw'r iaith fwyafrifol (6.9 miliwn, 82%) ac mae cyfran y rhai sy'n siarad Saesneg yn bennaf (1 miliwn, 11%) wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.
- Nododd tua dau gan mil o bobl bod eu hiaith gyntaf yn Gynhenid i'r wlad yn y cyfrifiad diweddaraf, ac Inuktitut a Cree yw'r ieithoedd sy'n cael eu siarad yn fwyaf eang.

**Y prif ddarlledwyr**

- **CBC/Radio-Canada** – darlledwr gwasanaeth cyhoeddus dwyieithog, a sefydlwyd yn 1936.

CBC/Radio-Canada yw darlledwr cyhoeddus cenedlaethol Canada (mae CBC yn Saesneg, a Radio-Canada yn Ffrangeg), yn gweithredu gwasanaethau teledu, radio a chyfryngau ar-lein ar draws sawl llwyfan. Mae ei ddau rwydwaith teledu, CBC a Radio-Canada Télé, yn cynhyrchu rhaglenni cenedlaethol a lleol sy'n cael eu darlledu ar draws 27 o orsafoedd teledu confensiynol wedi'u targedu at ddinasoedd a rhanbarthau. Mae CBC Radio yn darparu wyth gwasanaeth, pump yn Saesneg a thri yn Ffrangeg. Mae portffolio ehangach gwasanaeth CBC/Radio-Canada yn cynnwys llwyfan ddarlledu fideo ar alw 'freemium' (CBC Gem)[2] a thri sianel teledu drwy dalu arbenigol.

Mae model cyllido CBC/Radio-Canada yn cynnwys cymysgedd o grant gan y llywodraeth, refeniw hysbysebu, ffioedd tanysgrifio ar gyfer gwasanaethau dewisol ac incwm ychwanegol o ystadau, gwerthiannau masnachol a chymorthdaliadau, fel Cronfa Cyfryngau Canada. Yn 2022 cyfanswm incwm CBC/Radio-Canada yw $1.89 biliwn, a daeth $1.24 biliwn o'r swm hwnnw (65.6%) o gyllid gan y llywodraeth, a refeniw hysbysebu oedd y gyfran fwyaf o weddill ei gyllideb.[3]

Codwyd pryderon yn gyson ynghylch ymreolaeth gymharol CBC/Radio-Canada o ddylanwad gwleidyddion – neu ymyrraeth bosibl, yng ngolwg rhai beirniaid – o ystyried ei dibyniaeth sylweddol ar grant gan y llywodraeth a bennwyd yn y Gyllideb Ffederal flynyddol i ariannu gweithgareddau gweithredol. Ar yr un pryd, mae'n ymddangos bod rhagolygon ar gyfer parhau i gynhyrchu refeniw hysbysebu ar draws ei lwyfannau yn fwyfwy ansicr, yn bennaf oherwydd y gystadleuaeth gynyddol gan gwmnïau digidol mawr. Mewn ymateb i'r beirniadaethau diweddar yn y wasg ynghylch a yw CBC/Radio-Canada yn cynnig gwerth da am arian cyhoeddus, cyfrifodd y gorfforaeth ei bod yn costio oddeutu $14 y pen i bobl Canada bob blwyddyn. Am y swm bach hwn, roedd yn dadlau bod 'Canadiaid yn cael teledu, radio a

---

[1] Ffigurau o gyfrifiad 2021 Statistics Canada.
[2] Mae CBC Gem yn cynnig mynediad am ddim at gynnwys CBC byw ac ar-alw, gydag opsiwn mynediad ychwanegol i danysgrifwyr sy'n cael gwared ar hysbysebion yn y ffrwd.
[3] Adroddiad Blynyddol CBC/Radio-Canada 2021-22, tud. 68.

chynnwys digidol gwych yn Saesneg, Ffrangeg ac mewn wyth iaith frodorol, ym mhob cwr o'r wlad'.[4]

## Cyd-destun y farchnad

Yn 2021, roedd 961 o orsafoedd radio yng Nghanada. Roedd y rhan fwyaf (716 neu 74%) yn wasanaethau masnachol, am elw. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm y refeniw yn $1.15 biliwn yn 2020, sy'n cyd-fynd â'r duedd o ostyngiad mewn refeniw dros y blynyddoedd diwethaf.[5] Mae gorsafoedd sy'n eiddo preifat yn darlledu yn Ffrangeg, Saesneg, Ieithoedd Brodorol a thrydedd ieithoedd. Y pum prif grŵp perchnogaeth yw BCE, Corus/Shaw, Rogers, CBC/SRC, a Québecor, a oedd gyda'i gilydd yn cyfrif am 64% o gyfanswm refeniw radio masnachol yn 2019.[6]

Canfu ymchwil diweddar a gomisiynwyd gan y CRCT "Mae Canadiaid yn ffafrio eu gorsafoedd radio sy'n cael eu cefnogi gan hysbysebion dros unrhyw gyfrwng sain arall", gydag amcangyfrif bod 68% o bobl Canada yn gwrando ar radio masnachol o leiaf unwaith yr wythnos, gyda 39% yn gwrando bob dydd, yn fwy nag unrhyw lwyfan darlledu sain arall".[7] Mewn cymhariaeth, mae 39% yn gwrando ar wasanaethau ffrydio cerddoriaeth bob wythnos (20% bob dydd) ac mae 32% yn gwrando ar CBC/Radio-Canada (16% bob dydd).

Mae 93 o orsafoedd teledu confensiynol sy'n eiddo preifat yng Nghanada. Y chwe rhwydwaith masnachol mwyaf yw BCE, Corus, CBC/SRC, Rogers, Québecor, a Groupe V Mádia, yn y drefn honno, a oedd gyda'i gilydd yn cyfrif am 91% o gyfanswm refeniw teledu yn 2019.[8] Yn yr iaith Saesneg, BCE Inc. Sy'n berchen ar CTV Television Network, a Corus Entertainment sy'n berchen ar Global Television Network. Mae Citytv, rhwydwaith teledu sy'n eiddo preifat i Rogers Media, yn gweithredu gorsafoedd yn Quebec, Ontario, Manitoba, Saskatchewan, Alberta a British Columbia. Groupe TV sy'n rheoli TVA, y rhwydwaith teledu preifat Ffrangeg.

## Deddfwriaeth, llywodraethu a rheoleiddio

Prif sylfaen ddeddfwriaethol system ddarlledu Canada yw Deddf Darlledu 1991, sy'n manylu ar ddibenion a strwythur CBC/Radio-Canada yn ogystal â sefydlu **Comisiwn Radio, Teledu a Thelegyfathrebiadau Canada (CRTC)**, rheoleiddiwr sector 'hyd braich' y wlad. Cabinet ffederal llywodraeth Canada yn unig sy'n gwneud penodiadau i'r Comisiwn, a phwyllgor annibynnol sy'n penodi Cyfarwyddwyr CBC/Radio-Canada ac mae angen i Weinidog Treftadaeth y llywodraeth roi cymeradwyaeth derfynol i'w hargymhellion.

Mae gan y Comisiwn bwerau a goruchwyliaeth sylweddol sy'n ymwneud â CBC/Radio-Canada. Yn benodol, pennu'r drwydded pum mlynedd sy'n diffinio gwasanaethau ac amcanion CBC/Radio-Canada. O dan y cytundeb trwydded diweddaraf, a adnewyddwyd ar gyfer y cyfnod 2022-27, cyflwynodd y Comisiwn gyfres o ofynion newydd ar y darlledwr cyhoeddus.[9] Yn ogystal â chaniatáu i CBC/Radio-Canada gynnwys cynyrchiadau a gwariant digidol wrth gyflawni ei ofynion rhaglenni craidd, mae'r drwydded newydd yn ehangu

[4] CBC/Radio-Canada, CBC/Radio-Canada is a bargain, 22 Tachwedd 2022.
[5] Radio industry operating revenue in Canada from 2007 to 2021, Statista.
[6] CRTC, Annual highlights of the broadcasting sector, 2019-2020
[7] Media in Canada/Josh Kolm, How Canadians feel about commercial radio stations, 23 Chwefror 2021.
[8] CRTC, Annual highlights of the broadcasting sector, 2019-2020
[9] CRTC, Broadcasting Decision 2022-165.

rhwymedigaethau CBC/Radio-Canada o ran gwasanaethu a chynrychioli cymunedau amrywiol Canada yn ei raglenni a'i benderfyniadau.

Y mwyaf nodedig ymysg y rhain yw'r cwotâu sylfaenol ar gyfer amser rhaglennu a gwariant cynhyrchu sy'n benodol ar gyfer cynnwys sydd wedi'i anelu at gymunedau lleiafrifol cynhenid a swyddogol, cynulleidfaoedd LHDTC a phobl ag anableddau. Bwriad "credyd rhyngblethedd menywod", sy'n cynnig 50% o gyllid cynhyrchu gan y CRTC, hefyd yw cymell mwy o gynyrchiadau gan fenywod o grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Mae'r cynlluniau hyn yn atgyfnerthu fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd cyhoeddus ehangach CBC, sy'n cynnwys pwyllgorau darlledu ar wahân yn y Saesneg a'r Ffrangeg. Ombwdsmyn Saesneg a Ffrangeg ar gyfer monitro safonau newyddiadurol, cyfarfod cyhoeddus blynyddol ar gyfer ymgynghori â chynulleidfaoedd, a gofyniad i ymgynghori'n uniongyrchol ac ar wahân â chymunedau brodorol, cymunedau lleiafrifol â iaith swyddogol, cefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac LHDTC.

Mae'r Ddeddf Darlledu yn datgan y dylai system ddarlledu Canada gryfhau gwead diwylliannol y wlad drwy gefnogi ei diwydiannau creadigol ac, wrth wneud hynny, annog datblygu a hygyrchedd cynnwys Canada yn gyffredinol yn y wlad. Gwneir hyn drwy:

- Darparu amrywiaeth eang o raglenni sy'n adlewyrchu agweddau, barn, syniadau, gwerthoedd a chreadigrwydd artistig Canada
- Arddangos doniau Canada mewn rhaglenni adloniant
- Cynnig gwybodaeth a dadansoddiad ynghylch Canada a gwledydd eraill o safbwynt Canada.[10]

Gan gydnabod yr amrywiaeth sydd yng nghymunedau Canada o un rhanbarth i'r llall, mae'r Ddeddf yn rhoi'r cyfrifoldeb ar ddarlledu yng Nghanada (yn bennaf drwy ei raglenni a'i gyfleoedd cyflogaeth gweithredol) i:

- Adlewyrchu amgylchiadau a dyheadau a sicrhau hawliau cyfartal i ddynion, menywod a phlant Canada
- Cefnogi deuoliaeth ieithyddol a natur amlddiwylliannol ac aml-hil cymdeithas Canada
- Cydnabod lle arbennig pobl frodorol yn ein cymdeithas.

Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu diwygiadau deddfwriaethol i Ddeddf 1991, a elwir yn Fil C-11, a gynigiwyd yn 2020.[11] Prif fwriad y diwygiad hwn yw gosod cyfryngau digidol ar-lein o fewn y fframwaith rheoleiddio darlledu. O ystyried poblogrwydd gwasanaethau ffrydio dros y rhyngrwyd, fel Netflix, Amazon Prime a Disney+ gyda thanysgrifwyr Canada, mae trafodaeth seneddol yn parhau ynghylch y ffordd orau o roi mesurau gorfodi a goruchwylio effeithiol i'r CRTC.

Mandad deddfwriaethol CBS/Radio-Canada yw hysbysu, difyrru a diddanu holl bobl Canada. Yn ogystal â chynnwys Saesneg a Ffrangeg, mae'n cynnig rhaglenni mewn wyth iaith frodorol (Chipewyan, Cree, Gwich'in, Inuktitut, Inuvialuktun, Sahtu Got'ine Godi, Dehcho Dene Yati a Tlicho) drwy CBC North. Mae Radio Canada International (RCI) ar gael mewn saith iaith ar hyn o bryd: Saesneg, Ffrangeg, Sbaeneg, Arabeg, Tsieineg, Pwnjabeg a Tagalog. Canfu Arolwg Mandad a Chanfyddiad o Weledigaeth 2021-2022, [12] gyda'i ddadansoddiad cynrychioladol o ganfyddiadau pobl Canada o lwyddiant cymharol CBC/Radio-Canada o ran cyflawni ei fandad, fod "75% o bobl Canada yn defnyddio o leiaf un o'n gwasanaethau mewn

[10] CRTC, Guidance on 'Content that Meets the Needs and Interests of Canadians'.
[11] LEGISinfo, C-10 a C-11.
[12] CBC/Radio-Canada, Annual Report 2022: Our Performance – Mandate and Vision.

mis arferol.” Yn amlwg, mae tua 82% o’r rhai a holwyd yn credu ‘ei bod yn bwysig i Ganada gael darlledwr cyhoeddus cenedlaethol fel CBS/Radio/Canada’.

**Diffinio ‘cynnwys o Ganada’**

CBC/Radio-Canada yw’r buddsoddwr mwyaf mewn cynnwys gwreiddiol o Ganada, ac mae ei gyfrifiadau ei hun yn dangos fod ei gefnogaeth i’r sector gwybodaeth a chreadigol yn gwneud cyfraniad gwerth $54.6 biliwn i economi Canada bob blwyddyn, gan gynnwys darparu 630,000 o swyddi yng Nghanada. Mae’n amcangyfrif bod pob doler a fuddsoddir yn creu dwy ddoler o fudd economaidd i boblogaeth Canada.[13]

Mae’r CRTC yn gyfrifol am sicrhau y darperir cynnwys creadigol o ansawdd uchel sydd wedi cael ei wneud yng Nghanada i gynulleidfaoedd o ffynonellau sy’n ddigon amrywiol ar amrywiaeth o lwyfannau. Yn ei eiriau ei hun, mae’n cymryd rhan mewn prosesau cyhoeddus i ‘gynhyrchu polisïau cynnwys, annog deuoliaeth ieithyddol, cefnogi rhaglenni materion cyhoeddus,’ a chynnal ‘darlledu ar gyfer cymunedau amrywiol Canada’ ac, ar yr un pryd, yn ymdrechu i sicrhau bod gan artistiaid Canada'r modd ariannol i greu a hyrwyddo eu gwaith yng Nghanada ac yn fyd-eang.

Yn achos radio, mae CRTC a sefydliadau eraill yn y diwydiant (e.e. mae’n rhaid i drwyddedeion radio masnachol gyfrannu’n ariannol) yn darparu cefnogaeth Canadian Content Development (CCD) i artistiaid drwy amryw o fentrau a chymhellion cyllido. Mae’n rhaid i orsafoedd radio fodloni cwotâu cynnwys Canada, sy’n amrywio ar sail y math o drwydded darlledu (h.y. masnachol, CBC/Radio Canada, cymunedol, ethnig, Brodorol, ar gampws, neu nid-er-elw) sydd gan yr orsaf. Er enghraifft, yn achos cerddoriaeth boblogaidd, rhaid i orsafoedd CBC/Radio Canada sicrhau bod o leiaf 50% o’u detholiadau sy’n cael eu darlledu bob wythnos yn gynnwys o Ganada, tra bo’r ganran hon yn o leiaf 35% ar gyfer gorsafoedd radio masnachol rhwng 6 am a 6 pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Er mwyn i waith cerddorol fod yn gymwys fel cynnwys o Ganada (sydd weithiau’n cael ei alw’n ‘CanCon’), mae angen bodloni o leiaf ddau amod o dan y system Cerddoriaeth, Artist, Perfformiad, a Geiriau (MAPL): mae’r gerddoriaeth wedi cael ei chyfansoddi’n gyfan gwbl gan rywun o Ganada; artist o Ganada sy’n perfformio’r gerddoriaeth neu’r geiriau yn bennaf; mae’r perfformiadau wedi cael eu recordio’n gyfan gwbl yng Nghanada neu’n cael eu perfformio a’u darlledu’n gyfan gwbl yng Nghanada; neu mae’r geiriau wedi cael eu hysgrifennu’n gyfan gwbl gan rywun o Ganada. Mae amrywiadau’n berthnasol ar gyfer perfformiadau o weithiau offerynnol, cydweithio rhyngwladol, ac ystyriaethau o’r fath.[14]

Ar gyfer teledu, mae’n rhaid i CBC/Radio-Canada sicrhau bod o leiaf 60% o’r amserlen gyffredinol (6am i hanner nos) bob blwyddyn yn gynnwys o Ganada. Mae gan orsafoedd preifat ychydig mwy o hyblygrwydd, gyda 50% yn cael ei ystyried yn ddigonol yn ystod y cyfnod darlledu gyda’r nos (rhwng 6pm a hanner nos).

Mae Canadian Program Certification (CPC), sy’n cael ei ddyfarnu gan y CRTC drwy gynllun pwyntiau, yn helpu cynhyrchwyr a darlledwyr annibynnol o Ganada i sicrhau cydnabyddiaeth ar gyfer cynyrchiadau sy’n dibynnu’n bennaf ar griwiau a thalent o Ganada. Er mwyn bodloni rhwymedigaethau rheoleiddio cynnwys o Ganada, gan gynnwys eu cwotâu ar y sgrin drwy system bwyntiau, cynlluniwyd yr ardystiad i sicrhau bod cynyrchiadau’n cynnwys cyfraniad

---

[13] CBC/Radio-Canada, CBC/Radio-Canada is a bargain, 22 Tachwedd 2022.
[14] du Plooy Law/Tyler Anthony, ‘A Musician’s Guide to Canadian Content and Radio Quotas’, 1 Mehefin 2022.

sylweddol gan gynhyrchwyr, cyfarwyddwyr, sgriptwyr a thalent o Ganada, yn ogystal â mynnu bod 75% o'r treuliau'n cael eu talu i wasanaethau sy'n cael eu darparu gan gwmnïau o Ganada.[15]

Ymysg amrywiadau eraill, mae rheolau arbennig yn berthnasol ar gyfer animeiddio, yn ogystal â chyd-gynyrchiadau rhwng cynhyrchwyr o Ganada a chynhyrchwyr o'r tu allan i Ganada (sy'n cael eu goruchwylio gan Telefilm Canada), neu 'gynyrchiadau drwy gytuniad' (wedi'u negodi rhwng llywodraethau cenedlaethol). Rhai o'r ffynonellau eraill o gymorth ariannol ar gyfer cynyrchiadau o Ganada yw credydau treth ffederal a/neu daleithiol (wedi'u hardystio gan Swyddfa Ardystio Clywedol Canada neu CAVCO), yn ogystal â Chronfa Cyfryngau Canada sy'n mynnu bod cynyrchiadau'n bodloni gofyniad pwyntiau llawn i gael mynediad ato.

Mae cefnogwyr rheolau cynnwys Canada yn cydnabod sut mae ymdrechion i fodloni'r meini prawf yn gwella'r rhagolygon i'w gwaith gael ei ddewis i'w ddarlledu. Maent yn dadlau bod mesurau o'r fath yn helpu i feithrin cyfryngau mwy teg, amrywiol a chynhwysol na fyddai'n bosibl fel arall, o ystyried graddfa'r dylanwad rhyngwladol – yn enwedig dylanwad cystadleuwyr cyfryngau yn yr Unol Daleithiau. Mae llawer o bobl Canada yn mynd ati i chwilio am gynnwys gwreiddiol o Ganada, ac mae rhai'n credu na fyddai llawer ohono'n cael ei gynhyrchu, pe bai'n cael ei adael i benderfyniadau'r farchnad ar sail gwneud yr elw mwyaf.

Ar y llaw arall, mae beirniaid yn tueddu i ddefnyddio termau fel 'allgáu,' 'elitaidd,' 'anhylaw' neu 'anacronistig' wrth fynegi eu barn am reolau cynnwys 'gorfiwrocrataidd' Canada. Mae rhai'n dadlau bod diffiniad rhy 'gyfyng' neu 'gaeth' o beth yw bod o Ganada, tra bo eraill yn argyhoeddedig bod mesurau 'rhagnodol' o'r fath yn 'nawddoglyd,' 'yn trethu creadigrwydd,' neu'n waeth, 'yn gwobrwyo diffyg uchelgais.' Yn ôl rhesymegau cysylltiedig, mae perygl fod y pwysau i gydymffurfio â chwotâu cymwys yn llesteirio arloesedd, gan efallai greu unffurfiaeth o gynnwys 'diogel' ar draul cynrychioli safbwyntiau a phrofiadau gwahanol a heriol.

Mae trafodaeth seneddol ar y gweill ar hyn o bryd ynghylch y ffordd orau o ddiweddaru'r Ddeddf Darlledu i osod llwyfannau ffrydio o fewn cwmpas y rheoliadau'n fwy effeithiol, yn gyffredinol, ac yn benodol o ran mynd ati i hyrwyddo crewyr cynnwys o Ganada. Ymysg y llu o bryderon sy'n cael eu codi, mae'r ofn y gallai algorithmau sy'n seiliedig ar feini prawf Canada ystumio canlyniadau chwilio, rhestrau chwarae, ffrydiau neu argymhellion, gan ei gwneud yn anoddach i ddod o hyd i ddeunydd a fyddai fel arall yn dod i'r amlwg ar sail diddordebau'r defnyddwyr. Mae rhai'n credu bod tueddiad gan CRTC i ffafrio hen gyfryngau (sydd wedi hen arfer â rhwymedigaethau o'r fath) ar draul crewyr cynnwys bach, annibynnol neu arbenigol sy'n cael eu rhyddhau'n ddigidol yn gyntaf.

Mae deddfwyr Canada'n chwilio dramor am bolisïau cymharol, fel gofynion llywodraeth Awstralia fod Google a Facebook yn helpu i warantu costau cynhyrchu cynnwys newyddion sy'n cael ei rannu ar draws eu safleoedd drwy ddigolledu cyhoeddwyr a chyfryngau lleol. Cyflwynwyd mentrau tebyg yn ymwneud â llwyfannau fideo ar alw drwy danysgrifiad byd-eang (nid yw Netflix, Amazon Prime, Disney+ a, ac Apple TV+, yn rhwym wrth rwymedigaethau cynnwys Canada) yn Ffrainc a'r Eidal lle mae cyfreithiau cwota ar gyfer cynnwys Ewropeaidd yn berthnasol, ac mae Denmarc bellach yn gorfodi cwmnïau ffrydio i dalu ardoll o 6% ar eu refeniw yn y wlad i gefnogi cynyrchiadau teledu lleol.

Mae'n amlwg fod y drafodaeth o ran beth yw cynnwys o Ganada mewn oes ddigidol, a'r ffordd orau o feithrin ei fynegiant creadigol, yn cyflwyno heriau mawr i lunwyr polisi'r wlad heddiw.

---

[15] CRTC – Content Made by Canadians, 'CanCon' certification system.

# Denmarc

**Demograffeg:**[1]

- Poblogaeth: 5.9 miliwn, 58,000 yn yr Ynys Las a 54,000 yn Ynysoedd Ffaro.
- Ieithoedd: Mae 5.1 miliwn o Ddaniaid (86%) yn siarad Saesneg fel ail iaith, mae 2.7 miliwn (47%) yn siarad Almaeneg (sy'n cael ei chydnabod fel iaith leiafrifol swyddogol) ac mae 767,000 (13%) yn siarad Swedeg.[2]
- Mae iaith yr Ynys Las a Ffaroeg hefyd yn cael eu cydnabod fel ieithoedd lleiafrifol swyddogol.

**Y prif ddarlledwyr**

- **DR** (Corfforaeth Ddarlledu Denmarc) – darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, a sefydlwyd yn 1925.

Mae DR yn gweithredu tair sianel deledu am ddim (DR1, DR2 a DR *Ramasjang*, gwasanaeth teledu ac ar-lein ar gyfer cynulleidfaoedd 4-8 oed). Mae DR hefyd yn darparu saith sianel radio a lansiodd ddau wasanaeth ar-lein yn unig ar gyfer plant yn 2021: *minisjang* ar gyfer plant 1-3 oed ac *Ultra* ar gyfer plant 9-14 oed. Mae DR hefyd yn rhedeg ei wasanaeth darlledu fideo ar-alw ei hun, DRTV, sy'n cynnig cynnwys byw ac ar-alw. Roedd DR yn cael ei ariannu'n wreiddiol drwy Drwydded Cyfryngau ar aelwydydd, ond ers 2022 mae wedi cael ei ariannu drwy drethi cyhoeddus gyda'i incwm blynyddol wedi'i osod fel rhan o gyllideb y wladwriaeth. Ar ôl diwygio ei fodel cyllido, bu gostyngiad o 20% yng nghyllideb gyffredinol DR. Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, ei gylch gwaith yw darparu cynnwys a gwasanaethau cyfryngau annibynnol er budd pob grŵp ar draws Denmarc, gan adlewyrchu bywyd cymunedau a diwylliannau amrywiol y wlad i feithrin undod cenedlaethol ac ymdeimlad o bwrpas cyffredin. Yn 2021, roedd gan DR1 a DR2 gyda'i gilydd gyfran o 33% o'r gynulleidfa ar gyfer gwylio teledu a chyfanswm refeniw DR oedd 3.4 biliwn DKK (€465 miliwn).

- **TV 2** – darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, a sefydlwyd yn 1986.

Mae TV 2 Danmark A/S yn gwmni darlledu masnachol sy'n eiddo cyhoeddus ac sy'n gweithredu pum sianel deledu genedlaethol a rhwydwaith o wyth gorsaf deledu ranbarthol, gyda rhaglenni'n amrywio o rai newyddion, adloniant ac ieuenctid.[3] Roedd yn cael ei ariannu'n wreiddiol drwy refeniw hysbysebu a ffi'r drwydded, ond daeth y cyllid o ffi'r drwydded i ben yn 2004. Erbyn hyn, hysbysebu a gwasanaeth tanysgrifio sy'n ariannu gwasanaethau TV 2. Yn 2020, cynhyrchodd TV 2 refeniw hysbysebu o 1.43 biliwn DKK a refeniw tanysgrifio o dros 1.7 biliwn DKK. Mae TV 2 yn canolbwyntio ar adloniant yn bennaf, ond mae hefyd yn darparu rhaglenni newyddion rhanbarthol a chynnwys lleol arall. Ei wasanaethau sy'n denu'r cynulleidfaoedd cenedlaethol mwyaf yn rheolaidd, gan gyrraedd cyfran wylio ddyddiol o 48% yn 2021.

- *Kalaallit Nunaata Radioa* (**KNR**, Corfforaeth Ddarlledu yr Ynys Las) – darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn yr Ynys Las, a sefydlwyd yn 1958.

KNR yw gorsaf radio a theledu gwasanaeth cyhoeddus annibynnol yr Ynys Las, sy'n eiddo i Lywodraeth yr Ynys Las ac yn cael ei hariannu'n rhannol ganddi. Er gwaethaf diwygiadau

---

[1] Ffigurau o Statistics Denmark, national population survey 2022.
[2] Eurobarometer (2012) Europeans and their languages, Mehefin 2012. Tud. 21
[3] Map rhanbarthau annibynnol TV 2.

cyllid DR a'r gostyngiad o 20% yn y gyllideb yn sgil hynny, diogelwyd ei gyllid ar y cyd ar gyfer KNR – cafodd KNR gymhorthdal o 3.1 miliwn DKK yn 2021, ond mae ei gyllid yn dal o dan "bwysau difrifol" os na fydd grantiau'n cynyddu. Mae KNR yn darparu darllediadau gan y llywodraeth, cymdeithasau lleol, gwaith ar y cyd â darlledwyr lleol preifat a chynnwys a rennir gan DR. Gyda dyfodiad hunanlywodraeth yn 1979, prif bwrpas KNR fu helpu i gryfhau iaith a diwylliant yr Ynys Las.[4]

## Cyd-destun y farchnad

Mae mynegai defnydd o'r cyfryngau Eurobarometer 2022 yn dangos bod poblogaeth Denmarc yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau cyfryngau teledu, radio ac ar-lein bob dydd yn llawer amlach na chyfartaledd Ewrop.[5] Ym 4ydd chwarter 2020, roedd gan 2.1 miliwn o gartrefi o leiaf un set deledu, gostyngiad ers 2013 pan oedd 2.5 miliwn. Bu gostyngiad graddol yn y defnydd dyddiol o deledu dros y degawd diwethaf, ac mae gwylio teledu ar-lein neu wasanaethau ffrydio eraill wedi cynyddu'n gyson. Mewn arolwg Kantar/NORDICOM yn 2019, roedd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn ffrydio ffilmiau, cyfresi, rhaglenni teledu a chlipiau fideo o leiaf unwaith yr wythnos. Mae pobl iau yn defnyddio mwy o fideos ar-lein na phobl hŷn gyda dros hanner y bobl ifanc 15-25 oed yn gwylio fideos ar-lein bob wythnos yn 2018, a dim ond 21% o bobl dros 56 oed oedd wedi gwneud hynny.[6]

Y cynnwys teledu sy'n cael ei wylio amlaf yn Nenmarc yw cynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – gyda chyfran o 61% o'r gynulleidfa yn 2019, ffigur sydd wedi aros yn sefydlog drwy 2020 a 2021.[7] Mae nifer o sianeli masnachol, ond mae eu cyfran o'r gynulleidfa'n isel iawn. Yn 2019, treuliodd cynulleidfaoedd Denmarc lai nag awr y dydd yn gwylio teledu gan ddarlledwyr nad ydynt yn rhai gwasanaeth cyhoeddus.[8] Mae'r rhan fwyaf o sianeli'n tueddu i fod wedi'u lleoli yn fyd-eang, yn bennaf yn Sweden, y DU ac UDA. Un o'r sianeli mwyaf yw Viaplay Group, grŵp cyfryngau ac adloniant o Sweden sydd â'i bencadlys yn Stockholm. Mae amrywiaeth o sianeli ar gael hefyd drwy danysgrifiad am dâl, gan gynnwys newyddion rhyngwladol, hanes, y BBC, CNBC, Sky, CBS. Rhai o'r gwasanaethau ffrydio sydd ar gael yn Nenmarc yw Netflix, HBO a TV2 Play, a Netflix yw'r un mwyaf poblogaidd (72% o'r holl unigolion), DRTV (50%), T2 Play (41%), Viaplay (40%), YouTube (38%), Disney+ (20%).

Mae 28% o Ddaniaid yn gwylio'r teledu ar y rhyngrwyd bron bob dydd gydag 17% arall yn gwylio fel hyn ddwy neu dair gwaith yr wythnos. Y defnyddwyr mwyaf cyffredin yw pobl ifanc 19-34 oed (87% ohonynt yn gwylio teledu ar-lein) a chynulleidfaoedd dros 71 sy'n gwneud y defnydd lleiaf o wasanaethau gwylio ar-lein (12%). Yn gyffredinol, teledu yw'r llwyfan sy'n cael ei ffafrio o hyd ar gyfer gwylio ffilmiau a chyfresi (83%) wedi'i ddilyn gan gyfrifiaduron (24%), ffonau clyfar (16%) a dyfeisiau tabled (14%). Y gwasanaethau/sianeli sy'n cael eu ffafrio yw gwasanaethau tanysgrifio am dâl – ee Netflix, HBO, TV2 Play (62%) gyda sianeli sy'n darlledu am ddim yn dynn ar eu sodlau (57%). Mae gwasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifio, yn hytrach na sianeli teledu masnachol, yn prysur ddod yn brif gystadleuydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Mae dau ddatblygiad diweddar wedi dangos y tensiynau cynyddol rhwng cewri newydd y cyfryngau byd-eang a diwydiant darlledu domestig Denmarc. Ym mis Mehefin 2022, yn dilyn

---

[4] Ravn-Højgaard, S. (2021) Media policy in Greenland.
[5] Standard Eurobarometer 96 – Winter 2021-2022 – Media Use in the European Union, tudalennau 9-27.
[6] Kantar Gallup/NORDICOM, arolwg Datblygiad y Cyfryngau yn Nenmark. Cyrchwyd drwy Statista.
[7] Arolwg cynulleidfa Nielsen, 28 Mawrth i 3 Ebrill 2022. Cyrchwyd drwy Statista.
[8] Ibid.

cytundeb fframwaith masnachu newydd rhwng cymdeithas cynhyrchwyr annibynnol Denmarc a chyrff eraill sy'n cynrychioli'r diwydiant, ataliodd Netflix a Viaplay bob comisiwn a chynhyrchiad presennol yn Nenmarc.[9] Roedd y cytundeb, a luniwyd fel datganiad o gydfargeinio gan rannau helaeth o ddiwydiant cynhyrchu Denmarc, yn ceisio gwarantu mwy o gydnabyddiaeth ar gyfer dosbarthu hawliau a ffrydio rhyngwladol – yn enwedig drwy gyfrifo enillion ar sail maint sylfaen tanysgrifwyr gwasanaethau ffrydio. Mae Viaplay wedi dadlau bod perygl i'r cytundeb wneud Denmarc yn "farchnad â blaenoriaeth isel mewn perthynas â buddsoddiadau mewn cynnwys lleol",[10] ac mae nifer o gwmnïau cynhyrchu o Ddenmarc wedi galw am ail-negodi'r cytundeb ar unwaith i sicrhau bod modd bwrw ymlaen â chomisiynau y cytunwyd arnynt, a rhai newydd yn y dyfodol.

Ar wahân i hynny, cyhoeddodd DR ym mis Rhagfyr 2022 gynlluniau i ddisodli ei floc rhaglenni plant 'Disney Fun' ar nos Wener gyda chyfran newydd o gynnwys wedi'i animeiddio i blant o Ddenmarc a'r gwledydd Nordig yn bennaf. Bwriad y newid strategol yw datblygu mwy o fuddsoddiad a chynyrchiadau o Ddenmarc ar gyfer plant, gyda phartneriaethau ag amryw o gronfeydd talent a chymdeithasau diwydiant. Er y bydd rhywfaint o gynnwys Disney (a chynhyrchwyr rhyngwladol eraill) yn dal i fod yn rhan o'r slot 'dod â'r teulu at ei gilydd' traddodiadol, bydd diwedd monopoli Disney (a'i afael ar hawliau ailddosbarthu) yn caniatáu i fwy o gynnwys i blant gael ei wylio ar lwyfan ffrydio ar-alw DRTV.[11] O ystyried y pryderon cynyddol am dra-arglwyddiaeth llond llaw o gwmnïau cynhyrchu a dosbarthu cyfryngau plant rhyngwladol ar draws y byd (a rheiny'n gwmnïau Americanaidd yn bennaf),[12] mae llwyddiant y newid sylweddol yn strategaeth DR yn debygol o gynnig gwersi gwerthfawr ar gyfer darparu cynnwys sy'n adlewyrchu bywydau a phrofiadau lleol unigryw plant yn eu gwledydd eu hunain yn well.

**<u>Deddfwriaeth, llywodraethu a rheoleiddio</u>**

Deddf Darlledu Radio a Theledu 2010[13] yw'r brif ddeddfwriaeth Daneg sy'n sefydlu DR a TV 2 fel darlledwyr cyhoeddus, ynghyd â rhoi manylion eu fframweithiau rheoleiddio a llywodraethu cysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn amlinellu dibenion cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus Denmarc fel darparu "ansawdd, hyblygrwydd ac amrywiaeth" ym mhob rhaglen, ynghyd â gwrthrychedd a diduedddrwydd mewn newyddion a chynnwys gwybodaeth a hyrwyddo iaith a diwylliant Denmarc. Ar wahân i hynny, sefydlodd Deddf Atebolrwydd y Cyfryngau 2018 (a gafodd ei rhoi ar waith yn wreiddiol yn 1992) Gyngor y Wasg Denmarc (*Pressenævnets*) fel y rheoleiddiwr ar gyfer holl gyfryngau Denmarc gan gynnwys teledu a radio (er nad yw'n cynnwys yr Ynys Las ac Ynysoedd Ffaro), gan nodi ei rôl o ran monitro moeseg y wasg a darpariaethau ar gyfer hawl statudol i ateb.[14]

Gwleidyddion sy'n gwneud y rhan fwyaf o benodiadau i Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar gyfer pob Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus. Y Gweinidog Diwylliant sy'n dewis tri o 11 cyfarwyddwr

---

[9] Nordisk Film & TV Fond/Annika Pham, 'Danish productions in turmoil – Netflix, Viaplay and TV 2 put commissioning on hold', 8 Mehefin 2022.
[10] Filippa Wallestam, 'Llythyr agored i Ddenmarc Greadigol a Chymdeithas y Cynhyrchwyr', 7 Mehefin 2022.
[11] Kidscreen/Cole Watson, 'DR drops Disney content and plans to invest locally', 1 Rhagfyr 2022. Gweler hefyd y cyhoeddiad ar broffil LinkedIn DR Sales.
[12] Ofcom (2019) Adolygiad o'r cynnwys i blant; Potters, A. a Steemers, J. (2019) Transforming Markets for Children's Television Industries; Steemers, J. (2019) Invisible Children: Inequalities in the Provision of Screen Content for Children.
[13] Gweinyddiaeth Ddiwylliant Denmarc, Radio and Television Broadcasting Act 2010.
[14] Deddf Atebolrwydd y Cyfryngau 2018.

DR (gan gynnwys y Cadeirydd), senedd Denmarc sy'n penodi chwech ohonynt ac mae'r ddau arall yn cael eu penodi drwy enwebiad gan staff parhaol DR ei hun. Mae Bwrdd DR yn gyfrifol am gyllideb y darlledwr ac yn penodi ei ffigurau rheoli cyffredinol creiddiol, ynghyd â golygydd gwrandawyr a gwylwyr. Yn TV 2, y Gweinidog sy'n penodi chwech o naw aelod y bwrdd ac mae'r tri arall yn cael eu penodi'n gynrychiolwyr y gweithwyr. Mae bwrdd TV 2 hefyd yn cyflogi golygydd gwylwyr fel monitor annibynnol ar gyfer cwynion gan gynulleidfaoedd a chydymffurfiaeth fewnol â safonau golygyddol/rhaglennu. Mae Deddf 2010 hefyd yn sefydlu'r Bwrdd Radio a Theledu, sy'n gweithredu fel y rheoleiddiwr cenedlaethol a chorff dyfarnu trwyddedau ar gyfer gwasanaethau darlledu daearol a digidol Denmarc. Mae ei fwrdd yn cynnwys saith penodiad gweinidogol ac phenodir un aelod gan Gymdeithas Gwrandawyr a Gwylwyr Denmarc, fforwm cydweithredol sy'n cwmpasu nifer o grwpiau cymdeithas sifil.[15]

Mae'n ofynnol i fyrddau llywodraethu dau Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus Denmarc arwain y gwaith o gyflawni (ac adrodd ar) y Contractau Gwasanaeth Cyhoeddus pedair blynedd a bennir gan y Weinyddiaeth Diwylliant ar gyfer y darlledwyr. Mae'r Contractau hyn yn rhoi manylion ar ddisgwyliadau'r llywodraeth o ran y gwasanaethau a'r cynnwys a ddarperir gan DR a TV 2 drwy gydol cyfnod eu contract, gyda'r polisi strategol ehangach ar gyfer y darlledwyr yn deillio o'r Cytundeb Cyfryngau cenedlaethol a negodwyd gan y pleidiau seneddol yn y glymblaid lywodraethol. Fel yr archwilir isod, fe wnaeth y Cytundeb Cyfryngau[16] diweddaraf a osodwyd ym mis Mawrth 2022 ddiwygio'r disgwyliadau gwasanaeth ar gyfer DR ymhellach yn dilyn diwygio a gostwng ei gyllid yn 2018.

Fodd bynnag, mae'r Cytundeb hwn hefyd yn dangos buddiannau a phryderon ehangach llywodraeth Denmarc ynghylch cynaliadwyedd ei marchnad cyfryngau domestig ac yn enwedig twf y cwmnïau technoleg a ffrydio mawr byd-eang. Mae'n cynnwys cynigion ar gyfer 'Canolfan Technoleg a Democratiaeth' weinidogol newydd, wedi'u dylunio (ymysg tasgau eraill i ganfod ffeithiau sy'n ymwneud â'r dirwedd ddigidol newydd) i ymchwilio a pharatoi ar gyfer mwy o awdurdod rheoleiddio dros gynnwys ac algorithmau defnyddwyr y cwmnïau technoleg mawr. Mae'r Cytundeb hefyd yn datgan bwriad y llywodraeth i adolygu cyfansoddiad a phenodiadau i fwrdd cyfarwyddwyr DR, gan ganolbwyntio ar wella cynrychiolaeth 'ar lawr gwlad' a chyflwyno terfynau cyfnod penodol. Mae cynigion y Cytundeb Cyfryngau ar gyfer 'Treth Gwasanaethau Ffrydio Digidol', sy'n manteisio ar y pwerau treth newydd a roddwyd o dan Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yr UE, wedi cael eu cyflwyno hefyd fel bil drafft.[17] Mae disgwyl i'r 'ardoll ddiwylliannol' newydd godi 170 miliwn DKK (€22 miliwn) o dreth o 6% ar drosiant cwmnïau fideo ar-alw yn Nenmarc. Byddai'r gyfraith arfaethedig hefyd yn mynnu bod y cwmnïau hyn yn darparu datganiadau ariannol wedi'u harchwilio'n annibynnol i Weinyddiaeth Ddiwylliant Denmarc.[18]

**Heriau i fodel darlledu gwasanaeth cyhoeddus Denmarc**

Yn 2018, cyflwynodd llywodraeth y Ceidwadwyr Rhyddfrydol ynghyd â phaid asgell dde, boblyddol Plaid Pobl Denmarc, Gytundeb i ddileu ffi'r drwydded DR yn raddol o 2018-22 a lleihau ei gyllideb o 20% hyd nes 2023. Caeodd DR rai o'i sianeli a diswyddo nifer sylweddol

---

[15] Fodd bynnag, hyd y gallwn weld, mae'n ymddangos bod y fforwm hwn wedi dod i ben neu'n anweithredol ac nid yw rôl bresennol ei gynrychiolaeth ar y Bwrdd Radio a Theledu yn glir.
[16] *Medieaftale for 2022-2025: Dendemokratiske samtale skal styrkes*, Y Weinyddiaeth Ddiwylliant 21 Mawrth 2022.
[17] *Høring over forslag til Lov om visse medietjenesteudbyderes bidrag til fremme af dansksproget indhold*, Y Weinyddiaeth Ddiwylliant.
[18] Bloomberg Tax/Poul Erik Lytken, 'Denmark considers implementing a Digital Streaming Services Tax', 18 Hydref 2022.

o'i weithwyr. Yn Nenmarc, dehonglwyd y newid o ffi Trwydded Deledu (a oedd yn berthnasol i bob dyfais a allai dderbyn darllediadau teledu, gan gynnwys ffonau clyfar) i drethu uniongyrchol, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2022, fel ymgais i leihau annibyniaeth DR fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a chyfyngu ar ei allu i ddal y llywodraeth i gyfrif.[19] O dan y model newydd hwn, ni fyddai cyllid DR yn dod o ffynhonnell wedi'i glustnodi (fel model y Ffindir), ar wahân i gyllideb ariannol y llywodraeth. Ofnai llawer y byddai hyn yn arwain at fwy o reolaeth wleidyddol dros DR.[20] Codwyd hyn fel testun pryder difrifol mewn trafodaethau dilynol ar draws y pleidiau ym mis Medi 2018. Ym mis Mehefin 2019, arweiniodd etholiad cyffredinol at lywodraeth leiafrifol newydd y Democratiaid Cymdeithasol mewn cydweithrediad ag amryw o bleidiau asgell chwith ac addewid o'r newydd i ailedrych ar frys ar gytundeb 2018.

Ar 21 Mai 2021, cyflwynodd y llywodraeth dan arweiniad y Democratiaid Cymdeithasol newid llwyr i bolisïau blaenorol y llywodraeth ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn ôl asesiad y Cytundeb Cyfryngau cenedlaethol newydd roedd y cytundeb blaenorol a'r diwygiadau cyllid yn gwanhau unrhyw sgwrs gyhoeddus rydd, ddemocrataidd a goleuedig. Mae'r datganiad polisi newydd yn datgan bod dyletswydd ar y llywodraeth i gynyddu'r gefnogaeth i gyfryngau annibynnol a rhad ac am ddim, yn enwedig y cyfryngau lleol a rhanbarthol "y mae eu modelau busnes yn cael eu herio fwyfwy gan y newidiadau a ddaeth yn sgil dyfodiad y cwmnïau technoleg mawr."

Ar adeg o newid technolegol cyflym, roedd y llofnodwyr yn dadlau fod angen diogelu cefnogaeth y llywodraeth i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, yn enwedig gan mai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus oedd yn parhau i fod yn fwyaf poblogaidd ac mai dyma oedd y ffynhonnell gyfryngau y mae poblogaeth Denmarc yn ymddiried fwyaf ynddi. Dylai'r wladwriaeth fanteisio ar gyfleoedd a ddaw yn sgil datblygiadau digidol i wella hygyrchedd i'r cyhoedd, yn enwedig i raglenni cylchgrawn, ffilmiau, cyfresi, rhaglenni dogfen ac adloniant holl bwysig o ansawdd uchel. Ar ben hynny, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnig gwasanaeth arbennig o bwysig i blant a phobl ifanc sy'n "teimlo canlyniadau" datblygiadau technolegol, gan gynnwys "ochr dywyll" hynny. Mae dyletswydd gofal ar y Llywodraeth i gynulleidfaoedd ifanc, gan gynnwys darparu "dewis arall gwirioneddol i lwyfannau'r cwmnïau technoleg mawr a'u cynnwys tramor." Mae'r Cytundeb hefyd yn awgrymu y dylid uwchraddio trefn y wladwriaeth o fonitro Gwasanaethau Fideo Ar-alw Drwy Danysgrifio a chwmnïau cyfryngau ar-lein mawr eraill i sicrhau eu bod yn gwasanaethu cynulleidfaoedd ifanc yn y ffordd orau.

Ar ben hynny, mae partïon y Cytundeb yn nodi bod cystadleuaeth ffyrnig yn arwain at gyfryngau darniog sy'n gallu "herio cydlyniad a'r sgwrs ddemocrataidd yn ein gwlad." Yr unig ateb i hyn yw cael sector darlledu gwasanaeth cyhoeddus gryf sy'n gwasanaethu'r wlad gyfan, yn apelio at blant a phobl ifanc, a "sy'n gallu ein denu o gwmpas man cychwyn cyffredin o ran diwylliant, cymdeithas a hanes Denmarc." Testun pryder arall a nodir yw'r Gwasanaethau Fideo Ar-alw Drwy Danysgrifio sy'n denu cyfran gynyddol o oriau gwylio teledu Denmarc. Y pryder yw bod y datblygiad hwn wedi bod ar draul llwyfannau cyfryngau Denmarc gan fod cynnwys fideo ar-alw drwy danysgrifio yn rhyngwladol yn bennaf, ac felly nid yw'n gwneud llawer o gyfraniad at ddiwylliant Denmarc. Dylai mwy o gefnogaeth i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus sicrhau bod y sector cyfryngau cynhenid yn cael ei gryfhau, a fyddai yn ei dro yn pwysleisio pwysigrwydd adlewyrchu bywyd Denmarc.

---

[19] Holtz-Bacha, C. (2021) The kiss of death: Public service media under right-wing populist attack.
[20] Steemers, J. (2020) The Funding of Public Service Broadcasting in Europe – Funding Systems and Decriminalisation – Selected Territories.

Mae'r Cytundeb yn mynd ymlaen i nodi gofynion ar gyfer y sector cyfryngau, gyda gofyniad pwysig fod gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yn cynhyrchu mwy o gynnwys o ansawdd uchel o Ddenmarc (yn unol â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol). Mae'r disgwyliad cynyddol hwn o "gyfraniad diwylliannol" hefyd yn cyflwyno ardoll o 6% ar drosiant Gwasanaethau Fideo Ar-alw Drwy Danysgrifio yn Nenmarc, gyda hanner yr elw hwn yn mynd i gefnogi moderneiddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus Denmarc a'r hanner arall yn ariannu "cronfa gwasanaeth cyhoeddus" estynedig. Bydd y gronfa hon yn darparu cymorthdaliadau ar gyfer ffilmiau gwreiddiol o Ddenmarc, mwy o gynyrchiadau radio a phodlediadau o Ddenmarc, rhaglenni ar gyfer plant a chynulleidfaoedd iau a chefnogaeth ar gyfer cynnwys arall mewn genres penodol. Mae gweddill y Cytundeb yn nodi'n fanwl ymrwymiadau'r llywodraeth i gefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn eang ar draws cynnwys cyfryngau, cyllid a rheoleiddio, gan gynnwys creu ombwdsmon cyfryngau newydd a rheolau diwygiedig ar gyfer fframwaith cyfrifyddu ariannol tryloyw.

Un pryder arbennig o berthnasol yng Nghytundeb 2022 yw fod masnacheiddio cynyddol a globaleiddio'r cynnwys cyfryngau sydd ar gael yn Nenmarc yn tanseilio lluosogaeth y cyfryngau, amrywiaeth ddiwylliannol, perthnasedd a natur unigryw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a chyfraniadau ehangach cyfryngau Denmarc i'r ymdeimlad o berthyn dinesig a chynhwysiant cymdeithasol. Mae DR a TV 2 yn dod yn fwyfwy agored i bwysau yn y farchnad, sy'n effeithio ar eu gallu i ymateb i newidiadau technolegol cynyddol. Yn yr un modd â systemau darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn nifer o farchnadoedd cyfryngau cenedlaethol eraill, mae perygl tymor hir na fydd gan gynulleidfaoedd iau - sy'n cael eu denu gan ystod ac amrywiaeth o ddewisiadau cyfryngau newydd sy'n cael eu cynnig gan ddarparwyr ar-lein byd-eang – fawr o deyrngarwch na ffafriaeth i ymyriadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus Denmarc yn y dyfodol.

## KNR: twf a dirywiad darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yr Ynys Las

Er gwaethaf ei hadnoddau prin a'r heriau cynhenid sy'n gysylltiedig â gwasanaethu poblogaeth fach dros ardal ddaearyddol sylweddol, mae KNR, darlledwr yr Ynys Las, wedi cyflawni rhai llwyddiannau nodedig dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2021, rhagorodd KNR ar ei ofynion gwasanaeth cyhoeddus dan gontract o ran yr oriau o gynnwys y mae'n ei gynhyrchu ei hun o 9% ar gyfer radio a 18% ar gyfer teledu – gyda rhaglenni newyddion, y celfyddydau a diwylliant a chynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc yn cael eu gwasanaethu'n arbennig o dda.[21] Mae KNR hefyd yn dal i fod yn ffynhonnell cyfryngau hanfodol sy'n cael ei defnyddio'n helaeth: gyda 88% o'r boblogaeth yn defnyddio teledu bob dydd, a 91% o'r gwylwyr hynny'n gwylio gwasanaethau teledu KNR. Maent hefyd yn cael sgoriau bodlonrwydd uchel ymysg gwylwyr.[22]

Mae strwythurau llywodraethu KNR wedi ei alluogi i ddod yn sefydliad pwysig (a gellid dadlau mai dyma'r prif sefydliad) ar gyfer gwarchod a hyrwyddo diwylliant yr Ynys Las ac iaith yr Ynys Las. Llywodraeth annibynnol yr Ynys Werdd (*Naalakkersuisut*) sy'n penodi dau o'r pum aelod ar ei fwrdd llywodraethu, ac mae'r tri arall yn cael eu henwebu ar sail cynrychiolaeth arbenigol, diwylliannol a staff: mae Prifysgol yr Ynys Las yn argymell cael un unigolyn gydag arbenigedd yn y cyfryngau lleol, un arall yn cael ei benodi gan fudiadau celfyddydol a diwylliannol cenedlaethol, a thrydydd yn cael ei benodi gan weithwyr parhaol KNR. Ynghyd â "Cyngor Defnyddwyr" o aelodau cymdeithas sifil a chymdeithasau lleol, mae bwrdd a rheolwyr KNR yn

---

[21] KNR Datganiad Gwasanaeth Cyhoeddus 2021, tud. 11.
[22]Epinion Arolwg gwylio a gwrando, Chwefror 2020.

dilyn polisi llym ar gyfer sicrhau bod darllediadau yn iaith yr Ynys Las yn gwneud defnydd cywir ac effeithiol o'r iaith mewn ffordd sy'n adlewyrchu ei defnydd presennol ac yn sicrhau ei bod yn hygyrch i bob cynulleidfa.[23] Mae strategaeth gwasanaeth cyhoeddus ehangach KNR yn pwysleisio bod y polisi iaith hwn yn gyfraniad diwylliannol pwysig ynddo'i hun, gan hyrwyddo dwyieithrwydd ac amlieithrwydd fel ffordd o gryfhau cydlyniant cymdeithasol ac annog cyfnewid diwylliannol, gan gynnal safbwyntiau a phrofiadau'r Ynys Las mewn cynyrchiadau gwreiddiol.

Fodd bynnag, mae'n anochel bod nifer o ffactorau'n cyfyngu ar yr ymdrechion hyn. Y cyntaf o'r rhain yw perthynas hyd braich KNR â llywodraeth yr Ynys Las, ac nad oes strategaeth hirdymor er mwyn datblygu KNR fel prif wasanaeth cyfryngau a sefydliad diwylliannol mwyaf blaenllaw yr Ynys Las. Fel y noda Ravn-Højgaard, nid yw polisi cyfryngau'r Ynys Las yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth wleidyddol ac, o'r herwydd, mae "rheoliadau cyfryngau'r Ynys Las yn aml yn cael eu rhoi ar waith yn sydyn i fynd i'r afael â phroblemau brys fesul achos".[24] Mae hyn hefyd yn arwain at faterion sy'n codi o grant cyllid cyhoeddus KNR, gydag adroddiad blynyddol y cwmni yn 2021 yn nodi y bydd cyllid ar gyfer gwasanaethau darlledu craidd "dan bwysau difrifol yn y blynyddoedd nesaf os na chynyddir y grantiau".[25] Er bod KNR yn cynhyrchu rhywfaint o refeniw hysbysebu, mae marchnad yr Ynys Las yn rhy fach i ddibynnu ar incwm masnachol ychwanegol fel dewis ymarferol yn lle cynyddu grantiau cyhoeddus. Boed hyn yn dod o lywodraethau'r Ynys Las neu Denmarc, neu drwy gynyddu'r cymhorthdal gan DR, cyfyngedig fyddai capasiti KNR o ran ei allu i ehangu yn y farchnad cyfryngau digidol sy'n esblygu (o ran gwasanaethu'r newid yn arferion cyfryngau ei chynulleidfaoedd) heb fuddsoddiad sylweddol.

Yn olaf, mae maint staff KNR a'u gallu i gadw talent yn her anoddach i gynaliadwyedd gwasanaeth cyfryngau cyhoeddus unigryw yr Ynys Las yn y dyfodol. Gydag ychydig llai na 100 o staff parhaol, gall trosiant staff a hyd yn oed salwch arwain at ymyriadau sylweddol ar wasanaethau KNR, gyda bwletinau newyddion dyddiol yn arbennig o agored i effaith newidiadau staffio annisgwyl. Mae cyflogau cymharol isel y sector cyhoeddus a "draen dawn" i Ddenmarc a chyfandir Ewrop yn cyfyngu ymhellach ar allu KNR i gadw talent olygyddol a chreadigol lleol, ac yn cynyddu'r ddibyniaeth ar 'fewnforio' cynnwys a staff sydd â gwybodaeth gyfyngedig am ddiwylliant neu iaith yr Ynys Las. O ystyried y sefyllfa gyfan, mae KNR yn ficrocosm unigryw o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n gyffredin i lawer o ddarlledwyr llai sy'n gwasanaethu cymunedau ieithyddol, diwylliannol neu ddaearyddol penodol.

---

[23] Polisi iaith KNR, '*sprogpolitik I KNR*'. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn deillio i raddau helaeth o ofynion o dan Ddeddf Iaith yr Ynys Las 2010.
[24] Ravn-Højgaard, S. (2021) Media policy in Greenland, tud. 47.
[25] KNR/Deloitte, Adroddiad Blynyddol 2021 (*Årsrapport* 2021), tud. 13.

# Gweriniaeth Iwerddon

**Demograffeg:**[1]

- Poblogaeth: 5.12 miliwn yn 2022, twf o 7.6% ers 2016.
- Ieithoedd: 1.76 miliwn o siaradwyr Gwyddeleg (39.8%). Mae 73,803 o bobl (1.44%) yn nodi eu bod yn siarad Gwyddeleg bob dydd.
- Ym mis Ebrill 2016, roedd 535,475 o wladolion nad ydynt yn Wyddelig yn byw yn Iwerddon. Roedd gwladolion o ddeg gwlad yn cyfrif am 70% o'r ffigur hwn, a'r grŵp mwyaf o'r rhain oedd gwladolion Pwylaidd (122,515 o bobl).

**Y prif ddarlledwyr:**

- *Raidio Teilifis Eireann* (**RTÉ**) – darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, a sefydlwyd yn 1961.

Mae RTÉ yn darlledu pedair sianel deledu a deg gorsaf radio FM/DAB – gan gynnwys *Raidió na Gaeltachta*, yr unig orsaf radio yn y Wyddeleg – ac mae'n gweithredu ei wasanaeth ffrydio byw/gwasanaeth darlledu fideo ar-alw ei hun o'r enw RTÉ Player. Mae RTÉ yn cael ei ariannu gan gymysgedd o ffioedd trwyddedau teledu (€196 miliwn yn 2021, 59% o'r cyfanswm) a refeniw masnachol (€148 miliwn), gyda'r rhan fwyaf o'r refeniw hwnnw'n dod o hysbysebion teledu.[2] Mae 92% o'r boblogaeth yn defnyddio un neu ragor o wasanaethau RTÉ bob wythnos, ac yn 2021 roedd RTÉ yn parhau i fod y ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir fwyaf ynddi yn Iwerddon.[3] Mae RTÉ yn cynhyrchu bwletinau newyddion dyddiol yn yr iaith Wyddeleg ar y teledu, *Nuacht*, a ddarlledir ar RTÉ One a TG4, ac mae hefyd yn darparu gwasanaeth newyddion ar-lein dyddiol penodol yn yr iaith Wyddeleg ar RTÉ.ie. Yn 2017, gwariodd RTÉ oddeutu €24 miliwn ar allbwn yn y Wyddeleg.[4] RTÉ sydd hefyd yn gweithredu SAORVIEW, gwasanaeth teledu daearol digidol rhad ac am ddim Iwerddon.

- *Telifis Na Gaeilge* (**TG4**) – darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, a sefydlwyd yn 1996.

TG4 yw darlledwr penodol yr iaith Wyddeleg yn Iwerddon, sy'n cael ei ystyried fel "y fuddugoliaeth allweddol a sicrhawyd gan ymgyrchwyr yr iaith Wyddeleg yn ystod y cyfnod o ffyniant economaidd yn Iwerddon".[5] Mae TG4 yn cael ei ariannu'n bennaf gan grant o €36.7 miliwn gan lywodraeth Iwerddon (87% o'r cyfanswm), gyda rhywfaint o incwm ychwanegol o hysbysebion a nawdd rhaglenni.[6] Ei unig sianel deledu yw'r chweched sianel fwyaf poblogaidd yn Iwerddon gyda chyfran gwylio gyfartalog o 1.83% ac, ynghyd â'i gwasanaeth ffrydio byw/darlledu fideo ar-alw yn cynnig cymysgedd o raglenni gwreiddiol yn y Wyddeleg, hawliau teledu byw ecsgliwsif ar gyfer cystadlaethau GAA, hurling a Phêl-droed Gwyddelig Merched, a chynnwys rhyngwladol wedi'i ddybio i'r Wyddeleg neu gydag is-deitlau yn y Wyddeleg. Ar ôl i'r llywodraeth gyhoeddi yng Nghyllideb 2023 y byddai'n darparu €7.3 o gyllid ychwanegol, bydd TG4 yn lansio sianel deledu newydd ar gyfer plant gan adeiladu ar y llinyn raglenni Cúla 4.[7]

---

[1] Ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Ganolog: Cyfrifiad Poblogaeth 2016 Proffil 10, Addysg, Sgiliau a'r Iaith Wyddeleg; Canlyniadau Rhagarweiniol Cyfrifiad Poblogaeth 2022 23 Mehefin.
[2] Adolygiad Ariannol RTÉ 2021.
[3] Adroddiad Blynyddol RTÉ 2021, tud. 20; Reuters Institute Digital News Report, tud. 86.
[4] Cynllun Iaith RTÉ 2019.
Ceallaigh, B. (2022) Neoliberalism and Language Shift: Lessons from the Republic of Ireland Post-2008.
[6] Adroddiad Blynyddol TG4 2021, tud. 27.
[7] Northern Ireland Screen, 'TG4 announces multiple commissioning rounds for new children's channel Cúla 4', Tachwedd 15 2022.

- **Virgin Media Television** – darlledwr masnachol, a sefydlwyd yn 1998.

Virgin Media Ireland yw'r darparwr teledu cebl digidol mwyaf yn y wlad ac mae'n cynnig rhyngrwyd band eang, teledu drwy dalu a gwasanaeth ffôn digidol i 1 miliwn o gwsmeriaid. Ei is-gwmni, y rhwydwaith teledu Virgin Media Television, yw prif ddarlledwr masnachol Iwerddon sy'n cynnig tair sianel deledu am ddim a'i lwyfan ffrydio byw/darlledu fideo ar-alw ei hun, Virgin Media Player. Gostyngodd y refeniw Virgin Media Television yn 2020, gan syrthio o €59 miliwn i €50 miliwn, gyda cholledion yn neidio o €1.6 i €16.1 miliwn. Mae'r rhwydwaith yn darlledu rhaglenni rhyngwladol yn bennaf (e.e. The Chase, Love Island) gyda rhywfaint o gynnwys wedi'i gynhyrchu'n ddomestig gan gynnwys Ireland AM, sioe deledu foreol boblogaidd. Yn 2016, fe wnaeth Virgin Media brynu UTV Ireland gan ITV plc, a wnaeth yn ei dro sicrhau cytundeb cyflenwi 10 mlynedd i'r darlledwr ar gyfer rhaglenni a gynhyrchir gan ITV, gan gynnwys Coronation Street ac Emmerdale. Mae'r rhwydwaith hefyd yn cynnig Virgin Media Sport a sianeli Chwaraeon eraill, gyda hawliau i ddarlledu Cynghrair y Pencampwyr UEFA a Chynghrair Europa yn fyw.

**Cyd-destun y farchnad**

Marchnad deledu genedlaethol Iwerddon yw un o'r rhai mwyaf cystadleuol yn Ewrop. Mae treiddiad uchel iawn o wasanaethau aml-sianel, teledu drwy dalu gan gwmnïau tramor a'u his-gwmnïau (e.e. Virgin Media Television Ltd, Sky Ireland), ynghyd â'r ganran fawr o gartrefi Gwyddelig sy'n tanysgrifio i un neu fwy o'r llwyfannau lloeren, cebl a fideo-ar-alw drwy danysgrifio.[8] Ar yr un pryd, mae strwythur y farchnad hon yn cynyddu cystadleuaeth ar gyfer prynu hawliau cynnwys ymysg darlledwyr Gwyddelig, a hefyd yn mynd â refeniw hysbysebu allan o farchnad Iwerddon. Cafodd y dirywiad economaidd yn Iwerddon (2008-2013) effaith ddifrifol ar y farchnad ar gyfer hysbysebion teledu, gyda gostyngiad o 25% mewn refeniw yn ystod y cyfnod hwnnw.[9] Cafodd y gostyngiad hwn effaith fawr ar y ddau ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn yr Iwerddon – RTÉ a TG4 – gan fod y naill a'r llall yn dibynnu'n fawr ar gyllid o hysbysebion i ategu refeniw ffi'r drwydded (yn achos RTÉ) a chyllid y llywodraeth.

Mae rhywfaint o adferiad wedi bod yn y farchnad hysbysebu gyda chynnydd mewn refeniw hysbysebion sbot a nawdd yn 2021,[10] ac mae teledu'n parhau i fod yn elfen amlwg yn niet cyfryngau cynulleidfaoedd Gwyddelig. Dywed TAM Ireland, yr asiantaeth genedlaethol ar gyfer mesur cynulleidfaoedd, fod ffigurau gwylio teledu llinol yn dal yn "eithriadol o gryf", er ei fod wedi'i wasgaru ar draws nifer o sianeli yr Iwerddon a'r DU, ac mae gan 86% o aelwydydd fynediad at wasanaethau darlledu fideo ar-alw ar set deledu.[11] Fel gwledydd eraill, trodd cynulleidfaoedd Gwyddelig fwyfwy at lwyfannau a gwasanaethau newydd yn ystod Covid, gyda 68% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn dweud eu bod yn gwylio cynnwys fideo o wasanaethau rhannu (YouTube, TikTok, ac ati), roedd 55% yn gwylio fideos ar-alw (o wasanaethau masnachol fel Netflix, Disney+, HBO GO, Amazon Prime) ac roedd un defnyddiwr y rhyngrwyd o bob dau yn gwylio teledu sy'n cael ei ffrydio ar y rhyngrwyd (byw

[8] Mediatique (2020) Annual Review of Performance and Public Funding of PSBs 2019 – A Report for the Broadcasting Authority of Ireland, tud. 3.
[9] Crowe Howarth (2013) Final Report to the Broadcasting Authority of Ireland in respect of a Statutory Review of the Sound and Vision Scheme. 10 Gorffennaf 2013.
[10] Irish Times/Laura Slattery, 'Irish advertising market to grow 10.9% this year', 9 Mawrth 2022.
[11] TAM Ireland (2021) TV Advertising in Ireland.

neu wasanaeth ar-alw gan ddarlledwyr teledu).[12] Unwaith eto, mae'r data hwn yn tynnu sylw at ba mor eithriadol o gystadleuol yw'r farchnad ar gyfer darlledu teledu yn Iwerddon.

Mae Cynllun Gweithredu Clyweledol 2018 yn nodi fframwaith strategol diweddaraf (a chyn y Pandemig) Iwerddon ar gyfer datblygu'r diwydiannau clyweledol yn Iwerddon.[13] Mae'r Cynllun, a gyhoeddwyd gan yr Adran Diwylliant, Treftadaeth a'r Gaeltacht, yn rhan o fframwaith polisi ehangach sy'n cynrychioli uchelgais i wneud Iwerddon yn "ganolfan Fyd-eang ar gyfer cynhyrchu Ffilmiau, Dramâu Teledu ac Animeiddio". Mae denu buddsoddiad tramor drwy ei system credyd treth 'Adran 481' wedi bod yn un o gonglfeini polisi diwylliannol ac economaidd Iwerddon ers cryn amser.[14] Mae hyn wedi denu buddsoddiad uchel ei broffil a mwy o wariant nag erioed i un o wledydd lleiaf Ewrop.[15] Mae hefyd wedi arwain at gynhyrchu cynnwys yn ddomestig sydd wedi ennill gwobrau, gan gynnwys y ffilm yn y Wyddeleg *An Cailín Ciúin* a ariannwyd gan TG4, Screen Ireland ac Awdurdod Darlledu Iwerddon.

Fodd bynnag, wrth gyflwyno'r naratif hwn o lwyddiant rhaid cofio cyflwr bregus ei system darlledu cyhoeddus, sef y prif ffynhonnell ar gyfer cynnwys yn y Wyddeleg a'r rhan fwyaf o'r cynnwys gwreiddiol a wneir yn Iwerddon ar gyfer cynulleidfaoedd Gwyddelig. Er bod y sector a llunwyr polisïau yn effro i'r amgylchedd cyfryngau sy'n newid ac yn barod i ymateb i hynny (fel sy'n wir am y fframwaith rheoleiddio sy'n cael ei ddatblygu, ac yn cael ei drafod isod), mae materion critigol sy'n tanseilio ymdrechion Iwerddon i fod yn farchnad cyfryngau lluosog, amrywiol a chynaliadwy.

**<u>Deddfwriaeth, llywodraethu a rheoleiddio</u>**

Sail gyfreithiol y system darlledu yn Iwerddon yw Deddf Darlledu 2009. Sefydlodd y Ddeddf **Awdurdod Darlledu Iwerddon** (BAI, *Údarás Craolacháin na hÉireann*) fel y prif awdurdod rheoleiddio darlledwyr, sy'n paratoi ac yn rheoleiddio amrywiaeth o godau a safonau sy'n ymwneud â chydbwysedd newyddion, rhaglenni plant a hysbysebu/noddi rhaglenni, ac mae'n dyfarnu cwynion cyhoeddus am gynnwys a ddarlledwyd. O'r naw aelod o Awdurdod gweithredol Awdurdod Darlledu Iwerddon, penodir pump yn uniongyrchol gan y Gweinidog dros Dwristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, y Gaeltacht, Chwaraeon a'r Cyfryngau, a phenodir y pedwar arall gan y Gweinidog drwy ymgynghori â'r cyd-bwyllgor yn yr Oireachtas, senedd genedlaethol Iwerddon.[16] Mae gan Awdurdod Darlledu Iwerddon gyfrifoldeb pellach dros roi trwyddedau i sianeli, gorsafoedd ac amlblecsau, ac mae ganddo'r pŵer i ddirwyo darlledwyr am dorri ei godau neu, neu ddiddymu trwyddedau darlledu'n llwyr mewn achosion eithafol.

Y Ddeddf Darlledu sydd hefyd yn sefydlu strwythurau corfforaethol dau ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus Iwerddon. Mae byrddau RTÉ a TG4 yn cynnwys chwe aelod a benodir yn uniongyrchol gan y llywodraeth a phedwar a benodir gan y llywodraeth drwy ymgynghoriad

---

[12] Central Statistics Office (2020) Information Society Statistics, Households 2020.
[13] DCHG (2018) Audiovisual Action Plan: Creative Ireland Programme Pillar 4. Gweler hefyd O'Brien, M. (2019) The Audiovisual Action Plan: A new audiovisul policy for Ireland.
[14] Mae 'Adran 481', a gyflwynwyd yn 2015, yn gredyd treth sy'n cynnig cymhelliad i gynhyrchu ffilmiau, dramâu teledu, animeiddio a rhaglenni dogfen creadigol yn Iwerddon. Mae cyfradd y gostyngiad treth werth 32-35% o'r gwariant cymwys yn Iwerddon. Mae'r credyd treth sy'n daladwy yn seiliedig ar gost pob aelod o'r cast a'r criw sy'n gweithio yn Iwerddon, beth bynnag fo'u cenedligrwydd. Mae prosiectau sy'n cael eu cynhyrchu i raddau helaeth yn y rhanbarthau (y tu allan i Ddulyn/Wicklow a Dinas a Sir Corc) yn elwa o gynnydd o hyd at 3% yn amodol ar ofynion penodol sy'n ymwneud â hyfforddiant.

[15] Screen Ireland (2021) Industry Insights.
[16] Deddf Darlledu 2009, §8(2)

â'r Oirachtas (y cyfan yn dilyn proses ddethol gystadleuol).[17] Mae'n rhaid i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus sefydlu ei Gyngor Cynulleidfa cynghorol ei hun, gyda'r darlledwr yn penodi 15 aelod i gynrychioli "y cyhoedd sy'n gwylio ac yn gwrando ac, yn benodol, cymunedau Gaeltacht a phobl sydd ag anabledd golwg neu glyw".[18]

Mewn perthynas â dibenion a chenhadaeth darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus Iwerddon, mae Deddf 2009 yn mynnu bod y ddau Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus yn ymatebol i fuddiannau a phryderon y gymuned gyfan, yn ymwybodol o'r angen i sicrhau dealltwriaeth a heddwch o fewn ynys Iwerddon gyfan, sicrhau bod y rhaglenni'n adlewyrchu'r elfennau amrywiol sy'n creu diwylliant pobl holl ynys Iwerddon, a rhoi ystyriaeth arbennig i'r elfennau sy'n gwahaniaethu'r diwylliant hwnnw ac yn arbennig i'r iaith Wyddeleg.

Mae darpariaethau TG4 o dan y Ddeddf yn cynnwys gofyniad ychwanegol i ddarparu rhaglenni cynhwysfawr ym meysydd newyddion, chwaraeon, adloniant, crefydd a gweithgareddau diwylliannol "yn bennaf yn yr iaith Wyddeleg" ac i "ddarparu ar gyfer disgwyliadau'r rheini o bob grŵp oedran yn y gymuned sydd â'r Wyddeleg fel eu dewis iaith neu sydd â diddordeb fel arall yn y Wyddeleg".

Mae'n ofynnol i RTÉ a TG4 gyhoeddi Datganiadau Gwasanaeth Cyhoeddus a Datganiadau Strategaeth pedair blynedd sy'n rhoi rhagor o fanylion am sut bydd eu gwasanaethau a'u rhaglenni penodol yn cyflawni ac yn hyrwyddo nodau gwasanaeth cyhoeddus.[19] Mae'n rhaid i'r ddau ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus hefyd baratoi Datganiad Blynyddol o Ymrwymiadau Perfformiad, sy'n nodi sut mae'r darlledwyr yn bwriadu cyflawni'r nodau a amlinellir yn y datganiadau strategaeth. Yna, mae Awdurdod Darlledu Iwerddon a'r Oirachtas yn defnyddio'r datganiadau blynyddol i graffu ar berfformiad a'i fonitro. Mae datganiadau blynyddol diweddar yn awgrymu bod dulliau amrywiol o ymdrin â'r math hwn o atebolrwydd gwasanaeth: Mae Datganiad Blynyddol o Ymrwymiadau Perfformiad diweddaraf RTÉ yn cynnwys ystod o dargedau gwasanaeth penodol (e.e. bod cyfran RTÉ o gynulleidfaoedd teledu yn o leiaf 27.5%), tra'i bod yn fwy arferol i Ymrwymiadau TG4 gynrychioli cynigion strategol ehangach ar gyfer ehangu neu ddatblygu gwasanaethau.[20] Canfu adolygiad gan ddadansoddwyr y diwydiant Mediatique fod y ddau ddarlledwr wedi "cyflawni eu targedau i raddau helaeth", er bod ganddynt bryderon amlwg ynghylch darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd ifanc, ac apelio atynt.[21]

**Diwygio system ffi'r drwydded deledu**

Un o brif ffynonellau cyllid y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn Iwerddon yw ffi'r drwydded, fel y deddfwyd yn Neddf Darlledu 2009. Cost y drwydded deledu yn Iwerddon yw €160 i gartrefi ac i fusnesau. Mae hawl gan ddinasyddion dros 70 oed i gael trwydded deledu am ddim o dan y pecyn Buddion i Aelwydydd. *An Post*, gwasanaeth post Iwerddon, sy'n gyfrifol am gyhoeddi trwyddedau teledu a chasglu ffioedd trwyddedau teledu. O ffi'r drwydded sy'n cael ei chasglu, mae 85% yn mynd i RTÉ i gyflawni ei ymrwymiadau Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, mae 7% arall yn cael ei dalu i Awdurdod Darlledu Iwerddon i weithredu'r Cynllun

---

[17] Gweler penodiad diweddar Cadeiryddion newydd RTÉ a TG4 gan y Gweinidog dros Dwristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, y Gaeltacht, Chwaraeon a'r Cyfryngau, mis Tachwedd 2022.
[18] Deddf Darlledu 2009, §96
[19] Gweler Datganiad Strategaeth RTÉ 2015-2019 a Datganiad Gwasanaeth Cyhoeddus TG4 2021.
[20] Gweler Ymrwymiadau Perfformiad RTÉ 2022 a Datganiad Ymrwymiadau Perfformiad TG4 ar gyfer 2017.
[21] Mediatique (2020) Annual Review of Performance and Public Funding of PSBs 2019 – A Report for the Broadcasting Authority of Ireland.

Cyllid Darlledu, ac mae *An Post* yn cael taliad o 6% am ei weithgarwch casglu trwyddedau teledu.

Awgrymodd asesiadau cychwynnol o RTÉ a TG4 eu bod wedi llwyddo i ymdopi'n gymharol dda â dirywiad economaidd 2008-2013 drwy dorri costau'n helaeth ac ehangu eu ffrydiau refeniw.[22] Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd tymor hir darlledu cyhoeddus yn Iwerddon wedi bod yn fater sy'n codi dro ar ôl tro (ac yn un anodd yn wleidyddol), yn enwedig mewn perthynas â'i gyllid. Ers blynyddoedd lawer, bu sefyllfa ariannol fregus RTÉ yn destun trafod cyhoeddus a bu craffu cyson ynghylch y ffordd mae'n gwario ei arian (e.e. cyflogau ar gyfer talentau allweddol). Mae un toriad ar ôl y llall wedi cael eu gwneud o fewn y darlledwr, ond mae consensws cyffredinol mai system ffi'r drwydded ei hun sydd wedi methu.

Yn dilyn y dirywiad economaidd, cyhoeddodd y llywodraeth gynlluniau i godi tâl ar bob prif breswylfa a busnesau penodol yn lle'r drwydded deledu, ond gohiriwyd y cynlluniau hynny wedyn. Yn 2017, cyhoeddodd adroddiad gan y Pwyllgor ar Gyfathrebu[23] unwaith eto nad oedd y model presennol o gyllido drwy'r drwydded deledu "yn addas i'r diben" ac argymhellwyd y dylid ei ddisodli gan ffi ddarlledu a fyddai'n cael ei chodi ar bob aelwyd. Ni ellir gorbwysleisio pa mor ddifrifol oedd y sefyllfa roedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynddi, fel y mae adroddiad Mediatique a gomisiynwyd gan y BAI yn rhybuddio:

> Fe wnaethom ni adolygu pa mor ddigonol a chynaliadwy oedd cyllid cyhoeddus ar gyfer RTÉ a TG4, a daethom i'r casgliad nad yw'r naill na'r llall yn cael digon o arian cyhoeddus ar hyn o bryd i gyflawni ei rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus i'r graddau llawnaf. Fodd bynnag, mae TG4 wedi gallu 'byw o fewn ei fodd' gyda'r cyllid cyhoeddus y mae'n ei dderbyn bob blwyddyn, ac rydym yn disgwyl y bydd yn gallu gwneud hynny yn y dyfodol. Golyga hyn, er nad yw'r cyllid y mae'n ei dderbyn yn ddigonol, bod gweithrediadau TG4 yn gynaliadwy o ran y swm a roddir. ...Ar y llaw arall, mae tanariannu yn RTÉ wedi arwain at sefyllfa lle mae'n anodd gweld sut gallai'r sefydliad barhau i fod yn gynaliadwy ar y lefel bresennol o gyllid cyhoeddus heb naill ai newid sylweddol yn ei elw masnachol neu wneud newidiadau i'w fandad gwasanaeth cyhoeddus (sy'n awgrymu newidiadau i faint a chwmpas ei weithgareddau). Mae hyn yn wir hyd yn oed gyda'r cwtogi sylweddol ar gostau a ragwelir yn y strategaeth ddiwygiedig.[24]

Er gwaethaf y rhybuddion llym, roedd y posibiliadau o newid y system yn dal i gael eu trafod yn 2022. Roedd Adroddiad diweddar y Comisiwn Cyfryngau yn ategu'r ffaith nad oedd system ffi'r drwydded deledu yn cynnig ffynhonnell cyllid cyhoeddus gynaliadwy.[25] Fel ei ragflaenwyr, argymhellodd y Comisiwn y dylid dileu'r system bresennol, gan nodi:

> Mae diffygion parhaus RTÉ yn symptom o her fwy dwys, y gellir ei gweld yn y rhyngweithio rhwng ei hincwm blynyddol sy'n gyfnewidiol ac anrhagweladwy, ei gostau gweithredu sefydlog uchel, ei rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus heriol a'r

---

[22] Crowe Howarth (2013) Final Report to the Broadcasting Authority of Ireland in respect of a Statutory Review of the Sound and Vision Scheme. 10 Gorffennaf 2013.
[23] Cyd-bwyllgor Cyfathrebu, Gweithredu ar yr Hinsawdd a'r Amgylchedd (2017) Adroddiad y Cyd-bwyllgor ar Ariannu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y Dyfodol. 28 Tachwedd 2017.
[24] Mediatique (2020) Annual Review of Performance and Public Funding of PSBs 2019 – A Report for the Broadcasting Authority of Ireland, paragraffau. 8.5-9.7.
[25] Sefydlwyd y Comisiwn ar Ddyfodol y Cyfryngau gan y Llywodraeth ym mis Medi 2020 a chyhoeddodd ei ganfyddiadau ym mis Gorffennaf 2022. Gofynnwyd i'r grŵp o arbenigwyr ddatblygu argymhellion ar gyllid cyhoeddus cynaliadwy a chymorth arall i sicrhau bod y cyfryngau yn Iwerddon yn parhau i fod yn hyfyw, yn annibynnol ac yn gallu cyflawni nodau gwasanaeth cyhoeddus. Gofynnwyd i'r Comisiwn hefyd wneud argymhellion penodol mewn perthynas â chyllid RTÉ.

> angen brys cynyddol am fuddsoddiad cyfalaf i liniaru a gwrthdroi effaith tanfuddsoddiad cronig.

Roedd yr adroddiad yn argymell y dylid disodli'r system yn y tymor byr gyda chyllid gan y Trysorlys ac y byddai cyllid o 2024 ymlaen yn dod o refeniw treth cyffredinol, gydag threthi'n cael eu haddasu, os oes angen, i dalu'r gost hon.[26] Argymhellwyd cyflwyno mesurau diogelu ychwanegol hefyd i sicrhau annibyniaeth olygyddol a gwerth am arian i'r trethdalwr.

Serch hynny, penderfynodd y llywodraeth yn ei ymateb i'r adroddiad i beidio â chael gwared ar ffi'r drwydded – un o'r unig argymhellion yn adroddiad y Comisiwn Cyfryngau a wrthodwyd ganddynt. Wrth siarad am y penderfyniad, dywedodd y Taoiseach Micheál Martin fod cael gwared â ffi'r drwydded a chael y trethdalwr i ariannu RTÉ yn llawn yn "peryglu democratiaeth" ac "nad oedd yn realistig", gan ychwanegu:

> Gallai fod yn demtasiwn i unrhyw lywodraeth yn y dyfodol leihau cyllid y cyfryngau yn sylweddol neu gymryd camau o'r fath os nad oedd yn hoffi gogwydd penodol y cyfryngau ar unrhyw adeg benodol.[27]

Ychwanegodd Catherine Martin, y Gweinidog dros Dwristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, y Gaeltacht, Chwaraeon a'r Cyfryngau, fod y Llywodraeth wedi cytuno i gadw ffi'r drwydded deledu, ond y byddai'n ei diwygio drwy weithgor technegol a fydd yn edrych ar sut i gynyddu refeniw o ffi'r drwydded a gwneud y system yn fwy teg a chynaliadwy. Bydd y grŵp technegol yn cynnwys y Comisiynwyr Refeniw, ComReg (y Comisiwn Rheoleiddio Cyfathrebiadau) ac *An Post*, a bydd yn adrodd yn ôl i'r Cabinet ym mis Mawrth 2023.[28] Mae degawd o ddadlau a diffyg gweithredu gwleidyddol mewn perthynas â ffi'r drwydded yn parhau.

Mae sawl ffactor sy'n sail i'r gwendidau yn y system gyllido yn Iwerddon. Mae'n debygol bod rhai ffactorau yn effeithio ar farchnadoedd darlledu mewn gwledydd bach, gan gynnwys: marchnad hysbysebu fach lle mae gostyngiad yn hyder y defnyddwyr a'r symudiad i wasanaethau digidol yn bygwth refeniw hysbysebion a ddarlledir; yr angen am fuddsoddiad parhaus mewn seilwaith digidol (e.e. buddsoddi yn RTÉ Player a TG4 Player); pwysau chwyddiant mewn perthynas â chostau rhaglenni o ran y gystadleuaeth am hawliau gyda darparwyr trawswladol a chostau cynhyrchu cynyddol oherwydd y farchnad gynyddol ar gyfer buddsoddiad o'r tu allan mewn cynnwys o ansawdd uchel (e.e. ffilmiwyd *Vikings*, *Penny Dreadful*, *The Borgias*, *Game of Thrones*, a *Star Wars* i gyd yn yr Iwerddon).

Fodd bynnag, un ffactor hollbwysig sy'n unigryw i Iwerddon yw'r graddau y mae pobl yn osgoi talu ffi'r drwydded. Mae'r Undeb Ddarlledu Ewropeaidd yn amcangyfrif nad yw tua 15% o'r aelwydydd a ddylai dalu am y drwydded yn gwneud hynny. [29] I roi cyd-destun, ychydig dros 7% yw'r ffigur hwn yn y DU. Mae'r Undeb Ddarlledu Ewropeaidd yn nodi bod lefelau'r osgoi yn Iwerddon yn sylweddol uwch na gwledydd eraill yr UE.[30] Mae Adroddiad Blynyddol RTÉ yn

---

[26] Yn y cyfnod hyd nes 2024, argymhellodd y Comisiwn y dylid darparu cyllid cyhoeddus ychwanegol yn achos RTÉ, a fyddai'n €219 miliwn yn 2021, €213 miliwn yn 2022 a €214 miliwn yn 2023. Yn achos TG4, dylai cyfanswm y cyllid cyhoeddus fod yn €40.7 miliwn yn 2021, €44.7 miliwn yn 2022 a €48.7 miliwn yn 2023.
Dyfynnwyd yn yr Irish Examiner/Daniel McConnell, 'Abolishing TV licence fee "a danger to democracy" – Taoiseach', 12 Gorffennaf 2022.
[28] Irish Times/Laura Slattery, 'Government promises to reform TV licence fee by third quarter of 2024', 18 Ionawr 2023.
[29] Ffigur a ddyfynnir yn Murray, S. (2022) RTÉ and the licence fee issue: What does the future hold for the broadcaster? The Irish Examiner, 24 Gorffennaf 2022.
[30] Horgan-Jones, J. (2019) Ex-RTÉ chiefs call for political leadership to solve broadcaster's 'dilemma'. The Irish Times, 12 Tachwedd 2022.

ychwanegu mai nifer y cartrefi heb deledu (yr unig ddyfais y mae'r drwydded yn cael ei chyhoeddi ar ei chyfer) yw 15%, a bod y costau casglu'r ffi yn Iwerddon yn fwy na dwbl systemau Ewropeaidd eraill.[31] Yn yr UE, dim ond Iwerddon a thair gwlad arall sydd hefyd yn defnyddio ffi'r drwydded i ariannu'r rheoleiddiwr. Mae hyn yn golygu bod gollyngiadau cronig yn system ffi'r drwydded deledu yn Iwerddon, ac amcangyfrifir bod tua €65 miliwn yn cael ei golli bob blwyddyn.[32]

Mae ansicrwydd y system gyllido wedi effeithio'n ddifrifol ar allu RTÉ i gystadlu ac, ymysg pethau eraill, ar y cynnwys mae'n ei ddarparu yn y Wyddeleg. O ganlyniad i'r gostyngiad cyffredinol mewn incwm ar gyfer RTÉ, yn ogystal â thoriadau i gymorth uniongyrchol gan y wladwriaeth, bu gostyngiad o 8% yn y gyllideb gyffredinol rhwng 2008 a 2012, ond bu gostyngiad o 20% yn y gyllideb ar gyfer y Wyddeleg.[33] Mae *Raidio na Gaeltachta*, yr unig orsaf radio cyfrwng Gwyddeleg, wedi derbyn elfen sylweddol o'r toriadau hyn, gyda gostyngiad o 30-40% yn nifer y staff yn ystod y cyfnod hwn. Fe wnaeth y Comisiwn Cyfryngau diweddar gydnabod fod strategaeth dymor hir y darlledwr wedi gostwng darpariaeth yn y Wyddeleg a gwthio'r ddarpariaeth honno i'r cyrion, gan argymell y dylai'r rheoleiddiwr cyfryngau newydd yn Iwerddon gael y cyfrifoldeb o sicrhau bod RTÉ yn rhoi mwy o flaenoriaeth i'r Wyddeleg yn ei rhaglenni cyffredinol ac yn gwneud hynny ar bob llwyfan, ac y dylid neilltuo'r cyfrifoldeb dros holl Gynnwys Gwyddeleg i uwch weithredwr.[34]

Nid yw effaith y system gyllido sydd wedi methu ar ddarpariaeth yn y Wyddeleg yn gyfyngedig i RTÉ. Mae TG4 yn derbyn 365 awr o raglenni yn y Wyddeleg gan RTÉ bob blwyddyn, am ddim cost i TG4, trefniant a nodir yn Neddf Darlledu 2009. Fodd bynnag, gostyngodd RTÉ ei gefnogaeth i TG4 yn 2019 a 2020. Yn 2019, dyfarnodd y *Coimisineir Teanga* (Comisiynydd yr Iaith Wyddeleg) nad oedd RTÉ yn cyflawni ei ddyletswydd statudol o ran creu rhaglenni teledu yn y Wyddeleg, gan gynnwys yn ei ddarpariaeth o gynnwys newyddion i TG4. Ymatebodd RTÉ drwy nodi fod y ffaith eu bod wedi colli dros €100 miliwn yn rhan o'r rheswm dros y gostyngiad hwn.[35]

**Fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer yr 'Oes Ddigidol'**

Mae'r sector cyfryngau'n gweithredu mewn amgylchedd rheoleiddio anwastad iawn. Ar y naill law, mae rhai cyfryngau fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn destun rheoleiddio statudol helaeth; mae gweithredwyr cyfryngau eraill fel cwmnïau cyfryngau cymdeithasol yn rhwym wrth godau hunanreoleiddio ac maent yn dal y tu allan i systemau cenedlaethol a rhyngwladol o lywodraethu'r cyfryngau i raddau helaeth. Mae Iwerddon yn arbennig o nodedig o ran ei sefyllfa reoleiddiol gan ei bod yn gartref i bencadlysoedd Ewropeaidd rhai o gwmnïau technoleg mwyaf y byd (e.e. Google, Apple, Facebook, Twitter, Paypal). Mae hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldeb iddo o ran datblygu atebolrwydd effeithiol dros lwyfannau, ond hefyd y posibilrwydd i fod yn ganolbwynt ar gyfer arloesi ym maes diogelwch ar-lein.

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Iwerddon y Cynllun Cyffredinol ar gyfer y Bil Rheoleiddio'r Cyfryngau a Diogelwch Ar-lein (OSMR).[36] Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn,

---

[31] RTÉ (2021) Annual Report and Group Financial Statements 2021, tud. 23.
[32] Public Media Alliance, 'Ireland: RTÉ pushing for changes to funding', 3 Chwefror 2022.
[33] Ó Ceallaigh, B. (2022) Neoliberalism and Language Shift: Lessons from the Republic of Ireland Post-2008, tud. 80.
[34] Report of the Future of Media Commission, tud. 6.
[35] Irish Times/Éanna Ó Caollaí, 'RTÉ's Irish language output "seriously deficient", says commissioner', 4 Ebrill 2019.
[36] Tŷ'r Oirachtais Bil Rheoleiddio'r Cyfryngau a Diogelwch Ar-lein (OSMR) 2022.

roedd y bil gerbron Dáil Éireann, is-dŷ'r Oirachtas. Mae'r Cynllun Cyffredinol hwn yn cynnig trosi'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol i Gyfraith Iwerddon a gwneud darpariaethau i reoleiddio diogelwch ar-lein yn Iwerddon. Bydd corff newydd, Comisiwn y Cyfryngau (*Coimisiún na Meán*), yn ysgwyddo rôl a chyfrifoldebau Awdurdod Darlledu Iwerddon, a bydd hefyd yn ymgorffori'r Comisiwn Diogelwch Ar-lein, gan gynnwys penodi Comisiynydd Diogelwch Ar-lein. Bwriad creu'r rheoleiddiwr newydd hwn sy'n niwtral o ran llwyfannau yw diweddaru'r ffordd mae darlledwyr radio a theledu, gwasanaethau ar-alw, llwyfannau rhannu fideos yn cael eu rheoleiddio yn Iwerddon.

Ar ben hynny, bydd y Comisiwn Cyfryngau a fydd yn cael ei greu yn gyfrifol am reoleiddio llawer o'r prif gwmnïau cyfryngau cymdeithasol ar ran holl aelod-wladwriaethau'r UE. Er enghraifft, bydd yn rhaid i'r comisiwn sicrhau bod gwasanaethau fideo ar-alw yn cydymffurfio â holl ofynion y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol, gan gynnwys bod o leiaf 30% o'u catalog yn waith Ewropeaidd. Bydd y Comisiwn Cyfryngau hefyd yn creu Codau a Rheolau Cyfryngau a fydd yn cyfarwyddo'r safonau y mae'n rhaid i ddarlledwyr a gwasanaethau lynu wrthynt mewn perthynas â chynnwys rhaglenni. Byddant yn gallu ymchwilio i gydymffurfiad gwasanaethau cyfryngau clyweledol â Chodau Cyfryngau, Rheolau'r Cyfryngau, ar eu liwt eu hunain ac ar sail cwyn. Rhai o'r sancsiynau a fydd ar gael i'r Comisiwn Cyfryngau fyddai rhoi dirwy o hyd at €20 miliwn neu 10% o'r trosiant.

Gan nad yw'r Comisiwn Cyfryngau wedi'i sefydlu eto, mae Awdurdod Darlledu Iwerddon yn parhau â'i gylch gwaith rheoleiddio presennol. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio gwasanaethau teledu a radio cyhoeddus, masnachol a chymunedol, gwneud rheolau a chodau darlledu, a darparu cyllid ar gyfer rhaglenni sy'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth Iwerddon a'r Wyddeleg. Y prif ymyriad y mae Awdurdod Darlledu Iwerddon yn ei wneud mewn perthynas â'r rôl olaf hon yw'r Cynllun Sain a Gweledol. Mae'r Cynllun yn cynnig cyllid grant i raglenni teledu a radio newydd sy'n cael eu hariannu gan y Gronfa Ddarlledu (7% o'r derbyniadau net blynyddol o ffioedd trwyddedau teledu).[37] Datblygu rhaglenni yn y Wyddeleg yw un o amcanion y cynllun. Mae Awdurdod Darlledu Iwerddon yn dyrannu arian gan ddefnyddio system rowndiau cyllido ac ar gyfer pob rownd, mae'r Awdurdod yn pennu faint o gyllid sydd ar gael a'r mathau o geisiadau y gellir eu cyflwyno (er enghraifft, dan Rownd 44 y Cynllun ym mis Mai 2022, roedd y cyllid yn canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd a gweithredu ynglŷn â'r hinsawdd).

Mae'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Sain a Gweledol yn debygol iawn o gael ei drosglwyddo o Awdurdod Darlledu Iwerddon i'r Comisiwn Cyfryngau newydd. Yn wir, mae Adroddiad y Comisiwn Cyfryngau yn dadlau mewn perthynas â darpariaeth Wyddeleg, y dylai'r rheoleiddiwr fel rhan o'i gamau gweithredu newydd:

- Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau yn y Wyddeleg sy'n cael eu darparu ar draws y system cyfryngau, gan gynnwys rolau TG4 a RTÉ, cyfleoedd ar gyfer cydweithio, strategaethau ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc, a strategaethau i gefnogi addysg yn y Wyddeleg.
- Sicrhau bod 25% o gyllid Sain a Gweledol yn cael ei ddyrannu i gynnwys yn y Wyddeleg, ac ystyried cynyddu hynny ymhellach.
- Cryfhau ei gapasiti mewnol ar gyfer ymchwil a gwerthuso.

[37] Sefydlwyd y Gronfa o dan Ddeddf Darlledu (Cyllido) 2003, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Darlledu Iwerddon wahodd ceisiadau am gyllid ar gyfer rhaglenni sy'n cefnogi diwylliant, treftadaeth a'r profiad Gwyddelig, llythrennedd oedolion ac archifo cynnwys.

Yng Nghyllideb 2022, dyrannodd y Llywodraeth €5.5 miliwn i gefnogi'r gwaith o sefydlu'r rheoleiddiwr newydd hwn. Bydd gwaith parhaus y Comisiwn Cyfryngau yn cael ei ariannu drwy gyflwyno ardollau ar y diwydiant. Yn hanesyddol, darlledwyr traddodiadol sydd wedi talu'r ardollau, ond bydd gwasanaethau fideo ar-alw a gwasanaethau ar-lein dynodedig hefyd yn talu'r ardoll nawr.

# Estonia

**Demograffeg:**[1]

- Poblogaeth: 1.33 miliwn yn 2021, twf o 1.2% ers 2016.
- Ieithoedd: 1.1 miliwn o siaradwyr Estoneg (84%, 67% fel 'mamiaith' ac 17% fel iaith dramor), mae 406,000 (30%) o bobl yn datgan mai Rwsieg yw eu 'mamiaith'.[2]
- Y 919,000 o ddinasyddion Estonia sy'n byw yn y wlad (69.1% o'r cyfanswm) sy'n cyfrif am y mwyafrif helaeth o'r 1.1 miliwn o bobl o darddiad Estonaidd sy'n byw ledled y byd yn ôl yr amcangyfrifon.[3]
- Mae 315,000 o ddinasyddion ethnig Rwsiaidd yn byw yn Estonia, sef 23.7% o gyfanswm poblogaeth Estonia a 77.8% o'r lleiafrifoedd nad ydynt yn Estonaidd.

**Y prif ddarlledwyr:**

- *Eesti Rahvusringhääling* (**ERR**) – darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, a sefydlwyd yn 2007.

Yn 2007, unwyd darlledwyr teledu a radio cyhoeddus Estonia i greu yn *Eesti Rahvusringhääling* (Darlledu Cyhoeddus Estonia neu ERR). Ariennir ERR drwy ddyraniad yng nghyllideb y wladwriaeth, gyda'r Weinyddiaeth Diwylliant a'r Weinyddiaeth Gyllid yn pennu lefel y cyllid blynyddol. Cyfanswm cyllideb ERR yn 2022 oedd €45.99 miliwn, sy'n cyfateb i'r gost fisol o €2.87 am bob dinesydd o Estonia (6% yn is na'r cyfartaledd Ewropeaidd).[4] Mae Deddf Darlledu Cyhoeddus Estonia yn nodi amcanion craidd ERR: cefnogi datblygiad iaith a diwylliant Estonia, cynyddu cydlyniant cymdeithasol, darparu newyddion cytbwys a chywir, gwarantu mynediad cyffredinol at wybodaeth, a "gwella'r model o gymdeithas sy'n seiliedig ar deuluoedd".[5]

Er mwyn cyflawni ei nodau gwasanaeth cyhoeddus, mae ERR yn gweithredu cyfres o wasanaethau darlledu ac ar-lein cenedlaethol:

- **ETV** – sianel deledu DTV am ddim, sy'n darlledu cymysgedd o gyfresi ffuglen, adloniant gwybodaeth, rhaglenni dogfen a rhaglenni newyddion/materion cyfoes.
- **ETV2** – sianel deledu DTV am ddim a lansiwyd yn 2008, yn darlledu rhaglenni ar gyfer plant yn bennaf, yn ogystal â chynnwys diwylliannol, crefyddol ac addysgol.
- **ETV+** – sianel deledu ddigidol am ddim yn yr iaith Rwsieg a lansiwyd yn 2015, yn darlledu cynnwys ffuglennol ac adloniant ynghyd â bwletinau o'r rhifyn Rwsieg o raglen newyddion ddyddiol ERR,*Aktuaalne Kaamera*.
- Pum gorsaf radio: **Vikerraadio** (fformat cymysg), **Raadio 2** (gorsaf sy'n canolbwyntio ar gynulleidfaoedd ifanc), **Klassikaraadio** (cerddoriaeth glasurol, gwerin a jazz), **Raadio 4** (rhaglenni ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n siarad Rwsieg a chymunedau

---

[1] Ffigurau o Statistics Estonia, cyfrifiad cenedlaethol 2022.
[2] Cronfa ddata'r cyfrifiad cenedlaethol RL227
[3] Ffigurau o gyfrifiad cenedlaethol 2022, Statistics Estonia. Gweler hefyd "The global Estonian diaspora", Gweinyddiaeth Materion Tramor Estonia.
[4] *Eesti Rahvusringhäälingu eelarve*. Cafodd cyllideb gychwynnol ERR ar gyfer 2022, y cytunwyd arni ym mis Rhagfyr 2021, ei diwygio ym mis Ebrill 2022 i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau a rhaglenni Rwsieg ERR. Cymerir cyllid cyfartalog yr UE o adroddiad Undeb Ddarlledu Ewrop (2022) Funding of Public Service Media, Mawrth 2022.
[5] Erthyglau 4 a 6 *Eesti Rahvusringhäälingu seadus*.

tafodieithau lleiafrifol Estonia) a **Radio Tallinn** (gwasanaeth i wrandawyr rhyngwladol sy'n debyg i'r BBC World Service).[6]

- **ERR.ee**, porth cyfryngau a newyddion ar-lein, gan gynnwys fersiynau yn yr ieithoedd Rwsieg a Saesneg.
- **Jupiter**, llwyfan ffrydio fideo ar-alw ERR a lansiwyd yn 2020, a **Lasteekraan**, canolbwynt penodol i wasanaethau ar-alw a gweithgareddau ar gyfer plant.

## Cyd-destun y farchnad

Er mai ERR sy'n darparu'r unig sianeli teledu am ddim sydd ar gael i gynulleidfaoedd o Estonia, yn 2019, gwasanaethwyd marchnad cyfryngau Estonia gan dros 350 o sianeli domestig a rhyngwladol ar draws gwasanaethau cebl, lloeren ac ar-alw, gyda dim ond 36 o'r rhain yn cael eu darlledu yn yr iaith Estoneg.[7] Daw prif gystadleuaeth ddomestig ERR o'r rhwydweithiau cyfryngau sy'n cael eu harwain gan Kanal 2 a TV3, sianeli teledu drwy dalu masnachol sy'n eiddo i'r cwmni cyfryngau Estonaidd, Grŵp Postimees a'r cwmni buddsoddi preifat byd-eang Providence Equity Partners. Y tu hwnt i ERR, mae lefelau uchel o berchnogaeth wedi'i grynhoi ar draws y cyfryngau ym marchnad gyfryngau fechan Estonia, gyda Grŵp Postimees a'r cyhoeddwyr Grŵp Ekspress yn dominyddu'r diwydiannau darlledu a phrint masnachol.[8]

Mae'r ffigurau gwylio sydd ar gael yn awgrymu mai sianeli a gorsafoedd ERR yw'r gwasanaethau darlledu sy'n cael eu defnyddio amlaf gan gynulleidfaoedd Estonia – yn 2018 cafodd y tair sianel EER gyfran o 19% o'r gynulleidfa, o'i gymharu â 14% a 12% ar gyfer rhwydweithiau Kanal 2 a TV3 yn y drefn honno.[9] Honnir mai *Vikerraadio* yw'r orsaf radio y gwrandewir fwyaf arni yn Estonia, gyda chynulleidfa wythnosol o 230,000 o wrandawyr o'i gymharu â 212,000 ar gyfer Sky Plus a 186,000 ar gyfer Radio Elmar.[10] O'i gymharu â darlledwyr masnachol Estonia, mae ERR yn darlledu dwywaith cymaint o gynnwys newyddion bob dydd ar gyfartaledd ar draws ei bortffolio teledu a radio, yn ogystal â bron i dair gwaith cymaint o raglenni diwylliannol a saith gwaith cymaint o gynnwys llawn gwybodaeth a rhaglenni dogfen.[11] Mae cynnwys ar sianeli ERR yn cynnwys cyfran llawer llai o raglenni tramor wedi'u mewnforio/caffael na darlledwyr masnachol fel Kanal 2. Fodd bynnag, dros y degawd diwethaf, bu gostyngiad mewn cynnwys gwreiddiol o Estonia fel cyfran o holl allbwn ERR, a bu cynnydd graddol yn yr amser ar yr awyr a roddir i gynnwys wedi'i fewnforio ar ETV2 ac ETV+.[12]

Er ei fod yn cael ei ystyried yn arweinydd byd-eang o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n ddigidol, mae'n ymddangos mai nifer cymharol fach sy'n defnyddio gwasanaethau cyfryngau digidol newydd yn Estonia. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod tua 300,000 o bobl yn Estonia (22%) yn defnyddio gwasanaethau fideo ar-alw, gydag ymchwil

---

[6] Loit (2012) Radio in Estonia: Meagre but Enduring.
[7] Ffigurau o gronfa ddata MAVISE yr Arsyllfa Clyweledol Ewropeaidd, a gasglwyd gan Jõesaar (2022) Building Bridges: Estonian- and Russian-speaking TV Audiences, tud. 84.
[8] Loit a Harro-Loit (2016) Media Pluralism Monitor – Country Report: Estonia; Loit, Lauk a Harro-Loit (2018) Estonia: Conflicting views on accountability practices (yn yr European Handbook of Media Accountability, tudalennau 63-72).
[9] Kantar Emor, ffigyrau a ddyfynnir yn Jõesaar and Kõuts-Klemm (2019) Is the role of Public Service Media in Estonia changing?, tud 106. Gweler hefyd Arsyllfa Clyweledol Ewrop (2022) Yearbook 2021/2022 Key Trends, tud. 32.
[10] ERR News, Vikerraadio ranked Estonia's most popular radio station, 11 Gorffennaf 2022.
[11] Cronfa ddata'r cyfrifiad cenedlaethol KU16.
[12] Ibrus et al. (2022) Quantifying public value creation by public service media using big programming data, tud. 14.

gan gwmni telegyfathrebiadau Estonia, Elisa, yn awgrymu mai YouTube yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio amlaf o bell ffordd.[13] Fodd bynnag, nid oes data annibynnol sylweddol eto i ddangos y defnydd tymor hwy neu'r newid yn y nifer sy'n defnyddio gwahanol lwyfannau fideo ar-alw – gan gynnwys gwasanaethau domestig fel gwasanaeth Jupiter ERR – nac i ba raddau y mae cynulleidfaoedd Estonia yn rhannu eu harferion defnyddio rhwng darparwyr darlledu a darparwyr ar-lein.

**Deddfwriaeth, llywodraethu a rheoleiddio**

Yn yr un modd â gwledydd llai eraill yr UE, sbardunwyd y broses o ddatblygu trefn reoleiddio darlledu yn Estonia gan y gwrthdaro rhwng (a) cynnal ecoleg cyfryngau domestig sy'n wahanol yn ddiwylliannol a (b) cyd-fynd yn agosach â chyfarwyddebau polisi'r UE o ryddfrydoli cyfryngau a chael marchnad cyfryngau rydd.[14] O 2000 ymlaen, mae dadreoleiddio trwyddedau darlledu a diwygiadau deddfwriaethol wedi arwain at fynd ati'n raddol i gael gwared ag ymyriadau gwasanaeth cyhoeddus.[15] Ym mis Chwefror 2022, lleihawyd y cwota a oedd yn mynnu bod pob darlledwr yn darparu o leiaf 5% o amser ar yr awyr dyddiol yn benodol ar gyfer newyddion i 2%, a phan roddodd Estonia Gyfarwyddeb Cyfryngau Clyweledol yr UE ar waith drwy Ddeddf Gwasanaethau Cyfryngau 2010 lleihawyd y gofyniad i ddarlledwyr gynnwys 'eu cynyrchiadau eu hunain' – cynnwys sy'n ymwneud â materion cyfoes neu dreftadaeth ddiwylliannol Estonia – o 25% o raglenni misol i ddim ond 10%.[16] Mae grwpiau cyfryngau masnachol wedi defnyddio'r newid yn y dirwedd economaidd a pholisi i ddadlau dros ragor o gyfyngiadau ar wasanaethau cyhoeddus ERR, gan honni ei fod yn ystumio cystadleuaeth deg mewn marchnadoedd cyfryngau digidol newydd ac yn torri cyfreithiau cymorth gwladwriaethol yr UE.[17]

Mae gwneud polisi clyweledol yn 'Ewropeaidd' wedi effeithio hefyd ar gyfraniadau darlledu Estonaidd at amcanion cymdeithasol a diwylliannol ehangach. Mae cyd-reoleiddio yn y sector clyweledol gan y Weinyddiaeth Diwylliant a'r Weinyddiaeth Materion Economaidd wedi arwain at wrthdaro rhwng strategaethau diogelu buddiannau diwylliannol Estonia a denu busnesau a gwasanaethau defnyddwyr i farchnad fach, fel yn achos ffilmiau a dramâu Estonaidd o safon uchel. Er bod cyllid ERR yn cyfyngu ar ei allu i gynhyrchu ei gynnwys gwreiddiol ei hun yn y genres poblogaidd hyn (ac y gellir eu hallforio'n fyd-eang), mae Sefydliad Ffilm Estonia a'r llywodraeth genedlaethol wedi cynyddu buddsoddiad mewn hyfforddiant proffesiynol i ddenu cwmnïau tramor i sector cynhyrchu Estonia, sy'n prysur dyfu. Mae'r "diwylliant clyweledol," fel y mae un academydd cyfryngau o Estonia wedi'i ddisgrifio, "yn dod yn llai o faes cyhoeddus ac yn fwy o faes i ddiwydiant preifat".[18]

Mae ERR yn cael ei lywodraethu gan nifer o gyrff gwahanol sydd â phwerau amrywiol dros gyllid y darlledwr, ei strategaeth a'r drefn reoleiddio. Y Cyngor Darlledu Cyhoeddus (*nõukogu*) yw corff corfforaethol sofran ERR, sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r cynllun ariannol blynyddol, penodi Cadeirydd a bwrdd rheoli gweithredol ERR *juhatus*) a goruchwylio cyflawniad ERR o'i amcanion gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwleidyddion etholedig yn

---

[13] Statista Digital Market Outlook, Awst 2021; BroadbandTVNews, 'Estonians opt for YouTube and Netflix', 17 Ionawr 2022.
[14] Ibrus (2016) The EU digital single market as a mission impossible. Gweler hefyd Lowe a Nissen (2011) Small among giants:: Television broadcasting in smaller countries, a Puppis (2009) Media regulation in small states.
[15] Jõesaar (2017) The winding road on the media landscape: The establishment of Estonian television broadcasting between 1992 and 2016.
[16] Erthyglau 8 a 10 *Mediateenuste seadus*.
[17] ERR News, Private media enterprises file ERR complaint with European Commission, 8 Medi 2020.
[18] Ibrus (2015) Audiovisual policymaking in Estonia at times of convergence, tud. 107.

bennaf, gydag un aelod yn cael ei benodi o bob carfan bleidiol yn senedd Estonia ar gynnig y Pwyllgor Materion Diwylliannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnwys pedwar aelod 'arbenigol' – swyddogion gweithredol cwmnïau cyfryngau, cyflwynwyr, newyddiadurwyr ac academyddion fel arfer – sydd hefyd yn cael eu penodi gan y senedd. Mae canfyddiad cynyddol bod y penodiadau arbenigol wedi mynd yn fwyfwy gwleidyddol, er nad oes manylion nac adroddiadau cyhoeddus ynglŷn â'u union rôl a'u dylanwad yng ngweithrediadau'r Cyngor. Bu ymyrraeth wleidyddol hefyd yn y gwaith o ddrafftio cynllun datblygu strategol bwrdd ERR[19], gyda chynrychiolwyr y pleidiau ar y Cyngor yn gwthio agenda eu carfan eu hunain ar strategaeth ERR.[20] Fodd bynnag, mae pwerau penodol y Cyngor dros gyllideb ERR yn eithaf cyfyngedig. Er bod yn rhaid i'r Cyngor gymeradwyo cynlluniau'r bwrdd ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gweinyddiaethau'r llywodraeth sydd â'r awdurdod terfynol dros lefel grant y wladwriaeth.

Mae elfennau swyddogol eraill o drefn lywodraethu a rheoleiddio ERR yn dangos nad oes eglurdeb o ran atebolrwydd. Mae'r 'bwrdd cynghori cymdeithasol' (*ühiskondliku nõukoja*) yn cefnogi'r bwrdd rheoli, ac maent yn gweithredu fel panel anweithredol gwirfoddol sy'n cynghori'r rheolwyr ar strategaeth cynnwys, strwythur rhaglenni a'r cynllun datblygu blynyddol. Mae'r bwrdd cynghori'n cynnwys naw i bymtheg o aelodau a benodir gan y Cyngor (yn dilyn cynigion gan y rheolwyr), a'u bwriad yw cynrychioli'r "grwpiau buddiant a phob cefndir mewn cymdeithas".[21] Mae ei aelodaeth ddiweddar yn cwmpasu ystod eang o arbenigedd – diplomyddion, arweinwyr busnes, cyfreithwyr, academyddion a swyddogion gweithredol sector cyfryngau Estonia – fodd bynnag, mae'r cyfansoddiad hwn yn awgrymu bod ei gyngor yn fwy cynrychioliadol o broffesiynau blaenllaw Estonia nag o'r cymunedau a buddiannau ar draws cymdeithas Estonia.

Mae'r Ddeddf Darlledu Cyhoeddus hefyd yn sefydlu ombwdsmon moeseg (*eetikanounik*) ar gyfer ERR, a benodir gan y rheolwyr (gyda chytundeb y Cyngor), i fonitro cydymffurfiad ERR â safonau newyddiadurol ac i adolygu cwynion ac adborth cynulleidfaoedd ar gynnwys ERR. Mae Tarmu Tammerk, cyn olygydd papurau newydd, wedi gwasanaethu fel ombwdsmon ERR ers creu'r swydd yn 2007 ac mae'n cyhoeddi crynodeb ar-lein rheolaidd o faterion moesegol diweddar neu sylwadau cynulleidfaoedd ar allbwn ERR.[22] Fodd bynnag, mae pryderon bod y rôl yn gweithredu'n fwy fel swyddog ymdrin â chwynion mewnol nag fel rheoleiddiwr safonau go iawn, ac fel yr oedd un adolygiad academaidd yn dadlau, nid yw'r ombwdsmon bob amser yn gweithredu'n gwbl dryloyw i'r cyhoedd, ac yn aml yn anwybyddu problemau ac yn beirniadu gweddill y cyfryngau".[23] Nid yw'n amlwg pa bwerau ffurfiol sydd gan yr ombwdsmon i gywiro neu fynd i'r afael â chanfyddiadau o gamymddwyn moesegol gan ERR. Cyngor y Wasg (*Pressinõukogu*), sy'n cael ei hunanreoleiddio gan y diwydiant sy'n gyfrifol am reoleiddio allbwn newyddion ac mae ERR yn gweithredu ei ganllaw ymarfer da ei hun (*hea tava*) i hyrwyddo cywirdeb, dibynadwyedd a thryloywder yn ei holl wasanaethau[24] – ond eto'r Cyngor sy'n dal i benderfynu ar y ffordd mae ERR yn ymateb i feirniadaethau neu ddyfarniadau gan yr ombwdsmon. Yr hyn sy'n fwyaf amlwg ar draws holl strwythur rheoleiddio'r cyfryngau yn

---

[19] Eesti Rahvusringhääling arengukava 2023-26, gweler hefyd ERR development plan archive.
[20] Dywedodd un arbenigwr ar lefel gwladwriaeth fod cynrychiolwyr ceidwadol ar y Cyngor, a oedd yn apelio at amcan sefydlu ERR i wella "model o gymdeithas sy'n seiliedig ar y teulu", wedi ceisio lleihau cynrychiolaeth ERR o'r gymuned LDHT+ yn ei raglenni.
[21] Erthygl 30 *Eesti Rahvusringhäälingu seadus*, gweler hefyd ERR *ühiskondliku nõukoja*.
[22] ERR eetikanounik.
[23] Loit, Lauk a Harro-Loit (2018) Estonia: Conflicting views on accountability practices (yn yr European Handbook of Media Accountability, tud. 69). Ni wnaeth y senedd fabwysiadu diwygiad i Ddeddf Darlledu Cyhoeddus 2017, a oedd yn ceisio disodli'r ombwdsmon â chyngor moeseg annibynnol.
[24] Pressinõukogu a Hea Tava.

Estonia a threfniadau llywodraethu ERR, yw absenoldeb unrhyw fecanwaith sy'n caniatáu i'r cyhoedd yn Estonia ddylanwadu ar benderfyniadau ERR, a diffyg cynrychiolaeth ystyrlon o gynulleidfaoedd neu gymunedau penodol ar unrhyw un o fyrddau neu gynghorau ERR.

**ETV+: cydbwyso cwestiynau ynghylch cydlyniant cymdeithasol, diogelwch cenedlaethol a chyllid ar gyfer darlledu yn yr iaith Rwsieg**

Mae ETV+, sianel ERR yn yr iaith Rwsieg yn cynnig enghraifft ddiweddar unigryw o ddarlledwr yn datblygu gwasanaeth penodol ar gyfer cymuned ieithyddol unigryw o fewn tiriogaeth cyfryngau 'llai' sydd hefyd yn wynebu pwysau diwylliannol ac economaidd sylweddol. Mae ETV+, a lansiwyd ym mis Medi 2015, yn cynnig cynnwys gwreiddiol a chynnwys wedi'i gaffael yn yr iaith Rwsieg, ac yn darparu cymysgedd o gyfresi wedi'u sgriptio, adloniant poblogaidd, rhaglenni dogfen a newyddion. Mae'r sianel hefyd yn cynnwys darllediadau rheolaidd yn nhafodiaith *Kihnu*, ar gyfer cymuned yr ynys o'r un enw, yn ogystal â bwletinau newyddion yn yr ieithoedd *Seto* a *Võro* gan ohebwyr rhanbarthol ERR. Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae ETV+ wedi cyflawni gweddnewidiad nodedig o ran ymgysylltiad cynulleidfaoedd sy'n siarad Rwsieg ag ERR: cododd y cyrhaeddiad wythnosol i gyfateb â chyrhaeddiad sianeli Rwsiaidd sy'n cael eu darlledu yn Estonia, ac roedd mwy nag un o bob pump siaradwr Rwsieg yn credu mai ETV+ oedd eu prif ffynhonnell newyddion a gwybodaeth.[25]

Mae'r llwyddiant hwn yn adlewyrchiad rhannol o ffocws strategol ETV+ o fewn cynllun datblygu gwasanaeth cyhoeddus diwygiedig ERR: creu cynnwys lleol ar gyfer y gymuned o siaradwyr Rwsieg wedi'i gyflwyno gan y gymuned honno, a'i ddarparu ar y llwyfannau a'r dyfeisiau y mae cynulleidfaoedd modern yn eu defnyddio fwyaf a sicrhau ei fod ar gael yn y fformatau sy'n gweddu orau i'w harferion.[26] Mae tueddiadau gwylio ar-lein ETV+ yn cynnig enghraifft glir: drwy gydol 2022, roedd dwywaith cymaint o bobl yn gwylio cynnwys ETV+ 'ar-alw' ag oedd yn defnyddio'r llwyfan ar-lein i wylio teledu 'byw'.[27]

Fodd bynnag, mae'r hanes y tu ôl i ETV+ yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar yr heriau diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd sydd wedi siapio ecosystem cyfryngau Estonia yn yr iaith Rwsieg. Ers i Estonia sicrhau annibyniaeth, mae'r gymuned fawr o siaradwyr Rwsieg yn y wlad wedi teimlo eu bod yn wynebu gwahanol fathau o wahaniaethu o fewn cymdeithas Estonia.[28] Mae hyn i'w weld yn yr agweddau cyferbyniol tuag at sefydliadau cyhoeddus, gyda phobl o genedligrwydd nad yw'n Estonaidd (mae mwy na thri chwarter y rhain yn Rwsiaid) yn mynegi mwy o ddiffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau gwleidyddol a sefydliadau cyfryngau na gwladolion Estonaidd.[29] Am y rhan fwyaf o'r ddwy ddegawd ddiwethaf, roedd yr unig wasanaethau teledu penodol yn yr iaith Rwsieg a ddarlledwyd i Estonia yn deillio o sefydliadau cyfryngau yn Ffederasiwn Rwsia neu wladwriaethau Baltig cyfagos. Wrth i raniadau cymdeithasol a diwylliannol ddwysau – a amlygwyd gan brotestiadau treisgar yn y gymuned Rwsiaidd yn ystod y ddadl 'Noson Efydd' ym mis Ebrill 2007 – mae academyddion a llunwyr polisïau wedi nodi gwahanu cynyddol rhwng "dau faes gwybodaeth cwbl wahanol" yn Estonia:

---

[25] Jõesaar, Rozukalne a Jastramkis (2022) Trust in public service media in the Baltic states, tudalennau 603-4.
[26] Eesti Rahvusringhääling arengukava 2016-2019, gweler hefyd ERR development plan archive.
[27] GemiusPrism 2022, data preifat wedi'i ddarparu drwy garedigrwydd cyswllt ar lefel gwlad.
[28] National census database RL227; Danylyuk (2018) Causes and Consequences of Perceptions of Discrimination among Russian-speakers of Estonia.
[29] Turu-Uuringute AS Public Opinion Monitoring Survey, a gynhaliwyd ar ran Swyddfa Canghellor y Wladwriaeth (*Riigikantselei*), Hydref 2022.

maes yn yr iaith Estoneg sy'n hyrwyddo "gwerthoedd Ewropeaidd" yn erbyn maes yn yr iaith Rwsieg sy'n hyrwyddo "gwerthoedd Putin".[30]

Er bod gwasanaeth radio ERR yn yr iaith Rwsieg, *Raadio 4* (a lansiwyd yn 1993) wedi denu cynulleidfaoedd mwy ers tro byd na gorsafoedd masnachol yn yr iaith Rwsieg, bu gostyngiad sylweddol yn y cyllid cyhoeddus a masnachol ar gyfer rhaglenni teledu yn yr iaith Rwsieg drwy gydol y 1990au a dechrau'r ddegawd ganlynol. Rhwng 2003 a 2014, gostyngodd cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau ERR ymysg y gynulleidfa a oedd yn siaradwyr Rwsieg o 40% i bron i 15%. Llesteiriwyd ymdrechion cychwynnol i ddatrys hyn gan amryw o ffactorau: nid oedd yn atyniadol yn fasnachol i geisio gwasanaethu cynulleidfa gymharol fach mewn cystadleuaeth uniongyrchol gyda phrif ddarparwyr Ffederasiwn Rwsia; amharodrwydd ymysg llunwyr polisïau i ddefnyddio ymyrraeth wladwriaethol mewn marchnad cyfryngau a oedd yn mynd yn fwy rhyddfrydol a thraws-Baltig; graddfa digynsail y costau, capasiti cynhyrchu a datblygu'r talent sydd ei angen i gynnal gwasanaeth poblogaidd er mwyn denu cynulleidfaoedd gyda rhaglenni o ansawdd uchel; a phryderon y byddai cyflwyno gwasanaeth yn yr iaith Rwsieg yn tanseilio'r nod o gynnal hunaniaeth genedlaethol Estonaidd drwy hyrwyddo diwylliant a buddiannau Rwsieg.[31]

Arweiniodd lansio ail sianel deledu ERR ETV2 yn 2008 at gynnydd dros dro yn y gwaith o gynhyrchu rhaglenni yn yr iaith Rwsieg (gan godi o 183 awr yn 2008 i 547 awr yn 2010), ond arweiniodd newidiadau i gylch gwaith ETV2 (tuag at fwy o gynnwys addysgol a diwylliannol o Estonia) ac ymrwymiadau cyllido ysbeidiol at ostyngiad cyffredinol yn nifer gwylwyr ERR sy'n siarad Rwsieg. Roedd un cynllun datblygu blynyddol ERR ar ôl y llall yn cynnig mwy o fuddsoddi mewn cynnwys Rwsieg a thargedau ar gyfer denu mwy o gynulleidfaoedd sy'n siarad Rwsieg, ond nid oedd y cynlluniau hyn yn derbyn digon o gefnogaeth o gyllideb y wladwriaeth. Wedi i Ffederasiwn Rwsia feddiannu'r Crimea yn 2014, ac wrth i gyfryngau gwladwriaeth Rwsia dargedu gwledydd Canol a Dwyrain Ewrop gyda 'rhyfel wybodaeth' cynyddol ymosodol, gostyngodd ymddiriedaeth cynulleidfaoedd nad ydynt yn Estonaidd yn ERR i 45% (o 60% yn 2010) ac bu gostyngiad sylweddol yn nifer gwrandawyr *Raadio 4*. Arweiniodd y digwyddiadau hyn at alwadau cyffredinol am raglen fwy unedig o integreiddio diwylliannol a chymdeithasol, gan gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn yr iaith Rwsieg yn Estonia,[32] ac yn niwedd 2014, cymeradwyodd llywodraeth Estonia gynnydd o €2.5 miliwn yng nghyllideb wladwriaethol ERR i ariannu ETV+.

Golygai lansiad ETV+ newid sylweddol yn strategaeth gwasanaeth cyhoeddus ERR: o drin rhaglenni yn yr iaith Rwsieg fel cynnwys atodol, i ddarparu gwasanaeth pwrpasol (gyda chyllid rheolaidd) i ddiwallu anghenion a buddiannau cymuned iaith Rwsieg Estonia. Eto i gyd, fel y mae dadansoddiadau diweddar yn awgrymu, nid gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus 'traddodiadol' sydd wedi arwain y strategaeth newydd hon bob amser. Pwysleisiodd llawer o'r gefnogaeth wleidyddol i sianel benodol yn yr iaith Rwsieg yn 2014/15 mai prif rôl y gwasanaeth newydd oedd darparu 'gwrth-bropoganda' a chefnogi diogelwch cenedlaethol Estonia,[33] yn hytrach na chreu gofod ar gyfer mynegiant diwylliannol a hunan-adnabod ar gyfer cymuned a oedd yn cael ei gwasanaethu'n wael yn hanesyddol. Mae'r cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn,

---

[30] Jõesaar (2017) Day After: The impact of the launch of the Russian-language television channel ETV+ on Estonian Public Broadcasting's viewing trends, tud. 45.
[31] Jõesaar a Rannu (2017) Estonian Broadcasting and the Russian Language, in Horsti, K., Hultn, G. a Titley, G. (gol.) National Conversations: Public Service Media and Cultural Diversity in Europe, tudalennau 205-223; Lavrentjev (2020) The Securitization of Russian-speaking Media in Estonia; Parhsukob (2017) Media, Memory, and Minority: The Russian-language TV channel ETV+ and its role in the long-lasting "War of Memories" in Estonia;
[32] *Lõimuv Eesti 2020*, 'Strategy of Integration and Social Cohesion in Estonia'.
[33] Lavrentjev (2020) The Securitization of Russian-speaking Media in Estonia, tudalennau 36-7.

er ei fod yn fwy sefydledig, hefyd yn dal yn agored i newidiadau nad oes modd eu rhagweld sy'n tanseilio cynaliadwyedd rhaglenni yn yr iaith Rwsieg: rhwng 2018 a 2022, gostyngodd cyllideb ETV+ fel cyfran o gyfanswm grant gwladwriaethol ERR o 8.5% i 5%, ac roedd ei gyllid ar gyfer 2022 20% yn llai na'i ddyraniad cychwynnol yn 2015.

Yn sgil penderfyniad digynsail rheoleiddiwr telegyfathrebiadau Estonia i wahardd darllediadau o bedair sianel deledu Rwsia ym mis Chwefror 2022, yn dilyn ymosodiad Rwsia ar yr Wcráin, dyblodd ETV+ eu cyfran gwylio o blith sianeli yn yr iaith Rwsieg mewn un mis yn unig i bob pwrpas.[34] Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae dros 60% o gynnwys ETV+ wedi cynnwys rhaglenni a gafodd eu 'caffael' dramor,[35] sy'n golygu bod y gynulleidfa fwy hon yn elwa o lai o gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu yn Estonia, ac yn adlewyrchu eu bywydau a'u hunaniaethau eu hunain. Gyda mwy a mwy o ddibyniaeth ar gynnwys wedi'i fewnforio, a diffyg cynrychiolaeth o'r gymuned Rwsieg o fewn fframwaith llywodraethu ERR, a gyda chyllid ETV+ yn dibynnu'n fawr ar ddiddordeb mympwyol llunwyr polisïau mewn cyfryngau o Estonia yn yr iaith Rwsieg, amser a ddengys pa mor effeithiol y gall y gwasanaeth hwn barhau i wasanaethu ei gynulleidfa unigryw a chyfrannu at ofod diwylliannol a dinesig a rennir er budd pawb.

---

[34] Kantar Emor 2022, darparwyd data preifat drwy gyswllt ar lefel gwlad. Gweler hefyd: ERR News, Four Russian TV channels banned from Estonian airwaves, 25 Chwefror 2022.

[35] Ibrus et al. (2022) Quantifying public value creation by public service media using big programming data, tud. 14.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Tueddiadau darlledu: dadansoddiad ar gyfer y Panel Arbenigwyr Darlledu Cysgodol

Sut y bydd datblygiadau technoleg yn y dyfodol yn effeithio ar wylio cynulleidfaoedd a'r defnydd clywedol.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 2 Awst 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 2 Awst 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tueddiadau-darlledu-dadansoddiad-ar-gyfer-y-panel-arbenigwyr-darlledu-cysgodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Defnyddio fideo a sain yn y DU**

**Defnyddio fideos a sain yng Nghymru**

**Y goblygiadau ar gyfer cryfhau'r cyfryngau yng Nghymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tueddiadau-darlledu-dadansoddiad-ar-gyfer-y-panel-arbenigwyr-darlledu-cysgodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Defnyddio fideo a sain yn y DU

Mae’r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn nodi cyfres o ymrwymiadau polisi i’w cyflawni o fewn tymor presennol y Senedd. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i ‘ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru, i fynd i’r afael â’n pryderon ynghylch elfennau bregus yn y cyfryngau ar hyn o bryd a’r ymosodiadau ar eu hannibyniaeth. Byddai’r corff hwn yn cefnogi’r defnydd o’r Gymraeg, yn enwedig yn y maes digidol ac yn annog lluosogrwydd yn y cyfryngau’

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar gyfer y panel ac mae’n adolygu: y dirwedd ddarlledu sy’n newid; heriau a goblygiadau datblygiadau technolegol yn y dyfodol a sut bydd y rhain yn effeithio ar arferion gwylio cynulleidfaoedd a’r defnydd o sain. Yn olaf, byddwn yn canolbwyntio ar y goblygiadau yng Nghymru.

Mae gwylio teledu llinol wedi bod yn gostwng, gyda’r lefelau gwylio wedi disgyn 37% ers 2010 ac wedi cyflymu dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae’r gostyngiad hwn wedi cael ei sbarduno gan grwpiau oedran iau, sy’n gwylio tua 75-80% yn llai o deledu nag oedden nhw ddegawd yn ôl.

Wrth wraidd y newidiadau hyn mewn arferion gwylio mae cyflwyno band eang cyflym iawn ar draws y DU ers 2008, a thwf 20x cyflymderau band eang y DU sydd wedi digwydd o ganlyniad i hynny, a oedd yn golygu bod modd dosbarthu cynnwys fideo dros y rhyngrwyd.

Mae darlledwyr wedi addasu i’r newidiadau technolegol hyn drwy lansio eu llwyfannau fideo ar-alw eu hunain, ond mae eu hadnoddau’n fach iawn o gymharu â gwasanaethau Tanysgrifio Fideo ar Alwad (SVOD) byd-eang fel Netflix, sydd wedi gwario biliynau o ddoleri yn comisiynu cynnwys gwreiddiol ac wedi tyfu’n gyflym. Erbyn hyn, mae gan dros ddwy ran o dair o gartrefi’r DU danysgrifiad i wasanaeth ffrydio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tueddiadau-darlledu-dadansoddiad-ar-gyfer-y-panel-arbenigwyr-darlledu-cysgodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae’r cynnydd cyflym mewn llwyfannau SVOD wedi cael ei ategu gan dwf llwyfannau fideo ar-lein a gwefannau cyfryngau cymdeithasol. Er bod TikTok wedi mwynhau twf trawiadol dros y blynyddoedd diwethaf, YouTube yw’r arweinydd diymwad yn y categori hwn o hyd, sy’n gweld mwy o wylio fideos na TikTok, Facebook, Instagram a Snapchat gyda’i gilydd.

Gan y bydd y tueddiadau hyn yn parhau dros y pum mlynedd nesaf, rydym yn rhagweld mai hanner yr holl wylio fideos fydd teledu darlledwyr yn 2027, i lawr o 64% heddiw. Fodd bynnag, mae’r ystadegau llinell uchaf hyn yn cuddio amrywiaethau enfawr yn ôl grwpiau oedran. Rydym yn rhagweld y bydd pobl ifanc 15-24 oed yn treulio dim ond 12% o’u hamser fideo gyda rhaglenni traddodiadol darlledwyr yn 2027, a bydd yn cyfrif am hanner y bobl 45-54 oed, dwy ran o dair o’r rheini rhwng 55 a 64 oed, ac 85% o’r rheini dros 65 oed sy’n gwylio.

Mae gwrando ar y radio wedi aros yn gadarn iawn dros y degawd diwethaf, ond dros y blynyddoedd diwethaf mae gwrando ymysg pobl o dan 24 oed wedi dechrau dirywio’n sylweddol. Mae dyfodiad sain ar-lein fel podlediadau a gwasanaethau ffrydio yn creu heriau a chyfleoedd.

## Defnyddio fideos a sain yng Nghymru

Mae gwylio’r teledu yng Nghymru yn nodweddiadol o bob rhanbarth arall, ar wahân i’r ffaith bod y person cyffredin yn gwylio ychydig yn fwy na chyfartaledd y DU (2 awr 39 munud o’i gymharu â 2 awr 32 munud). Fodd bynnag, mae gan fwy o gartrefi deledu lloeren, ac mae lefelau gwylio SVOD hefyd ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU, er bod y boblogaeth yn gogwyddo’n hŷn.

Buddsoddodd y BBC ac ITV £27.5 miliwn mewn cynnwys yn benodol ar gyfer Cymru yn 2021 (heb gynnwys cyfraniad y BBC i S4C), ac mae’r rhan fwyaf ohono ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Tra bo’r ffigwr hwn wedi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tueddiadau-darlledu-dadansoddiad-ar-gyfer-y-panel-arbenigwyr-darlledu-cysgodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gostwng, mae’r holl gyllidebau cynnwys wedi cael eu gwasgu. Mae bodlonrwydd â darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) yn uwch yng Nghymru nag yn unrhyw wlad arall, ond mae ITV yng Nghymru yn tangyflawni’n sylweddol o gymharu ag STV yn yr Alban o ran y canfyddiadau eu bod yn darparu rhaglenni am eu gwledydd eu hunain.

Dim ond 4% o gyfanswm yr amser gwylio teledu yw gwylio rhaglenni Cymreig y BBC ac ITV, gyda’r gwylio’n gogwyddo’n drwm tuag at y rheini dros 65 oed. Fel yr holl wylio teledu, mae hyn yn gostwng dros amser, ond ar gyfradd ychydig yn arafach.

Mae S4C yn cyfrif am 1% yn unig o’r teledu sy’n cael ei wylio a 3% ymysg siaradwyr Cymraeg, ond mae gwylio wedi aros yn eithaf cyson dros y pum mlynedd diwethaf. Chwaraeon yw’r genre sy’n cael ei wylio fwyaf. Mae ei wasanaeth ar-alw, Clic, yn rhannol drwy ei bartneriaeth â’r BBC a bod ar yr iPlayer wedi bod yn llwyddiannus. Mae gan Clic bresenoldeb ar lwyfannau ar-lein fel YouTube a TikTok hefyd.

Mae dros chwarter yr oedolion yn cael gafael ar newyddion am Gymru drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig Facebook, ac mae TikTok yn boblogaidd iawn ymysg oedolion ifanc yng Nghymru.

Rydym yn rhagweld y bydd cyfran gwylio darlledwyr yn 2027 ychydig yn uwch yng Nghymru nag ar draws y DU (52% o’i gymharu â 51%), yn rhannol oherwydd proffil y boblogaeth hŷn. O ran rhaglenni traddodiadol darlledwyr, dim ond 14% o’r gwylwyr dan 24 oed fydd yn eu gwylio yn 2027 (hanner awr bob dydd) a llai na 30% o bobl 25-44 oed. I’r gwrthwyneb, bydd hynny yn 86% o’r gwylio ar gyfer pobl dros 65 oed, sydd ychydig dros bum awr y dydd.

Mae’r nifer sy’n gwrando ar y radio ledled Cymru yn debyg i’r DU, ond mae’r BBC yn llawer mwy poblogaidd. Dim ond 8% o’r gwrando ar y radio y mae BBC Radio Wales a BBC Cymru yn ei gael, gyda thri chwarter o oriau gwrando BBC Radio Wales i’r rheini dros 65 oed. Mae’r ddwy orsaf yn darparu gwasanaeth da,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tueddiadau-darlledu-dadansoddiad-ar-gyfer-y-panel-arbenigwyr-darlledu-cysgodol-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ond nid ydynt yn diwallu anghenion pobl iau ddi-Gymraeg ac mae BBC Sounds yn annhebygol o fod yr ateb fel y mae heddiw.

Mae gan radio masnachol lleol ychydig dros 20% o wrando ar y radio, ond ychydig iawn o ddyletswyddau sydd arnynt i gynhyrchu rhaglenni yng Nghymru, heb sôn am yn Gymraeg. O ystyried model masnachol gorsafoedd bach, credwn y byddai'n anodd iawn newid rhwymedigaethau trwydded i gynyddu'r lefel o Gymraeg, oni bai ei fod yn werth chweil yn ariannol. Efallai y bydd y cwmni radio'n dewis rhoi'r drwydded yn ôl.

## Y goblygiadau ar gyfer cryfhau'r cyfryngau yng Nghymru

Wrth i wylio teledu, ac i raddau llai, gwrando ar y radio, barhau i newid o ddarlledu i fod ar-lein, mae hyn yn gosod heriau mawr ar y model darlledu cyfan. Er y bydd pobl hŷn yn parhau i wylio a gwrando ar gymaint o gyfryngau darlledu ag erioed, mae pobl iau yn symud fwyfwy i lwyfannau eraill, boed hynny'n SVOD, YouTube, cyfryngau cymdeithasol, gwasanaethau cerddoriaeth ar-lein a phodlediadau, y rhan fwyaf ohonynt y tu allan i system reoleiddio'r DU.

Mae'n amlwg bod y BBC ac ITV yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i bobl hŷn yng Nghymru drwy eu rhaglenni teledu Cymreig a byddant yn parhau i wneud hynny dros y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, y broblem yw sut mae sicrhau'r un canlyniad i gynulleidfaoedd iau a fydd yn gwylio llai a llai o deledu. Mae'r BBC ac ITV wedi buddsoddi'n helaeth yn yr iPlayer ac ITVX a bydd y rhaglenni ar gyfer Cymru ar gael ar y llwyfannau hyn. Fodd bynnag, nid yw dosbarthu cynnwys rhwng eu hasedau darlledu eu hunain yn ddigon.

Mae angen i ITV, y BBC ac S4C sicrhau bod y cynnwys hwn ar gael ar TikTok, YouTube, Facebook a lle bynnag arall mae'r gynulleidfa ar gael. Cyflawnir hyn i gyd drwy negodi gan na all llywodraeth y DU orfodi'r llwyfannau i gario unrhyw

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tueddiadau-darlledu-dadansoddiad-ar-gyfer-y-panel-arbenigwyr-darlledu-cysgodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gynnwys penodol, nac eistedd o gwmpas y bwrdd negodi. Fodd bynnag, mae cwmnïau fel YouTube eisiau cynnwys premiwm, sy'n ddiogel o ran brand ac enw da ar eu llwyfannau a gallant gymell darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy fargeinion melysach ar gyfer rannu refeniw a chytundebau gwerthu hysbysebion sy'n galluogi tai gwerthu i werthu hysbysebion o gwmpas eu cynnwys ar y llwyfannau, neu drwy fwy o amlygrwydd ar algorithmau'r llwyfan. Mae'r BBC ac ITV yn debygol o daro bargeinion ar draws eu holl gynnwys, felly mae'n bwysig bod cynnwys sy'n cael ei wneud yn benodol ar gyfer Cymru o fewn hyn. Nid yw S4C yn ddigon mawr, a byddai'n elwa o ddosbarthu eu cynnwys i'r llwyfannau hyn drwy'r BBC, ITV a hyd yn oed C4.

Mae angen partneriaethau sain gyda'r BBC a radio masnachol oherwydd tarfu ar ddosbarthiad sain. Bydd pobl hŷn yn parhau i wrando ar y radio a byddant yn cael gwasanaeth da gan y BBC. Mae pobl iau yn symud tuag at bodlediadau ac mae dadl gwasanaeth cyhoeddus glir dros wneud i BBC Sounds gario nifer sylweddol o bodlediadau Cymraeg. Fodd bynnag, ychydig iawn o bodlediadau gan gyflenwyr annibynnol sydd gan y BBC ar hyn o bryd. Dylai hyn newid a dylid annog y BBC (a'r sector masnachol) i ffurfio partneriaethau â chwmnïau cynhyrchu sain neu sefydliadau lleol ledled Cymru i ddatblygu podlediadau y gellir cael gafael arnynt drwy BBC Sounds yn ogystal ag apiau a gwefannau eu gorsafoedd radio. Gyda'r cynnydd mewn seinyddion clyfar a Google/apple mewn ceir, mae cwmnïau technoleg yr Unol Daleithiau yn dechrau dod, yn ymarferol, yn borthorion ar gyfer gwrando ar radio yn y DU. Rhaid i ddarlledwyr ddod i drefniadau gyda'r llwyfannau cyfryngol hyn er mwyn i ddefnyddwyr allu dod o hyd i'w cynnwys. Er bod chwaraewyr mwy o faint fel y BBC, Global a Bauer yn gallu dod i ryw fath o gytundeb, mae'n anoddach i gwmnïau llai a phobl sy'n creu podlediadau, sy'n cryfhau'r achos dros annog partneriaethau o'r fath ymhellach.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tueddiadau-darlledu-dadansoddiad-ar-gyfer-y-panel-arbenigwyr-darlledu-cysgodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

CYHOEDDIAD

# Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru: cyfryngau plant yn 2023

Asesiad o sut mae'r argymhellion yn effeithio ar gyfryngau plant.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 2 Awst 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 2 Awst 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyfodol-newydd-ar-gyfer-darlledu-chyfathrebu-yng-nghymru-cyfryngau-plant-yn-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Cynnwys ac agweddau brodorol**

**Dathlu ieithoedd brodorol drwy’r cynnwys**

**Rôl rheoleiddio**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyfodol-newydd-ar-gyfer-darlledu-chyfathrebu-yng-nghymru-cyfryngau-plant-yn-2023-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Roedd y Panel Arbenigol am sicrhau bod eu hadroddiad yn seiliedig ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac roeddent o'r farn fod rhaglenni plant yn faes sy'n cyfiawnhau ymchwiliad pellach i'w gynnwys yn eu hadroddiad. Gofynnodd y Panel Arbenigol am gyngor gan grŵp ehangach o unigolion i helpu i ddarparu mewnbwn arbenigol fel rhan o'r cam casglu tystiolaeth. Dyma'r cwestiynau allweddol maen nhw eisiau eu harchwilio: 'a oes angen gwasanaeth cyhoeddus mwy diffiniedig ar gyfer plant mewn darlledu yng Nghymru?' ac os oes ei angen, 'sut byddai'n cael ei reoleiddio?'.

Gofynnwyd i Kids Industries ddyfeisio a chyflwyno barn arbenigol wedi'i dilysu yn canolbwyntio ar sut mae dyfodol cyfryngau plant yn datblygu a lle gallai fod angen cymorth rheoleiddiol. Daw llawer o'r pwyntiau data sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn o Astudiaeth Deuluol Fyd-eang KI. Casglodd yr astudiaeth hon ymatebion 20,147 o unigolion mewn 10 gwlad. Roedd cynrychiolaeth gyfrannol o'r DU. Cyfeirir at amrywiol ffynonellau eraill yn y ddogfen drwyddi draw. Mae'r crynodeb hwn yn darparu synthesis o wybodaeth gyfunol Kids Industries ac ymchwil desg sy'n canolbwyntio ar ddefnydd plant o gyfryngau.

# Cynnwys ac agweddau brodorol

## Gwahaniaethau amlwg yng Nghymru o ran defnydd plant o gyfryngau

Mae **Adroddiad Ofcom ar Agweddau a Defnydd Plant a Rhieni o Gyfryngau (2022)** yn nodi rhai gwahaniaethau o ran agweddau rhieni Cymru tuag at ddefnydd eu plant o gyfryngau o'i gymharu â gweddill y DU. Mae'n ymddangos bod rhieni yng Nghymru yn poeni mwy am agweddau penodol ar ddefnydd eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyfodol-newydd-ar-gyfer-darlledu-chyfathrebu-yng-nghymru-cyfryngau-plant-yn-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

plant o gyfryngau na rhieni yng ngwledydd eraill y DU, er enghraifft, plant yn rhoi manylion personol i bobl ar-lein neu'n gweld cynnwys amhriodol i'w hoedran ar-lein neu ar y teledu. Roedd rhieni yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn bryderus iawn am y canlynol:

- bod eu plentyn yn rhoi manylion personol i bobl amhriodol
- bod eu plentyn yn cael ei fwlio ar-lein
- bod eu plentyn yn gwneud drwg i'w enw da nawr neu yn y dyfodol
- bod eu plentyn yn gweld unrhyw fath o gynnwys nad yw'n briodol ar gyfer eu hoedran (o ran trais, iaith anweddus, cynnwys annymunol, ac yn y blaen)
- bod eu plentyn yn gweld cynnwys sy'n ei annog i frifo neu niweidio ei hun
- bod safbwyntiau eithafol ar-lein yn dylanwadu ar eu plentyn
- a'r pwysau sydd ar eu plentyn i wario arian ar-lein

O ran chwarae gemau yn benodol, roedd rhieni yng Nghymru yn fwy tebygol na gwledydd eraill o boeni am y canlynol:

- y posibilrwydd y bydd eu plentyn yn siarad â phobl ddieithr wrth chwarae gemau
- y posibilrwydd y bydd eu plentyn yn cael ei fwlio gan chwaraewyr eraill
- cynnwys y gemau y mae eu plentyn yn eu chwarae
- y pwysau sydd ar eu plentyn i brynu pethau o fewn gêm

Roedd rhieni yng Nghymru hefyd yn poeni mwy am bwy mae eu plentyn yn cysylltu â nhw pan fyddan nhw'n defnyddio eu ffôn, a'r posibilrwydd y byddan nhw'n cael eu bwlio ar eu ffôn symudol.

Roedd plant yng Nghymru hefyd yn fwy tebygol na chyfartaledd y DU o deimlo pwysau i fod yn boblogaidd ar gyfryngau cymdeithasol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyfodol-newydd-ar-gyfer-darlledu-chyfathrebu-yng-nghymru-cyfryngau-plant-yn-2023-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ystyriaethau o ran dyfodol defnyddio cynnwys i blant

Dyma rai o’r tueddiadau sy’n newid ym marn Kids Industries ac a fydd yn berthnasol yn y tymor byr i’r tymor canolig o ran effeithio ar y modd y mae plant yn defnyddio cynnwys:

- Cydgrynhoi cynnwys: mae swmp enfawr y cynnwys sydd ar gael heddiw gyda’r llu o wasanaethau ffrydio yn cyfrannu at orlwytho cynulleidfaoedd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cynulleidfaoedd yn teimlo eu bod yn cael eu llethu ac mae’n bosibl y bydd symudiad tuag at gydgrynhoi gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw.
- Gwrthwynebu ras i’r gwaelod: mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol sy’n canolbwyntio ar gynnwys ffurf sy’n fyrrach fyth yn debygol o gyfrannu at leihau rhychwantau sylw ymysg plant, wrth i ddyluniadau’r llwyfannau siapio disgwyliadau cynnwys. Lledaenu y mae fideos ysgogol iawn ar TikTok, sy’n cynnwys sgriniau hollt, gyda nifer o wahanol ffenestri cynnwys. Mae’r fideos hyn wedi cael eu galw’n gynnwys ‘slwtsh’ (‘sludge’), ac mae’n bosibl y byddan nhw’n cael effaith niweidiol ar blant. Mae’n debygol y bydd adwaith parhaus gan rieni yn erbyn y mathau o gynnwys isel ei werth y mae plant yn gallu cael gafael arno ar-lein a’r llwyfannau maen nhw’n cael gwasanaeth arnyn nhw (**Sludge content is consuming TikTok. Why aren't we talking about it? | CBC News**).
- Profiadau adloniant ymgolli: mae llwyfannau fel Roblox, lle mae plant yn byw bywyd ar-lein, yn enghreifftiau o’r Metafyd sy’n datblygu. Mae’r profiadau digidol ymgolli hyn yn boblogaidd iawn ymysg plant, ac maen nhw’n debygol o ailddiffinio adloniant yn y dyfodol. Mae brandiau fel Nickelodeon yn creu mwy a mwy o fydoedd adloniant ar Roblox – sy’n nodi newid radical oddi wrth y defnydd goddefol o fideos, tuag at brofiadau llawer mwy rhyngweithiol a chydweithredol (**Understanding Kids in the Metaverse | CMC 2022 | Sessions | The Children's Media Conference (CMC) (thechildrensmediaconference.com)**).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyfodol-newydd-ar-gyfer-darlledu-chyfathrebu-yng-nghymru-cyfryngau-plant-yn-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Dyfeisiau newydd a realiti newydd: dangosodd Arolwg Teuluol Byd-eang Kids Industries fod cynnydd yn y defnydd o dechnoleg glyfar ymysg plant. Mae'n bosibl y gallai hyn effeithio ar y modd y mae brandiau adloniant yn adrodd straeon i blant, gyda mwy o botensial ar gyfer profiadau cynnwys wedi'u teilwra'n fwy personol a mwy o ryngweithio.

## Dathlu ieithoedd brodorol drwy'r cynnwys

Mae nifer o wledydd wedi buddsoddi arian i ddiogelu ieithoedd brodorol drwy ddarparu cynnwys i blant:

- Iwerddon: Mae TG4 yn ddarlledwr cyhoeddus sy'n darparu rhaglenni Gwyddeleg, gan gynnwys rhaglenni teledu i blant. Mae'r darlledwr wedi cael cyllid gan Lywodraeth Iwerddon i gynhyrchu rhaglenni gwreiddiol yn yr iaith Wyddeleg. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddodd ei fod am lansio sianel benodol i blant: Cúla4 ar gyfer TG4 (**TG4 | A new children's channel for TG4 approved by Minister Catherine Martin | 2022 | Press Releases | Press | Irish Television Channel, Súil Eile**).
- Canada: Mae llywodraeth Canada wedi sefydlu Swyddfa Sgrin Frodorol, sy'n darparu cyllid a chefnogaeth ar gyfer creu a chynhyrchu cynnwys mewn ieithoedd brodorol, gan gynnwys rhaglenni teledu i blant (**Indigenous Screen Office funding programs - Canada.ca**).
- Mecsico: Mae'r INALI (Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ieithoedd Brodorol) yn darparu cefnogaeth ar gyfer creu deunyddiau addysgol a chynnwys cyfryngau mewn ieithoedd brodorol, gan gynnwys rhaglenni teledu i blant (**National Institute for Indigenous Languages (INALI) (mexicoescultura.com)**).
- Seland Newydd: Mae'r Gwasanaeth Teledu Maori yn ddarlledwr sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth ac sy'n cynhyrchu ac yn darlledu amrywiaeth o raglenni yn yr iaith Maori, gan gynnwys rhaglenni teledu i blant (**Our Shows | Māori Television (maoritelevision.com)**).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyfodol-newydd-ar-gyfer-darlledu-chyfathrebu-yng-nghymru-cyfryngau-plant-yn-2023-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Awstralia: Mae Corfforaeth Ddarlledu Awstralia (ABC) wedi cynhyrchu rhaglenni teledu i blant mewn ieithoedd brodorol, gan gynnwys Little J and Big Cuz, sef sioe a gynhyrchir yn Saesneg ac mewn ieithoedd brodorol (**Little J And Big Cuz : ABC iview**).

Mae'n ymddangos mai eithaf arbenigol yw cynnwys sy'n canolbwyntio ar gadw ieithoedd a diwylliant brodorol, ac mai bach yw'r gynulleidfa. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Pukana (1999 - ymlaen) - Rhaglen o Seland Newydd sy'n cymryd awgrymiadau diwylliannol plant cyfoes, ac sy'n cynnwys sioeau gemau, triciau, chwilio am dalent a cherddoriaeth. Mae'n pwysleisio iaith y 'stryd' yn hytrach nag iaith y 'marae'. Mae wedi ennill tair gwobr am y sioe orau yn ei chategori, a dau enwebiad ar gyfer rhaglenni plant (**Pūkana | Series | Television | NZ On Screen**).
- Wapos Bay (2005 -2012) - Cyfres deledu gomedi drama deuluol animeiddiedig 'stopio a symud' o Ganada. Cafodd ei darlledu ledled Canada gan Rwydwaith Teledu Pobloedd Aborigineaidd (fel rhan o APTN Kids) ac yn yr Unol Daleithiau ar Rwydwaith Profiad y Cenhedloedd Cyntaf (FNX). Cafodd ei darlledu yn ieithoedd Cree, Saesneg, Ffrangeg ac Inuktitut.

Mae'n amlwg bod lle i wledydd llai berfformio'n well na'r disgwyl o ran cynhyrchu cynnwys, ond yn gyffredinol mae angen trosleisio cynnwys er mwyn ei ddosbarthu'n fyd-eang. Cafodd rhaglen deledu plant o Wlad yr Iâ, Lazy Town, er enghraifft, a elwir yn Latibær mewn Islandeg, ei henwebu ar gyfer Gwobrau Rhyngwladol Plant Emmy yn y categori 'Plant: Cyn-ysgol'. Cafodd y gyfres deledu addysgol ei chreu gan y cyn-hyrwyddwr gymnasteg ac arbenigwr ffitrwydd Magnús Scheving. Cafodd y sioe ei darlledu mewn mwy na 170 o wledydd a'i throsleisio i fwy nag ugain o ieithoedd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyfodol-newydd-ar-gyfer-darlledu-chyfathrebu-yng-nghymru-cyfryngau-plant-yn-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Rôl rheoleiddio

Mae Ofcom yn rheoleiddio'r sectorau teledu a radio, telegyfathrebu llinellau sefydlog, ffonau symudol, gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau diwifr yn eu defnyddio. Mae dyletswydd ar y rheoleiddiwr i ddiogelu plant rhag deunyddiau niweidiol neu amhriodol ar wasanaethau teledu, radio a fideo ar-alw (**Amddiffyn plant - Ofcom**).

Mae Cod Darlledu Ofcom yn rheoli'r hyn y gellir ei ddarlledu ar y teledu a'r radio. Mae adran gyfan o'r Cod Darlledu yn ymwneud yn benodol ag amddiffyn plant rhag cynnwys anaddas ar y teledu a'r radio, gan gynnwys rheolau am y trothwy 9pm ar y teledu.

Fel y nodwyd uchod, mae datblygu llwyfannau a chynnwys ar-lein wedi mynd y tu hwnt i reoleiddio. Yn 2020, ehangwyd cylch gwaith Ofcom i gynnwys rheoleiddio cynnwys niweidiol ar-lein. Dim ond yn ddiweddar y mae Ofcom wedi nodi ei 27 o gynlluniau i roi rheolau diogelwch ar-lein newydd ar waith. Mae'r map ar gael: **Y mesur diogelwch ar-lein: Map ffordd Ofcom ar gyfer rheoleiddio**.

Mae Kids Industries o'r farn y dylai unrhyw reoleiddiwr neu reoleiddiwr cysgodol ganolbwyntio ar lwyfannau ar-lein fel llwyfannau rhannu fideos, llwyfannau gemau a chyfryngau cymdeithasol, o ystyried eu potensial i achosi niwed amlwg i blant.

## Geiriau i gloi

Ar ôl gweithio yn y gofod cyfryngau i blant ers 25 mlynedd, rydym wedi bod yn dyst i gyfradd o newid ac esblygiad sydd bron yn anghredadwy. Mae'n amlwg i ni nad yw'r cyrff rheoleiddio presennol a'r pwerau rheoleiddio sydd ganddynt yn addas i'r diben. Mae'r sefydliadau sydd â'r rôl o amddiffyn ein plant ac arwain y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyfodol-newydd-ar-gyfer-darlledu-chyfathrebu-yng-nghymru-cyfryngau-plant-yn-2023-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

rhai sy'n creu'r cynnwys yn methu â chadw i fyny â chyfradd y newid ac, mewn gwirionedd, maent o leiaf ddwy flynedd ar ôl y plant. Nid oes ffordd foddhaol o amddiffyn plant rhag niwed posibl Roblox – gall plant weld cynnwys niweidiol o fewn ychydig o gliciau o'u hoff gemau a gallant gael eu hudo a'u bwlio ymhobman bron. Does dim amddiffyniad. Mae gennych chi gyfle i arwain y byd o ran rheoleiddio cyfryngau plant. Yr angen yw paratoi eich corff rheoleiddio ar gyfer yr hyn sydd i ddod yn y cyfryngau plant nid, fel sefyllfa druenus y DU gyfan, lle mae wedi bod. Mae'n her sylweddol ond gallwn weld i ble mae pethau'n mynd ac felly, does bosib bod modd, drwy ffocws a phenderfyniad, greu corff a fydd yn galluogi ac yn grymuso plant Cymru, sy'n ddigidol frodorol heddiw ac yfory, i ffynnu o ganlyniad i'w profiadau digidol.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyfodol-newydd-ar-gyfer-darlledu-chyfathrebu-yng-nghymru-cyfryngau-plant-yn-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Delyth.Jewell@senedd.cymru

31 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth

**Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2022-2023**

Fel y gwyddoch, cychwynnais yn fy rôl fel Comisiynydd y Gymraeg ym mis Ionawr 2023, ac roeddwn am roi gwybod y byddaf yn cyhoeddi fy adroddiad sicrwydd cyntaf ar 11 Hydref 2023. Bydd yn trafod canfyddiadau fy swyddfa ar berfformiad sefydliadau cyhoeddus sydd â dyletswyddau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg.

Bydd yr adroddiad hefyd yn trafod perfformiad sefydliadau â'u dyletswyddau, ynghyd â thynnu sylw cyrff cyhoeddus at faterion sy'n flaenoriaeth i fi fel Comisiynydd - gan gynnwys sut all cyrff cyhoeddus wneud mwy i gynyddu lefelau defnydd o'r Gymraeg yn nhermau'r gwasanaethau y maent yn eu darparu ac yn fewnol fel gweithleoedd pwysig. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r angen am well trefniadau gan sefydliadau o ran asesu'r angen am sgiliau Cymraeg wrth recriwtio i swyddi er mwyn gwella eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

Gwn wrth i mi gael fy mhenodi bod awydd gan y Pwyllgor i fy ngwahodd yn ôl i drafod fy ngwaith, efallai bod cyhoeddi'r Adroddiad hwn yn gyfle addas i wneud hynny. Byddwn yn falch iawn o wneud.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthoch.

Yn gywir

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
efa.gruffudd.jones@cyg-wlc.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

comisiynyddygymraeg.cymru
welshlanguagecommissioner.wales

## INWARD VISITS – JULY 2023

**10 July** **Visit by Slovak Ambassador to the UK**
The Minister for Economy met with the Slovak Ambassador to honour the 30th anniversary of the establishment of the Slovak Republic as an independent nation The Ambassador also joined Cardiff Business Club as an opportunity to strengthen ties and establish relationships.

**17 July** **Visit by the Chair and the Chief Executive of the UK National Commission to UNESCO**
The First Minister met with the representatives to UNESCO to reflect on his visit to UNESCO earlier this year, the importance of managing sustainable tourism and to discuss UNESCO's Decade of Indigenous Languages through Wales Arts International's Gwrando initiative.

## OUTWARD VISITS – JULY 2023

**Nil** Nil

# MINISTERIAL INTERNATIONAL ENGAGEMENT

## AUGUST 2023

### INWARD VISITS

| | |
|---|---|
| **Nil** | Nil |

### OUTWARD VISITS

**02 August** — **First Minister meeting with Australian High Commissioner**
The First Minister travelled to London to meet with the Australian High Commissioner. The meeting included discussions on Economy, Free Trade Agreement, CPTPP and a potential visit to Wales Autumn/Winter 2023.

**02 August** — **First Minister meeting with the New Zealand High Commissioner**
The First Minister travelled to London to meet with the New Zealand High Commissioner. The meeting included discussions on Free Trade Agreement, Well-Being Alliance, Student mobility and a potential visit to Wales Autumn/Winter 2023.

**04 August** — **First Minister's Visit to Brittany**
The First Minister travelled to Brittany for the Celtic Forum and the Lorient Festival. During the visit the First Minister re-signed the Wales/Brittany MOU. Bilateral meetings were also held with:

- President of the Regional Council of Brittany
- Minister of Culture at the French Government
- British Ambassador to France
- Former French Minister for Europe and Foreign Affairs and Minister for Defence (Jean-Yves Le Drian)
- Deputy First Minister of Scotland
- General Director of EU and Foreign Affairs at the Galician Government,
- Leader of Cornwall Council

# LLYTHYR AGORED I LYWODRAETH CYMRU, CYMRU GREADIGOL A'R CYNGOR LLYFRAU CYMRU I ACHUB CYLCHGRONAU A GWEFANNAU CYMREIG

Yn ddieithriad, ers dechrau datganoli chwarter canrif yn ôl, mae pob adolygiad o'r dirwedd ddiwylliannol neu wleidyddol yng Nghymru wedi sôn am **brinder ein cyfryngau**. Am lawer o resymau hanesyddol, sy'n cael eu hailadrodd yn aml, bu cynnal sector cyfryngau annibynnol hyfyw yng Nghymru yn dasg affwysol o anodd.

Ers degawdau, **mae swm hynod fychan** – dim ond cyfran fechan iawn o'r holl gyllid a gaiff ei wario ar ddiwylliant – **wedi mynd ymhell iawn**. Mae wedi helpu i feithrin cysylltiadau diwylliannol mewn byd cyhoeddus rhanedig, ac i ysgogi deialog hanfodol, gan baratoi'r ffordd at ddatblygiad gwleidyddol a chysyniadol y genedl. Mae'r buddsoddiad hwn wedi helpu i feithrin cyhoeddiadau a chyfnodolion yn y ddwy iaith genedlaethol, rhywbeth sydd wedi ennyn sylw a chryn barch ymhell y tu hwnt i Gymru.

Er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol, mae'r sector cylchgronau a chyfnodolion yng Nghymru – sector bychan sydd hefyd yn derbyn cymorthdaliadau – wedi datblygu'n **fodel o arfer da**. Mae'r cyhoeddiadau hyn wedi **esblygu'n fusnesau bychain unigryw a deinamig**, rhai blaengar eu golygon sy'n cynnal gwerthoedd moesegol uchel. O ran eu strwythur, maent yn ymdrechu i weithredu'n annibynnol ar ddylanwadau diangen, boed gan noddwr, cyllidwr neu'r wladwriaeth, a hynny er mwyn **gwrthsefyll a gwrthwynebu grym ac er mwyn cynnig naratifau amgen.** Mae'r cyfnodolion yn dibynnu ar **dimoedd ffyddlon ac ymroddedig** o staff, gweithwyr llawrydd a chyfranwyr sy'n fodlon mynd y filltir ychwanegol er mwyn rhagoriaeth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, mae'r filltir ychwanegol honno wedi mynd yn anghynaliadwy o hir. Mae **lefelau grantiau, sy'n gwaethygu'n gyson**, **a'r amodau cyllido llymach**, bellach wedi mynd yn beth cyffredin, gan greu cynsail sydd wedi arwain at 'gystadleuaeth tua'r gwaelod' o ran amodau gwaith a chyflogaeth, yn ogystal â ffioedd isel i gyfranwyr. Mae hyn yn effeithio ar y rheini sydd eisoes yn gweithio yn y sector ar hyn o bryd, ond hefyd ar y sawl fydd yn cychwyn yn y maes.

Bedair blynedd yn ôl, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Gwaith Teg Cymru*. Dyma ymrwymiad manwl i amodau cyflogaeth teg, a dyma sut y'u diffiniwyd:

> Cael eich gwobrwyno'n deg; llais y cyflogedig a chynrychiolaeth gyfunol; diogelwch a hyblygrwydd; cyfle ar gyfer mynediad, twf a dilyniant; cyd-destun gweithio diogel, iach a chynhwysol; parchu hawliau cyfreithiol a'u rhoi ar waith go iawn.

Ar ben hynny, argymhellodd yr adroddiad

> y dylid ond rhoi arian cyhoeddus i'r sefydliadau hynny sy'n cyflawni, neu'n gweithio tuag at gyflawni, ein diffiniad o waith teg yn ogystal â nodweddion y rhain (sef, y sefydliadau sy'n bodloni safon Gwaith Teg Cymru).

Mae'n anodd gweld sut mae'r amodau gwaith presennol sy'n nodweddu llawer o'r busnesau bychain hyn yng Nghymru yn cyflawni uchelgais eu ffynhonnell gyllido waelodol, nid oherwydd unrhyw fai ar y busnesau eu huanin ond yn benodol oherwydd y toriadau a gafwyd, un ar ôl y llall, yn y cyllid ers 2008. Yn achos un o'r cylchgronau hyn, sef *Planet: The Welsh Internationalist*, y cyfnodolyn uchel ei barch a sefydlwyd ym 1970, **mae ei gyllid craidd bellach yn llai na hanner yr hyn ydoedd cyn datganoli**, a hynny heb ystyried chwyddiant. Mewn achosion eraill, mae cyhoeddiadau cyfredol yn aml yn derbyn yr un lefel cyllid ag a gawsant flynyddoedd yn ôl, er gwaethaf y costau sy'n cynyddu fwyfwy; ac o'r cychwyn cyntaf, nid yw cyhoeddiadau newydd wedi derbyn lefelau grant hyfyw. Nid yw'r gostyngiadau mewn cyllid yn ymateb i angen na pherfformiad. Yn hytrach, maent yn digwydd yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi camddehongli rheoliadau cymorth gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd, a hynny cyn cyfnod Brexit. Parhau a wna'r sefyllfa hon, er i bennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru a'i gydweithiwr yn y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gystadleuaeth ym Mrwsel ddod i'r casgliad y dylai cylchgronau o'r fath fod wedi eu heithrio o'r rheoliadau hyn o'r dechrau.

Yn ei cholofn olygyddol yn rhifyn Tachwedd 2022 o'r cylchgrawn *Planet*, sy'n dadlau dros amodau cyllido gwell ar gyfer pob cylchgrawn a gwefan yng Nghymru, mae golygydd a chyfarwyddwr bwrdd *Planet* Emily Trahair yn egluro sut ei bod, er cael ei thalu i weithio dim ond 27 awr yr wythnos, yn gweithio rhwng 40 a 70 awr

yr wythnos, “and occasionally well over 80 … necessitated by the grant franchises and cuts”. Yn ystod y degawd diwethaf, mae amodau'r grantiau wedi mynnu bod cyhoeddiadau’n codi swm penodol o incwm ychwanegol er mwyn derbyn y cyllid craidd (llai) hwn. Nid oes gan gyhoeddwyr ddiffyg arbenigedd ynghylch sut i fynd i’r afael â hyn. Yn hytrach, y broblem yw’r **oriau di-dâl** sydd eu hangen i roi’r gweithgareddau hyn ar waith, **ar draul enbyd lles y staff**.

Mae'r sefyllfa a amlinellwyd gan Emily Trahair yn debyg i'r hyn y mae llawer o gyhoeddiadau eraill a ariennir yn ei wynebu. Nodir ganddi fod holl staff cylchgrawn *Planet* wedi derbyn yr un cyflog yr awr (£12) ers 2012; ond ar ben hynny, heb gynnydd sylweddol iawn yn y grant, mae'n amhosib darparu pensiynau llawn, taliadau salwch statudol, neu yn y rhan fwyaf o achosion, oriau gwaith addas ar gyfer rhiant, gofalwr neu rywun sy'n gwella yn sgil salwch. Gan fod costau’n cynyddu, mae bellach yn anos nag erioed i gyhoeddiad gynnal cyllideb gytbwys. Er bod ymdrechion Cyngor Llyfrau Cymru i lobïo Llywodraeth Cymru am well cyllid i’w croesawu’n fawr, megis y cyllid brys yn 2023 i fynd i’r afael, yn y tymor byr, yn rhannol â’r argyfwng costau byw, mae’n rhaid i bob corff sy’n gyfrifol am ddarparu grantiau gydnabod **nad yw'r setliad presennol yn gynaliadwy**.

Mae'n fater o frys bod y sefyllfa hon yn gwella ar fyrder. **Mae'n hanfodol cynyddu lefelau cyllid craidd cylchgronau a gwefannau.** Gwneud hynny yw polisi datganedig gweinyddiaeth bresennol y Senedd. Mae Cytundeb Cydweithio Rhagfyr 2021 rhwng llywodraeth Lafur a Phlaid Cymru yn mynegi hyn yn glir:

> Fel ymyrraeth gychwynnol, byddwn yn rhoi buddsoddiad ychwanegol i ddatblygu mentrau presennol a newydd sy’n ceisio gwella newyddiaduraeth yng Nghymru ac i gefnogi cyfryngau yng Nghymru er mwyn mynd i’r afael â’r bylchau mewn gwybodaeth.

Byddai cyllid craidd cynaladwy yn gymorth i fynd i’r afael â’r bylchau mewn gwybodaeth, ac yn golygu bod cyhoeddiadau yn gallu cyrraedd mwy na chyfran hynod fechan o’u darpar ddarllenwyr; ar ben hynny, byddai'n golygu bod modd sicrhau amodau gwaith moesegol, bod y sector yn llawer mwy agored i’r sawl sy’n cyrraedd y maes o gefndiroedd anhraddodiadol, ac yn cyflawni llawer o mwy o'r uchelgais fawrfrydig sydd ynghlwm wrth strategaeth Gwaith Teg Cymru.

Drwy gydol y ganrif hon, wrth reswm, mae llawer o’r pwyslais wedi symud i'r maes digidol. Mae’r llu o wefannau newyddion, diwylliant a materion cyfoes Cymreig ar-lein yn dyst i hyder a hunanfynegiant cenedlaethol newydd, un y mae’r cyfryngau print heb os wedi braenaru’r tir ar ei gyfer. **Mae’n bwysig bod arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn cyhoeddiadau ar-lein ac amlgyfrwng**, oherwydd heddiw dyma’r ffordd y byddwn yn dod o hyd i gymaint o’r newyddion a’r safbwyntiau a ddarllenwn, ond daw gwerth y cyfryngau print yn fwyfwy clir a chefnogaeth ddigonol ar eu cyfer yn fater o frys cynyddol.

**Mae cyhoeddiadau print sy'n cyhoeddi darnau hir yn bodoli o hyd.** Mae safon y deunydd print hwn yn golygu bod iddo werth parhaol: mae darllenwyr yn cadw copïau o gylchgronau gwleidyddol a diwylliannol at y dyfodol. Dyma adnodd hollbwysig ym myd addysg, llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru a ledled y byd, sy'n croniclo hanes cenedl sy’n bythol newid. Mae ysgrifenwyr yn gwybod gwerth hyn i’r dim. Yn bwysicach fyth, mae profiadau pobl yn newid. Rydym yn darllen print mewn ffordd wahanol. **Yn aml, bydd geiriau’n cael eu saernïo’n fwy gofalus, a’u darllen yn fwy gofalus hefyd.** Bymtheg mlynedd yn ôl, aeth cyhoeddwyr llyfrau i banig mawr gan eu bod o’r farn bod eu model busnes yn prysur ddiflannu. Y gwrthwyneb sydd wedi digwydd ac mae mwy o siopau llyfrau annibynnol nag erioed o’r blaen. **Mae angen cyhoeddiadau print *a* digidol ar bobl.** Yn wir, mae natur cyfryngau print a digidol yn cyfateb yn dda i’w gilydd, ond eto’n wahanol, a hynny'n cael ei hadlewyrchu yn y ffaith bod y rhan fwyaf o gyhoeddiadau print yng Nghymru’n cynnig rhifynnau digidol a chynnwys ar-lein.

Yn aml gall gymryd degawdau i feithrin prosiectau sydd o werth diwylliannol gwirioneddol, ond gellir eu colli ar amrantiad. **Yng Nghymru, rydym yn dyheu am wneud pethau’n wahanol, am wneud pethau’n well na model San Steffan**, sy’n cael ei wthio’n ei flaen gan feddylfryd 'caledi'. Mae’n rhaid i hyn olygu rhywbeth, ac yn achos cyllid ar gyfer cylchgronau, cyfnodolion a gwefannau, mae’n rhaid iddo olygu ein bod yn cyhoeddi eu gwerth mewn ffordd ddiflewyn-ar-dafod a bod hyn, yn ei hanfod, yn llawer iawn mwy na’r cyllid cyhoeddus ynghlwm wrtho. Os methwn â herio’r uniongrededd truenus a thrist, a hynny’n ddeallusol yn ogystal ag yn faterol, byddwn wedi methu’r genedl.

• Galwn ar bob corff sy'n gyfrifol am gyllido cylchgronau a gwefannau – Llywodraeth Cymru, Cymru Greadigol a Chyngor Llyfrau Cymru – i ddod ynghyd i gydlynu ymdrechion i wella cyllid craidd, a hynny fel mater o frys.

• Dylid cynyddu'r cyllid craidd ar gyfer pob cylchgrawn a gwefan sy'n llwyddiannus yng ngalwad nesaf y grantiau ar gyfer cylchgronau Saesneg eu hiaith, a hynny fesul cyhoeddwr hyd at lefel sy'n caniatáu amodau gwaith moesegol ar gyfer pob un gweithiwr a gyflogir, ar gyfer gweithwyr llawrydd a chyfranwyr, ac yn gyfnewid am greu cynnwys rhagorol; a dylid hefyd rhoi hwb i gyllid craidd cylchgronau a gwefannau Cymraeg eu hiaith. Dylai pob targed ac amod ariannu gynnwys yr oriau â thâl sydd eu hangen i gyflawni´r cyfryw waith, sy'n aml yn gymhleth i'w gyflawni i safon uchel.

• Dylai setliad cyllido teg newydd ar gyfer cylchgronau a gwefannau ddod i rym ar sail y cyllid craidd a gytundebir ar gyfer cyfnod cytundeb y grantiau Saesneg nesaf, ac yn yr un modd ar gyfer gweddill cyfnod cytundeb presennol y grantiau Cymraeg: nid yw cyllid *ad hoc* yn ddigonol i gylchgronau oroesi. Ni fyddai hwb yn sgil cyllid prosiectau atodol yn unig, a fyddai ynghlwm wrth flaenoriaethau polisi allanol, yn ogystal ag ymyrraeth ddiangen trwy dargedau (y tu hwnt i fonitro angenrheidiol), yn diwallu anghenion cyfryngau llawr gwlad a ddylai, er iechyd ein democratiaeth, barhau’n strwythurol annibynnol ar y wladwriaeth a chyrff cyllid.

Yn gywir,

1. Mike Parker

2. Michelle Stanistreet, Ysgrifennydd Cyffredinol, Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr/NUJ)

3. Christopher Meredith, ar ran grŵp llywio Cymdeithas yr Awduron - Cymru

4. Yr Athro Emeritws Charlotte Williams OBE

5. Patrick McGuinness

6. Laura McAllister

7. Gillian Clarke

8. Jay Griffiths

9. Rachel Trezise

10. Yr Athro Richard Wyn-Jones

11. Eric Ngalle Charles

12. Menna Elfyn

13. Jon Gower

14. Gwyneth Lewis

15. Niall Griffiths

16. Ifor ap Glyn

17. Andrew Green (Cadeirydd *New Welsh Review*)

18. Dr Daryl Leeworthy

19. Amy Wack

20. Owen Shiers (cerddor)

21. Katell Keineg

22. Pascale Petit FRSL

23. Mabli Siriol Jones

24. Dr Dan Evans

25. Dr Kieron Smith

26. Steve Griffiths

27. Leanne Wood

28. Pamela Petro

29. Norena Shopland

30. Dr Peter Wakelin

31. Nia Davies (bardd)

32. Eluned Gramich

33. Sophie McKeand
34. Iwan Bala
35. Peter Stevenson
36. Dr Mary-Ann Constantine
37. Gareth Leaman
38. Polly Manning
39. Yr Athro Tony Curtis
40. Helen Sandler
41. Alison Lochhead
42. Nigel Jarrett
43. Mike Joseph
44. Rebecca Roberts
45. Taz Rahman
46. Siân Melangell Dafydd
47. John Geraint
48. Shara Atashi
49. Myfanwy Alexander
50. Bethan Miles
51. Sam Adams
52. Sharon Morgan
53. Francesca Rhydderch
54. John Barnie
55. Carole Hailey
56. Lottie Williams

57. Richard John Parfitt

58. Ifor Thomas

59. Peter Finch

60. Steve Andrews

61. John Osmond

62. James Stewart

63. Wiliam Owen Roberts

64. Dr Gemma June Howell

65. Sarah Tanburn

66. Greg Hill

67. Jane Fraser

68. Rebecca George

69. Mike McNamara

70. Gaynor Funnell

71. Geraint Lewis

72. Nick Murray

73. Samantha Wynne-Rhydderch

74. Gorwel Owen

75. Anthony Evans (arlunydd)

76. Yr Athro Emeritws David Ian Rabey MA MA PhD CCDC/FLSW

77. Colin Thomas

78. Sara Penrhyn Jones

79. Darren Chetty

80. Adam Johannes

81. Dylan Huw
82. Harriet Protheroe-Soltani
83. Emily Blewitt
84. Harry Waveney
85. Charmian Savill
86. Huw Williams, Deon y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
87. Stevie Davies
88. Bridget Keehan
89. Frances Williams
90. Ant Evans
91. Katie Gramich
92. Michelle Deininger
93. Steven Lovatt
94. Yr Athro Paul O'Leary, FLSW, FRHistS
95. Jonathan Edwards (bardd)
96. Yr Athro Deri Tomos
97. Catrin Evans
98. Catrin Elis Williams
99. Elinor Wyn Reynolds
100. Dr Elen Ifan
101. Aled Islwyn
102. Geraint Lewis (cyfansoddwr)
103. Elin Llwyd Morgan
104. Tracey Rhys

105. Dr Tim Rhys (dramodydd a darlithydd ysgrifennu creadigol)

106. Rita Singer

107. Kaite O’Reilly

108. Adam Coward

109. Iestyn Tyne

110. Robert Minhinnick

111. Aled Llion Jones

112. T. Robin Chapman

113. Rhianwen Daniel

114. Carl Morris

115. Steve Thompson

116. Mark S. Redfern

117. Selwyn Williams, Cwmni Bro Ffestiniog

118. Martin Wright

119. Morgan Owen

120. Aidan Byrne

121. Rhian E. Jones

122. Kathryn Gray

123. Ben Gwalchmai

124. Lynne Rees

125. Dr Sioned Pearce

126. Meic Birtwistle

127. Yr Athro Jeremy Hooker FRSL

128. Joshua Jones

129. Dr Nia Edwards-Behi

130. Dr Carrie Etter

131. Vicky Morris

132. Dr Sam Christie

133. Ed Garland

134. Jim Pratt MBE

135. Graham Mort

136. Paul Cabuts

137. Gwen Davies

138. Ness Owen

139. Richard Gwyn

140. Jo Dahn

141. Katherine Cleaver

142. Mark Blayney

143. Russell Todd

144. Liz Jones

145. Dr Ceri Thomas (arlunydd, hanesydd celf, curadur)

Dear Delyth Jewell,

Good afternoon.

We're writing to you in your capacity as Chair of the Culture and Commications Committee to give an update on the open letter campaign we contacted you about on the 11th of August. The campaign to safeguard magazines and websites funded by BCW has taken on extra momentum as more writers have contacted us wishing to sign, with signatories now totalling 178. Also, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, the Association for Welsh Writing in English and Wales PEN Cymru have now joined the National Union of Journalists and Society of Authors Wales in adding their signatures.

With ever rising costs and pressures on working conditions becoming desperate, the clock is ticking for this campaign to succeed in order for publications in both languages to survive and to safeguard the wellbeing of those who work in the sector.

In media coverage of the open letter, the Welsh Government has responded with reference to £135,000 additional support for magazines. This was very welcome. However, this is only for Welsh-language magazines, is for one year only, and established Welsh-language magazines have not received sufficient resources from this fund to substantially address chronic underfunding and consequent poor working conditions. (For example, O'r Pedwar Gwynt receive £34,000 annually as a core grant, and £10,000 as a one-off from the £135,000 fund.)

They also refer to £200,000 provided for journalism under the Plaid-Labour co-operation agreement as helping address the issues, but none of this has been pledged (as yet at least) to improve core funding for magazines & websites funded by BCW.

We will be reporting back to our signatories on the progress of the campaign. If adequate provision for core funding schemes in both languages has not been secured by the end of the month we will request an online meeting with Welsh Government, Creative Wales and Books Council of Wales at an appropriate time that also takes into account the urgency of the situation, to help resolve this constructively.

Yours sincerely,

The campaign team

# O Gymru ac i Gymru:

## Tuag at Ddyfodol Cynaliadwy ar gyfer Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd

# Cynnwys


Ein Gweledigaeth 3
Rhagair 5
Crynodeb o'r Argymhellion 8

**Sefydliad Cyfryngau Cymru** 9

(i) Gweithlu amrywiol a chadarn 10
(ii) Yn deall anghenion defnyddwyr cyfryngau 12
(iii) Y Gymraeg 13
(iv) Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau 14
(v) Codi arian a dyfarnu grantiau 15
(vi) Cronfa y gellir cystadlu amdani 16
(vii) Diffeithdiroedd newyddion 17
(viii) Ymgyrchoedd marchnata a hysbysebu cyhoeddus 19
(ix) Hysbysiadau cyhoeddus statudol 20
(x) Asedau cymunedol 21

**Casgliadau a'r camau nesaf** 22

**Atodiad 1:** Gweithgor Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru 23
**Atodiad 2:** Cylch Gorchwyl. Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru 24

# Ein Gweledigaeth: Newyddiaduraeth Fel Gwasanaeth Cyhoeddus

Rydyn ni am fyw mewn Cymru lle gall pob dinesydd gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy o ansawdd uchel a dadleuon iach am eu cymunedau eu hunain a sefydliadau lleol a chenedlaethol, yn ogystal â'r byd ehangach, er mwyn i bawb allu chwarae rhan lawn mewn diwylliant democrataidd a phrosesau gwneud penderfyniadau. Rydyn ni eisiau cyfryngau sy'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o helpu i feithrin a siapio hunaniaeth genedlaethol a lleol, gan gyfrannu at y Gymraeg, diwylliant ac ymdeimlad o hanes a rennir a dyfodol cyffredin, sy'n rhwymo cymunedau gyda'i gilydd, gan gyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a chefnogi llesiant pobl Cymru, nawr ac i genedlaethau'r dyfodol.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae angen tirwedd cyfryngau sy'n ffynnu, yn amrywiol a sydd ag annibynniaeth golygyddol, ac yn hygyrch i bob cymuned yng Nghymru - yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd newyddiadurwyr sy'n darparu cynnwys er budd y cyhoedd wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cael cyflogau da, a byddant yn cynrychioli'r bobl a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu, ond yn cymryd rhan lawn mewn bywyd lleol. Mae cyfryngau amrywiol hefyd yn golygu ecoleg gymysg: bydd darparwyr newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru yn amrywio o wasanaethau masnachol mawr i ddarparwyr annibynnol llai. Bydd gwybodaeth gyhoeddus bwysig yn cael ei lledaenu'n eang drwy'r ecosystem wybodaeth gyfan yng Nghymru.

### Newyddiaduraeth er budd y cyhoedd - ein diffiniad

**Mae'r diffiniad o newyddion er budd y cyhoedd wedi dod yn bwnc trafod diddorol yn y maes polisi, y byd academaidd a'r cyfryngau ei hun, gyda llawer o ddadleuon ynghylch beth yn union mae'n ei olygu. Cafodd y Gweithgor ei lywio gan Gylch Gorchwyl a oedd yn defnyddio diffiniad eang o newyddion er budd y cyhoedd, fel gwybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu a'i dosbarthu i'r cyhoedd yn unol â safonau uchel o ran ymddygiad moesegol ac arferion gorau mewn newyddiaduraeth ac sy'n darparu un neu fwy o'r manteision canlynol i'r cyhoedd:**

- rhoi gwybod i aelodau'r cyhoedd am faterion sy'n berthnasol iddynt hwy a'u bywydau, yn ogystal â'u rôl a'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r gymuned
- galluogi aelodau o gymunedau lleol i wybodol o faterion o bryder cyffredin a'u deall, ac yn hyrwyddo eu cyfranogiad a'u cydweithrediad mewn materion o'r fath a chydlyniant cymunedol yn unol â hynny
- galluogi aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan mewn prosesau democrataidd perthnasol mewn ffordd wybodus ac, o ganlyniad, yn cefnogi dilysrwydd y broses ddemocrataidd yn ei chyfanrwydd
- o fudd i'r cyhoedd drwy hybu gwell dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar bawb, er enghraifft materion iechyd a meddygol neu gadwraeth amgylcheddol

**Credwn:**

**Dylid cael diffiniad o newyddiaduraeth er budd y cyhoedd, dealltwriaeth ohonno a dylid ei hyrwyddo fel gwasanaeth cyhoeddus,** sy'n hanfodol i iechyd democratiaeth leol, genedlaethol a byd-eang. Yn sgil yr heriau niferus a amlinellir yn y papur hwn, a'r gwahanol gynseiliau sy'n bodoli yng Nghymru, yn enwedig yn y Gymraeg, ac mewn mannau eraill, ni ddylai fod unrhyw amheuaeth ynghylch defnyddio arian cyhoeddus i gefnogi newyddiaduraeth er budd y cyhoedd.

**Rhaid i newyddiaduraeth er budd y cyhoedd allu gweithredu'n annibynnol, heb ofn na ffafr,** ac felly mae'n hanfodol ein bod yn gwahanu rhwng y llywodraeth a'r bedwaredd ystad.

# Rhagair: Newyddiaduraeth o Gymru ac i Gymru

Nid Cymru yw'r unig wlad sy'n mynd i'r afael â'r heriau hollbwysig sy'n wynebu newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn yr oes ddigidol. Roedd Adolygiad Cairncross yn adroddiad cynhwysfawr a oedd yn canolbwyntio ar 'ddyfodol cynaliadwy ar gyfer newyddiaduraeth' a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU yn 2019[1] ac rhoddodd ymchwiliad gan bwyllgor Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ystyriaeth i faterion tebyg ym mis Ionawr 2023[2]. Cyhoeddodd y Fforwm byd-eang ar Wybodaeth a Democratiaeth ei Fargen Newydd ar gyfer Newyddiaduraeth yn 2021[3]. Gwnaeth Scotland's News: towards a sustainable future for public interest journalism argymhellion yng nghyd-destun yr Alban yn yr un flwyddyn. A rhoddodd golygyddol y Guardian grynodeb o ddifrifoldeb yr argyfwng mor ddiweddar â mis Mawrth 5, 2023, gan agor gyda'r honiad 'there are probably fewer local newspapers in Britain now than at any time since the 18th century'[4].

Mae'r oes ddigidol wedi chwyldroi'r hinsawdd wybodaeth ar draws y byd, ac mae'r effeithiau wedi bod yn hynod arwyddocaol - yn cadarnhaol ac yn negyddol - ar lefel genedlaethol a lleol. O ganlyniad, mae nifer fach o gwmnïau technoleg, sydd wedi'u lleoli'n bennaf yn yr Unol Daleithiau, wedi dod yn hynod o gyfoethog a phwerus. Rhyngddynt, mae Amazon, Apple, Alphabet (Google), Microsoft, Meta (Facebook ac Instagram), Twitter, a Snapchat yn cynhyrchu refeniw o fwy na £900 biliwn, ac mae eu gwerth ar y marchnadoedd arian dros driliwn o ddoleri. O ganlyniad, mae'r holl lywodraethau democrataidd yn ymgodymu â materion sy'n ymwneud â sut mae sicrhau bod modd rheoleiddio 'Cwmnïau Technoleg Mawr' i sicrhau bod eu heffeithiau cadarnhaol yn cael eu gwella a'u hyrwyddo a bod eu heffeithiau negyddol yn cael eu lliniaru.

Yn y cyfamser, mae'r dirywiad tymor hir wedi cyflymu yn y diwydiant papurau newydd print gyda dros 320 o deitlau lleol wedi cau yn y DU rhwng 2009 a 2019 wrth i refeniw hysbysebu ostwng tua 70%[5]. Yn y cyfamser, mae Sefydliad Reuters ar gyfer Astudio Newyddiaduraeth yn adrodd mai dim ond saith y cant o oedolion ar-lein yn y DU sy'n talu am wasanaethau newyddion digidol ar hyn o bryd, ac mae 50% wedi dweud na fyddent yn barod i dalu[6]. Pan fo modelau busnes yn cael eu chwalu, mae methiant yn y farchnad yn dilyn. Ac er nad oes amheuaeth bod yr heriau sy'n wynebu newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn rhai byd-eang, mae materion ychwanegol sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, ac felly'n galw am atebion Cymreig. Mae arolwg cael gafael ar newyddion Ofcom 2022 yn cadarnhau dwy duedd sydd wedi cael sylw'n aml dros y blynyddoedd diwethaf: goruchafiaeth teitlau Llundain, a'r nifer isel sy'n darllen papurau newydd traddodiadol yn gyffredinol. Er enghraifft, mae'r Daily Mail / Mail on Sunday yn cyrraedd 14 y cant o boblogaeth Cymru ac mae'r Western Mail / Wales On Sunday / ap WalesOnline yn cyrraedd 10 y cant, ffigur nad yw'n cynnwys cylchrediad y Daily Post, South Wales Echo a'r South Wales Evening Post[7].

1 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/779882/021919_DCMS_Cairncross_Review_.pdf

2 https://committees.parliament.uk/publications/33635/documents/183838/default/

3 https://informationdemocracy.org/wp-content/uploads/2021/06/ForumID_New-Deal-for-Journalism_16Jun21.pdf

4 https://committees.parliament.uk/writtenevidence/107475/html/

5 https://committees.parliament.uk/writtenevidence/107659/html/#_ftnref4

6 https://reutersinstitute.politics.ox.ac.uk/sites/default/files/2020-06/DNR_2020_FINAL.pdf

7 https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/242704/wales-report-2022.pdf

Yn yr Alban, mae stori tudalen flaen teitlau'r DU yn wahanol i'w rhifynnau 'Cymru a Lloegr' yn aml, ac maent yn adrodd ar straeon yr Alban, gan gynnwys straeon chwaraeon, ac mae gohebwyr wedi'u lleoli yn yr Alban. Mae'r 'diffyg democrataidd' yn ddifrifol yng Nghymru. O'r papurau newydd dyddiol Prydeinig sy'n cael eu cynhyrchu y tu allan i Gymru, dim ond Morning Star sy'n cyflogi gohebydd yng Nghymru. Nid oes unrhyw un o bapurau 'cenedlaethol' prif ffrwd y DU yn cyflogi newyddiadurwr yng Nghymru, ac mae'n annochel bod hyn yn arwain at ddiffyg sylw i newyddion o'r wlad ac am y wlad, hyd yn oed o'i chymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Ar ben hynny, dim ond un gohebydd sydd gan y Press Association (PA) ar gyfer Cymru gyfan ac ychydig iawn o newyddion Cymreig sydd ganddo ar ei ddangosfwrdd i'r cyfryngau ei ddefnyddio. Er enghraifft, roedd PA Media yn cynnwys araith Syr Keir Starmer yng nghynhadledd Llafur Cymru yn 2023 (a anfonwyd i'r cyfryngau gan swyddfa'r wasg Plaid Lafur y DU) ond nid oedd yn cynnwys araith Prif Weinidog Cymru awr yn ddiweddarach yn yr un gynhadledd. Pur anaml y bydd PA Media yn trafod trafodion yn y Senedd, er ei fod yn rhoi sylw i ddatblygiadau yn Senedd yr Alban. Am 2.30pm ar 13 Mawrth, 2023 roedd gan PA Media 18 stori wedi'u rhestru ar gyfer yr Alban, gan gynnwys amserlen dyddiadur ddyddiol, o'i gymharu â dim ond dwy stori o Gymru. Mae chwe phapur newydd dyddiol, un papur dydd Sul a mwy na 30 o bapurau wythnosol lleol yn dal i gael eu cynhyrchu yng Nghymru. Mewn rhai achosion, mae'r gostyngiad mewn cylchrediad print wedi cael ei wrthbwyso gan dwf darllenwyr digidol yn ogystal â llu o ddarparwyr newydd ar-lein yn unig. Fodd bynnag, mae refeniw argraffu yn gostwng ac mae gweithrediadau ar-lein yn llai proffidiol, sy'n golygu bod llai o newyddiadurwyr yn gweithio ar draws yr holl gyhoeddiadau hyn, ac mae llai o newyddiaduraeth am Gymru a'i chymunedau'n cael ei gwneud.

Er mai prif ffocws Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru fu darparu newyddion drwy bapurau newydd traddodiadol ac ar-lein, rhaid i ni hefyd gydnabod bod y sector darlledu yng Nghymru yn wynebu amryw o heriau sylweddol. O dan y Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, sefydlwyd Panel o Arbenigwyr i edrych ar y materion yma, ac rydym yn rhagweld y bydd ein canfyddiadau'n cyd-fynd yn gryf â chanfyddiadau'r panel hwn.

Roedd ffynonellau newyddion yn Llundain yn aml yn adrodd am ddatblygiadau yn Lloegr ac o ran y cyfyngiadau Covid-19 yn Lloegr, a oedd weithiau'n wahanol i gyfyngiadau Llywodraeth Cymru, gan ddrysu defnyddwyr cyfryngau yng Nghymru. Mewn un achos ym mis Mai 2020, talodd Llywodraeth y DU am hysbyseb yn fersiwn papur newydd a gwefan y Wrexham Leader a oedd yn cynnwys canllawiau a chyfyngiadau ar gyfer Lloegr, ond a oedd yn wahanol ar pryd i'r cyfyngiadau yng Nghymru[8].

Roedd pandemig Covid-19 yn gyfnod heriol iawn i adrodd amdano yng Nghymru, ond gwnaeth cyfryngau Cymru ymdrechion enfawr i adrodd yn glir ar y cyhoeddiadau gan Fae Caerdydd a San Steffan ac effaith y rhain ar Gymru.

Mae ein hadroddiad yn nodi argymhellion ar gyfer ymyriadau strategol, systemig i greu sector newyddiaduraeth er budd y cyhoedd gynaliadwy yng Nghymru. Dylai darpariaeth newyddion sicrhau y gall pob dinesydd gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy o ansawdd uchel a dadleuon iach am eu cymunedau eu hunain a sefydliadau lleol a chenedlaethol, yn ogystal â'r byd ehangach, er mwyn i bawb allu chwarae rhan lawn mewn diwylliant democrataidd a phrosesau gwneud penderfyniadau fel rhan o'n cymdeithas amrywiol yng Nghymru. Bwriad ein hargymhellion hefyd yw ategu'r bwriad i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru, er mwyn mynd i'r afael â phryderon ehangach ynghylch pa mor fregus yw'r cyfryngau yng Nghymru.

**8** https://record.assembly.wales/Committee/6409

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dangos ei hymrwymiad i fynd i'r afael â'r heriau a amlinellir yn yr adroddiad hwn drwy hwyluso'r gwaith o gcreu Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru, yn ogystal â'i hymrwymiad i 'ariannu mentrau presennol a rhai newydd i wella newyddiaduraeth yng Nghymru i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth' fel rhan o'i Gytundeb Cydweithredu gyda Phlaid Cymru. Mae'r heriau hyn wedi cael sylw helaeth, ac nid yw llawer o'r atebion yn hawdd i'w rhoi ar waith - ond mae canlyniadau methu â chefnogi llif gwybodaeth ddibynadwy yn ein cymdeithas yn rhy enbyd i'w hystyried. Nawr yw'r adeg i weithredu.

# Crynodeb o'r Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan newyddiaduraeth er budd y cyhoedd fel y'i diffinnir yn yr adroddiad hwn fel gwasanaeth cyhoeddus a sefydlu Sefydliad Cyfryngau Cymru. Dylai cylch gwaith y Sefydliad fod yn eang i ymgysylltu â dinasyddion, gwasanaethu cynulleidfaoedd a chefnogi a gwella newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru, a bod yn gyfrwng ar gyfer cyfres o fecanweithiau cyllido strategol a phenodol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y sector yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn amlieithog.

**(i).** Cefnogi'r gwaith o ddatblygu **gweithlu newyddiaduraeth amrywiol a chadarn** yng Nghymru ar bob lefel drwy ddatblygu rhaglenni hyfforddi drwy addysg bellach a phrentisiaethau; cefnogi arloesedd gan gynnwys modelau cyd-greu ar gyfer cymunedau lleol; a chynnig cyngor a chefnogaeth i newyddiadurwyr

**(ii).** Comisiynu ymchwil cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn **deall anghenion defnyddwyr y cyfryngau yng Nghymru yn well**

**(iii).** Sefydlu ymchwil a datblygu i ganfod anghenion penodol newyddiaduraeth er budd y cyhoedd **yn y Gymraeg,** gan wneud argymhellion pellach yn unol â hynny

**(iv).** Gweithio gyda darparwyr a defnyddwyr newyddiaduraeth er budd y cyhoedd i ddatblygu lefelau iach o **ymwybyddiaeth o'r cyfryngau** ar gyfer holl ddinasyddion Cymru

**(v).** Cael ei sefydlu fel corff a allai **godi arian** i gefnogi'r amcanion uchod, a **dyfarnu grantiau**

**(vi).** Sefydlu **cronfa y gellir cystadlu amdani** ar gyfer darparwyr newyddion newydd a rhai presennol, a fyddai'n cael ei gweinyddu hyd braich, gyda meini prawf clir yn seiliedig ar anghenion dinasyddion a chymunedau

**(vii).** Blaenoriaethu sylw i'r **'diffeithdiroedd newyddion'** yng Nghymru

**(viii).** Rhoi sicrwydd bod darparwyr newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn gallu gwneud cais am **ymgyrchoedd marchnata a hysbysebu cyhoeddus,** gydag ymrwymiad i isafswm gwariant

**(ix).** Sicrhau bod **hysbysiadau cyhoeddus statudol** yn cael eu dosbarthu drwy amrywiaeth o ddarparwyr newyddiaduraeth er budd y cyhoedd priodol yng Nghymru

**(x).** Cefnogi a rhoi statws **'ased â gwerth cymunedol'** i bapurau newydd lleol i sicrhau bod teitlau'n cael eu cadw.

**Y cam nesaf**

Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi proses gadarn a thryloyw i benodi pwyllgor llywio i oruchwylio'r gwaith o sefydlu Sefydliad Cyfryngau Cymru, ac ymrwymo i gyllideb o ddim llai na £1m y flwyddyn i roi cefnogaeth hyd braich i newyddiaduraeth er budd y cyhoedd

# Sefydliad Cyfryngau Cymru

**Cyd-destun**

Gan fod gwaith Llywodraeth Cymru ar gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru hefyd yn cynnwys ystyried 'sefydlu awdurdod darlledu a chyfathrebu cysgodol i Gymru', credwn fod cryn werth mewn ystyried sut y gallai swyddogaethau corff o'r fath orgyffwrdd a chydblethu â nodau Sefydliad Cyfryngau Cymru o ran newyddiaduraeth er budd y cyhoedd.

Byddai sefydlu Sefydliad Cyfryngau Cymru ar gyfer newyddiaduraeth er budd y cyhoedd hyd braich oddi wrth y llywodraeth, gan ei alluogi i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn newyddion lleol a phrosiectau newyddiadurol arloesol.

Pwrpas y Sefydliad fyddai gwasanaethu dinasyddion a defnyddwyr y cyfryngau yng Nghymru drwy graffu ar ansawdd, dibynadwyedd a chynaliadwyedd y cyfryngau sy'n gweithredu yma, a byddai'n gyfrifol am gyflawni'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Mantais ychwanegol ystyried ein hadroddiad ynghyd â'r hyn a gynhyrchwyd gan y Panel Arbenigol ar ddatganoli darlledu yw cefnogi'r uchelgais a nodwyd i 'fynd ati mewn ffordd strwythuredig i ddwyn ynghyd a chydlynu ymdrechion presennol Llywodraeth Cymru i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru a datblygiadau arloesol i gefnogi'r Gymraeg yn y byd digidol'.

**Camau Gweithredu**

- Penodi grŵp llywio i weithio tuag at sefydlu Sefydliad Cyfryngau Cymru, wedi'i ariannu'n llawn ac yn barhaus gan Lywodraeth Cymru. Byddai hefyd yn bosibl ei sefydlu fel corff sy'n gallu codi ei arian ei hun.

# (i) gweithlu newyddiaduraeth amrywiol a chadarn

Dylai Sefydliad Cyfryngau Cymru gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu newyddiaduraeth amrywiol a chadarn yng Nghymru drwy ddatblygu rhaglenni hyfforddi, addysg bellach a phrentisiaethau; cefnogi arloesedd gan gynnwys modelau cyd-greu ar gyfer cymunedau lleol; a chynnig cyngor a chefnogaeth i newyddiadurwyr

**Cyd-destun**

Mae newyddiaduraeth er budd y cyhoedd wedi wynebu nifer o heriau sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys dirywiad mewn cylchrediad papurau newydd, cynnydd mewn ffynonellau newyddion amgen, her cwmnïau technoleg fel ffynonellau cynnwys ac fel cyfrwng ar gyfer hysbysebu, a cwestiynau parhaus am ddibynadwyedd a gwrthrychedd ffynonellau newyddion. Mae llawer yn broblemau tymor hir, ond mae'r pandemig hefyd wedi dwysáu a chyflymu'r heriau a wynebir gan y sector.

Mae nifer y swyddi mewn newyddiaduraeth brif ffrwd draddodiadol yng Nghymru yn gostwng (gyda swyddi'n myn yn ystafell newyddion y BBC a llawer o bapurau newydd yng Nghymru yn lleihau eu staff), tra bo newyddiadurwyr yn wynebu amodau gwaith ansicr yn gynyddol.

Mae angen gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael ag amrywiaeth i leihau'r rhwystrau i grwpiau lleiafrifol hyfforddi ar gyfer gyrfaoedd mewn newyddiaduraeth a datblygu yn y maes. Mae astudiaethau gan y diwydiant ei hun, gan gynnwys y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr (NCTJ), yn dangos nad yw'r diwydiant ar lefel y DU yn cynrychioli'r bobl a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, yn enwedig o safbwynt dosbarth ac ethnigrwydd . Er bod tybiaeth eang bod hyn yn wir ar gyfer Cymru, mae'r data'n brin, ac, mewn ymateb i'r heriau hyn, defnyddiodd Cymru Greadigol rywfaint o'r cyllid peilot a oedd ar gael i Weithgor Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru i gomisiynu prosiect ymchwil, 'Mapio Sector Newyddiaduraeth Cymru: Deall y rhwystrau a'r galluogwyr ar gyfer Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd lwyddiannus yng Nghymru'[9].

Dan arweiniad ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd, bydd y Sefydliad Materion Cymreig a Newyddiaduraeth Gynhwysol Cymru yn cefnogi'r prosiect a disgwylir i'r astudiaeth gael ei chwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023. Bydd yn darparu data llinell sylfaen cynhwysfawr i'n helpu i wneud y canlynol:

- Deall tirwedd y sector.
- Nodi cryfderau, gwendidau a'r meysydd hynny lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf.
- Canolbwyntio ar gynhwysiad drwy fapio amrywiaeth newyddiadurwyr a sefydliadau perthnasol ledled Cymru, gan gynnwys amrywiaeth comisiynwyr a'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau, yn ogystal â nodi 'diffeithdiroedd newyddion' yng Nghymru.
- Bydd yn rhoi dealltwriaeth o'r amrywiaeth o gynnwys sy'n cael ei greu, pwy sy'n ei greu a phwy sy'n ei ddefnyddio, yn ogystal â phrofiad defnyddwyr o newyddiaduraeth yng Nghymru, gan asesu i ba raddau y mae'r cynnwys yn diwallu anghenion defnyddwyr.
- Bydd yn mapio amodau gwaith, contractau, cyflog, statws, llwybrau a phrosesau recriwtio, cadw a datblygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau a rhaglenni cyllido o ran cael talent mwy amrywiol.

**9** https://www.nctj.com/publications/diversity-in-journalism-2022/

**Camau Gweithredu**

- Dylid rhoi'r adnoddau i Sefydliad Cyfryngau Cymru ddefnyddio canlyniadau 'Mapio'r Sector Newyddiaduraeth yng Nghymru: Deall y rhwystrau a'r galluogwyr ar gyfer Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd lwyddiannus yng Nghymru' fel llinell sylfaen ar gyfer ymchwil pellach a gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael ag argymhellion sy'n codi, gan gynnwys addysg, datblygu sgiliau a hyfforddiant.

# (ii) deall anghenion defnyddwyr cyfryngau

Dylai Sefydliad Cyfryngau Cymru fynd ati'n rheolaidd i gomisiynu ymchwil cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn deall anghenion defnyddwyr y cyfryngau yng Nghymru yn well

**Cyd-destun**

Er ei bod yn amlwg bod angen cefnogaeth ar y diwydiant newyddiaduraeth ei hun er mwyn i newyddiaduraeth er budd y cyhoedd ffynnu yng Nghymru, mae ffocws cynyddol hefyd ar anghenion y cynulleidfaoedd y mae'r newyddiaduraeth yn cael ei chynhyrchu ar eu cyfer: dinasyddion sy'n dibynnu ar ffynonellau newyddion i gael y ddealltwriaeth sydd ei hangen arnynt ac i sicrhau yr adroddir ar fywyd bob dydd eu cymuned. Cafwyd sylw eang i'r ffaith nad yw defnyddwyr cyfryngau yng Nghymru, ar lawer ystyr, yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall cymdeithas, democratiaeth a barn pobl eraill[10]. Mae materion sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth ac ymgysylltu wrth galon llawer o'r heriau hyn, gyda pholareiddio cynyddol, gormod o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth a lefelau uchel o 'osgoi newyddion'. Mae arolygon Ofcom yn dangos dro ar ôl tro bod lefel isel o wybodaeth yng Nghymru am bwerau gwneud penderfyniadau datganoledig a gadwyd yn ôl. Helpodd pandemig Covid-19 i wneud iawn am y diffyg gwybodaeth fod iechyd yn faes datganoledig wrth i ddarlledwyr cenedlaethol a darparwyr newyddion ddechrau cydnabod bod stori yn y gwahanol reolau a dulliau gweithredu a fabwysiadwyd gan y gwledydd datganoledig a Llywodraeth y DU. Ond roedd hyn yn gleddyf deublyg gan fod y rhan fwyaf o bapurau newydd o Lundain a werthwyd yng Nghymru wedi methu gwahaniaethu rhwng rheoliadau Covid Cymru a Lloegr, gan achosi rhywfaint o ddryswch. Er bod y problemau hyn yn gymhleth ac yn amlochrog, un o'r materion allweddol mewn perthynas â defnyddwyr cyfryngau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yw'r ffenomen a elwir yn 'ddiffeithdiroedd newyddion', a ddisgrifir gan y Prosiect Newyddiaduraeth Elusennol fel 'argyfwng sy'n llosgi'n araf'[11] (gweler vii). Mae 'Diffeithdiroedd newyddion' yn fwy nag ardaloedd daearyddol yn unig. Gellir disgrifio rhai cymunedau neu grwpiau diddordeb hefyd fel 'diffeithdiroedd newyddion' oherwydd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y cyfryngau presennol; yng Nghymru, gallai'r rhain gynnwys siaradwyr Cymraeg, y rheini nad yw eu hiaith gyntaf yn Gymraeg nac yn Saesneg, cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chymunedau economaidd-gymdeithasol ymysg eraill. Fodd bynnag, mae angen mwy o ymchwil er mwyn ehangu'r sylfaen dystiolaeth yn y maes hwn.

**Camau Gweithredu**

- Gallai Sefydliad Cyfryngau Cymru gefnogi prosiectau peilot sy'n edrych ar fodelau cyfryngau cyd-greu, e.e. The People's Newsroom sy'n cael ei rhedeg gan The Bureau of Investigative Journalism[12].
- Dylai'r Sefydliad ymgysylltu â chanfyddiadau'r prosiect cynllun newyddion lleol sy'n cael ei redeg gan Sefydliad Newyddion Er Budd y Cyhoedd ym Mangor[13].
- Dylai'r Sefydliad gwmpasu a chomisiynu ymchwil bellach yn ôl yr angen er mwyn deall a chefnogi defnyddwyr a darparwyr cyfryngau yng Nghymru yn well.

10 www.iwa.wales/wp-content/media/IWA-OU_Citizens-Voice-Peoples-News_ENG.pdf

11 www./publicbenefitnews.files.wordpress.com/2022/06/local news-deserts-in-the-uk.pdf

12 Peoples' Newsroom

13 https://committees.parliament.uk/writtenevidence/107475/html/

14 https://committees.parliament.uk/writtenevidence/107659html/#_ftnref4

# (iii) y Gymraeg

**Dylai Sefydliad Cyfryngau Cymru sefydlu ymchwil a datblygu i ganfod anghenion penodol newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn y Gymraeg, a gwneud argymhellion pellach yn unol â hynny**

### Cyd-destun

Mae Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru wedi cynnal ei fusnes drwy gyfrwng y Saesneg ac wedi canolbwyntio'n bennaf ar faterion sy'n wynebu cyhoeddiadau Saesneg yng Nghymru. Rydym yn ymwybodol iawn, er bod gorgyffwrdd sylweddol, bod llawer o heriau sy'n effeithio ar gynhyrchu, dosbarthu a defnyddio newyddion er budd y cyhoedd yn y Gymraeg yn benodol i'r iaith a'i chyd-destun cyffredinol. Er enghraifft, mae ymchwil Llywodraeth Cymru ei hun ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn dangos bod ychydig o dan hanner siaradwyr Cymraeg (48%) 'yn bennaf neu bob amser yn defnyddio Saesneg' ar Twitter a chyfryngau cymdeithasol eraill, gan ddangos maint yr heriau sy'n gysylltiedig â 'normaleiddio defnydd' o'r iaith gan oruchafiaeth y Saesneg yn y byd digidol[14].

Ar y llaw arall, mae meysydd hefyd lle gall y diwylliant a'r dreftadaeth benodol sy'n ymwneud â chynhyrchu newyddiaduraeth Gymraeg fod yn addysgiadol i holl ecoleg newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru, fel traddodiad cryf y papurau bro, papurau bro lleol iawn sy'n aml yn cyflawni llawer o swyddogaethau allweddol newyddiaduraeth er budd y cyhoedd.

Daw llawer o'r cynsail ar gyfer ymyrraeth y pwrs cyhoeddus mewn newyddiaduraeth yng Nghymru o'r cyllid a dderbyniwyd gan bapurau newydd, cylchgronau a gwefannau newyddion yn y Gymraeg drwy Gyngor Llyfrau Cymru, yn ogystal â chyhoeddiadau cyfatebol yn Saesneg. Credwn fod lle a rheswm da dros ehangu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cynlluniau o'r fath, ac yn ogystal â'r manteision ar gyfer newyddiaduraeth er budd y cyhoedd a democratiaeth gyfranogol, y byddai'n cynnig mwy o werth ychwanegol i'r sector addysg cyfrwng Cymraeg a tharged Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Wrth i fwy o bobl allu deall y Gymraeg, rhaid cefnogi tirwedd cyfryngau Cymraeg well i ddiwallu eu hanghenion.

### Camau Gweithredu

- Wrth benderfynu ar y broses o benodi grŵp llywio ar gyfer Sefydliad Cyfryngau Cymru, dylai Llywodraeth Cymru bennu cwota o aelodau grŵp sy'n siaradwyr Cymraeg a sydd â phrofiad ac arbenigedd priodol mewn perthynas â newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn y Gymraeg.

- Dylai'r Sefydliad flaenoriaethu materion sy'n ymwneud â'r sector iaith Gymraeg a chyllideb ymchwil a datblygu benodol i wneud rhagor o waith ar nodi'r prif faterion a meysydd ar gyfer ymyrryd mewn perthynas â newyddiaduraeth yn Gymraeg (gan gynnwys hyfforddiant a materion sy'n ymwneud â'r gweithlu fel y manylir isod).

**14** https://www.llyw.cymru/defnydd-cymdeithasol-or-gymraeg gorffennaf-2019-i-fawrth-2020-html

# (iv) ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

**Dylai Sefydliad Cyfryngau Cymru weithio gyda darparwyr a defnyddwyr newyddiaduraeth er budd y cyhoedd i ddatblygu lefelau iach o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer holl ddinasyddion Cymru**

### Cyd-destun

Yn ogystal â chaniatáu i genhedlaeth newydd o gyhoeddwyr newyddion er budd y cyhoedd ymuno â'r farchnad, mae'r chwyldro digidol hefyd wedi sicrhau bod gwybodaeth annibynadwy ar gael yn rhwydd. Mae 'newyddion ffug' fel y'i gelwir, sy'n cael ei hyrwyddo gan grwpiau hunan-fudd neu grwpiau dinistriol, yn ei gwneud hi'n bwysicach fyth bod cymdeithasau agored yn dod o hyd i ffyrdd o gefnogi gweithgarwch newyddiadurol go iawn sy'n rhoi'r holl wybodaeth i'r cyhoedd.

Mae'r cynnydd mewn dealltwriaeth o ba mor gyffredin yw camwybodaeth a thwyllwybodaeth wedi arwain at don o ymchwil a mentrau sy'n ceisio addysgu'r cyhoedd, ac yn enwedig pobl ifanc, am beryglon camwybodaeth - yn enwedig ar-lein. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys y Fframwaith Cymhwysedd Digidol sydd wedi'i wreiddio yn y Cwricwlwm i Gymru; rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau Ofcom[15], a'i ymchwil sy'n dangos lefel uwch o ymddiriedaeth mewn newyddion teledu o'i gymharu â gwefannau newyddion[16]; gweithdai diogelwch ar-lein sy'n cael eu cynnal gan SWGfL mewn partneriaeth â TikTok[17]; a chynnydd mewn elusennau sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo llythrennedd digidol, fel WISE KIDS o Gasnewydd[18].

Fodd bynnag, mae hefyd angen ailgydbwyso'r cysyniad o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy symud y cyfrifoldeb, o hyfforddi defnyddwyr y cyfryngau i 'ddadgodio' cynnwys a chanfod camwybodaeth, rhagfarnau ac ati i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a thryloywder i gynhyrchwyr. Yn unol â'n gweledigaeth ar gyfer newyddiaduraeth yng Nghymru, dylai Sefydliad Cyfryngau Cymru gefnogi mentrau sy'n rhoi cyfle i newyddiadurwyr sy'n gweithio yng Nghymru gynhyrchu cynnwys hygyrch o ansawdd uchel sy'n dibynnu llawer llai ar roi defnyddwyr mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt 'ddod i'r casgliad' os gallant ymddiried yn yr hyn y maent yn ei ddarllen, neu'r hyn maent yn ei weld neu'n gwrando arno, a magu hyder ynddynt i ymgysylltu'n hyderus ac i'w lleisiau gael eu clywed.

### Camau Gweithredu

- Gallai Sefydliad Cyfryngau Cymru fod yn ganolbwynt ar gyfer strategaeth genedlaethol ar dryloywder a llythrennedd yn y cyfryngau i liniaru effeithiau camwybodaeth/twyllwybodaeth a newyddion ffug.
- Dylai'r Sefydliad weithio gyda phartneriaid priodol i ddatblygu adnoddau i'w dosbarthu drwy amrywiaeth o ddulliau priodol.
- Dylai'r Sefydliad weithio gyda newyddiadurwyr, darparwyr newyddion a chyrff rheoleiddio priodol (e.e. IPSO ac IMPRESS) i sicrhau bod cynnwys a gynhyrchir yng Nghymru'n glynu wrth y safonau uchaf o ran tryloywder, dibynadwyedd, hygyrchedd ac atebolrwydd.

**15** https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/media-literacy-research

**16** https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/32651 wales_doc_section_6.pdf

**17** https://hwb.llyw.cymru/news/articles/1da6e86b-057f-4d4c-ab14 4f059d686a03

**18** https://wisekids.org.uk/wk/about-us/

# (v) codi arian a dyfarnu grantiau

Dylai Sefydliad Cyfryngau Cymru gael ei sefydlu fel corff a allai godi arian i gefnogi'r amcanion uchod, a dyfarnu grantiau

**Cyd-destun**
Nid yw'r llu o heriau a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn unigryw i Gymru o bell ffordd; mae'r argyfwng sy'n wynebu newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn un byd-eang. Mae cwmnïau Technoleg Mawr fel Meta a Google wedi tarfu ar refeniw hysbysebu gan ddarparwyr newyddion, gan elwa ar yr un pryd o'r newyddiaduraeth a gynhyrchir. O ganlyniad, mae llawer o gynseiliau ac enghreifftiau defnyddiol o fentrau sy'n cael eu treialu a'u mabwysiadu gan lywodraethau democrataidd ledled y byd i gefnogi newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn wyneb y ddau fygythiad o fethiant yn y farchnad a chamwybodaeth/twyllwybodaeth. Cynlluniwyd y rhai o'r rhain drwy ymyrraeth uniongyrchol yn y farchnad, ac eraill drwy drefniadau hyd braich i osgoi unrhyw awgrym o ymyrraeth wleidyddol. Gall Cymru edrych ar fodelau rhyngwladol, lle cydnabyddir bod cyfryngau hyfyw yn hanfodol i ddemocratiaeth iach:

- Norwy: cyflwynwyd cymorthdaliadau cyhoeddus ar gyfer y wasg yn 1969 ar gyfer cynhyrchu, dosbarthu ac arloesi golygyddol, a ddosbarthir drwy'r Awdurdod Cyfryngau Norwy.
- Denmarc: yn darparu cymorthdaliadau ar gyfer cynhyrchu golygyddol ac arloesi drwy Fwrdd Cyfryngau Denmarc, gan ganolbwyntio ar gyfryngau bach a lleol.
- Yr Iseldiroedd: yn darparu cymorthdaliadau ar gyfer newyddiaduraeth leol, newyddiaduraeth ymchwiliol ac arloesi drwy Gronfa Newyddiaduraeth yr Iseldiroedd.
- Seland Newydd: lansiodd y llywodraeth gymhorthdal ar gyfer newyddiaduraeth 'dan fygythiad' yn 2021
- Awstralia: lansiodd y llywodraeth God Bargeinio Cyfryngau Newyddion, sy'n ceisio gorfodi Google a Meta i negodi telerau teg gyda chyhoeddwyr ar gyfer y cynnwys newyddion maen nhw'n ei gynnal ar eu llwyfannau
- Canada: lansiodd y llywodraeth amrywiaeth o fesurau cyllidol i gefnogi newyddiaduraeth, gan gynnwys credyd treth incwm i newyddiadurwyr a chredyd treth tanysgrifiad newyddion digidol.

**Camau Gweithredu**
- Dylai Llywodraeth Cymru baratoi datganiad yn cefnogi'r egwyddor o newyddiaduraeth er budd y cyhoedd fel gwasanaeth cyhoeddus, a darparu cyllid ar gyfer Sefydliad Cyfryngau Cymru, gan benodi pwyllgor llywio â'r gallu i'w sefydlu fel corff annibynnol.
- Dylai Sefydliad Cyfryngau Cymru ymgorffori ei hun gan ddefnyddio arferion gorau yn fyd-eang a sylfaen dystiolaeth gadarn yng Nghymru i bennu blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu i gefnogi newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn y cyd-destun Cymreig.
- Gallai Sefydliad Cyfryngau Cymru a Llywodraeth Cymru drefnu sgyrsiau gyda chwmnïau 'Technoleg Mawr' fel Meta a Google ynghylch cyllid posibl i'r Sefydliad ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau penodol.

# (vi) cronfa y gellir cystadlu amdani

Dylai Llywodraeth Cymru neilltuo rhan o'i dyraniad cyllid ar gyfer newyddiaduraeth er budd y cyhoedd i'w ddosbarthu drwy gronfa hyd braich y gellir cystadlu amdani.

**Cyd-destun**

Os yw newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru yn mynd i wasanaethu pob cynulleidfa a dinesydd, mae'n hanfodol bod y dewis o gyfryngau sydd ar gael ledled Cymru mor eang ac amrywiol â phosibl. Dylai cryfhau newyddiaduraeth er budd y cyhoedd ymwneud â diogelu cyhoeddwyr sydd wedi ennill eu plwyf, gyda'u hanes cryf o wasanaethu cynulleidfaoedd a chyflogi newyddiadurwyr, a hefyd galluogi lluosogrwydd o gyhoeddiadau newydd amrywiol i ffynnu, hyd yn oed lle mae eu cynulleidfaoedd targed yn fach. Mae'r gweithgor yn credu y bydd marchnad ddeinamig, sy'n cynnal gwahanol leisiau, safbwyntiau a modelau busnes, yn cyfoethogi cymdeithas Cymru drwy gynyddu mynediad at drafodaethau gwybodus. Mae Cyngor Llyfrau Cymru eisoes yn dyfarnu cyllid ar gyfer cylchgronau, gwefannau a phapurau newydd sy'n darparu newyddion er budd y cyhoedd a chynnwys o werth diwylliannol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gwneir penderfyniadau cyllido gan banel annibynnol o arbenigwyr ar sail cylch pedair blynedd, ac mae tîm bach o staff yn dyfarnu'r grantiau. Cefnogir cyhoeddiadau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes drwy'r broses ymgeisio a thrwy gydol y cyfnod cyllido, gyda monitro, adroddiadau a gwerthusiadau blynyddol i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni yn erbyn targedau. Mae'r Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol, sydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Newyddiaduraeth Gymunedol Prifysgol Caerdydd, yn cefnogi nifer o ddarparwyr newyddion lleol iawn ledled y DU (gyda nifer fawr o'r rhain yng Nghymru). Dosbarthwyd y gyfran gychwynnol o gyllid peilot a oedd ar gael drwy'r Gweithgor drwy Ping! mewn tri maes allweddol: (i) cronfa sbarduno fach i ysgogi'r sector drwy gefnogi pobl gyda syniadau newydd ar gyfer safleoedd newyddion cymunedol cynaliadwy; (ii) cefnogaeth i gyhoeddwyr annibynnol sefydledig sy'n cynhyrchu newyddion er budd y cyhoedd; (iii) cymorth mewn argyfwng . Mae cynlluniau o'r fath yn cynnig cynsail, cyfle i werthuso a chyfeiriad clir i gronfa newyddion y gellir cystadlu amdani i ddod yn nodwedd barhaol o dirwedd cyfryngau Cymru.

**Camau Gweithredu**

- Dylai Llywodraeth Cymru neilltuo rhan o'i dyraniad cyllid ar gyfer newyddiaduraeth er budd y cyhoedd i'w ddosbarthu drwy gronfa hyd braich y gellir cystadlu amdani.
- Dylai Sefydliad Cyfryngau Cymru fod yn gyfrifol am dynnu ynghyd rhanddeiliaid sydd ag arbenigedd perthnasol mewn gweinyddu rhaglenni cyllid grant y gellir cystadlu amdanynt yn unol â meini prawf dylunio a mecanwaith dosbarthu ar gyfer cronfa newyddiaduraeth er budd y cyhoedd Cymru.
- Dylai'r gronfa fod yn agored i geisiadau gan unrhyw un sy'n dymuno cynhyrchu newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru (rhai newydd a rhai sy'n bodoli eisoes; print a digidol; cenedlaethol, rhanbarthol a lleol).
- Dylai blaenoriaethau'r gronfa gyd-fynd â'r argymhellion eraill a wneir gan yr adroddiad hwn: Y Gymraeg, dwyieithrwydd ac amlieithrwydd; amrywiaeth ac amodau'r gweithlu; diwallu anghenion defnyddwyr drwy arloesi, ac ati.
- Dylai cyllid fod ynghlwm wrth dracio a gwerthuso effaith cadarn er mwyn sicrhau atebolrwydd a nodi'r arferion gorau.

**19** https://www.communityjournalism.co.uk/cy/annog-cyhoeddwyr o-gymru-i-geisio-am-grant-y-llywodraeth/

# (vii) blaenoriaethu sylw i'r 'diffeithdiroedd newyddion' yng Nghymru

Dylai cyllid strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer newyddiaduraeth er budd y cyhoedd gynnwys cronfa i nodi a mynd i'r afael â 'diffeithdiroedd newyddion' yng Nghymru.

**Cyd-destun**

Bu cwymp mewn newyddiaduraeth er budd y cyhoedd mewn llawer o gymunedau ledled Cymru, gyda 'diffeithdiroedd newydd' yn datblygu wrth i bapurau newydd lleol gau, symud eu swyddfeydd allan o ardal, neu symud newyddiadurwyr o'r ardal. Mewn ardaloedd anghysbell neu wledig yn enwedig, gall y sefyllfa hon fod yn un gudd oherwydd bod teitlau mawr yn dal yn eu lle a newyddiadurwyr yn parhau i weithio mewn swyddi traddodiadol. Fodd bynnag, ceir hefyd enghreifftiau o 'ddiffeithdiroedd newyddion' mewn llawer o drefi o faint sylweddol yng Nghymru. Ceir enghraifft ddifrifol o hyn ym Mhort Talbot, fel yr amlinellwyd yn y gwaith helaeth gan Rachel Howells, a gwblhaodd PhD yn archwilio'r diffyg democrataidd mewn tref heb bapur newydd[20]. Dangosodd Howells sut mae 'papurau newydd sombi' (gyda llai o staff a llawer llai o gynnwys sy'n berthnasol i'r ardal) a 'thyllau du newyddion' yn arwain at lai o graffu ar sefydliadau lleol a pholisïau a materion cenedlaethol sydd â goblygiadau lleol.

Gall diffyg newyddiaduraeth er budd y cyhoedd i ddwyn awdurdodau i gyfrif a darparu llais i gymunedau lleol arwain at ganlyniadau trychinebus, a nodwyd bod dirywiad y wasg leol yn ffactor yn nhrychineb Grenfell, lle collodd 79 o bobl eu bywydau. Yn y flwyddyn cyn y trychineb, dim ond un newyddiadurwr oedd yn gwasanaethu 160,000 o bobl yn y fwrdeistref[21]. Mae diffeithdiroedd newyddion hefyd yn rhwystr i ddinasyddiaeth weithredol ac mae astudiaethau yn yr Unol Daleithiau a Llychlyn yn dangos dirywiad mewn ymgysylltu â phleidleiswyr a'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau ar ôl colli ffynonellau newyddion lleol[22].

Yn sgil y methiannau strwythurol hyn, mae clytwaith o atebion wedi datblygu, ac un datblygiad cadarnhaol yng Nghymru yw'r cynnydd mewn newyddiaduraeth 'lleol iawn' yn y gymuned: mae gan y wlad ddwywaith y nifer disgwyliedig o ddarparwyr o'i gymharu â chyfartaledd y DU, efallai'n rhannol o ganlyniad i'r ffaith fod y Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol[23] wedi'i leoli ym Mhrifysgol Caerdydd. Fodd bynnag, gall cyhoeddi newyddion cymunedol ddibynnu ar unigolion: s'n gweithio gartref, yn aml yn rhan amser ac yn dibynnu ar waith arall am incwm. Mae'r cyhoeddwyr hyn yn ei chael yn anodd darparu hyfforddiant neu'r gwaith cyflogedig llawn amser sy'n hanfodol er mwyn denu newydd ddyfodiaid o bob rhan o'n cymdeithas amrywiol.

Un llwyddiant nodedig yw dyfodiad y Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol[24], sy'n cael ei ariannu gan y BBC fel rhan o'i ymrwymiad Siarter diweddaraf. Mae'r cynllun yn cyflogi 165 o ohebwyr ledled y DU, a neilltuir i sefydliadau sy'n amrywio o ddarlledwyr i gwmnïau cyfryngau ar-lein i grwpiau papurau newydd rhanbarthol sefydledig. Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys awdurdodau lleol a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill, i bob pwrpas i lenwi rhai o'r 'tyllau

20 https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/87313/

21 https://theconversation.com/grenfell-tower-warnings-might-have been-heard-if-not-for-the-collapse-of-local-journalism-117427

22 https://moody.utexas.edu/sites/default/files/Strauss_Research Newspaper_Decline_2019-11-Jennings.pdf

23 https://www.communityjournalism.co.uk/about-icnn/

24 https://www.bbc.com/lnp/ldrs

du' neu'r 'diffeithdiroedd newyddion' a amlinellir uchod. Fodd bynnag, os nad oes gan dref fel Port Talbot bapur newydd lleol, ni fydd y newyddion sy'n cael ei darparu gan ohebwyr y Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol am y cyngor lleol yn cyrraedd dinasyddion y dref.

Er gwaethaf holl ymdrechion sefydliadau newyddion cymunedol lleol iawn a'r Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol, nid yw llawer o bentrefi, trefi a rhanbarthau ledled Cymru yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan newyddiaduraeth gwasanaeth cyhoeddus, ac mae 'diffeithdiroedd newyddion' eraill yn bodoli ar gyfer cymunedau sydd wedi'u gwthio i'r cyrion oherwydd tlodi, ethnigrwydd, iaith neu amgylchiadau eraill.

Mae'r Senedd ei hun yn dioddef o brinder gohebwyr penodol sy'n cael eu defnyddio gan sefydliadau cyfryngau i roi sylw i benderfyniadau wrth galon ein sefydliadau datganoledig. Er mwyn gwneud iawn am hyn, cytunodd y Gweithgor y dylid defnyddio cyllid peilot i recriwtio gohebydd yn uniongyrchol sydd â'r rôl benodol o adrodd ar y Senedd. Mae hwn yn benodiad 12 mis, a bydd y cynnwys a gynhyrchir gan y gohebydd ar gael i unrhyw un. Bydd y fenter hon yn helpu i benderfynu a yw defnyddio arian cyhoeddus fel hyn yn gam cadarnhaol tuag at sicrhau gwell sylw i ddemocratiaeth yng Nghymru.

**Camau Gweithredu**

- Dylai Sefydliad Cyfryngau Cymru werthuso cryfderau a meysydd lle gellir datblygu cynllun peilot Gohebydd y Senedd, a llunio fframwaith arferion gorau y gellir ei ddefnyddio i fonitro a datblygu unrhyw ymyriadau yn y dyfodol.
- Gallai Sefydliad Cyfryngau Cymru archwilio'r posibilrwydd o ryngweithio rhwng papurau bro a darparwyr lleol iawn yn Saesneg er mwyn cefnogi trawsffrwythloni rhwng modelau newyddiaduraeth yn Gymraeg a Saesneg.
- Dylid dyrannu cyllid strategol penodol i gefnogi ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n 'ddiffeithdiroedd newyddion' - gan gynnwys sefydliadau, lleoliadau daearyddol a grwpiau cymunedol neu grwpiau buddiant penodol yng Nghymru - drwy gael gohebwyr penodol.

## (viii) ymgyrchoedd marchnata a hysbysebu cyhoeddus

Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd bod darparwyr newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn gallu gwneud cais am ymgyrchoedd marchnata a hysbysebu cyhoeddus.

**Cyd-destun**
Un o ganlyniadau mwyaf dinistriol y chwyldro digidol i ddarparwyr newyddiaduraeth er budd y cyhoedd fu'r cwymp sydyn i ffrydiau refeniw allweddol. Symudodd mân hysbysebion proffidiol yn gyflym i ddewisiadau eraill ar-lein am ddim nad oeddent yn ymwneud â newyddion, a dechreuodd hysbysebion arddangos gael eu dominyddu gan gyfryngau cymdeithasol a chwilio[25]. Er bod cyhoeddwyr newyddion wedi ymateb i'r her dechnolegol gyda gwasanaethau digidol newydd, a chynnwys sydd bellach yn cyrraedd llawer mwy o bobl nag y gwnaeth eu rhifynnau erioed, mae wedi bod bron yn amhosibl i gynnal refeniw hysbysebu mewn teitlau lleol a rhanbarthol yn wyneb pŵer cynyddol cwmnïau technoleg sydd wedi'u lleoli dramor, sy'n elwa o gynnwys a data a gynhyrchir am ddim gan ddefnyddwyr, heb orfod poeni am gostau golygyddol neu bryderon rheoleiddio.

Lle mae'r cyfryngau lleol yn parhau i fod yn gryf, mae'n ffordd effeithiol iawn o gyrraedd pobl. Ynghyd â darparu hysbysiadau statudol cyhoeddus (gweler ix, isod), gwariant hysbysebu a marchnata gan gyrff yn y sector cyhoeddus yw'r dull mwyaf didrafferth y gall y pwrs cyhoeddus ei ddefnyddio i gefnogi newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn ariannol, gan hyrwyddo gwybodaeth ffeithiol yn gyhoeddus ar yr un pryd. Mae'r dull hwn hefyd yn cynnwys cyhoeddwyr llai sy'n aml yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi hysbysebion ar draws eu rhwydweithiau ar y cyd.

Yn ei adroddiad, mae gweithgor yr Alban ar newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn 'argymell yn gryf bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno cymhellion treth hysbysebu a chyflymu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n angenrheidiol er mwyn i Uned Marchnadoedd Digidol newydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd greu tirwedd cyhoeddi digidol sy'n decach ac yn wirioneddol gystadleuol'[26]. Er ein bod yn nodi ymateb negyddol Llywodraeth yr Alban i'r syniad o gwota gwario sy'n gorfod mynd i ddarparwyr newyddion, rydym yn awgrymu yn hytrach y bydd unrhyw ymgyrch farchnata a hysbysebu gan Lywodraeth Cymru o leiaf yn rhoi cyfle i gyhoeddwyr newyddion gynnig neu wneud cais am y contract.

**Camau Gweithredu**
- Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi manylion buddsoddiad mewn hysbysebu a marchnata drwy dimau cyfathrebu yn Llywodraeth Cymru, y Senedd, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill ac asesu lle gellid gwario'r buddsoddiadau hyn yn well drwy ddarparwyr newyddiaduraeth er budd y cyhoedd.
- Dylai Llywodraeth Cymru warantu cyfle i gyhoeddwyr newyddion gynnig neu fidio am gontract unrhyw ymgyrch hysbysebu neu farchnata gyhoeddus.

26 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads system/uploads/attachment_data/file/785547/unlocking_digital competition_furman_review_web.pdf

27 https://www.gov.scot/publications/scotlands-news-towards sustainable-future-public-interest-journalism/

# (ix) hysbysiadau cyhoeddus statudol

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hysbysiadau statudol cyhoeddus yn cael eu dosbarthu drwy amrywiaeth o ddarparwyr newyddiaduraeth er budd y cyhoedd priodol yng Nghymru, mewn print ac ar-lein, a chynnwys darparwyr rhanbarthol mwy a darparywr cymunedol 'lleol iawn'.**

### Cyd-destun

Mae cyhoeddi hysbysiadau statudol mewn papurau newydd yn rhoi gwybodaeth hanfodol i'r gymuned am ystod eang o bynciau, fel ceisiadau am drwyddedau, cau ffyrdd a chynllunio. Ar yr un pryd, mae hysbysiadau o'r fath yn cynnig ffrwd refeniw hanfodol i gyhoeddwyr newyddion, gan gefnogi sylw i newyddion cenedlaethol, gwleidyddiaeth a materion cyfoes, er enghraifft yn y Western Mail. Dylid nodi na fyddai rhai teitlau print lleol yng Nghymru, yn enwedig teitlau wythnosol llai, yn hyfyw mwyach pe bai hysbysiadau cyhoeddus yn cael eu dileu.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hysbysiadau cyhoeddus yn gymhleth. Caniateir i hysbysiadau am geisiadau dan Ddeddf Trwyddedu 2003 gael eu cyhoeddi ar-lein oherwydd canllawiau a gyhoeddir gan y corff proffesiynol perthnasol. Yn achos cynllunio, mae Offeryn Statudol Cymru 2012 Rhif 801 (Cy.110) yn nodi'r gofyniad i roi hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd. Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth ynghylch Hysbysiadau Traffig i gau ffyrdd mor glir â'r Offeryn Statudol sy'n ymwneud â hysbysiadau papurau newydd (Rheoliadau Gorchmynion Traffig (Gweithdrefn) yr Ysgrifennydd Gwladol (Cymru a Lloegr) 1990 a Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996) a gyhoeddwyd cyn datganoli.

Cyhoeddwyd canllawiau dros dro ar gyfer Lloegr yn unig yn ystod pandemig Covid-19 a oedd yn caniatáu cyhoeddi hysbysiadau traffig ar wefannau papurau newydd[28].

Fel mae dyddiadau'r statudau'n awgrymu, nid yw'r system hysbysiadau cyhoeddus wedi cael ei haddasu i'r oes ddigidol ac mae angen ei moderneiddio'n sylweddol.  Cwestiwn allweddol yw beth mae 'papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal' yn ei olygu. Teimlwyd yr amwysedd yma gan y Caerphilly Observer, sy'n cael ei gyhoeddi bob pythefnos, pan wrthododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dderbyn y cyhoeddiad i ddechrau fel man priodol ar gyfer hysbysiadau cyhoeddus ar sail diffiniad o eiriadur hynafol a oedd yn datgan cyhoeddiad wythnosol neu ddyddiol, ac roedd angen ymyrraeth gan Weinidog Cymru dros Lywodraeth Leol i'w bodloni.

### Camau Gweithredu

- Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r gwariant gan y sector cyhoeddus ar hysbysiadau cyhoeddus, yn ogystal â gwerthuso eu heffaith.
- Dylai Llywodraeth Cymru a Sefydliad Cyfryngau Cymru gynnal sgwrs gyda'r diwydiant newyddiaduraeth i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer hysbysiadau statudol cyhoeddus, yn ogystal â'r mecanwaith dosbarthu, gydag amser wedi'i neilltuo i ganiatáu i ddarparwyr newyddion addasu i unrhyw newidiadau, y dylid eu gweithredu'n ofalus ac yn raddol a'u cyfeirio dipyn ymlaen llaw.

**28** https://www.gov.uk/government/publications/making-traffic regulation-orders-during-coronavirus-covid-19/traffic-regulation orders-guidance-on-the-traffic-orders-procedure-coronavirus

# (x) Asedau cymunedol

**Dylai Llywodraeth Cymru roi statws 'ased â gwerth cymunedol' i bapurau newydd lleol i sicrhau bod teitlau'n cael eu cadw; dylid cyplysu hyn â chymorth ariannol a busnes i fentrau cymdeithasol lleol a mentrau cydweithredol newyddiadurol sy'n cymryd cyfrifoldeb dros deitlau.**

**Cyd-destun**
Mae hwn yn argymhelliad gan Gynllun Adfer Cyfryngau Cymru Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr[29] a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon, ac mae'n seiliedig ar gynllun tebyg ar gyfer tafarndai dan berchnogaeth gymunedol. Caeodd cyfres y Gemorgan Gem o bapurau newydd wythnosol yn ystod pandemig Covid-19 ac ni chafodd ei hailgychwyn. Nawr, mae newyddiadurwyr a'r staff y Gem wedi dechrau papur newydd bob pythefnos yn seiliedig ar y Gem ond o dan y teitl newydd Glamorgan Star. Gyda'r posibilrwydd y bydd rhagor o bapurau newydd yn cau, rydym yn credu y dylid cael mecanwaith syml a fyddai'n caniatáu i unrhyw un sy'n dymuno atgyfodi teitlau sydd wedi'u cau'n llwyr fanteisio ar dreftadaeth ac enw da'r teitlau hynny yr ymddiriedir ynddynt fwyaf gan y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Mae hyn yn cyd-fynd â'r agenda grymuso cymunedau sy'n cael ei gefnogi'n eang ar draws y Senedd. Er bod adroddiad yr IWA yn 2022, Ein Tir: Cymunedau a Defnyddio Tir[30], yn canolbwyntio ar dir ac adeiladau, byddai rhoi statws 'ased â gwerth cymunedol' i ddarparwyr newyddiaduraeth er budd y cyhoedd, yn ffordd syml ac effeithiol i Lywodraeth Cymru ddangos ymrwymiad i'r egwyddor sy'n sail i'r adroddiad hwn, sef bod newyddion er budd y cyhoedd yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol i bobl a chymunedau Cymru.

**Gweithredu**
- Cefnogi cymunedau sy'n ceisio rhoi statws **'ased â gwerth cymunedol'** i bapurau newydd lleol er mwyn cadw teitlau

**29** Cynllun Adfer y Cyfryngau ar gyfer Cymru gan yr NUJ

**30** https://www.iwa.wales/wp-content/media/IWA_-Ein-Tir Cymunedau-a-Defnyddio-Tir.pdf

# Casgliad

Bu'r Gweithgor yn edrych ar amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru a sut mae hyn wedi effeithio ar y sefydliadau newyddion mwy o faint, yn ogystal â'r rheini yn y sector annibynnol llai. Cafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau, ond roedd yr holl aelodau'n awyddus i wella a chynnal newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r problemau sy'n wynebu darparwyr newyddion er budd y cyhoedd yng Nghymru wedi cael eu trafod yn helaeth dros y blynyddoedd, ynghyd â phryderon na yw'r papurau newydd Prydeinig a gynhyrchir yn Lloegr ac a werthir yng Nghymru yn cynnwys fawr ddim o newyddion am y wlad. Mae angen sector newyddion bywiog ar genedl i adlewyrchu amrywiaeth ei chymunedau ac i helpu'r wlad i ddeall y materion sy'n effeithio arni. Er budd bywyd diwylliannol Cymru, ei hiaith a dealltwriaeth y genedl o'i llywodraeth ddatganoledig, mae angen sector newyddion sy'n gallu darparu hyn i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth.

Bu'r grŵp hefyd yn edrych ar gwestiynau ynghylch amrywiaeth y newyddiadurwyr sy'n gweithio yng Nghymru ac mae wedi comisiynu ymchwil i ddeall hyn yn well. Nod hyn yw helpu i wella amrywiaeth y newyddiadurwyr sy'n ymuno â'r cyfryngau yng Nghymru er mwyn adlewyrchu cymhlethdod cyfoethog ei holl ddinasyddion a'i chymunedau yn well. Mae'r Gweithgor wedi argymell sefydlu Sefydliad Cyfryngau Cymru ac fel rhan o'i gylch gwaith, defnyddio'r ymchwil hwn i helpu i ehangu llwybrau i'r byd newyddiadurol yng Nghymru.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn dilyn y trafodaethau y mae'r Gweithgor wedi'u cael. Nid yw darlledu yn faes datganoledig, ond mae'r problemau sy'n wynebu newyddiaduraeth er budd y cyhoedd a'i heffaith ar fywyd a dealltwriaeth Cymru a'i sefydliadau o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru. Mae'r argymhellion y mae'r Gweithgor wedi'u gwneud yn atebion cadarnhaol a rhesymol sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Os bydd y cynigion bach hyn yn cael eu rhoi ar waith, credwn y gallant sicrhau a chynnal dyfodol tymor hir newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru.

# Atodiad 1: Gweithgor Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru

Rhoddodd y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip, Dawn Bowden, gyfarwyddyd i sefydlu Gweithgor Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru ym mis Tachwedd 2021. Roedd hyn yn dilyn argymhelliad gan Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, yn seiliedig ar ei Gynllun Adfer Newyddion i Gymru, a chafodd ei ddatblygu fel ymateb i bandemig Covid-19. Cylch gwaith y grŵp yw gwella cyfathrebu a chydlynu camau gweithredu ar faterion sy'n ymwneud â newyddiaduraeth yng Nghymru, canolbwyntio sylw a chyngor ar gefnogi cynaliadwyedd hirdymor newyddiaduraeth yn Gymraeg a Saesneg, a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â newyddiaduraeth er budd y cyhoedd sy'n cael eu creu gan y chwyldro digidol a'r amgylchedd cyfathrebu sy'n esblygu'n gyflym. O dan ysgrifenyddiaeth Cymru Greadigol, mae'r gweithgor yn cynrychioli'r sector cyhoeddi newyddion, gan gynnwys darparwyr cyfryngau cymunedol, sefydliadau cyfryngau mwy, cynrychiolwyr undebau a'r byd academaidd.

**Aelodau'r Gweithgor**

Matt Abbott - JOMEC / Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol (ICNN)
Hussain Bayoomi - Newsquest (Tachwedd 2021 - Awst 2022)
Sally Griffith - Media Cymru
Richard Gurner - Caerphilly Observer
Natasha Hirst - Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru)
Rachel Howells - Hyfforddiant NUJ Cymru (Tachwedd 2021 - Chwefror 2022)
Helgard Krause – Cyngor Llyfrau Cymru
Marlen Komorowski - Prifysgol Caerdydd / Media Cymru
Shirish Kulkarni – The Bureau of Investiative Journalism / Inclusive Journalism Cymru
David James - Reach / WalesOnline
Huw Marshall - New Media Wales (Ionawr 2022 - Medi 2022)
Ifan Morgan Jones - Prifysgol Bangor / Nation.Cymru (Mehefin 2022 - Ionawr 2023)
Emma Meese - JOMEC / ICNN
Dylan Moore - Sefydliad Materion Cymreig (IWA)
Pamela Morton - Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ)
David Nicholson - NUJ
Frances Rafferty - NUJ
Gavin Thompson - Newsquest

**Ysgrifenyddiaeth**

Gerwyn Evans - Cymru Greadigol
Matthew Perryman - Cymru Greadigol

# Atodiad 2: Cylch Gorchwyl. Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru

**Nod**

Nod Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru yw gwella'r ffordd y caiff gweithrediadau ar faterion yn ymwneud â'r sector newyddiaduraeth yng Nghymru eu cyfathrebu a'u cydgysylltu.

**Diffinio Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd**

Wrth ddefnyddio'r term 'newyddion er budd y cyhoedd' rydym yn golygu gwybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu a'i lledaenu i'r cyhoedd yn unol â safonau uchel o ymddygiad moesegol ac arfer gorau mewn newyddiaduraeth ac sy'n darparu un neu ragor o'r buddion canlynol i'r cyhoedd:

- Mae'n rhoi gwybod i aelodau'r cyhoedd am faterion sy'n berthnasol i'w rôl a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion, neu
- Mae'n galluogi aelodau o gymunedau lleol i ddod yn ymwybodol o faterion o bryder cyffredin iddynt fel aelodau o'u cymuned, ac i ddeall y materion hynny, ac sy'n hyrwyddo eu hymglymiad a'u cydweithrediad mewn materion o'r fath a chydlyniant cymunedol yn unol â hynny, neu
- Mae'n galluogi aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan mewn modd gwybodus mewn prosesau democrataidd perthnasol ac, o ganlyniad, yn cefnogi cyfreithlondeb y broses ddemocrataidd yn ei chyfanrwydd, neu
- Mae o fudd i'r cyhoedd drwy hyrwyddo canlyniadau addysgol elusennol, megis gwella dealltwriaeth y cyhoedd o faterion iechyd a meddygol neu warchod yr amgylchedd.

**Cylch Gwaith**

Bydd y Gweithgor yn hoelio ei sylw a'i gyngor ar gamau gweithredu i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys cyngor ar y camau y gellid eu cymryd yn y sector i:

- Wella cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol ar faterion yn ymwneud â newyddiaduraeth yng Nghymru;
- Cefnogi newyddiaduraeth arloesol a mentrau lleol a hyperleol, yn ogystal â'r cyfryngau prif ffrwd;
- Cynyddu addysg am rôl newyddiaduraeth er budd y cyhoedd a nodi camau i helpu pobl ifanc i ddeall yn well eu rôl weithredol fel defnyddwyr y cyfryngau;
- Cefnogi sbardunau a mentrau i wella a chefnogi amrywiaeth a chynwysoldeb yn y sector yng Nghymru gan gynnwys mentrau i gynyddu cyfleoedd newyddiadurol i unigolion o gefndiroedd difreintiedig ac amrywiol;
- Cefnogi sbardunau a mentrau i wella a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru;
- Amlygu mentrau i helpu i gefnogi newyddiaduraeth ymchwiliol yng Nghymru;
- Cefnogi mecanweithiau a mentrau ar gyfer papurau newydd traddodiadol i'w cynorthwyo i addasu i arferion newidiol defnyddwyr;
- Mynd i'r afael ag effaith y rhyngrwyd a goruchafiaeth cwmnïau technoleg ar newyddiaduraeth budd y cyhoedd;
- Craffu ar yr ymchwil sydd ar gael ar newyddiaduraeth y sector cyhoeddus i helpu i lywio trafodaeth ynghylch ymyrraeth bosibl yn y dyfodol.

# Atodiad 2: Cylch Gorchwyl. Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru

Gwneir argymhellion i Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip fel y gwêl y gweithgor yn dda a bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu adroddiad diwedd tymor ar ganfyddiadau'r trafodaethau.

Dylai'r Gweithgor nodi sut y gellir bwrw ymlaen â'i argymhellion, gan gynnwys lle y gall diwydiant arwain y ffordd o ran gweithredu argymhellion. Gwneir argymhellion yng nghyd-destun pwysigrwydd annibyniaeth newyddiaduraeth er budd y cyhoedd gan y llywodraeth a chydnabod natur annatganoledig llawer o'r dulliau allweddol o sbarduno newid.

Mae'n bwysig bod newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn annibynnol ar y Llywodraeth. O'r herwydd, bydd terfyn ar sut y gallai Llywodraeth Cymru gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol. Dylai'r grŵp gadw hyn mewn cof a, lle y bo'n bosibl, dylai geisio sicrhau y gellir datblygu a gweithredu argymhellion gydag ystod eang o bartneriaid heb fod angen i Lywodraeth Cymru gymryd rhan lle byddai hynny'n codi cwestiynau ynghylch unochredd.

**Y Strwythur Adrodd**

Bydd y Gweithgor yn adrodd i Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip drwy Cymru Greadigol.

**Y Cadeirydd**

Gerwyn Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr,
Cymru Greadigol fydd Cadeirydd y Gweithgor.

**Amlder Cyfarfodydd**

Bydd y Gweithgor yn cwrdd bob mis.

**Adolygu**

Caiff cylch gwaith y grŵp ei adolygu ar sail ad hoc, gyda gweithgarwch y Gweithgor yn cael ei adolygu ym mis Rhagfyr 2022.

31 https://startupmigrants.com/

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/FM/2168/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

5 Medi 2023

Annwyl Huw a Delyth

Hoffwn ddiolch i'r ddau ohonoch, yn ogystal ag aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (CCWLSIRC) a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC) am ystyried y ddau Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd mewn perthynas â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) ('y Bil').

Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith bod y Pwyllgorau wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r materion sy'n codi mewn perthynas â darn eang a chymhleth iawn o ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU. Rwyf wedi ystyried y casgliadau yn y ddau adroddiad ac wedi ymateb i'r argymhellion isod (noder fy mod wedi defnyddio cyfeiriadau at gymalau yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, dyddiedig 9 Mehefin).

**Cydsyniad deddfwriaethol**
Rwy'n falch bod y ddau Bwyllgor o'r farn bod y darpariaethau a ganlyn yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, o dan Reol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer:

- cymalau 65-81 Data Cwsmeriaid a Busnesau (cymalau 61 i 77 fel y'u cyflwynwyd);
- cymal 98 Datgelu gwybodaeth i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau (cymal 92 fel y'i cyflwynwyd);
- cymal 99 Gweithredu cytundebau rhannu gwybodaeth gorfodi'r gyfraith (cymal 93 fel y'i cyflwynwyd);
- Gwelliant 46 Newid i Gymal 65 Data Cwsmeriaid a Data Busnesau (cymal 61 fel y'i cyflwynwyd);
- gwelliannau 8-16, ynghyd â Gwelliant NC5, mewn perthynas â chymal 99 (cymal 93 fel y'i cyflwynwyd), rheoliadau cymal 115 (cymal 108 fel y'i cyflwynwyd), ac ystyr "awdurdod cenedlaethol priodol".

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nodaf fod y ddau Bwyllgor yn credu nad oes angen cysyniad ar gyfer cymalau 56 a 60 (cymalau 54 a 56 fel y'u cyflwynwyd) ac ar gyfer Gwelliant NC3 (cymal 58 bellach) ar y sail nad yw'r darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, rwy'n dal i fod o'r farn bod y darpariaethau hynny o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Pwrpas y pŵer a roddir i awdurdodau cyhoeddus o dan gymalau 56 a 60 yw hwyluso'r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Gwirio Digidol (DVS) er mwyn gwella'r gwasanaeth a gynigir i'r defnyddiwr. Er bod telathrebu yn fater a gadwyd yn ôl, nid wyf o’r farn mai’r deunydd sy'n cael ei drosglwyddo sydd o dan sylw ond, yn hytrach, **sut** y mae’r deunyddiau cyfathrebu hynny’n cael eu trosglwyddo. O'r herwydd, rwyf o'r farn bod cymalau 56 a 60 yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus, economi a busnes, sy’n faterion datganoledig, a’u bod, felly, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Cysylltiadau rhwng yr UE a’r DU a Digonolrwydd Data**
O ran bod y Deyrnas Unedig yn cadw at y gofynion sydd gan yr UE mewn perthynas â digonolrwydd data, rydym ni, fel chithau, yn pryderu y gallai darpariaethau yn y Bil beryglu hynny. Nodaf hefyd fod y ddau Bwyllgor wedi tynnu sylw at y ffaith bod yr angen i gydymffurfio â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA), sy'n gosod dyletswyddau mewn perthynas â materion a gwmpesir gan y Bil, yn fater arall sy’n peri pryder.

Yn unol â barn y ddau Bwyllgor, nid ydym ni ychwaith yn credu mai mater sy’n berthnasol i fasnach yn unig yw’r risg sy’n gysylltiedig â digonolrwydd data. Mae bodloni gofynion digonolrwydd yr UE yn golygu ei fod yn cydnabod bod y DU yn diogelu data personol i’r un graddau yn union â'r UE, gan olygu bod data personol yn gallu llifo'n ddilyffethair rhwng yr UE a'r DU, gan gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â busnesau preifat.

Rydym, wrth gwrs, wedi ystyried effaith y Bil ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a'n barn ni yw bod darpariaethau'r Bil ar drosglwyddo data personol i drydydd gwledydd yn cydymffurfio â’r darpariaethau yn y Cytundeb hwnnw, sy'n rhai byr iawn ac yn rhai ar lefel uchel.

**Defnyddio pwerau**
Nodaf y byddai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad wedi’i chael yn ddefnyddiol pe bai'r cyfeiriad sydd i’w weld yng nghymal 98 o'r Bil (cymal 92 fel y'i cyflwynwyd) at ddefnyddio pŵer Harri'r VIII (a oedd yn bod cynt) wedi'i gynnwys yn y memorandwm gwreiddiol.

Rwyf hefyd yn nodi barn y Pwyllgor hwnnw ar ddefnyddio pwerau cydredol plws ac ar weithredu cytundebau gofal iechyd rhyngwladol a sut y gellid ailgymhwyso hynny i cytundebau rhyngwladol pan fo gweithredu’r cytundebau hynny o fewn cymhwysedd datganoledig.

**Argymhellion**
Yn ogystal â nodi casgliadau'r Pwyllgorau, mae'r adroddiadau hefyd yn nodi cyfres o argymhellion ac mae fy ymateb i bob un o'r rheini i’w gweld yn y tabl isod:

| |
|---|
| **Argymhelliad CCWLSIRC**<br>Yng ngoleuni’r risgiau posibl a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfyniad yr UE ar ddigonolrwydd data y DU, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi diweddariadau rheolaidd i’r Pwyllgor am effaith y Bil ar gysylltiadau rhwng y DU a’r UE, gan gynnwys trafodaethau rhynglywodraethol ar y Bil wrth iddo fynd drwy Senedd y DU ac yn barhaus pe bai’n cael ei ddeddfu.<br><br>**Ymateb:** Byddaf yn parhau i fynd ati’n rheolaidd i roi’r wybodaeth ddiweddaraf am effaith bosibl y Bil ar gysylltiadau rhwng yr UE a'r DU drwy'r |

| |
|---|
| broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, yn enwedig mewn perthynas â phryderon am benderfyniad yr UE ar ddigonolrwydd data, hyd nes y byddaf yn fodlon na fydd y Bil yn effeithio ar ofynion digonolrwydd data yr UE. |
| **Argymhelliad 1 LJCC**. Dylai'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ac i'r Senedd erbyn 6 Medi 2023 neu wrth osod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf, pa un bynnag sydd gyntaf, am ystyriaeth Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ledled y DU ynghylch datgelu gwybodaeth a'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chymal 56 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 60 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).<br><br>**Ymateb:** Mae fy swyddogion yn parhau i ystyried effeithiau’r cymal hwn ar Gymru ac ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i ystyried a yw’n addas ar eu cyfer, ac maent yn parhau i drafod gyda’u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny drwy'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. |
| **Argymhelliad 2 LJCC.** Dylai'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ac i'r Senedd erbyn 6 Medi 2023 neu wrth osod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf, pa un bynnag sydd gyntaf, am ystyriaeth Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau mewn perthynas â chymalau 61 i 77 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymalau 65 i 81 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).<br><br>**Ymateb:** Mae fy swyddogion yn parhau i ystyried a fyddai pwerau rheoleiddio yn addas ai peidio ac maent yn parhau i drafod gyda’u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny drwy'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. |
| **Argymhelliad 3 LJCC.** Pan na fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i weithredu cytundebau rhyngwladol, a bod pwerau i wneud hynny’n cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn lle hynny, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu manylion llawn ac esboniad i'r Senedd cyn i reoliadau o’r fath gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol.<br><br>**Ymateb:** Os bydd hyn yn digwydd, bydd y Senedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy'r broses arferol. |
| **Argymhelliad 4 LJCC.** Dylai'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ac i'r Senedd erbyn 6 Medi 2023 neu wrth osod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf, pa un bynnag sydd gyntaf, am ystyriaeth Llywodraeth Cymru o gymal 36 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd; bellach cymal 38 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).<br><br>**Ymateb:** Mae fy swyddogion yn ystyried y cefndir i gymal 36, a'r rhesymeg y tu ôl iddo, gyda Llywodraeth y DU er mwyn llywio’n safbwynt, ac mae’r mater hwn yn un sy’n parhau i gael ei drafod. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny drwy'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 5 LJCC**. Rydym yn cefnogi cais Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU y dylai rannu copi ar frys o'i hasesiad risg ar y Bil a cholli'r penderfyniad digonolrwydd.<br><br>**Ymateb:** Byddwn yn parhau i godi effaith bosibl y Bil ar ofynion digonolrwydd data yr UE (fel y nodir yn fy ymateb i argymhelliad 6). |
| **Argymhelliad 6 LJCC**. O ystyried y pryderon ynghylch risg bosibl colli'r penderfyniad digonolrwydd, dylai'r Prif Weinidog uwchgyfeirio'r mater hwn i drafodaethau Gweinidogol, yn hytrach na thrafodaeth swyddogol.<br><br>**Ymateb:** Mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi codi'n pryderon gyda Gweinidogion y DU ynglŷn ag effaith y Bil ar gadw data'r UE. Byddwn yn parhau i godi'r mater ar lefel swyddogion a lefel y Gweinidogion. |
| **Argymhelliad 7 LJCC.** Dylai'r Prif Weinidog roi i'r Pwyllgor hwn erbyn 6 Medi 2023 neu wrth osod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf, pa un bynnag sydd gyntaf, farn Llywodraeth Cymru am y Bil gan ei fod yn ymwneud â chydymffurfedd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.<br><br>**Ymateb:** Mae'r darpariaethau yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu sy'n ymwneud â masnach ddigidol yn fyr iawn ac yn rhai ar lefel uchel. Mae Erthygl 202 yn ymdrin â diogelu data personol a phreifatrwydd yng nghyd-destun masnach ddigidol. Ein barn ni yw bod darpariaethau'r Bil ar drosglwyddo data personol i drydydd gwledydd yn cydymffurfio â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.<br><br>Mae Rhan 3 o'r Cytundeb hwnnw yn sail i'r cydweithredu rhwng y DU a'r UE ar orfodi'r gyfraith ac ar gydweithrediad barnwrol mewn perthynas â materion troseddol. Mae'n caniatáu i'r DU barhau i gael gweld cronfeydd data'r UE, sy'n cynnwys olion bysedd, DNA a chofnodion troseddol. Mae'r cydweithredu hwn rhwng y DU a'r UE ar faterion sy'n gysylltiedig â gorfodi'r gyfraith yn hanfodol er mwyn cadw pobl yn ddiogel yng Nghymru.<br><br>Croesewir y ffaith bod cynnal safonau uchel o ran diogelu data personol yn sail i'r cydweithredu rhwng y DU a'r UE ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, oherwydd y dylai hynny ysgogi Llywodraeth y DU i gynnal y safonau diogelu data y dylai dinasyddion yng Nghymru fedru disgwyl eu gweld. Dylai safonau uchel o ran diogelu data personol leihau'r risg bosibl na fydd yr UE yn fodlon â safonau diogelu data personol y DU a dylai hynny hefyd leihau'r risg y gallai'r UE ddod â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu i ben am y rhesymau hynny.<br><br>Rwy'n cytuno â barn y Pwyllgor bod yn rhaid wrth safonau uchel o ran diogelu data oherwydd bod hynny'n sail i gydweithredu er mwyn gorfodi'r gyfraith yn rhyngwladol. Mae gan bobl yng Nghymru yr hawl i fod yn hyderus ac i deimlo'n ddiogel ynghylch sut y mae eu data personol yn cael eu defnyddio, gan gynnwys eu defnyddio at ddibenion gorfodi'r gyfraith. Byddwn yn parhau i bwysleisio hynny yn ein hymwneud â Llywodraeth y DU am y Bil. |

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog yr Economi, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a'r Cwnsler Cyffredinol. Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon hefyd at bob Aelod, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**